Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

| GŴYS A RHAGLEN | SUMMONS AND AGENDA |
| --- | --- |
| ar gyfer | for a |
| CYFARFOD O<br>GYNGOR SIR<br>YNYS MÔN | MEETING OF THE<br>ISLE OF ANGLESEY<br>COUNTY COUNCIL |
| a gynhelir yn | to be held at the |
| SIAMBR Y CYNGOR<br>SWYDDFA'R SIR<br>LLANGEFNI | COUNCIL CHAMBER<br>COUNCIL OFFICES<br>LLANGEFNI |
| DYDD MAWRTH, 27 MEDI 2016 | TUESDAY<br>27 SEPTEMBER 2016 |
| am 2.00 o'r gloch | at 2.00 pm |

**R H A G L E N**

1. **COFNODION**

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfodydd o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:-

- 12 Mai, 2016 (10.30 am)
- 12 Mai, 2016 (2.00 pm)
- 26 Mai, 2016 (Arbennig)

2. **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem ar y rhaglen.

3. **DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR.**

4. **CWESTIYNAU A DDERBYNIWYD DAN REOL 4.1.12.4 O'R CYFANSODDIAD.**

5. **CYFLWYNO DEISEBAU**

Derbyn unrhyw ddeiseb yn unol â pharagraff 4.1.11 y Cyfansoddiad.

6. **CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL**

Cyflwyno adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.

7. **ADOLYGIAD BLYNYDDOL RHEOLI TRYSORLYS 2015/16**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fel y cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 25 Gorffennaf, 2016 a'r Pwyllgor Gwaith ar 19 Medi, 2016.

8. **DATGANIAD CYFRIFON 2015/16 AC ADRODDIAD ISA 260**

Cyflwyno Datganiad Cyfrifon ac Addroddiad Archwilio Allanol ar archwilio'r Datganiadau Ariannol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 21 Medi 2016.

9. **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR STATUDOL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Trawsnewid Llywodraethiant a Phrosesau Busnes) fel Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol.

10. **Y STRATEGAETH IAITH GYMRAEG**

Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaeth) fel y cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 19 Medi, 2016.

**11. ADOLYGIAD O BOLISI GAMBLO'R AWDURDOD**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd fel y cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 19 Medi 2016.

**12. STRWYTHUR STAFFIO UWCH SWYDDOGION**

Cyflwyn adroddiad gan y Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol.

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mai, 2016 (Cyfarfod y Bore)

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Jim Evans (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd R G Parry, OBE (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, Richard Dew, Jeff Evans, Ann Griffith, John Griffith, Derlwyn Hughes, Kenneth Hughes,Vaughan Hughes, Victor Hughes, W T Hughes, Llinos Medi Huws, Aled M. Jones, Carwyn Jones, G O Jones, H. Eifion Jones, Raymond Jones, Richard O. Jones, R. Llewelyn Jones, R. Meirion Jones,Alun Mummery, Dylan Rees, J. Arwel Roberts, Nicola Roberts, Alwyn Rowlands, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau)<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes)<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mr Mike Wilson (Cadeirydd y Pwyllgor Safonau) |

---

1

**1 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o Gyngor Sir Ynys Môn a gynhaliwyd ar 10 Mawrth, 2016 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**2 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**3 CYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR**

Gwnaeth y Cadeirydd y cyhoeddiadau canlynol:

- Llongyfarchiadau i Mr Rhun ap Iorwerth ar gael ei ailethol yn Aelod Cynulliad dros Ynys Môn a dymuniadau gorau iddo yn y swydd.
- Llongyfarchiadau i Mr Arfon Jones ar gael ei ethol yn Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer Gogledd Cymru.

DRAFT

- Dymuniadau gorau i bawb sy’n cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a gynhelir yn Sir y Fflint ddiwedd y mis hwn.
- Dymuniadau gorau i bawb sy’n cystadlu yn y Sioe Wanwyn a gynhelir yn Llanfair-ym-Muallt y mis hwn.
- Dymuniadau gorau i bawb sy'n cymryd rhan yn y Rali Ffermwyr Ifanc ar 14 Mai, 2016.
- Cydymdeimlwyd â theulu'r cyn-gynghorydd David Lewis Roberts a fu farw'n ddiweddar.
- Cydymdeimlwyd â’r cyn-gynghorydd Mrs Fflur Hughes a'i theulu ar eu profedigaeth yr wythnos ddiwethaf.
- Cydymdeimlwyd hefyd ag unrhyw Aelod Etholedig neu unrhyw aelod o staff y Cyngor sydd wedi cael profedigaeth.

Safodd yr Aelodau a'r Swyddogion mewn tawelwch fel arwydd o gydymdeimlad a pharch.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Aled Morris Jones at y gwaith gwych a wnaed gan Arweinyddion Clwb Ieuenctid Penysarn, Carol Whittaker a Gordon Hayes, a phobl ifanc y clwb sydd wedi ymchwilio i'r cysylltiadau lleol o fewn y Rhyfel Byd Cyntaf ac sydd wedi llwyddo i egluro cysylltiadau teuluol unigolyn nad oedd neb yn gwybod ei hanes cyn hynny ac a enwir ar y Gofeb Ryfel ym Mhenysarn. Gofynnodd i'r Cadeirydd ysgrifennu at bobl ifanc Clwb Ieuenctid Pensarn i gydnabod eu gwaith.

**4 CYFLWYNO DEISEBAU**

Ni oedd yr un ddeiseb wedi ei derbyn yn unol â Pharagraff 4.1.11 y Cyfansoddiad.

**5 ADRODDIAD BLYNYDDOL ARWEINYDD Y CYNGOR AR GYFER 2015/16**

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol gan Arweinydd y Cyngor ar gyfer 2015/16.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at rai o'r materion allweddol yr oedd y Weinyddiaeth wedi eu hwynebu yn y flwyddyn a aeth heibio fel a ganlyn:

- Pwysau parhaus yn sgil gostyngiadau cyllidebol a'r her o ddarparu gwasanaethau o fewn cyd-destun o lymder ariannol.
- Ailstrwythuro'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.
- Sicrhau cynnydd yn erbyn amcanion y Cynllun Corfforaethol – Cynllun Gwella tymor hir y Cyngor – o dan ei chwe phrif thema.
- Datblygiadau eraill yn cynnwys cadarnhau cyfranogiad yr Awdurdod yng Nghynllun y Swyddfa Gartref ar gyfer Adleoli Unigolion Bregus Syria; gweithio i adnabod safleoedd ar gyfer sipsiwn a theithwyr; croesawu'r Eisteddfod Genedlaethol i'r Ynys yn 2017 a chwarae rhan yn natblygiad Wylfa Newydd.

Gorffennodd yr Arweinydd ei adroddiad drwy ddiolch i'r Prif Weithredwr, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Penaethiaid Adran a holl staff y Cyngor am eu gwaith caled a'u hymroddiad dros y flwyddyn ddiwethaf. Mynegodd hefyd ei werthfawrogiad o'r gefnogaeth a roddwyd gan ei gyd-gynghorwyr.

Rhoddwyd cyfle i’r Cyngor ofyn cwestiynau i'r Arweinydd ar gynnwys yr Adroddiad Blynyddol. Ceisiwyd a rhoddwyd eglurhad mewn perthynas â'r materion canlynol:

- Er mwyn rhoi hwb i'r economi leol, bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau cyfleoedd i gwmnïau sy’n lleol i Ynys Môn a'r ardal sydd union gyfagos yng nghyd-destun y datblygiadau Ynys Ynni ac yn enwedig y gwaith paratoi ar gyfer datblygu Wylfa Newydd.
- Bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi ar yr adeg briodol i gynyddu cyfranogiad yr Awdurdod yng Nghynllun y Swyddfa Gartref ar gyfer Adleoli Unigolion Bregus Syria drwy roi noddfa i fwy o ffoaduriaid bregus o Syria na’r 10 o deuluoedd / 30 o unigolion y gwnaed ymrwymiad yn eu cylch dros y tair blynedd nesaf.

DRAFT

- O ran y rhaglen Ynys Ynni a datblygiad Wylfa Newydd, bydd pob ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r angen i liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar gymunedau ac yn enwedig ar bentref Tregele a'i drigolion fel cymuned a fydd yn gweld gwaith adeiladu mawr.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.**

**6 Y SAFONAU IAITH GYMRAEG A PHOLISI IAITH Y CYNGOR**

Cyflwynwyd, i'w gymeradwyo gan y Cyngor, adroddiad y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau) a oedd yn ymgorffori drafft o'r Polisi Iaith Gymraeg arfaethedig.

Adroddwyd bod y Pwyllgor Gwaith, yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Ebrill, 2016 wedi penderfynu –

- Cymeradwyo'r Polisi Iaith ac awdurdodi'r swyddogion perthnasol, mewn ymgynghoriad â'r Deilydd Portffolio, i gwblhau unrhyw waith golygu pellach i'r polisi drafft cyn ei gyflwyno i'r Cyngor llawn;
- Argymell i'r Cyngor Sir y dylid mabwysiadu Polisi Iaith Gymraeg y Cyngor fel mater o ddewis lleol a newid Fframwaith Polisi'r Cyngor fel a ganlyn er mwyn adlewyrchu hynny:
    - Dileu 'Cynllun Iaith Gymraeg' o'r rhestr o gynlluniau y mae'n rhaid i'r Cyngor eu mabwysiadu yn ôl y gyfraith (rhan 3.2.2.1.1 y Cyfansoddiad)
    - Cynnwys y 'Polisi Iaith Gymraeg' o dan y rhestr o'r cynlluniau a'r strategaethau eraill y penderfynodd y Cyngor y dylai'r Cyngor llawn eu mabwysiadu fel mater o ddewis lleol (rhan 3.2.2.1.3 y Cyfansoddiad)

Adroddodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau) ar y cyd-destun a dywedodd y bydd cynnydd yn cael ei fonitro'n flynyddol.

Cynigiodd y Cynghorydd Llinos Medi Huws welliant i baragraff 3.2.4 y Polisi i'r perwyl y bydd y Cyngor yn monitro cynnydd yn flynyddol trwy gyhoeddi adroddiad arno i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini ar yr un pryd â'r adroddiad blynyddol ar weithrediad y Polisi Iaith Gymraeg. Eiliodd y Cynghorydd R. Meirion Jones y cynnig a chymeradwywyd y gwelliant gan y Cyngor.

**Penderfynwyd cymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Gwaith a chymeradwyo'r Polisi Iaith Gymraeg ar gyfer y Cyngor, fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad yn amodol ar y newid i baragraff 3.2.4 a amlinellwyd.**

**7 YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL**

Cyflwynwyd i'r Cyngor ei gymeradwyo, adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a'r Swyddog Monitro ynglŷn â dirprwyo grymoedd a ymgorfforir yn Neddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlismona 2014 i swyddogion priodol yn y Cyngor.

Dywedwyd bod y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Ebrill, 2016 wedi penderfynu fel a ganlyn:

*Argymell i'r Cyngor llawn ei fod yn:*

- *Mabwysiadu'r pwerau a gynhwysir yn Neddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol,Trosedd a Phlismona 2014 mewn perthynas â gwaharddebau sifil, rhybuddion a gorchmynion gwarchod cymunedol, rhybuddion a gorchmynion cau, rhesymau absoliwt ar gyfer cael meddiant o anheddau, gorchmynion gwarchod mannau cyhoeddus a gorchmynion cau adeiladau.*
- *Cytuno i ddiwygio'r cynllun dirprwyo i swyddogion yn y Cyfansoddiad er mwyn dirprwyo'r hawl i weithredu'r pwerau fel y cawsant eu mabwysiadu ymhlith y Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.*

DRAFFT

- *Rhoi awdurdod i'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro wneud y newidiadau angenrheidiol i'r cynllun dirprwyo i swyddogion yn y Cyfansoddiad i adlewyrchu'r ffaith fod y pwerau a gynhwysir yn y Ddeddf y sonnir amdanynt yn yr adroddiad hwn wedi cael eu mabwysiadu a'u dirprwyo.*

**Penderfynwyd cymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Gwaith, a**

- **Mabwysiadu'r pwerau a gynhwysir yn Neddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlismona 2014 mewn perthynas â gwaharddebau sifil, rhybuddion a gorchmynion gwarchod cymunedol, rhybuddion a gorchmynion cau, rhesymau absoliwt ar gyfer cael meddiant o anheddau, gorchmynion gwarchod mannau cyhoeddus a gorchmynion cau adeiladau.**
- **Cytuno i ddiwygio'r cynllun dirprwyo i swyddogion yn y Cyfansoddiad er mwyn dirprwyo'r hawl i weithredu'r pwerau fel y cawsant eu mabwysiadu ymhlith y Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.**
- **Rhoi awdurdod i'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro wneud y newidiadau angenrheidiol i'r cynllun dirprwyo i swyddogion yn y Cyfansoddiad i adlewyrchu'r ffaith fod y pwerau a gynhwysir yn y Ddeddf y sonnir amdanynt yn yr adroddiad hwn wedi cael eu mabwysiadu a'u dirprwyo.**

## 8 CÔD YMDDYGIAD NEWYDD AR GYFER AELODAU

Cyflwynwyd, i'w gymeradwyo gan y Cyngor, adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro yn nodi newidiadau i'r Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau.

**Penderfynwyd -**

- **Nodi'r newidiadau yn y Côd.**
- **Awdurdodi'r Swyddog Monitro i newid y Cyfansoddiad i ymgorffori'r newidiadau i'r Côd a chyhoeddi'r newidiadau yn unol â gofynion Adran 51 (b) Deddf Llywodraeth Leol 2000.**

## 9 DOGFEN GYFLWAWNI FLYNYDDOL (CYNLLUN GWELLA) 2016/17

Cyflwynwyd i'w gymeradwyo gan y Cyngor, adroddiad y Pennaeth Trawsnewid a oedd yn ymgorffori'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol ddrafft ar gyfer 2016/17.

Adroddwyd bod y Pwyllgor Gwaith, yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Ebrill, 2016 wedi penderfynu fel a ganlyn:

- *Awdurdodi Swyddogion trwy'r Aelod Portffolio i ymgymryd â'r dasg o gwblhau'r drafft terfynol ac argymell i'r Cyngor llawn fabwysiadu'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer 2016/17 yn ei gyfarfod a gynhelir ar 12 Mai, 2016.*
- *Cadarnhau bod modd cyflawni'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol fel cynllun sy'n nodi gwaith y Cyngor ac sydd wedi'i alinio â blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol y rhaglennwyd eu cyflawni yn ystod 2016/17.*

**Penderfynwyd cymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Gwaith a chymeradwyo'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol (Cynllun Gwella) ar gyfer 2016/17.**

## 10 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU AR GYFER 2015/16

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar gyfer 2015/16 gan y Cynghorydd Robert Llewelyn Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

Crynhodd y Cynghorydd Robert Llewelyn Jones waith y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ystod y flwyddyn a chyfeiriodd yn benodol at bwysigrwydd Rheoli Risg, Gweithgareddau Atal Twyll a monitro sut mae Rheolwyr yn gweithredu argymhellion Archwilio o ran gwaith y Pwyllgor ac i sicrhau bod trefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor yn gadarn.

DRAFT

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.**

**11 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGORAU SGRIWTINI AR GYFER 2015/16**

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Sgriwtini ar gyfer 2015/16 gan y Cynghorydd R. Meirion Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a chan y Cynghorydd Derlwyn Hughes, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

Cyfeiriodd Cadeiryddion y Pwyllgorau Sgriwtini at rôl esblygol sgriwtini ac at effeithiolrwydd y defnydd cynyddol a wnaed yn ystod y flwyddyn o banelau canlyniad sgriwtini i gynnal adolygiadau manwl o feysydd penodol yn ogystal â sgriwtini cyn gwneud penderfyniad er mwyn helpu i lunio a llywio penderfyniadau.

**Penderfynwyd -**

- **Nodi a chymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Sgriwtini ar gyfer 2015/16**
- **Penodi Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn "Eiriolydd Sgriwtini" o fis Mai, 2016 i fis Mai, 2017.**

**12 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD AR GYFER 2015/16**

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer 2015/16 gan y Cynghorydd Vaughan Hughes, Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi'r materion a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn ystod 2015/16.**

**13 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU AR GYFER 2015/16**

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2015/16 gan Mr Mike Wilson, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau.

Crynhodd Mr Mike Wilson y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Safonau yn erbyn yr amcanion yn ei Raglen Waith ar gyfer 2015/16 fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad a chyfeiriodd yn benodol at batrwm o welliant o ran nifer y cwynion ac at yr adolygiad o’r Cofrestrau o Diddordebau Aelodau a chanlyniad yr adolygiad. Bydd ffocws y Pwyllgor yn 2016/17 ar baratoi ar gyfer yr hyfforddiant a fydd yn dilyn yr etholiadau lleol ym mis Mai, 2017.

**Penderfynwyd:**

- **Nodi gweithgareddau'r Pwyllgor Safonau yn 2015/16.**
- **Cymeradwyo Rhaglen y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2016/17 fel yr amlinellwyd hi yn Atodiad B yr adroddiad.**

**Y Cynghorydd Jim Evans**
**Cadeirydd**



DRAFT

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar 12 Mai 2016

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Jim Evans (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Robert G Parry OBE (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, R Dew, Jeff M. Evans, Ann Griffith, John Griffith, D R Hughes, K P Hughes, T Ll Hughes, Vaughan Hughes, Victor Hughes, W T Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, Carwyn Jones, G O Jones, H E Jones, Raymond Jones, R Ll Jones, R.Meirion Jones, Richard Owain Jones, Alun W Mummery, Dylan Rees, J A Roberts, Nicola Roberts, Alwyn Rowlands, Dafydd Rhys Thomas a Ieuan Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (CT),<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (AM),<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro,<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Neb |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |

**1. CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Bob Parry OBE FRAgS yn Gadeirydd y Cyngor Sir ar gyfer 2016/17.**

Wrth dderbyn yr anrhydedd o gael ei benodi, sicrhaodd y Cynghorydd Parry y byddai'n ymdrechu i gyflawni ei ddyletswyddau fel Cadeirydd hyd eithaf ei allu. Diolchodd i'w ragflaenydd, y Cynghorydd Jim Evans am y ffordd urddasol ac anrhydeddus yn yr oedd wedi cyflawni ei ddyletswyddau dinesig fel Cadeirydd y Cyngor Sir.

Diolchodd y Cadeirydd ymadawol, y Cynghorydd Jim Evans, i’r holl Aelodau a'r Swyddogion am eu cefnogaeth yn ystod ei gyfnod yn y swydd ac yn arbennig i'r Adran Gwasanaethau Democrataidd. Rhoddodd y Cynghorydd Evans grynodeb o uchafbwyntiau ei flwyddyn fel Cadeirydd y Cyngor gan gynnwys codi £ 2,800 yn ystod y Noson Elusennol a gynhaliwyd yng Ngwesty Carreg Bran, Llanfairpwll. Rhannwyd yr arian a godwyd rhwng Tŷ Gobaith a Ward Plant Ysbyty Gwynedd.

2 **IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Richard O. Jones yn Is-Gadeirydd y Cyngor Sir ar gyfer 2016/17.**

Diolchodd y Cynghorydd Richard O. Jones i'w gyd-Aelodau am yr anrhydedd a dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at weithio gyda'r Cadeirydd a’i gynorthwyo yn ei ddyletswyddau yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

**3 DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR**

Cyhoeddodd y Cadeirydd y byddai gwasanaeth Sul y Cadeirydd yn cael ei gynnal yng Nghapel Moriah, Llangefni ar 3 Gorffennaf, 2016.

**4 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Dywedodd y Cadeirydd fod rhai Aelodau o'r Cyngor Sir wedi holi a ddylent ddatgan diddordeb mewn perthynas ag Eitem 9 - Cynllun Taliadau Cydnabyddiaeth Aariannol i Aelodau 2016/17. Ymatebodd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro bod yna ddiddordeb personol mewn perthynas ag Eitem 9 dan y Côd Ymddygiad i Aelodau ond bod darpariaeth yn y Côd a oedd yn dweud nad oedd y diddordeb yn un sy'n rhagfarnu ac felly gall pob Aelod gymryd rhan yn y drafodaeth ar yr eitem ar y sail honno.

**5 DIRPRWYO GAN YR ARWEINYDD / AELODAETH Y PWYLLGOR GWAITH**

Yn unol â Pharagraff 4.1.1.2 y Cyfansoddiad, enwodd yr Arweinydd yr Aelodau canlynol fel y rhai yr oedd wedi eu dewis i wasanaethu ar y Pwyllgor Gwaith ynghyd â'u cyfrifoldebau Portffolio: -

Y Cynghorydd Richard Dew gyda chyfrifoldeb am y Portffolio Cynllunio a Datblygu Economaidd
Y Cynghorydd Kenneth P. Hughes gyda chyfrifoldeb am y Portffolio Addysg
Y Cynghorydd Aled Morris Jones gyda chyfrifoldeb am y Portffolio Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol
Y Cynghorydd H. Eifion Jones gyda chyfrifoldeb am y Portffolio Cyllid
Y Cynghorydd J. Arwel Roberts gyda chyfrifoldeb am y Portffolio Priffyrdd, Eiddo a Rheoli Gwastraff
Y Cynghorydd Alwyn Rowlands gyda chyfrifoldeb am y Portffolio Adnoddau Dynol, Technoleg Gwybodaeth a Busnes y Cyngor
Y Cynghorydd Ieuan Williams (Arweinydd) gyda chyfrifoldeb am y Rhaglen Ynys Ynni a Phrosiectau Mawr

**6 ETHOL CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD AM 2016/17**

**Yn unol â Pharagraff 3.4.12.3, PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Vaughan Hughes yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd am 2016/17.**

**7 CADARNHAU’R CYNLLUN DIRPRWYO**

**PENDERFYNWYD cadarnhau’r cyfryw ran o’r Cynllun Dirprwyo y mae’r Cyfansoddiad yn nodi mai swyddogaeth y Cyngor yw cytuno iddo fel y nodir yn Rhan 3.2 y Cyfansoddiad.**

**8 CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL**

Cyflwynwyd i'w ystyried, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ynghylch trefniadau cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Cadarnhau'r trefniadau cydbwysedd gwleidyddol a nifer y seddau a ddyrannwyd i bob un o'r Grwpiau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, a nifer y seddi a roddir yn unol â defod ac arfer i Aelodau nad ydynt yn destun cydbwysedd gwleidyddol fel y nodir yn y matrics a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad;**
- **Yn amodol ar yr uchod, cadarnhau bod y seddi a roddwyd i Aelodau digyswllt yn parhau ar sail y penodiadau cyfredol;**

- **Bod Arweinwyr y Grwpiau yn rhoi gwybod i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd cyn gynted â phosib os oes unrhyw newidiadau i Aelodaeth eu Grwpiau ar Bwyllgorau.**

**9. CYNLLUN CYDNABYDDIAETH ARIANNOL I AELODAU 2016/17**

Cyflwynwyd i'w ystyried, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar y Cynllun Cydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau ar gyfer 2016/17.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Cadarnhau y dylai'r uwch gyflogau fod yn daladwy i'r deiliaid swyddi canlynol yn ystod 2016/17: -**

**Cadeirydd y Cyngor**
**Is-Gadeirydd y Cyngor**
**Arweinydd y Cyngor**
**Dirprwy Arweinydd y Cyngor**
**Aelodau eraill y Pwyllgor Gwaith (5)**
**Cadeirydd y ddau Bwyllgor Sgriwtini**
**Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion**
**Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio**
**Arweinydd yr Wrthblaid Fwyaf**

- **Cymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mawrth, 2016 mewn perthynas â thalu uwch gyflogau (fel yr amlinellir ym mharagraff 2.11 yr adroddiad) a chadarnhau lefel yr uwch gyflogau yn ystod 2016/17 ar gyfer: -**

  **Aelodau'r Pwyllgor Gwaith**
  **Cadeiryddion Pwyllgorau**
  **Pennaeth Dinesig a Dirprwy Bennaeth Dinesig**

- **Nodi manylion eraill taliadau a lwfansau ar gyfer 2016/17 fel a ragnodir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol fel y nodwyd yn yr adroddiad.**

**10 CYRFF ALLANOL**

Cyflwynwyd i'w ystyried, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn gofyn am gadarnhau'r rhestr o benodiadau a wneir i gyrff allanol.

**PENDERFYNWYD cadarnhau'r penodiadau fel y manylir yn yr atodlen a gyflwynwyd i'r Pwyllgor.**

**11 CYNLLUN DATBLYGU AELODAU 2016/17**

Cyflwynwyd i'w ystyried, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn ymgorffori Cynllun Datblygu Aelodau ar gyfer 2016/17.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu ac ymgymryd â'r Cynllun Hyfforddiant i Aelodau fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.**

**12 AMSERLEN CYFARFODYDD Y CYNGOR AM 2016/17**

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r rhaglen ganlynol o gyfarfodydd cyffredin y Cyngor Sir ar gyfer y flwyddyn i ddod: -**

- **27 Medi 2016 am 2.00 pm**
- **15 Rhagfyr 2016 am 2.00 pm**
- **Chwefror 28, 2017 am 2.00 pm**
- **Mai, 2017 (Cyfarfod Blynyddol) - dyddiad i'w gadarnhau.**

**13 CADARNHAU PWYLLGORAU**

Cadarnhaodd y Cadeirydd ailbenodi'r strwythur Pwyllgorau fel y cyfeirir ato yn Adran 3.4 yng Nghyfansoddiad y Cyngor, ynghyd â'r canlynol: -

- **Panel Tâl a Graddfeydd**
- **Panel Penodi i'r Pwyllgor Safonau**
- **Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol**
- **Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig**
- **Is-Bwyllgor Indemniadau**

Daeth y cyfarfod i ben am 2.30 pm

**Y CYNGHORYDD BOB PARRY FRAgS OBE**
**CADEIRYDD**

1

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mai 2016

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Robert G Parry OBE FRAgS (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, Ann Griffith, K P Hughes, Vaughan Hughes, Victor Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, H E Jones, Raymond Jones, Alun W Mummery, Dylan Rees, J A Roberts, Nicola Roberts ac Ieuan Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (AM),<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro,<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,<br>Prif Swyddog Cynllunio (EGJ),<br>Swyddog Achos Arweiniol (AO),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Dim |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr R Dew, John Griffith, T Ll Hughes, W T Hughes, Carwyn Jones, G O Jones, R.Meirion Jones, Richard Owain Jones, Alwyn Rowlands a Dafydd Rhys Thomas |

1. **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Dim.

2 **YMATEB CYNGOR SIR YNYS MÔN I'R DATGANIAD DRAFFT TERFYNOL GAN NATIONAL GRID ELECTRICITY TRANSMISSION LTD (Y GRID CENEDLAETHOL) YNGHYLCH YMGYNGHORI Â'R GYMUNED**

Cyflwynwyd - adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd ynghyd ag ymateb ffurfiol drafft i'r Grid Cenedlaethol gan y Prif Weithredwr.

Rhoddodd y Prif Swyddog Cynllunio gyflwyniad byr i'r Cyngor Sir ar y Datganiad o Ymgynghori Cymunedol. Dywedodd mai hon oedd y broses mewn perthynas â Ddeddf Cynllunio 2008. Mae Adran 47 o Ddeddf Cynllunio 2008 yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeisydd baratoi 'Datganiad o Ymgynghori Cymunedol' (Y Datganiad) sy'n nodi sut mae'r ymgeisydd yn bwriadu ymgynghori â'r gymuned leol ynghylch cais arfaethedig am ganiatâd datblygu. Nodwyd mai'r adroddiad a gyflwynwyd i'r

Pwyllgor yw sylwadau Cyngor Sir Ynys Môn mewn perthynas â'r broses. Yn unol ag Adran 47(2), ar ôl derbyn gwybodaeth am gynigion yr ymgeisydd bydd pob awdurdod lleol y mae'r cyfryw gynigion yn dod o fewn ei ffiniau yn cael 28 diwrnod i gyflwyno sylwadau ynghylch beth sydd i'w gynnwys yn y Datganiad. Unwaith y cyhoeddir y Datganiad mae'n rhaid i ymgeiswyr, yn unol ag Adran 47(6), drefnu i'r Datganiad fod ar gael i'w archwilio gan y cyhoedd a chyhoeddi hysbysiad yn nodi ym mhle a pha bryd y gellir ei archwilio.

Dywedodd y rhagwelir y bydd y Grid Cenedlaethol yn rhyddhau dogfen ymgynghori ym mis Mehefin / Gorffennaf ynghylch Croesi Afon Menai. Dylai Adroddiad ar yr Atborth i'r Ymgynghoriad Cam 2 fod ar gael yn haf 2016. Cynhelir ymgynghoriad statudol ym mis Hydref 2017 ynghylch Ymgynghoriad Adran 42/47 a bydd angen cytuno Datganiad o Dir Cyffredin gyda'r Grid Cenedlaethol. Rhagwelir y bydd y ceisiadau cynllunio, os o gwbl, yn cael sylw gan y Cyngor ym mis Hydref 2017 o dan y Ceisiadau Cynllunio Gwlad a Thref (CCGT).

Amlinellodd y Swyddog Arweiniol y prif themâu a nodwyd gan y Cyngor Sir yn y Datganiad : -

- **Y broses Ganiatáu -** Nid oes gwahaniaeth clir rhwng y cais Gorchymyn Caniatâd Datblygu (GCD) a'r Ceisiadau Cynllunio Gwlad a Thref (CCGT) ac ystyrir bod yr eglurhad ar y datblygiad cysylltiedig o fewn y Datganiad yn annigonol i fedru penderfynu pa fathau o waith sy'n syrthio i'r gwahanol gategorïau. Yn y Datganiad Drafft Terfynol mae'r Grid Cenedlaethol wedi cyflwyno diagram llif o'r broses ar gyfer GCD. Teimlir y byddai'n ddefnyddiol cael llinell amser i roi syniad o ba bryd y cyflwynir ac yr archwilir y cais GCD, gan gynnwys y cyfnodau adeiladu, fel bod y cyhoedd yn cael gwybod am y camau nesaf yn y broses a'r amserlen debygol. Nododd fod angen i'r ddogfen ymgynghori fod yn glir ynghylch sgôp yr amserlen ar gyfer unrhyw geisiadau GCD a bod angen ei hatgyfnerthu.

- **Cynllun Ymgysylltu -** Cyfeiriodd y Swyddog at y Cynllun Ymgysylltu a dywedodd y caiff ei gyflwyno gyda'r Datganiad cyn yr ymgynghoriad; bydd yn tynnu sylw at fanylion ynghylch lleoliadau'r arddangosfeydd cyhoeddus o fwriadau'r Grid Cenedlaethol. Mae'n hanfodol bod y Cyngor yn cael gweld y Cynllun Ymgysylltu yn gynnar a'i fod yn cytuno ar sut y trefnir i'r ddogfen fod ar gael i'r cyhoedd ei gweld.

- **Parth Ymgynghori -** Mae angen mwy o fanylion gan y Grid Cenedlaethol o ran y Parthau Ymgynghori a sut maent yn bwriadu ymgynghori gyda'r ardaloedd sydd y tu allan i'r parthau ymgynghori a nodwyd. Ar hyn o bryd mae'n anodd nodi pa ardaloedd yw'r rhain hyd nes bod y Grid Cenedlaethol wedi rhoi cynllun o'r parthau ymgynghori i'r Cyngor yn gyntaf. Dylai fod cyswllt clir a thryloyw rhwng yr effeithiau y rhagwelir y byddant yn deillio o'r cynigion a maint y parth ymgynghori. Mae'r cynnig gan y Grid Cenedlaethol i ymestyn y parth ymgynghori

o 2km i'r 3km yng nghyffiniau'r prosiect yn parhau i fod heb sail dystiolaeth sy'n tystio i'w briodoldeb. Bydd y Cyngor yn gofyn am eglurhad rhesymegol ynghylch pam mae'r Grid Cenedlaethol wedi ymestyn y parth ymgynghori gwreiddiol o 2km i 3km a pham nad yw parth ymgynghori 5km yn cael ei ystyried fel y gofynnwyd gan y Cyngor.

- **Amseriad yr Ymgynghoriad -** O ran amseriad yr ymgynghoriad, mae angen i'r Grid Cenedlaethol fod yn ymwybodol o brosiectau lleol eraill megis cynigion Pŵer Niwclear Horizon ar gyfer Wylfa Newydd . Mae angen cadarnhad ynghylch pa bryd y cyhoeddir yr Adroddiad ar yr Atborth i'r Ymgynghoriad Cam 2 a sicrhau ei fod yn cael ei gyhoeddi cyn i'r ymgynghoriad statudol ddechrau yn hydref 2016.

Dywedodd y Swyddog Arweiniol bod angen gwneud gwaith mewn perthynas â grwpiau 'anodd eu cyrraedd' / ymwelwyr / grwpiau diddordeb lleol. Nododd nad oes unrhyw Ganolfannau Croeso ar yr Ynys, dim ond pwyntiau gwybodaeth i dwristiaid o fewn yr aneddiadau allweddol. Mae'r Cyngor Sir yn disgwyl i'r Grid Cenedlaethol wneud defnydd llawn o'r cyfleusterau / hybiau hyn o fewn y gymuned.

- **Camau Lliniaru** – Nid yw'r Datganiad yn cynnwys manylion gan y Grid Cenedlaethol ar sut y mae'r cwmni yn bwriadu ymgynghori â'r gymuned leol ar fesurau lliniaru arfaethedig a chyfleoedd ar gyfer gwelliannau amgylcheddol neu iawndal. Mae angen gwybodaeth ddigonol ynghylch prosesau ar gyfer datblygu mesurau lliniaru fel y gall y cymunedau lleol ddarparu adborth gwybodus yn eu cylch.

- **Ymgynghori Effeithiol (a fydd y Datganiad yn arwain at ymgynghoriad effeithiol?)** - 'roedd y Grid Cenedlaethol wedi cynnal 2 ymgynghoriad anstatudol yn 2012 ar ei ddewisiadau strategol a'r opsiynau llwybr yn 2015. Fodd bynnag, mae'n ymddangos o'r Datganiad nad yw'r Grid Cenedlaethol ond yn bwriadu cynnal ymgynghoriad un cam ar y llwybr y bydd yn ei ddewis ar gyfer y ceblau ac mae hyn yn codi nifer o faterion o ran sgôp yr ymgynghoriad o fewn y Datganiad. Mae'n hollbwysig bod yr ymgynghoriad yn ymgysylltu â chymaint o bobl ag y bo modd a bod y dogfennau ymgynghori'n dangos yn glir sut y penderfynwyd ar y llwybr a ddewisir ac i ba raddau y cymerwyd yr ymgynghoriadau anstatudol i ystyriaeth wrth benderfynu ar y llwybr hwnnw.

Dywedodd y Swyddog Arweiniol bod yna nifer o faterion sydd angen rhagor o sylw cyn y gall y Cyngor fod yn hyderus y bydd y Datganiad yn arwain at ymgynghoriad cymunedol effeithiol.

Rhoddodd Aelodau'r Cyngor Sir sylw i'r adroddiad a gwnaethpwyd y sylwadau canlynol arno: -

- Mae angen i'r Grid Cenedlaethol ymateb ynghylch pam nad yw'n ystyried parth ymgynghori 5km fel y gofynnwyd gan y Cyngor Sir yn flaenorol.

- Dylid hysbysu’r Grid Cenedlaethol eto nad yw’r Cyngor Sir wedi newid ei safbwynt, sef na ddylid adeiladu unrhyw linellau a cheblau trawsyrru trydan ychwanegol ar draws yr Ynys ac Afon Menai.
- Codwyd cwestiynau ynghylch addasrwydd y pwyntiau gwybodaeth i dwristiaid oherwydd diffyg Canolfan Groeso ar yr Ynys. Ymatebodd y Prif Swyddog Cynllunio y bydd yn codi cwestiynau yn y Cynllun Ymgysylltu ynglŷn â ble mae'r Grid Cenedlaethol yn bwriadu hysbysebu gwybodaeth mewn perthynas â’r datblygiad pwysig hwn. Pwysleisiwyd eto bod angen i wybodaeth fod ar gael i holl drigolion yr Ynys.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Derbyn yr adroddiad a gofyn am ddrafft diwygiedig pellach gan y Grid Cenedlaethol cyn iddo fod wedi ei gwblhau;**
- **Gan gyfeirio at yr uchod, awdurdodi'r Prif Weithredwr i gytuno i'r ddogfen ddiwygiedig cyn i’r Datganiad fod wedi ei gwblhau;**
- **Dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr wneud diwygiadau ac amrywiadau yr ystyrir yn rhesymol bod eu hangen cyn cyflwyno ymateb ffurfiol y Cyngor;**
- **Dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr gymeradwyo Cynllun Ymgysylltu’r Grid Cenedlaethol;**
- **Cymeradwyo'r safbwynt a sefydlwyd eisoes gan y Cyngor, sef na ddylid adeiladu llinellau a cheblau trawsyrru trydan ychwanegol ar draws Ynys Môn ac Afon Menai.**

Daeth y cyfarfod i ben am 10.30 am

**Y CYNGHORYDD BOB PARRY FRAgS OBE**
**CADEIRYDD**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **27 MEDI 2016** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **TREFNIADAU CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL YN Y CYNGOR** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **PENNAETH Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **RHOI SYLW I FATER CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL AR BWYLLGORAU** |

1.0 Yn dilyn ymddiswyddiad y Cynghorydd W.T. Hughes o'r grwp Annibynnol mae angen i'r Cyngor adolygu'r trefniadau cydbwysedd gwleidyddol.

2.0 Nodir yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 y prif egwyddorion sy'n rheoli cydbwysedd gwleidyddol, sef:

*"(a) that not all the seats on the body are allocated to the same political group;*

*(b) that the majority of the seats on the body is allocated to a particular political group if the number of persons belonging to that group is a majority of the Authority's membership;*

*(c) subject to (a) and (b) above, the number of seats on the ordinary committees of a relevant Authority which are allocated to each political group bears the same proportion to the total of all the seats on the ordinary committees of that Authority as is borne by the number of members of that group to the membership of the Authority; and*

*(d) subject to paragraphs (a) to (c) above, that the number of the seats on the body which are allocated to each political group bears the same proportion to the number of all the seats on that body as is borne by the number of members of that group to the membership of the Authority."*

3.0 O ran Aelodaeth Grwpiau mae'r sefyllfa fel yr oedd ar adeg cyflwyno adroddiad i'r Cyngor ar 14 Mai 2015 sef:-

| | | |
|---|---|---|
| Plaid Cymru | - | 12 |
| Llafur | - | 2 |
| Grŵp Annibynnol | - | 11 |
| Grŵp Chwyldroad | - | 2 |
| Digyswllt | - | 3 |

4.0 Mae’r Matrics yn yr atodiad yn nodi faint o seddi a ddyrennir i bob grŵp ynghyd â nifer y seddau a ddyrennir i aelodau digyswllt yn unol â chonfensiwn lleol.Yn sylfaenol, mae’r newid yn golygu gostyngiad o 4 sedd ar draws yr holl bwyllgorau i’r Grŵp Annibynnol

5.0 Yn unol â’r protocolau sy’n ymwneud â rheolaeth wleidyddol, mae’r trefniadau ar gyfer rheolaeth wleidyddol wedi cael eu trafod gydag Arweinyddion y Grwpiau.

6.0 **Argymhellion:-**

(i) cadarnhau’r trefniadau cydbwysedd gwleidyddol a nifer y seddau a ddyrannwyd i bob un o’r Grwpiau yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 a nifer y seddau a ddyrannwyd yn ôl traddodiad ac arfer i Aelodau nad yw cydbwysedd gwleidyddol yn berthnasol iddynt ac fel y nodir yn y matrics;

(ii) yn amodol ar (i) uchod cadarnhau seddi ar gyfer aelodau di gyswllt ac apwyntiadau i bwyllgorau.

(iii) bod Arweinydd y Cyngor yn darparu gwybodaeth i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ynghylch aelodaeth y Grŵp Annibynnol ar bwyllgorau yn sgil y newidiadau.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**
**19/09/16**

| Medi 2016 |
|---|
| September 2016 |

| Balans ar y Cyngor Sir<br>Balance on County Council | |
|---|---|
| Plaid Cymru<br>Party of Wales | 12 |
| Llafur<br>Labour | 2 |
| Grwp Annibynnol<br>Independent Group | 11 |
| Grwp Chwyldroad<br>Revolutionist Group | 2 |
| Heb Ymaelodi*<br>Unaffiliated* | 3 |
| | 30 |

| **PWYLLGORAU CRAFFU A THROSOLWG<br>SCRUTINY AND OVERVIEW COMMITTEES** | | | |
|---|---|---|---|
| **Pwyllgorau**<br>**Committees** | Partneriaeth<br>Partnership | Corfforaethol<br>Corporate | Cyfanswm Craffu<br>Total Scrutiny |
| Aelodaeth<br>Membership | 10 | 10 | 20 |
| | *4*<br>4 | *4*<br>4 | *8*<br>8 |
| | *0.666667*<br>1 | *0.66667*<br>0 | *1.33333*<br>1 |
| | *3.666667*<br>4 | *3.66667*<br>4 | *7.33333*<br>8 |
| | *0.666667*<br>0 | *0.66667*<br>1 | *1.33333*<br>1 |
| | *1*<br>1 | *1*<br>1 | *2*<br>2 |
| | *10*<br>10 | *10*<br>10 | *20*<br>20 |

| ALLWEDD | KEY |
|---|---|
| *Chwith uchaf, italic = hawl ffracsiynol damcaniaeth* | |
| *Top left, italic, theoretical fractional entitlement* | |
| Dde isaf, arferol = awgrym rhif llawn | |
| Bottom right, normal = whole number suggestion | |



| | **LLED-FARNWROL<br>QUASI-JUDICIAL** | | | | | | | | **PWYLLGORAU ERAILL Y CYNGOR<br>OTHER COMMITTEES OF THE COUNCIL** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pwyllgorau**<br>**Committees** | Cynllunio a Gorchmynion<br>Planning and Orders | Archwilio<br>Audit | Gwasanaethau Democrataidd<br>Democratic Services | Penodiadau<br>Appointments | Ymchwilio<br>Investigation | Disgyblu<br>Disciplinary | Apeliadau<br>Appeals | Trwyddedu<br>Licensing | CYSAG<br>SACRE | Anghenion Addysgol Arbennig<br>Special Educational Needs | Cynllunio ar y cyd<br>Joint Planning | Tal a Graddio<br>Pay and Grading | Penodi Safonau<br>Standards Appointing | Is-Bwyllgor Indemniadau<br>Indemnities sub-Committee | Cyfanswm Eraill<br>Total Others | **CYFANSWM LLAWN**<br>**GRAND TOTAL** |
| Aelodaeth<br>Membership | 11 | 8 | 10 | 10 | 3 | 3 | 10 | 11 | 6 | 7 | 7 | 6 | 3 | 5 | 100 | 120 |
| Plaid Cymru<br>Party of Wales | *4.4*<br>5 | *3.2*<br>3 | *4*<br>4 | *4*<br>4 | *1.2*<br>1 | *1.2*<br>1 | *4*<br>4 | *4.4*<br>5 | *2.4*<br>2 | *2.8*<br>3 | *2.8*<br>3 | *2.4*<br>2 | *1.2*<br>1 | *2*<br>2 | *40*<br>40 | *48*<br>48 |
| Llafur<br>Labour | *0.73333*<br>0 | *0.53333*<br>0 | *0.66667*<br>1 | *0.66667*<br>1 | *0.2*<br>1 | *0.2*<br>0 | *0.666667*<br>0 | *0.733333*<br>0 | *0.4*<br>1 | *0.46667*<br>1 | *0.46667*<br>1 | *0.4*<br>1 | *0.2*<br>0 | *0.333333*<br>0 | *6.666667*<br>7 | *8*<br>8 |
| Grwp Annibynnol<br>Independent Group | *4.03333*<br>4 | *2.93333*<br>3 | *3.66667*<br>4 | *3.66667*<br>4 | *1.1*<br>1 | *1.1*<br>1 | *3.666667*<br>4 | *4.033333*<br>4 | *2.2*<br>1 | *2.56667*<br>3 | *2.56667*<br>3 | *2.2*<br>2 | *1.1*<br>1 | *1.833333*<br>1 | *36.66667*<br>36 | *44*<br>44 |
| Grwp Chwyldroad<br>Revolutionist Group | *0.73333*<br>1 | *0.53333*<br>1 | *0.66667*<br>1 | *0.66667*<br>1 | *0.2*<br>0 | *0.2*<br>0 | *0.666667*<br>1 | *0.733333*<br>1 | *0.4*<br>0 | *0.46667*<br>0 | *0.46667*<br>0 | *0.4*<br>1 | *0.2*<br>0 | *0.333333*<br>0 | *6.666667*<br>7 | *8*<br>8 |
| Heb Ymaelodi<br>Unaffiliated | *1.1*<br>1 | *0.8*<br>1 | *1*<br>0 | *1*<br>0 | *0.3*<br>0 | *0.3*<br>1 | *1*<br>1 | *1.1*<br>1 | *0.6*<br>2 | *0.7*<br>0 | *0.7*<br>0 | *0.6*<br>0 | *0.3*<br>1 | *0.5*<br>2 | *10*<br>10 | *12*<br>12 |
| | *11*<br>11 | *8*<br>8 | *10*<br>10 | *10*<br>10 | *3*<br>3 | *3*<br>3 | *10*<br>10 | *11*<br>11 | *6*<br>6 | *7*<br>7 | *7*<br>7 | *6*<br>6 | *3*<br>3 | *5*<br>5 | *100*<br>100 | *120*<br>120 |

* Diffinir aelodau heb ymaelodi fel Aelodau nad yw'n rhan o o grŵp gwleidyddol yn y Cyngor

*Unaffiliated Members are defined as those Members who are not Members of political groups represented on the Council

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **27 MEDI 2016** |
| **PWNC:** | **ADOLYGIAD BLYNYDDOL AR REOLI TRYSORLYS AM 2015/16** |
| **DEILYDD(ION) PORTFFOLIO:** | **CYNGHORYDD H E JONES** |
| **SWYDDOG(ION) ARWEINIOL:** | **R MARC JONES** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **CLAIRE KLIMASZEWSKI/ELFED ROBERTS (EST. 1865/2608)** |
| **Natur a rheswm am adrodd**<br><br>Cydymffurfio â'r rheoliadau a gyflwynwyd dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a chyda Cynllun Dirprwyo'r Cyngor ar gyfer Materion Rheoli Trysorlys am y cyfnod 2015/16 (Atodiad 8 o Ddatganiad Rheoli Trysorlys 2015/16). Yn unol â'r Cynllun Dirprwyo, cafodd yr adroddiad hwn ei sgriwtineiddio gan y Pwyllgor Archwilio ar 25 Gorffennaf 2016, a penderfynodd y Pwyllgor i nodi a derbyn yr adroddiad yma, a'i anfon ymlaen i'r Pwyllgor Gwaith heb unrhyw sylw pellach. Cafodd yr adroddiad ei dderbyn gan y Pwyllgor Gwaith ar 19 Medi 2016, a'i basio ymlaen i'r Cyngor Sir heb unrhyw sylw pellach. | |

**Crynodeb**

Mae'n rhaid i'r Cyngor hwn, yn unol â rheoliadau dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, gynhyrchu adolygiad blynyddol ar reoli trysorlys yn adlewyrchu gweithgareddau Rheoli Trysorlys a'r dangosyddion pwyllog a thrysorlys gwirioneddol am 2015/16. Mae'r adroddiad hwn yn bodloni gofynion côd ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys (y Côd) a Chôd Pwyllog CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (Y Côd Pwyllog).

Yn ystod 2015/16, y gofynion lleiaf ynglŷn ag adrodd yn ôl oedd bod y Cyngor llawn yn derbyn yr adroddiadau canlynol:-

- Strategaeth flynyddol y trysorlys o flaen y flwyddyn (a dderbyniwyd ar 26 Chwefror 2016);
- Adroddiad diweddaru canol y flwyddyn ar y trysorlys a dderbyniwyd ar 10 Mawrth 2016);
- Adroddiad blynyddol ar ôl y flwyddyn ac yn disgrifio'r gweithgaredd o'i gymharu â'r strategaeth (yr adroddiad hwn).

Mae'r amgylchedd rheoleiddiol yn rhoi'r cyfrifoldeb i Aelodau i adolygu a sgriwtineiddio polisi a gweithgareddau rheoli trysorlys. O'r herwydd, mae'r adroddiad hwn yn bwysig gan ei fod yn darparu manylion am y sefyllfa alldro ar gyfer gweithgareddau trysorlys ac mae'n tynnu sylw at gydymffurfiaeth â pholisïau'r Cyngor a gymeradwywyd yn flaenorol gan Aelodau.

Mae'r Cyngor hwn yn cadarnhau ei fod wedi cydymffurfio gyda'r gofynion o dan y Côd i'r Pwyllgor Archwilio sgriwtineiddio'r holl adroddiadau rheoli trysorlys uchod cyn eu cyflwyno i'r Cyngor llawn.

Er mwyn cefnogi rôl sgriwtini aelodau'r Pwyllgor Archwilio cafwyd hyfforddiant i aelodau ar faterion rheoli trysorlys yn ystod mis Gorffennaf 2014 a bydd cwrs gloywi'n cael ei gynnal yn ystod 2016.

Yn ystod 2015/16, cydymffurfiodd y Cyngor â'r anghenion deddfwriaethol a rheoleiddiol. Mae'r dangosyddion pwyllog a thrysorlys gwirioneddol allweddol sy'n manylu ar effaith gweithgareddau cyfalaf yn ystod y flwyddyn gyda chymaryddion, fel a ganlyn:-

| Data ar gyfer **Dangosyddion darbodus a thrysorlys gwirioneddol** | 2014/15 Gwirioneddol £000 | 2015/16 Gwreiddiol £000 | 2015/16 Gwirioneddol £000 |
|---|---|---|---|
| Gwariant Cyfalaf<br>• Dim-CRT<br>• CRT<br>• Cyfanswm | <br>15,769<br>5,518<br>21,287 | <br>15,520<br>8,590<br>24,110 | <br>16,369<br>27,607<br>43,976 |
| Cyfanswm Gofyniad Cyllido Cyfalaf<br>• Dim-CRT<br>• CRT<br>• Cyfanswm | <br>85,926<br>22,650<br>108,576 | <br>92,787<br>43,836<br>136,623 | <br>84,297<br>43,360<br>127,657 |
| Benthyca Gros | 89,590 | 126,000 | 110,744 |
| Dyled Allanol | 89,590 | 165,000 | 110,744 |
| Buddsoddiadau *<br>• Mwy na blwyddyn<br>• O dan flwyddyn<br>• Cyfanswm | <br><br>10,983<br>10,983 | | <br>-<br>16,210<br>16,210 |

Gellir gweld dangosyddion pwyllog a thrysorlys eraill ym mhrif gorff yr adroddiad hwn. Mae'r Swyddog Adran 151 hefyd yn cadarnhau y benthycwyd arian i bwrpas cyfalaf yn unig ac na chafodd y terfynau benthyca statudol (y terfyn awdurdodedig), eu torri.

Gwelwyd yr un amgylchedd heriol yn ystod blwyddyn ariannol 2015/16 â'r blynyddoedd cynt, sef dychweliadau isel ar fuddsoddiadau.

**Argymhellion**

Argymhellir bod y Pwyllgor yn:-

**(i)** Nodi bod y ffigyrau canlyniad yn yr adroddiad hwn yn parhau dros dro hyd nes bydd archwiliad y Datganiad Cyfrifon 2015/16 wedi ei gwblhau a'i lofnodi; bydd unrhyw addasiadau arwyddocaol i'r ffigyrau sy'n gynwysiedig yn yr adroddiad hwn yn cael eu hadrodd fel yn briodol;
**(ii)** Nodi'r dangosyddion pwyllog a thrysorlys dros dro ar gyfer 2015/16 yn yr adroddiad hwn;
**(iii)** Ystyried yr adroddiad rheoli trysorlys blynyddol am 2015/16 a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith nesaf gydag unrhyw sylwadau.

**Atodiadau:**

Atodiad 1 - Crynodeb o Werth y Portffolio ar 31 Mawrth 2016
Atodiad 2 - Graddfeydd Credyd Gwrthbartion buddsoddi a'r adneuon a ddelir gyda phob un ar 31 Mawrth 2016
Atodiad 3 - Graddfeydd Credyd Gwrthbartion buddsoddi a'r adneuon a ddelir gyda phob un ar 15 Gorffennaf 2016
Atodiad 4 - Yr Economi a Graddfeydd Llog – Sylwebaeth gan Capita Asset Services

**Papurau Cefndirol:**

Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys 2015/16
Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys am 2015/16
Adroddiad ar yr Adolygiad Canol Blwyddyn o Reoli Trysorlys 2015/16

## 1. CYFLWYNIAD

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys ac yn crynhoi'r swyddogaethau/gweithgareddau/ canlyniadau canlynol ym mlwyddyn ariannol 2015/16:-

- Gweithgaredd Cyfalaf;
- Effaith y gweithgaredd hwn ar ddyled waelodol y Cyngor (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf);
- Y dangosyddion pwyllog a thrysorlys gwirioneddol;
- Sefyllfa gyffredinol y trysorlys gan nodi sut y mae'r Cyngor wedi benthyca mewn perthynas â'r ddyled hon a'r effaith ar falansau buddsoddi;
- Crynodeb o symudiadau'r gyfradd log am y flwyddyn;
- Gweithgareddau manwl o ran dyledion; a
- Gweithgareddau buddsoddi manwl.

## 2. GWARIANT AC ARIANNU CYFALAF Y CYNGOR 2015/16

**2.1** Mae'r Cyngor yn ymgymryd â gwariant cyfalaf ar asedau tymor hir. Fe all y gweithgareddau hyn fod naill ai:-

- Wedi eu cyllido ar unwaith trwy ddefnyddio adnoddau cyfalaf neu refeniw (derbyniadau cyfalaf, grantiau cyfalaf, cyfraniadau refeniw ac ati) nad ydynt yn cael effaith ar angen y Cyngor i fenthyca; neu

- Wedi eu cyllido trwy fenthyca: gallai hynny fod trwy fenthyca wedi ei gynllunio neu fel arall. Os nad oes digon o gyllid ar gael, neu os gwneir penderfyniad i beidio defnyddio adnoddau, bydd y gwariant cyfalaf yn creu'r angen i fenthyca.

**2.2** Mae'r gwariant cyfalaf gwirioneddol yn ffurfio un o'r dangosyddion pwyllog sydd eu hangen. Mae'r tabl isod yn dangos gwariant cyfalaf gwirioneddol a sut y cafodd ei ariannu.

| | 2014/15 Gwirioneddol (£m) | 2015/16 Amcangyfrif (£m) | 2015/16 Gwirioneddol (£m) |
|---|---|---|---|
| Gwariant Cyfalaf heb fod yn CRT | 16 | 15 | 16 |
| Gwariant Cyfalaf CRT | 5 | 9 | 28 |
| **Cyfanswm Gwariant Cyfalaf** | **21** | **24** | **44** |
| Wedi ei gyllido yn y flwyddyn y tu allan i'r CRT: | 11 | 8 | 18 |
| Wedi ei gyllido gan y CRT yn y flwyddyn | 5 | 6 | 3 |
| Gwariant Cyfalaf heb ei gyllido – tu allan i'r CRT | **5** | **10** | **2** |
| **Gwariant Cyfalaf CRT a gafodd ei gyllido drwy fenthyciad** | **0** | **0** | **21** |

## 3. ANGEN CYFFREDINOL Y CYNGOR I FENTHYCA

**3.1** Mae angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca ar gyfer gwariant cyfalaf yn cael ei alw yn Ofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR). Mae'r ffigwr hwn yn fesur o sefyllfa'r Cyngor o ran dyledion. Mae'r CFR yn deillio o weithgaredd cyfalaf y Cyngor a pha adnoddau a ddefnyddiwyd i dalu am y gwariant cyfalaf. Mae'n cynrychioli gwariant cyfalaf 2015/16 a ariannwyd drwy fenthyca (gweler y tabl uchod), a gwariant cyfalaf a ariannwyd drwy fenthyciad ac yn y blynyddoedd blaenorol nad ydyw eto wedi cael ei dalu trwy refeniw neu adnoddau eraill.

**3.2** Rhan o weithgareddau trysorlys y Cyngor yw mynd i'r afael â'r gofynion cyllido o ran yr angen hwn i fenthyca. Gan ddibynnu ar y rhaglen gwariant cyfalaf, mae gwasanaeth y trysorlys yn trefnu sefyllfa ariannol y Cyngor er mwyn sicrhau bod digon o arian ar gael i gyfarfod â'r cynlluniau cyfalaf a'r gofynion mewn perthynas â llif arian. Gellir cael yr arian hwn trwy fenthyca gan gyrff allanol (fel y Llywodraeth, trwy'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) neu'r marchnadoedd arian), neu trwy ddefnyddio adnoddau arian dros dro o fewn y Cyngor.

**3.3 Gostwng y CFR**

**3.3.1** Ni chaniateir i anghenion benthyca'r Cyngor (CFR) godi am byth. Mae yna reoliadau statudol yn eu lle i sicrhau bod asedau cyfalaf yn gyffredinol yn cael eu codi ar refeniw dros fywyd yr ased. Mae'n rhaid i'r Cyngor godi tâl refeniw blynyddol a elwir yn isafswm darpariaeth refeniw - MRP er mwyn gostwng y CFR. I bob pwrpas, ad-daliad yw hwn o'r angen i fenthyca. Mae hyn yn wahanol i'r trefniadau rheoli trysorlys sy'n sicrhau bod arian ar gael i gwrdd ag ymrwymiadau cyfalaf. Yn ogystal, gellir benthyca dyled allanol neu ei thalu'n ôl ar unrhyw adeg, ond nid yw hyn yn newid y CFR.

**3.3.2** Gellir gostwng cyfanswm y CFR hefyd drwy:-

- ddefnyddio adnoddau cyllido cyfalaf ychwanegol (megis derbyniadau cyfalaf sydd heb eu defnyddio); neu
- godi mwy na'r tâl refeniw statudol (MRP) ym mhob blwyddyn trwy Ddarpariaeth Refeniw Wirfoddol (VRP).

**3.3.3** Cafodd Polisi MRP 2015/16 y Cyngor (fel sy'n ofynnol dan gyfarwyddyd LlCC) ei gymeradwyo fel rhan o adroddiad strategaeth rheoli trysorlys 2015/16 ar 26 Chwefror 2014.

**3.3.4** Dangosir isod CFR y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ac mae'n cynrychioli dangosydd pwyllog allweddol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw PFI a chynlluniau prydlesu ar y fantolen a fyddai'n cynyddu anghenion benthyca'r Cyngor, y CFR. Nid oedd cynlluniau o'r fath yn ystod y flwyddyn.

| CFR Cronfa'r Cyngor | 2014/15 Gwirioneddol (£m) | 2015/16 Cyllideb (£m) | 2015/16 Gwirioneddol (£m) |
|---|---|---|---|
| Balans agoriadol | 85 | 93 | 86 |
| Ychwanegu gwariant cyfalaf heb ei gyllido (fel uchod) | 5 | | 2 |
| Llai MRP/VRP* | (4) | (4) | (4) |
| Balans Cau | 86 | 92 | 84 |

| CFR CRT | 2013/14 Gwirioneddol (£m) | 2014/15 Cyllideb (£m) | 2014/15 Gwirioneddol (£m) |
|---|---|---|---|
| Balans agoriadol | 24 | 44 | 23 |
| Ychwanegu gwariant cyfalaf heb ei gyllido (fel uchod) | - | - | 21 |
| Llai MRP/VRP* | (1) | (1) | (1) |
| Balans Cau | 23 | 43 | 43 |

**Yn cynnwys defnydd gwirfoddol o dderbyniadau cyfalaf*

**3.3.5** Mae'r gweithgaredd benthyca yn cael ei gyfyngu gan ddangosyddion pwyllog ar gyfer benthyca gros a'r CFR, a chan y trothwy a awdurdodwyd.

### 3.4 Benthyca gros a'r CFR

Er mwyn sicrhau bod lefelau benthyca yn ddarbodus dros y tymor canolog a dim ond ar gyfer dibenion cyfalaf, dylai'r Cyngor sicrhau nad yw ei fenthyca allanol gros, ac eithrio yn y tymor byr, yn uwch na chyfanswm y gofyniad cyllido cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol ynghyd â'r amcangyfrifon o unrhyw ofyniad cyfalaf ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ariannol hon a'r ddwy flynedd ariannol nesaf. Mae hynny'n golygu nad yw'r Cyngor yn benthyca i gefnogi gwariant refeniw. Mae'r dangosydd hwn yn caniatáu peth hyblygrwydd i'r Cyngor fenthyca ymlaen llaw i'w anghenion cyfalaf. Mae'r tabl isod yn nodi sefyllfa fenthyca gros y Cyngor yn erbyn y CFR. Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio gyda'r dangosydd pwyllog hwn.

| | 31 Mawrth 2015 Gwirioneddol (£m) | 31 Mawrth 2016 Cyllideb (£m) | 31 Mawrth 2016 Gwirioneddol (£m) |
|---|---|---|---|
| Sefyllfa Benthyca Gros | 89.6 | 110.7 | 110.7 |
| CFR | 108.6 | 136.6 | 127.7 |

**3.4.1** Fel rhan o'r broses o gyllido gwariant cyfalaf ar gyfer 2015/16, defnyddiwyd benthyciadau i gyllido'r bwlch rhwng yr adnoddau a oedd ar gael (derbyniadau cyfalaf, grantiau cyfalaf, cyfraniadau cyfalaf a chyfraniadau refeniw) a'r gwariant cyfalaf. Yn wyneb cyfraddau llog ar y farchnad ar hyn o bryd a'r rheini a ragwelir, ynghyd â risgiau credyd gwrthbartïon, penderfynwyd parhau i fewnoli benthyciadau o leiaf yn y tymor byr. Mae hyn yn golygu bod y Cyngor, yn lle benthyca'n allanol gan PWLB, yn defnyddio ei arian wrth gefn ei hun. Mae'r strategaeth hon wedi ei gweithredu yn awr drwy gydol pob un o'r bum mlynedd ddiwethaf. O ganlyniad i barhau â'r Strategaeth yma, cynyddodd y bwlch rhwng CFR a benthyca allanol yn ystod 2015/16 gan £19m. Mae'r benthyca gros ar 31 Mawrth 2016 yn llai na'r CFR a ragwelwyd am y 2 flynedd ddilynol. Mae'r sefyllfa hon o ran benthyciadau gros wedi cynyddu yn ystod 2015/16 oherwydd y benthyciad a gafwyd gan PWLB i brynu allan o'r Cyfrif Refeniw Tai sy'n disodli'r hen daliadau cymhorthdal i Lywodraeth Cymru. Mae hyn hefyd wedi cael effaith sylweddol ar y gofyniad benthyca cyfalaf.

**3.5** Y dangosyddion eraill yn ymwneud â dyled yw:

**3.5.1** **Y trothwy awdurdodedig** - y trothwy awdurdodedig yw'r "cyfyngiad benthyca fforddiadwy" sy'n angenrheidiol yn unol ag adran 3 Deddf Llywodraeth Leol 2003. Unwaith y mae hwn wedi ei bennu, nid oes gan y Cyngor rym i fenthyca uwchlaw'r lefel hon. Mae'r tabl isod yn dangos bod y Cyngor wedi llwyddo i gadw o fewn y trothwy awdurdodedig o ran benthyciadau gros yn ystod 2015/16.

**3.5.2** **Y terfyn gweithredol** - y terfyn gweithredol yw'r sefyllfa fenthyca a ddisgwylir ar gyfer y Cyngor yn ystod y flwyddyn. Mae cyfnodau lle mae'r sefyllfa wirioneddol naill ai yn is neu'n uwch na'r terfyn yn dderbyniol ar yr amod nad yw'n mynd dros y trothwy awdurdodedig.

**3.5.3** **Costau ariannu gwirioneddol fel cyfran o'r ffrwd refeniw net** - mae'r dangosydd hwn yn nodi'r patrwm o ran cost cyfalaf (benthyca a chostau ymrwymiadau tymor hir arall llai incwm buddsoddi) yn erbyn y ffrwd refeniw net.

| | 2015/16 |
|---|---|
| Cyfyngiad awdurdodedig | £165.0m |
| Sefyllfa o ran uchafswm benthyciadau gros | £110.7m |
| Terfyn Gweithredol | £126.0m |
| Sefyllfa benthyca gros ar gyfartaledd | £110.7m |
| Costau ariannu fel cyfran o ffrwd refeniw net - CF | 6.06% |
| Costau ariannu fel cyfran o ffrwd refeniw net – CRT | 13.83% |

Y rheswm pam fod y costau ar gyfer cyllido Cronfa'r Cyngor ychydig yn is na chanran y ffrwd refeniw na'r hyn a amcangyfiwyd yn y datganiad ar Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2015/16 (6.53%) net oedd oherwydd costau cyllido a oedd yn is na'r disgwyl, ynghyd â llai o incwm na'r disgwyl o fuddsoddiadau a ffrwd refeniw net a oedd yn uwch na'r disgwyl.

## 4. SEFYLLFA TRYSORLYS AR 31 MAWRTH 2014

**4.1** Caiff sefyllfa dyledion a buddsoddiad y Cyngor ei drefnu gan y gwasanaeth rheoli trysorlys er mwyn sicrhau hylifedd digonol ar gyfer gweithgareddau refeniw a chyfalaf, diogelwch ar gyfer buddsoddiadau ac i reoli'r risgiau yn yr holl weithgareddau rheoli trysorlys. Mae gweithdrefnau a rheoliadau i sicrhau'r amcanion hyn wedi eu hen sefydlu drwy'r adroddiadau i aelodau y manylir arnynt yn y crynodeb a thrwy weithgareddau swyddogion yn unol â'r Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2015/16. Roedd ffigyrau buddsoddi a benthyca'r Cyngor ar ddiwedd blynyddoedd ariannol 2014/15 a 2015/16 fel a ganlyn:-

| | 31 MAWRTH 2015 | | | 31 MAWRTH 2016 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | Graddfa Cyfartalog (%) | Aeddfedrwydd Cyfartalog (bl) | £000 | Graddfa Cyfartalog (%) | Aeddfedr-wydd Cyfartalog (bl) |
| Dyled: Holl Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus | 89,585 | 5.72 | 25.4 | 110,741 | 5.72 | 24.9 |
| CFR | 108,582 | | | 127,657 | | |
| Gor/(tan) fenthyca | (18,997) | | | (16,916) | | |
| Buddsoddiadau tymor sefydlog (y cyfan < l flwyddyn a reolir yn fewnol ac ar gyfradd sefydlog | Nil | | | 5,000 | 0.50 | |
| Buddsoddiadau dim rhybudd (yr holl wedi ei reoli'n fewnol) | 10.983 | 0.36 | | 11,209 | 0.35 | |
| Cyfanswm y Buddsoddiadau | 10,983 | 0.36 | | 16,209 | 0.40 | |

Gweler dadansoddiad manylach yn Atodiad 1. Ni ddaethpwyd dros ben y trothwyon ar gyfer cyfraddau sefydlog a chyfraddau amrywiadwy yn ystod y flwyddyn.

**4.2** Dadansoddir benthyca ymhellach drwy gyfnodau aeddfedu:-

| | 31 MAWRTH 2015 | | 31 MAWRTH 2016 | | Cyfyngiadau 2014/15 a 2015/16 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £m | % o'r cyfanswm | £m | % o'r cyfanswm | % o'r cyfanswm (Uchel) | % o'r cyfanswm (Isaf) |
| Cyfanswm benthyciadau | 89.6 | 100 | 110.7 | 100 | | |
| Llai na 12 mis | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 20 | 0 |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 0.0 | 0.0 | 5.5 | 4.97 | 20 | 0 |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 15.5 | 17.3 | 14.5 | 13.10 | 50 | 0 |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 8.8 | 9.8 | 4.2 | 3.79 | 75 | 0 |
| 10 mlynedd a mwy | 65.3 | 72.9 | 86.5 | 78.14 | 100 | 0 |

**4.3** Ni aildrefnwyd unrhyw ddyled yn ystod y flwyddyn oherwydd roedd y 1% gwahaniaethol cyfartalog rhwng graddfeydd benthyca newydd PWLB a graddfeydd ad-dalu'n fuan yn gwneud aildrefnu'n anhyfyw. Benthyciad newydd allanol – cymerwyd £21.169m yn ystod y flwyddyn i gyllido Prynu Allan o system gymhorthdal CRT Llywodraeth Cymru.

**4.4** Mae rhan o adneuon y Cyngor yn cael eu dal mewn cyfrifon adneuon dim rhybudd sy'n talu llog ar raddfeydd sy'n agos ar y gyfradd sylfaenol bresennol, £11.0m ar 0.35% (31 Mawrth 2015 11m ar 0.36%). Roedd un swm yn cael ei adneuo am gyfnod o lai na blwyddyn sef £5m ar gyfradd log o 0.50% (31 Mawrth 2015 Dim).

## 5. STRATEGAETH TRYSORLYS AM 2015/16

**5.1** Roedd y strategaeth ar gyfer 2015/16 yn cynnwys disgwyliad y byddai'r Cyfradd Banc yn aros yn isel ond yn codi (cychwyn yn Chwarter 1 2015) ac y byddai cyfraddau benthyca sefydlog tymor canol a thymor hir yn codi'n raddol yn ystod 2015/16. Roedd disgwyl i gyfraddau tymor byr neu amrywiadwy fod yn ffordd ratach o fenthyca yn ystod y cyfnod. Yn sgil parhad yr ansicrwydd ar ôl argyfwng ariannol 2008 parhawyd i fod yn wyliadwrus ac roedd buddsoddiadau yn parhau i gael eu dominyddu gan ystyriaethau'r risg gwrthbartïon isel gan arwain at ddychweliadau gweddol isel o gymharu â'r cyfraddau benthyca.

**5.2** Yn y sefyllfa hon, y strategaeth ar gyfer y trysorlys oedd gohirio benthyca i osgoi costau cadw lefelau uwch o fuddsoddiadau a gostwng risg gwrthbartïon.

**5.3** Roedd y symudiad gwirioneddol yn yr elw o giltiau yn golygu ychydig o newid yn ystod pedwar mis cyntaf y flwyddyn yng nghyfraddau PWLB ond yna roedd y tueddiad yn mynd at i lawr am weddill y flwyddyn gyda gwrthdroad rhannol ym mis Chwefror.

**5.4** Roedd y sefyllfa economaidd a'r PWLB a'r cyfraddau buddsoddi fel y gwelir nhw yn Atodiad 4.

## 6. CANLYNIADAU BUDDSODDI AR GYFER 2015/16

**6.1** Parhaodd y Gyfradd Banc ar raddfa hanesyddol isel o 0.5% drwy gydol y flwyddyn; bellach mae wedi aros yr un fath ers saith mlynedd. Prin iawn fu unrhyw newid yn nisgwyliadau'r farchnad am gychwyn y tynhau ariannol yn chwarter 1 2016 ond yna symudodd yn ôl i o gwmpas chwarter 2, 2018 erbyn diwedd y flwyddyn. Roedd cyfraddau adneuon yn parhau i fod yn isel drwy gydol y flwyddyn a hynny'n bennaf oherwydd effeithiau'r Cynllun Cyllido i Fenthyca.

**6.2** Y strategaeth fuddsoddi ddisgwyliedig oedd cadw at adneuon tymor byrrach (hyd at 364 diwrnod) er cadwyd y gallu i fuddsoddi hyd at gyfnodau hwy (er ni ddefnyddiwyd). Roedd disgwyl i falansau arian parod o £30m fod ar gael yn amrywio rhwng £15m a £35m. Gosodwyd y gyllideb ar 0.75% neu £225k ar ôl addasu ar gyfer graddfeydd uwch ar fuddsoddiadau presennol. Fel y mae'n digwydd, cafwyd dychweliad o £88k (0.36%) ar falansau a oedd ar gyfartaledd, yn £20.4m. Roedd y balans arian parod yn is na'r disgwyl yn rhannol oherwydd parhau i fewnoli benthyca. Roedd y dychweliad is nag a gyllidebwyd i'w briodoli i gyfraddau gwaeth na'r disgwyl ar fuddsoddiadau, gyda chyfraddau'n parhau i ddisgyn yn ystod y flwyddyn.

## 7. DIOGELWCH AC ANSAWDD CREDYD

**7.1** Ni chafodd unrhyw un o'r sefydliadau yr oedd gennym fuddsoddiadau ynddynt unrhyw anhawster i ad-dalu buddsoddiadau a llog ar amser ac yn llawn yn ystod y flwyddyn.

**7.2** Yn ystod 2015/16, parhaodd graddfeydd credyd i fod yn wael ar draws amrediad o'n gwrthbartïon arferol. Ers diwedd 2008, mae wedi bod yn heriol adneuo gyda gwrthbartïon priodol. Ym mis Rhagfyr 2008, cafwyd caniatâd gan y Cyngor i ymestyn yr hyblygrwydd gyda gwrthbartïon i ddelio gyda newidiadau yn y farchnad; roedd hyn yn cynnwys y gallu i fuddsoddi'r cyfan o'n gwarged gyda'r llywodraeth ganolog os bydd angen. Lledaenwyd y rhestr ymhellach yn Ebrill 2010 i gynnwys sefydliadau gwladol a sefydliadau rhannol wladol ac eglurwyd y rhestr honno ym Mawrth 2013 mewn perthynas â banciau yn y DU sydd wedi eu gwladoli neu eu gwladoli'n rhannol a meini prawf 2014/15. Roedd penderfyniadau blaenorol wedi ymestyn hyblygrwydd i fuddsoddi gydag awdurdodau lleol. Mae Atodiad 2 yn dangos ym mha sefydliadau yr oedd y Cyngor wedi adneuo arian ar 31 Mawrth 2015 a chyfraddau'r cwmnïau hynny.

**7.3** Effaith ymarferol y polisïau hyn oedd fel a ganlyn: Yn ystod y flwyddyn parhawyd i ddefnyddio cyfrifon dim rhybudd gyda sefydliadau blaenllaw ar y stryd fawr (Santander, HSBC, RBS a Bank of Scotland) ar gyfer llif arian o ddydd i ddydd. Yn ychwanegol at hyn, rhoddwyd £5m mewn cyfrifon adnau 3 mis gyda Nationwide ar gyfradd uwch o 0.50%.

## 8. GWEITHGAREDD YN YSTOD 2015/16

**8.1** Adroddwyd eisoes fod yr Awdurdod hwn yn paratoi i dynnu allan o'r system cymhorthdal CRT ar 2 Ebrill 2015. Ar adeg adrodd ar weithgareddau trysorlys ar gyfer chwarter 3 2014/15, roedd hi'n hysbys y byddai'r 'prynu allan' yn cael ei gyllido gan PWLB ond roedd swm y setliad a'r cyfraddau llog ar y benthyciad yn parhau i fod dan ystyriaeth. Cafodd effaith bosibl y prynu allan ei hadlewyrchu yn y papurau ar bennu'r gyllideb a gyflwynwyd i'r Aelodau ar gyfer 2015/16 gan gynnwys y Datganiad ar Strategaeth Rheoli Trysorlys 2015/16 a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ei sgriwtinieiddio ar 9 Chwefror 2015). Gellir cadarnhau fod y prynu allan wedi digwydd a bod y CRT bellach yn hunan-gyllido. Roedd union strwythur y benthyciadau a drefnwyd gan y Cyngor i gyllido ei hunan-gyllido o'r CRT yn adlewyrchu gofynion y cynllun busnes CRT, gofynion cyffredinol y Cyngor a rhai cyfyngiadau (e.e. cyfnod isaf unrhyw fenthyciad ar gyfartaledd) a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Cafodd y benthyciadau felly eu trefnu fel cyfres o gyfraddau llog uwch gan PWLB a oedd yn berthnasol yn unig i awdurdodau hunan-gyllido CRT yng Nghymru ac efallai bod hynny'n golygu bod y benthyciadau hyn, o bersbectif ailstrwythuro, yn llai hyblyg nag arfer.

## 9. GWEITHGAREDD ERS 2015/16

**9.1** Mae canlyniad refferendwm yr UE ar 23 Mehefin 2016 i adael yr Undeb Ewropeaidd a'r ansefydlogrwydd gwleidyddol ar ôl y canlyniad wedi creu sioc economaidd a welodd gwerth y bunt yn gostwng; cafodd effaith ar brisiau ar y farchnad stoc ac arweiniodd at ostwng rhagolygon tymor hir banciau'r DU o sefydlog i negyddol. Mae holl adneuon y Cyngor mewn banciau y mae eu rhagolygon wedi gostwng. Fodd bynnag, mae eu cyfraddau tymor byr i'r tymor canolig yn parhau i fod o fewn y cyfraddau a gymeradwywyd yn y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2015/16. Mae statws y banciau ac adneuon y Cyngor yn cael eu hadolygu'n gyson er mwyn sicrhau'r risg leiaf bosib i'r Cyngor. Mae cyfraddau sylfaenol y banciau wedi cael ei chadw ar yr un gyfradd, sef 0.50%, fodd bynnag, rhagwelir y bydd y gyfradd yn cael ei thorri yn y dyfodol er mwyn cefnogi'r UE yn ystod y cyfnod ansicr yn dilyn refferendwm yr UE. Er y byddai hyn yn tanseilio ymhellach y llog a geir ar adneuon, byddai'n gostwng y gost o fenthyca gan PWLB gan wneud benthyca allanol ar gyfer gwariant cyfalaf yn fwy deniadol. Mae Atodiad 3 yn dangos adneuon presennol y Cyngor a chyfraddau'r sefydliadau ariannol y mae'r adneuon wedi eu buddsoddi ynddynt (fel yr oeddynt ar 15 Gorffennaf 2016). Er bod cyfraddau banciau'r DU yn gyffredinol wedi cael eu gostwng ers y refferendwm, ychydig iawn o newid fu yng nghyfraddau'r sefydliadau y mae'r awdurdod yn adneuo arian ynddynt.

## 10. CASGLIAD

**10.1** Mae adolygiad o'r Perfformiad Rheoli Trysorlys ar gyfer 2015/16 wedi ei ddarparu. Roedd y flwyddyn yn weddol sefydlog a'r gweithgaredd mwyaf arwyddocaol oedd benthyciad o £21.169m gan PWLB ar gyfer prynu allan o'r cymhorthdal blynyddol CRT i Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn arbed arian i'r Cyngor ac, yn ychwanegol yn cynnig mwy o hyblygrwydd gyda'r CRT iddo reoli ei stoc ei hun. Roedd gan y cyngor falansau ariannol priodol bob amser er bod y graddfeydd llog isel yn golygu nad oedd fawr o ddychweliad. Fodd bynnag, mae hyn yn gyson â Strategaeth Rheoli Trysorlys 2016 a'i amcanion allweddol sef risg isel a sicrhau bod digon o arian i dalu credydwyr y Cyngor ac ati. Ceir manylion yn atodiad 1 am sefyllfa ariannol offerynnau ariannol y Cyngor ar 31 Mawrth 2016.

**R MARC JONES**
**PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A**
**SWYDDOG ADRAN 151** **25 GORFFENNAF 2016**

**ATODIAD 1**

## Crynodeb o Werth y Portffolio
## Ar 31 Mawrth 2016

| **ASEDAU ARIANNOL** | **Enwebol / Prif (£)** | **Gwerth Teg (£)** |
|---|---|---|
| Arian (cyfrifon llog) (1) | 11,209,812 | 11,239,940 |
| Adneuon Cyfnod Sefydlog | 5,000,000 | 5,004,184 |
| **FINANCIAL LIABILITIES** | | |
| Benthyciad PWLB – Aeddfedu | 110,484,478 | 181,198,276 |
| Benthyciad PWLB – Blwydd-dal | 347,664 | 450,712 |

**Gwrthbartïon**

| | | |
|---|---|---|
| **(1)** | Arian (cyfrifon llog) | |
| | Santander | 6,783,222 |
| | Bank of Scotland | 707,475 |
| | HSBC | 3,718,240 |
| | RBS | 875 |
| | | 11,209,812 |
| **(2)** | Adneuon Cyfnod Sefydlog | |
| | Cymdeithas Adeiladu Nationwaide | 5,000,000 |

**ATODIAD / APPENDIX 2**

**Graddfeydd Credyd Gwrthbartion buddsoddi a'r adneuon a ddelir gyda phob un ar 31 Mawrth 2016 ***
**Credit ratings of investment counterparties and deposits held with each as at 31 March 2016***

| Grŵp Bancio/ Banking Group | Sefydliad/ Institution | Adneuon / Deposit £'000 | Hyd (Galw tymor sefydlog) / Duration (Call / Fixed Term**) | Cyfnod (O/I)/ Period (From - To) | Graddfa Dychweliad/ Rate of Return % | Graddfa Tymor Hir Fitch Long Term Rating *** | Graddfa Tymor Byr Fitch Short Term Rating *** | Graddfa Tymor Hir Moody's Long Term Rating *** | Graddfa Tymor Byr Moody's Short Term Rating *** | Graddfa Tymor Hir Standard & Poor's (S&P) Long Term Rating *** | Graddfa Tymor Byr Standard & Poor's (S&P) Short Term Rating *** | Lliw Sector/Hyd Awgrymiedig/ Sector Colour / Suggested Duration |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lloyds Banking Group plc | Bank of Scotland plc | **707** | **Galw/ Call** | **d/b** | **0.40** | **A+** | **F1** | **A1** | **P-1** | **A** | **A-1** | **Coch – 6 mis/ Red - 6 months** |
| HSBC Holdings plc | HSBC Bank plc | **3,718** | **Galw/ Call** | **d/b** | **0.25** | **AA-** | **F1+** | **Aa2** | **P-1** | **AA-** | **A-1+** | **Oren – 12 mis / Orange – 12months** |
| Santander Group plc | Santander UK plc | **6,783** | **Galw/ Call** | **d/b** | **0.40** | **A** | **F1** | **A1** | **P-1** | **A** | **A-1** | **Coch - 6 mis / Red – 6 months** |
| The Royal Bank of Scotland Group plc | The Royal Bank of Scotland plc | **1** | **Galw/ Call** | **d/b** | **0.25** | **BBB+** | **F2** | **A3** | **P-2** | **BBB+** | **A-2** | **Glas - 12 mis / Blue - 12 months** |
| Dim yn berthnasol | Cymdeithas Adeiladu Nationwide | **5,000** | **Adneuon am 3 mis** | | **0.50** | **A** | **F1** | **A1** | **P-1** | **A** | **A-3** | **Coch - 6 mis / Red – 6 months** |

* Ceir y Rhestr Meini Prawf Gwrthbartion yn Atodiad 6 o'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2014/15 / The Counterpart Criteria can be found at Appendix 6 of the 2014/15 Treasury Management Strategy Statement.

** Sef tymor ar pwynt y buddsoddi/Being term at the point of investment.

**Graddfeydd Credyd Gwrthbartion buddsoddi a'r adneuon a ddelir gyda phob un ar 15 Gorffennaf 2016 ***
**Credit ratings of investment counterparties and deposits held with each as at 31 July 2016***

| Grŵp Bancio/ Banking Group | Sefydliad/ Institution | Adneuon / Deposit £'000 | Hyd (Galw tymor sefydlog) / Duration (Call / Fixed Term**) | Cyfnod (O/I)/ Period (From - To) | Graddfa Dychweliad/ Rate of Return % | Graddfa Tymor Hir Fitch Long Term Rating *** | Graddfa Tymor Byr Fitch Short Term Rating *** | Graddfa Tymor Hir Moody's Long Term Rating *** | Graddfa Tymor Byr Moody's Short Term Rating *** | Graddfa Tymor Hir Standard & Poor's (S&P) Long Term Rating *** | Graddfa Tymor Byr Standard & Poor's (S&P) Short Term Rating *** | Lliw Sector/Hyd Awgrymiedig/ Sector Colour / Suggested Duration |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lloyds Banking Group plc | Bank of Scotland plc | **7,411** | **Galw/ Call** | **d/b** | **0.40** | **A+** | **F1** | **A1** | **P-1** | **A** | **A-1** | **Coch – 6 mis/ Red - 6 months** |
| HSBC Holdings plc | HSBC Bank plc | **2,423** | **Galw/ Call** | **d/b** | **0.25** | **AA-** | **F1+** | **Aa2** | **P-1** | **AA-** | **A-1+** | **Oren – 12 mis / Orange – 12months** |
| Santander Group plc | Santander UK plc | **7,499** | **Galw/ Call** | **d/b** | **0.40** | **A** | **F1** | **A1** | **P-1** | **A** | **A-1** | **Coch - 6 mis / Red – 6 months** |
| The Royal Bank of Scotland Group plc | The Royal Bank of Scotland plc | **2** | **Galw/ Call** | **d/b** | **0.25** | **BBB+** | **F2** | **A3** | **P-2** | **BBB+** | **A-2** | **Glas - 12 mis / Blue - 12 months** |
| Dim yn berthnasol | Cymdeithas Adeiladu Nationwide | **5,000** | **Adneuon am 3 mis** | | **0.50** | **A** | **F1** | **A1** | **P-1** | **A** | **A-3** | **Coch - 6 mis / Red – 6 months** |
| Cyfanswm Adneuon | | **22,736** | | | | | | | | | | |

* Ceir y Rhestr Meini Prawf Gwrthbartion yn Atodiad 6 o'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2014/15 / The Counterpart Criteria can be found at Appendix 6 of the 2014/15 Treasury Management Strategy Statement.

** Sef tymor ar pwynt y buddsoddi/Being term at the point of investment.

**ATODIAD/APPENDIX 4**

# The Economy and Interest Rates

Market expectations for the first increase in Bank Rate moved considerably during 2015/16, starting at quarter 3 2015 but soon moving back to quarter 1 2016. However, by the end of the year, market expectations had moved back radically to quarter 2 2018 due to many fears including concerns that China's economic growth could be heading towards a hard landing; the potential destabilisation of some emerging market countries particularly exposed to the Chinese economic slowdown; and the continuation of the collapse in oil prices during 2015 together with continuing Eurozone growth uncertainties.

These concerns have caused sharp market volatility in equity prices during the year with corresponding impacts on bond prices and bond yields due to safe haven flows. Bank Rate, therefore, remained unchanged at 0.5% for the seventh successive year. Economic growth (GDP) in the UK surged strongly during both 2013/14 and 2014/15 to make the UK the top performing advanced economy in 2014. However, 2015 has been disappointing with growth falling steadily from an annual rate of 2.9% in quarter 1 2015 to 2.1% in quarter 4.

The Funding for Lending Scheme, announced in July 2012, resulted in a flood of cheap credit being made available to banks which then resulted in money market investment rates falling materially. These rates continued at very low levels during 2015/16.

The sharp volatility in equity markets during the year was reflected in sharp volatility in bond yields. However, the overall dominant trend in bond yields since July 2015 has been for yields to fall to historically low levels as forecasts for inflation have repeatedly been revised downwards and expectations of increases in central rates have been pushed back. In addition, a notable trend in the year was that several central banks introduced negative interest rates as a measure to stimulate the creation of credit and hence economic growth.


The ECB had announced in January 2015 that it would undertake a full blown quantitative easing programme of purchases of Eurozone government and other bonds starting in March at €60bn per month. This put downward pressure on Eurozone bond yields. There was a further increase in this programme of QE in December 2015. The anti-austerity government in Greece, elected in January 2015 eventually agreed to implement an acceptable programme of cuts to meet EU demands after causing major fears of a breakup of the Eurozone. Nevertheless, there are continuing concerns that a Greek exit has only been delayed.

As for America, the economy has continued to grow healthily on the back of resilient consumer demand. The first increase in the central rate occurred in December 2015 since when there has been a return to caution as to the speed of further increases due to concerns around the risks to world growth.


On the international scene, concerns have increased about the slowing of the Chinese economy and also its potential vulnerability to both the bursting of a property bubble and major exposure of its banking system to bad debts. The Japanese economy has also suffered disappointing growth in this financial year despite a huge programme of quantitative easing, while two of the major emerging market economies, Russia and Brazil, are in recession. The situations in Ukraine, and in the Middle East with ISIS, have also contributed to volatility.

The UK elected a majority Conservative Government in May 2015, removing one potential concern but introducing another due to the promise of a referendum on the UK remaining part of the EU. The government maintained its tight fiscal policy stance but the more recent downturn in expectations for economic growth has made it more difficult to return the public sector net borrowing to a balanced annual position within the period of this parliament.


**Gross Domestic Product Analysis (GDP)**



Inflation Rate Forecasts




**Public Works Loans Board Rates 2015-16**




| | 1 | 1-1.5 | 2.5-3 | 3.5-4 | 4.5-5 | 9.5-10 | 24.5-25 | 49.5-50 | 1 month variable |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1/4/15 | 1.130% | 1.210% | 1.510% | 1.710% | 1.900% | 2.490% | 3.150% | 3.110% | 1.320% |
| 31/3/16 | 1.130% | 1.160% | 1.330% | 1.470% | 1.610% | 2.280% | 3.110% | 2.920% | 1.310% |
| High | 1.350% | 1.470% | 1.860% | 2.120% | 2.350% | 3.060% | 3.660% | 3.580% | 1.370% |
| Low | 1.010% | 1.040% | 1.190% | 1.330% | 1.470% | 2.100% | 2.980% | 2.810% | 1.310% |
| Average | 1.212% | 1.302% | 1.608% | 1.814% | 2.004% | 2.653% | 3.348% | 3.216% | 1.336% |
| Spread | 0.340% | 0.430% | 0.670% | 0.790% | 0.880% | 0.960% | 0.680% | 0.770% | 0.060% |
| High date | 05/08/2015 | 06/08/2015 | 02/07/2015 | 15/07/2015 | 14/07/2015 | 14/07/2015 | 02/07/2015 | 14/07/2015 | 30/10/2015 |
| Low date | 11/02/2016 | 11/02/2016 | 11/02/2016 | 11/02/2016 | 11/02/2016 | 11/02/2016 | 11/02/2016 | 11/02/2016 | 21/03/2016 |

| | 1 Year | 5 Year | 10 Year | 25 Year | 50 Year |
|---|---|---|---|---|---|
| 1/4/15 | 1.13% | 1.90% | 2.49% | 3.15% | 3.11% |
| 31/3/16 | 1.13% | 1.61% | 2.28% | 3.11% | 2.92% |
| Low | 1.01% | 1.47% | 2.10% | 2.98% | 2.81% |
| Date | 11/02/2016 | 11/02/2016 | 11/02/2016 | 11/02/2016 | 11/02/2016 |
| High | 1.35% | 2.35% | 3.06% | 3.66% | 3.58% |
| Date | 05/08/2015 | 14/07/2015 | 14/07/2015 | 02/07/2015 | 14/07/2015 |
| Average | 1.21% | 2.00% | 2.65% | 3.35% | 3.22% |


Apr 2015 - Mar 2016 PWLB maturity certainty rates
4.00%
3.50%
3.00%
2.50%
2.00%
1.50%
1.00%
0.50%
1-Apr-15
1-May-15
1-Jun-15
1-Jul-15
1-Aug-15
1-Sep-15
1-Oct-15
1-Nov-15
1-Dec-15
1-Jan-16
1-Feb-16
1-Mar-16
1 Year
5 Year
10 Year
50 Year
50 year target %

Investment Rates 2015-16

Bank Rate remained at its historic low of 0.5% throughout the year; it has now remained unchanged for seven years.  Deposit rates remained depressed during the whole of the year, primarily due to the effects of the Funding for Lending Scheme.




***Allan gan / From: CAPITA ASSET SERVICES – TREASURY SOLUTIONS***

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MON | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **CYNGOR SIR YNYS MÔN** |
| **DYDDIAD:** | **27 MEDI 2016** |
| **PWNC:** | **CYFRIFON TERFYNOL 2015/16** |
| **DEILYDD PORTFFOLIO:** | **CYNGHORYDD H E JONES** |
| **SWYDDOG (S):** | **R MARC JONES** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **BETHAN H OWEN / CLAIRE KLIMASZEWSKI** |
| **Natur a rheswm am adrodd**<br>Adroddiad Esboniadol ar gyfer Cyflwyno'r Datganiad Cyfrifon Terfynol yn cynnwys sylwadau ar y prif faterion yn codi o'r Archwiliad o'r Cyfrifon | |

## 1. CEFNDIR

**1.1** Cafodd Datganiad Cyfrifon drafft Cyngor Sir Ynys Mon ei gyflwyno ar gyfer eu harchwilio ar 27 Mehefin 2016. Mae rhan fwyaf o'r gwaith archwilio manwl wedi ei gwblhau erbyn hyn ac mae Adroddiad yr Archwiliwr wedi cael ei gyflwyno. Mae nifer o newidiadau i'r drafft wedi eu hymgorffori i'r Cyfrifon.

**1.2** Ar yr amod y ceir cadarnhad gan Gyngor Sir Ynys Mon, bydd y Cyfrifon yn cael eu llofnodi gan Bennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) - Swyddog Adran 151 a Cadeirydd y Cyngor a'u cyhoeddi wedi i ni dderbyn Barn yr Archwiliwr.

## 2. ANSAWDD Y BROSES

**2.1** Mae'r Cyfrifon wedi eu harchwilio argyfer 2015/16, unwaith eto wedi eu cwblhau erbyn y dyddiad gofynol stadudol.

**2.2** Rwy'n falch hefyd, o ddweud bod y gwelliannau i'r broses archwilio a nodwyd llynedd wedi parhau a bod yr holl faterion a gododd yn ystod y broses archwilio wedi cael sylw mewn modd amserol a boddhaol.

## 3. NEWIDIADAU I'R CYFRIFON

**3.1** Mae'r manylion am y prif newidiadau i'r cyfrifon drafft fel y'u gwelir yn Adroddiad yr Archwilwr Atodiad 3. Mae'r holl ddiwygiadau wedi eu cytuno ac wedi eu newid yn y Daganiad Cyfrifon.

**3.2** Mae'r newidiadau sylweddol yr oedd angen eu gwneud i'r datganiadau drafft wedi eu cyfyngu at ei gilydd i :-

- Newidiadau yn y Fantolen mewn perthynas a symudiadau o ran prisiau asdeau sefydlog ;
- Newidiadau i lefelau'r cronfeydd wrth gefn a'r ddarpariaeth i adlewyrchu'r gofynion diwygiedig yn dilyn yr archwiliad, yn enwedig o ran Tâl Cyfartal ac Arfarnu Swyddi, lle mae trosglwyddiad o'r Ddarpariaeth i Gronfeydd wrth Gefn wedi ei wneud er mwyn adlewyrchu sefyllfa gyfredol y prosiectau hyn.

## 4. ARGYMHELLION YR ARCHWILIWR

**4.1** Mae'r Achwilwyr yn dilyn eu gwaith a'r Ddatganiad y Cyfrifon 2015/16 wedi gwneud 11 argymhelliad am welliannau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r argymhellion wedi cael eu derbyn gan Dîm Rheoli Cyllid a fydd yn gwneud yn siwr fod yr holl argymhellion yn cael eu cyflawni.

## 5. ARGYMHELLIAD

**5.1** I dderbyn Datganiad y Cyfrifon am 2015/16.

**5.2** I nodi derbyn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol gan y Pwyllgor Archwilio a'i gyfeirio at Arweinydd y Cyngor ar Prif Weithredwr i'w arwyddo.

**R MARC JONES**
**PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151 20 MEDI 2016**

# Ynys Môn

# THE ISLE OF Anglesey

# Datganiad o'r Cyfrifon 2015/16






CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

www.ynysmon.gov.uk www.anglesey.gov.uk

cyngormon
ioacc

@cyngormon
@angleseycouncil

| Cyfeirnod | Disgrifiad | Tudalen |
|---|---|---|
| | Adroddiad Naratif | 1 |
| | Datganiad Cyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon | 13 |
| | Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol | 14 |
| | Datganiad o’r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn | 16 |
| | Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 17 |
| | Y Fantolen | 18 |
| | Datganiad Llif Arian | 19 |
| Nodyn 1 | Datganiad o Bolisïau Cyfrifo | 20 |
| Nodyn 2a | Safonau cyfrifo a gyhoeddwyd ond nad ydynt eto wedi eu mabwysiadu | 44 |
| Nodyn 2b | Safonau Cyfrifo sydd wedi eu cyhoeddi a’u mabwysiadu | 44 |
| Nodyn 3 | Barnau Allweddol wrth weithredu’r Polisïau Cyfrifo | 45 |
| Nodyn 4a | Tybiaethau a wnaed am y dyfodol a ffynonellau pwysig eraill o amcangyfrif ansicr | 45 |
| Nodyn 4b | Addasiadau o ran y cyfnod blaenorol, newidiadau mewn polisïau cyfrifo, amcangyfrifon a chamgymeriadau | 47 |
| Nodyn 5 | Eitemau Sylweddol o Incwm a Gwariant | 47 |
| Nodyn 6 | Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen | 47 |
| Nodyn 7 | Addasiadau rhwng Sail Gyfrifo a Sail Ariannu dan Reoliadau | 48 |
| Nodyn 8 | Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd | 50 |
| Nodyn 9 | Balansau Ysgolion | 51 |
| Nodyn 10 | Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf | 51 |
| Nodyn 11 | Cronfeydd wrth Gefn Na Ellir Eu Defnyddio | 52 |
| Nodyn 12 | Gwariant Gweithredol Arall | 56 |
| Nodyn 13 | Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi | 56 |
| Nodyn 14 | Incwm Treth a Grantiau Amhenodol | 56 |
| Nodyn 15 | Asedau nad ydynt yn gyfredol - Eiddo, Offer a Chyfarpar | 57 |
| Nodyn 16 | Ymrwymiadau Cyfalaf Sylweddol | 59 |
| Nodyn 17 | Asedau Treftadaeth | 59 |
| Nodyn 18a-c | Eiddo Buddsoddiad | 61 |
| Nodyn 19 | Asedau Annirweddol | 62 |
| Nodyn 20 | Gwariant Cyfalaf a Chyllido | 63 |
| Nodyn 21 | Asedau a Ddelir i’w Gwerthu | 63 |
| Nodyn 22 | Prydlesau | 64 |
| Nodyn 23 | Rhestrau stoc | 64 |
| Nodyn 24 | Dyledwyr | 64 |
| Nodyn 25 | Arian Parod a Chywerthoedd Arian | 65 |
| Nodyn 26 | Credydwyr | 65 |
| Nodyn 27 | Darpariaethau | 66 |
| Nodyn 28 | Llif Arian o Weithgareddau Gweithredu | 67 |
| Nodyn 29 | Llif Arian o Weithgareddau Buddsoddi | 67 |
| Nodyn 30 | Llif Arian o Weithgareddau Ariannu | 68 |
| Nodyn 31 | Symiau yr Adroddwyd Arnynt ar gyfer Penderfyniadau Dyrannu Adnoddau | 68 |

| Cyfeirnod | Disgrifiad | Tudalen |
|---|---|---|
| Nodyn 32 | Gweithrediadau  Masnachol | 73 |
| Nodyn 33 | Lwfansau Aelodau | 73 |
| Nodyn 34 | Cydnabyddiaeth Ariannol i Swyddogion | 73 |
| Nodyn 35 | Pecynnau Ymadael | 75 |
| Nodyn 36 | Ffioedd Archwilio Allanol | 76 |
| Nodyn 37 | Incwm Grantiau | 76 |
| Nodyn 38 | Partïon Cysylltiedig | 77 |
| Nodyn 39 | Cronfeydd Ymddiriedol | 79 |
| Nodyn 40 | Cynllun Pensiynau Athrawon | 81 |
| Nodyn 41 | Cynllun Pensiwn Buddiannau Diffiniedig Llywodraeth Leol | 81 |
| Nodyn 42 | Cronfa Wrth Gefn ar gyfer Ymrwymiadau Posibl | 87 |
| Nodyn 43 | Asedau Amodol | 88 |
| Nodyn 44 | Offerynnau Ariannol | 88 |
| Nodyn 45 | Natur a lefel y risgiau sy'n codi o'r offerynnau ariannol | 90 |
| Nodyn 46 | Cyd-bwyllgorau | 93 |
| Nodyn 47 | Troi Tai'n Gartrefi | 94 |
| Nodyn 48 | Y Dreth Gyngor | 94 |
| Nodyn 49 | Trethi Cenedlaethol Annomestig (TCA) | 95 |
| Nodyn 50 | Morwrol | 96 |
| | Cyfrif Refeniw Tai (CRT)<br>- Datganiad Incwm a Gwariant<br>- Datganiad Symudiadau ar Falans CRT<br>- Nodiadau ar y Cyfrif Refeniw Tai | 97 |
| Atodiad 1 | 106 | 102 |
| Atodiad 2 | Geirfa | 104 |
| Atodiad 3 | Llyfryddiaeth | 112 |
| | Datganiad Llywodraethu Blynyddol | 113 |

# Adroddiad Naratif

Cyhoeddir y Datganiad Cyfrifon bob blwyddyn er mwyn rhoddi i etholwyr, trethdalwyr lleol, Aelodau'r Cyngor, gweithwyr a phartïon eraill sydd â diddordeb, wybodaeth glir ynghylch sefyllfa ariannol y Cyngor. Nod yr adroddiad naratif hwn, sy'n rhan allweddol o'r cyfrifon, yw darparu canllawiau effeithiol i'r materion pwysicaf yr adroddir arnynt yn y cyfrifon. Gwneir hyn er mwyn darparu esboniad teg, cytbwys a hawdd i'w ddeall o sefyllfa ariannol y Cyngor ac i gynorthwyo i ddehongli'r datganiadau ariannol. Yn ogystal, mae'n cynnwys gwybodaeth ychwanegol am y Cyngor yn gyffredinol a'r prif ddylanwadau ar y datganiadau ariannol er mwyn darparu cyswllt rhwng gweithgareddau a heriau'r Cyngor a'r modd y mae'r rhain yn effeithio ar ei adnoddau ariannol.

Mae'r adroddiad naratif wedi'i strwythuro fel a ganlyn:-

**1.** Y Fframwaith Statudol
**2.** Gwybodaeth am Gyngor Sir Ynys Môn
**3.** Trosolwg a Datganiad o Berfformiad
**4.** Prif faterion o gyfrifon 2015/16
**5.** Esboniad o'r datganiadau ariannol

## 1. Y Fframwaith Statudol

Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i gymeradwyo a chyhoeddi Datganiad Cyfrifon. Mae'r tudalennau a ganlyn yn cynnwys y Datganiad Cyfrifon ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016.


Daeth Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 i rym ar 31 Mawrth 2015 ac maent, o'r herwydd, yn disodli Rheoliad 7 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 (OS2005/368(W.34), fel y cawsant eu diwygio) ar gyfer blwyddyn gyfrifon 2015/16 a chyfnodau yn y dyfodol. Yn unol â'r Rheoliadau hyn, rhaid i Awdurdodau Lleol yng Nghymru baratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â'r rheoliadau hyn ac arferion priodol.

Mae Rheoliad 25 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifo) (Cymru) 2003 (OS2003/3239(W.319), fel y cawsant eu diwygio) yn nodi arferion priodol ar gyfer paratoi Datganiad Cyfrifon. Mae'r arferion hyn yn cynnwys yn bennaf y Côd Ymarfer ar Gyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2015/16 a'r Côd Ymarfer Adrodd ar Wasanaethau 2015/16 a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA), wedi eu cefnogi gan y Safonau Rhyngwladol ar gyfer Adrodd ar Faterion Ariannol (IFRS). Yn ogystal, mae'r naratif hwn yn cynnwys canllawiau o lawlyfr adrodd ariannol Trysorlys Ei Mawrhydi (FReM) 2015/16, adrannau 5.2.1 i 5.2.10 fel yr anogir gan gôd CIPFA.

## 2. Gwybodaeth am Gyngor Sir Ynys Môn

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn awdurdod unedol sydd â phoblogaeth o 70,169. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod amrediad eang o wasanaethau'n cael eu darparu ar gyfer trigolion, busnesau ac ymwelwyr i'r Ynys. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys addysg, diogelu plant ac oedolion bregus, gofal cymdeithasol, iechyd cyhoeddus, priffyrdd, hamdden, diwylliant, casglu gwastraff, cynllunio, gweinyddu tai, budd-daliadau, adfywio ac ymgysylltiad cymunedol. Yn ychwanegol at ddarparu gwasanaethau, mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am gasglu trethi lleol ar ffurf y Dreth Gyngor a Threthi Cenedlaethol Annomestig ar ei ran ei hun.

Mae'r Cyngor yn sefydliad a arweinir yn wleidyddol ac mae wedi mabwysiadu model Arweinydd a Chabinet. Mae ganddo 30 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli 11 o wardiau aml-aelod ar draws y Sir. Drwy gydol 2015/16, bu'r Cyngor yn gweithredu dan weinyddiaeth a oedd yn glymblaid o'r grwpiau annibynnol/Llafur/Democratiaid Rhyddfrydol. Gweler isod gyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor fel yr oedd ar 31 Mawrth 2016:-



## 3. Trosolwg

### 3.1 Datganiadau gan Arweinydd y Cyngor

Fel Arweinydd y Cyngor, fy nghyfrifoldeb i yw sicrhau bod y garreg filltir bwysig o gynhyrchu'r Datganiad Cyfrifon Blynyddol yn cael ei chyflawni ar amser bob blwyddyn. Mae'r cyfrifon yn darparu llawer iawn o wybodaeth ariannol am y modd y cafodd y Cyngor ei ariannu a sut y gwariwyd yr arian hwnnw yn ystod 2015/16. Mae'n bwysig o ran atebolrwydd i'r Cyngor ddarparu'r wybodaeth hon ar gyfer preswylwyr, trethdalwyr lleol, busnesau sy'n talu trethi annomestig cenedlaethol a chydranddeiliaid eraill gan gynnwys Llywodraeth Cymru.

Caiff y Cyngor ei gyllido drwy gymysgedd o arian gan Lywodraeth Cymru drwy'r Grant Cynnal Refeniw a chyfran y Cyngor o'r gronfa Trethi Annomestig, trethi lleol drwy'r Dreth Gyngor a ffioedd a'r taliadau a delir gan gwsmeriaid y Cyngor. Yn 2015/16, cyllideb net y Cyngor oedd £124.6m a daeth £30.96m o'r swm hwnnw o'r Dreth Gyngor. Roedd y cynnydd yn y Dreth Gyngor yn 4.5%.

Mae'r canlyniadau ar gyfer y flwyddyn yn arwydd o'r ffaith bod y Cyngor yn parhau i fod yn ddarbodus yn y modd y mae'n rheoli ei arian ac, er bod cyllideb net y Cyngor wedi gostwng 1.6% o'i gymharu â 2014/15, y galw cynyddol am wasanaethau, yn enwedig i Gwasanaethau Plant, a gwariant unwaith ac am byth oherwydd y tywydd mawr dros y gaeaf, gwelwyd cynnydd o £1.929m, neu 7.6%, ym malansau a chronfeydd y Cyngor (heb gynnwys HRA) yn gyffredinol.

Mae'r dyfodol o ran ariannu'r sector cyhoeddus yn ansicr ond mae'n debyg y bydd y cyllid a dderbynnir gan y llywodraeth ganolog yn gostwng dros y tair blynedd nesaf ac mae Strategaeth Ariannol Tymor Canol y Cyngor wedi adnabod yr angen parhaus i leihau gwariant refeniw blynyddol dros y cyfnod hwn. Bydd cael lefel iach o gronfeydd wrth gefn a balansau yn helpu yn y tymor byr, ond nid yw'n ffynhonnell gyllido gynaliadwy. Felly, mae'r Cyngor wrthi'n adolygu holl wasanaethau y mae'n eu darparu ac yn edrych ar ddulliau amgen o'u darparu a fydd yn caniatáu i'r gwasanaethau barhau ond am lai o gost. Bydd hyn yn cynnwys gweithio mwy mewn partneriaeth â Chynghorau Tref a Chymuned, Sefydliadau Cymunedol a Gwirfoddol a'r Trydydd Sector.

Ni fydd y sefyllfa ariannol, fodd bynnag, yn atal y Cyngor rhag canolbwyntio ar ei flaenoriaethau allweddol a byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn meysydd fel ysgolion newydd, tai a gwasanaethau i bobl hŷn. Byddwn hefyd yn buddsoddi mewn Technoleg Gwybodaeth er mwyn moderneiddio ein prosesau busnes a gwella ein gwasanaethau i'n cwsmeriaid. Drwy'r buddsoddiad parhaus hwn, byddir yn sicrhau arbedion refeniw a fydd yn helpu'r Cyngor i ddarparu cyllideb gytbwys yn y dyfodol.

Ystyrir bod sefyllfa ariannol sefydliad yn ddangosydd allweddol o safon gyffredinol y llywodraethiant corfforaethol. Rwy'n hyderus y bydd y Cyngor drwy reolaeth ariannol gadarn, yn parhau i fod yn gryf ac yn gynaliadwy o safbwynt ariannol yn y dyfodol.

**Ieuan Williams**
**Arweinydd y Cyngor** **Mehefin 2016**

## 3.2 Pwrpas a gweithgareddau allweddol y Cyngor

Yn unol â Chynllun Corfforaethol y Cyngor am 2013 – 2017, y nod ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn yw y byddwn, erbyn 2017, yn gyngor proffesiynol sy'n cael ei redeg yn dda, yn arloesol ac yn eangfrydig ein hymagwedd, yn ymrwymedig i ddatblygu ein pobl a'n partneriaethau er mwyn darparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol o safon dda sy'n cael eu gwerthfawrogi gan ein dinasyddion.

I gyflawni hyn, bydd angen i ni drawsnewid ein gwasanaethau a'r modd y mae'r Cyngor yn gweithio. I drawsnewid ein Cyngor, bydd angen i ni wrando ar yr hyn y mae ein dinasyddion, defnyddwyr gwasanaeth a busnesau'n ei ddweud a chaniatáu i'w barn ddylanwadu ar yr hyn yr ydym yn ei wneud.

Mae'r gwaith ymgynghori mwyaf pellgyrhaeddol yr ydym erioed wedi'i gynnal fel cyngor wedi ein cynorthwyo i greu'r cynllun hwn. Yn ystod yr ymarferion ymgysylltu ac ymgynghori a gynhaliwyd ers 2012, gofynnwyd i ddinasyddion am eu barn ynglŵn â pha rai o wasanaethau Cyngor Sir Ynys Môn oedd bwysicaf iddynt, a'r rhai nad oeddent, yn eu tyb hwy, mor bwysig. Ar draws grwpiau oed, daearyddiaeth a'r mecanweithiau ymgynghori gwahanol y blaenoriaethau cyson yw:-

- Cefnogi'r mwyaf bregus
- Datblygu'r economi
- Codi safonau a moderneiddio ein hysgolion

Y blaenoriaethau hyn yw sylfaen ein cynllun corfforaethol. Fel pob awdurdod lleol arall, bydd pwysau mawr ar gyllidebau Ynys Môn a rhaid i'r awdurdod ganolbwyntio ar ddod o hyd i fwy o arbedion. Yn anorfod, bydd hyn yn golygu newidiadau o ran y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu a'r modd yr ydym yn eu darparu.

Bydd y Cyngor, felly, yn gweithio gyda'n dinasyddion i newid y ffordd yr ydym i gyd yn meddwl am gyfrifoldebau priodol y Cyngor, cymunedau ac unigolion. Er y bydd y Cyngor wrth gwrs yn parhau i fod yn gyfrifol am ddarpariaeth ddwyieithog o wasanaethau statudol, bydd y gwasanaethau'n cael eu darparu fwyfwy mewn gwahanol ffyrdd, a chan ddarparwyr eraill. Efallai, bydd gofyn inni reoli'r lleihad mewn cyllidebau a'r galw cynyddol oherwydd newidiadau demograffig a chymdeithasol, er mwyn sicrhau y parheir i warchod y blaenoriaethau hyn.

### 3.2.1 Y Senario Ariannol

Fel pob Awdurdod Lleol arall yng Nghymru, rhaid i Gyngor Sir Ynys Môn reoli sefyllfa lle mae costau a'r pwysau ar wasanaethau'n cynyddu ond y cyllid sydd ar gael yn gostwng. Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae'r cyllid a gafodd y Cyngor gan Lywodraeth Cymru wedi gostwng gan £5.3m mewn termau arian parod (5.5%) a rhagwelir y bydd gostyngiadau ar o leiaf yr un lefel yn cael eu gweithredu yn y tair blynedd nesaf. Yn y cyd-destun hwn, mae angen i'r Cyngor reoli'r galw cynyddol am wasanaethau, pwysau chwyddiant, yr angen i fuddsoddi yn yr economi leol i hyrwyddo twf a'r dymuniad i wella gwasanaethau'n barhaus.

Mae'r Cyngor wedi ymateb i'r gostyngiad drwy wneud arbedion sylweddol yn ystod y tair blynedd ddiwethaf ac mae'n parhau i geisio sicrhau, lle bynnag y mae hynny'n bosibl, y gwneir yr arbedion drwy wella effeithlonrwydd yn hytrach na thorri gwasanaethau.

Y pethau allweddol y byddir yn canolbwyntio arnynt ar gyfer y cynllun ariannol tymor canol yw:-

- Ailddylunio gwasanaethau i ymyrryd yn gynt, gan ostwng gwasanaethau ymatebol costus;
- Adolygu'r holl wasanaethau er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu darparu yn y modd mwyaf effeithiol posib;
- Gwneud y gorau o eiddo a thir er mwyn hyrwyddo effeithlonrwydd a thwf;
- Ail-ganolbwyntio gwasanaethau i gefnogi twf yn lleol;
- Cael trafodaethau aeddfed gyda chymunedau i flaenoriaethu'r hyn sy'n bwysig iddynt hwy ac annog ymgysylltiad er mwyn datrys problemau lleol;
- Cael gwared ar ddyblygu rhwng gwasanaethau a mynd ar ôl arbedion maint.

## 3.3 Llwyddiannau allweddol, materion a risgiau sy'n effeithio'r Cyngor

Mae'r Cyngor wedi pennu saith blaenoriaeth allweddol ar gyfer y blynyddoedd nesaf: -

- Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŵn;
- Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi;
- Gwella Addysg, Sgiliau a Moderneiddio ein Hysgolion;
- Cynyddu ein Opsiynau Tai a Lleihau Tlodi;
- Trawsnewid ein Darpariaeth Hamdden a Llyfrgelloedd;
- Canolbwyntio ar Gwsmeriaid, Dinasyddion a'r Gymuned;
- Trawsnewid ein Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh).

Yn ystod 2015/16 parhaodd gwaith ar y saith blaenoriaeth gyda'r llwyddiannau allweddol canlynol yn ystod y flwyddyn ariannol:-

**1.** Mae gwaith wedi dechrau ar adeiladu'r 2 ysgol gynradd newydd (Ysgol Cybi ac Ysgol Rhyd y Llan) o dan raglen ysgolion yr 21ain ganrif Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn golygu y bydd 6 o ysgolion cynradd bach yn cau gyda'r disgyblion yn trosglwyddo i 2 ysgol newydd yn ystod 2017.

**2.** Cwblhaodd y Cyngor y broses o brynu allan o'r system Cyfrif Refeniw Tai am £21m. Mae cynllun busnes 30 mlynedd wedi cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ac mae gwaith wedi dechrau i ychwanegu at stoc dai bresennol y Cyngor drwy brynu tai a werthwyd o dan y cynllun Hawl i Brynu ac mae cynlluniau'n cael eu datblygu i adeiladu tai newydd.

**3.** Mae'r Cyngor bron â chwblhau cytundeb gyda Landlord Cymdeithasol Cofrestredig i adeiladu Cyfleuster Gofal Ychwanegol yn Llangefni. Y bwriad yw bydd y gwaith i adeiladu'r cyfleuster newydd yn dechrau yn 2016 ac y bydd yn agor yn hwyr yn 2017. Bydd hyn yn fodd i'r Cyngor gychwyn ar y broses o drawsnewid y modd y darperir Gofal Cymdeithasol i Oedolion.

**4.** Parhaodd y Cyngor i ddefnyddio grantiau o dan y cynllun Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid yn ardal Caergybi. Gwariwyd £2.4m pellach yn ystod 2015/16. 2016/17 yw blwyddyn olaf y cynllun.

**5.** Cychwynnwyd ar y gwaith i foderneiddio a rhesymoli'r modd y gweinyddir Gwasanaethau'r Cyngor (Gweithio'n Gallach) a gwnaed gwelliannau i Bencadlys y Cyngor ac i Systemau TG y Cyngor. Bydd y newidiadau yn caniatáu i staff weithio'n fwy hyblyg heb yr angen i fod mewn swyddfa. Bydd y rhaglen hon yn arwain at gau 2 swyddfa a bydd y rhan fwyaf o staff gweinyddol y Cyngor yn cael eu lleoli yn yr un lle. Bydd hyn yn rhoi gwasanaeth gwell i'r cwsmer ac, yn ogystal, yn fodd i'r Cyngor leihau costau gan oddeutu £300k y flwyddyn.

6. Er gwaethaf y gostyngiad parhaus yn y cyllid a geir gan y llywodraeth ganolog, llwyddodd y Cyngor i wneud gwerth £4.3m o arbedion refeniw yn 2015/16 a nodwyd £3.4m pellach wrth osod cyllideb 2016/17. Er bod hyn wedi golygu cynnydd uwch na chwyddiant yn y Dreth Gyngor, mae treth Band D Ynys Môn yn parhau i fod ymysg yr isaf yng Nghymru.

7. Mae'r Cyngor wedi cryfhau ei arferion Caffael ac mae hyn wedi arwain at arbedion refeniw gwerth oddeutu £500k trwy ail-dendro contractau'r Cyngor neu drwy ddefnyddio fframweithiau caffael cenedlaethol.

8. Llwyddodd y Cyngor i gynnal lefel iach o gronfeydd wrth gefn a balansau cyffredinol ac, er gwaethaf y ffaith y bu angen £600k i ddelio â materion yn codi oherwydd y tywydd mawr a gafwyd dros y gaeaf, mae'r Cyngor wedi gallu rhyddhau £1m o'r balansau cyffredinol i gyllido prosiectau penodol gyda'r nod o wella prosesau busnes a gwasanaethau i gwsmeriaid. Bydd y prosiectau hyn hefyd yn darparu arbedion refeniw pellach a fydd yn helpu'r Cyngor ddelio â'r amgylchiadau ariannol anodd y bydd yn eu hwynebu dros y tair blynedd nesaf.

## 3.4 Crynodeb o Berfformiad

### 3.4.1 Gwariant Refeniw

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn nodi gwariant a chyllid y Cyngor yn unol â'r gofynion cyfrifo. Mae'r Cyngor yn mesur perfformiad ariannol yn erbyn gweithgaredd a gynlluniwyd ar ffurf cyfrifon rheoli'r Cyngor. Yn 2015/16, adroddwyd bod gan y Cyngor danwariant o £1.8m yn erbyn gweithgaredd a gynlluniwyd gwerth £124.6m (cyllideb net) a'i fod wedi llwyddo i sicrhau arbedion gwerth £4.3m. Mae'r tabl isod yn adlewyrchu'r gyllideb derfynol ar gyfer 2015/16 ac incwm a gwariant gwirioneddol yn ei herbyn.

| Pwyllgor | Cyllideb Blynyddol £'000 | Alldro £'000 | Amrywiant £'000 |
|---|---|---|---|
| **Dysgu Gydol Oes** | 53,568 | 51,101 | (2,467) |
| **Cymunedau** | 29,611 | 29,894 | 283 |
| **Datblygu Cynaliadwy** | 24,399 | 19,388 | (5,011) |
| **Dirprwy Brif Weithredwr** | 17,066 | 22,412 | 5,346 |
| **Cyfanswm Cronfa'r Cyngor** | **124,644** | **122,795** | **(1,849)** |

Effaith y tanwariant oedd bod y Cyngor wedi ychwanegu £1.849m at y cronfeydd wrth gefn cyffredinol. Fodd bynnag, roedd hyn yn gwrthbwyso'n rhannol wrth ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i ariannu diswyddiadau a trosglwyddiad i Gwasanaethau Plant o £476k i helpu ariannu lleoliadau statudol am blant mewn gofal, fel y cymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith. Y cynnydd net yn y gronfa arian wrth gefn cyffredinol oedd £1.693m am y flwyddyn.

Mae'r cyflwyniad uchod yn adlewyrchu'r modd y caiff costau eu categoreiddio, eu monitro a'u rheoli yn y Cyngor. Mae'r Cyfrifon isod yn adrodd ar yr un gwariant ac incwm ond mewn ffurf gwahanol er mwyn cydymffurfio gyda'r gofynion allanol statudol o ran adrodd. Mae hyn yn cynnwys costau ychwanegol megis dibrisiant neu newidiadau yng ngwerth eiddo na fedrir, yn unol â'r rheoliadau, eu codi ar gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio yn y flwyddyn.

### 3.4.2 Gwariant Cyfalaf

Mae'r rhaglen gyfalaf yn cefnogi amcan ehangach y Cyngor i ddarparu gwasanaethau ac i gefnogi twf economaidd. Yn 2015/16, cymeradwyodd y Cyngor Raglen Gyfalaf o £15.150m ar gyfer gwasanaethau ac eithrio tai a Rhaglen Gyfalaf o £8.589m ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai. Dygwyd Ymrwymiadau Cyfalaf gwerth £4.029m o 2014/15 a dygwyd cyllideb ymlaen ar gyfer y rhaglen mân-ddaliadau. Yn ei gyfarfod ar 20 Ebrill 2015, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith ryddhau cyllid ychwanegol er mwyn cwblhau Cynllun Pier Biwmares, a chafodd y swm o £21.169m ar gyfer cwblhau'r broses o brynu allan o'r CRT ei ychwanegu at y rhaglen ac, ar ôl gosod y gyllideb, llwyddodd y Cyngor i sicrhau cyllid grant ychwanegol ar gyfer prosiectau penodol yn 2015/16. Daw hyn â'r gyllideb gyfalaf am 2015/16 i £58.264m.


Gwnaed cynnydd ardderchog gyda'r rhaglen yn ystod y flwyddyn a llwyddwyd i gyflawni 75% ohoni a disgwylir y bydd y cynlluniau sy'n weddill yn cael eu cyflawni yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf.

O'r cyfanswm gwariant hwn o £43.975m, cafodd £9.491m ei gyfalafu a'i ychwanegu at werth yr asedau ym Mantolen y Cyngor. Cafodd y gweddill ei godi i'r Datganiad Incwm a Gwariant oherwydd roedd naill ai'n cefnogi asedau nad oedd ym mherchenogaeth uniongyrchol y Cyngor (£24.541m) neu ddim yn ychwanegu unrhyw werth at yr asedau cyfalaf (£9.943m).

Yn y tabl isod, ceir dadansoddiad o'r gwariant sydd wedi cael ei gyfalafu:-

| Cynllun | Swm (£'000) |
|---|---|
| Ysgol yr 21ain Ganrif - Caergybi | 1,969 |
| Ysgol yr 21ain Ganrif – Llannau | 430 |
| Ynys Mon Arfordirol | 319 |
| Grant VVP Gwella Stryd Y Farchnad | 15 |
| Arwyddion a Pharcio Ymwelwyr | 8 |
| Arwyddion a Pharcio HGV | 6 |
| Goleuadau LED | 86 |
| Cerbydau Prynu | 671 |
| Menter Benthyca Darbodus Sir | 1,971 |
| Lliniaru Llifogydd Biwmares | 1,118 |
| Llwybrau Mwy Diogel Mewn Cymunedau | 181 |
| Grant Diogelwch ar y Ffyrdd | 200 |
| Teithio Heini | 5 |
| Ffordd Gyswllt Llangefni | 888 |
| Fynwent Llanbedrgoch | 20 |
| Fynwent Llanddona | 102 |
| Pier Biwmares | 270 |
| Gweithio'n Gallach (Rhan o'r Cynllun) | 115 |
| System Wrth Gefn ICT | 50 |
| Microsoft Exchange ICT | 61 |
| 3 Comm Refresh ICT | 50 |
| Backup Ychwanegol ICT | 20 |
| Serfwyr Newydd ICT | 166 |
| Uwchraddio CMS ICT | 14 |
| Serfwyr ICT | 40 |
| Ailwampio Brwynog | 16 |
| Caffael Adeiladau Presennol | 588 |
| VVP Grant Victoria Gateway | 71 |
| Caffael Cadwyn y Maer | 39 |
| **Total** | **9,491** |

| Ariennir Gan: | £m |
|---|---|
| Benthyca heb gymorth | 1.971 |
| Benthyca gyda gymorth | 0.000 |
| Grantiau cyfalaf | 6.336 |
| Derbyniadau cyfalaf | 0.635 |
| Cyfraniad refeniw | 0.456 |
| Cronfeydd wrth gefn | 0.093 |
| **Cyfanswm** | **9.491** |
| | |




**Nodyn ynghylch cyfleusterau benthyca cyfredol a benthyca cyfalaf yr Awdurdod**

Ar 31 Mawrth 2016, roedd gan yr Awdurdod £110.744m o Fenthyciadau Allanol gyda'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB). Ar y pryd, roedd Gofyniad Cyllido Cyfalaf yr Awdurdod, sydd, yn ei hanfod, yn fodd o fesur angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca, yn £127.657m. Yn y Datganiad ar Reoli'r Trysorlys am 2015/16, y Terfyn Benthyca Awdurdodedig ar gyfer 2015/16 oedd £165m, felly, mae'r Awdurdod yn gyfforddus o fewn ei drothwy benthyca.

**Crynodeb o ffynonellau cyllidol mewnol ac allanol sydd ar gael i'r Awdurdod gyflawni ei gynlluniau gwariant cyfalaf ac ymrwymiadau ariannol eraill**

Ar 31 Mawrth 2016, roedd ffynonellau cyllido mewnol yr Awdurdod yn cynnwys arian yn y banc gwerth £16.210m, a Chronfa Wrth Gefn ar gyfer Gwariant Cyfalaf o £0.900m. Roedd £110.744m wedi ei fenthyca'n allanol a bydd angen Benthyca Allanol pellach er mwyn sicrhau y gall yr Awdurdod gyflawni ei gynlluniau gwariant cyfalaf.

### 3.4.3 Y Fantolen

Mae mantolen y Cyngor yn dangos sefyllfa ariannol gref ar ddiwedd 2015/16 gyda gwerth net o £174.06m, cynnydd o £24.7m o gymharu â llynedd a hynny'n bennaf oherwydd newidiadau i'r rhagdybiaethau ariannol a ddefnyddiwyd gan yr actiwari bensiynau wrth weithio allan yr ymrwymiad net o ran pensiynau.

Mae manylion asedau a rhwymedigaethau tymor hir a tymor byr y Cyngor yn cael eu dangos yn y Fantolen fel ar 31 Mawrth 2016 ar dudalen 10.

**Arian Wrth Gefn**

Mae'r cynnydd o £24.7m yng ngwerth net y Cyngor yn arwain at gynnydd o £19.7m mewn arian wrth gefn an ellir eu defnyddio a cynnydd o £5.0m mewn balansau arian wrth gefn a ellir eu defnyddio (gan gynnwys HRA).

## 4. Y prif faterion sy'n effeithio ar Gyfrifon 2015/16

Gosododd y Cyngor gyllideb net o £124.6m ar gyfer 2015/16 i'w chyllido o gyfuniad o Incwm o'r Dreth Gyngor, Trethi Cenedlaethol Annomestig a grantiau cyffredinol. Roedd y gyllideb yn cynnwys gofyniad i sicrhau arbedion o £4.3m, a ymgorfforwyd yng nghyllidebau'r gwasanaethau unigol. Y canlyniad oedd tanwariant o £1.849m. Mae'r tanwariant yn cynnwys tanwariant neu orwariant yn yr adrannau, arian wrth gefn ar gyfer digwyddiadau annisgwyl na chafodd ei ddefnyddio ac unrhyw eitemau unwaith ac am byth eraill a nodwyd yn ystod y flwyddyn ariannol. Nodir yr amrywiadau yn y tabl isod:-

| | | |
|---|---|---|
| **Tanwariant Net** | | **-1,849** |
| **Cyfanswm Cyllid Ychwangeol o'r Cronfeydd Wrth Gefn** | | |
| Gwasanaethau Plant | 476 | |
| Priffyrdd | 375 | |
| Hamdden | 250 | |
| **Cyfanswm Addasiadau Untro:** | | **1,101** |
| Stoc Halen | 220 | |
| Addasiad o Groniadau'r Flwyddyn Flaenorol | 260 | |
| **Cyfanswm Cyllideb a Argyfyngau Corfforaethol** | | **480** |
| Darpariaeth Yswyriant | 600 | |
| Ariannu Cyfalaf | 400 | |
| **Cyfanswm Cyllideb a Argyfyngau Corfforaethol** | | **1,000** |
| **Gorwariant Net ar Gyllidebau Gwasanathau** | | **732** |

### Pensiynau

**Cynllun Pensiynau Athrawon -** Mae athrawon a gyflogir gan y Cyngor yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon a weinyddir gan yr Adran Addysg. Mae'r cynllun yn rhoddi i athrawon fuddion penodol ar adeg eu hymddeoliad ac mae'r Cyngor yn cyfrannu tuag at y costau drwy wneud cyfraniadau yn seiliedig ar gyfran o gyflog pensiynadwy'r aelodau.

**Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol -** Fel rhan o delerau ac amodau cyflogi ei swyddogion a gweithwyr eraill, mae'r Cyngor yn cynnig buddiannau ymddeoliad drwy fod yn rhan o Gronfa Pensiwn Gwynedd a weinyddir gan Gyngor Gwynedd. Mae hwn yn gynllun a gyllidir, sy'n golygu bod y Cyngor a'r gweithwyr yn talu cyfraniadau i gronfa wedi ei glandro ar lefel y bwriedir iddi falansio'r ymrwymiadau pensiwn gydag asedau buddsoddi. Ni fydd buddion yn daladwy mewn gwirionedd hyd oni fydd swyddogion yn ymddeol ond mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wneud y taliadau i'r Gronfa Bensiwn y mae angen eu datgelu ar yr adeg y bydd y gweithwyr yn ennill eu buddiannau i'r dyfodol.

Mae'r hinsawdd economaidd gyfredol yn parhau i gael effaith ar yr Ymrwymiad Pensiwn net. Mae un o'r newidiadau mwyaf arwyddocaol ar y Fantolen yn ymwneud â chronfa wrth gefn y Cyngor ar gyfer pensiynau ac mae wedi gostwng o £125.478m i £95.022m, gwellhad o £30.546m. Mae'n bwysig nodi bod y gwellhad yn y sefyllfa bensiwn yn seiliedig ar amrywiadau actiwaraidd. Caiff taliadau gwirioneddol y Cyngor i'r Gronfa Bensiwn eu hadolygu bob tair blynedd fel rhan o'r adolygiad o'r Gronfa Bensiwn a gynhelir bob tair blynedd. Yna, penderfynir ar strategaeth fuddsoddi sy'n anelu at adennill y diffyg hwn dros gyfnod y bydd Actiwari'r Gronfa Bensiwn (Hymans Robinson) yn penderfynu arno.

Mae'r Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn a'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn dangos y buddiannau pensiwn a gafwyd yn y flwyddyn wedi eu haddasu yn ôl yr angen i adlewyrchu'r rhan honno o'r costau pensiwn nad ydynt yn cael eu talu gan drethdalwyr y Cyngor.

**Prynu Allan o'r CRT**
Ar 2 Ebrill 2015, cwblhawyd y broses o brynu allan o'r CRT a chafwyd benthyciad o £21.169m gan PWLB ar gyfer hyn. for this. Aeth y Cyngor yn ei flaen i brynu allan oherwydd bydd yn cynhyrchu mwy o incwm o'r rhyddid y mae hyn yn ei ganiatáu ac ni fydd angen iddo mwyach dalu'r cymhorthdal CRT blynyddol i Lywodraeth Cymru. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu ymagwedd un-gronfa tuag at fenthyciadau sy'n golygu bod y costau benthyca yn cael eu rhannu ar gyfartaledd rhwng y gronfa gyffredinol a'r CRT gan ddibynnu beth yw eu cyfran o'r ddyled.

**Darpariaethau**
Roedd cyfamswm darpariaethau'r Cyngor yn werth £8.729m ar 1 Ebrill 2015. Yn ystod y flwyddyn, gostyngodd y balans o £3.658m i £5.071m, oherwydd gostyngiad yn y ddarpariaeth arfarnu swyddi sydd wedi ei ddefnyddio i gyllido costau yr aethpwyd iddynt yn ystod gweithrediad terfynol y cynllun. Roedd y costau yma'n cynnwys ôl-dâl i staff a diogelu cyflogau ar gyfer y staff rheini oedd eu cyflogau'n lleihau dan arfarnu swyddi. Mae balans o £0.126m ar ôl yn darpariaeth arfarnu swyddi i gyllido costau terfynol yn 2016/17. Gostyngwyd y ddarpariaeth ar gyfer tâl cyfartal gan £865k ac fe'i symudwyd i gronfa wrth gefn clustnodedig i gyllido costau tâl cyfartal yn y dyfodol, sy'n anodd i'w fesur ar hyn o bryd.

Gwelir manylion y symuiadau yn y darpariaeth yn nodyn 27 y Cyfrifon.

5. **Eglurhad o'r Datganiadau Ariannol**
Mae'r Datganiad Cyfrifon yn nodi manylion incwm a gwariant y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2015/16 a'i fantolen ar 31 Mawrth 2016. Mae'r datganiadau hyn yn cynnwys y Gronfa Gyffredinol a'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT). Ynddynt, nodir cyfrifoldebau'r Cyngor a Phennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) y Cyngor, sef Swyddog Adran 151 dynodedig y Cyngor.

**Datganiadau Ariannol Craidd:-**

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys pedwar o ddatganiadau ariannol craidd, sef:-

1. **Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn (MIRS)** - sy'n dangos y symudiad yn ystod y flwyddyn yn y gwahanol gronfeydd wrth gefn sydd gan y Cyngor, wedi ei ddadansoddi yn ôl arian wrth gefn y gellir ei ddefnyddio ac arian wrth gefn nad yw ar gael i'w ddefnyddio. Mae'r datganiad yn dangos cost wirioneddol darparu gwasanaethau'r Awdurdod a'r modd y caiff y costau hyn eu cyllido o wahanol gronfeydd.

2. **Y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES)** – sy'n dangos y gost cyfrifo o ddarparu gwasanaethau yn ystod y flwyddyn gan ddefnyddio arferion cyfrifo a dderbynnir yn hytrach na'r swm fydd yn cael ei gyllido o'r trethi.

3. **Y Fantolen** - sy'n nodi gwerth yr asedau a'r ymrwymiadau a gydnabyddir gan yr Awdurdod ar ddyddiad y Fantolen. Caiff asedau net eu cyfatebu gan yr arian wrth gefn sydd gan yr Awdurdod.

4. **Datganiad Llif Arian** – sy'n dangos y newidiadau o ran arian a chywerthoedd arian y Cyngor yn ystod cyfnod yr adroddir arno.

5. **Y Nodiadau** – y nodiadau i'r Datganiadau Ariannol craidd sy'n darparu mwy o fanylion am bolisïau cyfrifo'r Cyngor a'r eitemau sydd wedi eu cynnwys yn y datganiadau.

**Datganiadau Ariannol Atodol**

1. **Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon –** egluro cyfrifoldebau'r Cyngor am y Swyddog Adran 151.

2. Mae'r **Cyfrif Refeniw Tai (CRT)** yn gofnod o wariant refeniw ac incwm sy'n ymwneud â stoc dai'r Cyngor. Ei brif bwrpas yw sicrhau bod y gwariant ar reoli tenantiaethau a chynnal a chadw anheddau'n cael ei gydbwyso gan y rhenti a godir ar denantiaid. Mae'r Cyfrif Refeniw Tai wedi cael ei glustnodi'n benodol i'r pwrpas hwnnw o Gronfa Gyffredinol y Cyngor.

3. **Barn yr Archwiliwr –** Fel Archwilydd Allanol penodedig y Cyngor gan Archwiliwr Cyffredinol Cymru, bydd Deloitte LLP yn cynnal yr archwiliad statudol ar ran yr Archwiliwr Cyffredinol wedi i'r Swyddog Adran 151 lofnodi a dyddio'r datganiad cyfrifon drafft. Byddant wedyn yn cyhoeddi barn ynghylch a oes angen eu haddasu neu beidio. Y dyddiad cau ar gyfer y farn hon yw 30 Medi wedi i'r flwyddyn ddod i ben.

4. **Newidiadau mewn Polisi Cyfrifeg**

   Nid oes angen gwneud unrhyw newidiadau o bwys i'r driniaeth gyfrifo ar gyfer 2015/16.

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD CYFRIFON

### Cyfrifoldebau Cyngor Sir Ynys Môn

Mae'n ofynnol ar i Gyngor Sir Ynys Môn :-

- wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu ei faterion ariannol yn briodol a sicrhau fod gan un o'i swyddogion y cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny. Yn y Cyngor hwn, y swyddog yw'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) sydd hefyd wedi'i ddynodi'n Swyddog Adran 151;
- reoli ei faterion er mwyn sicrhau defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau ac i ddiogelu ei asedau;
- gymeradwyo'r datganiad cyfrifon.

### Cyfrifoldebau'r Swyddog Adran 151

Y Swyddog Adran 151 sydd yn gyfrifol am baratoi datganiad cyfrifon y Cyngor yn unol â'r ymarferion priodol fel y gosodir yn y Côd Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig ("Y Côd").

Wrth baratoi'r datganiad cyfrifon hwn, mae'r Swyddog Adran 151 wedi:-

- dewis polisïau cyfrifo priodol ac yna eu defnyddio'n gyson;
- ffurfio barnau a gwneud amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus;
- cydymffurfio â Chôd Ymarfer CIPFA yr Awdurdod Lleol.

Hefyd mae'r Swyddog Adran 151 wedi:-

- cadw cofnodion cyfrifo priodol ac amserol;
- cymryd camau rhesymol i ddarganfod a gwarchod rhag twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

### Tystysgrif

Tystiaf fod y Datganiad Cyfrifon yma yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ynys Môn ar y dyddiad cyfrifo a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016.

**Llofnodwyd: ……………………………….**
**Richard Marc Jones**
**PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151**

**Dyddiedig: 27 Medi 2016**

**Cymeradwyo'r Cyfrifon**
Yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, rwy'n tystio i'r Datganiad Cyfrifon gael ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn ar 27 Medi 2016.

**Llofnodwyd: ……………………………**
**Cynghorydd Robert G Parry OBE**
**CADEIRYDD CYNGOR SIR YNYS MÔN**

**Dyddiedig: 27 Medi. 2016**

## ADRODDIAD ARCHWILIWYR ANNIBYNNOL I AELODAU CYNGOR SIR YNYS MÔN

**Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn**
Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnwys Datganiad Symudiadau'r Gronfa Wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen a'r Datganiad Llif Arian.

Y fframwaith adrodd ariannol sydd wedi'i roi ar waith wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 20154-16 sydd wedi'u seilio ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRSs).

**Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru**
Fel y'i hesbonnir yn llawnach yn Y Datganiad Cyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon, y swyddog ariannol cyfrifol sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon sy'n rhoi darlun gwir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (y Deyrnas Unedig ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny'n ei gwneud yn ofynnol imi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Cyngor Adrodd Ariannol i Archwilwyr.

**Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu**
Mae archwiliad yn golygu cael digon o dystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig i roi sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn cynnwys camddatganiad perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu: a yw'r polisïau cyfrifyddu'n briodol i amgylchiadau Cyngor Sir Ynys Môn ac wedi'u rhoi ar waith yn gyson a'u datgelu'n ddigonol; pa mor resymol yw'r amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol gan y swyddog ariannol cyfrifol, a'r ffordd y cyflwynir y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn gyffredinol.

At hynny, darllenais yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Naratif i nodi anghysonderau perthnasol â'r datganiadau cyfrifyddu a archwiliwyd a'r nodiadau cysylltiedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangosiadol anghywir o ran perthnasedd neu'n berthnasol o anghyson, ar sail y wybodaeth a gafwyd gennyf yn ystod cyflawni'r archwiliad. Os byddaf yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, byddaf yn ystyried y goblygiadau ar gyfer fy adroddiad.

**Barn am ddatganiadau cyfrifyddu Cyngor Sir Ynys Môn**
Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ynys Môn ar 31 Mawrth 2016 a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a'u bod
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Chod Cyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2015-16.

**Barn am faterion eraill**
Yn fy marn i, mae'r wybodaeth yn yr Adroddiad Naratif yn gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

**Materion y byddaf yn adrodd amdanynt drwy eithriad**
Nid oes gennyf ddim i adrodd amdano wrthych yng nghyswllt y materion a ganlyn, y byddaf yn adrodd amdanynt wrthych, os, yn fy marn i:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw;
- nad yw'r datganiadau cyfrifyddu'n gytûn â'r cofnodion a'r datganiadau cyfrifyddu; neu
- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n ofynnol gennyf ar gyfer fy archwiliad;
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cydymffurfio â'r canllawiau.

**Tystysgrif cwblhau'r archwiliad**

Rwy'n tystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Sir Ynys Môn yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Ar gyfer ac ar ran
Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
30 Medi 2016

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

**DATGANIAD O'R SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD WRTH GEFN AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2016**

Dengys y Datganiad hwn y symudiad o fewn y flwyddyn mewn gwahanol gronfeydd wrth gefn a ddelir gan y Cyngor, wedi eu dadansoddi'n 'Gronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy' (h.y. y rhai hynny y gellir eu defnyddio i ariannu gwariant neu leihau trethi lleol) a chronfeydd wrth gefn eraill. Mae'r llinell 'Gwarged neu (Diffyg) ar ddarpariaeth gwasanaethau' yn dangos y gwir gost economaidd o ddarparu gwasanaethau'r Cyngor, gyda manylion pellach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae hwn yn wahanol i'r symiau statudol y mae'n rhaid eu codi ar Falans Cronfa'r Cyngor i bwrpas pennu'r Dreth Gyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai i bwrpas pennu rhenti. Mae'r llinell 'Cynnydd/(Gostyngiad) Net cyn Trosglwyddiadau i gronfeydd clustnodedig wrth gefn yn dangos y symudiad yn y flwyddyn o falansau Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai cyn gwneud unrhyw drosglwyddiadau dewisol i neu o'r cronfeydd clustnodedig wrth gefn a gyflawnir gan y Cyngor.

| | Balans Cronfa'r Cyngor £'000 | Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig Cronfa'r Cyngor (Nodyn 8) £'000 | Balans CRT (Datganiadau Ariannol Atodol) £'000 | Cronfa wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf (Nodyn 10) £'000 | Balansau Ysgolion (Nodyn 9) £'000 | Grantiau Cyfalaf Anghynwysiedig (Nodyn 14) £'000 | Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd (CRT) £'000 | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Deffiniad £'000 | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Na ellir eu defnyddio £'000 | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn yr Awdurdod £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill 2014** | **5,677** | **17,347** | **1,671** | **-** | **1,518** | **-** | **1,059** | **27,272** | **124,800** | **152,072** |
| **Symudiadau yr arian wrth gefn yn ystod y flwyddyn** | | | | | | | | | | |
| Gwarged / (diffyg) ar ddarparu gwasanaethau | (9,148) | - | (692) | - | - | - | - | **(9,840)** | **-** | **(9,840)** |
| Incwn a Gwariant Cynhwysfawr arall | - | - | - | - | - | - | - | **-** | **7,078** | **7,078** |
| **Cyfanswm yr Incwm a'r Gwariant Cynhwysfawr** | **(9,148)** | **-** | **(692)** | **-** | **-** | **-** | **-** | **(9,840)** | **7,078** | **(2,762)** |
| Addasiadau rhwng y sail gyfrifo a'r sail gyllido yn unol a'r rheoliadau (Nodyn 7) | 9,973 | - | 1,842 | - | - | - | - | **11,815** | **(11,815)** | **-** |
| **Cynnydd / (Gostyngiad) Net cyn trosglwyddo i'r Cronfeydd wrth Gefn Clusnodedig** | **825** | **-** | **1,150** | **-** | **-** | **-** | **-** | **1,975** | **(4,737)** | **(2,762)** |
| Trosglwyddiadaui/(o) Gronfeydd wrth Gefn Clustnodedig (Nodyn 8) | 691 | (1,568) | - | - | 920 | - | (43) | **-** | **-** | **-** |
| **Cynnydd (Gostyngiad) yn ystod y flwyddyn** | **1,516** | **(1,568)** | **1,150** | **-** | **920** | **-** | **(43)** | **1,975** | **(4,737)** | **(2,762)** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2015** | **7,193** | **15,779** | **2,821** | **-** | **2,438** | **-** | **1,016** | **29,247** | **120,063** | **149,310** |
| **Symudiadau yr arian wrth gefn yn ystod y flwyddyn** | | | | | | | | | | |
| Gwarged / (diffyg) ar ddarparu gwasanaethau | (3,491) | - | (20,521) | - | - | - | - | **(24,012)** | **-** | **(24,012)** |
| Incwn a Gwariant Cynhwysfawr arall | - | - | - | - | - | - | - | **-** | **48,762** | **48,762** |
| **Cyfanswm yr Incwm a'r Gwariant Cynhwysfawr** | **(3,491)** | **-** | **(20,521)** | **-** | **-** | **-** | **-** | **(24,012)** | **48,762** | **24,750** |
| Addasiadau rhwng y sail gyfrifo a'r sail gyllido yn unol a'r rheoliadau (Nodyn 7) | 5,420 | - | 23,726 | - | - | - | - | **29,146** | **(29,146)** | **-** |
| **Cynnydd / (Gostyngiad) Net cyn trosglwyddo i'r Cronfeydd wrth Gefn Clusnodedig** | **1,929** | **-** | **3,205** | **-** | **-** | **-** | **-** | **5,134** | **19,616** | **24,750** |
| Trosglwyddiadaui/(o) Gronfeydd wrth Gefn Clustnodedig (Nodyn 8) | (236) | 212 | 1,016 | - | 24 | - | (1,016) | **-** | | **-** |
| **Cynnydd (Gostyngiad) yn ystod y flwyddyn** | **1,693** | **212** | **4,221** | **-** | **24** | **-** | **(1,016)** | **5,134** | **19,616** | **24,750** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2016** | **8,886** | **15,991** | **7,042** | **-** | **2,462** | **-** | **-** | **34,381** | **139,679** | **174,060** |

## DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2016

Dengys y datganiad hwn gostau cyfrifo yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â darparu gwasanaethau yn unol ag arferion cyfrifo a dderbynnir yn gyffredinol, yn hytrach na'r symiau a gyllidir o'r trethi. Mae'r Cyngor yn codi trethi i gwrdd â gwariant yn unol â rheoliadau; gall hyn god yn wahanol i'r gost gyfrifyddol. Ceir darlun o'r sefyllfa o ran trethi yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn.

| 2015/16 | | | | | 2014/15 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Gros £'000** | **Incwm Gros £'000** | **Gwariant Net £'000** | | **Nodyn** | **Gwariant Gros £'000** | **Incwm Gros £'000** | **Gwariant Net £'000** |
| 723 | (429) | 294 | Gwasanaethau Canolog | | 463 | (430) | 33 |
| 6,927 | (3,177) | 3,750 | Gwasanaethau diwylliannol a chysylltiedig | | 7,777 | (3,382) | 4,395 |
| 68,319 | (14,572) | 53,747 | Gwasanaethau plant ac addysg | | 72,978 | (13,586) | 59,392 |
| 15,980 | (3,927) | 12,048 | Priffyrdd a gwasanaethau trafnidiaeth | | 14,235 | (3,395) | 10,840 |
| 36,552 | (14,894) | 21,658 | Tai cyngor (CRT) | | 16,955 | (14,435) | 2,520 |
| 24,220 | (22,967) | 1,491 | Gwasanaethau tai eraill | | 25,413 | (22,973) | 2,440 |
| 29,952 | (8,940) | 22,639 | Gofal cymdeithasol i oedolion | | 31,014 | (8,820) | 22,195 |
| 8,184 | (3,725) | 4,459 | Cynllunio a datblygu | | 9,133 | (3,911) | 5,222 |
| 10,950 | (2,791) | 8,159 | Gwasanaethau Amgylcheddol | | 11,607 | (2,377) | 9,230 |
| 16,412 | (949) | 15,463 | Corfforaethol a craidd democrataidd | | 11,637 | (1,009) | 10,628 |
| 96 | - | 96 | Costau heb eu dosbarthu | | 224 | - | 224 |
| **218,315** | **(74,511)** | **143,804** | **Diffyg ar weithrediadau sy'n parhau** | | **201,436** | **(74,318)** | **127,119** |
| | | 9,224 | Gwariant gweithredu arall | 12 | | | 9,616 |
| | | 9,664 | Cyllido ac incwm buddsoddiad a gwariant | 13 | | | 10,201 |
| | | (138,680) | Trethi ac incwm grant amhenodol | 14 | | | (137,096) |
| | | **24,012** | **Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | | | | **9,840** |
| | | (12,825) | Gwarged ar ailbrisio asedau nad ydynt yn gyfredol | 11c, 15 & 17 | | | (38,252) |
| | | (35,938) | Ailfesur yr Atebolrwydd Pensiwn Net | 11ch & 41 | | | 31,174 |
| | | **(48,763)** | **Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall** | | | | **(7,078)** |
| | | **(24,751)** | **Cyfanswm yr Incwm a'r Gwariant Cynhwysfawr** | | | | **2,762** |

## Y FANTOLEN AR 31 MAWRTH 2016

Mae'r Fantolen yn dangos gwerth yr asedau a'r rhwymedigaethau a gydnabyddir gan y Cyngor ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau net y Cyngor (asedau llai rhwymedigaethau) yn cyd-fynd â'r Cronfeydd wrth Gefn sy'n cael eu dal gan y Cyngor. Adroddir ar gronfeydd wrth gefn mewn dau gategori. Mae'r categori cyntaf o gronfeydd wrth gefn yn arian wrth gefn y mae modd ei ddefnyddio, h.y. y Cronfeydd wrth Gefn hynny y gall y Cyngor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gynnal lefel ddarbodus o gronfeydd wrth gefn ac unrhyw gyfyngiadau statudol ar eu defnydd (er enghraifft y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn y gellir ond ei defnyddio ar gyfer gwariant cyfalaf neu i dalu dyledion). Yr ail gategori o gronfeydd wrth gefn yw'r rheini na all y Cyngor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori hwn o gronfeydd wrth gefn yn cynnwys Cronfeydd wrth Gefn sy'n dal enillion a cholledion heb eu gwireddu, lle byddai'r arian ond ar gael i ddarparu gwasanaethau petai'r asedau'n cael eu gwerthu (er enghraifft y Gronfa Ailbrisio wrth Gefn); a chronfeydd wrth gefn sy'n dal gwahaniaethau amseru a ddangosir yn y llinell Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn 'Addasiadau rhwng Sail Gyfrifo A Sail Gyllido Dan y Rheoliadau'.

| | Nodyn | 31 Mawrth 2016 £'000 | 31 Mawrth 2015 £'000 |
|---|---|---|---|
| Eiddo, offer a chyfarpar | 15 | 350,283 | 344,077 |
| Asedau Treftadaeth | 17 | 3,194 | 3,212 |
| Eiddo Buddsoddi | 18 | 5,983 | 7,145 |
| Asedau Annirweddol | 19 | 417 | 332 |
| Buddsoddiadau Tymor Hir | 44 | 1 | - |
| Dyledwyr tymor hir | 24 | 688 | 430 |
| **Asedau tymor hir** | | **360,566** | 355,196 |
| Buddsoddiadau tymor byr | 44 | - | - |
| Asedau a ddelir i'w gwerthu | 21 | 6,388 | 2,137 |
| Rhestrau stoc | 23 | 452 | 566 |
| Dyledwyr tymor byr | 24 | 23,358 | 21,154 |
| Arian parod neu gywerthoedd arian | 25 | 17,624 | 12,405 |
| **Asedau cyfredol** | | **47,822** | 36,262 |
| Benthyca tymor byr | 44 | (9) | (1,688) |
| Credydwyr tymor byr | 26 | (22,130) | (16,244) |
| Darpariaethau tymor byr | 27 | (2,559) | (6,160) |
| Derbyniadau grantiau cyfalaf ymlaen llaw | 37 | (1,302) | (380) |
| **Ymrwymiadau Cyfredol** | | **(26,000)** | (24,472) |
| Credydwyr tymor hir | 26 | (59) | (55) |
| Darpariaethau tymor hir | 27 | (2,512) | (2,569) |
| Benthyca tymor hir | 44 | (110,735) | (89,575) |
| Ymrwymiadau tymor hir eraill | 41 | (95,022) | (125,477) |
| **Ymrwymiadau tymor hir** | | **(208,328)** | (217,676) |
| **Asedau net** | | **174,060** | 149,310 |
| Arian wrth gefn y mae modd ei ddefnyddio | MIRS | 34,381 | 29,247 |
| Arian wrth gefn nad oes modd ei ddefnyddio | 11 | 139,679 | 120,063 |
| Cyfanswm yr arian wrth gefn | | **174,060** | 149,310 |

## DATGANIAD LLIF ARIAN – AM Y FLWYDDYN SY'N GORFFEN 31 MAWRTH 2016

Dengys y Datganiad Llif Arian newidiadau mewn Arian Parod a Chywerthoedd Arian y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol. Dengys y datganiad sut mae'r Cyngor yn cynhyrchu a defnyddio Arian Parod a Chywerthoedd Arian trwy ddosbarthu llif arian yn weithgareddau gweithredu, buddsoddi a chyllido. Mae cyfanswm y llif arian net o weithgareddau gweithredol yn ddangosydd allweddol o faint o weithgareddau'r Cyngor a gyllidir trwy incwm grant a threthiant neu gan dderbynyddion y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor. Mae'r gweithgareddau buddsoddi'n cynrychioli'r all-lif arian ar gyfer adnoddau y bwriedir eu defnyddio i gyfrannu tuag at ddarpariaeth gwasanaeth y Cyngor yn y dyfodol. Mae'r llif arian sy'n codi o weithgareddau cyllido'n ddefnyddiol i ragweld yr hawl a fydd gan ddarparwyr cyfalaf (h.y. benthyciadau) ar lif arian y Cyngor yn y dyfodol.

| | Nodyn | 2015-16<br>£'000 | 2014-15<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **Diffyg Net ar Ddarparu gwasanaethau** | | **(24,012)** | **(9,840)** |
| Addasiadau i'r gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau am symudiadau anariannol | 28 | **50,453** | 31,981 |
| Addasiadau am eitemau cynwysedig yn y gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau sydd yn weithgareddau buddsoddi neu ariannu | 28 | **(13,919)** | (11,038) |
| **Llif arian net o Weithgareddau Gweithredu** | | **12,837** | **11,103** |
| **Llif arian net o Weithgareddau Buddsoddi** | 29 | **(5,514)** | **(5,424)** |
| **Llif arian net o Weithgareddau Cyllido** | 30 | **(1,789)** | **267** |
| **Cynnydd Net mewn Arian Parod a Chywerthoedd Arian** | | **5,219** | **5,946** |
| Arian Parod a Chywerthoedd Arian ar gychwyn y flwyddyn ariannol | 25 | **12,405** | 6,459 |
| **Arian Parod a Chywerthoedd Arian ar ddiwedd y flwyddyn ariannol** | 25 | **17,624** | **12,405** |

## NODIADAU AR GYFRIFON

### NODYN 1 - DATGANIAD O BOLISÏAU CYFRIFO

Yn yr adran hon, ceir manylion am y polisïau cyfrifo penodol a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar gyfer cwblhau'r cyfrifon.

| Cyfeirnod Polisi | Teitl Polisi |
|---|---|
| 1 | Egwyddorion Cyffredinol |
| 2 | Cronni Incwm a Gwariant |
| 3 | Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen |
| 4 | Gweithrediadau a Reolir ar y Cyd ac Asedau a Reolir ar y Cyd |
| 5 | Addasiadau Cyfnod Blaenorol, Newidiadau Mewn Polisïau Cyfrifo ac Amcangyfrifon a Chamgymeriadau |
| 6 | Treth ar Werth (TAW) |
| 7 | Mesur Gwerth Teg |
| 8 | Asedau nad ydynt yn Gyfredol (Eiddo, Offer a Chyfarpar) |
| 9 | Eiddo Buddsoddiad |
| 10 | Asedau Annirweddol |
| 11 | Rhestrau Stoc a Chontractau Tymor Hir |
| 12 | Arian Parod a Chywerthoedd Arian |
| 13 | Offerynnau Ariannol |
| 14 | Darpariaethau, Rhwymedigaethau Wrth Gefn ac Asedau Wrth Gefn |
| 15 | Cronfeydd Wrth Gefn |
| 16 | Cydnabyddiaeth Refeniw |
| 17 | Llog Mewnol |
| 18 | Prydlesau |
| 19 | Taliadau i Refeniw ar gyfer Asedau nad ydynt yn Gyfredol - Darpariaeth Refeniw Isaf (MRP) |
| 20 | Grantiau y Gellir eu Derbyn |
| 21 | Gwariant Refeniw a Gyllidir gyda Chyfalaf Dan Statud (REFCUS) |
| 22 | Gorbenion a Gwasanaethau Cefnogol |
| 23 | Arian Tramor |
| 24 | Codi ar Refeniw am Asedau nad ydynt yn Gyfredol |
| 25 | Buddiannau'r Gweithwyr |
| 26 | Hawliadau Tâl Cyfartal, Statws Sengl ac Arfarnu Swyddi |
| 27 | Eitemau Eithriadol |
| 28 | Cyfrifo am TCA (Trethi Cenedlaethol Annomestig) |
| 29 | Incwm a Gwariant Asiantaeth |

## 1. Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Cyngor am flwyddyn ariannol 2015/16 a'i sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn ar 31 Mawrth 2016. Mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi Datganiad Cyfrifon blynyddol dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, a than y Rheoliadau rhaid eu paratoi'n unol ag arferion cyfrifo priodol. Yr arferion hyn, yn bennaf, yw Côd Ymarfer CIPFA ar Gyfrifo Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig 2015/16 a Chôd Ymarfer CIPFA ar gyfer Adroddiadau Gwasanaeth 2015/16, ac a ategir gan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS). Mae'r holl brif bolisïau cyfrifo wedi cael eu defnyddio'n gyson drwy gydol y flwyddyn.

## 2. Cronni Incwm a Gwariant

Rhoddir cyfrif am drafodion yn y flwyddyn pryd y digwyddodd nid pan fydd yr arian yn cael ei dalu neu ei dderbyn. Mae'r dull hwn o gyfrifo croniadau yn darparu sylfaen fwy cyflawn ar gyfer adrodd ar berfformiad ariannol y Cyngor oherwydd mae'n cynnwys ymrwymiadau'r Cyngor yn y dyfodol i dalu/derbyn arian am nwyddau a gwasanaethau a dderbyniwyd erbyn 31 Mawrth 2016 ond nas talwyd amdanynt. Caiff incwm a gwariant eu cyfrifo amdanynt yn y flwyddyn y digwyddodd y gweithgaredd y mae'n berthnasol iddynt, nid pan fo arian yn cael ei dalu neu ei dderbyn, h.y. ar sail gronnol. Mae hyn yn golygu fod incwm yn cael ei gofnodi pan gaiff ei ennill ac nid ar adeg ei dderbyn a gwariant pan mae'n digwydd yn hytrach nag ar adeg ei dalu. Fe gynhwysir incwm am werthu nwyddau yn y cyfrifon pan gwblheir y gwerthiant, nid pan dderbynnir yr arian. Caiff incwm o ddarparu gwasanaethau ei gydnabod pan fedr y Cyngor fesur yn ddibynadwy y ganran o'r trafodyn a gwblhawyd ac, o ganlyniad i hyn, bydd y Cyngor yn cael incwm yn gyfnewid am y gwasanaethau a ddarparwyd. Yn ychwanegol at hyn:-

- Mae cyflenwadau'n cael eu cofnodi fel gwariant pan gânt eu defnyddio – pan fo bwlch rhwng dyddiad derbyn cyflenwadau a'u defnyddio, cânt eu cario fel rhestrau stoc ar y Fantolen;

- Mae treuliau yng nghyswllt gwasanaethau a dderbyniwyd (gan gynnwys gwasanaethau a ddarparwyd gan weithwyr) yn cael eu cofnodi fel gwariant pan fo'r gwasanaethau'n cael eu derbyn yn hytrach na phan fo taliadau'n cael eu gwneud;

- Mae'r llog a dderbynnir ar fuddsoddiadau ac adneuon banc ac sy'n daladwy ar fenthyciadau (gan gynnwys gorddrafftiau banc) yn cael ei gyfrifo fel incwm a gwariant yn seiliedig ar y gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn ariannol perthnasol yn hytrach nag fel llif arian parod sy'n cael ei bennu neu ei sefydlu dan y contract;

- Pan fo refeniw a gwariant wedi'i gydnabod ond dim arian parod wedi'i dalu na'i dderbyn, mae dyledwr neu gredydwr i'r swm perthnasol yn cael ei gofnodi ar y Fantolen. Pan fo dyledion heb eu setlo, mae balans y ddyled yn cael ei nodi a chodir ar refeniw am yr incwm na chaiff, o bosib, ei gasglu.

## 3. Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen

Gall pethau ddigwydd ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol a all gael effaith sylweddol ar ganlyniadau ariannol y flwyddyn honno. Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y flwyddyn ariannol a'r dyddiad pan fo'r Datganiad Cyfrifon wedi ei awdurdodi i'w gyhoeddi. Caiff y Datganiad Cyfrifon ei awdurdodi i'w gyhoeddi pan fydd y Swyddog Adran 151 wedi llofnodi'r cyfrifon terfynol wedi eu harchwilio, cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan yr Aelodau. Yn unol â'r gyfraith, rhaid cwblhau'r cyfrifon terfynol wedi eu harchwilio a'u hawdurdodi erbyn 30 Medi ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Gellir dynodi dau fath o ddigwyddiad:-

- y rheini sy'n rhoi tystiolaeth o'r amgylchiadau oedd yn bodoli ar ddiwedd y flwyddyn ariannol – mae'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu'r fath ddigwyddiadau;

- y rheini sy'n arwydd o amgylchiadau a gododd ar ôl y flwyddyn ariannol – nid yw'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu'r fath ddigwyddiadau, ond lle byddai categori o ddigwyddiadau yn cael effaith sylweddol, gwneir datgeliad yn y nodiadau ar natur y digwyddiadau a'r effaith y disgwylir iddynt eu cael o safbwynt ariannol.

Nid yw digwyddiadau ar ôl dyddiad awdurdodi'r datganiad ar gyfer ei gyhoeddi yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad Cyfrifon.

**4. Gweithrediadau a Reolir ar y Cyd ac Asedau a Reolir ar y Cyd**

Y gweithrediadau a reolir ar y cyd yw'r gwaith hwnnw a wna'r Cyngor ar y cyd â mentrau eraill pan fo defnydd yn cael ei wneud o asedau ac o adnoddau'r mentrau yn hytrach na sefydlu endid ar wahân. Mae'r Cyngor yn cydnabod ar ei Fantolen ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau a wyneba Fe Fe debydir y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y gwariant hwnnw ac fe gredydir ei gyfran o'r incwm y mae'n ei ennill o ganlyniad i weithrediad y fenter.

Asedau a reolir ar y cyd yw eitemau eiddo, offer neu gyfarpar sydd yn cael eu cydreoli gan y Cyngor a mentrau eraill a phan fo'r asedau'n cael eu defnyddio i sicrhau buddiannau i'r mentrwyr. Nid yw'r fenter ar y cyd yn golygu sefydlu endid ar wahân. Mae'r Cyngor yn cadw cyfrif am ei gyfran ei hun yn unig o'r asedau a reolir ar y cyd, am y rhwymedigaethau a'r treuliau a gaiff ar ei ran ei hun neu ar y cyd ag eraill yng nghyswllt ei fuddiannau yn y fenter ar y cyd a'r incwm a ddaw iddo o'r fenter.

**5. Addasiadau Cyfnod Blaenorol, Newidiadau Mewn Polisïau Cyfrifo ac Amcangyfrifon a Chamgymeriadau**

Gall Addasiadau ar gyfer Cyfnod Blaenorol ddeillio o newid mewn polisïau cyfrifo neu o gywiro camgymeriad perthnasol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifo yn rhagolygol, h.y. yn y flwyddyn gyfredol ac yn ystod y blynyddoedd i ddod a fydd yn cael eu heffeithio gan y newid ac nid ydynt yn achosi addasiad cyfnod blaenorol.

Ni fydd newidiadau i bolisïau cyfrifo ond yn cael eu gwneud pan mae hynny'n ofynnol dan arferion cyfrifo cywir neu pan fo'r newid yn rhoi gwybodaeth sy'n fwy dibynadwy neu berthnasol o safbwynt effeithiau trafodion, digwyddiadau eraill a'r amodau mewn perthynas â sefyllfa ariannol a pherfformiad ariannol y Cyngor. Pan wneir newid, caiff ei ddefnyddio'n ôl-weithredol (oni ddywedir fel arall) trwy addasu'r balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol fel petai'r polisi newydd wedi ei ddefnyddio erioed.

Mae camgymeriadau perthnasol a ganfyddir yn ffigyrau'r cyfnod blaenorol yn cael eu cywiro'n ôl-weithredol trwy addasu balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol.

**6. Treth ar Werth (TAW)**

Nid yw TAW sy'n daladwy ond yn cael ei gynnwys fel traul i'r graddau nad oes modd ei hawlio oddi ar Gyllid a Thollau EM yn unig. Mae'r TAW derbyniadwy yn cael ei eithrio o incwm.

## 7. Mesur Gwerth Teg

Mae Mesur Gwerth Teg IFRS13, a ddaeth i rym o 1 Ebrill 2015, yn golygu bod rhaid i'r rhan fwyaf o'r asedau, ymrwymiadau ac offerynnau ariannol nad ydynt yn gyfredol gael eu prisio ar werth teg, yn amal yn ôl cyfraddau marchnad actif lle mae un ar gael. O safbwynt asedau gweithredol, mae'r safon yn cyflwyno'r cysyniad o werth teg yn seiliedig ar werth cyfredol (yn aml, gwerth mewn defnydd) ar gyfer ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar. Mae hyn yn golygu y dylai'r mesur adlewyrchu amodau'r farchnad ar gyfer y gwasanaeth neu'r swyddogaeth ar ddyddiad cyflwyno'r adroddiad. Mae'r safon yn darparu gwahanol ddulliau prisio teg ar gyfer asedau gwahanol. Yn achos asedau nad ydynt yn rhai gweithredol, h.y. asedau buddsoddi, asedau a ddelir i'w gwerthu ac asedau nad oes mwyach eu hangen, caiff y rhain eu prisio ar eu huchaf ac yn ôl y defnydd y gorau y gellir ei wneud ohonynt. Mewn achos lle gellid gwneud defnydd arall ohonynt a fyddai o werth teg uwch, dyna'r gwerth teg a fyddai'n cael ei ddefnyddio ar gyfer prisio asedau nad ydynt yn rhai gweithredol. Mae unrhyw sail newydd ar gyfer mesur a gyfyd o IFRS13 yn effeithiol yn rhagolygol, h.y. mae'n berthnasol i drafodion o 1 Ebrill 2015 ymlaen. Nid oes angen ailgyfrifo ac ailddatgan y symiau a oedd yn ymwneud â'r cyfnod cyn 2014/15. Dan y côd hwn, nid oes angen ailbrisio asedau isadeiledd yn ôl eu gwerth cyfredol. Yn lle hynny, caiff asedau isadeiledd eu prisio yn ôl y gost hanesyddol dibrisiedig. Mae hyn oherwydd newidiadau sylweddol i brisiad asedau isadeiledd (lonydd ac ati) o 2016/17 ymlaen.

Mae'r Awdurdod yn mesur gwerth teg ased neu rwymedigaeth drwy ddefnyddio'r rhagdybiaethau y byddai'r sawl sy'n weithredol yn y farchnad yn eu defnyddio wrth brisio ased neu rwymedigaeth, gan dybio y byddai'r rheini yn gweithredu er eu budd economaidd gorau.

Wrth fesur gwerth teg ased anariannol, mae'r Awdurdod yn cymryd i ystyriaeth gallu'r sawl sy'n weithredol yn y farchnad i greu buddiannau economaidd drwy wneud y defnydd mwyaf a gorau ohono neu drwy ei werthu i rywun arall yn y farchnad a fyddai'n gwneud y defnydd mwyaf a gorau ohono.

Mae'r Awdurdod yn defnyddio technegau prisio sy'n briodol yn yr amgylchiadau a rhai y mae data digonol ar gael ar eu cyfer, gan wneud y defnydd gorau posibl o'r mewnbynnau perthnasol y gellir eu harsylwi a lleihau i'r eithaf ar y defnydd o fewnbynnau nad oes modd eu harsylwi.

Caiff mewnbynnau i'r technegau prisio ar gyfer asedau a rhwymedigaethau y mae gwerth teg yn cael ei fesur neu eu datgelu ar eu cyfer yn natganiadau ariannol yr Awdurdod eu categoreiddio fel a ganlyn yn yr hierarchaeth brisio:-

- Lefel 1 - prisiau a ddyfynnwyd (heb eu haddasu) mewn marchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau neu rwymedigaethau sydd union yr un fath ac y gall yr Awdurdod gael mynediad iddynt ar y dyddiad mesur;
- Lefel 2 - mewnbynnau ac eithrio prisiau a ddyfynnwyd yn Lefel 1 y mae modd eu harsylwi ar gyfer yr ased neu'r rhwymedigaeth, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol;
- Lefel 3 - mewnbynnau nad oes modd eu harsylwi ar gyfer yr ased neu'r rhwymedigaeth.

Rhaid i'r Awdurdod ddefnyddio technegau prisio sy'n briodol i'r amgylchiadau a rhai y mae data digonol ar eu cyfer er mwyn mesur gwerth teg, gan wneud y defnydd mwyaf posibl o fewnbynnau perthynasol y mae modd eu harsylwi (lefelau 1 a 2) a lleihau'r defnydd o fewbynnau nad oes modd eu harsylwi (lefel 3). Tri o dechnegau prisio sy'n dderbyniol yn eang yw:-

- Dull y farchnad;
- Dull cost;
- Dull incwm.

## 8. Asedau nad ydynt yn Gyfredol (Eiddo, Offer a Chyfarpar)

### a. Cydnabyddiaeth

Mae asedau nad ydynt yn gyfredol - Eiddo, Offer a Chyfarpar - yn asedau ffisegol sy'n para am flwyddyn neu ragor ac sy'n cael eu defnyddio gan y Cyngor i gefnogi'r ddarpariaeth o nwyddau a gwasanaethau. Mae'r Cyngor wedi pennu isafswm ar gyfer gwariant ar asedau a fydd yn cael ei gategoreiddio fel gwariant cyfalaf. Y swm de-minimus hwn yw £30k. Caiff gwariant ar brynu, creu neu wella asedau nad ydynt yn gyfredol ac sy'n costio £30k neu fwy ei gyfalafu ar sail croniadau ar yr amod ei fod yn cwrdd â'r diffiniad uchod o ased nad yw'n gyfredol. Byddai Eiddo, Offer a Chyfarpar yn cynnwys asedau megis peiriannau, ni fyddai fel arfer yn cynnwys asedau a ddelir ar gyfer eu gwerthu oherwydd, fel arfer, byddid yn disgwyl cael gwared ar y rhain o fewn 12 mis.

Gall costau'r asedau hyn gynnwys costau cychwynnol eu prynu a'u hadeiladu a chostau dilynol i wella neu i adnewyddu rhan o'r ased. Caiff unrhyw wariant arall a gyfyd yn sgil gynnal a chadw asedau o ddydd i ddydd ei gydnabod yn y Datganiad ar Incwm a Gwariant Cynhwysfawr wrth i'r costau hynny godi.

### 8.2 Mesur

Caiff asedau eu mesur yn y lle cyntaf ar gost, yn cynnwys:-

- y pris prynu;
- unrhyw gostau a briodolir i ddod ag ased i'r lleoliad a'r cyflwr sy'n angenrheidiol i bwrpas ei weithredu yn y dull a fwriadwyd gan reolwyr;
- amcangyfrif cychwynnol o gostau datgymalu a symud yr eitem ac adfer y safle y mae'r eitem arno mewn achosion lle mae'n rhaid, er mwyn defnyddio'r ased, ei hail-leoli.

Nid yw'r Cyngor yn cyfalafu costau benthyca a geir tra bo asedau'n cael eu hadeiladu.

Tybir bod cost asedau a gaffaelir mewn modd ac eithrio drwy eu prynu yn gost gwerth teg, ac eithrio pan nad oes sylwedd masnachol i'r pryniant (h.y. ni fydd yn arwain at amrywiad yn llif arian y Cyngor). Yn yr achos olaf, pan brynir ased drwy gyfnewid, cost y pryniant yw swm cario'r ased a roddir i fyny gan y Cyngor.

Yna mae'r asedau'n cael eu cario yn y Fantolen gan ddefnyddio'r seiliau mesur canlynol:-

- Isadeiledd, asedau cymunedol ac asedau sy'n cael eu hadeiladu – cost dibrisiant hanesyddol;
- Tai Cyngor – gwerth teg, a bennir gan ddefnyddio sail gwerth defnydd presennol ar gyfer tai cymdeithasol (EUV-SH);

- mae'r holl asedau gweithredol eraill wedi cael eu mesur yn unol â'u gwerth presennol yn seiliedig ar eu gwerth defnydd presennol (EUV). Mae hyn yn golygu mai gwerth cyfredol tir ac adeiladau fyddai'r swm a fyddai'n cael ei dalu am yr ased yn ei ddefnydd presennol. Os nad oes marchnad amlwg ar gyfer ased oherwydd ei natur arbenigol neu os nad yw'r math hwnnw o ased yn cael ei werthu'n aml, bydd yr Awdurdod yn amcangyfrif ei werth cyfredol gan ddefnyddio'r dull cost amnewidiol dibrisiedig. Er enghraifft, yn achos eiddo sy'n cynnwys tir ac adeiladau, y gost ddibrisiedig o'i amnewid fyddai gwerth marchnad y tir y mae'r adeilad arno ar gyfer ei ddefnydd cyfredol ynghyd â chost gros amnewid yr adeilad llai lwfansau ar gyfer dirywiad, darfodedigrwydd ac optimeiddio;

- Os nad yw ased yn cael ei ddefnyddio i bwrpas cynhyrchu llif arian, tybir bod gwerth mewn defnydd o leiaf yn gyfartal i gost amnewid potensial defnydd o'r ased.

Pan fo gan asedau nad ydynt yn eiddo oes ddefnyddiol fer neu werth isel (neu'r ddau), defnyddir sail cost hanesyddol dibrisiedig fel procsi ar gyfer gwerth teg. Fel arfer, mae 'bywyd defnyddiol byr' yn golygu 7 mlynedd neu lai, er gall fod yn hirach am eitemau arbenigol o offer a chyfarpar.

Mae'r asedau a gynhwysir yn y Fantolen ar werth teg yn cael eu hailbrisio yn ddigon aml i sicrhau nad yw eu swm cario'n sylweddol wahanol i'w gwerth teg ar ddiwedd y flwyddyn, ond ailbrisio o leiaf bob pum mlynedd. Yn ymarferol, mae'r Cyngor yn prisio ei asedau ar sail rhaglen dreigl pum mlynedd. Fodd bynnag, caiff asedau sydd â gwerth cario o dros £500k eu hailbrisio bob blwyddyn.

Mae cynnydd mewn gwerthoedd asedau'n cydweddu â chredydau i'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn i gydnabod enillion heb eu gwireddu. Mewn achosion eithriadol, gellir credydu enillion i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fônt yn codi o wyrdroi colled a godwyd yn flaenorol ar wasanaeth.

Pan ddynodir lleihad mewn gwerth, cyfrifir amdano trwy:-

- pan fo balans o enillion ailbrisiant i'r ased yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn, nodir swm cario'r ased i lawr yn erbyn y balans hwnnw (i fyny at y swm o enillion sydd wedi cronni);

- pan nad oes balans yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn, nodir swm cario'r ased i lawr yn erbyn llinell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn yn cynnwys enillion ailbrisiant a gydnabuwyd ers 1 Ebrill 2007 yn unig, dyddiad eu gweithredu'n ffurfiol. Mae'r enillion a gafwyd cyn y dyddiad hwnnw wedi eu hymgorffori yn y Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

**8.3 Amhariad**

Mae gwerth asedau'n cael eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn am arwydd o amhariad ar werth.

Mae enghreifftiau o ddigwyddiadau a newidiadau mewn amgylchiadau sy'n rhoi arwydd y gallai amhariad fod wedi digwydd yn cynnwys:-

- dirywiad sylweddol (h.y. mwy na'r disgwyl o ganlyniad i dreigl amser neu ddefnydd cyffredin) yn swm cario'r ased yn ystod y cyfnod, sy'n benodol i'r ased;

- tystiolaeth o ddarfodiad neu niwed ffisegol i ased;

- ymrwymiad gan y Cyngor i ymgymryd ag ad-drefnu sylweddol; a

- newid andwyol sylweddol yn yr amgylchedd statudol neu reoleiddiol arall y mae'r Cyngor yn gweithredu ynddo.

Pan fo arwyddion, ac amcangyfrifir bod gwahaniaethau posib yn berthnasol, yna amcangyfrifir swm adferadwy'r ased ac, mewn achos lle mae'r swm hwn yn llai na swm cario'r ased, cydnabyddir colled amhariad ar gyfer y diffyg.

Pan ddynodir colledion amhariad ar asedau a gawsant eu hailbrisio, cyfrifir amdanynt trwy:-

- pan mae balans o enillion ailbrisiant i'r ased yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn, nodir swm yr amhariad yn erbyn yr ased i lawr yn erbyn y balans hwnnw (i fyny at y swm o enillion cronnus);

- pan nad oes balans yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn, nodir swm yr amhariad yn erbyn yr ased i lawr yn erbyn llinell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr; pan fo colled amhariad yn cael ei gwyrdroi'n dilyn hyn, credydir y gwyrdroad i'r llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, i fyny at swm y golled wreiddiol, wedi ei addasu ar gyfer dibrisiant y byddid wedi ei godi pe na fyddai'r golled wedi ei chydnabod. Nodir unrhyw beth dros ben yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn.

Pan mae'r amhariad yn ymwneud ag ased na chafodd ei hailbrisio (h.y. ased â gwerth cario yn seiliedig ar gost hanesyddol), caiff yr amhariad ei gydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

**8.4 Dibrisiant**

Darperir ar gyfer dibrisiant yr holl asedau Eiddo, Offer a Chyfarpar trwy ddyraniad systematig o'u symiau dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol. Gwneir eithriad ar gyfer asedau heb oes ddefnyddiol benodol (h.y. tir rhydd-ddaliadol) ac asedau nad ydynt eto ar gael i'w defnyddio (h.y. asedau sy'n cael eu hadeiladu).

Cyfrifir dibrisiant ar y seiliau canlynol:-

- anheddau ac adeiladau eraill – dyraniad llinell syth dros gyfnodau hyd at 75 mlynedd, fel yr amcangyfrifir gan y prisiwr;

- cerbydau, offer, dodrefn a chyfarpar – dyraniad llinell syth dros 5 i 15 mlynedd;

- isadeiledd – dyraniad llinell syth dros gyfnod hyd at 45 mlynedd.

Mewn achos lle mae gan eitem o ased Eiddo, Offer a Chyfarpar gydrannau mawr y mae eu cost yn sylweddol mewn cysylltiad â chost gyfan yr eitem, dibrisir y cydrannau ar wahân.

Mae enillion ailbrisiant hefyd yn cael eu dibrisio, gyda swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng gwerth presennol dibrisiant a godir ar asedau a'r dibrisiant a fyddai wedi ei godi yn seiliedig ar eu cost hanesyddol yn cael ei drosglwyddo bob blwyddyn o'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

Ni chodir dibrisiant yn y flwyddyn y prynir yr ased.

## 8.5 Asedau nad ydynt yn Gyfredol sy'n Cael eu Dal i'w Gwerthu

Mae'r asedau hyn yn cael eu marchnata'n rhagweithiol ar gyfer eu gwerthu ac mewn achosion ble y mae'r Cyngor yn disgwyl iddynt gael eu gwerthu yn y 12 mis nesaf. Fe nodir yr asedau yma ar wahân oherwydd bydd y gwerth ar y Fantolen yn cael ei adennill yn bennaf drwy werthiant yn hytrach na pharhau i'w ddefnyddio. Mae'r ased (neu gru p gwaredu) yn cael ei ailbrisio yn union cyn ei ail-gategoreiddio ac yna ei gario ar yr isaf o'r swm hwn a gwerth teg llai costau gwerthu. Caiff gwerth teg asedau nad ydynt yn gyfredol ac sy'n cael eu dal i'w gwerthu, eu mesur yn unol â'u lefel uchaf a gorau o ddefnydd. Pan fo gostyngiad dilynol i werth teg llai costau gwerthu, mae'r golled yn cael ei phostio i'r llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Dim ond hyd at swm unrhyw golledion a gydnabuwyd yn flaenorol yn y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau y cydnabyddir enillion mewn gwerth teg. Ni chodir dibrisiant ar Asedau sy'n Cael eu Dal i'w Gwerthu.

Os nad yw asedau (neu gru p gwaredu) bellach yn cwrdd â•r meini prawf i•w dosbarthu fel Asedau sy'n Cael eu Dal i'w Gwerthu, yna cânt eu hailddosbarthu'n ôl i asedau nad ydynt yn gyfredol a'u prisio ar yr isaf o'u swm cario cyn iddynt gael eu dosbarthu fel rhai'n cael eu dal i'w gwerthu, addasu ar gyfer dibrisiant, amorteiddiad neu ailbrisiadau a fyddai wedi cael eu cydnabod petaent ddim wedi cael eu dosbarthu fel rhai sy'n Cael eu Dal i'w Gwerthu, a'u swm adferadwy ar ddyddiad y penderfyniad i beidio gwerthu.

•Gru p gwaredu• yw gru p o asedau, o bosib gyda rhai rhwymedigaethau cysylltiedig, y bwriada'r Cyngor gael gwared â nhw mewn un trafodyn unigol. Defnyddir y sail fesur sy'n ofynnol ar gyfer Asedau nad ydynt yn Gyfredol a ddosberthir fel rhai sy'n cael eu dal i'w gwerthu i•r gru p cyfan, ac mae unrhyw golled ddilynol yn lleihau swm cario•r Asedau nad ydynt yn Gyfredol yn y gru p gwaredu yn y drefn ddosbarthu sy•n ofynnol gan IAS 36.

Nid yw asedau fydd yn cael eu gadael neu eu sgrapio yn cael eu hailddosbarthu fel Asedau sy'n Cael eu Dal i'w Gwerthu.

## 8.6 Cael Gwared ar Asedau nad ydynt yn Gyfredol

Pan ceir gwared ag ased neu pan gaiff ei ddigomisiynu, dilëir swm cario'r ased yn y Fantolen (p'un a yw'n Eiddo, Offer a Chyfarpar neu Asedau sy'n Cael eu Dal i'w Gwerthu) i linell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r budd neu'r golled ar adeg gwaredu. Caiff y gost hon ei throsglwyddo wedyn i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

Mae derbyniadau o warediadau (os oes rhai) yn cael eu credydu i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hefyd fel rhan o'r budd neu golled ar waredu (h.y. wedi ei netio i ffwrdd yn erbyn gwerth cario'r ased adeg cael gwared arno). Mae unrhyw enillion ailbrisiant a gronnwyd i'r ased yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn yn cael eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

Mae symiau uwch na £10k a dderbynnir ar gyfer eitem a waredwyd yn cael eu categoreiddio fel derbyniadau cyfalaf ac ni fedrir ond eu defnyddio wedyn ar gyfer buddsoddiad cyfalaf newydd neu eu gosod o'r neilltu i leihau angen gwaelodol y Cyngor i fenthyca (y gofyniad cyllido cyfalaf). Mae derbyniadau yn cael eu neilltuo i'r Gronfa Wrth Gefn o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn.

Nid yw gwerth dileu gwarediadau'n cael ei godi yn erbyn y dreth gyngor, oherwydd darperir yn llawn ar gyfer asedau nad ydynt yn gyfredol dan drefniadau ar wahân ar gyfer cyllido cyfalaf. Mae symiau'n cael eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn.

**8.7 Asedau nad oes eu hangen mwyach**

Gwerth teg asedau nad oes eu hangen mwyach yw'r pris a fyddai'n cael ei dderbyn i werthu ased neu ei dalu i drosglwyddo rhwymedigaeth mewn trafodiad trefnus rhwng rhai sy'n weithgar yn y farchnad ar adeg mesur. Bydd hyn yn seiliedig ar y lefel uchaf a gorau o ddefnydd.

**8.8 Asedau Treftadaeth**

Asedau Treftadaeth yw'r rheini y bwriedir eu cadw mewn ymddiriedolaeth i genedlaethau'r dyfodol oherwydd eu cysylltiadau diwydiannol, amgylcheddol neu hanesyddol. Maent yn cael eu dal gan y Cyngor yn unol â'i amcanion cyffredinol i warchod treftadaeth Ynys Môn. Mae'r Cyngor yn berchen ar nifer o Asedau Treftadaeth diriaethol megis adeiladau hanesyddol a gwaith celf.

Rhoddir gwerth ar Asedau Treftadaeth weithredol (h.y. rheini sydd, ynghyd â chael eu dal am eu nodweddion treftadaeth, hefyd yn cael eu defnyddio gan y Cyngor am weithgareddau arall neu i ddarparu gwasanaethau arall) a chyfrif amdanynt fel asedau gweithredol, yn yr un modd ag asedau arall o'r math cyffredinol yna (e.e. adeiladau gweithredol).

Rhoddir gwerth ar Asedau Treftadaeth ar y sail fwyaf priodol a pherthnasol i'r ased unigol neu ddosbarth yr asedau. Lle nad yw'n ymarferol i gael prisiad ar gost sy'n gymesur â'r buddiannau i ddefnyddwyr y datganiadau ariannol, mesurir yr Asedau Treftadaeth ar gost hanesyddol (llai unrhyw dibrisiant cronedig, amorteiddio a cholledion amhariad). Lle mesurir Asedau Treftadaeth ar brisiad, fe fesurir y swm cario yn ddigon aml i sicrhau fod y prisiadau yn parhau i fod yn gyfredol, ac ar gyfnodau dim mwy na phum mlynedd. Mewn achos lle na fedrir penderfynu ar gost neu werth Ased Hanesyddol heb fynd i gost anghymesur, ni fydd yr ased yn cael ei chydnabod yn y Fantolen. Yn lle hynny, bydd yr ased yn cael ei datgelu yn y nodiadau i'r cyfrifon.

Pan fo Ased Treftadaeth ag oes benodol, darperir dibrisiant ar yr un sail â chategorïau eraill o asedau (am fanylion, gweler Asedau nad ydynt yn gyfredol - Eiddo, Offer a Chyfarpar).

Ni ddarperir dibrisiant ar Asedau Treftadaeth sydd ag oes amhenodol. Dylid adolygu swm cario Ased Treftadaeth pan fo tystiolaeth o amhariad; er enghraifft, pan mae wedi dioddef dirywiad ffisegol neu wedi cael ei dorri neu pan fo amheuon newydd yn codi ynglŵn â•i ddilysrwydd. Adnabyddir unrhyw amhariad ar yr un sail â dosbarthiadau arall o ased (am fanylion gweler Asedau nad ydynt yn gyfredol - Eiddo, Offer a Chyfarpar). Ar hyn o bryd, nid yw'r Cyngor yn mynd ati'n weithredol i gaffael mwy o Asedau Treftadaeth, ond mae'n ymateb i gyfleoedd i wella ei bortffolio fel maent yn codi. Cedwir y casgliadau celf yn Oriel Ynys Môn, gyda gwaith cynnal a chadw'n cael ei wneud pan fo'r angen. Rhannau o'r casgliad sy'n cael ei arddangos ar unrhyw adeg, tra gellir trefnu i gael mynediad i'r gweddill. Mae Eiddo Treftadaeth yn cael ei rheoli a'u cynnal a'u cadw, tra'n ystyried eu nodweddion treftadaeth, fel rhan o bortffolio cyffredinol y Cyngor o dir ac adeiladau.

**8.9 Trin asedau ysgol**

Cymerir yn ganiataol mai awdurdodau lleol sy'n rheoli'r ysgolion y maent yn eu cynnal. O'r herwydd, caiff asedau, rhwymedigaethau, arian wrth gefn a llif arian yr ysgolion a gynhelir gan yr Awdurdod eu cynnwys yn natganiadau ariannol y Cyngor.

Ymddiriedolwyr yr ysgol neu'r corff sefydledig sy'n berchen ar, ac yn rheoli, tir ac adeiladau ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol ac ysgolion sefydledig ac, o'r herwydd, ni chânt eu cynnwys ar Fantolen y Cyngor.

Caiff gwariant cyfalaf ar ysgolion cymunedol ei ychwanegu at falansau'r ysgolion hynny. Caiff balansau ysgolion unigol ar 31 Mawrth 2016 eu cynnwys ym Mantolen y Cyngor oherwydd eiddo'r Cyngor fydd unrhyw gyllidebau a ddatganolwyd i'r ysgolion sydd heb eu gwario.

I bwrpas cyfrifo, mae asedau Ysgolion Dan Reolaeth Wirfoddol ac Ysgolion a Gynorthwyir yn wirfoddol fel a ganlyn:-

- Ysgolion Dan Reolaeth Wirfoddol: mae'r tir wedi ei gynnwys ar y Fantolen ond nid yr adeiladau;
- Ysgolion a Gynorthwyir yn Wirfoddol: nid yw'r tir na'r adeiladau wedi eu cynnwys ar y Fantolen;
- Yn ychwanegol, nid yw'r tir na'r adeiladau yn Ysgol Sefydledig Caergeiliog wedi eu cynnwys ar y fantolen oherwydd mae'r asedau hyn wedi eu breinio gydag ymddiriedolwyr yr ysgol.

## 9. Eiddo Buddsoddiad

Eiddo buddsoddiad yw'r tir a'r adeiladau hynny a ddefnyddir i bwrpas cynhyrchu rhent a/neu ar gyfer cynnydd cyfalaf yn unig. Nid yw'r diffiniad yn cael ei fodloni os ydyw'r eiddo'n cael ei ddefnyddio mewn unrhyw ffordd i hwyluso darparu gwasanaethau neu i gynhyrchu nwyddau neu pan fo'n cael ei ddal i'w werthu.

Mae eiddo buddsoddiad yn cael eu cydnabod pan mae'n debygol y bydd buddion economaidd sydd wedi eu cynllunio ar gyfer y dyfodol yn llifo i'r Awdurdod ac y gellir mesur mewn modd dibynadwy, gost neu werth teg yr eiddo buddsoddiad hwnnw. Caiff eiddo buddsoddiad eu mesur yn ôl cost yn y lle cyntaf ac wedyn yn ôl gwerth teg, gan ddibynnu ar faint y gellid ffeirio'r ased rhwng partïon gwybodus hyd braich. Yn unol a'r Côd, rhaid prisio Eiddo Buddsoddiad yn ôl y defnydd mwyaf a gorau y gellir ei wneud ohonynt, waeth beth fo bwriadau'r Cyngor ar eu cyfer. Mae hyn yn golygu bod defnydd amgen wedi cael ei ystyried ar gyfer pob eiddo buddsoddiad ac os byddai modd defnyddio'r eiddo i bwrpas arall a hynny'n codi ei werth teg, yna dylid defnyddio'r gwerth teg hwnnw. Nid yw eiddo'n cael ei ddibrisio, yn hytrach caiff ei ailbrisio'n flynyddol yn unol ag IFRS 13 yn ôl amgylchiadau'r farchnad ar ddyddiad y Fantolen. Mae enillion a cholledion adeg ailbrisio'n cael eu symud i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddiad yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Yr un driniaeth yn union a roddir i enillion a cholledion wrth gael gwared ohonynt.

Mae rhent a dderbynnir am eiddo buddsoddiad yn cael ei gredydu i'r llinell Incwm Cyllido a Buddsoddiad ac yn arwain at gynnydd ym Malans Cronfa'r Cyngor. Fodd bynnag, dan drefniadau statudol, ni chaniateir i enillion a cholledion a geir yn sgil ailbrisio a gwerthu gael effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor.

Felly, mae'r enillion a'r colledion yn cael eu symud allan o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn a'u symud i mewn i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf ac (yn achos arian gwerthiant uwch na £10,000) i'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf.

## 10. Asedau Annirweddol

Mae asedau annirweddol yn asedau nad ydynt yn gyfredol nac yn ariannol (er enghraifft, meddalwedd cyfrifiadurol). Caiff y rhain eu rheoli gan y Cyngor oherwydd digwyddiadau yn y gorffennol. Caiff gwariant ar asedau annirweddol eu cyfalafu pan dybir y bydd buddiannau economaidd yn y dyfodol neu wasanaeth posib yn llifo o'r ased annirweddol i'r Cyngor.

Nid yw gwariant ar ddatblygu gwefannau'n cael ei gyfalafu pan fo'r wefan yn cael ei defnyddio'n llwyr neu'n bennaf i hyrwyddo neu i hysbysebu nwyddau'r Cyngor neu ei wasanaethau. Yn y lle cyntaf mesurir asedau annirweddol yn ôl y gost. Nid yw'r symiau'n cael eu hailbrisio hyd oni fydd modd pennu gwerth yr asedau y mae'r Cyngor yn eu dal trwy droi at y farchnad weithredol. Yn ymarferol, nid oes yr un o'r asedau annirweddol y mae'r Cyngor yn eu dal yn bodloni'r maen prawf hwn ac, felly, cânt eu cario yn ôl y gost lai amorteiddio cronedig. Mae swm dibrisiannol ased annirweddol yn cael ei amorteiddio dros ei oes ddefnyddiol i linell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Rhoddir prawf amhariad ar asedau annieraethol. yn flynyddol a phryd bynnag y ceir arwydd bod amhariad ar yr ased. Mae unrhyw golledion a ganfyddir yn cael eu nodi yn erbyn y llinell(au) i'r gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Bydd unrhyw enillion neu golledion wrth gael gwared ag ased annirweddol neu wrth roi'r gorau iddo yn cael ei nodi yn erbyn y llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fo gwariant ar asedau annirweddol yn gymwys i'w ystyried fel gwariant cyfalaf i ddibenion statudol, ni chaniateir i amorteiddio, colledion amhariad nag enillion a cholledion cael gwared â'r asedau gael effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor. Felly, mae'r enillion a'r colledion yn cael eu symud allan o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn a'u symud i mewn i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf ac (yn achos arian gwerthiant uwch na £10,000) i'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf.

## 11. Rhestrau Stoc a Chontractau Tymor Hir

Cynhwysir rhestrau stoc yn y Fantolen yn ôl y gost neu'n ôl y gwerth gwerthu net - pa un bynnag o'r ddau sydd isaf. Mae cost rhestrau stoc yn cael ei aseinio trwy ddefnyddio fformwla gostio 'Cyntaf i Mewn, Cyntaf Allan' (FIFO).

Rhoddir cyfrif am gontractau tymor hir trwy godi ar y Gwarged neu ar y Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn seiliedig ar werth y gwaith neu'r gwasanaeth a dderbynnir dan y contract yn ystod y flwyddyn ariannol.

Mae gwaith sydd yn y broses o gael ei wneud yn cael ei gynnwys yn y Fantolen yn ôl y gost.

## 12. Arian Parod a Chywerthoedd Arian

Cynrychiolir arian parod gan arian mewn llaw ac adneuon gyda sefydliadau ariannol sy'n ad-daladwy heb gosb ar rybudd o ddim mwy na 24 awr. Mae cywerthoedd arian yn fuddsoddiadau hynod o hylifol sy'n aeddfedu ymhen tri mis neu lai o'r dyddiad prynu ac yn rhai y gellir eu trosi'n hawdd i symiau hysbys o arian parod heb beri unrhyw risg o bwys yn sgil newid mewn gwerth.

Yn y Datganiad Llif Arian Parod, dangosir arian parod a'i gywerth net o'r gorddrafftiau banc sy'n daladwy ar alw ac maent yn rhan hanfodol o reolaeth arian parod y Cyngor.

## 13. Offerynnau Ariannol

Caiff offerynnau ariannol eu mesur yn ôl eu gwerth teg yn unol ag IFRS 13. Gwerth teg offerynnau ariannol yw'r pris a fyddai'n cael ei dderbyn i werthu ased neu'r pris a fyddai'n cael ei dalu i drosglwyddo rhwymedigaeth mewn trafodiad trefnus rhwng rhai sy'n weithgar ar y farchnad ar y dyddiad mesur.

### 13.1 Rhwymedigaethau ariannol

Rhwymedigaeth ariannol yw'r angen i drosglwyddo budd economaidd a rheolir gan yr Awdurdod i endid arall, er enghraifft, drwy daliad ariannol neu drwy drosglwyddo asedau/rhwymedigaethau. Mae benthyciadau'r Awdurdod gan PWLIB yn esiamplau o rwymedigaethau ariannol. Caiff rhwymedigaethau ariannol eu cydnabod yn y Fantolen pan ddaw'r Cyngor yn barti i ddarpariaethau contract offeryn ariannol. Bydd rhai rhwymedigaethau ariannol yn cael eu cario ar gost wedi ei hamorteiddio er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod y Cyngor wedi cael rhai costau mewn perthynas â'r trafodiad neu fod angen iddo ymestyn oes y rhwymedigaeth ariannol dros oes yr offeryn. Mae'r treuliau blynyddol yn y llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddiad yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yng nghyswllt y llog sy'n daladwy yn seiliedig ar swm cario'r rhwymedigaeth a gludir, wedi ei luosi gan y gyfradd llog mewn grym ar y pryd mewn perthynas â'r offeryn hwnnw. Y cyfradd llog a ddefnyddir yw honno sy'n rhoddi disgownt cysáct ar y taliadau arian parod yn y dyfodol dros oes yr offeryn yn ôl y swm a gafodd ei gydnabod iddo yn y lle cyntaf.

Yn achos y rhan fwyaf o'r benthyciadau sydd gan y Cyngor, golyga hyn mai'r swm sydd yn y Fantolen yw'r swm gwreiddiol sydd ar ôl i'w dalu ynghyd â llog sydd wedi cronni. Y llog a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm sy'n daladwy am y flwyddyn yn ôl y cytundeb benthyca.

Mae'r enillion neu'r colledion wrth ail-brynu neu wrth setlo'r benthyciad yn gynnar yn cael eu dangos fel credyd neu ddebyd yn y llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddiad yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn ail-brynu/setlo. Fodd bynnag, pan fo ail-brynu wedi digwydd fel rhan o ailstrwythuro'r portffolio benthyca, polisi'r Awdurdod yw lledaenu'r enillion neu'r golled dros y cyfnod sy'n weddill o'r benthyciad. Mae hyn yn golygu bod y premiwm neu'r disgownt yn cael ei dynnu neu ei ychwanegu at gost amorteiddio'r benthyciad newydd neu'r un diwygiedig a'i gofnodi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ac yn cael ei ledaenu dros oes y benthyciad trwy wneud diwygiad i'r gyfradd log weithredol.

Pan fo premiwm neu ddisgownt wedi ei godi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, mae rheoliadau yn caniatáu lledaenu, dros flynyddoedd yn y dyfodol, unrhyw effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor. Polisi'r Cyngor yw lledaenu'r enillion neu'r colledion dros weddill tymor y benthyciad yr oedd y premiwm yn cael ei dalu drosto neu'r disgownt a fyddai'n cael ei dderbyn ar adeg ad-dalu. Mae cysoni symiau a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr gyda'r taliad net o Falans Cronfa'r Cyngor yn cael ei reoli trwy drosglwyddo i mewn neu allan o'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn.

### 13.2 Asedau ariannol

Dosberthir asedau ariannol yn ddau gategori:-

- benthyciadau a derbyniadau posib - asedau sydd â thaliadau sefydlog neu benodadwy ond nad ydynt yn cael eu dyfynnu yn y farchnad weithredol;

- asedau sydd ar gael i'w gwerthu - asedau sydd â phris marchnad a ddyfynnwyd ac/neu sydd heb daliadau sefydlog neu benodadwy.

### 13.2.1 Benthyciadau a derbyniadau posib

Cydnabyddir benthyciadau a derbyniadau posib ar y Fantolen pan fo'r Cyngor yn dod yn rhan o ddarpariaethau cytundebol offeryn ariannol ac, ar y cychwyn, maent yn cael eu mesur yn ôl gwerth teg. Mae enghreifftiau'n cynnwys adneuon tymor byr a buddsoddiadau mewn cyfrifon y gellir cael mynediad atynt ar unwaith. Wedi hynny, cânt eu mesur yn ôl y gost amorteiddio. Mae'r credydau blynyddol i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddiad yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer llog a dderbynnir yn seiliedig ar swm cario ased wedi ei luosi gan y raddfa log sy'n berthnasol i'r offeryn.

Yn achos y rhan fwyaf o'r benthyciadau a drefnwyd gan y Cyngor, mae hyn yn golygu mai'r swm a gyflwynwyd yn y Fantolen yw'r swm gwreiddiol sydd ar ôl i'w dalu (plws llog sydd wedi cronni) a'r llog a roddwyd mewn credyd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm a geir yn y flwyddyn yn ôl cytundeb y benthyciad.

Pan fo asedau yn cael eu nodi fel rhai sy'n destun amhariad a hynny oherwydd y tebygrwydd, yn seiliedig ar ddigwyddiad yn y gorffennol, na fydd taliadau dyledus dan y contract yn cael eu cyflwyno, yna rhoddir gostyngiad yn erbyn yr ased a chodi am hynny ar y gwasanaeth perthnasol (ar gyfer derbyniadau sy'n benodol i'r gwasanaeth hwnnw) neu ar y llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddiad yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mesurir y golled amhariad fel y gwahaniaeth rhwng y swm cario a gwerth presennol llif arian diwygiedig yn y dyfodol gyda disgownt yn seiliedig ar log gweithredol gwreiddiol yr ased.

Bydd unrhyw enillion neu unrhyw golledion sy'n codi oherwydd dadgydnabod ased yn cael eu dangos fel credyd neu ddebyd yn y llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddiad yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi rhoi nifer gyfyngedig o fenthyciadau i weithwyr am lai na'r cyfraddau ar y farchnad (benthyciadau 'meddal'). Mae'r Cyngor wedi penderfynu bod gwerth y benthyciadau unigol a'r llog yn isel iawn ac, o'r herwydd, nid yw wedi addasu'r cofnod Incwm a Gwariant ar gyfer y benthyciadau meddal hyn.

### 13.2.2 Asedau Ariannol sydd ar Gael i'w Gwerthu

Lle mae hynny'n berthnasol ac o bwys, cydnabyddir asedau sydd ar gael i'w gwerthu ar y Fantolen pan ddaw'r Cyngor yn rhan o ddarpariaethau contractyddol offeryn ariannol ac maent yn cael eu mesur yn y lle cyntaf yn ôl eu gwerth teg. Mae enghreifftiau o offerynnau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu yn cynnwys bondiau (giltiau) Llywodraeth y DU ac ardystiadau o adneuon. Lle mae gan ased daliadau penodol neu bendant, mae credydau blynyddol i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddiad yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer llog a geir yn seiliedig ar gost amorteiddio'r ased wedi'i luosi gan y gyfradd llog perthnasol ar gyfer yr offeryn. Lle nad oes taliadau penodol neu bendant, caiff incwm (e.e. difidend) ei gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar adeg ei dderbyn gan y Cyngor. Mewn achos lle na fedrir mesur gwerth teg yn ddibynadwy, caiff yr offeryn ei gario ar gost (llai unrhyw golledion amhariad).

Caiff Asedau eu dangos yn y Fantolen yn ôl eu gwerth teg. Mae prisiadau'n seiliedig ar yr egwyddorion isod:-

- Offerynnau gyda phris marchnad a ddyfynnwyd – pris y farchnad;
- Offerynnau eraill a chanddynt daliadau penodol a phendant – dadansoddiad o'r llif arian disgownt;

- Cyfranddaliadau ecwiti heb brisiau marchnad a ddyfynnwyd – gwerthusiad annibynnol o brisiadau'r cwmni;
- Gwerth Teg – pris y cytunwyd arno rhwng y ddau barti.

Caiff newidiadau mewn gwerth teg eu cydbwyso drwy roi cofnod yn y Gronfa Wrth Gefn Ar-Gael-i'w-Gwerthu a chaiff y budd/colled ei gydnabod yn y Gwarged neu'r Diffyg ar Ailbrisio'r Asedau Ariannol Ar-Gael'i'w-Gwerthu. Gwneir eithriad lle ceir colledion amhariad – caiff y rhain eu debydu i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddiad yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ynghyd ag unrhyw fudd neu golled net ar gyfer yr ased sydd wedi cronni yn y Gronfa Wrth Gefn Ar-Gael'i'w-Gwerthu.

Lle caiff asedau eu nodi fel amhariad oherwydd y tebygrwydd na fydd taliadau dan y contract (rhai penodol neu bendant) yn cael eu gwneud oherwydd rhywbeth a ddigwyddodd yn y gorffennol neu os bydd eu gwerth teg yn llai na'r gost, yna caiff gwerth yr ased ei ddibirisio a'i roi yn erbyn y llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddiad yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Os oes taliadau penodol neu bendant yn berthnasol i'r ased, yna caiff y golled oherwydd amhariad ei mesur fel y gwahaniaeth rhwng y swm sy'n cario a gwerth presennol y llif arian diwygiedig ar gyfer y dyfodol gyda disgownt yn ôl cyfradd log gwreiddiol yr ased. Fel arall, caiff y golled oherwydd amhariad ei mesur fel y diffyg rhwng gwerth teg a chost prynu'r offeryn (net o unrhyw brif ad-daliad ac amorteiddio).

Caiff unrhyw enillion a cholledion sy'n codi ar adeg dadgydnabod yr ased eu credydu neu eu debydu i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddiad yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ynghyd ag unrhyw enillion neu golledion a gydnabyddwyd eisoes yn y Gronfa Wrth Gefn Ar-Gael-i'w-Gwerthu

## 14. Darpariaethau, Rhwymedigaethau Wrth Gefn ac Asedau Wrth Gefn

### 14.1 Darpariaethau

Gwneir darpariaethau pan fo digwyddiad wedi cymryd lle sy'n rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol neu ddehongliadol i'r Cyngor sy'n debygol o fod angen setliad trwy drosglwyddo buddiannau economaidd neu wasanaeth posibl, a phan fo modd darparu amcangyfrif dibynadwy o faint y rhwymedigaeth. Er enghraifft, efallai bod y Cyngor yn rhan o achos llys fyddai'n debygol o arwain yn y pen draw at wneud setliad neu dalu iawndal.

Codir darpariaethau fel traul ar y llinell gwasanaeth priodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn y daw'r Cyngor yn ymwybodol o'r rhwymedigaeth, a chânt eu mesur yn ôl yr amcangyfrif gorau ar ddyddiad y Fantolen o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth, gan gymryd i ystyriaeth y risgiau ac ansicrwydd perthnasol.

Pan fo taliadau'n cael eu cyflwyno, yn y diwedd, rhoddir nhw yn erbyn y ddarpariaeth a gludir yn y Fantolen. Mae setliadau amcangyfrifiedig yn cael eu hadolygu ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol – pryd y bydd hi'n llai na thebygol y bydd angen trosglwyddo buddiannau economaidd (neu wneud setliad llai na'r disgwyl), caiff y ddarpariaeth ei gwrthdroi a'i rhoddi mewn credyd yn ôl i'r gwasanaeth perthnasol.

Pan fo disgwyl hawlio cyfran neu'r cyfan o'r taliad i setlo'r ddarpariaeth oddi ar barti arall (e.e. oddi ar hawliad yswiriant), caiff ei gydnabod fel incwm i'r gwasanaeth perthnasol os oes sicrwydd go bendant yn unig y bydd ad-daliad ar gael os ydyw'r Cyngor yn setlo'r rhwymedigaeth.

### 14.2 Rhwymedigaethau wrth gefn

Mae rhwymedigaeth wrth gefn yn codi pan fo digwyddiad wedi cymryd lle sy'n rhoi rhwymedigaeth bosib ar y Cyngor, ond na fydd cadarnhad hyd oni fydd digwyddiadau nad oes modd eu rhagweld wedi digwydd yn y dyfodol a rheini heb fod yn gyfan gwbl dan reolaeth y Cyngor. Mae rhwymedigaethau wrth gefn hefyd yn codi mewn amgylchiadau ble byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall ond naill ai nid yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau neu ni ellir mesur maint y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Ni chydnabyddir rhwymedigaethau wrth gefn yn y Fantolen, ond cânt eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon (Nodyn 42).

### 14.3 Asedau wrth gefn

Mae ased wrth gefn yn codi pan fo digwyddiad wedi cymryd lle sy'n rhoi ased bosib i'r Cyngor, ond ni fydd modd cael cadarnhad hyd oni fydd digwyddiadau nad oes modd eu rhagweld wedi digwydd yn y dyfodol a rheini heb fod yn gyfan gwbl dan reolaeth y Cyngor.

Ni chydnabyddir asedau wrth gefn yn y Fantolen, ond cânt eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon ble mae'n debygol y bydd mewnlif o fuddiannau economaidd neu wasanaeth posib (Nodyn 43).

## 15. Darpariaethau, Rhwymedigaethau Wrth Gefn ac Asedau Wrth Gefn

Mae'r Cyngor yn cadw amryw o gronfeydd wrth gefn sy'n adlewyrchu i ba raddau y mae ei asedau'n fwy na'i ymrwymiadau ac unrhyw gyfyngiadau, statudol neu wirfoddol, a roddir ar y defnydd o'r balansau hyn. Mae gan y Cyngor y disgresiwn i osod o'r neilltu symiau penodol fel Cronfeydd wrth Gefn y mae'n dymuno eu clustnodi i ddibenion polisi i'r dyfodol neu i ymdrin â materion wrth gefn neu i reoli llif arian. Ceir crynodeb o'r rhan yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

Crëir Cronfeydd wrth Gefn trwy drosglwyddo symiau o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn. Pan ceir traul sydd i'w gyllido o gronfa wrth gefn, caiff ei godi ar y gwasanaeth priodol yn y flwyddyn honno i'w sgorio yn erbyn y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Yna trosglwyddir y gronfa wrth gefn yn ôl i Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn fel nad oes taliad net yn erbyn y dreth gyngor ar gyfer y gwariant.

Cedwir rhai Cronfeydd wrth Gefn penodol er mwyn rheoli'r prosesau cyfrifo ar gyfer asedau nad ydynt yn gyfredol, offerynnau ariannol, buddiannau ymddeoliad a buddiannau gweithwyr ac nid ydynt yn cynrychioli adnoddau y gellir eu defnyddio i'r Cyngor - eglurir y Cronfeydd wrth Gefn hyn yn y polisïau a'r nodiadau perthnasol.

## 16. Cydnabyddiaeth Refeniw

Caiff refeniw ei gydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn y cafodd ei ennill yn hytrach na phan gafodd yr arian ei dalu. Mae hyn yn ymwneud ag incwm a geir o werthu nwyddau (a gynhyrchir gan y Cyngor i ddibenion eu gwerthu neu eu prynu i bwrpas ailwerthu), darparu gwasanaethau (ac eithrio gwasanaethau a wnelont yn uniongyrchol â chontractau adeiladau), llog, breindaliadau a difidendau, trafodion nad oes modd eu cyfnewid (h.y. y dreth gyngor) a lle cynt yr oedd rhwymedigaeth wedi'i hadnabod (h.y. credydwr) ar ôl bodloni'r meini prawf cydnabyddiaeth refeniw. Caiff refeniw ei gydnabod hefyd ar enillion a all godi neu beidio o weithgareddau cyffredin megis enillion ar ail-brisio asedau nad ydynt yn gyfredol, enillion ar werthu asedau nad ydynt yn gyfredol ac enillion ar asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu. Lle mae'r Awdurdod yn gweithredu fel asiant, dim ond yr incwm a delir i'r Cyngor ar gyfer ei rôl fel asiant fydd yn cael ei gydnabod yn y cyfrifon. Ni fydd y swm sy'n gysylltiedig â'r trydydd parti (sef y prif un) yn cael ei gynnwys yn y cyfrifon.

Mae refeniw'n cael ei gydnabod a'i fesur yn ôl gwerth teg y gydnabyddiaeth a dderbynnir. Dyma'r pris a fyddai'n cael ei dderbyn i werthu ased neu ei dalu i drosglwyddo rhwymedigaeth mewn trafodiad busnes trefnus rhwng y rhai sy'n weithgar yn y farchnad ar y dyddiad mesur. Bydd ad-daliadau a setliadau ariannol, lle'n berthnasol, yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth fesur gwerth teg y gydnabyddiaeth a gafwyd.

Os yw'r taliadau'n cael eu cyflwyno yn ôl telerau gohiriedig, mae'r gydnabyddiaeth a dderbynnir yn cael ei lleihau i'w gwerth presennol er mwyn sicrhau gwerth teg. Mae'r gwahaniaeth rhwng y swm hwn a chyfanswm y taliadau a dderbynnir yn cael ei gydnabod fel refeniw llog yn y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau. Mae derbyniadau tymor byr heb log dynodedig yn cael eu mesur yn ôl y swm ar yr anfoneb wreiddiol pan fo effaith disgownt yn amherthnasol. Nid oes gwahaniaeth rhwng dyddiad cyflenwi a dyddiad talu yn achos trafodion digontract a rhai lle nad oes cyfnewid yn digwydd h.y. refeniw yng nghyswllt y dreth gyngor a threthi cyffredinol, ac, felly, mesurir y trafodion hyn yn ôl y symiau llawn a dderbynnir yn eu cylch.

## 17. Llog Mewnol

Buddsoddir balansau arian gan y Cyngor yn unol â'i Bolisïau Rheoli Trysorlys a Buddsoddi am gyfnodau o hyd at bum mlynedd ac fe gronnir a chredydir y llog i Ddatganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr . Credydir llog i'r cronfeydd ymddiriedol a chronfeydd trydydd parti eraill ar sail y raddfa log a enillwyd gan y Cyngor. Mae rhai Cronfeydd wrth Gefn yn derbyn llog trwy drosglwyddiad sydd wedi ei glandro ar yr un sail.

## 18. Prydlesau

Lle mae hynny'n berthnasol ac yn hanfodol, caiff prydlesau eu categoreiddio fel prydlesau ariannol lle mae telerau'r brydles yn trosglwyddo'r holl risgiau a'r enillion sy'n gysylltiedig â pherchenogaeth yr eiddo, offer neu gyfarpar o'r prydleswr i'r prydlesai. Nid yw'r Cyngor yn dal unrhyw brydlesau o'r math yma ac, o'r herwydd, mae'r prydlesau y mae'r Cyngor yn eu dal yn cael eu categoreiddio fel prydlesau gweithredu. Lle mae prydles yn ymwneud â thir ac adeiladau, caiff y tir a'r adeiladau eu categoreiddio ar wahân. Caiff trefniadau nad ydynt â statws gyfreithiol prydles ond sy'n trosglwyddo hawl i ddefnyddio ased yn gyfnewid am daliad eu cyfrif amdanynt dan y polisi hwn lle mae cyflawni'r trefniant yn dibynnu ar ddefnyddio asedau penodol. Mae asedau wedi cael eu hadolygu gan gymryd i ystyriaeth lefel bwysigrwydd y rhenti blynyddol a gwerthoedd cyfalaf ac mae eu cynnwys yn y cyfrifon yn seiliedig ar y lefelau hyn.

## 18.1 Y Cyngor fel Prydlesai

### 18.1.1 Prydlesau Ariannol

Os yn berthnasol ac o werth sylweddol, byddai eitemau eiddo, offer a chyfarpar a ddelir dan brydlesau ariannol yn cael eu cydnabod ar y Fantolen ar gychwyn y brydles yn ôl eu gwerth teg wedi ei fesur ar adeg sefydlu'r brydles (neu yn ôl gwerth cyfredol y taliadau isaf ar y brydles os ydynt yn is na'r gwerth teg). Wrth gydnabod yr ased, gwneir ymrwymiad cyfatebol i dalu i'r prydleswr. Caiff y costau uniongyrchol cychwynnol i'r Cyngor eu hychwanegu at swm cario'r ased. Caiff premiymau a delir ar adeg sefydlu prydles eu defnyddio i ddibrisio ymrwymiad y brydles. Caiff rhenti wrth gefn eu codi fel treuliau yn ystod y cyfnod y bu iddynt godi.

Caiff taliadau prydles eu rhannu rhwng:-

- taliadau ar gyfer prynu'r budd yn yr eiddo, offer neu gyfarpar – a ddefnyddir i ddibrisio ymrwymiad y brydles; a
- tâl ariannol (sy'n cael ei ddebydu i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddiad yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr).

Os yw eiddo, offer a chyfarpar yn cael eu cydnabod dan brydlesau ariannol, yna byddid yn cyfrifo amdanynt drwy ddefnyddio'r polisïau sy'n gyffredinol berthnasol i asedau o'r fath ar yr amod y codir am ddibrisiant yn ystod cyfnod y brydles os yw'r cyfnod hwnnw'n llai na oes ddefnyddiol dybiedig yr ased (lle nad yw perchenogaeth yr ased yn trosglwyddo i'r Cyngor ar ddiwedd cyfnod y brydles).

Nid oes rhaid i'r Cyngor godi'r dreth gyngor i dalu costau dibrisiant neu ailbrisio a cholledion amhariad sy'n codi mewn perthynas ag asedau a brydlesir. Yn lle hynny, gwneir cyfraniad blynyddol call o'r arian refeniw tuag at y buddsoddiad cyfalaf tybiedig yn unol â gofynion statudol. Yn lle dibrisiant ac ailbrisio a cholledion amhariad, felly, ceir cyfraniad refeniw ym Malans y Gronfa Gyffredinol a hynny drwy addasiad yn y Cyfrif Addasiad Cyfalaf yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn i gyfrif am y gwahaniaeth rhwng y ddau.

### 18.1.2 Prydlesau Gweithredol

Caiff rhent a delir mewn perthynas â phrydlesau gweithredol ei godi i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel cost i'r gwasanaethau sy'n elwa o ddefnyddio'r eiddo, offer neu gyfarpar a brydlesir. Codir tâl ar sail linell syth dros gyfnod oes y brydles, hyd yn oed oes nad yw hyn yn cyfateb i batrymau taliadau (e.e. cyfnod o rent am ddim ar gychwyn y brydles).

## 18.2 Y Cyngor fel prydleswr

### 18.2.1 Prydlesau Ariannol

Os bydd y Cyngor yn caniatáu prydles ariannol ar gyfer eiddo neu eitem o offer neu gyfarpar, yna caiff yr ased berthnasol ei ddibrisio ar y Fantolen fel un y cafwyd gwared arni. Os yn berthnasol, ar gychwyn y brydles bydd swm cario'r ased yn y Fantolen (p'un a yw'n Eiddo, Offer a Chyfarpar neu'n Asedau a Ddelir i'w Gwerthu) yn cael ei ddibrisio yn y llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r enillion neu'r colledion ar adeg cael gwared arni. Caiff buddsoddiad net y Cyngor yn y brydles ei gredydu i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hefyd fel rhan o'r enillion neu'r colledion ar adeg cael gwared arni (h.y. yn cael ei ddebydu yn erbyn gwerth cario'r ased ar adeg cael gwared arni) gyda chofnod o ased prydles (dyledwr tymor hir) yn y Fantolen. Caiff rhent a geir ar gyfer prydles ei rannu rhwng:-

- Taliadau ar gyfer prynu'r budd yn yr eiddo a ddefnyddir i ddibrisio ymrwymiad y brydles (ynghyd ag unrhyw bremiymau a dderbyniwyd); ac
- Incwm Cyllido (sy'n cael ei gredydu i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddiad yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr).

Yn unol â statud, ni chaniateir defnyddio'r enillion a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar adeg cael gwared â'r ased i ychwanegu at Falans y Gronfa Gyffredinol a rhaid trin hyn fel derbyniad cyfalaf. Lle derbyniwyd premiwm, rhaid symud hwn allan o Falans y Gronfa Gyffredinol i'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Derbyniadau Cyfalaf yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Lle bydd y swm sy'n daladwy mewn perthynas â'r ased a brydlesir yn cael ei setlo drwy dalu rhent yn y blynyddoedd ariannol sydd i ddod, caiff hyn ei symud allan o Falans y Gronfa Gyffredinol i'r Gronfa wrth Gefn ar gyfer Derbyniadau Cyfalaf sydd wedi eu Gohirio yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

Nid yw gwerth dileu asedau y ceir gwared arnynt yn cael ei godi yn erbyn y dreth gyngor oherwydd gwneir darpariaeth lawn ar gyfer costau asedau nad ydynt yn gyfredol mewn trefniadau ar wahân ar gyfer cyllido cyfalaf. Caiff y symiau, felly, eu trosglwyddo o Falans y Gronfa Gyffredinol i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

### 18.2.2 Prydlesau Gweithredol

Pan fo'r Cyngor yn rhoi prydles weithredol dros eiddo neu eitem o offer neu gyfarpar, cedwir yr ased yn y Fantolen. Mae incwm rhent yn cael ei gredydu i'r llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Gwneir credydau ar sail llinell-syth dros oes y brydles, hyd yn oed os nad yw hyn yn cyd-fynd â'r patrwm taliadau (e.e. telir premiwm ar gychwyn y brydles). Mae costau uniongyrchol cychwynnol yr eir iddynt wrth negodi a threfnu prydles yn cael eu hychwanegu at swm cario'r ased perthnasol a'u codi fel traul dros oes y brydles ar yr un sail ag incwm rhent.

**19. Taliadau i Refeniw ar gyfer Asedau nad ydynt yn Gyfredol - Darpariaeth Refeniw Isaf (MRP)**

Codir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y symiau canlynol er mwyn cofnodi'r costau gwirioneddol sydd ynghlwm wrth ddal asedau nad ydynt yn gyfredol yn ystod y flwyddyn:-

- Dadbrisio ac Amorteiddio asedau a ddefnyddir gan y Gwasanaeth;
- Ailbrisio a cholledion amhariad ar asedau a ddefnyddir gan y Gwasanaeth;
- Elw neu golled ar adeg cael gwared ar asedau.

Nid oes rhaid i'r Cyngor godi'r dreth gyngor i gwrdd â'r costau hyn. Fodd bynnag, rhaid iddo neilltuo cyfraniad blynyddol o refeniw tuag at ei anghenion benthyca yn gyffredinol. Caiff y costau hyn, felly, eu disodli gan y Ddarpariaeth Refeniw Isaf drwy gofnodi addasiad yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

Nid yw gwerth dileu asedau y ceir gwared arnynt yn cael ei godi yn erbyn y dreth gyngor oherwydd gwneir darpariaeth lawn ar gyfer costau asedau nad ydynt yn gyfredol mewn trefniadau ar wahân ar gyfer cyllido cyfalaf. Caiff y symiau eu trosglwyddo o Falans y Gronfa Gyffredinol i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2003, rhaid i'r Cyngor godi ar Gronfa'r Cyngor ddarpariaeth ar gyfer adennill dyledion. Caiff y ddarpariaeth honno wedi ei gostwng gan swm y tâl dibrisiant a wnaed eisoes i'r Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel y gellir codi'r MRP net ar Gronfa'r Cyngor.

Cyhoeddwyd rheoliadau newydd gan Lywodraeth Cymru yn 2008/09 yn gofyn i awdurdodau lleol yng Nghymru wneud darpariaeth ddarbodus ar gyfer MRP, gan gynnwys opsiwn i ddarparu MRP am oes yr ased. Mae'r polisi hefyd yn caniatáu gohirio MRP hyd oni fydd yr ased yn cael ei chomisiynu.

Mae'r Cyngor, fodd bynnag, yn parhau i gyfrifo gan ddefnyddio'r fethodoleg ganlynol mewn perthynas â'r gofyniad cyllido cyfalaf:-

Caiff darpariaeth y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ei gyfrif fel 2% o'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf (CFR) CRT agoriadol. Mae darpariaeth Cronfa'r Cyngor wedi ei seilio ar 4% o'r CFR agoriadol nad yw'n CRT ar gyfer unrhyw brosiectau ac eithrio prosiectau a gyllidir drwy fenthyciadau digefnogaeth. Mae'r MRP ar gyfer y prosiectau hyn yn seiliedig ar oes ddefnyddiol yr ased. Cyfyd eithriad i'r polisi hwn o ran gwariant sy'n amodol ar gyfarwyddyd cyfalafu a gyhoeddwyd dan Adran 40(6) Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. Bydd unrhyw wariant o'r fath yn cael ei amorteiddio naill ai yn unol â'r polisi uchod neu dros nifer y blynyddoedd a nodir yn y cyfarwyddyd.

**20. Grantiau y Gellir eu Derbyn**

P'un a ydynt yn cael eu talu ar gyfrif, trwy randaliadau neu fel ôl-ddyledion, cydnabyddir grantiau llywodraeth a chyfraniadau a rhoddion trydydd parti fel rhai sy'n ddyledus i'r Cyngor pan fo sicrwydd rhesymol:-

- y bydd y Cyngor yn cydymffurfio â'r amodau sydd ynghlwm â'r taliadau; ac
- y derbynnir y grantiau neu gyfraniadau.

Ni chaiff symiau a gydnabyddir fel rhai sy'n ddyledus i'r Cyngor eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hyd nes bydd yr amodau sydd ynghlwm i'r grant neu'r cyfraniad yn cael eu bodloni. Amodau grant yw'r gofynion y mae'n rhaid eu diwallu er mwyn bod yn gymwys i dderbyn y grant, er enghraifft ar gyfer adeiladu ysgol neu allbynnau allweddol a benodir o fewn yr amdodau. Mae unrhyw arian a roddwyd fel grantiau a chyfraniadau, a'r amodau perthnasol heb eu bodloni, yn cael eu cario yn y Fantolen fel credydwyr. Pan fo'r amodau'n cael eu bodloni, mae'r grant neu'r cyfraniad yn cael ei roddi fel credyd yn y llinell gwasanaeth perthnasol (grantiau a chyfraniadau refeniw priodoladwy) neu fel Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol (grantiau refeniw heb eu hamgáu a'r holl grantiau cyfalaf) yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fo grantiau cyfalaf yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, maent yn cael eu gwyrdroi o Balans Cronfa'r Cyngor drwy'r Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Pan fo grant heb ei ddefnyddio eto i gyllido gwariant cyfalaf, mae'n cael ei symud i'r Grantiau Cyfalaf Wrth Gefn Na Chawsant Eu Defnyddio. Pan fo wedi'i ddefnyddio, mae'n cael ei bostio i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf. Mae'r symiau yn y Grantiau Cyfalaf Wrth Gefn Na Chawsant Eu Defnyddio yn cael eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf unwaith y cânt eu defnyddio i gyllido gwariant cyfalaf.

Mae rhai cyrff sy'n rhoddi grantiau yn gosod cyfyngiadau neu'n pennu i ba bwrpas y gellir defnyddio'r grant ond nid ydynt yn dweud a fydd angen ad-dalu'r grant ai peidio.

## 21. Gwariant Refeniw a Gyllidir gyda Chyfalaf Dan Statud (REFCUS)

Mae gwariant yr aethpwyd iddo yn ystod y flwyddyn y gellir ei gyfalafu dan ddarpariaethau statudol ond yn wariant nad yw'n creu ased nad yw'n gyfredol wedi ei godi fel gwariant i'r gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn. Pan fo'r Cyngor wedi penderfynu cwrdd â chost y gwariant hwn o adnoddau cyfalaf presennol neu trwy fenthyca, mae trosglwyddiad yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn o Falans Cronfa'r Cyngor i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yna'n gwyrdroi'r symiau a godwyd fel nad oes effaith ar lefel y dreth gyngor.

## 22. Gorbenion a Gwasanaethau Cefnogol

Mae costau gorbenion a gwasanaethau cefnogol yn cael eu codi ar y rheini sy'n cael y buddiant o'r cyflenwad neu o'r gwasanaeth yn unol ag egwyddorion costio'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifo (CIPFA) Côd Ymarfer ar gyfer Adroddiadau Gwasanaeth 2015/16 (SeRCOP). Defnyddir yr egwyddor costio amsugno llwyr - cost lawn y gorbenion a gwasanaethau cefnogol yn cael eu rhannu rhwng defnyddwyr yn ôl cyfran y buddiannau a gafwyd, ac eithrio:-

- Corfforaethol a Craidd Democrataidd – costau'n gysylltiedig â statws y Cyngor fel sefydliad amlswyddogaethol, democrataidd. Fodd bynnag, codir ar y Cyfrif Refeniw Tai;

- Costau heb eu Dosbarthu - costau buddiannau dewisol a rhoddir i weithwyr yn ymddeol yn gynnar a cholledion amhariad i'w codi ar asedau sy'n cael eu dal i'w gwerthu.

Diffinnir y ddau gategori hyn yn SeRCOP a chyfrifir amdanynt o dan benawdau ar wahân yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, fel rhan o Wariant Net ar Wasanaethau sy'n Parhau.

## 23. Arian Tramor

Mae gan y Cyngor nifer o gynlluniau a gaiff gymorth grant o Ewrop lle mae'r grantiau efallai'n cael eu dyrannu mewn Ewros (mai nifer y cynlluniau hyn yn lleihau). Agorwyd cyfrif banc Ewro i gefnogi'r cynlluniau hyn. Caiff y balans ar y cyfrif hwn ar ddiwedd y flwyddyn ei drosi yn ôl y cyfraddau cyfnewid fel yr oeddynt ar 31 Mawrth gyda'r enillion neu'r colledion canlyniadol yn cael eu cydnabod yn y llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddiad yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

## 24. Codi ar Refeniw am Asedau nad ydynt yn Gyfredol

Rhoddir debyd yn erbyn gwasanaethau, gwasanaethau cefnogol a chyfrifon masnachu yn ôl y symiau a ganlyn i bwrpas cofnodi cost dal asedau nad ydynt yn gyfredol yn ystod y flwyddyn:-

- dibrisiant a briodolir i'r asedau a ddefnyddiwyd gan y gwasanaeth perthnasol;
- colledion ailbrisio ac amhariad ar asedau a ddefnyddiwyd gan y gwasanaeth lle nad oes enillion cronnus yn y Cyfrif Ailbrisio Wrth Gefn y mae modd dileu'r colledion yn ei erbyn;
- amorteiddio asedau annirweddol a briodolir i'r gwasanaeth.

Nid oes raid i'r Cyngor godi'r dreth gyngor i bwrpas cyllido colledion dibrisiant, ailbrisio neu amhariad na rhai amorteiddio. Fodd bynnag, rhaid iddo wneud cyfraniad blynyddol o refeniw tuag at y gostyngiad yn ei anghenion benthyca cyffredinol – cyfraniad sy'n cyfateb i swm a glandrir ar sail bwyllog ac a bennir gan y Cyngor yn unol â chyfarwyddiadau statudol.

Felly, yn lle colledion dibrisiant, ailbrisio ac amhariad ac yn lle amorteiddiadau ceir cyfraniad i Falans Cronfa'r Cyngor trwy drafodyn diwygio i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn ac yn cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng y ddau.

Caiff trafodion mewn perthynas ag eiddo buddsoddi eu cofnodi yn erbyn llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddiad yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

## 25. Buddiannau'r Gweithwyr

### 25.1 Buddiannau sy'n daladwy yn ystod cyflogaeth

Y buddiannau tymor byr i'r gweithwyr yw'r rheini sy'n cael eu talu cyn pen 12 mis i ddiwedd y flwyddyn – buddiannau megis cyflogau wythnosol a misol, gwyliau blynyddol gyda thâl, absenoldeb gwaeledd gyda thâl, taliadau bonws a buddiannau heblaw arian i'r gweithwyr presennol a'r rheini'n cael eu cydnabod fel treuliau i'r gwasanaethau yn ystod y flwyddyn pryd y rhydd y gweithwyr wasanaeth i'r Cyngor. Darperir ffigwr gronnus ar gyfer costau hawliadau gwyliau (neu unrhyw fath o absenoldeb, e.e. amser i ffwrdd *in lieu*) a enillwyd gan weithwyr a'r rheini heb eu cymryd cyn diwedd y flwyddyn a hawl ganddynt i'w trosglwyddo i'r flwyddyn ariannol ddilynol.

Mae'r ffigwr cronnol yn seiliedig ar y cyfraddau perthnasol i gyflogau wythnosol a misol yn y flwyddyn gyfrifo ddilynol, sef pryd y bydd y gweithiwr yn cymryd y budd. I atal amrywiadau gael effaith ar y dreth gyngor, mae'r newidiadau blwyddyn ar flwyddyn yn y gost a gynhyrchir gan y cronni yma'n cael ei godi yn erbyn Gwarged neu Ddiffyg ar y Ddarpariaeth o Wasanaethau, ond wedyn caiff ei wyrdroi trwy'r Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn i'r Cyfrif Addasu Absenoldebau Cronnol, fel bod buddiannau gwyliau yn cael eu codi yn erbyn refeniw yn ystod y flwyddyn ariannol y mae'r absenoldeb gwyliau'n digwydd ynddi.

Nid yw'r Cyngor yn rhoddi buddiannau tymor hir i weithwyr h.y. y rheini ni ddisgwylir eu talu neu eu setlo cyn pen 12 mis i ddyddiad y Fantolen.

### 25.2 Buddiannau Terfynu

Buddiannau terfynu yw'r symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan y Cyngor i ddod â chyflogaeth swyddog i ben cyn y dyddiad ymddeol cyffredin neu benderfyniad swyddog i dderbyn diswyddo gwirfoddol a chodir y rhain ar sail groniadau i'r llinell gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fo'r Cyngor yn amlwg wedi ymrwymo i derfynu cyflogaeth swyddog neu gru p o swyddogion neu i wneud cynnig i annog diswyddo gwirfoddol.

Pan fo buddiannau terfynu'n golygu ategu pensiynau, (fel arfer yn ffurf blynyddoedd ychwanegol) mae'r costau hyn yn cael eu trin fel costau pensiwn at ddiben y trosglwyddiad statudol rhwng y Gronfa Pensiynau Wrth Gefn a'r Gronfa Gyffredinol am y swm y mae costau pensiwn a gyfrifir yn unol â'r Cod yn wahanol i'r cyfraniadau dyledus dan reoliadau'r cynllun pensiwn.

### 25.3 Buddiannau ôl-Gyflogaeth

Mae gan weithwyr y Cyngor hawl i fod yn aelodau o ddau gynllun pensiwn sydd ar wahân i'w gilydd:-

- Cynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan yr Adran Addysg;
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gyngor Gwynedd.

Mae'r ddau gynllun yn darparu buddiannau diffiniedig i aelodau (lwmp swm ymddeol a phensiwn), a enillwyd tra oedd gweithwyr yn gweithio i'r Cyngor.

### 25.4 Cynllun Pensiwn Athrawon

Oherwydd trefniadau cynllun yr athrawon nid yw'n bosib fel arfer priodoli'r atebolrwydd am y buddiannau hyn i'r Cyngor. Felly, mae cyfrif am y cynllun fel petai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig ac nid oes yn y Fantolen gydnabyddiaeth yng nghyswllt unrhyw atebolrwydd i dalu buddiannau yn y dyfodol. Codir yn erbyn y llinell Gwasanaethau Plant ac Addysg yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yng nghyswllt cyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i'r Asiantaeth Pensiwn Athrawon yn y flwyddyn.

### 25.5 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Gall unrhyw weithwyr (ac eithrio athrawon) a chynghorwyr, yn amodol ar feini prawf cymhwyso penodol, ymuno gyda'r Cynllun Pensiwn ar gyfer Llywodraeth Leol. Enw'r Cynllun yw Cronfa Bensiwn Gwynedd a chaiff ei gweinyddu gan Gyngor Gwynedd yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 ar ran y cyflogwyr sy'n rhan ohono. Yn unol â Safon Gyfrifo Ryngwladol (IAS 19), mae'r Cynllun ar gyfer Llywodraeth Leol yn cael ei gyfrif fel cynllun buddiannau diffiniedig:-

Mae'r rhwymedigaethau i Gynllun Pensiwn Gwynedd a briodolir i'r Cyngor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen yn ôl dull actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull uned ragamcanedig - h.y. asesiad o'r taliadau a wneir yn y dyfodol yng nghyswllt buddiannau ymddeoliad a enillwyd hyd yma gan y gweithwyr, yn seiliedig ar ragdybiaethau yng nghyswllt cyfraddau marwolaeth, cyfraddau trosiant y gweithwyr, ayyb., a hefyd ar ragamcanion yng nghyswllt enillion rhagamcanedig y gweithwyr presennol;

Rhoddir disgownt yn erbyn y rhwymedigaethau i lawr i'w gwerth yn ôl prisiau cyfredol, gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt real, yn seiliedig ar raddfa dychweliad arwyddol ar fondiau Llywodraeth y DU wedi ei addasu ar gyfer ychwanegiad at y cynnyrch sy'n adlewyrchu'r risg ychwanegol sydd ynghlwm wrth ddefnyddio cynnyrch Bondiau Corfforaethol AA - a adwaenir fel taeniad credyd;

Mae asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd a briodolir i'r Cyngor wedi'u cynnwys yn y Fantolen yn ôl eu gwerth teg:-

- Stociau a ddyfynnir - pris bid presennol;
- Stociau heb eu dyfynnu - amcangyfrif proffesiynol;
- Stociau fesul uned - pris bid bresennol;
- Eiddo – eu gwerth ar y farchnad.

Mae'r newid yn y rhwymedigaethau pensiwn net yn cael ei ddadansoddi fesul chwe rhan:-

**a)** Costau gwasanaeth cyfredol - cynnydd yn y rhwymedigaethau oherwydd nifer y blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni - wedi ei ddyrannu yn y Ddatganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y gwasanaethau y mae'r gweithwyr yn gweithio iddynt;

**b)** Costau gwasanaeth y gorffennol - y cynnydd yn y rhwymedigaethau oherwydd penderfyniadau a wnaed eleni ac effaith y rheini yn ymwneud â nifer y blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd ym mlynyddoedd y gorffennol - debyd i Warged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r Costau na Ddosberthir. Llog net ar yr ymrwymiad net o ran buddiannau diffiniedig, h.y. y costau llog net i'r Cyngor - mae'r newid yn ystod y cyfnod yn yr ymrwymiad o ran y buddiannau diffiniedig net sy'n codi o dreigl amser yn cael ei godi dan y llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddiad yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae hyn yn cael ei glandro drwy ddefnyddio'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddiwyd i fesur yr ymrwymiad o ran buddiannau diffiniedig ar ddechrau'r cyfnod, i'r ymrwymiad net diffiniedig ar ddechrau'r cyfnod (gan gymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau yn yr ymrwymiad o ran buddiannau diffiniedig net yn ystod y cyfnod fel canlyniad cyfraniadau a thaliadau budd-daliadau);

**c)** Ail-fesuriad yn cynnwys:-

- Yr enillion ar asedau'r cynllun (ac eithrio unrhyw symiau sydd eisoes wedi'u cynnwys yn y llog net ar fuddiannau net diffiniedig) sy'n cael ei godi i'r gronfa wrth gefn ar gyfer Pensiynau fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall ;
- Ailfesur yr ymrwymiadau buddiannau net diffiniedig - newidiadau yn yr ymrwymiadau pensiwn net sy'n codi am nad yw'r digwyddiadau yn cyfateb i'r rhagdybiaethau a wnaed yn y prisiad actiwaraidd diwethaf neu oherwydd bod yr actiwarïaid wedi diweddaru eu rhagdybiaethau. Mae hyn yn cael ei godi i'r gronfa wrth gefn ar gyfer Pensiynau fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall;

**ch)** Enillion neu golledion ar setliadau a chwtogiadau - o ganlyniad i gamau gweithredu i ryddhau'r Cyngor o ymrwymiadau neu ddigwyddiadau sy'n gostwng gwasanaeth neu groniadau buddiannau i weithwyr a ddisgwylir yn y dyfodol - debydu neu gredydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r Costau na Ddosberthir;

**d)** Cyfraniadau a dalwyd i Gronfa Bensiwn Gwynedd - arian parod a dalwyd i mewn fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r gronfa bensiwn fel setliad o rwymedigaethau; heb ei gyfrif fel traul.

Caiff elfennau (a-d) eu codi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn, ond er mwyn rhwystro newidiadau yn rhwymedigaethau'r pensiynau rhag cael effaith anghymesur ar y Dreth Gyngor, mae darpariaethau statudol yn bodoli sy'n cyfyngu ar y swm a godir yn erbyn y Gronfa Gyffredinol i'r swm sy'n daladwy gan y Cyngor i'r Gronfa Bensiwn (d). Caiff y gwahaniaeth rhwng y ddau werth ei addasu yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Mewn perthynas â buddiannau ymddeol, ac yn unol â darpariaethau statudol, rhaid talu o falans y Gronfa Gyffredinol y swm sy'n daladwy gan y Cyngor i'r gronfa bensiwn neu'n uniongyrchol i bensiynwyr yn y flwyddyn, ac nid y swm a gyfrifwyd yn unol â'r safonau cyfrifyddu perthnasol.

Mae hyn yn golygu bod yna symudiadau i mewn ac allan o'r Gronfa Bensiwn Wrth Gefn er mwyn dileu'r debydau a chredydau ar gyfer buddiannau ymddeol a'u disodli gyda debydau ar gyfer yr arian a dalwyd i'r gronfa bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau o'r fath sy'n daladwy ond heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol sy'n codi ar y Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Pensiynau felly'n mesur y budd i Gronfa'r Cyngor o orfod cyfrif am fuddiannau ymddeol ar sail llif arian yn hytrach nag fel buddiannau a enillwyd gan weithwyr.

### 25.6 Buddiannau Dewisol

Yn ogystal, mae gan y Cyngor rai pu erau i dalu buddiannau ymddeoliad dewisol pan fo gweithwyr yn ymddeol yn gynnar. Mae unrhyw rwymedigaethau y tybir eu bod am godi yn sgil rhoi dyfarniad i unrhyw aelod o staff (gan gynnwys athrawon) yn cronni yn ystod blwyddyn y penderfyniad a gwneir cyfrif amdanynt gan ddefnyddio'r un polisïau â'r rheini a ddefnyddir yng nghyswllt Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

## 26. Hawliadau Tâl Cyfartal, Statws Sengl ac Arfarnu Swyddi

Mae’r Cyngor wedi derbyn hawliadau gan weithwyr cyfredol a chan gyn-weithwyr mewn perthynas â thâl cyfartal, statws sengl ac arfarnu swyddi ac mae’n bwriadu amddiffyn y rhain. Fodd bynnag, mae’r Cyngor wedi bod yn ddigon doeth i sefydlu cronfa wrth gefn a chynnwys darpariaeth i gwrdd â’r costau a allai godi o’r rhwymedigaethau hyn. Nid yw’r Datganiad Cyfrifon, o’r herwydd, ar hyn o bryd yn adlewyrchu gwerth gwirioneddol yr hawliadau, yn hytrach ceir amcangyfrif o’r rhwymedigaethau ariannol a fydd yn codi yn eu sgil. Yn 2015/16, talwyd costau sylweddol mewn perthynas ag arfarnu swyddi a oedd wedi eu cyllido o’r ddarpariaeth a wnaed yn y blynyddoedd blaenorol.

## 27. Eitemau Eithriadol

Lle mae hynny’n berthnasol a lle mae eitemau o incwm a gwariant yn sylweddol, caiff natur a swm yr eitemau eu datgelu ar wahân naill ai ar wyneb y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr neu yn y nodiadau ar y cyfrifon, gan ddibynnu ar arwyddocâd yr eitemau o ran cael dealltwriaeth o berfformiad ariannol y Cyngor. Enghraifft o hyn yn 2015/16 oedd prynu allan o’r CRT a gostiodd £21.169m, sef trafodiad eithriadol unwaith ac am byth a bydd yn cael ei ddangos ar Gyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y CRT gyda datgeliadau perthnasol.

## 28. Cyfrifo am TAC (Trethi Annomestig Cenedlaethol)

Gan fod y Cyngor yn gweithredu fel asiant ar gyfer casglu incwm TCA, nid yw’n cynnwys y sefyllfa ariannol o ran y trethdalwyr ac nid yw ond yn adrodd ar y sefyllfa ariannol net gyda’r Llywodraeth Ganolog yn ei Fantolen. Felly, os ydi’r swm a gesglir gan yr Awdurdod oddi ar drethdalwyr TAC (net y gost o lwfans casglu) yn fwy na delir i Llywodraeth Cymru ar 31 Mawrth, mae’r swm sydd heb ei dalu eto i Lywodraeth Cymru in cael ei gynnwys yn y Fantolen fel credydwr. Yn yr un modd, os yw’r arian a dalwyd i Llywodraeth Cymru yn fwy na’r arian a gasglwyd gan drethdalwyr TAC (net y gost o lwfans casglu), mae’r swm dros ben yn cael ei gynnwys yn y Fantolen fel dyledwr. Mae’r Cyngor yn cadw cofnod o ddyledion TCA, lwfansau amhariad, rhagdaliadau a gordaliadau yn ei gyfrifon, fodd bynnag, i ddiben y cyfrifon terfynol caiff y balansau hyn eu cyfuno’n un cyfrif asiantaeth, gyda’r ffigyrau ar gyfer dyledwyr/credydwyr yn ymddangos fel ffigwr net ar gyfer y gronfa genedlaethol. Cost y lwfans casglu a dderbynnir gan Gyngor Sir Ynys Môn yw incwm y cyngor sy’n bilio a chaiff ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Nid yw’r arian a gasglwyd gan drethdalwyr TAC yn cael ei gynnwys yn y Datganiad Llif Arian heblaw am yr arian a ddelir yn ôl mewn perthynas â’r lwfans casglu. Mae unrhyw wahaniaeth rhwng yr arian a gasglwyd oddi wrth drethdalwyr TAC â’r arian sydd yn cael ei dalu i’r Gronfa Drethi Cenedlaethol yn cael ei gynnwys o fewn y gweithgareddau ariannol yn Natganiad y Llif Arian.

## 29. Incwm a Gwariant Asiantaeth

Yn unol ag amryfal bwerau statudol, gall Cynghorau gytuno gydag awdurdodau lleol eraill, cwmniau du r ac adrannau• r llywodraeth i wneud gwaith ar eu rhan. Caiff y corff sy’n gwneud y gwasanaethau asiantaeth ei ad-dalu gan y corff cyfrifol hyd at swm a gymeradwywyd ynghyd ag unrhyw gyfraniad y cytunwyd arno tuag at gostau gweinyddol. Dim ond y symiau sy’n gysylltiedig â’r Cyngor, er enghraifft y ffioedd a gafwyd am ddarparu gwasanaethau’r asiantaeth, fydd yn cael eu cynnwys yn Natganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Cyngor.

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi gweithredu fel asiant ar ran:-

- Llywodraeth Ganolog - casglu Trethi Cenedlaethol Annomestig (TCA) a thalu'r symiau a gasglwyd i'r Llywodraeth Ganolog, llai'r swm a gadwyd yn ôl ar gyfer y lwfans costau casglu.

**NODYN 2a – SAFONAU CYFRIFO A GYHOEDDWYD OND NAD YDYNT ETO WEDI EU MABWYSIADU**

Bydd y Côd Ymarfer ar Gyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2016/17 (y Côd) yn cyflwyno sawl newid i bolisïau cyfrifo – gweler isod. Bydd angen gweithredu'r newidiadau hyn yn 2016/17 ac yn ôl-ddyddiedig i 1 Ebrill 2015.

- Diwygiadau i IAS 19 *Buddiannau Gweithwyr* (Cynlluniau Buddiannau Diffiniedig: Cyfraniadau Gweithwyr)
- Gwelliannau blynyddol i IFRS (Cylch 2010 – 12)
- Diwygiad i IFRS 11 Trefniadau ar y Cyd (Cyfrifo ar gyfer Caffael Buddiannau mewn Gweithrediadau ar y Cyd)
- Diwygiad i IAS 16, Eiddo, Offer a Chyfarpar ac IAS 38 Asedau Annirweddol (Esboniad o Ddulliau Derbyniol o Ddibrisio ac Amorteiddio)
- Gwelliannau blynyddol i IFRS (Cylch 2012-2014)
- Diwygiad i IAS 1 Cyflwyno Datganiadau Ariannol (Menter Ddatgelu)
- Newidiadau i fformat y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn a chyflwyno'r Dadansoddiad newydd o Wariant a Chyllido
- Newidiadau i fformat y Cyfrif Cronfa Bensiwn a'r Datganiad Asedau Net.

Nid yw'r côd yn rhagweld y bydd y diwygiadau uchod yn cael effaith sylweddol ar y wybodaeth a ddarperir yn y datganiadau ariannol, Fodd bynnag, yn 2016/17 rhaid i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn cymharol ar gyfer 2015/16 adlewyrchu'r fformat newydd sydd ei angen o 2016/17.

Yn ychwanegol at hyn, bydd newid sylweddol i'r modd y cyfrifir ar gyfer yr Ased Rhwydwaith Priffyrdd yn cae ei weithredu o 1 Ebrill 2016. Bydd hyn yn cael ei weithredu ar gyfer y flwyddyn i ddod, hynny yw, ni fydd angen ailddatgan y balansau agoriadol ar gyfer 1 Ebrill 2015. Mae'r newidiadau y bydd angen eu gwneud o 2016/17 yn debygol o ychwanegu'n sylweddol ar werth yr Ased Rhwydwaith Priffyrdd ar y fantolen oherwydd newid yn y sail brisio o'r gost hanesyddol wedi ei dibrisio i cost ei hamenwid wedi dibrisio.

**NODYN 2b – SAFONAU CYFRIFO SYDD WEDI CAEL EU CYHOEDDI AC WEDI EU MABWYSIADU**

Mae'r Côd Ymarfer ar Gyfrifon Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig 2015/16 wedi cyflwyno nifer o ofynion newydd a bydd rhaid i Gynghorau gydymffurfio gyda'r safonau newydd sydd wedi cael eu mabwysiadu mewn perthynas â'r modd y cyflwynir adroddiadau. Mae'r newidiadau perthnasol yn ymwneud â'r safonau isod a byddant yn cael eu diwygio, lle maent yn berthnasol, yn achos unrhyw gyfrifon a fydd yn cael eu cynhyrchu ar gyfer cyfnodau ariannol sy'n cychwyn ar ôl 1af Ebrill 2015.

- IFRS13 – Mesur Gwerth Teg
- Gwelliannau blynyddol i'r IFRS (cylch 2011-13)
- Ardollau IFRIC 21

Bydd y newidiadau hyn yn cael eu mabwysiadu'n ôl-ddyddiedig ond, gan fod y Datganiad Cyfrifon eisoes yn adlewyrchu gofynion y safonau adrodd hyn pan fyddant yn berthnasol i'r Cyngor, nid oes angen ailddatgan data cyfrifo'r cyfnod blaenorol.

Mae'r newidiadau blynyddol i IFRS (cylch 2011-13) yn egluro'r amgylchiadau lle mae'n rhaid cynnwys gwybodaeth gymharol yn y cyfrifon. Mae gwybodaeth gymharol eisoes wedi'i chynnwys yn y cyfrifon hyn yn unol â'r gofynion newydd.

## NODYN 3 - BARNAU ALLWEDDOL WRTH WEITHREDU'R POLISÏAU CYFRIFO

Wrth weithredu'r polisïau cyfrifo a restrir yn Nodyn 1, mae'r Cyngor wedi gorfod gwneud barnau penodol ynglŵn â thrafodion cymhleth neu rheini sydd yn cynnwys ansicrwydd am ddigwyddiadau yn y dyfodol. Y barnau allweddol sydd wedi eu gwneud yn y Datganiad Cyfrifon yw:-

- Mae'r Cyfrifon wedi cael eu paratoi mewn modd sy'n tybio y bydd y swyddogaeth a'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor yn parhau i fod yn weithredol am y dyfodol rhagweladwy. Ni wnaed unrhyw gydnabyddiaeth, hyd yma, o'r cynigion sy'n cael eu gwneud am ad-drefnu Llywodraeth Leol a all ddwyn ffrwyth ymhen y tair i bedair blynedd nesaf.

- Mae'r Cyngor wedi penderfynu nad yw nifer o asedau a ddefnyddir i ddibenion cymdeithasol neu ddatblygu economaidd yn cael eu dal i bwrpas creu incwm neu gynyddu cyfalaf yn unig ac, o'r herwydd, nid ydynt yn cael eu hystyried fel eiddo buddsoddiad. O ganlyniad, caiff yr asedau hyn eu nodi fel Asedau Nad Ydynt yn Gyfredol - Eiddo, Offer a Chyfarpar ar y Fantolen. Yn unol â'r canllawiau cyfredol ynghylch y modd yr ymdrinnir â rhai mathau o ysgolion, dim ond gwerth tir ysgolion a reolir yn wirfoddol sy'n cael ei gynnwys ar y Fantolen. Oherwydd nad yw'r Cyngor yn berchen ar ysgolion o'r fath, ac oherwydd nad oes ganddo fynediad iddynt i bwrpas eu prisio, nid yw gwerth yr adeiladau wedi ei gynnwys ar y Fantolen. Yn ychwanegol at hyn, nid yw Ysgolion a Gynorthwyir yn Wirfoddol ac Ysgolion Sefydledig – gwerth y tir na'r adeiladau – wedi eu cynnwys ar y Fantolen.

- Caiff grantiau cyfalaf a refeniw eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn asesu a yw'r telerau a'r amodau sydd ynghlwm wrth y grantiau perthnasol wedi eu bodloni. Os bydd y telerau a'r amodau wedi eu bodloni byddant yn cael eu cydnabod o fewn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn. Os na fyddant, byddant yn cael eu cario o fewn y fantolen o fewn credydwyr hyd nes y bydd y telerau a'r amodau sy'n gysylltiedig â'r grant wedi eu bodloni neu fod y grant yn cael eu had-dalu i ddarparwr y grant pe na bai'r telerau a'r amodau yn cael eu bodloni. Gall y driniaeth hon olygu bod balansau o bwys yn cael eu cario yn y fantolen fel incwm a ohiriwyd.

- Mae ffiniau•r gru p wedi ei hadolygu gan ddefnyddio•r meini prawf a amlinellwyd yn y safonau cyfrifo perthnasol a'r Côd Ymarfer, nid yw'r Cyngor wedi nodi unrhyw gwmnïau na sefydliadau y byddai angen iddo gwblhau cyfrifon gru p.

- Mae lefel uchel o ansicrwydd am lefelau cyllido i lywodraeth leol yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi penderfynu nad yw'r ansicrwydd yn ddigonol ar hyn o bryd i roi arwydd y bydd amhariad ar asedau'r Cyngor o ganlyniad i'r angen i gau cyfleusterau a gostwng lefelau o ran darparu gwasanaeth.

## NODYN 4a - RHAGDYBIAETHAU A WNAED YNGHYLCH ANSICRWYDD YN Y DYFODOL AC AMCANGYFRIFON A FFYNONELLAU ERAILL O ANSICRWYDD

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys ffigyrau wedi eu hamcangyfrif yn seiliedig ar dybiaethau wedi eu gwneud gan y Cyngor am y dyfodol neu sydd yn ansicr fel arall. Gwneir amcangyfrifon trwy ystyried profiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir pennu rhai balansau yn bendant, gall y canlyniadau terfynol fod yn wahanol i'r tybiaethau ac amcangyfrifon.

Gellir ystyried yr eitemau canlynol ar Fantolen y Cyngor ar 31 Mawrth 2016 fel rhai sydd fwyaf agored i risg o gamgymeriad amcangyfrif yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod:-

**Asedau nad ydynt yn gyfredol - Eiddo, Offer a Chyfarpar** - Mae asedau yn cael eu dibrisio dros eu hoes fuddiol yn unol ag arferion safonol cyfrifo. Caiff unrhyw wahaniaeth rhwng y dibrisiant a gwir ddirywiad yr ased ei adlewyrchu ym mhatrymau gwariant y dyfodol. Mae gwybodaeth ynglŵn ag Eiddo, Offer a Chyfarpar wedi ei gynnwys yn Nodyn 15 ar dudalen 60.

"Pan fo gan eitem o ased Eiddo, Offer a Chyfarpar (Ased Nad yw'n Gyfredol) cydrannau mawr y mae eu cost yn sylweddol mewn cysylltiad â chost gyfan yr eitem, dibrisir y cydrannau ar wahân."

I weithredu hyn yn ymarferol, mae'n ofynnol llunio barn ar ddau fater, i sefydlu:-

- cyfran cost ased a ystyrir i gynrychioli rhan sylweddol o'r ased; a
- trothwy cost, islaw hyn ni fyddai clandriad ar wahân o ddibrisiant ar ran o ased yn cael effaith sylweddol ar swm y dibrisiant yn ei gyfanrwydd.

Mae'r Cyngor wedi gosod y ffigyrau yma fel 20% o gost gyfan yr ased a £2m yn y drefn honno. Fel nodir uchod ynglwn â dibrisiant yn gyffredinol, gall dirywiad ffisegol o rannau unigol o ased, dros amser, arwain at batrymau gwario nad ydynt wedi eu hadlewyrchu'n llawn yn y lefelau dibrisiant a ddarparwyd yn flaenorol.

**Tai Cyngor -** Mae stoc Dai'r Cyngor yn cael ei brisio drwy ddefnyddio methodoleg safonol, sydd yn rhannol angen defnyddio ffactor addasu i ganiatáu am y gwahaniaethau rhwng cynnyrch a rhent ar dai cymdeithasol a'r sector breifat. Ar hyn o bryd, nid oes ffactor addasu wedi ei chyhoeddi ar gyfer Cymru, felly dewisodd y Cyngor ffactor addasu sydd wedi ei chyhoeddi ar gyfer yr ardaloedd mwyaf cymharol yn Lloegr, y ffactor a ddefnyddiwyd oedd 31%. Petai ffactor penodol yn cael ei gyhoeddi, un ai ar gyfer Cymru yn ei gyfanrwydd neu ar sail ranbarthol, yna byddid yn gweithredu ar hynny.

**Darpariaethau** – Mae'r Cyngor wedi gwneud darpariaeth ar gyfer cyfres o ffactorau ansicr a allai arwain at gostau sylweddol yn ddiweddarach. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â thâl cyfartal, costau ôl-ofal Safle Tirlenwi Penhesgyn, buddiannau terfynu posibl ar gyfer staff fydd yn gadael y Cyngor ac ymrwymiadau hawliadau yswiriant o bosibl. Ceir manylion llawn yn Nodyn 27. Byddai newid o 10% mewn perthynas â setlo hawliadau tâl cyfartal yn codi neu'n gostwng gwerth yr ymrwymiad gan oddeutu £0.302m.

**Rhwymedigaeth Pensiynau** - Mae sefyllfa'r Rhwymedigaeth Bensiwn a adlewyrchir yn y cyfrifon yn seiliedig ar nifer o asesiadau a dyfarniadau cymhleth yn ymwneud â chyfraddau disgownt, codiadau cyflog rhagamcanedig, newidiadau i oedran ymddeol, cyfraddau marwolaethau a'r dychweliadau disgwyliedig ar asedau pensiwn. Mae'r Cyngor sy'n gweinyddu'r gronfa wedi cyflogi cwmni o actiwarïaid ymgynghorol i ddarparu cyngor arbenigol ar y rhagdybiaethau i'w defnyddio. Ceir rhagor o fanylion yn Nodyn 41.

**Amhariad / Lwfans Dyledion Amheus** – Ar 31 Mawrth 2016, roedd gan y Cyngor falans o £23.359m o ran dyledion net tymor byr. Awgrymodd adolygiad o'r balans dyledion fod swm amhariad o £5.4m yn briodol ar gyfer dyledion amheus. Caiff unrhyw wahaniaeth rhwng lefel yr amhariad a ddefnyddiwyd a'r gwir sefyllfa ôl-ddyledion ei adlewyrchu ym mhatrwm gwariant y dyfodol. Mae'r ffigwr amhariad dyledion amheus wedi ei gynnwys yn y ffigyrau Dyledwyr Tymor Byr yn Nodyn 24 ar dudalen 68.

**Mesur Gwerth Teg**

Bydd gwerth teg yn cael ei fesur yn unol ag IFRS13 Mesur Gwerth Teg fel yr adroddwyd arno yng Nghôd Ymarfer CIPFA am 2015/16. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae mesur gwerth teg yn fesur sy'n seiliedig ar y farchnad. Rhydd IFRS13 fwy o gyfeiriad ac eglurder mewn perthynas â phrisio asedau a rhwymedigaethau. Fodd bynnag, os nad oes marchnad ar gael i'w harsylwi er mwyn sefydlu gwerth, bydd angen defnyddio barn broffesiynol. Mewn achosion lle na fedrir mesur gwerth teg asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol yn seiliedig ar brisiau a ddyfynnwyd mewn marchnadoedd gweithredol (h.y. mewnbynnau Lefel 1), caiff eu gwerth teg eu mesur drwy ddefnyddio technegau prisio (e.e. prisiau a ddyfynnwyd ar gyfer asedau neu rwymedigaethau tebyg mewn marchnadoedd gweithredol ). Lle mae'n bosibl, bydd y mwynbynnau i'r technegau prisio hyn yn seiliedig ar ddata sydd ar gael i'w arsylwi ond, os nad yw hynny'n bosibl, rhaid defnyddio barn i sefydlu gwerthoedd teg. Yn gyffredinol, wrth lunio barn rhaid cymryd ffactorau megis ansicrwydd a risg i ystyriaeth. Fodd bynnag, gallai newid yn y tybiaethau a ddefnyddir effeithio ar werth teg asedau a rhwymedigaethau'r Awdurdod. Defnyddir y model cost amnewid dibrisiedig i fesur gwerth teg rhai o eiddo buddsoddiad ac asedau ariannol yr Awdurdod.

Os nad oes mewnbynnau Lefel 1 ar gael, bydd yr Awdurdod yn cyflogi arbenigwyr perthnasol i nodi'r technegau prisio mwyaf priodol er mwyn penderfynu gwerth teg (er enghraifft, prif swyddog prisio'r Awdurdod ar gyfer eiddo buddsoddiad).

Mae'r mewbynnau sylweddol nad oes modd eu harsylwi a ddefnyddir yn yr asesiad o werth teg yn cynnwys tybiaethau rheolwyr ynghylch twf rhent, i ba lefel y mae eiddo'n wag (yn achos eiddo buddsoddiad) a chyfraddau disgownt – wedi eu haddasu ar gyfer ffactorau rhanbarthol (ar gyfer asedau buddsoddiad ai asedau ariannol). Byddai newidiadau arwyddocaol mewn unrhyw un o'r mewnbynnau nad oes modd eu harsylwi yn arwain at fesuriadau gwerth teg a fyddai'n sylweddol is neu'n sylweddol uwch ar gyfer eiddo buddsoddiad ac asedau ariannol.

## NODYN 4b – ADDASIAD AR GYFER Y CYFNOD BLAENOROL, NEWIDIADAU MEWN POLISÏAU CYFRIFO AC AMCANGYFRIFON A CHAMGYMERIADAU

Ni wnaed unrhyw addasiadau cyfnod blaenorol i'r cyfrifon eleni.

## NODYN 5 – EITEMAU PERTHNASOL O RAN INCWM A GWARIANT

Nid oes unrhyw eitemau o incwm neu wariant perthnasol nad ydynt wedi eu datgelu mewn rhan arall o'r cyfrifon hyn.

## NODYN 6 – DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD Y FANTOLEN

Awdurdodwyd y Datganiad Cyfrifon i'w gyhoeddi gan y Swyddog Adran 151 y Cyngor ar 27 Medi 2016. Ni adlewyrchir digwyddiadau ar ôl y dyddiad hwn yn y datganiadau neu nodiadau ariannol.

Pan fo digwyddiadau cyn y dyddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am amodau a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2016, mae'r ffigyrau yn y datganiadau a nodiadau ariannol wedi ei haddasu ym mhob ffordd berthnasol i adlewyrchu effaith y wybodaeth hon.

Nid oedd unrhyw ddigwyddiad rhwng 31 Mawrth 2016 a 27 Medi 2016 i effeithio ar y prif ddatganiadau ariannol. Fodd bynnag, nid yw canlyniad refferendwm yr UE ar 23 Mehefin 2016 i adael yr Undeb Ewropeaidd yn newid unrhyw wybodaeth ariannol o fewn y cyfrifon. Mae'r canlyniad wedi creu amgylchedd economaidd mwy ansicr sydd, o bosib, yn cynyddu'r risgiau i'r Awdurdod fel y trafodwyd yn Nodyn 45.

## NODYN 7 – ADDASIADAU RHWNG SAIL GYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN REOLIAD

| 2015/16 | Arian wrth Gefn y mae modd ei ddefnyddio | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Balans Cronfa'r Cyngor | Cyfrif Refeniw Tai | Cronfa Derbynebiadau Cyfalaf | Grantiau Cyfalaf nas Defnyddiwyd | Symyd yn yr Arian wrth Gefn nad oes modd ei ddefnyddio |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Addasu Cyfalaf:** | | | | | |
| **Gwrthdroi eitemau wedi eu debydu neu gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:** | | | | | |
| Taliadau am amhariad dibrisiant ac amorteiddio asedau nad ydynt yn gyfredol | 13,030 | 9,268 | - | - | (22,298) |
| Ailbrisiant Colledion aibrisiant ar Eiddo, Offer a Chyfarpar | (765) | (134) | - | - | 899 |
| Symudiadau mewn gwerth marchnad Eiddo Buddsoddiad | (186) | - | - | - | 186 |
| Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau Anghynwysedig a gredydir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (8,585) | (2,919) | - | - | 11,504 |
| Gwariant refeniw a ariennir o gyfalaf dan statud | 880 | 21,169 | - | - | (22,049) |
| Swm a gludir o asedau nad ydynt yn gyfredol a werthwyd | 1,399 | 285 | - | - | (1,684) |
| **Cynnwys eitemau na ddebydwyd ac na chredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:** | - | - | - | - | - |
| Isafswm Darpariaeth Refeniw ar gyfer Cyllido Cyfalaf | (3,606) | (453) | - | - | 4,059 |
| Gwariant cyfalaf a godwyd yn erbyn Cronfa'r Cyngor a balansau CRT | (180) | (2,725) | - | - | 2,905 |
| **Addasiadau'n ymwneud â'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf:** | - | - | - | - | - |
| Elw o werthu asedau nad ydynt yn gyfredol | (3,024) | (794) | 3,818 | - | - |
| Defnyddio Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf | - | - | (3,818) | - | 3,818 |
| Defnydd y Gronfa Wrth Gefn Cyfalaf | (115) | - | - | - | 115 |
| Derbyniadau cyfalaf eraill | - | - | - | - | - |
| Cronfa Derbyniadau Cyfalaf a neilltuwyd i ad-dalu dyledion | - | - | - | - | - |
| **Addasiadau yn ymwneud â'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol:** | - | - | - | - | - |
| Swm ble mae'r costau ariannu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i'r costau ariannu priodoladwy am y flwyddyn yn unol â'r gofynion statudol | 97 | 38 | - | - | (135) |
| **Addasiadau'n ymwneud â'r Gronfa Wrth Gefn Pensiwn:** | - | - | - | - | - |
| Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â buddiannau ymddeoliad wedi'u debydu neu gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gweler Nodyn 41) | 14,036 | 228 | - | - | (14,264) |
| Cyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sydd yn daladwy yn y flwyddyn | (8,556) | (228) | - | - | 8,784 |
| **Addasiad mewn perthynas â'r Cyfrif Addasu Tâl Anghyfartal** | - | - | - | - | - |
| Symiau a godir ar y DatqaniadIncwm a Gwariant Cynhwysfaws yn wahanol i gostau'r setliadau yn ystod y flwyddyn a hynny'n unol â gofynion statudol | 713 | - | - | - | (713) |
| **Addasiad yn ymwneud â'r Cyfrif Addasu Absenoldebau Digolledol Cronnol** | - | - | - | - | - |
| Addasiadau mewn perthynas ag absenoldebau digolledol tymor byr | 282 | (9) | - | - | (273) |
| - | - | - | - | - | - |
| **Cyfanswm Addasiadau** | **5,420** | **23,726** | **-** | **-** | **(29,146)** |

| 2014/15 | Arian wrth Gefn y mae modd ei ddefnyddio | | | | Symudiad yn yr Arian wrth Gefn nad oes modd ei ddefnyddio |
|---|---|---|---|---|---|
| | Balans Cronfa'r Cyngor | Cyfrif Refeniw Tai | Cronfa Derbynebiadau Cyfalaf | Grantiau Cyfalaf nas Defnyddiwyd | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Addasu Cyfalaf:** | | | | | |
| **Gwrthdroi eitemau wedi eu debydu neu gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:** | | | | | |
| Taliadau am amhariad dibrisiant ac amorteiddio asedau nad ydynt yn gyfredol | 12,787 | 8,394 | - | - | (21,181) |
| Ailbrisiant Colledion aibrisiant ar Eiddo, Offer a Chyfarpar | 1,540 | - | - | - | (1,540) |
| Symudiadau mewn gwerth marchnad Eiddo Buddsoddiad | 1,199 | - | - | - | (1,199) |
| Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau Anghynwysedig a gredydir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (5,718) | (2,650) | - | - | 8,368 |
| Gwariant refeniw a ariennir o gyfalaf dan statud | 1,862 | - | - | - | (1,862) |
| Swm a gludir o asedau nad ydynt yn gyfredol a werthwyd | 1,111 | 189 | - | - | (1,300) |
| **Cynnwys eitemau na ddebydwyd ac na chredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:** | | | | | |
| Isafswm Darpariaeth Refeniw ar gyfer Ariannu Cyfalaf | (3,662) | (1,009) | - | - | 4,671 |
| Gwariant cyfalaf a godwyd yn erbyn Cronfa'r Cyngor a balansau CRT | (230) | (2,633) | - | - | 2,863 |
| **Addasiadau'n ymwneud â'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf:** | | | | | |
| Elw o werthu asedau nad ydynt yn gyfredol | (2,100) | (474) | 2,574 | - | - |
| Defnyddio Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf | | - | (2,427) | - | 2,427 |
| Derbyniadau cyfalaf eraill | (96) | - | 96 | - | - |
| Cronfa Derbyniadau Cyfalaf a neilltuwyd i ad-dalu dyledion | - | - | (243) | - | 243 |
| **Addasiadau yn ymwneud â'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol:** | | | | | |
| Swm ble mae'r costau ariannu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i'r costau ariannu priodoladwy am y flwyddyn yn unol â'r gofynion statudol | 106 | 31 | - | - | (137) |
| **Addasiadau'n ymwneud â'r Gronfa Wrth Gefn Pensiwn:** | | | | | |
| Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â buddiannau ymddeoliad wedi'u debydu neu gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gweler Nodyn 41) | 11,703 | 198 | - | - | (11,901) |
| Cyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sydd yn daladwy yn y flwyddyn | (8,552) | (198) | - | - | 8,750 |
| **Addasiad mewn perthynas â'r Cyfrif Addasu Ôl-dâl Anghyfartal** | | | | | |
| Symiau a godir ar y DatqaniadIncwm a Gwariant Cynhwysfaws yn wahanol i gostau'r setliadau yn ystod y flwyddyn a hynny'n unol â gofynion statudol | - | - | - | - | - |
| **Addasiad yn ymwneud â'r Cyfrif Addasu Absenoldebau Digolledol Cronnol** | | | | | |
| Addasiadau mewn perthynas ag absenoldebau digolledol tymor byr | 23 | (6) | - | - | (17) |
| - | | | | | |
| **Cyfanswm Addasiadau** | **9,973** | **1,842** | **-** | **-** | **(11,815)** |

## NODYN 8 – CRONFEYDD A GLUSTNODWYD

| | Balans ar 01/04/2014 £'000 | Trosglwydd-iadau i Mewn 2014/15 £'000 | Trosglwydd-iadau Allan 2014/15 £'000 | Balans ar 31/03/2015 £'000 | Trosglwydd-iadau i mewn 2015/16 £'000 | Trosglwydd-iadau Allan 2015/16 £'000 | Balans ar 31/03/2016 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant Cyfalaf | 565 | 495 | (290) | 770 | 313 | (184) | 899 |
| Cronfa wrth Gefn Safle Tirlenwi Gwastraff Penhesgyn | 2,000 | - | - | 2,000 | - | - | 2,000 |
| Cronfeydd wrth Gefn Gwasanaethau | 1,623 | - | (1,623) | - | - | - | - |
| Cronfeydd wrth Gefn | 6,306 | 3,545 | (1,640) | 8,211 | 1,095 | (1,661) | 7,645 |
| Arfarnu Swyddi | 2,356 | 3,317 | (3,145) | 2,528 | 244 | (2) | 2,770 |
| Tâl Cyfartal | - | - | - | - | 865 | - | 865 |
| Ailgylchu | 229 | 67 | (32) | 264 | 60 | - | 324 |
| Cronfa wrth Gefn Rheoli Perfformiad | 1,440 | - | (1,440) | - | - | - | - |
| Cronfa Wrth Gefn ar gyfer Gwaith Trwsio Sylweddol (CRT) | 860 | - | - | 860 | - | (860) | - |
| Cronfa Yswiriant | 2,535 | 626 | (1,000) | 2,161 | 175 | (1,086) | 1,250 |
| Eraill | 491 | - | (491) | - | - | - | - |
| | | | | - | | | - |
| **Cyfanswm** | **18,405** | **8,050** | **(9,661)** | **16,794** | **2,990** | **(3,793)** | **15,991** |

### Pwrpas Cronfeydd Refeniw wrth Gefn a Glustnodwyd

**Gwariant Cyfalaf –** i ariannu gwariant cyfalaf mewn blynyddoedd i ddod. Crëwyd hwn i sicrhau bod gwariant cyfalaf ymrwymedig, yn cynnwys gwariant sydd wedi llithro o flynyddoedd blaenorol, yn cael ei gyllido'n llawn.

**Cronfa wrth Gefn Safle Tirlenwi Gwastraff Penhesgyn –** Crëwyd y gronfa wrth gefn hon i ariannu gwaith ailfodelu mewn perthynas â gwaith daear yn y safle tirlenwi.

**Cronfeydd wrth Gefn Gwasanaethau Cyfyngedig –** cronfeydd wrth gefn penodol a glustnodwyd o fewn meysydd gwasanaeth.

**Arfarnu Swyddi -** O ganlyniad i'r cytundeb 'Statws Sengl', mae'n ofynnol ar y Cyngor, fel y rhan fwyaf o awdurdodau lleol eraill, gyflwyno system gyflog a graddau newydd i ddod i rym o 1 Ebrill 2007. Mae'r graddau y bydd hyn yn cynnwys rhwymedigaeth i ôl-gyflog yn ansicr. Mae trafodaethau'n mynd yn eu blaenau ar strwythur cyflog a graddau diwygiedig. Gosodwyd swm o'r neilltu yn y Gronfa wrth Gefn Arfarnu Swyddi tuag at gost gyffredinol yr ymarfer.

**Ailgylchu -** adnoddau wedi cael eu neilltuo'n benodol ar gyfer mentrau ailgylchu gwastraff.

**Cronfa Yswiriant -** Mae'r Cyngor yn rhedeg cyfrif yswiriant mewnol sy'n talu am golledion hunan yswiriedig ac sy'n derbyn 'premiymau' o gyfrifon gwasanaeth. Darperir ar gyfer y colledion y gwyddys amdanynt ar ddiwedd y flwyddyn. Y gronfa wrth gefn hon yw'r gwarged ar y cyfrif yswiriant mewnol ynghyd â llog ar falansau a bwriedir iddi gynnwys hawliadau yr aethpwyd iddynt ond nad adroddwyd arnynt.

**NODYN 9 - BALANSAU YSGOLION**

**Cedwir y balansau hyn ar gyfer defnydd pob ysgol yn unol â'u hamcanion addysgiadol.**

| | Balans 01/04/2014 | Ychwanegiad / (Lleihad) am 2014/15 | Balans 31/03/ 2015 | Ychwanegiad / (Lleihad) am 2015/16 | Balans 31/03/2016 |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ysgolion Cynradd Cymunedol a Gwirfoddol | 1,035 | 476 | 1,511 | 205 | 1,716 |
| Ysgolion Uwchradd Cymunedol | 309 | 320 | 629 | (325) | 304 |
| Ysgol Arbennig Gymunedol | 5 | 93 | 98 | 68 | 166 |
| Ysgol Gynradd Sefydledig | 169 | 31 | 200 | 76 | 276 |
| **Cyfanswm** | **1,518** | **920** | **2,438** | **24** | **2,462** |

Ar 31 Mawrth 2016, roedd gan bob ysgol falansau mewn llaw heblaw am 3 ysgol gynradd (4 ar 31 Mawrth 2015) ac 1 ysgol uwchradd (2 ar 31 Mawrth 2015), a oedd gyda'i gilydd â diffyg o £0.160m (£0.348m ar 31 Mawrth 2015). Gellir cael copïau o'r Datganiadau Adran 52 y mae'n ofynnol i bob Cyn4gor ei baratoi ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol o dan Adran 52(2) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 gan yr Adain Gyfrifeg, Swyddogaeth Adnoddau, Swyddfeydd y Sir, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7TW.

**NODYN 10 – CRONFA WRTH GEFN DERBYNIADAU CYFALAF**

Dyma dderbyniadau arian parod o werthiant asedau'r Cyngor, nad ydynt eto wedi'u defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf. O Ebrill 2004 mae'r holl dderbyniadau yn ddefnyddiadwy, er bod rhai derbyniadau CRT wedi cael eu gosod o'r neilltu ar sail wirfoddol i ad-dalu dyledion, er mwyn cyd-fynd â'r cymhorthdal ar y CRT. Bellach, mae'r Cyngor wedi prynu allan o'r trefniant cymhorthdal gyda Llywodraeth Cymru drwy gyfrwng benthyciad gan PWLB ac, o'r herwydd, nid oes angen mwyach yr arian a roddwyd o'r neilltu.

Mae'r symiau a osodwyd o'r neilltu wedi'u trosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

| | 2015/16 | 2014/15 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Balans 1 Ebrill** | - | - |
| Derbyniadau Cyfalaf yn y Flwyddyn (net o leihad ar gyfer costau gweinyddu) | 3,818 | 2,670 |
| | **3,818** | **2,670** |
| **Llai:** | | |
| Derbyniadau a roddwyd o'r neilltu i ad-dalu dyledion | - | (243) |
| Derbyniadau Cyfalaf a ddefnyddiwyd i gyllido | (3,818) | (2,427) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **-** | **-** |

## NODYN 11 - CRONFEYDD WRTH GEFN NA ELLIR EU DEFNYDDIO

| | | 31/03/2016<br>£'000 | 31/03/2015<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| a) | Cyfrif Addasu Cyfalaf | 142,604 | 163,189 |
| b) | Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol | (250) | (115) |
| c) | Cronfa Ailbrisiant Wrth Gefn | 96,045 | 85,178 |
| ch) | Cronfa Wrth Gefn Pensiwn | (95,022) | (125,477) |
| d) | Cyfrif cyflog anghyfartal | (2,151) | (1,438) |
| dd) | Cyfrif Addasu Absenoldebau Digolledol Cronnol | (1,547) | (1,274) |
| **Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn na ellir eu Defnyddio** | | **139,679** | **120,063** |

### a) Cyfrif Addasu Cyfalaf

Mae'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sy'n deillio o wahanol drefniadau ar gyfer cyfrifo defnydd asedau nad ydynt yn gyfredol a chyllido'r broses o gaffael, adeiladu neu wella'r asedau hynny dan ddarpariaethau statudol. Mae'r Cyfrif yn cael ei ddebydu gyda chostau megis dibrisiant, colledion amhariad ac amorteiddiad sy'n cael eu codi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, gydag arian a symudwyd o'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn i drosi ffigyrau gwerth teg i sail cost hanesyddol.

Credydir y Cyfrif gyda symiau a osodwyd o'r neilltu gan y Cyngor fel cyllid ar gyfer costau caffael, adeiladu a gwella. Mae'r Cyfrif yn cynnwys enillion a cholledion cronnus ar Eiddo Buddsoddiad. Mae'r Cyfrif hefyd yn cynnwys enillion ailbrisiant cronnus ar Eiddo, Offer a Chyfarpar cyn 1 Ebrill 2007, y dyddiad y crëwyd y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn i ddal y fath enillion. Mae Nodyn 7 ar dudalen 50 yn rhoi manylion ffynhonnell yr holl drafodion a symudwyd i'r Cyfrif, heblaw am y rheini a oedd yn cynnwys y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn.

| Cyfrif Addasiad Cyfalaf | 2015/16 | | 2014/15 | |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Balans ar 1 Ebrill** | | **163,189** | | **170,542** |
| **Gwyrdroad eitemau yn ymwneud â gwariant cyfalaf wedi'u debydu neu gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:** | | | | |
| Taliadau am ddibrisiant ac amhariad asedau nad ydynt yn gyfredol | (22,298) | | (21,181) | |
| Colledion Ailbrisiant ar Eiddo, Offer a Chyfarpar | 899 | | (1,540) | |
| Gwariant refeniw a ariennir o gyfalaf dan statud | (22,048) | | (1,862) | |
| Symiau o asedau nad ydynt yn gyfredol a ddilëwyd ar waredu neu werthiant (yn cynnwys amhariad) fel rhan o'r enilliad/colled ar waredu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (1,684) | | (1,300) | |
| | | **(45,131)** | | **(25,883)** |
| Symiau addasiad a ddilëwyd o'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn | | 1,959 | | 1,157 |
| **Swm net a ddilëwyd o gost asedau nad ydynt yn gyfredol a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn** | | **(43,172)** | | **(24,726)** |
| **Ariannu cyfalaf a gymhwyswyd yn y flwyddyn:** | | | | |
| Defnydd y Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf i gyllido gwariant cyfalaf newydd | 3,818 | | 2,427 | |
| Defnydd y Gronfa Wrth Gefn Cyfalaf | 115 | | - | |
| Cymhwyso grantiau i gyllido cyfalaf o'r cyfrif Grantiau Cyfalaf he eu defnyddio | - | | - | |
| Cronfa Derbyniadau Cyfalaf a osodwyd o'r neilltu i ad-dalu dyledion | - | | 243 | |
| Grantiau Cyfalaf a chyfraniadau wedi eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr sydd wedi ei gymhwyso i gyllido cyfalaf | 11,504 | | 8,368 | |
| Darpariaeth statudol ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf a godwyd yn erbyn Cronfa'r Cyngor a balansau CRT | 4,059 | | 4,671 | |
| Gwariant cyfalaf a godwyd yn erbyn Cronfa'r Cyngor a balansau CRT | 2,905 | | 2,863 | |
| | | **22,401** | | **18,572** |
| Symudiadau mewn gwerth marchnad Eiddo Buddsoddiad wedi'u debydu neu gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | | **186** | | **(1,199)** |
| **Balans ar 31 Mawrth** | | **142,604** | | **163,189** |

## b) Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol

Mae'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol (FIAA) yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sy'n deillio o wahanol drefniadau ar gyfer cyfrifo'r incwm a threuliau sy'n ymwneud ag offerynnau ariannol penodol ac i gynnal colledion neu gael budd o enillion fesul darpariaeth statudol. Mae'r Cyngor yn defnyddio'r Cyfrif i reoli'r premiymau a delir a'r cosbau a gafwyd oherwydd adbrynu benthyciadau yn gynnar. Mae'r premiymau a'r cosbau'n cael eu codi yn erbyn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan maent yn digwydd, ond maent yn cael eu symud allan o Falans Cronfa'r Cyngor i'r Cyfrif yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn. Dros amser, caiff y gost hon ei symud yn ôl i Falans Cronfa'r Cyngor yn unol â'r trefniadau statudol ar gyfer gwasgaru baich y dreth gyngor. Yn achos y Cyngor, y cyfnod hwn yw'r tymor a oedd yn weddill ar y benthyciadau pan gawsant eu hadbrynu.

| | 2015/16<br>£'000 | 2014/15<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill** | **(115)** | **22** |
| Swm y mae costau cyllido a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i gostau cyllido sy'n daladwy yn y flwyddyn yn unol â'r gofynion statudol | (135) | (137) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **(250)** | **(115)** |

**c) Cronfa Ailbrisiant Wrth Gefn**

Mae'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn yn cynnwys yr enillion a wnaed gan y Cyngor yn deillio o gynnydd yng ngwerth ei Eiddo, Offer a Chyfarpar ac Asedau Treftadaeth.

Mae'r balans yn gostwng pan fo asedau gydag enillion cronnus yn cael eu:-

- hailbrisio i lawr neu fod amhariad arnynt a'r enillion yn cael eu colli;
- defnyddio i ddarparu gwasanaethau a'r enillion yn cael eu colli trwy ddibrisiant; neu
- gwaredu a gwireddu'r enillion.

Dim ond enillion ailbrisiant a gronnwyd ers 1 Ebrill 2007 sydd yn y Gronfa wrth Gefn, sef y dyddiad y crëwyd y Gronfa Wrth Gefn.

Mae enillion cronnus a gafwyd cyn y dyddiad hwnnw'n cael eu cyfuno i'r balans ar y Cyfrif Addasu Cyfalaf.

| | 2015/16<br>£'000 | 2014/15<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill** | **85,178** | **48,083** |
| Ailbrisiant asedau a cholledion amhariad na chodwyd ar y Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau | 12,826 | 38,252 |
| Gwahaniaeth rhwng dibrisiant werth teg a dibrisiant gost hanesyddol | (1,470) | (928) |
| Balansau ailbrisio ar asedau wedi ei sgrapio neu ei waredu | (489) | (229) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **96,045** | **85,178** |

**ch) Cronfa Wrth Gefn Pensiwn**

Mae'r Gronfa Wrth Gefn Pensiwn yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sy'n deillio o wahanol drefniadau ar gyfer cyfrifo am fuddiannau ôl-gyflogaeth a chyllido buddiannau yn unol â darpariaethau statudol.

Mae'r Cyngor yn rhoi cyfrif am fuddiannau ôl-gyflogaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel buddiannau a enillwyd gan weithwyr sy'n cronni blynyddoedd o wasanaeth, gan ddiweddaru'r rhwymedigaethau a gydnabyddir i adlewyrchu chwyddiant, rhagdybiaethau sy'n newid a dychweliadau buddsoddiad ar unrhyw adnoddau a osodir o'r neilltu i gwrdd â'r costau. Fodd bynnag, mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i fuddiannau a enillir gael eu cyllido fel y bo'r Cyngor yn gwneud cyfraniadau cyflogwr i'r cronfeydd pensiwn neu, yn y diwedd, yn talu unrhyw bensiynau y mae'n uniongyrchol gyfrifol amdanynt. Felly, mae'r balans debyd ar y Gronfa Wrth Gefn Pensiwn yn dangos diffyg sylweddol yn y buddiannau a enillwyd gan weithwyr y gorffennol a'r presennol a'r adnoddau y mae'r Cyngor wedi eu rhoi o'r neilltu i gwrdd â nhw.

Bydd y trefniadau statudol yn sicrhau y bydd arian wedi ei roi o'r neilltu erbyn yr amser y daw'n amser i ni dalu'r buddiannau.

| Arian Wrth Gefn Pensiynau | 2015/16 £'000 | 2014/15 £'000 |
|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill** | **(125,477)** | **(91,152)** |
| Ail-fesur ymrwymiad net diffinedig | 35,938 | (31,174) |
| Gwyrdroad eitemau yn ymwneud â buddiannau ymddeoliad wedi'u debydu neu gredydu i'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (14,266) | (11,901) |
| Cyfraniad pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr yn daladwy yn ystod y flwyddyn | 8,783 | 8,750 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **(95,022)** | **(125,477)** |

## d) Cronfa wrth Gefn ar gyfer Tâl Anghyfartal

Mae'r Cyfrif Talu Ôl-gyflog Anghyfartal yn gwneud yn iawn am y gwahaniaeth rhwng y raddfa y mae'r Cyngor yn ei darparu am y costau posib yn sgil setlo ôl-daliadau mewn perthynas ag achosion Tâl Cyfartal a'r gallu o dan ddarpariaeth statudol i ohirio'r effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol tan yr amser y caiff yr arian ei dalu allan i hawlwyr.

| Arian Wrth Gefn Tâl Cyfartal | 2015/16 £'000 | 2014/15 £'000 |
|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill** | **(1,438)** | **(1,438)** |
| Cynnydd yn y ddarpariaeth ar gyfer ôl-daliadau o ran achosion Tâl Cyfartal | (713) | - |
| Setliadau arian a dalwyd yn y flwyddyn | - | - |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **(2,151)** | **(1,438)** |

## dd) Cyfrif Addasu Absenoldebau Digolledol Cronnol

Mae'r Cyfrif Addasu Absenoldebau Digolledol Cronnol yn amsugno'r gwahaniaethau a fyddai fel arall yn codi ar Falans Cronfa'r Cyngor o gronni ar gyfer absenoldebau digolledol a enillwyd ond na chymerwyd yn ystod y flwyddyn e.e. hawliau gwyliau blynyddol a gariwyd drosodd ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor gael ei niwtraleiddio gan drosglwyddiadau i neu o'r Cyfrif.

| Cyfrif Addasu Cronus am Iawndal Absenoldeb | 2015/16 £'000 | 2014/15 £'000 |
|---|---|---|
| Setliad neu ddiddymu'r croniad a wnaed ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol | (1,274) | (1,257) |
| Y gwahaniaeth yn y swm a godir am daliadau swyddogion ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail groniadau o'r taliadau sy'n daladwy yn y flwyddyn yn unol | (273) | (17) |
| **Symiau a gronnwyd ar ddiwedd y flwyddyn gyfredol** | **(1,547)** | **(1,274)** |

## NODYN 12 – GWARIANT GWEITHREDOL ARALL

| | 2015/16<br>£'000 | 2014/15<br>£'000 |
|---|---|---|
| Praesept a delir i'r Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru | 7,107 | 6,844 |
| Praesept a delir i'r Cynghorau Cymuned | 1,059 | 1,000 |
| (Gwarged)/Colledion ar waredіad asedau nad ydynt yn gyfredol (Yn cynnwys dad-gydnabyddiaeth) | (1,999) | (1,335) |
| Ardollau | 3,204 | 3,201 |
| Arall | (147) | (94) |
| **Cyfanswm** | **9,224** | **9,616** |

## NODYN 13 – INCWM A GWARIANT CYLLIDO A BUDDSODDI

| | 2015/16<br>£'000 | 2014/15<br>£'000 |
|---|---|---|
| Llog Taladwy a Thaliadau Tebyg | 5,985 | 5,117 |
| Llog net ar y rhwymedigaeth diffinedig | 4,038 | 3,903 |
| Llog derbyniadwy ac incwm tebyg | (89) | (91) |
| Incwm a gwariant yng nghyswllt Eiddo Buddsoddiad a newidiadau yn eu gwerth teg | (270) | 1,272 |
| **Cyfanswm** | **9,664** | **10,201** |

| | 2015/16<br>£'000 | 2014/15<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Incwm/Gwariant o Eiddo Buddsoddiad:** | | |
| Incwm yn cynnwys incwm rhent | (848) | (789) |
| Gwariant | 764 | 735 |
| **Incwm net o Eiddo Buddsoddiad** | **(84)** | **(54)** |
| **Diffyg ar werthiant Eiddo buddsoddi :-** | | |
| Arian o Werthiannau | - | (36) |
| Swm cario o Eiddo Buddsoddiad a werthwyd | - | 108 |
| **Diffyg ar werthiant Eiddo Buddsoddiad** | - | **72** |
| **Newidiadau mewn Gwerth Teg Eiddo Buddsoddiad** | **(186)** | **1,254** |
| **Cyfanswm** | **(270)** | **1,272** |

## NODYN 14 - INCWM TRETH A GRANTIAU AMHENODOL

| | 2015/16<br>£'000 | 2014/15<br>£'000 |
|---|---|---|
| Incwm y Dreth Gyngor | 33,485 | 31,820 |
| Ailddyrannu Trethi Annomestig | 20,471 | 22,124 |
| Grant Cynnal Refeniw | 67,268 | 68,827 |
| Grant Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 5,228 | 5,237 |
| Grantiau Llywodraeth Arall | 725 | 720 |
| Grantiau Cyfalaf ddefnyddir i gyllido Gwariant Cyfalaf | 11,504 | 8,368 |
| **Cyfanswm Incwm Treth a Grantiau Amhenodol** | **138,681** | **137,096** |

## NODYN 15 – ASEDAU NAD YDYNT YN GYFREDOL - EIDDO, OFFER A CHYFARPAR

| 2015/16 | Eiddo, Offer a Chyfarpar | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Anheddau Cyngor | Tir ac Adeiladau | Asedau isadeiledd | Cerbydau, Offer a Chyfarpar | Asedau Cymunedol | Eiddo, Offer a Chyfarpar sy'n cael ei adeiladu | Asedau Gwarged | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cost neu Brisiant** | | | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2015 | **118,255** | **181,586** | **70,265** | **9,584** | **9** | **472** | **1,590** | **381,761** |
| Addasiad Côst a Disbrisiant | **-** | **2,336** | **1,926** | **10** | **-** | **-** | **(38)** | **4,234** |
| Ychwanegiadau (Nodyn 20) | 6,077 | 4,648 | 4,162 | 1,065 | - | 3,287 | - | **19,239** |
| Cynnydd / (gostyngiad) ailbrisiant i Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn | (10,805) | 6,105 | - | - | - | - | (244) | **(4,944)** |
| Cynnydd / (gostyngiad) ailbrisiant i Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau | - | 223 | - | - | - | - | (221) | **2** |
| Dadgydnabod - Gwarediadau | (297) | (1,224) | - | - | - | - | (50) | **(1,571)** |
| Dadgydnabod - Eraill | (5,489) | (4,454) | - | - | - | - | - | **(9,943)** |
| Ailddosbarthu a Throsglwyddiadau | - | 550 | - | - | - | - | - | **550** |
| Ailddosbarthiadau i Asedau a ddelir i'w gwerthu | - | (916) | - | - | - | - | - | **(916)** |
| Ailddosbarthu Asedau dros Ben | - | (150) | - | - | - | - | 150 | **-** |
| Ailddosbarthu Eiddo Buddsoddi | - | (370) | - | - | - | - | - | **(370)** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2016** | **107,741** | **188,334** | **76,353** | **10,659** | **9** | **3,759** | **1,187** | **388,042** |
| **Dibrisiant ac Amhariad** | | | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2015 | **5,520** | **10,190** | **15,900** | **5,962** | **-** | **-** | **112** | **37,684** |
| Addasiad Côst a Dibrisiant | **-** | **2,336** | **1,926** | **10** | **-** | **-** | **(38)** | **4,234** |
| Tâl Dibrisiant | 3,607 | 5,035 | 2,811 | 750 | - | - | 25 | **12,228** |
| Dibrisiant wedi ei ysgrifennu allan i'r Gronfa wrth Gefn Ailbrisiant | (9,115) | (5,682) | - | - | - | - | (48) | **(14,845)** |
| Dibrisiant wedi ei ysgrifennu allan i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau | - | (1,377) | - | - | - | - | - | **(1,377)** |
| Dadgydnabod - Gwarediadau | (12) | (30) | - | - | - | - | - | **(42)** |
| Ailddosbarthiadau i Asedau a ddelir i'w gwerthu | - | (19) | - | - | - | - | - | **(19)** |
| Ailddosbarthu Asedau dros Ben | - | (9) | - | - | - | - | 9 | **-** |
| Ailddosbarthu Eiddo Buddsoddi | - | (104) | - | - | - | - | - | **(104)** |
| **Balance as at 31 March 2015** | **-** | **10,340** | **20,637** | **6,722** | **-** | **-** | **60** | **37,759** |
| **Gwerth Llyfr Net** | | | | | | | | |
| **Balans ar 31 Mawrth 2016** | **107,741** | **177,994** | **55,716** | **3,937** | **9** | **3,759** | **1,127** | **350,283** |

**2014/15**

| | Eiddo, Offer a Chyfarpar | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Anheddau Cyngor | Tir ac Adeiladau | Asedau isadeiledd | Cerbydau, Offer a Chyfarpar | Asedau Cymunedol | Eiddo, Offer a Chyfarpar sy'n cael ei adeiladu | Asedau Gwarged | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cost neu Brisiant** | | | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2014 | **101,233** | **185,727** | **65,778** | **9,255** | **9** | **10** | **1,263** | **363,275** |
| Ychwanegiadau (Nodyn 20) | 5,519 | 4,283 | 4,487 | 333 | - | 1,816 | - | **16,438** |
| Cynnydd / (gostyngiad) ailbrisiant i Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn | 11,698 | (4,080) | - | - | - | - | 55 | **7,673** |
| Cynnydd / (gostyngiad) ailbrisiant i Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau | - | (1,744) | - | - | - | - | - | **(1,744)** |
| Dadgydnabod - Gwarediadau | (217) | (660) | - | - | - | - | (12) | **(889)** |
| Ailddosbarthu a Throsglwyddiadau | 22 | (377) | - | (4) | - | (1,354) | 355 | **(1,358)** |
| Ailddosbarthu Asedau ai Delir i'w Gwerthu | - | (1,563) | - | - | - | - | (71) | **(1,634)** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2015** | **118,255** | **181,586** | **70,265** | **9,584** | **9** | **472** | **1,590** | **381,761** |
| **Dibrisiant ac Amhariad** | | | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2014 | **14,441** | **15,127** | **13,012** | **4,972** | **-** | **-** | **87** | **47,639** |
| Addasiad rhwng cost/dibrisiant | - | - | - | - | - | - | - | **-** |
| Tâl Dibrisiant | 2,745 | 4,619 | 2,888 | 986 | - | - | 28 | **11,266** |
| Dibrisiant wedi ei ysgrifennu allan i'r Gronfa wrth Gefn Ailbrisiant | (17,160) | (13,447) | - | - | - | - | 28 | **(30,579)** |
| Dibrisiant wedi ei ysgrifennu allan i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau | - | (248) | - | - | - | - | - | **(248)** |
| Colledion amhariad / atgyfeiriadau at warged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau | 5,519 | 4,210 | - | 4 | - | - | - | **9,733** |
| Dadgydnabod – Gwarediadau | (28) | (56) | | | | | | **(84)** |
| Ailddosbarthu a Throsglwyddiadau | 3 | 28 | | | | | (31) | **-** |
| Ailddosbarthiadau i Asedau a ddelir i'w gwerthu | - | (43) | - | - | - | - | - | **(43)** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2015** | **5,520** | **10,190** | **15,900** | **5,962** | **-** | **-** | **112** | **37,684** |
| **Gwerth Llyfr Net** | | | | | | | | |
| **Balans ar 31 Mawrth 2015** | **112,735** | **171,396** | **54,365** | **3,622** | **9** | **472** | **1,478** | **344,077** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2014** | **86,792** | **170,600** | **52,766** | **4,283** | **9** | **10** | **1,176** | **315,636** |

Manylir ar fethodolegau dibrisiant ac ailbrisiant ym Mholisïau Cyfrifo Rhif 7.

**Ailbrisio**

Mae gan y Cyngor £361.534m sydd wedi ei gydnabod fel Eiddo, Offer a Chyfarpar ac Asedau Treftadaeth ar ei Fantolen ar 31 Mawrth 2016. Mae'r Cyngor bellach wedi mabwysiadu rhaglen dreigl 5 mlynedd ar gyfer prisio ei dir ac eiddo. Fodd bynnag, caiff asedau Eiddo, Offer a Chyfarpar sydd â gwerth teg o £500k neu fwy eu hailbrisio bob blwyddyn. Mae'r rhaglen wedi cael ei llunio mewn modd sy'n golygu y bydd categorïau cyfan o asedau o fewn ei bortffolio tir ac eiddo sy'n werth mwy na £500k yn cael eu hailbrisio mewn un flwyddyn. Caiff yr asedau eu prisio gan dîm prisio mewnol y Cyngor sy'n Aelodau o Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS). Mae'r prisiadau wedi cael eu cwblhau'n unol â IFRS 13. Nid yw asedau nad ydynt yn eiddo wedi cael eu hailbrisio oherwydd, ym marn y Cyngor, mae gwerth cario'r asedau yn adlewyrchiad o werth teg, oherwydd eu hoes economaidd gweddol fyr a'u gwerth cymharol.

**NODYN 16 – YMRWYMIADAU CYFALAF SYLWEDDOL**

Ar 31 Mawrth 2016, roedd y Cyngor wedi sefydlu nifer o gontractau ar gyfer adeiladu neu wella Eiddo, Offer a Chyfarpar gan olygu ymrwymiad cyfalaf sylweddol yn 2016/17 a blynyddoedd yn y dyfodol fel a ganlyn: Roedd ymrwymiadau tebyg hyd at 31 Mawrth 2014 yn (£1.2m). Mae'r cynnydd sylweddol wedi digwydd oherwydd y cynnydd a wnaed gyda rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif yr Awdurdod a chynnydd gyda Ffordd Gyswllt Llangefni. Bydd rhaglenni'r Ysgolion 21ain Ganrif a'r Ffordd Gyswllt yn derbyn cyllid sylweddol gan Lywodraeth Cymru.

| Contract | Ymrwymiad<br>£'000 |
|---|---|
| Ysgolion y 21ain Ganrif - Caergybi | 7,540 |
| Ysgolion y 21ain Ganrif - Llannau | 4,496 |
| Ffordd Gyswllt Llangefni | 3,064 |
| **Cyfanswm** | **15,100** |

**NODYN 17 – ASEDAU TREFTADAETH 2015/16**

| | Casgliad Celf a Regalia Dinesig<br>£'000 | Tir ac Adeiladau Treftadaeth<br>£'000 | Cyfanswm Asedau Treftadaeth<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| ***Cost neu Brisiant*** | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2015** | **1,795** | **1,644** | **3,439** |
| Ychwanegiadau | **39** | **-** | **39** |
| Gwarediadau | **-** | **-** | **-** |
| Arian Ailbrisio I Ailbrisio Wrth Getn | **-** | **-** | **-** |
| Ailddosbarthu o Eiddo Buddsoddi | **-** | **-** | **-** |
| **Ar 31 Mawrth 2016** | **1,834** | **1,644** | **3,478** |
| ***Dibrisiant ac Amhariad Cronedig*** | | | **-** |
| **Ar 1 Ebrill 2015** | **-** | **227** | **227** |
| Dibrisiant | **-** | **57** | **57** |
| **Ar 31 Mawrth 2016** | **-** | **284** | **284** |
| ***Gwerth Llyfr Net*** | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2016** | **1,834** | **1,360** | **3,194** |
| **Ar 1 Ebrill 2015** | **1,795** | **1,417** | **3,212** |

**2014/15**

| | Casgliad Celf a Regalia Dinesig | Tir ac Adeiladau Treftadaeth | Cyfanswm Asedau Treftadaeth |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| ***Cost neu Brisiant*** | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2014** | **1,840** | **1,644** | **3,484** |
| Ychwanegiadau | - | - | **-** |
| Gwarediadau | (45) | - | **(45)** |
| Arian Ailbrisio I Ailbrisio Wrth Getn | 64 | - | **64** |
| Ailddosbarthu o Eiddo Buddsoddi | (64) | - | **(64)** |
| **Ar 31 Mawrth 2015** | **1,795** | **1,644** | **3,439** |
| ***Dibrisiant ac Amhariad Cronedig*** | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2014** | **-** | **171** | **171** |
| Dibrisiant | - | 56 | **56** |
| **Ar 31 Mawrth 2015** | **-** | **227** | **227** |
| ***Gwerth Llyfr Net*** | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2015** | **1,795** | **1,417** | **3,212** |
| **Ar 1 Ebrill 2014** | **1,840** | **1,473** | **3,313** |

**Ailbrisio Asedau Treftadaeth**

Nodwyd nifer o asedau tir ac adeiladau fel rhai a oedd yn cwrdd â'r diffiniad o Asedau Treftadaeth. Ar 31 Mawrth 2016, roedd pedwar ased o'r fath (dim newid o 31 Mawrth 2015):-

Carchar Biwmares
Llys Biwmares
Melin Llynnon
Bythynnod y Peilotiaid, Ynys Llanddwyn

Caiff yr eiddo hyn eu hailbrisio gan ddefnyddio trefniadau ailbrisio safonol y Cyngor ar gyfer tir ac eiddo. Fe ailbriswyd yr Asedau Treftadaeth diwethaf yn 2011/12.

Cafwyd prisiad o werth y Casgliadau Celf yn 2012/13 ac mae eu gwerth wedi cael ei adlewyrchu yng Nghyfrifon 2012/13. Mae'r prisiad diweddaraf yn seiliedig ar asesiad o sampl gynrychioliadol o'r casgliadau. Bonhams o Lundain, sef cwmni rhyngwladol o arwerthwyr a phriswyr celf, fu'n prisio'r eiddo.

Mae Amgueddfa ac Oriel Gelf Ynys Môn wedi derbyn rhodd o gasgliad o dros 30 o baentiadau gan y diweddar Harry Hughes Williams, arlunydd a oedd yn paentio tirluniau Gogledd Cymru. Caiff yr asedau eu dal mewn ymddiriedolaeth ac nid ydynt wedi'u cynnwys ar y fantolen oherwydd ni fyddai'r gost o gael prisiad yn gymesur â'r buddiannau i ddefnyddwyr y datganiadau ariannol.

## NODYN 18a – EIDDO BUDDSODDIAD

| | 2015/16<br>£'000 | 2014/15<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Balans ar ddechrau'r flwyddyn** | 7,145 | 7,139 |
| Ychwanegiadau: | | |
| - Gwariant dilynol | - | - |
| Gwarediadau | - | (107) |
| Colledion net o addasiadau gwerth teg | 186 | (1,254) |
| Trosglwyddiadau: | | |
| I/o Assedau a ddelir iw gwerthu | (1,613) | - |
| -(i)/o Eiddo, Offer a Chyfarpar | 265 | 1,367 |
| **Balans ar ddiwedd y flwyddyn** | **5,983** | **7,145** |

Nid oes unrhyw eiddo buddsoddiad yn cael ei ddal dan Brydles Weithredol neu Ariannol. Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar allu'r Cyngor i wireddu'r gwerth cynhenid yn ei eiddo buddsoddiad neu ar hawl y Cyngor i daliad o incwm ac elw gwarediad. Nid oes gan y Cyngor unrhyw rwymedigaethau cytundebol i brynu, adeiladu neu ddatblygu eiddo buddsoddiad neu i wneud atgyweiriadau, cynnal a chadw neu wella i eiddo buddsoddiad cyfredol.

### Nodyn 18b – Mesur Gwerth Teg o Eiddo Buddsoddiad

### Hierarchaeth Gwerth Teg 2015/16

| Mesurau rheolaidd gwerth teg yn defnyddio: | Prisiau a ddyfynnir yn y marchnadoedd qweithredol ar gyfer asedau yr un fath (lefel 1)<br>£'000 | Mewnbynnau sylweddol gweladwy arall (lefel 2)<br>£'000 | Mewnbynnau sylweddol anweladwy (lefel 3)<br>£'000 | Gwerth teg ar 31 Mawrth 2016<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|
| Eiddo preswyl (manwerthu farchnad) | - | 1,754 | - | - |
| Unedau swyddfa | - | 605 | - | - |
| Unedau masnachol | - | 3,624 | - | - |
| Cyfanswm | - | 5,983 | - | - |

### Nodyn 18c – Dulliau prisio a ddefnyddiwyd i brisio eiddo buddsoddiad

### 18c.1 Preswyl

Mae'r gwerth teg ar gyfer yr eiddo preswyl yn seiliedig ar ddull y farchnad gan ddefnyddio amodau'r farchnad gyfredol a phrisiau gwerthu yn ddiweddar a gwybodaeth berthnasol arall ar gyfer asedau tebyg yn ardal yr awdurdod lleol. Mae amodau'r farchnad yn golygu bod eiddo tebyg yn cael eu prynu a'u gwerthu'n frwd a bod lefel y mewnbynnu y gellir eu harsylw yn sylweddol, gan arwain at gategoreiddo'r eiddo ar Lefel 2 yn yr hierarchaeth gwerth teg.

**18c.2 Eiddo Buddsoddiad**

Mae’r swyddfeydd a’r unedau masnachol sydd wedi eu lleoli yn ardal yr awdurdod leol yn cael eu mesur gan ddefnyddio’r dull incwm drwy’r cost amnewid dibrisiedig , lle mae disgownt ar y llif arian y cytunwyd arno o’r eiddo (gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt yn seiliedig ar y farchnad) er mwyn sefydlu gwerth presennol y ffrwd incwm net. Mae’r llog wedi cael ei seilio ar brisiadau / gwerthiannau cymharol y mae modd eu harsylwi. Caiff eiddo buddsoddiad yr Awdurdod, felly, eu categoreiddio ar Lefel 2 yn yr hierarchaeth gwerth teg oherwydd bod y dechneg o fesur yn defnyddio mewbynnau y gellir eu harsylwi er mwyn penderfynu ar y mesuriadau gwerth teg. Wrth amcangyfrif gwerth teg eiddo buddsoddiad yr Awdurdod, y defnydd mwyaf a gorau o’r eiddo yw eu defnydd cyfredol.

Caiff gwerth teg eiddo buddsoddiad yr Awdurdod ei fesur bob blwyddyn ar adeg pob cyfnod adrodd. Caiff yr holl waith prisio ei wneud yn fewnol yn unol â methodolegau ac amcanbrisiau a nodir yn safonau proffesiynol Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Mae arbenigwyr prisio’r Awdurdod yn gweithio’n agos â’r swyddogion cyllid gan adrodd yn uniongyrchol i’r Prif Swyddog Cyllid yn rheolaidd mewn perthynas ag unrhyw fater sy’n ymwneud â phrisio.

**NODYN 19 – ASEDAU ANNIRWEDDOL**

Mae’r Cyngor yn cyfrifo am ei feddalwedd fel Asedau Annirweddol, i’r graddau nad yw’r feddalwedd yn rhan anhepgor o system TG neilltuol ac yn cael ei chyfrifo amdani fel rhan o eitem caledwedd yn yr Eiddo, Offer a Chyfarpar.

Mae’r swm cario o asedau annirweddol yn cael eu hamorteiddio ar sail llinell syth. Codwyd yr amorteiddiad o £70k a godwyd ar refeniw yn 2015/16 i ganolfan gost Gweinyddu TG a cafodd ei amsugno fel gorbenion ar draws yr holl benawdau gwasanaeth yng Ngwariant Net y Gwasanaethau.

Rhoddir oes ddefnyddiol gyfyngedig i feddalwedd, wedi ei seilio ar asesiadau o’r cyfnod y disgwylir i’r feddalwedd fod yn ddefnyddiol i’r Cyngor. Mae’r oes ddefnyddiol a briodolir i’r switiau meddalwedd mawr a ddefnyddir gan y Cyngor yn bum mlynedd.

**Mae’r Symudiad mewn Asedau Annirweddol am y Flwyddyn fel a Ganlyn:-**

| | 2015/16<br>£'000 | 2014/15<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Balans ar ddechrau’r flwyddyn:** | | |
| Symiau gros cario | 1,092 | 1,068 |
| Amorteiddiad cronnus | (760) | (689) |
| **Swm net cario ar ddechrau’r flwyddyn** | 332 | **379** |
| Ychwanegiadau | 155 | 24 |
| Amorteiddiad am y flwyddyn ariannol | (70) | (71) |
| **Swm net cario ar ddiwedd y flwyddyn** | 417 | **332** |
| | - | |
| Yn cynnwys: | - | |
| Symiau gros a gludir | 1,247 | 1,092 |
| Amorteiddiad cronnus | (830) | (760) |
| **Swm net cario ar ddiwedd y flwyddyn** | 417 | **332** |

## NODYN 20 - GWARIANT CYFALAF A CHYLLIDO

Gweler y cyfanswm o wariant cyfalaf yr aethpwyd iddo yn y flwyddyn yn y tabl isod, ynghyd â'r adnoddau a ddefnyddiwyd i'w gyllido. Pan mae angen cyllido gwariant cyfalaf mewn blynyddoedd i ddod trwy daliadau i refeniw fel mae asedau'n cael eu defnyddio gan y Cyngor, mae'r gwariant yn arwain at gynnydd yn y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (CFR), mesur o'r gwariant cyfalaf yr eir iddo'n hanesyddol sydd eto i'w gyllido.

Mae'r symudiad net yn y Gofyniad Cyllido Cyfalaf yn dangos y newid yn yr angen gwaelodol i'r Cyngor fenthyca yn ystod y flwyddyn i ariannu buddsoddiad cyfalaf nad yw wedi ei ariannu'n syth o adnoddau fel grantiau, derbyniadau cyfalaf ac ariannu uniongyrchol o refeniw.

| | 2015/16<br>£'000 | 2014/15<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Gofyniad Cyllido Cyfalaf Agoriadol** | **108,576** | **108,825** |
| **Cyfalaf a fuddsoddwyd yn y Flwyddyn** | | |
| Eiddo, Offer a Chyfarpar | 19,239 | 16,437 |
| Asedau Annirweddol | 155 | 24 |
| Asedau Treftadaeth | 39 | - |
| Gwariant refeniw a gyllidir o gyfalaf dan statud | 24,542 | 4,826 |
| **Cyfanswm** | **43,975** | **21,287** |
| **Ffynhonnell Cyllid** | | |
| Derbyniadau Cyfalaf a Chronfeydd wrth Gefn | (3,818) | (2,427) |
| Cronfa Wrth Gefn Cyfalaf | (115) | - |
| Grantiau a Chyfraniadau Llywodraeth | (11,504) | (8,368) |
| Darpariaethau Refeniw | (2,905) | (2,863) |
| Grantiau REFCUS | (2,494) | (2,964) |
| Isafswm Darpariaeth Refeniw a Gosod o'r Neilltu | (4,059) | (4,914) |
| **Cyfanswm** | **(24,895)** | **(21,536)** |
| **(Gostyngiad) / Cynnydd Net mewn Gofyniad Cyllido Cyfalaf** | **19,080** | **(249)** |
| **Gofyniad Cyllido Cyfalaf Cau** | **127,656** | **108,576** |
| **Esboniad o symudiad yn y Flwyddyn** | | |
| Cynnydd mewn angen gwaelodol i fenthyca a gefnogir gan gymorth Llywodraeth | - | 2,399 |
| Cynnydd mewn angen gwaelodol i fenthyca na chefnogir gan gymorth Llywodraeth | 23,139 | 2,266 |
| Isafswm Darpariaeth Refeniw a Gosod o'r Neilltu Gwirfoddol | (4,059) | (4,914) |
| **(Gostyngiad) / Cynnydd Net mewn Gofyniad Cyllido Cyfalaf** | **19,080** | **(249)** |

## NODYN 21 – ASEDAU A DDELIR I'W GWERTHU

| | Cyfredol | | Ddim yn gyfredol | |
|---|---|---|---|---|
| | **31 Mawrth 2016 £'000** | **31 Mawrth 2015 £'000** | **31 Mawrth 2016 £'000** | **31 Mawrth 2015 £'000** |
| **Balans sy'n sefyll ar ddechrau'r flwyddyn** | 2,137 | 1,011 | - | - |
| **Asedau newydd eu dosbarthu fel rhai ar gael i'w gwerthu:** | | | | |
| Trosglwyddo o Eiddo, Offer Chfarpar a yn ystod y flwyddyn | 897 | 1,578 | - | - |
| Trosglwyddwyd o Eiddo Buddsoddi un Ystod y Awyddyn | 1,615 | - | | |
| Trosglwyddo I Eiddo, ag offer | (550) | - | | |
| Cost asedau wedi eu gwerthu | (155) | (388) | - | - |
| Ailbrisio | 2,444 | (64) | | |
| **Balans sy'n sefyll ar ddiwedd y flwyddyn** | **6,388** | **2,137** | **-** | **-** |

## NODYN 22 – PRYDLESAU

### Prydlesau Gweithredol

Mae'r Cyngor wedi prydlesu 2 eiddo ar 31 Mawrth 2016 ar gyfer ei weithgaredd digartrefedd (9 eiddo ar 31 Mawrth 2015) ac mae cyfanswm rhenti'r prydlesau am y flwyddyn yn £0.012m (£0.077m yn 2014/5). Mae gan yr eiddo yma gymalau toriad 12 mis. Roedd y gostyngiad oherwydd polisi bwriadol i ddychwelyd eiddo gwag wedi eu prydlesu yn ôl i'w perchenogion yn hytrach na thalu rhent ar eiddo gwag yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Cyngor hefyd yn dal rhai offer a chyfarpar dan brydlesau gweithredol neu dan gytundebau rhent mewn ysgolion ac adrannau eraill y Cyngor. Y gost i refeniw am yr eitemau hyn yn 2015/16 yw £0.150m (£0.170m yn 2014/15).

## NODYN 23 – RHESTRAU STOC

Wrth wneud ei waith, mae'r Cyngor yn dal cronfeydd stoc wrth gefn ynghyd â symiau o waith heb ei gwblhau (gwaith yn mynd yn ei flaen). Gellir isrannu'r ffigwr a ddangosir yn y Fantolen ymhellach fel a ganlyn:-

| | 31 Mawrth 2016 £'000 | 31 Mawrth 2015 £'000 |
|---|---|---|
| Gwaith yn mynd yn ei flaen | 53 | 108 |
| Storfa Ganolog - Uned Cynnal a Chadw Adeiladu | 146 | 157 |
| Gofal Môn - Cyflenwadau Gwasanaethau Cymdiethasol | 90 | 112 |
| Arall - Nwyddau ysgrifennu a nwyddau treuiliadwy eraill, tanwydd a nwyddau a ddelir ar gyfer eu hailwerthu | 163 | 189 |
| **Cyfanswm** | **452** | **566** |

## NODYN 24 – DYLEDWYR

| | Dyledwyr Tymor Hir | | Dyledwyr Tymor Byr | |
|---|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2016 £'000 | 31 Mawrth 2015 £'000 | 31 Mawrth 2016 £'000 | 31 Mawrth 2015 £'000 |
| Adrannau Llywodraeth | | | 5,430 | 8,817 |
| TCA a'r Dreth Gyngor | | | 5,749 | 4,252 |
| Awdurdodau Lleol Eraill | | | 1,037 | 1,287 |
| Rhenti | | | 208 | 334 |
| Corfforaethau Cyhoeddus a Chronfeydd Masnachu | | | - | 2 |
| Benthyciadau car gweithwyr | 291 | 235 | 135 | 271 |
| Gwasanaeth Iechyd/Cyrff Cyhoeddus | | | 977 | 878 |
| TAW | | | 2,052 | 2,150 |
| Blaendaliadau | | | - | 407 |
| Ymddiriedolaethau | | | 534 | 286 |
| Dyledwyr Masnach | 299 | 97 | 2,383 | 875 |
| Cyrff allanol i Lywodraeth Ganolog | | | - | 125 |
| Arall | 98 | 98 | 4,853 | 1,470 |
| Cyfanswm | **688** | **430** | **23,358** | **21,154** |

Mae'r ffigwr dyledwyr uchod yn net o ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg o £5.414m yn 2015/16 (£5.442m yn 2014/15), y gellir eu dadansoddi fel a ganlyn:-

| | 31 Mawrth 2016 £'000 | 31 Mawrth 2015 £'000 | Symudiad yn y Flwyddyn |
|---|---|---|---|
| Y Dreth Gyngor | 1,199 | 1,459 | (260) |
| TCA | 701 | 577 | 124 |
| Rhenti | 608 | 596 | 12 |
| Dyledwyr Masnach | 2,906 | 2,810 | 96 |
| **Cyfanswm** | **5,414** | **5,442** | **(28)** |

## NODYN 25 - ARIAN PAROD A CHYWERTHOEDD ARIAN

Gellir cysoni arian parod a chywerthoedd arian ar ddiwedd y flwyddyn ariannol fel y dangosir yn y datganiad llif arian i'r eitemau cysylltiedig yn y Fantolen fel a ganlyn:-

| | **31-Mawrth-16 £'000** | **31-Mawrth-15 £'000** |
|---|---|---|
| Balansau arian a banc | 17,624 | 13,208 |
| Gorddrafft banc | - | (803) |
| **Cyfanswm** | **17,624** | **12,405** |

Sylwer - caiff gorddrafftiau banc eu dangos ar wahân i arian parod a chywerthoedd arian ble nad ydynt yn rhan anhepgor o reolaeth arian parod y Cyngor.

| | **Credydwyr Tymor Hir** | | **Credydwyr Tymor Byr** | |
|---|---|---|---|---|
| | **31 Mawrth 2016 £'000** | **31 Mawrth 2015 £'000** | **31 Mawrth 2016 £'000** | **31 Mawrth 2015 £'000** |
| Adrannau Llywodraeth | - | - | 5,541 | 2,177 |
| Awdurdodau Eraill | - | - | 500 | 1,950 |
| Corfforaethau cyhoeddus a chronfeydd masnachu | - | - | - | 3 |
| Cyrff allanol i lywodraeth ganolog | - | - | - | 29 |
| Balansau Ymddiriedolaethau | - | - | 888 | 826 |
| Gwasanaeth Iechyd / Cyrff Cyhoeddus | - | - | 144 | 115 |
| Absenoldebau Cronnus | - | - | 1,547 | 1,274 |
| Derbyniadau ymlaen llaw | - | - | 645 | 958 |
| Credydwyr masnach | - | - | 3,666 | 1,396 |
| Eraill | 59 | 55 | 9,199 | 7,516 |
| **Cyfanswm Credydwyr** | **59** | **55** | **22,130** | **16,244** |

## NODYN 27 – DARPARIAETHAU

| | Balans ar 1 Ebrill 2014 £'000 | Cynnydd mewn Darpariaetha u yn ystod y flwyddyn £'000 | Defnyddi wyd yn ystod y flwyddyn £'000 | Balans ar 31 Mawrth 2015 £'000 | Cynnydd mewn Darpariaeth au yn ystod y flwyddyn £'000 | Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn £'000 | Balans ar 31 Mawrth 2016 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Darpariaeth Hawliadau Yswiriant | 601 | 363 | (743) | 221 | 38 | - | 259 |
| Safle Gwastraff Penhesgyn | 2,669 | - | (100) | 2,569 | - | (57) | 2,512 |
| Buddiannau Terfynu | 141 | 24 | (142) | 23 | - | - | 23 |
| Arfarnu swyddi | - | 2,900 | - | 2,900 | - | (2,774) | 126 |
| Arall | 1,897 | 1,122 | (3) | 3,016 | - | - | 2,151 |
| **Cyfanswm** | **5,308** | **4,409** | **(988)** | **8,729** | **38** | **(3,696)** | **5,071** |
| | | | | | | | |
| **Darpariaethau Tymor byr** | 2,613 | 4,409 | (862) | 6,160 | 38 | (3,639) | 2,559 |
| **Darpariaethau Tymor hir** | 2,695 | - | (126) | 2,569 | - | (57) | 2,512 |
| **Cyfanswm** | **5,308** | **4,409** | **(988)** | **8,729** | **38** | **(2,696)** | **5,071** |

### Pwrpas y Prif Ddarpariaethau

**Darpariaeth Hawliadau Yswiriant**

Mae didyniadau ym mholisïau yswiriant allanol y Cyngor, sy'n golygu bod y Cyngor ei hun yn talu rhan gyntaf unrhyw golled neu hawliad dan y polisïau hyn ac yn cael ei ddiogelu trwy ddull cyfyngu colled. Nid oes yswiriant allanol ar gyfer eiddo cyffredinol ac addysg y Cyngor i'r peryglon canlynol: du r sydd yn dianc o danc neu beipen, llifogydd, trawiad, lladrad, difrod damweiniol, ymsuddiad, ymchwyddiad tir, tirlithriad. Ar wahân i ladrad a difrod damweiniol, mae colledion o ganlyniad i'r peryglon hyn fel arfer yn cael eu cyllido o'r gronfa yswiriant wrth gefn. Y balans ar y ddarpariaeth yswiriant yw'r rhwymedigaeth debygol ar gyfer yr elfen wedi ei hyswirio'n fewnol o'r hawliadau sy'n hysbys ond nad ydynt wedi eu setlo ar ddiwedd y flwyddyn.

**Safle Gwastraff Penhesgyn**

Gwnaed darpariaeth ar gyfer ôl-ofal y rhannau o'r safle yr arferid ei ddefnyddio ar gyfer tirlenwi. Nid oes unrhyw amserlen bendant ar gyfer cwblhau'r gwaith hwn er, i bwrpas rheolaeth, ystyrir 30 mlynedd o ddyddiad cau y safle yn dderbyniol.

**Buddiannau Terfynu**

Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau hysbys i'r dyfodol sy'n deillio o leihad mewn staff ar ôl ailstrwythuro adrannau'r Cyngor. Mae buddiannau ar hyn o bryd yn cael eu talu naill ai yn y flwyddyn y gwneir y cytundeb terfynu neu fesul rhandaliadau i Gronfa Bensiwn Gwynedd.

**Arfarnu Swyddi**

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer talu ôl-gyflog a ddyfarnwyd o ganlyniad i adolygiad trwy'r Cyngor cyfan o delerau ac amodau gweithwyr.

**Tâl Cyfartal** – Darpariaeth ar gyfer nifer o hawliadau cyfreithiol a wnaed yn erbyn y Cyngor ac sy'n parhau i fynd rhagddynt mewn perthynas â Thâl Cyfartal.

## NODYN 28 – LLIF ARIAN O WEITHGAREDDAU GWEITHREDOL

| | 2015/16<br>£'000 | 2014/15<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Addasiad i Warged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau ar symudiadau nad ydynt yn arian parod** | | |
| Dibrisiant ac Amhariad | 22,298 | 21,181 |
| Prynu allan CRT | 21,169 | - |
| Ailbrisiadau at i lawr a dad-gydnabyddiaethau nad ydynt yn ymwneud â gwerthiannau | (899) | 1,540 |
| Amorteiddiadau | 70 | 71 |
| Gostyngiad mewn Stoc | 114 | (119) |
| (Cynnydd) Gostynagiad mewn Dyledwyr | (2,462) | 3,547 |
| Cynnydd/(Gostyngiad) yn yr amhariadau ar gyfer Dyledion Drwg | (28) | (160) |
| Cynnydd/( Gostynagiad) mewn Credydwyr | 5,890 | (3,151) |
| Cynnydd/(Gostynagiad) mewn Grantiau Cyfalaf a Dderbyniwyd Ymlaen Llaw | 922 | - |
| Trafodion yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ymwneud â buddiannau ymddeol | 5,481 | 3,152 |
| Swm cario o asedau nad ydynt yn gyfredol a werthwyd | 1,684 | 1,300 |
| Cyfraniadau i/o Ddarpariaethau | (3,600) | 3,421 |
| Symudiad mewn gwerth o Eiddo Buddsoddiad Amhariad ac ailbrisiadau i lawr (a dadgydnabodaethau nad ydynt yn werthiant) | (186) | 1,199 |
| | **50,453** | **31,981** |
| **Addasiad ar gyfer eitemau a gynhwysir yn y gwarged neu ddiffyg Net ar Ddarparu Gwasanaethau sy'n weithgareddau buddsoddi ac ariannu** | | |
| Elw o werthiant Eiddo, Offer a Chyfarpar, Eiddo Buddsoddiad ac Asedau yn Cael eu Dal i'w Gwerthu | (2,415) | (2,670) |
| Grantiau Cyfalaf a gynhwysir mewn "Trethi ac incwm grant amhenodol" | (11,504) | (8,368) |
| **Cyfanswm** | **(13,919)** | **(11,038)** |

## NODYN 29 – LLIF ARIAN O WEITHGAREDDAU BUDDSODDI

| | 2015/16<br>£'000 | 2014/15<br>£'000 |
|---|---|---|
| Pryniant Eiddo, Offer a Chyfarpar, Asedau Treftadaeth, Eiddo Buddsoddiad ac Asedau Annirweddol | (19,433) | (16,462) |
| Buddsoddiadau tymor byr (nad ystyrir yn Gywerthoedd Arian) | - | - |
| Elw o werthiant Eiddo, Offer a Chyfarpar, Eiddo Buddsoddiad ac Asedau y delir i'w gwerthu | 2,415 | 2,670 |
| Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau a dderbyniwyd | 11,504 | 8,368 |
| Llif arian net o weithgareddau buddsoddi | **(5,514)** | **(5,424)** |

## NODYN 30 – LLIF ARIAN O WEITHGAREDDAU ARIANNU

| | 2015/16<br>£'000 | 2014/15<br>£'000 |
|---|---|---|
| Derbyniadau Arian Parod o Fenthyca Tymor Byr a Hir | - | |
| Gwahaniaeth rhwng arian a dalwyd/dderbyniwyd fel rhan o Gronfa Trethi Cenedlaethol 2015/16 | (1,044) | - |
| Taliadau Eraill | (745) | 267 |
| **Llif arian net o weithgareddau ariannu** | **(1,789)** | **267** |

| | 2015/16<br>£'000 | 2014/15<br>£'000 |
|---|---|---|
| Llog Derbyniwyd | (88) | (91) |
| Llog Dalwyd | 5,985 | 5,117 |

## NODYN 31– SYMIAU YR ADRODDWYD ARNYNT AR GYFER PENDERFYNIADAU DYRANNU ADNODDAU

Y dadansoddiad o incwm a gwariant yn ôl gwasanaeth ar wyneb y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r un y manylir arno yn y Côd Ymarfer ar gyfer Adroddiadau Gwasanaeth. Fodd bynnag, cymerir penderfyniadau am ddyrannu adnoddau gan y Cyngor ar sail adroddiadau cyllideb a ddadansoddir ar draws adrannau. Paratoir yr adroddiadau hyn ar sail wahanol i'r polisïau cyfrifo a ddefnyddir mewn datganiadau ariannol. Yn enwedig:-

- ni chodir taliadau yng nghyswllt gwariant cyfalaf (tra bo colledion dibrisiad, ailbrisiad ac amhariad uwchben y balans ar y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn ac amorteiddiadau yn cael eu codi ar wasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr);
- mae cost buddiannau ymddeoliad wedi ei seilio ar lif arian (taliadau cyfraniadau pensiwn y cyflogwr) yn hytrach nag ar gostau gwasanaeth presennol o fuddiannau a gronnwyd yn y flwyddyn;
- mae gwariant ar rai gwasanaethau cefnogol yn cael eu cyllidebu yn ganolog ac nid ydynt yn cael eu codi ar Adrannau.

Dengys y cysoniad hwn sut mae ffigyrau yn y dadansoddiad o incwm a gwariant adrannol yn cymharu â'r symiau a gynhwysir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, ac mae'n dangos sut mae'r ffigyrau yn y dadansoddiad o incwm a gwariant adrannol yn cymharu â dadansoddiad goddrychol o'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau a gynhwysir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

## Symiau yr Adroddwyd Arnynt ar gyfer Penderfyniadau Dyrannu Adnoddau 2015/16 - Dadansoddiad Fesul Cyfadran

| | Addysg a Dysgu Gydol Oes £'000 | Gwasanaethau Cymunedol £'000 | Datblygiad Cynaliadwy £'000 | Dirprwy Brif Weithredwr £'000 | Corfforaethol a Craidd Democrataidd £'000 | Cyfrif Refeniw Tai £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffioedd, Taliadau ac Incwm Gwasanaeth Arall | (5,926) | (7,606) | (13,552) | (11,103) | (56) | (15,808) | **(54,051)** |
| Grantiau Llywodraeth | (14,221) | (8,159) | (7,104) | (19,575) | - | (2,997) | **(52,056)** |
| **Cyfanswm Incwm** | **(20,147)** | **(15,765)** | **(20,656)** | **(30,678)** | **(56)** | **(18,805)** | **(106,107)** |
| Treuliau Gweithwyr | 47,222 | 15,489 | 13,616 | 9,057 | - | 2,107 | **87,491** |
| Gwariant Gwasanaeth Arall | 23,828 | 29,001 | 25,831 | 23,764 | 1,350 | 13,380 | **117,154** |
| Gwariant ar Wasanaethau Cefnogol | 102 | 83 | 216 | 1,175 | - | 7 | **1,583** |
| **Cyfanswm Gwariant** | **71,152** | **44,573** | **39,663** | **33,996** | **1,350** | **15,494** | **206,228** |
| | - | - | - | - | - | - | - |
| **Gwariant Net** | **51,005** | **28,808** | **19,007** | **3,318** | **1,294** | **(3,311)** | **100,121** |

## 2014/15 – Dadansoddiad fesul Cyfadran

| | Addysg a Dysgu Gydol Oes £000 | Gwasanaethau Cymunedol £000 | Datblygiad Cynaliadwy £000 | Dirprwy Brif Weithredwr £000 | Corfforaethol a Craidd Democrataidd £000 | Cyfrif Refeniw Tai £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffioedd, Taliadau ac Incwm Gwasanaeth Arall | (13,354) | (11,113) | (15,758) | (10,686) | - | (22,627) | **(73,538)** |
| Grantiau Llywodraeth | (8,917) | (5,020) | (5,103) | (18,975) | - | - | **(38,015)** |
| **Cyfanswm Incwm** | **(22,271)** | **(16,133)** | **(20,861)** | **(29,661)** | **-** | **(22,627)** | **(111,553)** |
| Treuliau Gweithwyr | 46,564 | 15,128 | 13,089 | 8,629 | 224 | 2,212 | **85,846** |
| Gwariant Gwasanaeth Arall | 24,524 | 29,228 | 31,983 | 23,812 | 3,230 | 13,436 | **126,213** |
| Gwariant ar Wasanaethau Cefnogol | 838 | 2,625 | (3,932) | 4,710 | - | (2,638) | **1,603** |
| **Cyfanswm Gwariant** | **71,926** | **46,981** | **41,140** | **37,151** | **3,454** | **13,010** | **213,662** |
| **Gwariant Net** | **49,655** | **30,848** | **20,279** | **7,490** | **3,454** | **(9,617)** | **102,109** |

## Cysoni'r Dadansoddiad o'r Cyfadrannau gyda'r Symiau yn y Datganiad ar Incwn a Gwariant Cynhwysfawr

Mae'r cysoniad hwn yn dangos sut y mae'r ffigyrau yn y dadansoddiad o incwm a gwariant y cyfadrannau yn cymharu gyda'r symiau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

| | 2015/16<br>£'000 | 2014/15<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Gwariant Net yn y dadansoddiad o'r Cyfadrannau** | 101,121 | 102,109 |
| Gwariant net gwasanaethau a gwasanaethau cefnogol nad ydynt wedi eu cynnwys yn y dadansoddiad | 42,089 | 29,034 |
| Y symiau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr nas adroddwyd i'r rheolwyr yn y Dadansoddiad | 22,698 | 2,944 |
| Symiau sydd wedi eu cynnwys yn y Dadansoddiad nad ydynt wedi eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (21,104) | (6,968) |
| **Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | **143,084** | **127,119** |

## Cysoni'r Dadansoddiad o'r Cyfadrannau i'r Diffyg ar ddarparu gwasanaethau o fewn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

Mae'r cysoniad hwn yn dangos sut y mae'r ffigyrau yn y dadansoddiad o incwm a gwariant y cyfadrannau yn cymharu gyda dadansoddiad goddrychol o'r Diffyg o ran Darparu Gwasanaethau a gynhwysir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

**2015/16**

| | Dadansoddiad y Gyfadran £'000 | Gwasanaethau a Gwasanaethau Cefnogol nad ydynt yn y Dadansoddiad £'000 | Symiau nas adroddwyd i'r rheolwyr am benderfyniad £'000 | Dyraniad tâl am waith y codir amdano £'000 | Symiau heb eu cynnwys yn y DIGC £'000 | Cost Gwasanaethau £'000 | Symiau Corfforaethol £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffioedd, prisiau ac incwm arall i'r gwasanaeth | (54,051) | - | - | 26,755 | - | (27,296) | - | (27,296) |
| Llog ac incwm buddsoddi | - | - | - | - | - | - | (88) | (88) |
| Incwm o'r dreth gyngor | - | - | - | - | - | - | (33,485) | (33,485) |
| Grantiau a chyfraniadau gan y llywodraeth | (52,056) | - | - | - | - | (52,056) | (105,196) | (157,252) |
| **Cyfanswm Incwm** | **(106,107)** | **-** | **-** | **26,755** | **-** | **(79,352)** | **(138,769)** | **(218,121)** |
| Costau Gweithwyr | 87,491 | 216 | 1,529 | - | (1,529) | 87,707 | - | 87,707 |
| Costau gwasanaeth eraill | 117,154 | 19,575 | 21,169 | (25,172) | (21,169) | 113,151 | 4,038 | 117,189 |
| Ad-daliadau gwasanaethau cefnogol | 1,583 | - | - | (1,583) | - | - | - | - |
| Dadbrisio, amorteiddio ac amhariad a chostau cyfalaf arall | - | 22,298 | - | - | - | 22,298 | - | 22,298 |
| Taliadau Llog | - | - | - | - | - | - | 5,985 | 5,985 |
| Praeseptau ac Ardollau | - | - | - | - | - | - | 11,370 | 11,370 |
| Enillion neu Golledion ar gael gwared ar Asedau Sefydlog | - | - | - | - | - | - | (2,416) | (2,416) |
| **Cyfanswm Gwariant** | **206,228** | **42,089** | **22,698** | **(26,755)** | **(21,104)** | **223,156** | **18,977** | **242,133** |
| **Gwarged neu ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau** | **100,121** | **42,089** | **22,698** | **-** | **(21,104)** | **143,804** | **(119,792)** | **24,012** |

## 2014/15

| | Dadansoddiad y Gyfadran | Gwasanaethau a Gwasanaethau Cefnogol nad ydynt yn y Dadansoddiad | Symiau nas adroddwyd i'r rheolwyr am benderfyniad | Dyraniad tâl am waith y codir amdano | Symiau heb eu cynnwys yn y DIGC | Cost Gwasanaethau | Symiau Corfforaethol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ffioedd, prisiau ac incwm arall i'r gwasanaeth | (73,538) | - | 10,506 | 34,176 | - | **(28,856)** | - | (28,856) |
| Llog ac incwm buddsoddi | - | - | - | - | - | **-** | (91) | (91) |
| Incwm o'r dreth gyngor | - | - | - | - | - | **-** | (31,901) | (31,901) |
| Grantiau a chyfraniadau gan y llywodraeth | (38,015) | 319 | (10,506) | - | - | **(48,202)** | (105,839) | (154,041) |
| **Cyfanswm Incwm** | **(111,553)** | **319** | **-** | **34,176** | **-** | **(77,058)** | **(137,831)** | **(214,889)** |
| | - | - | - | - | - | **-** | - | - |
| Costau Gweithwyr | 85,846 | - | 2,944 | - | - | **88,790** | - | 88,790 |
| Costau gwasanaeth eraill | 126,213 | 7,534 | - | (32,573) | (6,968) | **94,206** | 4,453 | 98,659 |
| Ad-daliadau gwasanaethau cefnogol | 1,603 | - | - | (1,603) | - | **-** | - | - |
| | - | 21,181 | - | - | - | **21,181** | 1,272 | 22,453 |
| Dadbrisio, amorteiddio ac amhariad a chostau cyfalaf arall | - | - | - | - | - | **-** | 5,117 | 5,117 |
| Taliadau Llog | - | - | - | - | - | **-** | 11,045 | 11,045 |
| Enillion neu Golledion ar gael gwared ar Asedau Sefydlog | - | - | - | - | - | **-** | (1,335) | (1,335) |
| **Cyfanswm Gwariant** | **213,662** | **28,715** | **2,944** | **(34,176)** | **(6,968)** | **204,177** | **20,552** | **224,729** |
| **Gwarged neu ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau** | **102,109** | **29,034** | **2,944** | **-** | **(6,968)** | **127,119** | **(117,279)** | **9,840** |

## NODYN 32 – GWEITHREDIADAU MASNACHU

Nid oes gan y Cyngor unrhyw weithrediadau masnachu.

## NODYN 33 - LWFANSAU AELODAU

Talwyd cyfanswm o £0.677m (£0.683m yn 2014/15) o ran lwfansau i Aelodau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:-

| | 2015/16<br>£'000 | 2014/15<br>£'000 |
|---|---|---|
| Lwfansau sylfaenol a chyfrifoldeb arbennig | 548 | 555 |
| Lwfansau'r Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd | 6 | 6 |
| Costau pensiwn | 57 | 55 |
| Costau Yswiriant Cenedlaethol | 38 | 39 |
| Costau teithio | 12 | 16 |
| Cynhaliaeth | 4 | - |
| Amrywiol | 11 | 12 |
| **Cyfanswm** | **677** | **683** |

Yn ychwanegol at hyn, gwariodd y Cyngor £8,814 ar gostau i aelodau lleyg. (£13,329 yn 2014/15)

## NODYN 34 – CYDNABYDDIAETH ARIANNOL I SWYDDOGION

Roedd y nifer o weithwyr yr oedd eu cydnabyddiaeth ariannol a dalwyd yn 2015/16, ac eithrio cyfraniadau pensiwn ond yn cynnwys tâl diswyddo, yn fwy na £60,000 ond dim yn fwy na £150,000 yn:-

| Cydnabyddiaeth Ariannol i Swyddogion | Yn cynnwys Tâl Diswyddo<br>2015/16<br>Nifer o weithwyr | Yn cynnwys Tâl Diswyddo<br>2014/15<br>Nifer o weithwyr | Ac eithrio Tâl Diswyddo<br>2015/16<br>Nifer o weithwyr | Ac eithrio Tâl Diswyddo<br>2014/15<br>Nifer o weithwyr |
|---|---|---|---|---|
| £60,000 i £65,000 | 5 | 6 | 5 | 5 |
| £65,001 i £70,000 | 3 | 3 | 2 | 3 |
| £70,001 i £75,000 | 3 | 3 | 3 | 3 |
| £75,001 i £80,000 | - | 1 | 2 | 1 |
| £80,001 i £85,000 | - | 1 | - | 1 |
| £85,001 i £90,000 | - | - | - | - |
| £90,001 i £95,000 | 1 | - | 1 | - |
| £95,001 i £115,000 | - | - | - | - |
| £115,001 i £135,000 | 1 | - | - | - |
| £135,001 i £155,000 | - | - | - | - |
| Dros £155,000 | 1 | - | - | - |
| **Cyfanswm** | **14** | **14** | **13** | **13** |

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r gydnabyddiaeth ariannol a dalwyd i uwch swyddogion sy'n cael eu cyflogi ar sail barhaol ac y mae eu cyflogau blynyddol a buddion eraill yn uwch na £60,000 y flwyddyn. Mae uwch swyddogion sy'n ennill mwy na £150,000 y flwyddyn cael eu henwi'n unigol hefyd er mwyn cydymffurfio gyda gofynion statudol.

**2015/16**

| Cydnabyddiaeth Ariannol i Uwch Swyddogion | Cyflog, Ffioedd a Lwfansau | Lwfansau Costau | Iawndal am golli Swydd | Cyfraniad Pensiwn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Prif Weithredwr - Gadael 31/05/2015 | 24 | - | - | 4 | 28 |
| Prif Weithredwr - Dechrau 01/06/2016 | 92 | 1 | - | 17 | 110 |
| Prif Weithredwr Cynorthwyol - Dechrau 01/01/2016 | 22 | - | - | 4 | 26 |
| Prif Weithredwr Cynorthwyol - Dechrau 02/11/2015 | 35 | 7 | - | 7 | 49 |
| Cyfarwyddwr - Cymuned - Gadael 31/12/2015 | 75 | - | 48 | 14 | 137 |
| Cyfarwyddwr - Datblygu Cynaliadwy (Arthur Owen) - Gadael 31/12/2015 | 78 | - | 87 | 14 | 179 |
| Pennaeth Swyddogaeth - Cyfreithiol a Gweinyddol | 74 | - | - | 14 | 88 |
| Pennaeth Swyddogaeth - Adnoddau - Dechrau 26/10/2015 | 35 | 1 | - | 7 | 43 |
| Cyfarwyddwr - Dysgu Gydol Oes - Gadael 31/05/2015 | 17 | - | - | 3 | 20 |
| Pennaeth Proffesiwn - AD | 61 | - | - | 11 | 72 |
| Pennaeth Adran (Tai) | 65 | 1 | - | 12 | 78 |
| Pennaeth Adran (Economaidd) | 63 | 1 | - | 12 | 76 |
| Pennaeth Adran (Addysg) | 72 | 2 | - | 13 | 87 |
| Pennaeh Adran (Plant) | 63 | 1 | - | 12 | 76 |
| Pennaeth Adran (Oedolion) | 71 | - | - | 13 | 84 |
| Pennaeth Adran (Cynllunio) | 63 | - | - | 12 | 75 |
| Pennaeth Adran (Amgylchedd) | 65 | 1 | - | 12 | 78 |
| Cyfanswm | **975** | **15** | **135** | **181** | **1,306** |

**Ceir ffigyrau cymharol ar gyfer 2014/15 yn y tabl isod:-**

| Cydnabyddiaeth Ariannol i Uwch Swyddogion | Cyflog, Ffioedd a Lwfansau | Lwfansau Costau | Iawndal am golli Swydd | Cyfraniad Pensiwn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Prif Weithredwr (Richard Parry Jones)* | 144 | 1 | - | 26 | 171 |
| Dirprwy Brif Weithredwr | 114 | - | - | 21 | 135 |
| Cyfarwyddwr (Dysgu Gydol Oes) | 99 | 2 | - | 18 | 119 |
| Cyfarwyddwr (Datblygu Cynaliadwy) | 99 | 1 | - | 18 | 118 |
| Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) | 23 | - | 19 | 4 | 46 |
| Cyfarwyddwr (Cymuned) | 99 | 1 | - | 18 | 118 |
| Pennaeth Swyddogaeth – Cyfreithiol a Gweinyddol | 72 | - | - | 14 | 86 |
| Pennaeth Adnoddau Dynol | 63 | 1 | - | 12 | 76 |
| Pennaeth Gwasanaeth (Tai) | 64 | 1 | - | 12 | 77 |
| Cyfanswm | **777** | **7** | **19** | **143** | **946** |

*Nodyn: Mae ffioedd, lwfansau a taliad y Swyddog Canlyniadau o £2,840 wedi ei gynwys yng nghyflog y Prif Weithredwr.

Mae cymhareb taliad cyflog y Prif Weithredwr fel canolrif o gyflogau'r holl weithwyr eraill yn 6.47:1 ar gyfer 2015/16 (7.6:1 yn 2014/15).

**NODYN – 35 PECYNNAU YMADAEL**

Mae'r nifer o becynnau ymadael gyda chyfanswm cost fesul band a chyfanswm cost diswyddiadau gorfodol ac ymadawiadau eraill wedi eu nodi yn y tabl isod:-

| Band cost pecyn ymadael (gan gynnwys taliadau arbennig) | Nifer o ddiswyddiadau gorfodol | | Nifer o ymadawiadau eraill a gytunwyd | | Cyfanswm y nifer o becynnau ymadael fesul band cost | | Cyfanswm cost pecynnau ymadael fesul band cost | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2015/16** | **2014/15** | **2015/16** | **2014/15** | **2015/16** | **2014/15** | **2015/16** £000 | **2014/15** £000 |
| £0 - £20,000 | 24 | 9 | 23 | 12 | 47 | 21 | 378 | 142 |
| £20,001 - £40,000 | 1 | - | 14 | 9 | 15 | 9 | 428 | 232 |
| £40,001 - £60,000 | - | - | 6 | 2 | 6 | 2 | 276 | 94 |
| £60,001 - £80,000 | - | - | 2 | - | 2 | - | 127 | - |
| £80,001 - £100,000 | 1 | - | - | - | 1 | - | 89 | - |
| £100,001 - £250,000 | 1 | - | 1 | - | 2 | - | 234 | - |
| Total | 27 | 9 | 46 | 23 | 73 | 32 | 1,532 | 468 |

## NODYN 36 – FFIOEDD ARCHWILIO ALLANOL

Codwyd y ffioedd canlynol ar y Cyngor mewn perthynas ag archwilio allanol ac arolygiaeth:-

| | 2015/16 £'000 | 2014/15 £'000 |
|---|---|---|
| Ffioedd yn daladwy i Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â gwasanaethau archwilio allanol gan yr archwilydd apwyntiedig am y flwyddyn | 191 | 193 |
| Ffioedd yn daladwy i Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â gwasanaethau archwilio allanol gan yr archwilydd apwyntiedig am blynyddoedd cynt | 18 | 18 |
| Ffioedd yn daladwy i Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag arolygon statudol | 114 | 130 |
| Ffioedd yn daladwy i PricewaterhouseCoopers LLP ar gyfer ardystio hawliadau a dychweliadau grant am y flwyddyn | 106 | 119 |
| Ffioedd yn daladwy i Swyddfa Archwilio Cymru am wasanaethau eraill | - | 7 |
| Ffioedd yn daladwy i PricewaterhouseCoopers LLP am waith arall fel yr archwiliwr apwyntiedig | - | 4 |
| **Cyfanswm** | **429** | **471** |

## NODYN 37 – INCWM GRANTIAU

Mae'r Cyngor wedi credydu'r grantiau, cyfraniadau a rhoddion canlynol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn 2015/6 fel a ganlyn:-

| | Note | 2015/16 £'000 | 2014/15 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Credited to Taxation and Non-Specific Grant Income** | | | |
| Council Tax Reduction Scheme Grant | 14 | 5,228 | 5,237 |
| Revenue Support Grant (Non-ring-fenced Government Grants) | 14 | 67,267 | 68,827 |
| Capital Grants and Contributions (Capital Grants and Contributions) | 14 | 8,848 | 5,718 |
| Grant - Major Repairs Allowance (Capital Grants and Contributions) | 14 | 2,656 | 2,650 |
| Other (Non-ringfenced Government Grants) | 14 | 725 | 720 |
| **Total** | | **84,724** | **83,152** |
| **Credited to Services** | | | |
| **Grants:** | | | |
| Post-16 Grant (Education) | | 2,616 | 2,711 |
| Foundation Phase Grants (Education) | | 1,935 | 2,369 |
| Concessionary Fares Grant | | 735 | 726 |
| Housing Benefit Subsidy | | 18,694 | 18,186 |
| Supporting People Grant (SPG & SPRG) | | 2,644 | 2,887 |
| Sustainable Waste Management | | 1,713 | 1,713 |
| **Total** | | **28,337** | **28,591** |
| **Other Grants:** | | | |
| Central Services | | 77 | 76 |
| Cultural and Related Services | | 516 | 454 |
| Children and Education Services | | 3,379 | 4,080 |
| Highways and Transport Services | | 1,532 | 1,210 |
| Other Housing Services | | 1,284 | 1,172 |
| Adult Social Care Grants | | 779 | 480 |
| Planning and Development | | 756 | 1,297 |
| Environmental Services | | 40 | 90 |
| Corporate and Democratic Core | | 498 | 565 |
| **Total** | | **8,861** | **9,424** |
| **Contributions:** | | **11,939** | **10,506** |
| **Total** | | **133,861** | **131,674** |

**Grantiau Cyfalaf a Dderbyniwyd Ymlaen Llaw**

| | 2015/16<br>£'000 | 2014/15<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Opening balance** | 380 | 288 |
| Add: new capital grants received in advance (condition of use not met) | 11,555 | 9,135 |
| Capital Grants repaid | (43) | (193) |
| Less: amounts released to the Comprehensive Income and Expenditure Account (conditions met) | (10,590) | (8,850) |
| **Closing Balance** | **1,302** | **380** |

**NODYN 38 – PARTÏON CYSYLLTIEDIG**

Mae'r Cyngor yn penodi aelodau i rai cyrff cyhoeddus, elusennol a gwirfoddol. Yn ystod 2015/16, talwyd cyfanswm o £4.546m mewn grantiau ar gyfer prynu gwasanaethau gan y cyrff hyn (£4.556m yn 2014/15). Mae'r Cyngor wedi asesu maint y trafodion unigol yn codi drwy'r partïon cysylltiedig ac mae'r datgeliadau isod yn ymwneud â thrafodion rhwng y Cyngor a'r parti cysylltiedig sydd yn uwch na £0.02m o ran eu gwerth:-

Mae'r Cyngor yn aelod o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a thalwyd tanysgrifiad o £0.079m iddi yn 2015/16 (£0.066m yn 2014/15).

Mae Aelodau wedi datgan diddordebau mewn contractau neu mewn sefydliadau a all fod yn ymwneud â'r Cyngor yn y Gofrestr Statudol o Ddiddordebau Aelodau. Talwyd cyfanswm o £dim gan y Cyngor yn 2015/16 mewn perthynas â'r diddordebau hyn (£0.008m yn 2014/15).

Mae Llywodraeth Cymru yn barti perthnasol allweddol gan fod gan Llywodraeth Cymru ddylanwad sylweddol ar yr Awduedod drwy ddeddfwriaeth a chyllideb grant. Mae'r Awdurdod hefyd yn gweithredu fel asiant i Lywodraeth Cymru drwy gasglu Trethi Annomestic Cenedlaethol gan fusnesau ar Ynys Môn a'i dalu i Lywodraeth Cymru. Fe ddatgelir trafodion materol rhwng yr Awdurdod a Llywodraeth Cymru drwy gydol y cyfrifon, fel yn berthnasol.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, drwy reolaeth gyffredinol gan Llywodraeth ganol, yn barti cysylltiedig i'r Cyngor. Cyfanswm y taliadau a wnaed i BIPBC gan y Cyngor am 2015/16 oedd £1.256m (£1.322m yn 2014/15) ac nid oedd unrhyw arian yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn. Cyfanswm y derbyniadau i'r Cyngor gan BIPBC oedd £1.049m (£2.799m yn 2014/15), gyda £0.872m (£0.803m yn 2014/15) yn ddyledus gan ein parti cysylltiedig ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae nifer o sefydliadau'n annibynnol ar y Cyngor ond serch hynny'n cael effaith ar ei feysydd gwasanaeth. Fel y gall y Cyngor gynnal partneriaethau effeithiol gyda nifer o'r sefydliadau hyn, mae cynrychiolwyr o'r Cyngor, Cynghorwyr etholedig fel arfer, yn gwasanaethu ar amryfal bwyllgorau a fforymau sy'n gyfrifol amdanynt. Ceir rhestr o'r cyrff allanol a chynrychiolwyr y Cyngor arnynt yn Atodiad 1.

**DIDDORDEBAU MEWN CWMNÏAU**

Mae gan y Cyngor ddiddordeb mewn dau gwmni ac, yn y ddau achos, yr aelod arall yw Cyngor Gwynedd ond nid oes ganddo ddylanwad mawr dros y cwmnïau hyn:-

**Cwmni Gwastraff Môn-Arfon Cyf**

Cwmni Gwaredu Gwastraff Awdurdod Lleol yw Cwmni Gwastraff Môn-Arfon Cyf. a sefydlwyd ar y cyd gan ragflaenwyr Cynghorau Ynys Môn a Gwynedd yn 1994. Roedd y cwmni yn rhedeg dau safle rheoli gwastraff yn Ynys Môn a Gwynedd a oedd ar brydles gan yr Awdurdodau Lleol. Roedd y rhan fwyaf o weithgaredd y cwmni yn ymwneud â chontractau â'r ddau Awdurdod Lleol.

Yn dilyn newid yn y ddeddfwriaeth, penderfynodd y ddau Gyngor ddirwyn y cwmni i ben yn ystod 2007/08 ac ymgymryd â'r gwaith yn fewnol. Yn 2008 trosglwyddwyd yr asedau a'r ymrwymiadau gweithredol perthnasol a'r staff i'r Cyngor, ynghyd â swm balans mewn arian parod. Mae'r buddsoddiad wedi cael ei ailbrisio bob blwyddyn ac mae'r rhan fwyaf o arian y cydranddeiliaid wedi cael ei dalu'n ôl i'r ddau Gyngor. Nid yw'r budd gweddilliol yn y cwmni ar 31 Mawrth 2016 yn berthnasol i gyfrifon y Cyngor.

**Cwmni Cynnal Cyf**

Sefydlwyd y cwmni hwn adeg ad-drefnu llywodraeth leol ar y cyd rhwng Cynghorau Ynys Môn a Gwynedd. Mae'n darparu gwasanaethau cefnogaeth addysg dan gytundeb i ysgolion a gynhelir ac i awdurdodau addysg lleol a gwasanaethau arolygu ysgolion i Estyn. Dim ond i hyrwyddo ei amcanion y mae modd defnyddio incwm y cwmni. Mae'r cwmni yn gyfyngedig dan warant, heb gyfalaf cyfranddaliadau, ac mae ymrwymiad y Cyngor yn gyfyngedig un bunt.

Mae cyfrifon y cwmni am 2014/15 yn dangos colled net o £0.09m (£0.072m yn 2013/14). Trosiant y cwmni am 2014/15 oedd £3.013m (£3.429m yn 2013/14). Dengys cyfrifon cyhoeddedig y Cwmni rwymedigaethau net o £0.508m ar 31 Mawrth 2015 (roedd asedau net yn £0.499m ar 31 Mawrth 2014).

Gellir cael copïau o'r datganiadau ariannol gan Gwmni Cynnal Cyf, Plas Llanwnda, Caernarfon, Gwynedd. Nid yw adroddiad yr archwilwyr ar y cyfrifon am y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2015 wedi ei gadarnhau. Yn ystod blwyddyn ariannol 2015/16, cyfrifodd y Cyngor am £1.128m (£1.133m yn 2014/15) o gostau'n gysylltiedig â phrynu gwasanaethau gan y cwmni.

Mae gan y Cyngor ddiddordebau mewn cwmnïau fel a ganlyn:-

**Cyd-bwyllgor Addysg Cymru - WJEC CBAC Cyf**

Mae'r Cyngor yn aelod o WJEC CBAC Cyfyngedig, cwmni elusennol y mae'r 22 awdurdod unedol Cymru yn aelodau ohono. Ei amcanion yw darparu gwasanaethau arholiad a darparu a hyrwyddo gwasanaethau addysg a diwylliannol eraill. Mae'r cwmni yn gyfyngedig dan warant, heb gyfalaf cyfranddaliadau, ac mae rhwymedigaeth y Cyngor yn gyfyngedig i un bunt.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2015/16, talodd y Cyngor £0.449m (£0.379m yn 2014/15) am brynu gwasanaethau gan y cwmni.

Mae cyfrifon y Cwmni am 2014/15 (h.y. at y flwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Medi) yn dangos symudiad net positif mewn cronfeydd o £5.281m (symudiad net positif mewn cronfeydd o £4.23m yn 2013/14). Trosiant y cwmni am 2014/15 oedd £40.704m (£39.31m yn 2013/14) a'i asedau net yn £32.04m ar 30 Medi 2015 (£26.76m ar 30 Medi 2014).

Gellir cael copïau o gyfrifon y cwmni o WJEC CBAC Cyfyngedig, 245 Rhodfa'r Gorllewin, Llandaf, Caerdydd, CF5 2YX. Nid yw adroddiad yr archwiliwr ar y cyfrifon am y flwyddyn ariannol i 30 Medi 2015 wedi ei gadarnhau.

**Menter Môn Cyfyngedig**

Mae'r Cyngor yn aelod o Menter Môn Cyf, ac roedd yn un o dri aelod ar 31 Mawrth 2016. Amcanion y cwmni yw hyrwyddo twf economaidd yn Ynys Môn wledig. Mae'r cwmni wedi ei gyfyngu dan warant, heb gyfalaf cyfranddaliadau, ac mae ymrwymiad y Cyngor yn gyfyngedig i un bunt.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2015/16, talodd y Cyngor £0.133m i'r cwmni i gefnogi ei weithgareddau (£0.255m yn 2014/15).

Mae cyfrifon y Cwmni am y flwyddyn ariannol ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2014 yn dangos incwm net cyn treth o £0.003m (incwm net o £0.223m ar ôl treth yn 2013/14). Trosiant y Cwmni am 2014 oedd £5.782m (£6.717m yn 2013) a'i asedau net yn £0.535m ar 31 Rhagfyr 2014, (£0.631m yn 2013).

Gellir cael copïau o gyfrifon y cwmni o Menter Môn, Neuadd y Dref, Sgwar Buckley, Llangefni, Ynys Môn LL77 7LR. Nid yw adroddiad yr archwilwyr ar y cyfrifon am y flwyddyn ariannol i 31 Rhagfyr 2014 wedi cael ei gadarnhau.

**Ysgol Sefydledig Caergeiliog**

Mae balansau ar gyfer asedau a rhwymedigaethau cyfredol a reolir gan Ysgol Sefydledig Caergeiliog wedi eu cynnwys yn y cyfrifon yma, ac o'r herwydd nid yw cronfeydd wrth gefn yr ysgol, fel y cânt eu nodi yn y fantolen hon, ond yn cynrychioli'r asedau net cyfredol. Mae gan yr ysgol hefyd asedau nad ydynt yn gyfredol o £0.613m ar y fantolen yr ysgol ar 31 Mawrth 2016 (£0.627m ar 31 Mawrth 2015), ar sail cyfuniad o brisiant a chost hanesyddol, llai dibrisiant. Mae'r asedau nad ydynt yn gyfredol wedi eu breinio yng Nghorff Llywodraethu'r ysgol ac ni chânt eu hymgorffori ym Mantolen y Cyngor.

## NODYN 39 – CRONFEYDD YMDDIRIEDOL

Mae'r Cyngor yn gweithredu fel ymddiriedolwr i nifer o gronfeydd ymddiriedol. Mae eu cyfrifon ar gael gan yr Adain Gyfrifeg. Yn ychwanegol at gymynroddion i bethau megis gwobrau mewn ysgolion a chysuron a gwelliannau yn sefydliadau'r Gwasanaethau Cymdeithasol, mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am gronfeydd Ymddiriedol fel a ganlyn:-

**Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn (Rhif 1000818)**

Y Cyngor yw unig ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn, sef ymddiriedolaeth a sefydlwyd i weinyddu buddsoddiadau a brynwyd gydag arian a gafwyd gan Shell UK Limited pryd y daeth gwaith y cwmni i ben yn y lanfa olew oedd ganddo ym Môn. Amcanion yr Ymddiriedolaeth Elusennol yw darparu cyfleusterau er lles cyffredinol cyhoeddus pobl sy'n byw yn Ynys Môn. Mae'n gwneud hyn trwy gyfrannu tuag at wariant ar wasanaethau cyhoeddus a thrwy roi grantiau i gyrff elusennol a gwirfoddol.

Yn 2015/16, derbyniodd y Cyngor £0.215m (£0.215m yn 2014/15) gan yr Ymddiriedolaeth tuag at gostau rhedeg Oriel Ynys Môn.

**Cronfa'r Degwm**

Ar hyn o bryd, gweinyddir buddsoddiadau'r gronfa gan Gyngor Gwynedd ar ran yr awdurdodau a olynodd yr hen Gyngor Sir Gwynedd, er bod cynlluniau i'w trosglwyddo i'r Cyngor hwn. Yn y cynllun i weinyddu'r gronfa, dywedir bod rhaid defnyddio'r incwm at ddibenion elusennol - rhai addysgol, adloniadol a chymdeithasol - yn ôl disgresiwn y Cyngor. Yn y dyfodol, fe drosglwyddir cyfran Ynys Môn o Gronfa'r Degwm i Gyngor Sir Ynys Môn i'w weinyddu.

**Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn (Rhif 525254)**

Mae 75% o'r incwm net o Stad Elusennol David Hughes yn ffurfio rhan o Gronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn - sef Cronfa y mae'r Cyngor yn Ymddiriedolwr iddi. Defnyddir yr incwm i ddibenion addysgol penodol. Telir y 25% arall i "Elusen David Hughes er Lles y Tlodion", elusen nad yw'n cael ei gweinyddu gan y Cyngor.

Ar 31 Mawrth 2016, roedd balansau'r Cronfeydd Ymddiriedol hyn (yn ôl gwerth yr asedau ar y farchnad) yn:-

| Crynodebau datganiad cyn eu harchwilio | 2015/16 Incwm £'000 | 2015/16 Gwariant £'000 | 2015/16 Asedau £'000 | 2015/16 Ymrwymiadau £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn | 527 | 894 | 20,110 | 914 |
| Cronfa'r Degwm | 6 | 11 | 957 | 20 |
| Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn | 94 | 118 | 3,235 | 4 |

| Crynodebau datganiad wedi eu harchwilio | 2014/15 Incwm £'000 | 2014/15 Gwariant £'000 | 2014/15 Asedau £'000 | 2014/15 Ymrwymiadau £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn | 537 | 795 | 20,793 | 763 |
| Cronfa'r Degwm | 135 | 15 | 934 | 12 |
| Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn | 95 | 80 | 3,267 | 22 |

Nodwch os gwelwch yn dda bod enillion nad oeddynt wedi eu gwireddau ar y prisiad o asedau wedi cael eu cynnwys yn flaenorol yn y golofn 'incwm' ar gyfer Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Fodd bynnag, nid ydynt wedi eu cynnwys ar gyfer 2015/16 oherwydd nid yw'r enillion hyn yn incwm yn yr ystyr traddodiadol ac mae cynnwys enillion nad ydynt wedi eu gwireddu gydag incwm yn rhoi camargraff o'r incwm gweithredol a dderbyniwyd gan yr elusen. Caiff yr enillion nad chawsant eu gwireddu eu hadlewyrchu yn yr asedau oherwydd byddai gwerth asedau'r elusen wedi cynyddu gyda'r enillion. O'r herwydd, mae'r crynodeb o'r datganiad archwiliedig wedi cael ei ailddatgan uchod. Yn y cyfrifon ar gyfer 2014/15, adroddwyd bod gan Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn £1.962m o incwm, fodd bynnag, roedd £1.425m o hwn yn ymwneud ag enillion nad oeddynt wedi eu gwireddu ar adeg ailbrisio buddsoddiadau a gall y symiau amrywio o ddydd i ddydd. Yn yr un modd, yn 2014/15 roedd incwm y Gronfa Degwm yn cynnwys £130k o enillion a wireddir na ddylent fod wedi eu hadrodd fel incwm. Mae incwm Cronfa'r Degwm am 2014/15 wedi cael ei ail-ddweud uchod fel £5k.

Cyfanswm gwerth y cronfeydd eraill ar 31 Mawrth 2016, gan gynnwys buddsoddiadau yn ôl eu gwerth ar y farchnadm, yw £0.244m (£0.245m ar 31 Mawrth 2015).

Yn ystod 2015/16, roedd gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ddyletswydd ariannol am amryw o elusennau. Er fod eu gweinyddiaeth ariannol wedi cael ei integreiddio gyda gwaith y Cyngor, mae'r elusennau yn gyfreithiol ar wahan ac fe gynhyrchir datganiadau ariannol ar wahan , sydd yn unol â safonau cyfrifyddu cymwys a'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar Gyfrifyddu gan Elusennau, a gyhoeddwyd gan y Cymisiynwyr Elusennau. Fe rheolir yr elusennau ac fe cymeradwyir y gwariant yn unol â'r meini prawf a nodir dogfennau llywodraethu pob un. Nid yw balansau Cronfa'r Ymddiriedolaeth yn cael eu cynnwys gan fod rhain yn cynrychioli asedau a ddelir mewn ymddiriedolaeth ar gyfer trydydd partïon yn hytrach nag ym mherchnogaeth y Cyngor. Fe ddangosir crynodeb o berfformiad yr Ymddiriedolaethau Elusennol mwyaf yn y tabl uchod.

**NODYN 40 – CYNLLUN PENSIWN ATHRAWON**

Mae athrawon a gyflogir gan y Cyngor yn aelodau o Gynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan yr Adran Addysg. Mae'r cynllun yn rhoi buddiannau penodol i athrawon ar eu hymddeoliad, ac mae'r Cyngor yn cyfrannu tuag at y gost drwy dalu cyfraniadau sy'n seiliedig ar ganran o dâl pensiynadwy aelodau.

Yn dechnegol, cynllun buddiannau diffiniedig yw'r cynllun. Fodd bynnag, mae'r cynllun heb ei gyllido ac mae'r Adran Addysg yn defnyddio cronfa dybiannol er mwyn cyfrifo cyfradd cyfraniad cyflogwyr i'w thalu gan awdurdodau lleol. Nid yw'r Cyngor yn gallu adnabod ei ran o'r sefyllfa ariannol waelodol a pherfformiad y cynllun gyda digon o ddibynadwyedd at ddibenion cyfrifo. At ddiben y Datganiad Cyfrifon yma, maent, felly, yn cael eu cyfrifo ar yr un sail â chynllun cyfraniadau diffiniedig.

Yn 2015/16, talodd y Cyngor £3.502m i Bensiynau Athrawon yn ymwneud â buddiannau ymddeol athrawon, a oedd yn cynrychioli 14.79% o dâl pensiynadwy (£3.153m a 14.1% yn 2014/15). Yn ychwanegol, 'roedd taliadau yn ymwneud ag ychwanegiadau ar gyfer ymddeol yn gynnar ac ati a wnaed ar sail talu-wrth-fynd yn £ddim (£dim yn 2014/15). Nid oedd unrhyw gyfraniadau'n daladwy ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gostau unrhyw fuddiannau ychwanegol a ddyfernir ar gyfer ymddeoliad cynnar y tu allan i delerau'r cynllun athrawon. Cyfrifir am y costau hyn ar sail buddiannau diffiniedig, a manylir arnynt yn Nodyn 41 isod

**NODYN 41 – CYNLLUN PENSIWN BUDDIANNAU DIFFINIEDIG LLYWODRAETH LEOL**

**Buddiannau Ymddeoliad**

**Cyfranogiad yn y Cynllun Pensiwn Awdurdod Leol**

Fel rhan o delerau ac amodau gwaith ei swyddogion a'i weithwyr eraill, mae'r Cyngor yn cynnig buddiannau ymddeoliad. Er nad yw'r buddiannau yma yn cael eu talu hyd nes i'r gweithwyr ymddeol, mae gan y Cyngor rwymedigaeth i wneud y taliadau sydd raid eu dangos ar yr adeg mae'r gweithwyr yn ennill eu hawliau i'r dyfodol.

Mae'r Cyngor yn cymryd rhan yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd a weinyddir gan Gyngor Gwynedd. Mae hwn yn gynllun a gyllidir, gan olygu fod y Cyngor a gweithwyr yn talu cyfraniadau i gronfa, a gyfrifir ar lefel y bwriedir iddi gydbwyso rhwymedigaethau'r pensiwn gydag asedau buddsoddiad.

**a) Trafodion yn ymwneud â buddiannau ôl-gyflogaeth**

Mae'r Cyngor yn adnabod cost y buddiannau ymddeol yn yr adroddiadau ar gostau'r gwasanaethau pan mae'r gweithwyr yn eu hennill, yn hytrach na phan mae'r buddiannau yn cael eu talu fel pensiynau. Fodd bynnag, mae'r gost sydd raid ei dangos yn erbyn y Dreth Gyngor yn seiliedig ar yr arian a delir yn ystod y flwyddyn ac, felly, mae gwir gost buddiannau ar ôl-gyflogaeth / ymddeoliad yn cael eu symud allan o'r Gronfa Gyffredinol drwy'r Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Yn ystod y flwyddyn, mae'r trafodion canlynol wedi cael eu gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r Balans Cronfa Gyffredinol drwy'r Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn:-

| | 2015/16<br>£'000 | 2014/15<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Cost y gwasanaeth yn cynnwys:** | | |
| Costau cyfredol y gwasanaeth | 10,132 | 7,775 |
| Colledion ar setliadau neu gwtogiadau | 96 | 224 |
| **Cyfanswm cost y Gwasanaeth** | **10,228** | **7,999** |
| **Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi** | | |
| Cost llog ar yr ymrwymiad budd diffiniedig | 11,255 | 12,502 |
| Incwm llog ar Asedau'r Cynllun | (7,217) | (8,599) |
| **Cyfanswm y buddiannau Ôl-Gyflogaeth sy'n cael eu codi i'r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarpariaeth y Gwasanaeth** | **14,266** | **11,902** |
| Elw ar Asedau'r Cynllun (ac eithrio symiau sydd wedi eu cynnwys yn y gwariant llog net) | 1,532 | (16,041) |
| Elw a cholledion actiwarïaid yn codi oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau ariannol | (33,606) | 48,780 |
| Arall | (3,864) | (1,565) |
| **Ailfesur yn llwyr yr ymrwymiad o ran buddiannau net diffiniedig yn cynnwys** | **(35,938)** | **31,174** |
| **Cyfanswm y buddiannau Ôl-gyflogaeth a godwyd ar Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | **(21,672)** | **43,076** |
| Gwyrdroi'r taliadau net a wnaed ar gyfer buddiannau ymddeoliad yn unol â'r côd | 5,482 | 3,152 |
| **Swm gwirioneddol a godwyd yn erbyn balans Cronfa'r Cyngor ar gyfer pensiynau yn ystod y flwyddyn:** | | |
| Cyfraniad y cyflogwyr sy'n daladwy i'r cynllun | 8,784 | 8,750 |
| **Cyfanswm y buddiannau Ôl-gyflogaeth a godwyd i'r Gwarged neu'r Diffyg ar ddarparu Gwasanaethau** | **14,266** | **11,902** |

## b) Asedau ac Ymrwymiadau Pensiwn a gydnabyddir yn y Fantolen

Mae ymrwymiadau wedi cael eu hasesu ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull credyd uned rhagdybiedig, amcangyfrif o'r pensiynau a fydd yn daladwy yn y blynyddoedd i ddod yn seiliedig ar ragdybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaethau, lefelau cyflogau ac ati. Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a'r ymrwymiadau o ran Buddiannau Dewisol wedi cael eu hasesu gan Hymans Robertson LLP, cwmni annibynnol o actiwarïaid ac mae'r amcangyfrifon yn seiliedig ar y prisiad llawn diweddaraf o'r Cynllun ar 31 Mawrth 2016.

| **Mae'r symiau sydd wedi eu cynnwys yn y Fantolen yn codi o ymrwymiad yr Awdurdod mewn perthynas ai gynllun buddiannau diffiniedig fel a ganlyn:** | **31 Mawrth 2016**<br>**£'000** | **31 Mawrth 2015**<br>**£'000** |
|---|---|---|
| Gwerth Presennol Asedau'r Cynllun | 231,770 | 224,961 |
| Gwerth Presennol Ymrwymiadau'r Cynllun | (326,792) | (350,438) |
| **Ymrwymiad net yn codi o'r rhwymedigaethau diffiniedig** | **(95,022)** | **(125,477)** |

## Cysoni Gwerth Presennol Ymrwymiadau'r Cynllun

| | 2015/16<br>£'000 | 2014/15<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill** | **350,438** | **290,788** |
| Cost gyfredol y gwasanaeth | 10,132 | 7,775 |
| Cost llog | 11,255 | 12,502 |
| Cyfraniadau gan y sawl sy'n rhan o'r cynllun | 2,175 | 2,095 |
| **Ailfesur (elw) a cholledion** | (37,470) | 47,215 |
| Colledion actiwaraidd yn codi o eraill | 96 | 225 |
| Ymrwymiadau a ddaeth i ben ar adeg setlo | | |
| Amcangyfrif o'r buddiannau a dalwyd nad oeddynt yn cael eu cyllido | (1,027) | (1,054) |
| Amcangyfrif o'r buddiannau a dalwyd | (8,807) | (9,108) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **326,792** | **350,438** |

## Cysoni gwerth presennol asedau'r cynllun:-

| | 2015/16<br>£'000 | 2014/15<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Gwerth Teg Agoriadol Asedau'r Cynllun ar 1 Ebrill** | **224,961** | **199,636** |
| Incwm Llog | 7,217 | 8,601 |
| Elw ar asedau a gynlluniwyd (heb gynnwys gwariant llog net) | (1,532) | 16,041 |
| Cyfraniadau gan aelodau | 2,174 | 2,095 |
| Cyfraniadau gan y cyflogwr | 7,757 | 7,696 |
| Cyfraniadau mewn perthynas â buddiannau nad oeddynt yn cael eu cyllido | 1,027 | 1,054 |
| Buddiannau a dalwyd nad oeddynt yn cael eu cyllid+B45o | (1,027) | (1,054) |
| Buddiannau a dalwyd | (8,807) | (9,108) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **231,770** | **224,961** |

## c) Gwerth Teg Asedau'r Cynllun

Asedau'r Cynllun Pensiwn y Cyngor yw :-

Prif gategorïau asedau'r gronfa yn ôl y prisiau a ddyfynnwyd ar 31 Mawrth 2016.

| | 2015/16<br>Prisiau a Ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol<br>£'000 | 2015/16<br>Prisiau nas dyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredo<br>£'000 | 2014/15<br>Prisiau a Ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol<br>£'000 | 2014/15<br>Prisiau nas dyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|
| Arian a chywerthoedd arian | 7,138 | | 4,059 | |
| Buddsoddiad ecwiti (yn ôl y math o ddiwydiant) | | | | |
| Defnyddwyr | 7,371 | | 6,230 | |
| Sefydliadau Ariannol | 3,778 | | 3,508 | |
| Ynni a Chyfleustodau | 1,270 | | 4,633 | |
| Iechyd a Gofal | 13,363 | | 9,365 | |
| Technoleg Gwybodaeth | 7,670 | | 6,540 | |
| Arall | 9,234 | | 11,403 | |
| Gwarantau dyled | | 30,975 | | |
| Buddsoddiadau Ecwiti Preifat | | 9,418 | | 9,514 |
| Ecwiti | 47,045 | 68,204 | 51,353 | 63,910 |
| Bondiau | | - | | 31,154 |
| Isadeiledd | | 1,929 | | 1,061 |
| Eiddo Tiriog | | | | |
| Eiddo yn y DU | 4,423 | 19,514 | | 21,580 |
| Eiddo dramor | | 438 | | 651 |
| **Cyfanswm Gwerth yr holl Asedau** | 101,292 | 130,478 | 97,091 | 127,870 |
| **Cyfanswm Gwerth yr Asedau Gweithredol ac Anweithredol** | | **231,770** | | **224,961** |

**Prif gategorïau asedau'r cynllun fel canran o asedau'r cynllun cyfan**

Mae asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cynnwys y categorïau canlynol, yn ôl y gyfran o'r asedau cyfan a ddelir:-

| | 31 Mawrth 2016 | 31 Mawrth 2015 |
|---|---|---|
| Arian a chyfwerthoedd arian | 3% | 2% |
| **Buddsoddiadau ecwiti (yn ôl y math o ddiwydiant)** | 0% | 0% |
| Defnyddwyr | 3% | 3% |
| Ynni a chyfleustodau | 1% | 2% |
| Sefydliadau Ariannol | 2% | 2% |
| Iechyd a Gofal | 6% | 4% |
| Technoleg Gwybodaeth | 3% | 3% |
| Arall | 4% | 5% |
| Ecwiti preifat | 4% | 4% |
| **Gwarantau dyled arall** | 13% | 0% |
| **Cronfeydd Buddsoddi ac Unedau Buddsoddi** | | |
| Ecwiti | 50% | 51% |
| Bondiau | 0% | 14% |
| Isadeiledd | 1% | 0% |
| **Eiddo Tiriog** | | |
| Eiddo | 10% | 10% |
| Eiddo Tramor | - | - |
| **Cyfanswm** | 100% | 100% |

## ch. Hanes y Cynllun

Dadansoddiad o asedau a rhwymedigaethau'r cynllun

| | 31-Maw-16 £'000 | 31-Maw-15 £'000 | 31-Maw-14 £'000 | 31-Maw-13 £'000 | 31-Maw-12 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwerth Presennol Asedau'r Cynllun | **231,770** | **224,961** | **199,636** | **190,773** | **167,224** |
| Gwerth Presennol Ymrwymiadau'r Cynllun | **(326,792)** | **(350,438)** | **(290,788)** | **(270,807)** | **(230,971)** |
| **Diffyg yn y Cynllun** | **(95,022)** | **(125,477)** | **(91,152)** | **(80,034)** | **(63,747)** |

Mae'r rhwymedigaethau yn dangos maint y rhwymedigaethau gwaelodol sydd gan y Cyngor i'w talu yn yr hirdymor i dalu buddiannau ymddeoliad. Mae'r cyfanswm rhwymedigaeth budd diffinedig presennol o £326.8m yn cael effaith sylweddol ar werth net y Cyngor fel y'i cofnodwyd yn y Fantolen, yn arwain at rwymedigaeth net o £95m.

Fodd bynnag, mae'r trefniadau statudol ar gyfer ariannu'r diffyg yn golygu bod sefyllfa ariannol y Cyngor yn parhau i fod yn iach. Bydd y diffyg yng Nghynllun Pensiwn Gwynedd yn cael ei adennill drwy gynyddu'r cyfraniadau, fel yr asesir gan actwari'r cynllun, dros weddill oes waith y gweithwyr.

**d) Y Prif Ragdybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr Actiwari oedd:-**

| | 2015/16 | 2014/15 |
|---|---|---|
| **Rhagdybiaethau Marwoledd** | | |
| *Hirhoedledd yn 65 bensiynwyr presennoi:* | | |
| Dynion | 22.0 years | 22.0 years |
| Merched | 24.0 years | 24.0 years |
| *Hirhoediedd yn 65 bensiynwyr dyfodol:* | | |
| Dynion | 24.4 years | 24.4 years |
| Merched | 26.6 years | 26.6 years |
| | | |
| Graddfa Cynnydd Chwyddiant Pensiwn | 2.20% | 2.40% |
| Gradda cynndd mewn cyflogau | 4.20% | 4.30% |
| Dychweliad disgwyliedig ar yr asedau | 2.50% | 12.30% |
| Graddfa didisgownt | 3.50% | 3.20% |
| | | |
| **Defnyddio'r opsiwn I drosi pensiwn blynyddol I lwmp swm ymddeoliad:** | | |
| Gwasanaeth I Ebrill 2008 | 50.00% | 50.00% |
| Gwasaneath ôl Ebrill 2008 | 75.00% | 75.00% |

**dd) Dadansoddiad Sensitifrwydd**

Mae'r dadansoddiad sensitifrwydd isod yn seiliedig ar newidiadau posibl i'r rhagdybiaethau a all, yn rhesymol, ddigwydd ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Ar gyfer pob newid mewn rhagdybiaeth, mae'n cymryd yn ganiataol bod yr holl ragdybiaethau eraill yn gyson. Mae'r dadansoddiad o sensifitrwydd yn dangos y gallai gostyngiad 0.5% yn y gyfradd ddisgownt wirioneddol oherwydd newidiadau posibl yn y farchnad, gynyddu rhwymedigaethau'r gronfa gan £36.2m oherwydd rhoddir gwerth uwch ar fuddiannau a delir yn y dyfodol. Mae ansicrwydd hefyd ynghylch disgwyliad oes. Dengys y dadansoddiad sensitifrwydd y gall cynnydd o flwyddyn yn nisgwyliad oes yr aelodau gynyddu rhwymedigaethau'r gronfa gan £9.8m. Gallai cynnydd 0.5% mewn cyflogau olygu cynnydd o £12.7m yng nghostau'r gronfa. Gallai cynnydd 0.5% yn y gyfradd bensiynau olygu cynnydd o £22.7m mewn rhwymedigaethau. Mae'r amcanbrisiau yn y dadansoddiad sensitifrwydd wedi cael eu gweithio allan yn unol â thybiaethau actiwaraidd proffesiynol, IAS19 a FRS102.

| Newid Mewn Tybiaethau fel ar 31 Mawrth 2016 | % Cynnydd i Gyflogwyr yn Fras | Swm Ariannol Bras £'000 |
|---|---|---|
| lleihad o 0.5% yn y gyfradd ddisgownt real | 11% | 36,217 |
| cynnydd o 1 blwyddyn o ran disgwyliad oes aelodau | 3% | 9,804 |
| cynnydd o 0.5 % yn y gyfradd cynnydd cyflog | 4% | 12,720 |
| cynnydd o 0.5 % yn y gyfradd cynnydd pensiwn | 7% | 22,696 |

**e) Yr Effaith ar Lif Arian yr Awdurdod**

Amcan y cynllun yw cadw cyfraniadau'r cyflogwr ar gyfradd sydd mor gyson ag y gall fod. Mae gan y Cyngor strategaeth gydag actiwari'r cynllun i sicrhau lefel gyllido o 100% yn ystod yr 20 mlynedd nesaf.  Caiff lefelau cyllido eu monitro'n flynyddol. Caiff y prisiad tairblwyddol nesaf ei gwblhau erbyn 31 Mawrth 2019.

Bydd angen i'r cynllun gymryd i ystyriaeth y newidiadau cenedlaethol i'r cynllun dan Ddeddf Gwasanaethau Pensiynau Cyhoeddus 2013.

Yn unol â'r Ddeddf, efallai na fydd y CPLlL yn Lloegr a Chymru, a'r prif gynlluniau cyfredol eraill ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, yn darparu buddiannau ar gyfer gwasanaeth ar ôl 31 Mawrth 2014 (neu Wasanaeth ar ôl 31 Mawrth 2015 yn achos y prif gynlluniau pensiwn eraill ar gyfer gwasanaeth cyhoeddus yn Lloegr a Chymru). Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaeth ar gyfer rheoleiddio'r cynllun mewn fframwaith cyffredinol er mwyn sefydlu cynlluniau yn seiliedig ar yr enillion cyfartalog yn ystod gyrfa wedi eu hailbrisio er mwyn talu pensiynau a buddiannau eraill.

Mae'r rhwymedigaethau'n dangos yr ymrwymiad sydd ar y Cyngor yn y tymor hir i dalu buddiannau ôl-gyflogaeth (ymddeoliad). Mae'r rhwymedigaeth net o £95.02m yn cael effaith sylweddol ar werth net y Cyngor fel y cafodd ei gofnodi yn y Fantolen.  Fodd bynnag, mae trefniadau statudol ar gyfer cyllido'r diffyg yn golygu fod sefyllfa ariannol y Cyngor yn parhau i fod yn iach.

Gwneir iawn am y diffyg yn y cynllun llywodraeth leol drwy gynyddu'r cyfraniadau dros weddill oes gweithio'r gweithwyr (h.y. cyn y bydd y taliadau'n ddyledus) yn unol ag asesiad actiwari'r cynllun; nid oes angen cyllid ond i gwrdd â chostau buddiannau dewisol pan fydd y pensiynau'n cael eu talu.

**f) Amcangyfrif o'r cyfraniadau i'w talu i Gronfa Bensiwn Gwynedd yn 2016/17**

Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd yn talu cyfraniad o £7.9m i'r cynllun yn 2016/17. Mae hyd cyfartalog rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig ar gyfer aelodau'r cynllun ar ôl ei bwysoli yn 19.4 o flynyddoedd.

Y swm sy'n ddyledus i Gyngor Gwynedd mewn perthynas â chyfraniadau CPLlL am 2015/16 ar 31 Mawrth 2016 yw £0.977m ac mae wedi ei gynnwys yn y nodyn datgelu o ran credydwyr tymor byr.

## NODYN 42 – RHWYMEDIGAETHAU AMODOL

### Tâl Cyfartal, Statws Sengl ac Arfarnu Swyddi

Mae'r Cyngor yn wynebu nifer o hawliadau cyflog cyfartal gan weithwyr presennol a chan gyn-weithwyr. Efallai bydd rhai o'r hawliadau yma'n cael eu setlo ond ni wyddys i sicrwydd faint fydd y swm terfynol a fydd yn daladwy oherwydd amrywiadau posibl yn y symiau setlo yn achos hawliau cyfredol ac oherwydd y posibilrwydd y caiff hawliadau pellach eu cyflwyno.

### Adran 117 Deddf Iechyd Meddwl 1983

Yn dilyn dyfarniadau a gadarnhawyd yn Nhwr Arglwyddi ac adroddiad diweddar gan Ombwdsmon Llywodraeth Leol ar achosion prawf mewn lleoedd eraill, nid oedd grym i godi am wasanaethau a ddarparwyd dan Adran 117 y Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, ac mae'r Cyngor yn gorfod ad-dalu costau o'r fath. Er bod nifer o achosion wedi cael eu setlo, mae cyfanswm yr ymrwymiad hwn yn anodd ei gyfrifo ond mae swm wedi ei neilltuo mewn cronfa wrth gefn glustnodedig ar gyfer ad-daliadau o'r fath, ond ni wyddys i sicrwydd ar hyn o bryd faint fydd yr ymrwymiad terfynol.

**Hawliadau Chwilota Eiddo**

Ceisiodd grwp o gwmniau chwilota eiddo hawlio ad-daliad o ffioedd a dalwyd i’r Cyngor i weld data pridiannau tir. Mae’r partion wedi dod i gytundeb ar y ceisiadau. Mae’r Cyngor wedi cytuno i dalu costau cyfreithiol y cwmniau chwilota eiddo yn amodol ar asesiad manwl drwy gyfrwng agwedd cost y cais dim ond os nad yw trafodion yn cael eu cytuno. Mae'r Cyngor yn cynnal trafodaethau gyda'r hawlwyr am yr agwedd cost y ceisiadau. Ar hyn o bryd nid yw’n bosibl rhoi gwerth terfynol ar rhwymedigaethau posibl felly mae’r Cyngor yn cysidro hyn i fod yn rhwymedigaeth wrth gefn.”
(1) [1]Bevan Brittan LLP, 2015, Cyngor cyffredinol am gyfrifon awdurdodau wedi eu cyhoeddi â’r hawliadau chwilio am eiddo, Llundain.

## NODYN 43 – ASEDAU AMODOL

Mae’r Cyngor yn cadw nifer o bridiannau cyfreithiol dros eiddo preswyl â pherchenogion preifat, lle darparwyd cefnogaeth i’r prynwyr dan gynlluniau ar gyfer prynu tai â chefnogaeth, gyda’r Cyngor hefo’r hawl am ran o’r enillon ar werthiant yr eiddo. Ar 31 Mawrth 2016, roedd 108 eiddo o’r fath a rhagamcanwyd mai’r uchafswm a ellid, o bosib, ei dderbyn oedd tua £3.795m. Fodd bynnag, bydd amrywiaeth yn y gwir swm a dderbynnir, yn seiliedig ar brisiau gwerthu'r eiddo unigol a natur unrhyw alwadau cyfreithiol arall yn eu herbyn ac, efallai, bydd yn cymryd blaenoriaeth dros bridiant y Cyngor. Mae amseru unrhyw dderbyniadau yn ddibynnol ar unrhyw werthiannau.

## NODYN 44 – OFFERYNNAU ARIANNOL

Mae’r categorïau canlynol o Offerynnau Ariannol yn cael eu cario yn y Fantolen:-

| | Tymor hir | | Cyfredol | |
|---|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2016 | 31 Mawrth 2015 | 31 Mawrth 2016 | 31 Mawrth 2015 |
| **Balansau Arian parod** | | | | |
| Adneuon banc | - | - | 17,844 | 13,208 |
| | | - | - | - |
| **Cyfanswm arian a buddsoddiadau** | **-** | **-** | **17,844** | **13,208** |
| **Dyledwyr** | | | | |
| Benthyciadau a Derbyniadau | 688 | 430 | 8,113 | 5,082 |
| **Cyfanswm Dyledwyr** | **688** | **430** | **8,113** | **5,082** |
| **Benthyciadau** | | | | |
| Rhwymedigaethau Ariannol ar gost amorteiddio | 110,735 | 89,575 | 9 | 1,725 |
| **Cyfanswm Benthyciadau** | **110,735** | **89,575** | **9** | **1,725** |
| **Credydwyr** | | | | |
| Rhwymedigaethau Ariannol ar gost amorteiddio | - | - | 15,700 | 10,289 |
| **Cyfanswm Credydwyr** | **-** | **-** | **15,700** | **10,289** |

Nid yw dyledwyr a chredydwyr yn y tabl hwn yn cynnwys trafodion gydag adrannau’r llywodraeth, gwerth damcaniaethol yr absenoldebau sydd wedi cronni ac sy’n ddyledus i staff ac incwm a thaliadau’n codi o drethi sy’n golygu, hefyd, fod trafodion sy’n ymwneud â’r dreth gyngor a threthi busnes hefyd wedi eu gadael allan.

## Incwm, Gwariant, Enillion a Cholledion

Caiff yr enillion a'r colledion a gydnabyddir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr mewn perthynas ag offerynnau ariannol eu mesur fel a ganlyn:-

| | 2015/16 | | | 2014/15 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhwymedigaethau Ariannol wedi'u mesur ar gost lai amorteiddio cronedig £'000 | Asedau Ariannol Benthyciadau a derbyniadau wedi eu hailddatgan £'000 | Cyfanswm £'000 | Rhwymedigaethau Ariannol wedi'u mesur ar gost lai amorteiddio cronedig £'000 | Asedau Ariannol Benthyciadau a derbyniadau wedi eu hailddatgan £'000 | Cyfanswm £'000 |
| Treuliau llog | 5,985 | - | 5,985 | 5,117 | - | 5,117 |
| **Cyfanswm treuliau mewn Gwarged neu Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | **5,985** | **-** | **5,985** | **5,117** | **-** | **5,117** |
| Incwm llog | - | (88) | (88) | - | (91) | (91) |
| **Cyfanswm incwm mewn Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | **-** | **(88)** | **(88)** | **-** | **(91)** | **(91)** |
| **Enilliad/(Colled) Net am y flwyddyn** | **5,985** | **(88)** | **5,897** | **5,117** | **(91)** | **5,026** |

## Gwerth Teg Asedau a Rhwymedigaethau

Mae rhwymedigaethau ariannol, a gynrychiolir gan fenthyca, a chredydwyr ac asedau ariannol, a gynrychiolir gan fenthyciadau a derbyniadau, a dyledwyr tymor hir yn cael eu cario yn y Fantolen ar gost amorteiddio. Gellir asesu eu gwerth teg trwy gyfrifo gwerth presennol y llif arian a fydd yn digwydd dros weddill tymor yr offerynnau, gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau canlynol:-

- Amrediad amcangyfrifiedig graddfeydd llog ar 31 Mawrth 2016 o 1.33% i 3.12% ar gyfer benthyciadau o'r Bwrdd Benthyca Gwaith Cyhoeddus (PWLB) yn seiliedig ar y graddfeydd benthyca newydd ar gyfer benthyciadau cyfatebol ar y dyddiad hwnnw;
- Ni chydnabyddir ad-daliad cynnar neu amhariad;
- Pan fo offeryn yn aeddfedu yn y deuddeng mis nesaf, tybir bod y swm sy'n cael ei gario yn cyfateb yn fras i werth teg;
- Cymerir bod gwerth teg dyledwyr a chredydwyr tymor byr yn cyfateb i'r swm y maent yn eu cario ar ddyddiad y Fantolen.

Dadansoddiad benthyciadau yn ôl dyddiad aeddfedu:-

| | 2015/16 Prifswm Gweddillol £'000 | 2015/16 Llog wedi Cronni £'000 | 2015/16 Cost lai Amorteiddio Cronedig £'000 | 2014/15 Prifswm Gweddillol £'000 | 2014/15 Llog wedi Cronni £'000 | 2014/15 Cost lai Amorteiddio Cronedig £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| >25 blwyddyn | 66,508 | - | 66,508 | 55,515 | - | 55,515 |
| 15-25 blwyddyn | 14,056 | - | 14,056 | 6,312 | - | 6,312 |
| 10-15 blwyddyn | 5,905 | - | 5,905 | 3,494 | - | 3,494 |
| 5-10 blwyddyn | 4,222 | - | 4,222 | 8,714 | - | 8,714 |
| 2-5 blwyddyn | 14,534 | - | 14,534 | 15,531 | - | 15,531 |
| 1-2 blwyddyn | 5,510 | - | 5,510 | 9 | - | 9 |
| **Cyfanswm y benthyciadau tymor hir** | **110,735** | **-** | **110,735** | **89,575** | **-** | **89,575** |
| **Cyfanswm Benthyciadau Tymor Byr (< 1 blwyddyn)** | **9** | **2,119** | **2,128** | **7** | **1,681** | **1,688** |

Mae'r gwerth teg a gyfrifir fel a ganlyn:-

| | 31 Mawrth 2016 | | 31 Mawrth 2015 | |
|---|---|---|---|---|
| | Swm Cario | Gwerth Teg | Swm Cario | Gwerth Teg |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rhwymedigaethau Ariannol | 110,744 | 181,649 | 90,386 | 130,719 |
| Credydwyr Tymor Hir | - | - | 55 | 55 |

| | 31 Mawrth 2016 | | 31 Mawrth 2015 | |
|---|---|---|---|---|
| | Swm Cario | Gwerth Teg | Swm Cario | Gwerth Teg |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Benthyciadau a derbyniadau | 17,844 | 17,878 | 13,638 | 13,663 |

Mae gwerth teg y rhwymedigaethau yn fwy na'r swm cario oherwydd bod portffolio'r Cyngor o fenthyciadau yn cynnwys nifer o fenthyciadau graddfa sefydlog ble mae'r raddfa llog yn uwch na'r graddfeydd cyffredinol ar ddyddiad y Fantolen. Mae'r ymrwymiad hwn i dalu llog uwchben y graddfeydd marchnad bresennol yn cynyddu faint sydd raid i'r Cyngor ei dalu, pe gofynnai'r benthyciwr am, neu y cytunai ar, ad-daliad cynnar o'r benthyciadau.

Mae gwerth teg yr asedau yn fwy na'r swm cario oherwydd bod portffolio'r Cyngor o fuddsoddiadau'n cynnwys nifer o fenthyciadau graddfa sefydlog ble mae'r raddfa llog a dderbynnir yn uwch na'r graddfeydd sydd ar gael ar gyfer benthyciadau tebyg ar ddyddiad y Fantolen. Dengys hyn enilliad tybiannol i'r dyfodol (wedi'i seilio ar amodau economaidd ar 31 Mawrth 2016) y priodolir i'r ymrwymiad i dderbyn llog uwchlaw'r graddfeydd marchnad bresennol.

**NODYN 45 – NATUR A MAINT Y RISGIAU SY'N DEILLIO O OFFERYNNAU ARIANNOL**

Mae gwaith y Cyngor yn golygu ei fod yn agored i sawl risg ariannol:-

**Risg Credyd** - y posibilrwydd bod partïon eraill yn methu â thalu'r symiau dyledus i'r Cyngor.

**Risg Hylifedd** - y posibilrwydd na fydd yr arian gan y Cyngor i gwrdd ag ymrwymiadau yng nghyswllt taliadau.

**Risg y Farchnad** - y posibilrwydd y bydd y Cyngor yn wynebu colled ariannol oherwydd newidiadau mewn mesurau megis cyfraddau llog a symudiadau yn y farchnad stoc.

Mae'r rheolaeth gyffredinol dros risgiau sylweddol sy'n codi o'r Offerynnau Ariannol yn cael cefnogaeth Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys y Cyngor a hefyd y Strategaeth Buddsoddi Blynyddol sydd wedi ei chymeradwyo gan y Cyngor Llawn.

**Risg Credyd**

Mae risg credyd yn codi oherwydd yr adneuon mewn banciau a sefydliadau ariannol, ond hefyd oherwydd credyd i gwsmeriaid y Cyngor (dyledwyr ar y Fantolen).

Nid ydym yn trefnu adneuon gyda banciau a sefydliadau ariannol oni bai eu bod, ar ôl cael eu harchwilio'n annibynnol, wedi cael graddfa credyd digonol neu lefel o warant llywodraeth, a phenderfynir ar uchafsymiau credyd i bob gwrthbarti. Gosododd y Cyngor nifer o gyfyngiadau yn seiliedig ar raddfeydd credyd ar gyfer gwahanol gyrff, gwahanol gyfnodau a symiau, ac mae ganddo bolisi o beidio â benthyca rhagor na £10m i unrhyw un sefydliad heblaw am lywodraeth y DU. Mae'n monitro cyfraddau credyd yn gyson a chaiff rybudd o unrhyw newidiadau gan ei ymgynghorwyr Rheoli'r Trysorlys. Cymerir camau priodol yn sgil unrhyw newid gan ddilyn y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol. Paratoir Adroddiad Trysorlys Blynyddol sy'n manylu ar y gwaith buddsoddi.

Mae'r dadansoddiad a ganlyn yn crynhoi'r potensial i'r Cyngor fod yn agored i risg credyd, yn seiliedig ar brofiad o ddiffygion a medru casglu dros yr ugain mlynedd diwethaf.

**Amcangyfrif o Swm Uchaf y Diffyg a Dyledion Anghasgladwy**

| | Swm £000 | Profiad hanesyddol o ddiffyg talu % | Amcangyfrif Datguddiad Uchafswm 2015/16 £000 | Amcangyfrif Datguddiad Uchafswm 2014/15 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Banciau a Chyrff Ariannol (dim wedi Gwladoli) | 16,243 | - | - | - |
| Banciau DU sydd Wedi Gwladoli/ Gwladoli'n Rhannol | 1 | - | - | - |
| Awdurdodau Lleol y DU | - | - | - | - |
| | - | - | - | - |
| **Dyledwyr masnach dan 1 flwyddyn** | **2,054** | **10** | **205** | **75** |
| **Dyledwyr masnach rhwng 1-2 flynedd** | **67** | **20** | **13** | **16** |
| **Dyledwyr masnach rhwng 2-6 blynedd** | **179** | **30-70** | **125** | **24** |
| **Dyledwyr masnach 6+ blwyddyn** | **23** | **100** | **23** | **5** |
| **Cyfanswm dyledwyr masnach** | **2,323** | | **366** | **120** |

Roedd yr holl adneuon a oedd yn sefyll ar ddiwedd y flwyddyn wedi eu gwneud yn wreiddiol am lai na blwyddyn.

Ni aethpwyd tu draw i unrhyw uchafswm credyd yn ystod y flwyddyn ariannol ac ni thorrwyd unrhyw feini prawf gwrthbartïon. Nid yw'r Cyngor yn disgwyl y bydd unrhyw golledion oherwydd bod unrhyw un o'i wrthbartïon yn methu â pherfformio yng nghyswllt adneuon. Mae'r argyfwng credyd presennol wedi cynyddu'r posibilrwydd o fethu talu ac, mewn ymateb i hynny, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu meini prawf credyd llymach ar gyfer gwrthbartïon buddsoddi o fewn ei bolisi cyffredinol.

Creodd canlyniad y refferendwm UE i adael yr Undeb Ewropeaidd sioc economaidd sy'n effeithio ar farchnadoedd a llawer agwedd o'r economi. Fe hisraddwyd cyfraddau rhagolygon tymor hir ar gyfer banciau'r DU gyfan i agwedd negyddol. Byddai cwymp yn y sector bancio yn tanseilio'r adneuon a ddelir mewn banciau yn y DU (£16.243m ar 31/03/16). Mae hyn yn cael ei fonitro'n agos ac y mae statws credyd y banciau lle mae'r Awdurdod yn dal adneuon yn parhau i fod yn galonogol ac ar lefel dderbyniol, yn unol â'r Strategaeth Rheoli Trysorlys. Os bydd y statws credyd yn disgyn yn is na'r lefel dderbyniol, bydd yr Awdurdod yn ceisio rhoi y balansau mewn buddsoddiadau eraill, bydd rhaid iddynt fod yn unol â'r Strategaeth Rholi Trysorlys. Bydd y gostyngiad yn y cyfradd banc swyddogol o 0.50% i 0.25% am 2017/18 yn lleihau'r llog derbyniadwy ar adneuon.

Mae'r dyledwyr masnachol a ddangosir yn y rhan hon yn ymwneud â dyledion sy'n cael eu casglu drwy system mân-ddyledion y Cyngor yn unig. Mae'r ffigyrau dyledwyr a ddangosir yn nodyn 24 y Datganiad yn cyfeirio at y swm llawn sy'n ddyledus i'r Cyngor o bob ffynhonnell, gan gynnwys grantiau'r llywodraeth, y dreth gyngor a threthi busnes, a gaiff eu casglu ar wahân i'r mân-ddyledion.

Nid yw'r Cyngor fel rheol yn caniatáu credyd i gwsmeriaid; mae gan y Cyngor weithdrefnau casglu rhagnodedig ar gyfer symiau dyledus gan gwsmeriaid a gwneir darpariaethau priodol ar gyfer dyledion a allai fod yn rhai drwg. Mewn rhai amgylchiadau, mae'r Cyngor yn cael pridiant cyfreithiol ar eiddo ar gyfer rhai dyledion gohiriedig fel hunan gyllidwyr mewn cartrefi gofal.

Gellir dadansoddi dyledwyr masnach y Cyngor yn ôl oed fel a ganlyn:-

| | 31 Mawrth 2016 £'000 | 31 Mawrth 2015 £'000 |
|---|---|---|
| Llai na chwe mis | 1,928 | 667 |
| Chwe mis i flwyddyn | 125 | 85 |
| Dros Flwyddyn | 269 | 123 |
| **Cyfanswm** | **2,323** | **875** |

Yn ogystal, mae gan y Cyngor nifer o ddyledwyr tymor hirach, gan gynnwys benthyciadau ceir i staff a morgeisi gweddilliol o gynllun caeedig yn cynnig benthyciadau cartrefi i denantiaid ac i aelodau'r cyhoedd. Ystyrir bod y benthyciadau ceir yn rhai risg isel oherwydd bod modd tynnu ad-daliadau am y benthyciadau geir o gyflogau'r gweithwyr, a hefyd mae trefniadau cilyddol gydag awdurdodau lleol eraill ar gyfer staff sy'n trosglwyddo ac yn symud gyda dyledion ar eu benthyciadau ceir, yswiriant ar gyfer benthyciadau heb eu had-dalu oherwydd marwolaeth mewn gwasanaeth a hefyd trefniadau arferol i hawlio dyledion yn ôl yng nghyswllt gweithwyr sy'n gadael eu swyddi mewn llywodraeth leol. Mae’r morgeisi yn rhai risg isel oherwydd bod y Cyngor yn diogelu'r hawl gyntaf ar yr eiddo morgeisiedig.

**Risg Hylifedd**

Mae Risg Hylifedd yn isel am nad yw’r Cyngor yn y gorffennol wedi cael unrhyw broblem cael arian ac mae'n rhydd i fynd at y Bwrdd Benthyca ar gyfer Gwaith Cyhoeddus (PWLB) fel corff i fenthyca oddi arno ar ôl methu fel arall. Prif nodau’r Strategaeth Rheoli Trysorlys yw i sicrhau bod yr Awdurdod yn agored i risg isel ac i sicrhau hylifedd. Mae’r rhan fwyaf o fuddsoddiadau’r Awurdod mewn cyfrifon adneuon mynediad yn syth Felly, mae llai o risg y bydd yn methu â chodi'r arian i gwrdd â'i ymrwymiadau dan yr offerynnau ariannol. Fodd bynnag, yn aml, mae risg y bydd y Cyngor yn gorfod adnewyddu cyfran sylweddol o'i fenthyciadau ar adeg pan fo'r cyfraddau llog uchel. Yr arfer yw ceisio sicrhau na fydd rhagor na 20% o'r benthyciadau i'w had-dalu mewn unrhyw gyfnod o 2 flynedd, ac asesu’n gyson gyfraddau'r farchnad a'r rhagolygon er mwyn trefnu benthyciadau newydd yn lle’r rhai sy'n aeddfedu neu ar gyfer ad-drefnu'r benthyciadau presennol ar yr adeg fwyaf manteisiol. Byddai’r cyfraddau llog isel cyfredol yn gostwng cyfraddau llog ar fenthyciadau newydd a gymerir iad-dalu’r ddyled sy’n aeddfedu. I gyflawni'r nod hwn, mae'r Cyngor yn defnyddio cynghorwyr rheoli'r trysorlys allanol. Dangosir dadansoddiad aeddfedu benthyciadau sy'n sefyll yn nodyn 44. Mae holl daliadau masnachol a thaliadau eraill yn daladwy mewn llai na blwyddyn.

**Risg y Farchnad**

**Risg Cyfraddau Llog** - Mae'r Cyngor yn wynebu risg posibl pan fo symudiadau ymhlith cyfraddau llog ar ei fenthyciadau a buddsoddiadau. Mae unrhyw symudiad yn y cyfraddau llog yn cael effaith gymhleth ar y Cyngor. Er enghraifft, byddai cynnydd yn y cyfraddau llog yn cael yr effaith a ganlyn:-

- Bbenthyciadau ar gyfraddau amrywiol - byddai cynnydd yn y treuliau llog a godir ar y Gwarged neu Ddiffyg ar y Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr;
- Bbenthyciadau ar gyfraddau sefydlog - ceid gostyngiad yn rhwymedigaethau gwerth teg y benthyciadau;
- Buddsoddiadau ar gyfraddau amrywiol – byddai cynnydd yn yr incwm llog wedi’u gredydu i’r Gwarged neu Ddiffyg ar y Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr;
- Buddsoddiadau ar gyfraddau sefydlog - gwelid gostyngiad yng ngwerth teg yr asedau.

Nid yw benthyciadau'n cael eu cario ar werth teg, felly ni fyddai enillion a cholledion nominal ar fenthyciadau graddfa sefydlog yn effeithio ar y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau neu Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall. Fodd bynnag, bydd newidiadau yn y llog sy'n daladwy neu'n dderbyniadwy ar fenthyciadau a buddsoddiadau graddfa amrywiol yn cael eu postio i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau ac yn effeithio ar Falans Cronfa'r Cyngor.

Mae gan y Cyngor nifer o strategaethau i reoli risg cyfraddau llog. Polisi'r Cyngor yw benthyca'n bennaf yn ôl cyfraddau sefydlog, er mwyn cael sicrwydd beth fydd y llog taladwy dros gyfnod y benthyciadau. Mae'r Cyngor, gyda chefnogaeth ei gynghorwyr trysorlys, yn monitro'n barhaus y cyfraddau llog ar y pryd a rhagolygon y farchnad. Pe ceid risg sylweddol o godiad sydyn yn y cyfraddau llog tymhorau hir a byr, yna ailasesid y sefyllfa portffolio ac mae'n debygol y byddai hynny'n arwain, fel arfer, at godi cyllid cyfraddau sefydlog tra bo cyfraddau llog yn dal i fod yn gymharol rhad. Pe ceid risg sylweddol o ostyngiad sydyn yn y cyfraddau llog tymor hir a byr, yna câi benthyciadau tymor hir eu gohirio a symud ymlaen i ad-drefnu a symud o gyllid cyfraddau sefydlog i gyllid cyfraddau tymor byr.

Mae'r cyfan o holl fenthyciadau'r Cyngor a'i adneuon banc ar hyn o bryd ar gyfraddau sefydlog.

Mae canlyniad Refferendwm y UE wedi cael effaith bositif ar gost benthyca yn dilyn gostyngiad Banc Lloegr yng nghyfradd llog swyddogol y banc o 0.50% i 0.25%.

**Risg Cyfnewid Arian Tramor** – Mae gan y Cyngor nifer o gynlluniau cymorth grant cymharol fach dan raglen 'Interreg' ble bo'r corff arweiniol yn sefydliad Gwyddelig, ac mae'r grantiau mewn arian Ewro. Agorwyd cyfrif banc Ewro i gefnogi'r cynlluniau hyn ac i leihau effaith symudiadau mewn graddfeydd cyfnewid. Roedd y balans ar y cyfrif hwn ar ddiwedd y flwyddyn yn 437 Ewro (£346) (1.541m Ewro yn 2014/15: cyfateb i £1.116m yn 2014/15).

**NODYN 46 – CYD-BWYLLGORAU**

Mae'r Cyngor a Chyngor Gwynedd yn rhan o'r is-bwyllgorau isod:-

- Pwyllgor Cynllunio ar y Cyd
- Cyd-bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig

Mae'r Cyngor a Chynghorau Gwynedd, Conwy, Fflint, Wrecsam a Sir Ddinbych yn rhan o gydbwyllgor Gwe (Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol).

Mae'r Cyngor a Chynghorau Fflint, Conwy, Sir Ddinbych a Gwynedd yn rhan o Gyd-bwyllgor Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru (NWRWTP).

Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am weithrediad y tri cyd-bwyllgor a chaiff y balansau diwedd blwyddyn eu hadlewyrchu yn eu Mantolen. Gellir gweld cyfrifon am 2015/16 i'r cyd-bwyllgorau yma drwy ddilyn y linciau isod

**Cyd-Bwyllgor Cynllunio**

https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Strategies-and-policies/Environment-and-planning/Planning-policy/Joint-Local-Development-Plan/Joint-Local-Development-Plan.aspx

**Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysg Arbennig**

https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Performance-and-spending/Budgets-and-finance/Statement-of-Accounts/Special-Educational-Needs-Joint-Committee.aspx

**GwE**

https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Performance-and-spending/Budgets-and-finance/Statement-of-Accounts/GwE-Joint-Committee.aspx

Cyngor Fflint sy'n gyfrifol am weithrediad y cyd-bwyllgor NWRWTP a chaiff y balansau diwedd blwyddyn eu hadlewyrchu yn eu Mantolen. Gwelwch y cyfrifon i'r cyd-bwyllgor yma unwaith y byddant wedi eu cyhoeddi dwy ddilyn y linc isod. .

http://www.nwrwtp.com/home

## NODYN 47 – TROI TAI'N GARTREFI

Mae'r chwe chyngor yng Ngogledd Cymru yn gweithredu fel asiantiaid Llywodraeth Cymru i ddarparu benthyciadau ailgylchadwy dan y Cynllun Troi Tai'n Gartrefi, ar gyfer trwsio eiddo sydd wedi bod yn wag yn y tymor hir gyda'r nod o ddod â nhw yn ôl i ddefnydd. Cyngor Sir Y Fflint yw'r awdurdod arweiniol/bancio ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru ac mae'n gyfrifol am weinyddu'r gronfa. Ni chafwyd unrhyw arian pellach yn 2015/16 gan Lywodraeth Cymru, ond roedd y taliadau yn erbyn y gronfa yn 2014/15 yn £0.426m ac, o'r swm hwnnw, neilltuwyd £0.075m i'r Cyngor hwn.

## NODYN 48 – Y DRETH GYNGOR

Mae incwm y Dreth Gyngor yn deillio o godi ar werth eiddo preswyl, ac mae'r gwerth hwnnw wedi ei rannu'n naw band yr amcangyfrifwyd eu gwerth ar 1 Ebrill 2003 i'r pwrpas penodol hwn. Penderfynir ar y taliadau trwy amcangyfrif faint o incwm y bydd raid i'r Cyngor ac Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru ei gael dros y flwyddyn nesaf ac wedyn rhennir y swm gyda'r sylfaen i'r Dreth Gyngor. Sylfaen y Dreth Gyngor yw cyfanswm nifer yr anheddau ym mhob band prisio gan addasu trwy gyfran a throsi'r nifer i'r hyn sy'n cyfateb i fand D ac addasu ar gyfer disgownt. Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer 2015/16 oedd £30,188.51 (£30,070.64 yn 2014/15).

Wedyn, mae'r swm i eiddo band D yn 2015/16, £1,296,08 (£1,242.77 yn 2014/15) yn cael ei luosi gan y gyfran a benodir i'r band penodol a bydd hynny wedyn, ar ôl caniatáu disgownt a budd-dal, yn rhoi'r swm unigol sy'n ddyledus.

Roedd biliau'r Dreth Gyngor yn seiliedig ar y lluosyddion isod i fandiau A i I:-

| **Band** | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **H** | **I** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Lluosydd** | 6/9 | 7/9 | 8/9 | 9/9 | 11/9 | 13/9 | 15/9 | 18/9 | 21/9 |

Caiff Sylfaen y Dreth Gyngor ei weithio allan fel a ganlyn:-

| **Band** | **A*** | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **H** | **I** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm Anheddau | 15 | 3970 | 5927 | 5910 | 6523 | 4966 | 2358 | 972 | 144 | 42 | **30,827** |
| Lluosydd | 5/9 | 6/9 | 7/9 | 8/9 | 9/9 | 11/9 | 13/9 | 15/9 | 18/9 | 21/9 | |
| Band "D" Cyfatebol | 8.33 | 2,646.67 | 4,609.50 | 5,253.56 | 6,522.50 | 6,069.56 | 3,406.00 | 1,620.00 | 287.00 | 96.83 | **30,519.95** |

| | 2015/16 | 2014/15 |
|---|---|---|
| Band D cyfatebol fel yr uchod | 30,519.95 | 30,400.28 |
| Cyfradd Gasglu | 98.50% | 98.50% |
| Band D cyfatebol diwygiedig | 30,062.15 | 29,944.28 |
| Eiddo'r Weinyddiaeth Amddiffyn – Band D cyfatebol | 126.36 | 126.36 |
| **Sylfaen y Dreth Gyngor am** | **30,188.51** | **30,070.64** |

Yn 2013/14, cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor i gymryd lle'r cynllun budd-daliadau'r Dreth Gyngor. Yn 2015/16, roedd 98% o'r gostyngiadau'r dreth gyngor a roddwyd i breswylwyr yn cael ei gyllido gan y grant Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor gan Lywodraeth Cymru a oedd werth £5.228m (gweler nodyn 14). Cyllidodd y Cyngor £0.115m (2%) o'r gostyngiadau'r dreth gyngor a roddwyd i breswylwyr.

| **Dadansoddiad o'r enillion net o'r Dreth Gyngor:** | **2015/16** | **2014/15** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| **Y Dreth Gyngor Gros** | **39,202** | **37,303** |
| Llai Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a roddwyd i breswylfeydd | (5,343) | (5,320) |
| **Treth Gyngor sy'n Gasgladwy** | **33,859** | **31,983** |
| Llai: darpariaeth ar gyfer diffyg-dalu nas cyfrifwyd amdano o'r blaen | (374) | (164) |
| **Enillion Net o'r Dreth Gyngor** | **33,485** | **31,819** |

## NODYN 49 – TRETHI CENEDLAETHOL ANNOMESTIG (TCA)

Mae'r TCA yn cael eu trefnu ar sail genedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru (LlC) yn pennu cyfradd – 48.2c yn 2015/16 (47.3c yn 2014/15), ac mae busnesau lleol yn talu trethi a gyfrifir trwy luosi gwerth ardrethol yr eiddo gyda'r swm uchod. Y Cyngor sy'n gyfrifol am gasglu trethi oddi ar drethdalwyr ei ardal ond wedyn mae'n trosglwyddo'r elw i'r Gronfa Genedlaethol o Drethi Annomestig dan weinyddiaeth Llywodraeth Cymru (LlC). Mae LlC yn ailddosbarthu'r symiau a delir yn ôl i awdurdodau lleol yn seiliedig ar swm penodol fesul pen o'r boblogaeth.

Roedd incwm TCA, ar ôl ystyried rhyddhad a darpariaethau (yn cynnwys Rhyddhad Trethi Busnesau Bach LlC), yn £10.636m yn 2015/16 (£13.034m yn 2014/15) yn seiliedig ar werth trethadwy ar ddiwedd y flwyddyn o £38.990m (£38.897 yn 2014/15).

Y gwerth trethadwy ar gyfartaledd ar gyfer y flwyddyn oedd £38.943m (£38.806m 2014/15).

| **Dadansoddiado'r enillion net o drethi annomestig:** | **2015/16** | **2014/15** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Trethi annomestig casgladwy | 10,636 | 13,034 |
| Cost lwfans casglu | (145) | (142) |
| Llog dalwyd ar ordaliadau | - | - |
| Darpariaeth ar gyfer dyledion drwg | (198) | (220) |
| Cyfraniad i gost rhyddhad trethi elusennol/dewisol | 57 | 57 |
| Taliadau i mewn i'r gronfa genedlaethol | **10,350** | **12,729** |
| Ailddosbarthu o'r gronfa genedlaethol | 20,472 | 22,124 |

**NODYN 50 – ARFOROL**

Mae’r Cyngor, fel Awdurdod Harbwr, yn gyfrifol am y gwasanaethau arforol canlynol: Biwmares, Fryars Bay, Glyn Garth, Porthaethwy, Traeth Coch, Harbwr Amlwch a Doc Pysgod Caergybi. Mae’r Rheoliadau Ymgymeriadau Statudol ar gyfer Harbyrau (Cyfrifon ac ati) 1983, rhif 931 yn eithrio awdurdodau harbwr gyda throsiant sy’n llai na £250,000 rhag gorfod paratoi cyfrifon ar wahân dan ddeddf Harbyrau 1964. Mae’r incwm a’r gwariant ar gyfer y gwasanaethau arforol hyn, felly’n cael eu cynnwys yn y cyfrifon hyn dan Priffyrdd, Ffyrdd a Thrafnidiaeth yn unol â SeRCOP CIPFA. Mae’r cyfrifon arforol, serch hynny, wedi eu neilltuo’n benodol ac mae unrhyw ddiffyg/gwarged sy’n cronni ar gyfer yr harbyrau hyn yn cael eu cadw yn y gronfa gyffredinol ar gyfer eu buddsoddi yn y gwasanaethau arforol yn y dyfodol neu i dalu symiau sy’n ddyledus i Gronfa’r Cyngor. Yn 2015/16, roedd y trosiant ar wasanaethau arforol yn £40,862. Roedd y costau a gafwyd yn ystod y flwyddyn yn £125,390 (sy’n cynnwys £58,671 o log ar fenthyciadau/ad-daliadau cyfalaf). Roedd balans y diffyg ar wasanaethau Arforol yn £401,119 ar 31 Mawrth 2016. Dyma’r swm sy’n ddyledus i gronfa gyffredinol y Cyngor gan y gwasanaethau Arforol.

## DATGANIAD ARIANNOL ATODOL
## CYFRIF REFENIW TAI

### Datganiad Incwm a Gwariant am y flwyddyn yn diweddu 31ain Mawrth 2016

| | 2015/16 £'000 | 2014/15 £'000 |
|---|---|---|
| **Incwm** | | |
| Incwm rhent gros: | | |
| -Rhenti preswyl | (14,308) | (13,908) |
| -Rhenti dibreswyl | (211) | (206) |
| -Taliadau am gyfleusterau a gwasanaethau | (215) | (16) |
| -Cyfraniadau tuag at wariant | (188) | (157) |
| | (166) | (148) |
| **Cyfanswm Incwm** | **(15,088)** | **(14,435)** |
| **Gwariant** | | |
| Atgyweiriadau a Cynnal a Chadw | 3,751 | 3,564 |
| Goruchwylio a Rheoli | | |
| -Cyffredinol | 2,591 | 2,606 |
| - Arbennig | 508 | 581 |
| Rhenti, Ardrethi a Trethi Eraill | 103 | 123 |
| Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai taladwy | - | 1,559 |
| Dibrisiant ac Amhariad Asedau nad ydynt yn gyfredol | 9,268 | 8,394 |
| Taliad I Llywodraeth Cymru - Prynu allan CRT | 21,169 | - |
| Ailbrisio Assedau | (134) | - |
| Costau rheoli dyled | 12 | 12 |
| Darpariaeth ar gyfer dyledion drwg | 51 | 66 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **37,322** | **16,905** |
| **Cost Net Gwasanaethau CRT** | **22,234** | **2,470** |
| Symudiad cronnus Absenoldebau Cronedig | (9) | (6) |
| **Cost Net Gwasanaethau CRT fel yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | **22,225** | **2,464** |
| Cyfran Gwasanaethau CRT o'r Costau Corfforaethol a Craidd Democrataidd | 56 | 56 |
| **Cost Net Gwasanaethau CRT** | **22,281** | **2,520** |
| Colled ar werthiant Asedau CRT nad ydynt yn gyfredol | (509) | (286) |
| Llog sy'n daladwy a threuliau cyffelyb | 1,686 | 1,117 |
| Incwm buddsoddiad CRT | (18) | (9) |
| Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau derbyniadwy | (2,919) | (2,650) |
| **Diffyg am y flwyddyn ar wasanaethau CRT** | **20,521** | **692** |

## Datganiad Symudiadau ar Falans y CRT

### Eitemau a gynhwysir yn y Cyfrif Incwm a Gwariant CRT ond a eithriwyd o'r symudiad ar Falens CRT am y flwyddyn

| | 2015/16<br>£'000 | 2014/15<br>£'000 |
|---|---|---|
| Gwahaniaeth rhwng y symiau a godir ar incwm a gwariant ar gyfer | (38) | (31) |
| Amorteiddiad premiymau a disgownt a bennwyd yn unol â'r Côd a'r tâl am y flwyddyn yn unol â statud | | |
| Dibrisiant ac amhariad Asedau nad ydynt yn gyfredol | (9,268) | (8,394) |
| Croniad Absenoldebau Cronnus | 9 | 6 |
| Colled ar werthiant asedau CRT nad ydynt yn gyfredol (yn cynnwys dadgydnabod) | 509 | 286 |
| Taliad I Llywodraeth Cymru - Prynu allan CRT | (21,169) | - |
| Ailbrisio Assedau | 134 | - |
| Taliadau net a wnaed ar gyfer buddiannau ymddeoliad yn unol ag IAS 19 | - | - |
| **Eitemau na chynhwyswyd yn y Cyfrif Incwm a Gwariant CRT ond a gynhwyswyd yn y symudiad ar y Balans CRT am y flwyddyn** | **(29,823)** | **(8,133)** |
| Trosglwyddiad i Gronfeydd wrth Gefn | 2,919 | 2,650 |
| Isafswm Darpariaeth Refeniw CRT | 453 | 1,009 |
| Cyfraniadau cyflogwyr sy'n daladwy i Gronfa Bensiwn Gwynedd a buddiannau ymddeoliad sy'n daladwy'n uniongyrchol i bensiynwyr | - | - |
| Gwariant cyfalaf a gyllidwyd gan y CRT | 2,725 | 2,632 |
| | **6,097** | **6,291** |
| **Swm net ychwanegol sy'n ofynnol trwy statud i'w gredydu i'r Balans CRT am y flwyddyn** | **(23,726)** | **(1,842)** |

## Nodyn i'r Datganiad o Symudiad ar Falans y CRT

| | 2015/16<br>£'000 | 2014/15<br>£'000 |
|---|---|---|
| Diffyg am y flwyddyn ar wasanaethau CRT | 20,521 | 692 |
| Swm net ychwanegol sy'n ofynnol trwy statud i'w gredydu i'r CRT | (23,726) | (1,842) |
| **Cynnydd yn y Balans CRT** | **(3,205)** | **(1,150)** |
| **Trosglwyddo o CRT Arian wrthgefn** | (1,016) | - |
| **Cyfrif Balans CRT a ddygwyd ymlaen** | (2,821) | (1,671) |
| **Cyfrif Balans CRT i'w ddwyn ymlaen** | **(7,042)** | **(2,821)** |

## NODIADAU AR Y CYFRIF REFENIW TAI

### NODYN 1 – CYFRIF REFENIW TAI

Mae'r Cyfrif Refeniw Tai yn gofnod o wariant ar, ac incwm o, ddarparu tai cyngor lleol, ac mae ffurf a chynnwys y Cyfrif yn cael ei ragnodi gan statud. Mae'r Cyfrif Refeniw Tai yn cael ei "amgáu" a rhaid iddo fod yn hunangynhaliol. Mae cyfraniadau i ac o'r Cyfrif Refeniw Tai (e.e. o Gronfa'r Cyngor) yn cael eu cyfyngu i amgylchiadau arbennig.

### NODYN 2 – STOC DAI

Yn ystod 2015/16, gwerthodd y Cyngor 10 annedd dan y Cynllun Hawl i Brynu (gweler nodyn 5). Yn dilyn prynu allan o'r cynllun Cymhorthdal Tai (gweler nodyn 6), mae gan y Cyngor bolisi o brynu anheddau addas a oedd gynt ym mherchenogaeth y Cyngor a'u dychwelyd i stoc dai'r Cyngor. Yn ystod 2015/16, prynwyd 8 o'r eiddo hyn. Yn dilyn adolygiad o'r stoc dai, cafodd 7 o'r eiddo eu hailgategoreiddio fel rhai anweithredol. Ar 31ain Mawrth 2016, roedd nifer yr anheddau yn y stoc dai yn 3,788. Mae'r anheddau wedi eu rhannu fesul math fel a ganlyn:-

| | 31 Mawrth 2016 | 31 Mawrth 2015 |
|---|---|---|
| **Stoc y Cyngor** | | |
| Tai | 2,017 | 2,025 |
| Byngalos | 1,044 | 1,044 |
| Fflatiau | 720 | 721 |
| Fflatiau un ystafell | 7 | 7 |
| Cyfanswm Stoc y Cyngor | **3,788** | **3,797** |

### NODYN 3 – GWARIANT CYFALAF CYFRIF REFENIW TAI

| | 2015/16 £'000 | 2014/15 £'000 |
|---|---|---|
| **Buddsoddiad cyfalaf** | | |
| Tai | 6,438 | 5,519 |
| | | |
| **Ffynonellau ariannu** | | |
| Derbyniadau Cyfalaf | (794) | (236) |
| Grantiau llywodraeth a chyfraniadau eraill | (2,919) | (2,650) |
| Cyllido Refeniw Uniongyrchol | (2,725) | (2,633) |
| **Cyfanswm** | **(6,438)** | **(5,519)** |

Defnyddiwyd y Lwfans Atgyweiriadau Mawr o £2.656m ar gyfer 2015/16 yn llawn yn ystod y flwyddyn (£2.65m yn 2014/15).

## NODYN 4 – DIBRISIANT AC AMHARIAD MEWN PERTHYNAS AG EIDDO, OFFER A CHYFARPAR

| | 2015/16 Amhariad £'000 | 2015/16 Dibrisiant £'000 | 2015/16 Cyfanswm £'000 | 2014/15 Amhariad £'000 | 2014/15 Dibrisiant £'000 | 2014/15 Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tir | - | - | - | - | - | - |
| Tai | 5,489 | 3,650 | 9,139 | 5,519 | 2,745 | 8,264 |
| Eiddo Arall – Asedau Gweithredol | - | 129 | 129 | - | 130 | 130 |
| | **5,489** | **3,779** | **9,268** | **5,519** | **2,875** | **8,394** |

## NODYN 5 – DERBYNIADAU CYFALAF O WAREDU TIR, TAI AC EIDDO ARALL YN Y CYFRIF REFENIW TAI

| | 2015/16 Nifer gwerthiannau | 2015/16 £'000 | 2014/15 Nifer gwerthiannau | 2014/15 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Anheddau Cyngor** | | | | |
| Hawl i Brynu | 10 | 765 | 5 | 315 |
| Ad-dalu disgownt | - | - | - | 9 |
| **Derbyniadau Arall** | | | | |
| Gwerthiant tir | 1 | 24 | 1 | 150 |
| Gwerthiant eiddo arall | - | - | - | - |
| Eiddo Morgais | - | 5 | - | 5 |
| | | **794** | | **479** |
| Llai Gosod o'r Neilltu | | - | | (243) |
| | | **794** | | **236** |

## NODYN 6 – PRYNU ALLAN O'R CYNLLUN CYMHORTHDAL TAI

Yn Ebrill 2015, talodd y Cyngor £21.169m i brynu allan o'r Cynllun Cymhorthdal CRT a disgwylir y bydd yn gwneud arbedion a fydd dros £0.7m y flwyddyn. Yn 2014/15, talodd y Cyngor £1.559m mewn cymhorthdal tai i Lywodraeth Cymru.

## NODYN 7 – ÔL-DDYLEDION RHENT A DRWG DDYLEDION A DYLEDION AMHEUS

Yn ystod 2015/16, gwelwyd gostyngiad o £14k yn y dyledion rhenti. Gweler yn y tabl isod grynodeb o ôl-ddyledion rhenti a blaendaliadau:-

| Ôl-ddyledion rent | 2015/16 £'000 | 2014/15 £'000 |
|---|---|---|
| Ôl-ddyledion Tenantiaid Cyfredol | 466 | 518 |
| Ôl-ddyledion gyn-denantiaid | 273 | 263 |
| Cyfanswm ôl-ddyledion rent | 739 | 781 |
| Blaendaliadau | (152) | (180) |
| **Cyfanswm dyled** | **587** | **601** |

Mae darpariaeth yn y Fantolen ar gyfer drwg ddyledion a dyledion amheus. Roedd y rhain yn cynnwys £0.433m yn erbyn rhenti (£0.525m yn 2014/15).

## NODYN 8 – COSTAU PENSIWN

Fel rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei swyddogion, mae'r Cyngor yn cynnig buddiannau ymddeoliad. Er na fydd y buddiannau hyn yn daladwy hyd nes bo'r gweithwyr yn ymddeol, mae gan y Cyngor ymrwymiad i wneud y taliadau sydd angen eu datgelu ar yr adeg mae gweithwyr yn ennill eu hawl ar gyfer y dyfodol. Mae'r Cyngor yn cymryd rhan yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir gan Gyngor Gwynedd. Mae hyn yn gynllun a ariennir, sy'n golygu fod y Cyngor a'r gweithwyr yn talu cyfraniadau i gronfa, sydd wedi ei chyfrifo ar lefel a fwriedir i gydbwyso rhwymedigaethau'r pensiwn gydag asedau buddsoddiad.

| Cyfrif Incwm a Gwariant CRT | 2015/16 | 2014/15 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Cost Gwasanaeth Gyfredol | (228) | (198) |
| Cyfraniadau Cyflogwr a dalwyd yn wirioneddol | 228 | 198 |
| **Cyfraniad i'r Gronfa Wrth Gefn Pensiwn** | **-** | **-** |

Cydnabyddir cost buddiannau ymddeoliad yng Nghost Net y Gwasanaethau pan gânt eu hennill gan weithwyr, yn hytrach na phan fo'r fath fuddiannau yn cael eu talu yn y pen draw fel pensiynau. Fodd bynnag, mae'r tâl y mae gofyn ei godi yn erbyn y Cyfrif Refeniw Tai wedi ei seilio ar yr arian sy'n daladwy yn y flwyddyn, felly mae cost wirioneddol buddiannau ymddeoliad yn cael ei wyrdroi allan o'r Cyfrif Refeniw Tai ar ôl Gwariant Gweithredu Net. Mae'r trafodion canlynol wedi'u gwneud yn y Cyfrif Refeniw Tai yn ystod y flwyddyn:-

Ni fu'n bosib pennu faint o gost llogau pensiwn a dychweliad disgwyliedig ar yr asedau'r adroddiad actiwarïaid sy'n gysylltiedig â'r Cyfrif Refeniw Tai, felly mae'r rhain wedi eu dyrannu'n llawn i Gronfa'r Cyngor.

**DATGANIAD PARTI CYSYLLTIEDIG – CYNRYCHIOLAETH CYDRANDDEILIAID GYDA SEFYDLIADAU TRYDYDD PARTI**

| | |
|---|---|
| Age Concern Gwynedd a Môn | Jim Evans |
| Gru p Mynediad Ynys Môn | Robert G Parry OBE |
| CAB Ynys Môn | Robert Llewelyn Jones |
| Cyngor Iechyd Cymuned Môn | Jeffrey M Evans, Dylan Rees a Dafydd Rhys Thomas |
| Cydbwyllgor Ymgynghorol yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (Ynys Môn) | Lewis Davies, Richard A Dew, Derlwyn Rees Hughes, Victor Hughes & J Arwel Roberts |
| Eiriolydd y Lluoedd Arfog | Aled Morris Jones |
| Gru p Cyfeirio Cydranddeiliaid Betsi Cadwaladr | Kenneth P Hughes |
| Eiriolydd Gofalwyr | Robert G Parry OBE |
| Llys Llywodraethwyr, Prifysgol Cymru, Bangor | Ieuan Williams |
| Cwmni CYNNAL CCB | Jim Evans |
| Cwmni Fran Wen | R Meirion Jones |
| Cymdeithas Tai Eryri | Kenneth P Hughes |
| Pwyllgor Rheoli CYNNAL | R Meirion Jones & Ieuan Williams |
| Eiriolydd Amrywiaeth | Carwyn Jones |
| Panel Maethu | Ieuan Williams |
| Pwyllgor Rheoli Gofal a Thrwsio Môn | Aled Morris Jones & Alun Wyn Mummery |
| Gru p Llandrillo/Menai | Ieuan Williams |
| Panel Maethu Gwynedd a Môn | Jeffrey M Evans |
| Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd a Môn | Kenneth P Hughes |
| Pwyllgor Cyswllt Gwynedd (Cronfa Blwydd-dal) | Hywel Eifion Jones |
| Gru p Cyswllt Prosiect Horizon Nuclear | John Griffith, Kenneth P Hughes, William Thomas Hughes, Llinos Medi Huws, Aled Morris Jones, Richard Owain Jones & Dafydd Rhys Thomas |
| Cyd-gyngor Cymru | John Griffith |
| Bwrdd Gwasanaeth Lleol ar y Cyd (Môn a Gwynedd) | Ieuan Williams |
| Arweinydd ar gyfer Diogelu Oedolion | Aled Morris Jones |
| Medrwn Môn | Ieuan Williams |
| Aelod o'r Bwrdd Consortiwm Awdurdodau Lleol yng Nghymru (CLAW) | Richard A Dew & Kenneth P Hughes |
| Eiriolydd Aelodau | Vaughan Hughes |
| Menter Môn | Ieuan Williams |
| Cyd-bwyllgor Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru | J Arwel Roberts |
| Fforwm Economaidd Gogledd Cymru | Ieuan Williams |
| Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru | Lewis Davies, Jim Evans & Richard Owain Jones |
| Pwyllgor Archwilio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru | Jim Evans |
| Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru | Lewis Davies & Richard Owain Jones |
| Cymdeithas Dai Gogledd Cymru | Kenneth P Hughes |

| | |
|---|---|
| Panel Heddlu Gogledd Cymru a Throsedd | William Thomas Hughes |
| Gru p Llywio – Adolygu Cynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru | Richard A Dew & J Arwel Roberts |
| Cyd-bwyllgor Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru | Richard A Dew & J Arwel Roberts |
| Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru | Ieuan Williams |
| Tribiwnlys Prisio Gogledd Cymru – Panel Apwyntio ar y Cyd | Hywel Eifion Jones |
| Eiriolydd Pobl Hyn | Robert Llewelyn Jones |
| Ymddiriedolaeth Addysgol Owen Lloyd, Penrhoslligwy | Derlwyn Rees Hughes |
| Pwyllgor Pensiynau (Cyngor Gwynedd) | Hywel Eifion Jones |
| Cyd-bwyllgor Effeithlonrwydd a Gwella Gwasanaeth Ysgol Rhanbarthol | Kenneth P Hughes |
| Datganiad Technegol Rhanbarthol (Fforwm Aelodau) | J Arwel Roberts |
| Eiriolydd Sgriwtini | R Meirion Jones |
| TALNET (Cymdeithas Lyfryddol ar y Cyd) | Richard A Dew a Vaughan Hughes |
| Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol | Jim Evans, Aled Morris Jones, Alun Wyn Mummery, Alwyn Rowlands a Ieuan Williams |
| Cyd-bwyllgor Addysg Cymru | Kenneth P Hughes |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | J Arwel Roberts ac Ieuan Williams |
| Gru p Cydranddeiliaid Safle Wylfa | John Griffith, Kenneth P Hughes, William Thomas Hughes, Llinos Medi Huws, Aled Morris Jones, Richard Owain Jones ac Alwyn Rowlands |

| **Sefydliadau Trydydd Parti** | **Cydranddeiliaid** |
|---|---|
| Tribiwnlys Prisio Gogledd Cymru – Panel Apwyntio ar y Cyd | Hywel Eifion Jones |
| Eiriolydd Pobl Hyn | Robert Llewelyn Jones |
| Ymddiriedolaeth Addysgol Owen Lloyd, Penrhoslligwy | Derlwyn Rees Hughes |
| Pwyllgor Pensiynau (Cyngor Gwynedd) | Hywel Eifion Jones |
| Cyd-bwyllgor Effeithlonrwydd a Gwella Gwasanaeth Ysgol Rhanbarthol | Ieuan Williams |
| Datganiad Technegol Rhanbarthol (Fforwm Aelodau) | J Arwel Roberts |
| Cyd-bwyllgor TAITH | Richard A Dew a Robert G Parry OBE |
| TALNET (Cymdeithas Lyfryddol ar y Cyd) | Richard A Dew a Vaughan Hughes |
| Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol | Jim Evans, Kenneth P Hughes, Alun Wyn Mummery, Alwyn Rowlands ac Ieuan Williams |
| Cyd-bwyllgor Addysg Cymru | Ieuan Williams |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | J Arwel Roberts a Ieuan Williams |
| Gru p Cydranddeiliaid Safle Wylfa | John Griffith, Kenneth P Hughes, William Thomas Hughes, Llinos Medi Huws, Aled Morris Jones, Richard Owain Jones ac Alwyn Rowlands |

# GEIRFA

**ADDASIAD BLWYDDYN FLAENOROL**
Mae Addasiad Blwyddyn Flaenorol yn addasiad perthnasol sy'n ymwneud â'r blynyddoedd blaenorol sy'n deillio o newidiadau mewn polisïau cyfrifo neu gywiriad i gamgymeriadau sylfaenol. Nid yw hyn yn cynnwys cywiriadau cylchol normal neu addasiadau o amcangyfrifon cyfrifo a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol.

**ADNODDAU HYLIFOL**
Buddsoddiadau ased cyfredol sy'n rhwydd i'w gwaredu gan y Cyngor heb aflonyddu ar ei fusnes ac sydd naill ai:-

- Yn drosglwyddadwy'n hawdd i symiau hysbys o arian parod ar, neu'n agos at, y swm a gludir; neu

- Yn cael eu masnachu mewn marchnad weithredol.

**AMHARIAD**
Lleihad mewn gwerth ased nad yw'n gyfredol dan ei swm a gludir yn y Fantolen.

**ARIAN A NEILLTUIR (APPROPRIATION)**
Y symiau a drosglwyddir rhwng y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r cronfeydd refeniw neu gyfalaf wrth gefn.

**ARCHWILIO CYFRIFON**
Archwiliad annibynnol o faterion ariannol y Cyngor.

**ARIAN A CHYWERTHOEDD ARIAN**
Dyma'r arian mewn llaw, arian a ordynnwyd, arian a ddelir mewn cyfrifon banc a buddsoddiadau tymor byr (e.e. 3 mis) ac y gellir eu trosi'n rhwydd i symiau ariannol sy'n hysbys.

**ASED**
Eitem sydd â gwerth i'r Cyngor mewn termau ariannol. Mae asedau'n cael eu categoreiddio fel rhai cyfredol neu rhai nad ydynt yn gyfredol:

- Bydd ased cyfredol yn cael ei ddefnyddio neu â gwerth isel iawn yn y flwyddyn ariannol nesaf (e.e. arian parod a stoc);

- Mae asedau nad ydynt yn gyfredol yn rhoi buddiannau i'r Cyngor ac i'r gwasanaethau mae'n darparu ar eu cyfer am gyfnod o fwy na blwyddyn a gall fod yn ddiriaethol (e.e. canolfan gymuned), neu annirweddol (e.e. trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol).

**ASED AMODOL**
Mae ased amodol yn ased posib sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol y bydd eu bodolaeth yn cael ei chadarnhau dim ond trwy ddigwyddiad o un neu fwy o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth y  Cyngor.

**ASEDAU ANNIRWEDDOL**
Gellir diffinio eitem annirweddol (nid un ffisegol) fel ased pan fo'r mynediad at fuddiannau economaidd i'r dyfodol y mae'n ei gynrychioli'n cael ei reoli gan yr endid adrodd. Mae Asedau Annirweddol y Cyngor hwn yn cynnwys trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol.

**ASEDAU CYMUNEDOL**
Asedau mae'r Cyngor yn bwriadu eu dal am byth, nad oes iddynt oes ddefnyddiol benodadwy ac a all fod â chyfyngiadau ar eu gwaredu. Enghreifftiau o asedau cymunedol yw parciau ac adeiladau hanesyddol.

**ASEDAU ISADEILEDD**
Asedau nad ydynt yn gyfredol sy'n perthyn i'r Cyngor na ellir eu trosglwyddo na'u gwerthu, y mae gwariant yn adferadwy yn unig drwy ddefnydd parhaus a grëwyd gan yr ased. Enghreifftiau yw priffyrdd, llwybrau a phontydd.

**ASEDAU GWEITHREDOL**
Asedau nad ydynt yn gyfredol sy'n cael eu dal a'u meddiannu, defnyddio neu eu treulio gan y Cyngor wrth iddo ddilyn ei strategaeth ac wrth gyflenwi'n uniongyrchol y gwasanaethau hynny y mae ganddo gyfrifoldeb drostynt naill ai'n statudol neu â disgresiwn.

**ASEDAU NAD YDYNT YN WEITHREDOL**
Asedau nad ydynt yn gyfredol a ddelir gan y Cyngor ond nad ydynt yn cael eu meddiannu, defnyddio neu eu treulio'n uniongyrchol wrth gyflenwi gwasanaethau. Enghreifftiau yw eiddo buddsoddiad, asedau yn cael eu hadeiladu neu asedau gwarged i anghenion tra'n disgwyl eu gwerthu neu ailddatblygu.

**ASEDAU TREFTADAETH**
Ased sydd hefo rhinweddau hanesyddol, artistig, gwyddonol, technolegol, geoffisegol neu amgylcheddol sydd yn cael ei ddal a'i gynnal yn bennaf am ei gyfraniad at wybodaeth a diwylliant.

**BENTHYCA DROS DRO**
Arian a fenthycir am gyfnod o lai na blwyddyn.

**BUDD-DALIADAU TAI**
System o gymorth ariannol i unigolion tuag at gostau tai penodol a weinyddir gan awdurdodau, gyda chymhorthdal gan lywodraeth ganolog.

**BUDDIANNAU Â DISGRESIWN (PENSIYNAU)**
Buddiannau ymddeoliad, nad oes gan y cyflogwr unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol, gytundebol neu adeiladol i'w dyfarnu, ac sy'n cael eu dyfarnu'n ôl pwerau disgresiwn y Cyngor fel y Rheoliadau Llywodraeth Leol (Taliadau Disgresiwn) 1996.

**BUDDIANNAU YMDDEOLIAD**
Bob ffurf o gydnabyddiaeth a roddir gan gyflogwr yn lle gwasanaethau a gyflenwyd gan weithwyr sy'n daladwy ar ôl terfyn y gyflogaeth.

**BUDDSODDIADAU (CRONFA BENSIWN)**
Bydd buddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn yn cael eu cyfrifo yn natganiadau'r gronfa honno. Fodd bynnag, mae'n ofynnol hefyd ar awdurdodau i ddatgelu, fel rhan o ofynion datgelu sy'n ymwneud â buddiannau ymddeoliad, siâr i'w briodoli o asedau'r cynllun pensiwn sy'n gysylltiedig â'u rhwymedigaethau gwaelodol.

**BUSNES HYFYW**
Y cysyniad fod y Datganiad Cyfrifon yn cael ei baratoi ar y dybiaeth y bydd y Cyngor yn parhau mewn bodolaeth weithredol am y dyfodol rhagweladwy.

**BWRDD BENTHYCIADAU GWEITHIAU CYHOEDDUS (PWLB)**
Asiantaeth Llywodraeth Ganolog sy'n rhoi benthyciadau am flwyddyn a mwy i awdurdodau ar raddfeydd llog sydd ond ychydig yn uwch na'r rheini y gall y llywodraeth fenthyca ei hun.

**CIPFA**
Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifo. Y prif gorff proffesiynol a rheoleiddiol ar gyfer cyfrifon llywodraeth leol.

**CONTRACT TYMOR HIR**
Contract a ffurfir ar gyfer dylunio, cynhyrchu neu adeiladu ased sylweddol unigol neu ddarpariaeth gwasanaeth (neu gyfuniad o asedau neu wasanaethau sydd gyda'i gilydd yn ffurfio prosiect unigol), ble bo'r amser a gymerir i gwblhau'n sylweddol y contract o'r fath fel ei fod yn disgyn i mewn i fwy nag un flwyddyn ariannol.

**COST GWASANAETH CYFREDOL (PENSIYNAU)**
Y cynnydd mewn gwerth cyfredol o rwymedigaethau cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, y disgwylir iddo ddeillio o wasanaeth gweithiwr yn y flwyddyn bresennol.

**COST GWASANAETH YN Y GORFFENNOL (PENSIYNAU)**
Ar gyfer cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, y cynnydd yng ngwerth cyfredol rhwymedigaethau'r Cynllun sy'n gysylltiedig â gwasanaeth gweithiwr mewn blynyddoedd ariannol blaenorol sy'n deillio yn y flwyddyn ariannol bresennol o ganlyniad i gyflwyno neu wella buddiannau ymddeoliad.

**COSTAU HEB EU DOSBARTHU**
Dyma orbenion nad yw unrhyw ddefnyddiwr yn cael budd ohonynt yn awr, ac fel y cyfryw nid ydynt yn cael eu dosrannu i wasanaethau.

**COST LLOG (PENSIYNAU)**
Ar gyfer cynllun buddiannau diffiniedig, y cynnydd disgwyliedig yn ystod y flwyddyn ariannol o werth cyfredol rhwymedigaethau'r Cynllun oherwydd bod y buddiannau yn un flwyddyn ariannol yn agosach at setliad.

**CORFFORAETHOL A CRAIDD DEMOCRATAIDD**
Mae'r Corfforaethol a Craidd Democrataidd yn cynnwys yr holl weithgareddau penodol y mae awdurdodau lleol yn ymgymryd â nhw oherwydd eu bod yn awdurdodau etholedig, amlbwrpas. Felly, mae cost y gweithgareddau hyn yn uwch na phe byddai cyfres o gyrff annibynnol, un pwrpas, enwebedig yn rheoli'r un gwasanaethau. Felly, nid oes sail resymol dros ddyrannu'r costau hyn i wasanaethau.

**CREDYDWR**
Swm sy'n ddyledus i unigolion neu sefydliadau eraill gan y Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd, neu wasanaethau a gyflenwyd yn ystod y flwyddyn ariannol, ond na thalwyd amdanynt cyn diwedd y flwyddyn ariannol honno.

**CRONFEYDD WRTH GEFN**
Croniad gwarged, diffygion a meddiannau dros y blynyddoedd diwethaf. Mae cronfeydd wrth gefn o natur refeniw ar gael a gellir eu gwario neu eu clustnodi ar ddisgresiwn y Cyngor. Ni ellir defnyddio peth cronfeydd wrth gefn cyfalaf, fel y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn, i gwrdd â gwariant cyfredol.

**CRONFEYDD YMDDIRIEDOLAETH**
Cronfeydd a weinyddir gan y Cyngor i bwrpasau fel gwobrwyon, elusennau, prosiectau penodol ac ar ran plant dan oed.

**CRONIADAU**
Symiau a gynhwysir yn y cyfrifon terfynol i gydnabod nwyddau/gwasanaethau a dderbyniwyd yn y flwyddyn neu incwm refeniw a chyfalaf a gwariant a enillwyd neu yr aethpwyd iddo yn y flwyddyn ariannol, ond nad oedd taliad gwirioneddol wedi ei dderbyn neu ei wneud ar ei gyfer ar 31 Mawrth.

**CYDNABYDDIAETH ARIANNOL**
Yr holl symiau a delir i, neu sy'n dderbyniadwy gan weithiwr a symiau sy'n ddyledus trwy lwfansau treuliau (cyn belled ag y mae'r symiau hynny'n daladwy yn nhreth incwm y DU) a gwerth ariannol unrhyw fuddiannau eraill a dderbyniwyd heblaw mewn arian parod. Mae cyfraniadau pensiwn sy'n daladwy gan y cyflogwr yn cael eu heithrio.

**CYFNOD CYFRIFO**
Y cyfnod o amser a gynhwysir yn y cyfrifon, fel arfer cyfnod o ddeuddeng mis yn cychwyn ar 1 Ebrill. Diwedd y cyfnod cyfrifo yw dyddiad y Fantolen, fel arfer 31 Mawrth y flwyddyn ddilynol.

**CYFRIF REFENIW TAI (CRT)**
Cyfrif ar wahân i Gronfa'r Cyngor, sy'n cynnwys yr incwm a gwariant sy'n deillio o'r ddarpariaeth llety tai gan y Cyngor.

**CYLLIDEB**
Datganiad o faint o arian y mae'r Cyngor wedi ei neilltuo i bob gwasanaeth a swyddogaeth i'w wario neu ei godi mewn incwm ar gyfer y flwyddyn ariannol.

**CYLLIDO CYFALAF**
Arian sydd ar gael i dalu am wariant cyfalaf. Mae nifer o ffyrdd o gyllido gwariant cyfalaf yn cynnwys benthyca, prydlesu, cyllido refeniw uniongyrchol, derbyniadau cyfalaf defnyddiadwy, grantiau cyfalaf, cyfraniadau cyfalaf, cronfeydd wrth gefn refeniw a chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

**CYNLLUN PENSIWN BUDDIANNAU DIFFINIEDIG**
Cynlluniau pensiwn ble bo buddiannau a dderbynnir gan y cyfranogwyr yn annibynnol ar y cyfraniadau a dalwyd, ac nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â buddsoddiadau'r cynllun.

**CYSONDEB**
Y cysyniad fod triniaeth gyfrifo o eitemau tebyg o fewn blwyddyn ariannol ac o un flwyddyn i'r nesaf yr un fath.

**DARPARIAETH**
Swm a osodir o'r neilltu yn y cyfrifon ar gyfer rhwymedigaethau neu golledion i'r dyfodol sy'n sicr neu'n debygol iawn o ddigwydd ond bod y symiau neu'r dyddiadau pryd y byddant yn digwydd yn ansicr.

**DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR**
Un o brif ddatganiadau ariannol y Cyngor sy'n cofnodi'r holl incwm a gwariant ar gyfer y Cyngor wedi ei gategoreiddio'n unol â gofynion safonol CIPFA fel y gellir cymharu awdurdodau.

**DATGANIAD LLIF ARIAN**
Mae'r datganiad llif arian yn dangos y newidiadau yn yr arian a'r cywerthoedd ariannol sydd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol.

**DERBYNIADAU CYFALAF**
Yr elw o waredu tir neu asedau eraill nad ydynt yn gyfredol eraill. Gellir defnyddio cyfrannau o dderbyniadau cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf newydd, o fewn y rheolau a osodir i lawr gan y llywodraeth ond ni ellir eu defnyddio i gyllido gwariant refeniw.

**DIBRISIANT**
Mesur o'r gost o wisgo allan, defnyddio neu fel arall leihau oes economaidd ddefnyddiol asedau nad ydynt yn gyfredol y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol, p'un a yw hynny o ddefnydd, treuliad amser neu anarferiant trwy newidiadau technegol neu rai eraill.

**DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD Y FANTOLEN**
Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol neu anffafriol, sy'n digwydd rhwng dyddiad y Fantolen a'r dyddiad yr awdurdodir cyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon.

**DYCHWELIAD DISGWYLIEDIG AR ASEDAU PENSIWN**
Ar gyfer cynllun buddiannau diffiniedig a ariennir, hwn yw'r raddfa dychweliad ar gyfartaledd, yn cynnwys incwm a newidiadau mewn Gwerth Teg ond yn net o dreuliau cynllun, a ddisgwylir dros weddill oes y rhwymedigaeth gysylltiedig ar yr asedau gwirioneddol a ddelir gan y cynllun.

**DYLED NET**
Benthyciadau'r Cyngor llai arian parod ac adnoddau hylifol.

**DYLEDWR**
Swm sy'n ddyledus i'r Cyngor gan unigolion a sefydliadau eraill am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd, neu wasanaethau a gyflenwyd yn ystod y flwyddyn ariannol, ond na thalwyd amdanynt cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**ENILLION A CHOLLEDION ACTIWARÏAID**
I gynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, y newidiadau mewn gwarged neu ddiffyg actiwaraidd sy'n codi oherwydd:

- Nad yw digwyddiadau wedi cyd-fynd â'r tybiaethau actiwarïaid a wnaethpwyd i'r prisiant diwethaf (enillion a cholledion profiad); neu

- Fod y tybiaethau actiwaraidd wedi newid.

**GRANT CYNNAL REFENIW**
Grant a delir gan Lywodraeth Ganolog i awdurdodau, yn cyfrannu tuag at gost gyffredinol eu gwasanaethau.

**GRANTIAU LLYWODRAETH**
Grantiau a wneir gan y llywodraeth tuag at naill ai wariant refeniw neu gyfalaf gan ddisgwyl cydymffurfiad yn y gorffennol neu i'r dyfodol gyda rhai amodau penodol sy'n ymwneud â gweithgareddau'r Cyngor. Gall y grantiau hyn fod yn benodol i gynllun neilltuol neu gall gefnogi gwariant refeniw'r Cyngor yn gyffredinol.

**GWAITH YN MYND YN EI FLAEN (WIP)**
Cost gwaith a berfformir ar brosiect heb ei orffen ar ddyddiad y Fantolen.

**GWARIANT CYFALAF**
Gwariant ar brynu ased nad yw'n gyfredol, a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau tu draw i'r flwyddyn ariannol gyfredol, neu wariant sy'n ychwanegu at, ac nid cynnal yn unig, werth ased presennol nad yw'n gyfredol. Mae enghreifftiau'n cynnwys i adeiladu ysgol newydd, prynu offer TG, adnewyddu sylweddol cartref gofal.

**GWARIANT REFENIW**
Treuliau dydd i ddydd o ddarparu gwasanaethau.

**GWARIANT REFENIW A ARIENNIR O GYFALAF O DAN STATUD (REFCUS)**
Gwariant y gellir ei ohirio'n gywir (h.y. ei drin fel cyfalaf o ran natur) ond nad yw'n arwain at, neu'n parhau i gydweddu ag, ased diriaethol. Enghreifftiau o daliadau gohiriedig yw grantiau o natur cyfalaf i sefydliadau gwirfoddol.

**GWASANAETHAU ASIANTAETH**
Y Gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor i drydydd parti neu ar ran sefydliad arall.

**GWERTH GWEDDILLIOL**
Gwerth net ased y gellir ei wireddu ar ddiwedd ei oes ddefnyddiol.

**GWERTH LLYFR NET**
Y swm y mae asedau nad ydynt yn gyfredol yn cael eu cynnwys yn y Fantolen, h.y. eu costau hanesyddol neu werth cyfredol llai'r symiau cronnus ar gyfer dibrisiant.

**GWERTH NET**
Gwerth y Cyngor o gyfanswm asedau llai cyfanswm rhwymedigaethau.

**GWERTH TEG**
Gwerth teg ased yw'r pris y gellid ei gyfnewid amdano mewn trafodion hyd braich, llai, ble bo'n berthnasol, unrhyw grantiau derbyniadwy tuag at brynu neu ddefnyddio'r ased.

**GWERTH TRETHADWY**
Rhent tybiedig blynyddol hereditament, a ddefnyddir i bwrpasau TAC.

**ISAFSWM DARPARIAETH REFENIW (MRP)**
Yr isafswm sydd raid ei godi ar y cyfrif refeniw bob blwyddyn er mwyn darparu ar gyfer ad-daliad benthyciadau a symiau eraill a fenthycir gan y Cyngor.

**LLOG A DDERBYNNIR NEU A DELIR**
Defnyddir y dull gyfradd log sydd mewn grym gweithredol i fesur beth yw gwerth cludadwy ased ariannol neu rwymedigaethau a fesurir yn ôl y gost lai amorteiddio cronedig, ac i ddyrannu incwm neu dreuliau cysylltiedig i'r cyfnod perthnasol. Y gyfradd log sydd mewn grym yw hwnnw sy'n rhoddi disgownt cysáct ar y taliadau arian parod neu'r derbyniadau amcangyfrifiedig yn y dyfodol dros oes yr offeryn ariannol yn ôl y swm a gafodd ei gydnabod iddo'n y lle cyntaf. Mae'r gyfradd log sydd mewn grym yn cael ei diwygio yn ôl y tâl llog neu'r derbyniadau gwirioneddol trwy'r Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn i sicrhau mai dim ond llog gwirioneddol a godir yn erbyn y Dreth Gyngor.

Yn achos asedau ariannol a rhwymedigaethau a gludwyd yn ôl y gost, gan fod y llog sydd mewn grym yr un faint â'r llog cludo, mae'r gwerth cludo'n cael ei ddiwygio ar gyfer llog cronnus.

**MATEROLIAETH**
Y cysyniad y dylai'r Datganiad Cyfrifon gynnwys yr holl symiau y gellid disgwyl iddynt, pe gadewid hwy allan, neu eu cam-ddatgan, arwain at lurguniad o'r datganiadau ariannol ac yn y pen draw gamarwain defnyddiwr y cyfrifon.

**OES ECONOMAIDD DDEFNYDDIOL (UEL)**
Y cyfnod dros yr hwn y bydd y Cyngor yn cael buddiannau o ddefnydd ased nad yw'n gyfredol.

**PARTÏON CYSYLLTIEDIG**
Ceir diffiniad manwl o Bartïon Cysylltiedig yn IAS 24. I bwrpasau'r Cyngor, ystyrir fod partïon cysylltiedig yn cynnwys Llywodraeth Ganolog, Awdurdodau Lleol a chyrff arall, sy'n codi un ai praeseptau neu ardollau ar y Cyngor. Gall partïon cysylltiedig hefyd gynnwys is-gwmnïau a chwmnïau cysylltiedig, a cydfenter a phartïon cydfenter ac yn enwedig Aelodau a phrif swyddogion y Cyngor.

Pan yn ystyried pwy sy'n barti cysylltiedig, rhoddir sylw hefyd i drafodion yn gysylltiedig ag aelodau teulu agos neu gartref unrhyw unigolyn a restrir.

**PRAESEPT**
Yr ardoll a wneir gan awdurdodau praesept ar awdurdodau bilio, sy'n ei gwneud yn ofynnol ar i'r olaf gasglu incwm y Dreth Gyngor ar eu rhan.

**PRYDLES ARIANNOL**
Prydles sy'n trosglwyddo'n sylweddol risgiau a gwobrwyon perchnogaeth ased nad yw'n gyfredol i'r prydleswr.

**PRYDLES WEITHREDOL**
Prydles ble mae'r berchnogaeth o'r ased nad yw'n gyfredol yn aros gyda'r prydleswr.

**RHAGLEN GYFALAF**
Y cynlluniau cyfalaf mae'r Cyngor yn bwriadu eu cynnal dros gyfnod penodol o amser.

**RHESTRAU STOC**
Eitemau o ddeunyddiau crai a deunyddiau mae'r Cyngor wedi eu caffael ac sy'n cael eu dal gan ddisgwyl defnydd i'r dyfodol. Enghreifftiau yw deunyddiau deffiniad, deunyddiau crai a gwaith sy'n mynd yn ei flaen.

**RHWYMEDIGAETH**
Rhwymedigaeth yw pan fo gan y Cyngor ddyled i'w thalu i unigolyn neu sefydliad arall.

- Mae rhwymedigaeth gyfredol yn swm a fydd yn dod yn daladwy neu y gellid ei galw i mewn yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, e.e. credydwyr neu arian parod wedi'u gordynnu.

- Mae rhwymedigaeth ohiriedig yn swm sydd drwy drefniant yn daladwy tu draw i'r flwyddyn nesaf ar ryw bwynt yn y dyfodol neu i'w dalu i ffwrdd trwy swm blynyddol dros gyfnod o amser.

**RHWYMEDIGAETH AMODOL**
Mae rhwymedigaeth amodol naill ai'n:-

- Rhwymedigaeth bosib sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol y bydd eu bodolaeth yn cael ei chadarnhau dim ond trwy ddigwyddiad o un neu fwy o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth y Cyngor; neu'n

- Rhwymedigaeth bresennol sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol ble nad yw'n debygol y bydd angen trosglwyddiad o fuddiannau economaidd, neu na ellir mesur swm y rhwymedigaeth gyda dibynadwyedd digonol.

**RHWYMEDIGAETHAU'R CYNLLUN PENSIWN**
Rhwymedigaethau cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig ar gyfer treuliau sy'n ddyledus ar ôl y dyddiad prisiant. Mae rhwymedigaethau'r cynllun a fesurir yn ystod y dull uned a ragamcenir yn adlewyrchu'r buddiannau mae'r cyflogwr wedi ymrwymo i'w darparu i'r Gwasanaeth hyd at y dyddiad prisiant.

**TRETHI ANNOMESTIG CENEDLAETHOL (TAC)**
Mae'r Trethi Annomestig Cenedlaethol yn ardoll ar fusnesau, wedi'i seilio ar raddfa genedlaethol yn y bunt a osodir gan y llywodraeth a'i luosi gan werth trethadwy asesedig yr eiddo dan sylw. Caiff ei gasglu gan y Cyngor ar ran llywodraeth ganolog ac yna ei ailddosbarthu'n ôl i gefnogi cost gwasanaethau.

**TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG**
Mae'r Datganiad o Ymarfer a Argymhellir yn gwneud datgeliad o unrhyw drafodion perthnasol rhwng y Cyngor a Phartïon Cysylltiedig yn ofynnol er mwyn sicrhau fod cydranddeiliaid yn ymwybodol pryd mae'r trafodion hyn yn digwydd a'r swm a goblygiadau hynny.

**Y FANTOLEN**
Datganiad o werth cywir a theg o'r asedau, rhwymedigaethau a balansau eraill cofnodedig ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**BENTHYCA DI-GEFNOGAETH**
Gall y Cyngor fenthyca arian ychwanegol i'r benthyca â chefnogaeth y Llywodraeth i ariannu ei wariant cyfalaf cyn belled a'i fod yn fforddiadwy a chynaliadwy. Fe lywodraethir y pu er yma gan Gôd Pwyllog CIPFA, a mae'r Cyngor yn lwyr gydymffurfio â hwn.

**BENTHYCA GYDA CHEFNOGAETH**
Mae'r Cyngor yn benthyca arian i ariannu rhan o'i raglen cyfalaf. Fe adnabyddir y benthycaid gan Lywodraeth Ganolog yn ei glandriad ariannu ar gyfer y Cyngor.

**CRONFEYDD WRTH GEFN DEFNYDDIADWY**
Symiau penodol a osodir o'r neilltu ar gyfer pwrpasau polisi'r dyfodol neu ar gyfer digwyddiadau annisgwyl. Gall eu defnyddio i ariannu gwariant neu i leihau trethi.

**CRONFEYDD WRTH GEFN NA ELLIR EU DEFNYDDIO**
Y cronfeydd wrth gefn a ddefnyddir i amsugno'r gwahaniaeth rhwng y canlyniad o ddefnyddio ymarferion cyfrifo cywir gofyniad am drefniadau statudol ar gyfer ariannu gwariant. Mae cronfeydd wrth gefn o'r fath yn cynnwys enillion a cholledion heb eu gwireddu mewn perthynas ag ail-brisio eiddo, offer a chyfarpar ble mae rhaid gwerthu'r ased cyn i'r gwerth fod ar gael.

# Llyfryddiaeth

CIPFA 2015. Côd Ymarfer ar gyfer Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2015/16, CIPFA, Llundain.

CIPFA 2015. Rhestr Wirio Datgeliadau 2015/16. CIPFA, Llundain

CIPFA 2016. Côd Ymarfer ar gyfer Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2015/16, Canllawiau ar gyfer Ymarferwyr, CIPFA, Llundain.

CIPFA 2015. Côd Ymarfer Adrodd ar Wasanaethau 2015/16, CIPFA, Llundain.

CIPFA 2016. Bwletin LAAP 104: Cau Cyfrifon 2015/16 a Materion Cysylltiedig, CIPFA, Llundain.

CIPFA 2012. Bwletin LAAP 92: Trafodion Cyfrifo mewn Perthynas a Setlo Taliadau 2012, CIPFA, Llundain.

CIPFA 2014. Bwletin LAAP 99: Arian Wrth Gefn a Balansau Awdurdodau Lleol. CIPFA, Llundain.

CIPFA. 2016. The Role of the Chief Financial Officer in Local Government. CIPFA. Llundain.

Trysorlys EM 2015. Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (Frem) 2015/16.

Llywodraeth Cymru 2014. Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 Rhif 3362 (W337), Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru 2015.  Penderfyniad Cyffredinol ar Gredyd Eitem 8 a Debyd Eitem 8 (Cymru) 2015.

**DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL – 2015/16**

## 1. CYFLWYNIAD

Fe wnaeth Rheoliad 4 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 hi'n ofynnol i'r Awdurdod fod yn gwbl gyfrifol am adolygu rheolaeth fewnol ac adrodd arno'n flynyddol, a hynny fel rhan o'i drefniadau ar gyfer llywodraethu corfforaethol. Dywed Côd Ymarfer a Argymhellir (y côd) CIPFA bod gwaith paratoi a chyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol (y Datganiad) sydd yn unol â 'Delivering of Good Governance in Local Government', yn cwrdd â'r gofyniad mewn perthynas â pharatoi datganiad ar reolaeth fewnol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Dywed y Rheoliadau hefyd bod rhaid cynnwys y Datganiad yn Natganiad Cyfrifon y Cyngor.

Dyma'r trydydd Datganiad Llywodraethu i'r Cyngor a etholwyd ar wardiau newydd ym mis Mai 2013. Mae'n gosod y trefniadau llywodraethu sydd yn eu lle am y flwyddyn (Ebrill 2015 i Fawrth 2016) ac yn canolbwyntio ar y materion llywodraethu arwyddocaol cyfredol hynny mewn perthynas â'r Awdurdod yn cyflawni ei weledigaeth. Mae'n tynnu sylw at newidiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn ac yn cynnwys gwerthusiad byr lle nodir gwendidau neu gryfderau sylweddol.
Roedd agweddau o drefniadau llywodraethu'r Cyngor wedi'u cryfhau a'u moderneiddio yn y blynyddoedd diwethaf ar draws nifer o themâu llywodraethu, ac yna cafodd y rhain eu hymgorffori yn y Cynllun Trawsnewid i'r Awdurdod a fabwysiadwyd ym mis Ionawr 2013 ac oedd yn gosod ei waith hyd at 2017 ac a oedd, wedi hynny, yn cynnwys Cynllun Corfforaethol pedair blynedd (2013-2017). Fe'i cynlluniwyd fel rhaglen o newid yn cael ei yrru gan y Cyngor ei hun.

Y weledigaeth i'r Cyngor, erbyn 2017, yw:-

***"y byddwn yn Gyngor proffesiynol sy'n cael ei redeg yn dda, yn arloesol yn ein hymagwedd, wedi ymrwymo i ddatblygu ein pobl a phartneriaethau er mwyn darparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol o ansawdd da, sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan ein dinasyddion."***

Rydym hefyd yn pwysleisio y bydd sicrwydd a llywodraethu yn allweddol i sicrhau y caiff y Cynllun Corfforaethol ei wireddu.

"Wrth wneud hynny, byddwn yn:-

- darparu fframwaith rheoli perfformiad integredig, gan gysylltu'r Cynllun Corfforaethol â'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig i lawr at y broses o bennu'r gyllideb flynyddol ac adolygiadau datblygiad perfformiad unigol
- casglu a defnyddio gwybodaeth i fonitro ein perfformiad a chymryd camau i wella lle mae angen gwneud hynny
- cefnogi datblygiad prosesau'r Cyngor o ran gwneud penderfyniadau democrataidd a sgriwtini
- cryfhau ein hymgysylltiad â dinasyddion Ynys Môn a'u cyfraniad nhw at brosesau'r Cyngor o ran atebolrwydd a gwneud penderfyniadau
- parhau i gryfhau ein prosesau sy'n ymwneud â chyllid ac adrodd ar y gweithle a'i fonitro
- sefydlu trefniadau cadarn ar gyfer delio â'n heriau ariannol, gan sicrhau bod gwasanaethau'n trawsnewid a bod arloesedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud"

Dyma'r chwe thema allweddol sy'n cefnogi'r weledigaeth:-

1. **Proffesiynol a chael ei redeg yn dda**
2. **Arloesol, Uchelgeisiol ac Eangfrydig**
3. **Canolbwyntio ar y Cwsmer, y Dinesydd a'r Gymuned**
4. **Gwerthfawrogi a Datblygu ein Pobl**
5. **Wedi ymrwymo i Bartneriaeth**
6. **Cyflawni**

Mae chwe egwyddor craidd llywodraethu da yn Fframwaith CIPFA/SOLACE `Delivering of Good Governance in Local Government' sydd wedi'u haddasu at ddibenion llywodraeth leol. Mae modd cysoni'r rhain gyda'r egwyddorion a'r gwerthoedd a osodir gan Lywodraeth Cymru fel y gwelir gyda'r geiriau mewn llythrennau italig.

| | |
|---|---|
| *1.* | Canolbwyntio ar bwrpas y Cyngor ac ar ganlyniadau i'r gymuned a chreu a gweithredu gweledigaeth i'r ardal leol; (*Rhoi'r Dinesydd yn Gyntaf*); (*Cyflawni Gwerth am Arian).* |
| *2.* | Aelodau a swyddogion yn cydweithio i gyflawni pwrpas cyffredin gyda swyddogaethau a rolau wedi'u diffinio'n glir; (*Gwybod Pwy sy'n Gwneud Beth a Pham).* |
| *3.* | Hyrwyddo gwerthoedd i'r Cyngor a dangos gwerthoedd llywodraethu da trwy gynnal safonau ymddygiad ac ymarweddiad uchel; (*Byw Gwerthoedd Gwasanaethau Cyhoeddus).* |
| *4.*<br>*5.* | Cymryd penderfyniadau cytbwys a thryloyw fydd yn cael eu sgriwtinieiddio'n effeithiol a rheoli risg;<br>*(Meithrin Gwaith Cyflawn Arloesedd).* |
| *6.* | Datblygu capasiti a gallu Aelodau a swyddogion i fod yn effeithiol; (*Bod yn Sefydliad Dysg).* |
| *7.* | Ymgysylltu â phobl leol a chydranddeiliaid eraill i sicrhau atebolrwydd cyhoeddus cadarn; (*Ymgysylltu ag Eraill*). |

## 2. CWMPAS Y CYFRIFOLDEB

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gyfrifol am sicrhau y cynhelir ei fusnes yn unol â'r gyfraith a'r safonau cywir ac y diogelir arian cyhoeddus, bod cyfrif cywir ohono a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol. At hyn, mae'n ddyletswydd ar y Cyngor o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn y ffordd yr ymgymerir â'i swyddogaethau, gan gadw mewn cof gyfuniad o economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am roi yn ei le drefniadau cywir i lywodraethu ei faterion, hwyluso'r broses o gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol, ac sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo a mabwysiadu côd llywodraethu corfforaethol lleol sy'n gyson ag egwyddorion Fframwaith CIPFA/SOLACE, 'Delivering of Good Governance in Local Government'. Mae copi o'r côd lleol ar ein gwefan yn http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/perfformiad-a-llywodraethu

Mae'r datganiad hwn yn egluro sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r côd ac yn bodloni gofynion ymarfer priodol anstatudol sy'n annog cyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae hefyd yn bodloni gofynion rheoliad 4(2) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 mewn perthynas â chyhoeddi datganiad ar reolaeth fewnol.

## 3. Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau, prosesau a'r gwerthoedd diwylliannol sy'n rhoi cyfeiriad i'r Awdurdod a'i weithgareddau ac yn eu rheoli, a thrwy'r rheini mae'n atebol i'r gymuned, yn ymgysylltu gyda'r gymuned ac yn ei harwain. Mae'n galluogi i'r Awdurdod fonitro pa mor dda y mae'n cyflawni ei amcanion strategol ac ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol, cost-effeithiol.

Mae'r system o reolaeth fewnol yn rhan sylweddol o'r fframwaith hwnnw, ac wedi'i llunio i reoli risg hyd at lefel resymol. Does dim modd iddi gael gwared â phob risg o fethu â chyflawni polisïaunodau ac amcanion a dim ond sicrwydd rhesymol, nid sicrwydd llwyr, y gall ei rhoi o ran effeithiolrwydd. Mae'r system o reolaeth fewnol wedi'i seilio ar broses barhaus, wedi'i llunio i ganfod a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Cyngor, asesu pa mor debygol yw i'r risgiau hynny ddigwydd a'r effaith os byddant yn digwydd, a'u rheoli'n effeithion, yn effeithiol ac yn economaidd. Mae'r fframwaith llywodraethu wedi bod yn ei le yn y Cyngor am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016, ac mae'n parhau i fod yn berthnasol hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon. Nodir yn y ddogfen lle cyflwynwyd trefniadau newydd yn ystod y flwyddyn. Mae Trefniadau rheolaeth ariannol yr Awdurdod yn cydymffurfio â’r gofynion llywodraethu yn CIPFA: rôl y Prif Swyddog Ariannol yn Llywodraeth Leol (CIPFA 2016).

## 4. DADANSODDI’R FFRAMWAITH LLYWODRAETHU 2015/16

Disgrifir y fframwaith cyfredol fel y mae'n berthnasol i bob un o'r chwe egwyddor Llywodraethu Corfforaethol yn yr atodiadau i'r Cod Llywodraethu Lleol sydd ar gael yn http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/perfformiad-a-llywodraethu

Mae'r crynodeb sy'n dilyn yn canolbwyntio ar y gwaith a wnaed i ddatblygu a chryfhau'r fframwaith ac mae'n tynnu sylw at feysydd o wendid a nodwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2015/16.

| | |
|---|---|
| **Egwyddor Un** | **Canolbwyntio ar bwrpas yr Awdurdod ac ar ddeilliannau i’r gymuned a chreu gweledigaeth i’r ardal leol** |
| **Thema Allweddol Perthnasol:** | **Canolbwyntio ar y Cwsmer, y Dinesydd a’r Gymuned;<br>Wedi ymrwymo i Bartneriaeth;<br>Cyflawni.** |

Roedd Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2013-17 (a fabwysiadwyd ym mis Rhagfyr 2013) yn parhau i arwain gwaith y Cyngor ac mae'n creu gweledigaeth ar gyfer yr ardal leol. Dywedodd Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) bod y Cynllun yn disgrifio blaenoriaethau'r Cyngor yn gryno ac yn glir ac yn egluro sut mae'r blaenoriaethau yn adlewyrchu barn y cyhoedd yn ogystal â rhai'r Cyngor a phartneriaid eraill. Mae'r Rhaglen Trawsnewid Corfforaethol, a oedd yn allweddol i'r gwelliannau llywodraethu yn 2013, yn parhau i gefnogi gwaith trawsnewid yr Awdurdod i gyflawni ei weledigaeth a’i flaenoriaethau. Mae'r agweddau strategol hyn wedi'u gwreiddio yn y Cynllun Corfforaethol.

Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd ac Ynys Môn ar 1 Ebrill, 2013 gan ddisodli'r Byrddau sirol sengl gynt. Roedd y newid graddol hwn hefyd yn cynnwys rhesymoli swyddogaethau partneriaeth strategol yng Ngogledd-orllewin Cymru a arweiniodd at Uned Bartneriaethau strategol ar y cyd rhwng Gwynedd ac Ynys Môn. Parhaodd Cyd-fwrdd Gwasanaeth Lleol Gwynedd ac Ynys Môn i weithio ar y blaenoriaethau y cytunwyd arnynt yn ystod 2015/16. Caiff adroddiadau monitro o’r tri maes blaenoriaeth - Pobl Hwn, Teuluoedd Cydnerth a Chymunedau Cynaliadwy – eu derbyn ym mhob cyfarfod i ddangos datblygiad a deilliannau’r gwaith. Yn ystod 2015/16, mae’r Bwrdd Gwasanaethau Lleol hefyd wedi bod yn gweithio tuag at weithredu Deddf Lles Cenedlaethau’r Dyfodol o Ebrill 2016 ymlaen. Mae’r Ddeddf yn gosod dyletswydd statudol ar Gyrff Cyhoeddus i weithio gyda’i gilydd a chreu Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus yn lle’r Bwrdd Gwasanaeth Lleol. Mae’r gwaith yma’n parhau a bydd cyfarfod cyntaf y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus ym Mai 2016. Yn ystod 2016/17 bydd y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus yn paratoi a chyhoeddi Asesiad o Les Lleol i Wynedd ac Ynys Môn a fydd yn sail i amcanion lles y dyfodol.

Cymeradwywyd cyllideb flynyddol a Chynllun Ariannol Tymor Canolig gan y Cyngor ym mis Mawrth 2016 yn sgil ymgynghoriad cyhoeddus helaeth. Roedd arbedion a thoriadau'n parhau i hawlio agenda'r Cyngor gyda'r nod o sicrhau gostyngiadau sylweddol i wariant o £10m dros y tair i bum mlynedd nesaf - swm sy'n cyfateb i 8%, wrth ganiatáu swm o £1m o'r cronfeydd wrth gefn at swm cyfyngedig o arian i drawsnewid gwasanaethau yn 2016/17.

Mae'r Cyngor wedi rheoli ei adnoddau mewn ffordd sydd wedi arwain at sefyllfa ariannol gytbwys ar ddiwedd blwyddyn 2015/16. Datblygwyd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) ymhellach sy'n rhagweld y bwlch ariannu am weddill cyfnod y Cyngor. Er mwyn pontio'r bwlch hwn, cynhaliwyd gwaith ers haf 2014 yn datblygu, gyda cydranddeiliaid, Strategaeth Effeithiolrwydd. Cafodd hon ei chymeradwyo'n ffurfiol gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Rhagfyr 2014 wedi cyfnod o ymgynghori'n gyhoeddus. Mae'r strategaeth hon yn rhoi'r fframwaith cyffredinol ynghylch sut mae'r Cyngor yn gweithredu ei her effeithlonrwydd.

Mae Rheolaeth Ariannol yn sylfaenol i redeg y Cyngor a gwnaed amryw o welliannau, un o'r rheini yw gosod a datblygu'n barhaus system rheolaeth ariannol sy'n bodloni anghenion a gofynion Awdurdod Lleol yn yr 21ain ganrif, gan sicrhau hefyd ddatblygiad parhaus y swyddogaeth gyfrifo. Mae'r mesurau hyn wedi golygu bod y Datganiad Cyfrifon, yn wahanol i flynyddoedd blaenorol, wedi eu cau'n llwyddiannus ar amser ar gyfer 2013/14 a 2014/15, gydag argymhellion cyfyngedig gan yr archwilwyr allanol.

Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen datblygu'r CATC yn fanylach, er mwyn gosod sefyllfa ariannol y Cyngor yn y dyfodol yng nghyd-destun cyflawni'r Cynllun Corfforaethol a'r penderfyniadau buddsoddi a dadfuddsoddi sy'n ofynnol er mwyn cyflawni hyn. Ar gyfer proses pennu'r gyllideb 2015/16, mae Aelodau a Swyddogion wedi parhau i gynnal cyfarfodydd rheolaidd i oruchwylio'r broses o ddatblygu'r strategaeth effeithlonrwydd a'i broses ymgynghori, yn ogystal â sicrhau bod cyllideb gytbwys yn cael ei phennu. Fodd bynnag, cytunodd Aelodau a Swyddogion fod angen i'r broses ar gyfer gwneud hynny wella er mwyn cael trefn well o ymgysylltu rhwng Aelodau ac Uwch Swyddogion. Ar gyfer proses pennu cyllideb 2015/16, sefydlwyd Gru p Llywio Cyllideb, wedi ei gadeirio gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol, gyda chynrychiolaeth o bob gru p gwleidyddol.

Cyhoeddwyd y Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2014/15 gyda barn archwilio ddiamod ddiwedd mis Medi 2015.

Roedd yr Adroddiad Perfformiad (Adolygiad Perfformiad) a gymeradwywyd gan y Cyngor Sir ym mis Hydref 2015 yn edrych yn ôl i asesu sut y bu i ni berfformio yn erbyn y blaenoriaethau a'r targedau a osodwyd yn ein Dogfen Darparu Flynyddol 2014/15 sy'n cyflawni blaenoriaethau a phrif nodau ein Cynllun Busnes Corfforaethol 2013-17. Fe'i haseswyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ei Lythyr Asesu Gwelliant fel y Cyngor oedd wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliannau o dan y Mesur ac wedi gweithredu yn unol ag arweiniad Llywodraeth Cymru.

Mae Fframwaith Rheoli Perfformiad yn ei le yn cynnwys cardiau sgorio chwarterol, heriau hanner blwyddyn i Wasanaethau ac adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Gwaith ac i'r Pwyllgor Sgriwtini.
Mae'r fframwaith yn parhau i gael ei datblygu ac i ganolbwyntio ar hunanasesiad gan Benaethiaid Gwasanaeth, ac ar y meysydd allweddol o risg a thrawsnewid. Mae hefyd yn canolbwyntio ar welliannau i adrodd ar y gweithlu a gwybodaeth ariannol. Yn ystod 2015, cynhaliwyd cyfres o Adolygiadau Gwasanaeth oedd yn cwmpasu –

**(i)** Cyllidebau Gwasanaeth ac Arbedion (Mehefin - Gorffennaf 2015)
**(ii)** Perfformiad (Tachwedd - Rhagfyr 2015)

Er ein bod wedi sefydlu dulliau gweithredu cadarn i sicrhau bod partneriaethau newydd yn cael eu llywodraethu'n effeithiol, mae gofyn cryfhau trefniadau llywodraethu rhai o'r trefniadau partneriaeth mwy hanesyddol. Blaenoriaeth ar gyfer 2016 fydd datblygu Polisi Partneriaethau a fydd yn rhoi fframwaith ar gyfer rheoli partneriaethau'n effeithiol (rhai sydd eisoes yn bodoli a rhai newydd) a chynnig arweiniad i'r unigolion hynny sy'n ymwneud yn uniongyrchol â phartneriaethau. At hyn, bydd y polisi'n amlinellu'r trefniadau llywodraethu i sicrhau y caiff y partneriaethau y mae'r Cyngor yn ymwneud â nhw eu rheoli'n effeithion ac effeithiol, gan ganolbwyntio ar gamau gweithredu a chanlyniadau sy'n helpu'r Cyngor i gyflawni ei nodau a'i amcanion Strategol.

Mae caffael yn rhan hanfodol o gyflawni gwasanaeth ym Môn gyda gwaith darparu gwasanaethau mawr wedi'u hallanoli e.e. gwastraff, proffyrdd a chefnogaeth ymgynghorol addysg. Tanlinellodd gwaith adolygu perfformiad cenedlaethol Llywodraeth Cymru a wnaed gan KPMG yn 2014 rai materion arwyddocaol i'r Cyngor roi sylw iddynt. Mae prosiect ffurfiol wedi'i sefydlu i roi sylw i'r camau a amlygir yn yr adroddiad. Mae'r prosiect wedi mynd i'r afael â'r prif faterion h.y. datblygu strategaeth a pholisi caffael gorfforaethol a strategaeth rheoli contractau yn ogystal â darparu hyfforddiant ar y Rheolau Trefniadaeth Contractau, Deddfwriaeth Caffael newydd yr UE i bob aelod o staff sy'n gyfrifol am gaffael. Bydd KMPG yn dychwelyd ganol 2016 i adolygu'r gwasanaeth a'i gynnydd o'r gwaith adolygu perfformiad a wnaed yn 2014. Hyd yma mae'r prosiect wedi sicrhau arbedion ariannol o £500k.

Mae adolygu Archwilio Mewnol ac adrodd ar brosesau sy'n cefnogi gwaith gwireddu amcanion y Cyngor a'u hadroddiad blynyddol yn rhan bwysig o adolygu effeithlonrwydd a ddisgrifir yn Adran 5 y Datganiad hwn.

Mae rheoli ceisiadau grant wedi bod yn wendid yn y gorffennol, ond mae cynllun gweithredu wedi ei sefydlu ac adlewyrchir gwelliannau yn lefel y ceisiadau amserol a gostyngiad yn y rhai lle'r oedd elfen o ansicrwydd. Yn 2014/15 roedd 21% (3) o'r ceisiadau'n gymwys:-

- Pensiynau Athrawon
- Cronfeydd Strwythurol - Datblygu Amgylchedd Arfordirol Môn
- Cronfeydd Strwythurol – Cronfa Fuddsoddi Leol Gogledd Cymru

Mae'r maes hwn yn dal i gael ei fonitro gan y Pwyllgor Archwilio. Bydd argymhellion o raglen archwilio 2014/15 yn cael eu gweithredu ar gyfer sicrhau grantiau 2016/17.

| | |
|---|---|
| **Egwyddor Dau:** | **Aelodau a swyddogion yn cydweithio i gyflawni pwrpas cyffredin gyda swyddogaethau a rolau wedi eu diffinio'n glir** |
| **Thema Allweddol Perthnasol:** | **Proffesiynol a chael ei Redeg yn Dda** |

Mae gan y Cyngor drefn Pwyllgor Gwaith gydag Arweinydd a etholir gan y Cyngor ynghyd â Phwyllgor Gwaith o hyd at chwe aelod a benodir gan yr Arweinydd. Mae'r Pwyllgor Gwaith yn gwneud penderfyniadau ar faterion strategol allweddol ac mae'n gyfrifol am weithredu'r polisïau y cytunwyd arnynt gan y Cyngor. Mae gan bob Aelod o'r Pwyllgor Gwaith bortffolio ar gyfer swyddogaeth benodol y Cyngor. Mae dau bwyllgor sgriwtini yn dal y Pwyllgor Gwaith i gyfrif; mae'r rhain yn cynnwys cynghorwyr nad ydynt ar y Pwyllgor Gwaith. Ceir pwyllgorau rheoleiddio hefyd yn cynnwys Cynllunio, Trwyddedu, Apeliadau ac Archwilio, ynghyd â nifer o bwyllgorau eraill a sefydlwyd at ddibenion penodol.

Mae trefniadau ar gyfer pwyllgorau a chynllun dirprwyo i swyddogion ac Aelodau wedi eu cynnwys yng nghyfansoddiad y Cyngor.

Gweithredwyd Protocol Perthynas newydd ar gyfer Aelodau a Swyddogion a rhaglen waith a gefnogwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ystod 2013 i gynorthwyo i ddatblygu'r Pwyllgor Gwaith a'r ffordd y mae Aelodau ac uwch swyddogion yn cydweithio. Mae hyn yn cynnwys swyddogaethau allweddol yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol. Mae'r trefniant hwn yn parhau.

Mae Aelodau Etholedig wedi bod yn awyddus i symud ymlaen o'r gorffennol ac maent wedi canolbwyntio eu hegni ar ddod yn Gyngor y mae arno wirioneddol eisiau datrys problemau, moderneiddio darpariaeth gwasanaeth a gwireddu ei addewidion. Er bod dadleuon adeiladol a gwahaniaeth barn, yn enwedig pan fo gwrthblaid swyddogol yn ei lle, bellach mae mwy o ymdeimlad o gynhwysiad, cyfrifoldeb torfol am ganlyniadau a rhannu llwyddiant. Hefyd mae mwy o ymddiriedaeth a natur broffesiynol yn y berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion a chanolbwyntir ar gyflawni gwasanaethau effeithiol i ddinasyddion.

Cwblhawyd strwythur uwch arweinyddiaeth newydd y Cyngor yn ystod 2012. Adolygwyd yr haen nesaf, sef y Penaethiaid Gwasanaeth, yn 2013/14 a arweiniodd at ostyngiad o chwe swydd ar y lefel hon. Yn sgil penodi Prif Weithredwr newydd ym Mai 2015 gwelwyd newidiadau pellach. Penodwyd y Prif Weithredwr newydd ar lefel cyflog is o 22% fel y cymeradwywyd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, ac aeth ati i ailstrwythuro'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA). Cytunwyd mewn egwyddor ar y cynigion ailstrwythuro ym Mawrth 2015. Cafodd y model gweithredu newydd wared ar haen tri Chyfarwyddwr Corfforaethol ac yn ei lle penodwyd dau Brif Weithredwr Cynorthwyol newydd sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr (un yn gyfrifol am faterion allanol y Cyngor a'r llall yn gyfrifol am faterion mewnol y Cyngor). Mae'r model newydd yn lliniaru'n well yn erbyn risg a hefyd penderfynodd y Pwyllgor Gwaith gynnwys y Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151 (penodiad newydd Hydref 2015) fel aelodau llawn o Uwch Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor ochr yn ochr â'r tair swydd newydd. Mae gan y penderfyniad hwn y potensial i ychwanegu profiad ac arbenigedd gwerthfawr i drafodaethau'r tîm.

Y model rheoli a gytunwyd yw bod yr UDA yn arwain ar ddatblygu gweledigaeth a chyfeiriad strategol y Cyngor ac yn cael eu dal i gyfrif yn y swyddogaeth honno. Felly, rôl yr UDA yw darparu arweinyddiaeth strategol a chorfforaethol, yn hytrach nag ymwneud â rheolaeth weithredol uniongyrchol gwasanaethau. Yn hwyr ym mis Tachwedd 2013 cynhaliwyd adolygiad o strwythur y Penaethiaid Gwasanaeth i adlewyrchu hyn. Canlyniad yr adolygiad oedd disgrifiadau swydd diwygiedig a rôl Penaethiaid Gwasanaeth i fod yn gyfan gwbl gyfrifol am reolaeth weithredol, perfformiad a chyfeiriad eu gwasanaethau, a dyna'r sefyllfa o hyd. Mae'r UDA hefyd wedi datblygu perthynas weithio gref gyda'r Pwyllgor Gwaith, sy'n hwyluso amgylchedd tryloyw ac iddo fwy o ymddiriedaeth lle mae swyddogion ac Aelodau'n cydweithio fel tîm.

Mae'r *Pwyllgor Archwilio* yn rhan allweddol o fframwaith llywodraethu'r Awdurdod. Mae gan y pwyllgor ddau aelod lleyg sydd wedi'u cyfethol ac sy'n gwasanaethu i ehangu sylfaen ei brofiad a'i wybodaeth annibynnol. Mae'n rhoi sicrwydd annibynnol i'r Cyngor a'i swyddogion statudol ynghylch: pa mor ddigonol yw'r fframweithiau llywodraethu a rheoli risg, amgylchedd y rheolaeth fewnol a chywirdeb y gwaith adrodd ariannol. Wrth oruchwylio gwaith archwilio mewnol ac allanol a rheoleiddwyr eraill, mae'n gwneud cyfraniad pwysig i sicrhau bod trefniadau sicrwydd effeithiol yn eu lle.

Yn ôl Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus 2013 CIPFA mae'n ofynnol i Bennaeth Archwilio Mewnol roi sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ynghylch holl system rheolaeth fewnol, yn cynnwys pa mor ddigonol yw trefniadau rheoli risg a llywodraethu corfforaethol. Dylid nodi nad yw sicrwydd llwyr byth yn bosibl. Y mwyaf y gall Archwiliol Mewnol ei ddarparu i'r Pwyllgor Archwilio yw sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw wendidau mawr yn y system rheolaeth fewnol drwyddi-draw.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor Archwilio wedi cynnal trosolwg o fframwaith sicrwydd y Cyngor drwy ystyried y farn archwilio ar ddarnau unigol o waith archwilio mewnol, adolygu cynnydd o ran gweithredu camau gwella yn deillio o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac ystyried y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Mae hefyd wedi derbyn sicrwydd o'r adroddiadau a gyhoeddwyd gan reoleiddwyr allanol yr Awdurdod.

Mae'r Pwyllgor yn cynnal hunanasesiad blynyddol ar ei berfformiad sy'n cyfrannu at ei flaengynllun gwaith. Mae arweiniad newydd ar rôl y Pwyllgorau Archwilio gan CIPFA yn rhagweld rôl llywodraethu ehangach nag a gafwyd yn y gorffennol. Yn gynnar yn 2015 ac yn unol â'r cyfarwyddyd hwn, rhoddodd y Pwyllgor Archwilio ystyriaeth i gylch gorchwyl newydd. Cafodd y gwelliannau a awgrymwyd eu drafftio ac, wedi ymgynghori yn eu cylch, bu i'r Pwyllgor Gwaith eu hystyried ar 20 Ebrill 2015, cyn cael eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 14 Mai 2015. Bellach yr enw ar y Pwyllgor yw'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

Gweithredodd y Cyngor y Safonau Archwilio Mewnol mewn Gwasanaethau Cyhoeddus yn Ebrill 2013. Mae disgwyl hefyd bod awdurdodau lleol yn cydymffurfio â Datganiad CIPFA ar Rôl y Pennaeth Archwilio Mewnol mewn Sefydliadau Gwasanaeth Cyhoeddus. Mae trefniadau'r Cyngor yn gyson â'r egwyddorion a nodwyd yn y datganiad.

Telir lwfansau i Aelodau yn unol â threfn leol sy'n seiliedig ar benderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Cyhoeddodd y Panel adroddiadau penodol i'r Cyngor hwn ynglwn â'r flwyddyn dan sylw. Y Cyngor Llawn sy'n penderfynu ar faterion dewisol ac mae'r cynlluniau, a'r taliadau a wnaed i Aelodau dan y cynllun, wedi eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Mabwysiadwyd Datganiad Polisi Tâl yn ôl y gofyn a chafodd ei adolygu a'i ddiweddaru ym mis Mawrth 2013 a 2014 a'i fabwysiadu unwaith eto gan y Cyngor Sir ym mis Chwefror 2015.

| | |
|---|---|
| **Egwyddor Tri:** | **Hyrwyddo gwerthoedd yr Awdurdod ac arddangos gwerthoedd llywodraethu da trwy gynnal safonau uchel o ymddygiad** |
| **Thema Allweddol Perthnasol:** | **Proffesiynol a chael ei Redeg yn Dda** |

Mae'r chwe thema allweddol sydd yn y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2013-17 yn nodi gwerthoedd y Cyngor a daeth y rheini'n rhan greiddiol o weithgarwch trawsnewidiol y Cyngor a'r weledigaeth ar gyfer cyflawni yn y dyfodol. O ganlyniad, mae'r Chwe Thema Allweddol yn sail i'r dull corfforaethol o weithio a rhoddir pwyslais ar bwysigrwydd llywodraethu da yn y Cynllun Corfforaethol.

Mae nifer o godau ymddygiad a phrotocolau yn eu lle fel rhan o'r Cyfansoddiad i sicrhau safonau uchel o ymddygiad ac ymarweddiad. Mae Polisi i Rwystro Twyll a Llygredd yn y Cyfansoddiad ynghyd â chynlluniau atodol. Yn eu plith mae Côd Ymddygiad Swyddogion, sy'n statudol. Mae Cyfarwyddyd Lleol bellach wedi'i gyhoeddi a'i gylchredeg i'r holl staff.

Y Swyddog Monitro yw swyddog arweiniol y ***Pwyllgor Safonau***, gyda saith o'i naw aelod wedi'u penodi'n allanol a'r gweddill yn Aelodau Etholedig. Mae'r Pwyllgor yn datblygu a chefnogi annibyniaeth a gwrthrychedd yn hytrach na llywodraethu gwleidyddol ac mae'n gwireddu hyn fel a ganlyn:-

- ☐ Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd i'r Cyngor
- ☐ Rhaglen Waith a gymeradwyir yn flynyddol gan y Cyngor
- ☐ Pedwar cyfarfod chwarterol a chymaint o gyfarfodydd arbennig ag sydd raid i ymdrin â chyfeiriadau gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a cheisiadau am ganiatâd arbennig
- ☐ Ymdrin ag unrhyw faterion o dan y Protocol Penderfynu'n Lleol
- ☐ Ymdrin ag unrhyw geisiadau gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gael gweld achosion lleol

- ☐ [Hyfforddiant a datblygiad] a drefnwyd gan y Pwyllgor Safonau ac/neu a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Safonau. Eleni canolbwyntiodd y Pwyllgor Safonau ar ddatblygu Cynghorwyr Tref. Yn 2016/17 canolbwyntir ar adolygu hyfforddiant i'w ddarparu i'r gru p newydd o Gynghorwyr ym Mai 2017.
- ☐ Yn ychwanegol at yr hyfforddiant i Aelodau, mae nodiadau briffio wedi'u cyhoeddi ar y meysydd pwnc a ganlyn :-

  - ➢ Dyraniadau Tai Cyngor Lleol
  - ▪ (o dan ystyriaeth ar hyn o bryd i adlewyrchu'r Polisi Dyraniadau newydd)
  - ➢ Adran 25 Deddf Lleoliaeth 2011
  - ➢ Caffael Cyhoeddus
  - ▪ (yn cael ei adolygu ar hyn o bryd i adlewyrchu'r Rheolau Gweithdrefn Contract newydd)
  - ➢ Rhyddid i Lefaru'n Wleidyddol v Cod Ymddygiad
  - ➢ Rhoddion a Lletygarwch
  - ➢ Caniatâd Arbennig

- ☐ [Fforwm Pwyllgor Safonau]
- ☐ Cynnal adolygiad blynyddol o dair Cofrestr Diddordebau Aelodau a chyhoeddi eu canfyddiadau a'r nodyn ymgynghorol i'r holl Aelodau. Eleni, mae aelodau annibynnol y Pwyllgor a gynhaliodd yr adolygiad hefyd wedi cysylltu â phob Aelod etholedig yn uniongyrchol ynghylch unrhyw faterion penodol sy'n berthnasol i'w cofrestriad nhw o'u diddordebau. Bydd adborth ysgrifenedig i Gynghorwyr unigol hefyd yn cael ei roi am y tro cyntaf ond, gan fod gan y Pwyllgor Safonau gyfrifoldebau hefyd am Gynghorwyr Cymuned, bydd ffocws y cofrestri eleni ar gynnal archwiliadau sampl o ddatganiadau o ddiddordeb mewn cyfarfodydd Cynghorau Cymuned. Bydd y broses hon yn cael ei chynnal trwy ddull seiliedig ar risg.

Un o nodweddion y Cyngor yn y gorffennol oedd ymddygiad gwael rhai Aelodau. Mae'r gwelliant a dystiwyd yn ystod cyfnod y Comisiynwyr wedi parhau. Ym marn y Pwyllgor Safonau, mae'r duedd wedi ei hymgorffori gyda dim ond un mater yn cael ei archwilio gan yr Ombwdsmon yn ystod 2015/16. Ym marn Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, gerbron y Cyngor ar 12 Mai 2016, mae hunan-reoleiddio yn gweithio'n effeithiol bellach ym Môn.

| | |
|---|---|
| **Egwyddor Pedwar:** | **Cymryd penderfyniadau tryloyw sydd ar sail tystiolaeth ac yn cael eu sgriwtineiddio'n effeithiol a rheoli risg** |
| **Thema Allweddol Perthnasol:** | **Arloesol, Uchelgeisiol ac Eangfrydig** |

Mae'r trefniadau ar gyfer dirprwyo penderfyniadau gweithredol i Aelodau unigol bellach wedi'u sefydlu ar draws yr Awdurdod yn sgil canllawiau a ail-gyhoeddwyd ym mis Awst 2013. Cafodd ei effeithiolrwydd ei adolygu ymhellach gan y rheolwyr yr hydref hwnnw.

Yn 2012, cyflwynodd y Cyngor systemau newydd i sicrhau mynediad hawdd i agendâu, papurau a chofnodion y Cyngor ac, ers Mai 2013, mae Aelodau a'r cyhoedd wedi cael mynediad llawn at bapurau pwyllgor a'r wybodaeth gefndirol. Mae gan Aelodau hefyd fynediad uniongyrchol at y system electronig yma yn ystod cyfarfodydd.

Yn ychwanegol, mae dau Bwyllgor Sgriwtini: un yn ymwneud â gwaith mewnol y Cyngor a'r ail yn ymwneud â phartneriaethau allanol ac effaith y Cyngor ar ei gymunedau. Mae'r ddau bwyllgor hyn wedi galluogi i Aelodau edrych yn fwy cyfannol a chorfforaethol ar y Cyngor, ei rôl a'i effaith.

Ffocws gwaith y **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** yw rhoi sicrwydd ynghylch perfformiad / darparu'r holl wasanaethau, sicrhau bod y cyngor yn cyflawni ei amcanion corfforaethol a gwasanaeth (fel yr amlinellir yn ei Gynllun Busnes Corfforaethol, Cyllideb Flynyddol, Fframwaith Cyllideb a Pholisi, Fframwaith Rheoli Perfformiad, Polisïau Corfforaethol neu eu cynlluniau a'u polisïau olynol) a chefnogi a gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau parhaus. Mae rhai o'r materion a fu'n destun sgriwtini yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- Monitro Perfformiad - Cerdyn Sgorio Corfforaethol bob 4 Chwarter
- Monitro'r Gyllideb - Alldro'r Gyllideb Gyfalaf ac Alldro Dros Dro'r Gyllideb Refeniw
- Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2014/15
- Moderneiddio Ysgolion – Ymgynghoriad Ffurfiol ar Ardaloedd Bro Rhosyr a Bro Aberffraw
- Panel Canlyniadau Sgriwtini: Arbedion Effeithlonrwydd 2015/16

Mae gan y **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaethau ac Adfywio** rôl bwysig a hanfodol i adolygu ein trefniadau a'n gwaith partneriaeth, a pharhau i gau'r diffyg democrataidd y mae partneriaethau wedi eu beirniadu amdano. Mae rhai o'r materion a fu'n destun sgriwtini yn ystod y flwyddyn gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaethau ac Adfywio yn cynnwys:

- Adolygiad Blynyddol o Bartneriaeth Tai Ynys Môn
- Diweddariad ar Sgriwtineiddio Cyd-fwrdd Gwasanaethau Lleol arfaethedig
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Gwasanaeth Monitro Galwadau Rhanbarthol Gogledd Cymru Galw Gofal/Care Connect
- Dogfen Bolisi Partneriaeth a Rôl Sgriwtini mewn Partneriaethau Monitro

Mae Aelodau'n cynrychioli Sgriwtini ar wahanol Fyrddau mewnol a grwpiau adolygu. Diben hyn yw hyrwyddo cynhwysiant, ychwanegu gwerth i'r drafodaeth ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Sgriwtini ynghylch cynnydd a thynnu sylw at feysydd y gellid bod angen eu sgriwtineiddio'n ffurfiol. Mae ffocws y *Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol* ar berfformiad wedi cefnogi newid diwylliannol ac wedi cyfrannu'n sylweddol at wella trefn llywodraethu.

Mae'r ddau bwyllgor Sgriwtini'n adrodd ynghylch eu gwaith i'r Cyngor yn ei gyfarfod blynyddol. Mabwysiadwyd y Polisi Rheoli Risg gan y Pwyllgor Gwaith ar 26 Mai 2015, ac mae'r Polisi a'r canllawiau cysylltiedig wedi cael eu huwchlwytho i Monitor (mewnrwyd y Cyngor). Mae'r dogfennau hyn yn cyd-fynd â'r fframweithiau Rheoli Risg a Rheoli Perfformiad.

Mae'r UDA wedi adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol bob chwarter ers Medi 2015. Yn unol â CPPMF, mae disgwyl i Wasanaethau ddiweddaru eu cofrestri risg bob chwarter gan dynnu sylw'r UDA at risgiau "coch" neu "ambr" er mwyn ystyried eu cynnwys yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol.

Yn ystod 2015/16, mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi derbyn adroddiad blynyddol ar y broses rheoli risg a dau ddiweddarid ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Cyflwynwyd adroddiad pellach ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol i'r Pwyllgor Sgriwtini ym Mawrth 2016.

Yn ystod y flwyddyn, dechreuodd gwaith i ddatblygu Cofrestri Risg ar gyfer Partneriaethau er mwyn i'r Pwyllgor Sgriwtini allu sgrwitineiddio'r risgiau'n deillio o Bartneriaethau. Cyflwynwyd adroddiad ar hyn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ym Mawrth 2016.

Sefydlwyd tri Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Corfforaethol cyffredinol (CTPBs) fel rhan o Raglen Drawsnewid y Cyngor yn 2013. Yna aeth y 3 bwrdd yn 2 a'u prif rôl ddiwygiedig yw monitro a sbarduno cynnydd ar Raglenni a Phrosiectau Newid cysylltiedig gan roi hyder i Aelodau etholedig ac Uwch Reolwyr fod manteision a ragwelid i'r Cyngor a chymunedau ym Môn yn cael eu gwireddu mewn modd amserol. Bydd hyn yn sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu darparu'n unol ag amcanion corfforaethol Ynys Môn.

Mae **Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Llywodraethu a Phroses Busnes** yn cael ei gadeirio gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol sy'n gyfrifol am yr holl faterion sy'n gysylltiedig â materion mewnol y Cyngor. Mae'r Bwrdd yn canolbwyntio ar trawsnewid prosesau mewnol ac ar wella rheolaeth fewnol a threfniadau llywodraethu. Ar hyn o bryd mae'n cynnwys materion yn ymwneud â:-

- Rheolaeth Perfformiad Corfforaethol a system Hunan Werthuso
- Rheolaeth Perfformiad Gwasanaeth a Hunan Werthuso
- Cynllunio a rheoli gweithlu
- Gweithio'n Gallach
- Strategaeth TGCh
- System Fudd-daliadau a Diwygio Lles
- Gofal cwsmeriaid [dinasyddion ac aelodau Etholedig]
- Caffael a gwaith adolygu perfformiad
- Cyfathrebu corfforaethol
- Rhaglen Sgriwtini
- Parhad Busnes

Mae **Bwrdd Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaeth** yn cael ei gadeirio gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol sy'n gyfrifol am yr faterion allanol y Cyngor. Mae'r Bwrdd yn canolbwyntio ar ddatblygu'r egwyddor o "Le", hybu partneriaethau a gwella gwasanaethau sy'n cael eu darparu i ddinasyddion Môn. Ar hyn o bryd mae'n cynnwys materion yn ymwneud â:-

- Moderneiddio Gwasanaethau: Ysgolion; OASC;
- Amgueddfeydd a Diwylliant; Llyfrgelloedd; Gwasanaeth Ieuenctid; Hamdden
- Partneriaethau
- Datblygu Lle – asedau i gynnwys tai
- Cynllun Rheoli Asedau [i gynnwys Effeithlonrwydd Ynni]
- Rheoli Cyrchfan
- Ynys Ynni
- Strategaeth Iaith Gorfforaethol
- Cynghorau Tref a Chymuned
- Cynnwys y Cyhoedd
- Datblygu Rheolaeth ar draws y Cyngor

Mae dull cadarn i reoli prosiectau a rhaglenni hefyd wedi ei weithredu'n gorfforaethol i sicrhau eu bod yn cael eu gweithred lle, gynt, yr ystyrid hyn fel maes o wendid. Mae'r Cyngor wedi buddsoddi mewn Swyddfa Rheoli Rhaglenni Corfforaethol gyda Rheolwyr Prosiect yn gyfrifol am brosiectau penodol. Mae hyfforddiant hefyd wedi ei dargedu a'r holl brosiectau'n cael eu goruchwylio gan y Rheolwyr Prosiect a phenodwyd Pennaeth Trawsnewid yn Ail Chwarter 2015/16.

Mae'r Pwyllgor Archwilio'n rhan allweddol o fframwaith llywodraethu'r Awdurdod. Mae gan y pwyllgor ddau aelod lleyg sydd wedi'u cyfethol ac sy'n gwasanaethu i ehangu sylfaen ei brofiad a'i wybodaeth annibynnol.

Mae'n rhoi sicrwydd annibynnol i'r Cyngor a'i swyddogion statudol ynghylch: pa mor ddigonol yw'r fframweithiau llywodraethu a rheoli risg, amgylchedd y rheolaeth fewnol a chywirdeb y gwaith adrodd ariannol. With oruchwylio gwaith archwilio mewnol ac allanol a rheoleiddwyr eraill, mae'n gwneud cyfraniad pwysig i sicrhau bod trefniadau sicrwydd effeithiol yn eu lle.

Cyflwynwyd Polisi Cwynion a Phryderon i'r Cyngor ar 1 Ebrill, 2013 ac mae'n rhoi pwyslais ar: Ofal Cwsmer, cofnodi'r holl bryderon yn systematig, datrys problemau'n gynnar ac arddangos y gwersi a ddysgwyd a gweithredu gwelliannau. Mae'r polisi wedi'i seilio ar bolisi Ombwdsmon Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru fel oedd yn ofynnol gan Lywodraeth Cymru.

Mae gennym Swyddog Gofal Cwsmer Canolog sy'n gweinyddu'r system a swyddogion cwynion ym mhob gwasanaeth sy'n gyfrifol am gydlynu ymatebion a hwyluso, lle y bo'n bosib, waith datrys problemau a godwyd yn gynnar.

Mae nifer y cwynion ffurfiol wedi gostwng yn raddol ers cyflwyno’r polisi newydd gan fod nifer o “bryderon” yn cael eu datrys yn gynnar ar lefel gwasanaeth. Nifer y cwynion ffurfiol yn 2015/16 oedd 59, 6 yn llai nag yn 2014/15. Roedd nifer y cwynion i’r Ombwdsmon unwaith eto’n gymharol isel ac ni ymchwiliwyd i unrhyw un a oedd yn gysylltiedig â’r rhai a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Caiff gwybodaeth ystadegol am gwynion am y gwasanaeth eu cyhoeddi'n fisol ar wefan y Cyngor ac maent yn rhan o adroddiad blynyddol : Pwyllgor Archwilio sydd hefyd yn ymdrin â'r Ddeddf Gwarchod Data, y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol; cyhoeddir y wybodaeth ystadegol ar gyfer rhain hefyd yn fisol ar wefan y Cyngor. Bydd Adroddiad Blynyddol 2015/16 hefyd yn cynnwys manylion am unrhyw gwynion yr ymdriniwyd â nhw o dan Bolisi Chwythu’r Chwiban.

| | |
|---|---|
| **Egwyddor Pump:** | **Datblygu capasiti a gallu Aelodau a swyddogion i fod yn effeithiol** |
| **Thema Allweddol Perthnasol:** | **Gwerthfawrogi a Datblygu ein Pobl** |

Mae'r Cyngor wedi ennill Siarter Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer Cefnogi Aelodau i gydnabod y gwaith yr ydym wedi'i wneud i roi cefnogaeth o safon uchel i Aelodau ymgymryd â'u gwahanol swyddogaethau amrywiol o fod yn arweinydd y gymuned, i'w cyfrifoldebau arbennig yn y Cyngor.

At hyn, mae nifer o Aelodau wedi cynnal adolygiadau datblygu proffesiynol ac mae anghenion hyfforddi wedi'u nodi o'r rhain.  Er mai dyddiau cynnar yw hi ar y datblygiad ym Môn, ystyrir bod datblygiad o'r fath yn allweddol i alluogi Aelodau i fod yn fwy effeithiol yn eu rôl. Mae hyn bellach wedi'i ymestyn i gynnwys aelodau annibynnol o'r Pwyllgor Safonau y mae eu perfformiad a'u hamcanion yn cael eu hadolygu gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau. Yn ystod 2015/16 parhaodd yr arfer hwn. Caiff hyfforddiant Aelodau ei fonitro gan Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae'r Cyngor hefyd wedi parhau i defnyddio'r sesiynau briffio i’r holl Aelodau ar ddatblygiadau mawr / strategaethau allweddol a chynigion cyllideb. Mae hyn wedi profi’n ddefnyddiol wrth gynyddu'r gwerthfawrogiad a'r ddealltwriaeth ehangach o wahanol gynlluniau cyn cynnal rhagor o ddadleuon a sgriwtini mewn fforymau cyhoeddus.

Mae'r ***Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd*** yn gyfrifol am adolygu pa mor ddigonol yw'r gefnogaeth i Aelodau, sy'n cynnwys: datblygu Aelodau, adnoddau staffio, cyfleusterau. Rhoddwyd i Gadeirydd y Pwyllgor ddisgrifiad swydd benodol ac mae gan aelodau'r Pwyllgor ddisgrifiad swydd ar wahân sy'n nodi swyddogaethau a  chyfrifoldebau. Mae'r Cadeirydd hefyd yn Hyrwyddwr Datblygu Aelodau ac yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd rhwydwaith Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru lle rhennir arfer gorau.

Mae nifer o Aelodau wedi derbyn adolygiadau datblygu proffesiynol ac mae anghenion hyfforddiant wedi eu nodi ar sail y rhain. Mae hyn bellach wedi ei ymestyn i gynnwys aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau y mae eu perfformiad a’u hamcanion yn cael eu hadolygu gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau.

Datblygodd y Pwyllgor raglen waith ar gyfer 2015/16 ac mae'r Cadeirydd yn adrodd yn flynyddol i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor, gan gynnwys adroddiad ar y Cynllun Datblygu Aelodau. Mae'r themâu sy'n gysylltiedig â Siarter Datblygu Aelodau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn rhan annatod o'i raglen waith.

Mae’r Cyngor wedi parhau gyda’r arfer o gynnal sesiynau briffio i’r holl Aelodau bob mis ar ddatblygiadau mawr / strategaethau allweddol a chynigion cyllideb. Mae hyn wedi profi’n ddefnyddiol wrth gynyddu'r gwerthfawrogiad a'r ddealltwriaeth ehangach o wahanol gynlluniau cyn cynnal rhagor o ddadleuon a sgriwtini mewn fforymau cyhoeddus.

Paratôdd pob Aelod adroddiadau blynyddol ar eu cyfrifoldebau yn ystod 2014/15 ac mae’r wybodaeth ar gael ar wefan y Cyngor.

Mae gan y Cyngor Strategaeth Pobl a ddatblygwyd yn 2011 ac fe’i hadolygwyd yn annibynnol yn 2016. Cadarnhaodd yr adolygiad annibynnol hwnnw fod y strategaeth yn dal yn “addas i’r pwrpas” i fynd â’r Cyngor ymlaen i 2020 gan ei bod yn parhau i gefnogi gweledigaeth y Cyngor ac yn darparu'r fframwaith ar gyfer symud ymlaen ein gwaith o reoli pobl.

Mae gan y Strategaeth Pobl bum blaenoriaeth allweddol:-

- Recriwtio a chadw'r gorau (arloesol, uchelgeisiol ac eangfrydig)
- Ysbrydoli rhagoriaeth mewn gwasanaeth (canolbwyntio ar y cwsmer, y dinesydd a’r gymuned)
- Adeiladu effeithiolrwydd sefydliadol (proffesiynol a chael ei redeg yn dda)
- Ymgysylltu â'n talent, ei ddatblygu a’i reoli (gwerthfawrogi a datblygu ein pobl)
- Datblygu sgiliau a chapasiti ein gweithlu (gwerthfawrogi a datblygu ein pobl) )

Un dasg bwysig a gyflawnwyd yn 2015/16 oedd cwblhau’r prosiect arfarnu swyddi/ statws sengl. Arweiniodd hyn at amodau a thelerau newydd cyson i staff ynghyd â chydraddoldeb. Cafwyd graddfa dâl ddiwygiedig a oedd yn sicrhau bod y cyflog byw a oedd yn weithredol ar y pryd ar gael i’r staff ar gyflogau isel. Mae cwblhau’r prosiect wedi cael effaith sylweddol o ran adnoddau ar Adnoddau Dynol a gwasanaethau’n gyffredinol gan ei bod yn anochel nad oedd modd gwneud cymaint o gynnydd mewn gweithgareddau eraill e.e. ni ddatblygodd y gwaith a ragwelid i fwrw ymlaen â chynllunio gweithlu ar y raddfa a ddisgwylid. Gan edrych ymlaen tuag at 2016/17, mae blaengynllun yn ei le i ddatblygu materion.

Mae fforwm Rheolwyr Canol bywiog ac mae’r Clwb Sbardun yn darparu sesiynau dysgu ysbrydoledig sy’n agored i bob aelod o staff. Fel rhan o’r gweithgarwch ar y Cynllun Trawsnewid a’r gweithgareddau ymgysylltu â staff, mae unigolion ar draws yr Awdurdod wedi cael cyfle i weithio ar brosiectau a strategaethau corfforaethol.

Cyflwynwyd seremoni gwobrwyo staff ym mis Rhagfyr 2013 gan barhau yn 2014 a 2015 i gydnabod, dathlu a hyrwyddo llwyddiannau staff y Cyngor. Mae ein staff yn gweithio'n galed bob dydd i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus i bobl Môn ac mae gwobrwyo staff yn gyfle i arddangos gwaith da a faint yr ydym yn gwerthfawrogi ein pobl. Ceir chwe chategori o wobrau sy'n gyson a'r *'Chwe Thema Allweddol'*. Yn ystod 2015, cafodd y seremoni ei hehangu i gydnabod y staff hynny sydd wedi ennill cymhwyster proffesiynol a chyflwyno gwobrau am wasanaeth hir.

| | |
|---|---|
| **Egwyddor Chwech:** | **Ymgysylltu â phobl leol a rhanddeiliaid eraill er mwyn sicrhau atebolrwydd cadarn** |
| **Thema Allweddol Perthnasol:** | **Canolbwyntio ar y Cwsmer, y Dinesydd a’r Gymuned** |

Fel mewn blynyddoedd blaenorol ac yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo weithio'n agos gyda’i bartneriaid allweddol yn y maes gwaith hwn er mwyn osgoi dyblygu a defnyddio'i adnoddau'n effeithiol. Mae tystiolaeth o ymgysylltu da ar lefel gwasanaeth sy'n dangos sut mae'r Cyngor yn rhannu ei benderfyniadau ac mae diwylliant o ymddiriedaeth a dealltwriaeth gyda’i ddinasyddion e.e. :-

- Rhaglen trawsnewid Gofal Cymdeithasol Oedolion Hwn a phenderfyniad
- Rhaglen Moderneiddio Ysgolion Cynradd a phenderfyniad
- Rhaglen Ymgynghori a Strategaeth Tai

Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod bod lle i wella o ran ymestyn y grup o ddinasyddion sy'n weithgar (yn cynnwys grwpiau anodd eu cyrraedd). O'r herwydd, mae uwch swyddogion bellach wedi nodi'r cyfleoedd i greu proses safonol a syml i ymgysylltu ar draws y sector cyhoeddus a'r trydydd sector.

Gan adeiladu ar lwyddiant prosiect peilot Seiriol ym Miwmares a'r cyrion, defnyddiwyd model newydd i ymgysylltu â'r gymuned fel llinell sylfaen i wella dull gweithredu'n Gorfforaethol wrth ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae'r model hwn am fod yn hanfodol i nodi'r cymunedau a'r grwpiau hynny a fydd â diddordeb mewn cymryd drosodd gyfrifoldeb am gyflawni anghenion o fath lleol yn eu cymunedau. Ers i'r model gychwyn, mae wedi cael ei deilwra i'w ddefnyddio mewn gwahanol waith ymgysylltu ac ymgynghori. Mae'r model hwn wedi ei gymeradwyo gan y Bwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori diwygiedig dan arweiniad Prif Weithredwr Cynorthwyol.

Sefydlwyd y Bwrdd hwn ar y cyd â'r prosiect 3ydd sector *Lleisiau Lleol,* i oruchwylio datblygiadau a sicrhau y byddir yn prynu i mewn i hyn. Bydd gweithredu fel hyn yn sicrhau y caiff barn gwahanol cydranddeiliaid ar draws Môn ei hadlewyrchu'n gywir ac y gellir ei defnyddio maes o law'n sail i'r broses gwneud penderfyniadau.

Rhagwelir y bydd yn gweithredu ar draws y Cyngor wrth ymgysylltu a chynnwys cydranddeiliaid. Bydd hyn yn lleihau dyblygu, yn sicrhau gweithredu'n dorfol wrth ymgysylltu ac yn gwella ein gwybodaeth mewn ardaloedd fel Cyngor.

Er mwyn cynorthwyo'r Cyngor i gyfrannu at nod corfforaethol gwireddu'r *gwaith rhagorol o ran canolbwyntio ar y cwsmer, y dinesydd a'r gymuned'* (6 Thema Allweddol), mae Prosiect Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cwsmeriaid wedi ei sefydlu. Mae'n cyfrannu tuag at drawsnewid y ffordd y mae'r Cyngor yn rhyngweithio â'i gwsmeriaid er mwyn darparu gwasanaethau cost effeithiol ac amserol trwy sianelau mynediad hunanwasanaeth effeithiol sy'n seiliedig ar alw.

Cafodd Siarter Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cwsmeriaid ei chymeradwyo a'i lansio ym mis Rhagfyr 2014 yn sgil ymgynghori gyda grwpiau o gydranddeiliaid rheng flaen, swyddogion, Aelodau Etholedig, staff ac undebau llafur. Mae'r Siarter yn amlinellu ein haddewidion i'r cwsmeriaid ynghylch sut byddwn yn ymdrin â'u ceisiadau. Mae hefyd yn amlinellu'r disgwyliadau sydd gennym o ddefnyddwyr ein gwasanaeth i sicrhau bod dealltwriaeth glir o'r cychwyn cyntaf. Ymhlith y gwerthoedd y mae'r Siarter yn eu harddel mae `rhoi'r cwsmer yn gyntaf' ac arddangos agwedd `gallaf wneud'. Yn unol â'i bolisi iaith, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod y gwasanaeth ar gael yn newis iaith defnyddiwr y gwasanaeth (Cymraeg neu Saesneg).

Dechreuodd peilot gweddarlledu dwy flynedd wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2014. Mae hon yn enghraifft gadarnhaol o sut mae Ynys Môn wedi datblygu ei ddull gweithredu electronig o ganolbwyntio ar ei gwsmeriaid / ei ddinasyddion trwy weddarlledu cyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith, Cynllunio a Gorchmynion a'r Cyngor. Mae hefyd yn ychwanegu at dryloywder gwneud penderfyniadau ac yn cynnwys cynulleidfa llawer ehangach ar gyfer dadleuon. Mae'r datblygiad hwn yn enghraifft effeithiol o'r agenda newid sianelau ac ymdrech barhaus y Cyngor i roi sylw i adnewyddu democrataidd. Mae'r diddordeb wedi bod yn galonogol hyd yn hyn gyda'r cyhoedd yn troi ato dros 12,000 o weithiau. Hefyd cynhaliwyd arolwg staff yn ystod haf 2013 a bydd yr arolwg nesaf yn cael ei gynnal y flwyddyn nesaf (2017).

Mae trefniadau yn eu lle i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, Archwilio Allanol a rheoleiddwyr eraill a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae'r rhain wedi'u cryfhau yn ystod cyfnodau diweddar yn sgil yr ymyrraeth a chânt eu cynnal fel rhan o'r trefniadau llywodraethu parhaus.

Mae ymgysylltiad mewnol yn hanfodol i ddatblygu diwylliant 'Tîm Môn' ac rydym yn y broses o fireinio'r Fframwaith Cyfathrebu Mewnol. Rydym yn gwerthfawrogi barn y staff a'r Aelodau wrth iddynt gyfrannu at yr agenda trawsnewid. Rhoddwyd cyfleoedd trwy ystod o fforymau lle cafodd y staff ac Aelodau eu hannog i gymryd rhan weithgar. Cynhaliwyd sesiynau briffio anffurfiol rheolaidd i Aelodau ar ystod o bynciau. Mae hyn yn eu galluogi i ddeall yn well feysydd gwaith penodol ac yn caniatáu iddynt baratoi ar gyfer sgriwtini a gwneud penderfyniadau cytbwys. Bydd sesiynau briffio misol yn ymddangos yng nghalendr y Cyngor ar gyfer 2015/16.

Cyhoeddwyd adroddiadau blynyddol ar eu gwaith gan Sgriwtini yn ogystal â'r Pwyllgorau Safonau ac Archwilio. 0 fis Mehefin 2014, mae Aelodau unigol wedi cyhoeddi adroddiadau blynyddol hefyd.

Ceir trefniadau sydd wedi hen ennill eu plwyf o ran ymgysylltu a chyflogeion: gydag Undebau Llafur trwy'r Cyd-bwyllgor Ymgynghorol Lleol a chyfarfodydd llai ffurfiol, a chyfathrebu â staff yn gyffredinol trwy e.e. bwletinau staff misol. Ymgynghorwyd â rheolwyr a staff a chawsant eu dwyn i mewn i wneud penderfyniadau fel rhan o'r Rhaglen Trawsnewid.

## 5. ADOLYGU EFFEITHIOLRWYDD

Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn gyfrifoldeb am gynnal, o leiaf yn flynyddol, adolygiad o effeithlonrwydd ei fframwaith llywodraethu gan gynnwys y drefn rheolaeth fewnol. Mae'r adolygiad o effeithlonrwydd yn elwa ar waith rheolwyr o fewn yr Awdurdod sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, ar adroddiad blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol a hefyd, ar sylwadau a wnaed gan archwilwyr allanol ac asiantaethau arolygu ac archwilio eraill.

Mae effeithlonrwydd y fframwaith llywodraethu wedi ei werthuso trwy gyfuniad o:-

- ganlyniadau adolygiadau a monitro cyson yn ystod y flwyddyn gan swyddogion a phwyllgorau;
- adolygiad o ddogfennau perthnasol a baratowyd yn ystod y flwyddyn neu'n ymwneud â'r flwyddyn;
- adolygiad o gynnydd yn erbyn y Cynllun Corfforaethol;
- adolygiad o'r chwe thema sy'n sail i werthoedd yr Awdurdod;
- adolygu adborth gan Estyn ac Arolygiaeth Gwasanaethau Gofal a Chymdeithasol Cymru a'r byrddau adfer perthynol ar y gwaith gwella ynglŵn ag Addysg a Gwasanaethau Plant;
- cyfres o gyfweliadau gyda phrif swyddogion;
- trafodaeth gyda grwpiau o swyddogion ac Aelodau, gan gynnwys yr UDA a'r Pwyllgor Gwaith, a chael eu sylwadau .

At hyn mae adolygu a monitro blynyddol cyson yn cynnwys:-

- gweithgaredd rheoli risg ffurfiol, gan gynnwys ystyriaeth benodol i'r risgiau hynny sy'n gysylltiedig â phrosesau llywodraethu;
- Archwilio Mewnol, y mae eu gwaith yn cymryd i ystyriaeth risgiau sydd wedi eu nodi trwy archwiliadau cyson o'n prif systemau, sefydliadau, prosiectau o sylwedd a phrif brosesau llywodraethu, gan gynnwys rheoli risg, yn unol â'r cynllun archwilio mewnol blynyddol, ac yn cynnwys gwaith `dilyn-i-fyny' i sicrhau fod uwch swyddogion yn cyflwyno'r argymhellion y cytunwyd arnynt;
- asesiad blynyddol Archwilio Mewnol gan archwilwyr allanol y Cyngor;
- gwaith Pwyllgorau Sgriwtini a phwyllgorau eraill y Cyngor gan gynnwys ei bwyllgorau Archwilio a Safonau;
- barn ac argymhellion archwilwyr allanol y Cyngor ynghyd ag asiantaethau adolygu ac arolygwyr eraill;
- monitro cyson gan Aelodau ac uwch-reolwyr o wella a pherfformiad yn erbyn y Cynllun Corfforaethol a'r cynlluniau a'r strategaethau cefnogol.

Caiff polisïau allweddol, ac unrhyw newidiadau iddynt, eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith a, lle bo'n briodol, eu mabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor Sir.

Ym mis Chwefror 2015, cynhaliwyd Asesiad Corfforaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru ac roedd yr adroddiad dilynol (sydd wedi ei gynnwys fel rhan o Adroddiad Gwella Blynyddol SAC 2014/15 a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2015) yn dod i'r casgliad:-

*"bod y Cyngor wedi gwella ei hunanymwybyddiaeth, gan wneud cynnydd da i gryfhau ei drefniadau a gwella gwasanaethau, ond mae llawer i'w wneud o hyd i ddefnyddio staff ac adnoddau eraill yn fwy strategol".*

## 6. MATERION LLYWODRAETHU O BWYS

Y ffynhonnell swyddogol ddiweddaraf o ddadansoddi cynnydd, felly, yw'r Adroddiad Gwella Blynyddol a ryddhawyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Rhagfyr 2015. Nododd yr adroddiad hwnnw y gwnaed cynnydd da ar draws nifer o themâu yn ystod y flwyddyn a daeth i'r casgliad fod:-

- hunanymwybyddiaeth y Cyngor a'i hanes o wella'r drefn lywodraethu a rheoli'n debygol o'i helpu i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn 2015/16;
- Aelodau, swyddogion a phartneriaid yn cydweithredu'n dda o fewn fframwaith llywodraethu sy'n gwella, gan roi sylw i drefniadau lleol a blaenoriaethau nad ydynt yn gweithio'n dda;
- y Cyngor wedi cymryd camau i fynd i'r afael â gwendidau yn ei ddefnydd strategol o adnoddau ond mae mwy o waith o'i flaen yn wyneb heriau ariannol;
- Y Cyngor wedi gwneud cynnydd da yn erbyn ei flaenoriaethau gwella allweddol.

Ni wnaed unrhyw argymhellion statudol na ffurfiol yn yr adroddiad Gwella Blynyddol, ond gwnaed nifer o 'gynigion ar gyfer gwella' fel a ganlyn:-

- Dylai'r Cyngor adolygu ei flaenoriaethau gwella i sicrhau bod graddfa ei uchelgeisiau'n glir a'i fod yn adlewyrchu'n realistig y capasiti a'r adnoddau sydd gan y Cyngor;
- Dylai'r Cyngor sicrhau fod ei strategaethau ar gyfer Pobl, TGCh a Rheoli Asedau wedi eu cysylltu'n glir â Chynllun Corfforaethol y Cyngor a'r strategaeth ariannol gysylltiedig;
- Dylai'r Cyngor ymgorffori ymhellach ddiwylliant o weithio corfforaethol cyson ymysg staff ar bobl lefel a sicrhau bod staff ar bob lefel yn cael eu dwyn i gyfrif am gydymffurfio â pholisïau'r Cyngor a gweithredu penderfyniadau;
- Wrth weithredu ei strategaeth gaffael newydd, dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn datblygu a defnyddio'r sgiliau angenrheidiol i reoli a monitro'n well gontractau gyda chyflenwyr allanol nwyddau a gwasanaethau;
- Dylai'r Cyngor sicrhau dull cyson o gynllunio gweithlu a defnyddio'r canlyniadau i ddylanwadu ar leihau niferoedd staff yn y dyfodol;
- Dylai'r Cyngor fynd ati'n systemataidd a, lle y bo'n briodol, yn gorfforaethol, i roi sylw i'r argymhellion a'r cynigon i wella sydd wedi eu cynnwys yn y canlynol:-
    - adolygiadau SAC o drefniadau'r Cyngor i helpu i ddiogelu plant ac o Gyd-Fwrdd Gwasanaeth Lleol Môn a Gwynedd;
    - adolygiad o'r gwasanaeth TGCh a gomisiynwyd gan y Cyngor;
    - Hysbysiad Gorfodi a gyflwynwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth;
    - Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2013/14 a gyflwynwyd gan Arolygiaeth Gofal Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru; ac
    - adroddiadau a baratowyd gan Archwilio Mewnol.

Mae Adroddiad Blynyddol 2016 y Pennaeth Archwilio Mewnol yn rhoi sicrwydd ynglŵn â'r fframwaith ar gyfer rheolaeth fewnol. Mae'n nodi bod y Gwasanaeth wedi cwblhau 44 archwiliad yn ystod y flwyddyn, 6 ohonynt heb eu cynllunio yn erbyn targed a gynlluniwyd o 63 archwiliad.

Roedd yr holl archwiliadau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn yn dangos bod lefelau sicrwydd cadarnhaol ac eithrio Adfer Systemau TGCh a gafodd asesiad o Sicrwydd Isel, ac aseswyd yr archwiliadau canlynol fel rhai oedd yn rhoi Sicrwydd Cyfyngedig:-

- Parhad Busnes;
- Ysgol Cemaes;
- Tai Fforddiadwy, Tai'n Gartrefi a Chynlluniau Benthyciad Pontio;
- Partneriaethau; a
- Pholisïau ac Arferion Adnoddau Dynol ar gyfer Rheoli'r Gweithlu.

Cynhaliwyd archwiliadau dilynol o Adfer Systemau TGCh a Pharhad Busnes yn ystod mis Mawrth a Chwefror 2016, yn y drefn honno, ac ailaseswyd y Lefel Sicrwydd fel Rhesymol.

Cynhaliwyd adolygiad pellach o'r Fframwaith Rheoli Risg yn ystod 2015/16, a ddangosodd broses bwysig i ymgorffori rheoli risg yn yr Awdurdod. Parhaodd Archwilio Mewnol i ganolbwyntio adnoddau ar feysydd yn gysylltiedig â grant yn ystod 2015/16 i sicrhau bod y risgiau'n deillio o'r math hwn o gyllid yn cael eu rheoli'n briodol. Ni nodwyd unrhyw risgiau sylweddol o safbwynt y grantiau a adolygwyd. Yn ôl canlyniadau cyffredinol gwaith Archwilio Mewnol roedd 73% o adolygiadau'n dangos barn 'gadarnhaol' (Sylweddol neu Resymol) a 27% yn dangos barn sicrwydd 'negyddol'. Mae'r 27% o adroddiadau â sgôr sicrwydd negyddol yn cynnwys 6 adroddiad (1 Isel a 5 Cyfyngedig).

Mae'r farn gyffredinol ar gyfer y systemau a adolygwyd yn rhoi Lefel Sicrwydd Resymol, sy'n gyson â blynyddoedd blaenorol. Mae'r lefel sicrwydd gyffredinol hon yn seiliedig ar gwmpas y gwaith a wnaed, ar weithredu'r camau a argymhellwyd i reolwyr a bod y systemau hynny'n parhau i weithredu fel y bwriadwyd nhw. Mae'r Gwasanaeth wedi cynnal 6 archwiliad ychwanegol a oedd heb eu cynllunio yn ystod y flwyddyn, a oedd i gyfrif am 37.88 diwrnod gwaith ychwanegol.

Yn ôl Safonau Archwilio Mewnol y DU, rhaid i Archwilio Mewnol ddilyn i fyny y camau rheoli sy'n deillio o'i aseiniadau. Mae'r Broses Dilyn i Fyny a Monitro a amlinellwyd mewn adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 8 Rhagfyr 2015 wedi ei chyflwyno i wella trefn monitro ac adrodd ynghylch cynnydd wrth weithredu'r argymhellion y cytunwyd arnynt.

Cyn Rhagfyr 2015 casglwyd y data'n unig o hunanasesiad gan y gwasanaethau perthnasol ac nid oedd yn cael ei gadarnhau gan Archwilio Mewnol nes bod adolygiad archwiliad dilynol wedi ei gynnal yn yr un maes. Mae **Tabl 1** isod yn crynhoi'r gweithredu ar 31 Mawrth 2016.

| Tabl 1 – Statws argymhellion y cytunwyd arnynt ar 31-3-2016 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Statws** | **Uchel** | **Canolig** | **Cyfanswm** | **%** |
| Cwblhawyd | 35 | 141 | 176 | 74 |
| Heb eu cwblhau | 6 | 55 | 61 | 26 |
| Cyfanswm | 41 | 196 | 237 | 100 |

Ar hyn o bryd mae argymhellion yn cael eu mesur fel uchel, canolig neu isel. Nid yw'r rhai sy'n cael sgôr isel yn cael archwiliad dilynol gan Archwilio Mewnol ac nid ydynt yn cael eu cynnwys yn y dadansoddiad hwn. Y gyfradd weithredol ganrannol ar 31 Mawrth 2016 yw bod **74%** o argymhellion 'uchel' a 'chanolig' wedi eu cofnodi fel rhai a weithredwyd.

Mae adroddiad y Pennaeth Archwilio Mewnol hefyd yn nodi meysydd lle byddai gwendidau sylweddol mewn rheolaeth yn atal y Cyngor rhag gallu dibynnu'n rhesymol ar y systemau rheoli mewnol o safbwynt y systemau hynny a adolygwyd yn ystod y flwyddyn. Bydd y meysydd yn parhau i fod yn bryder i Archwilio Mewnol nes bod yr holl argymhellion pwysig wedi eu gweithredu ac y gellir rhoi sicrwydd bod y fframweithiau a'r systemau yn eu lle wedi eu hymgorffori yn gadarn ac effeithiol. Gwelir sefyllfa bresennol y rhain isod :-

| **Materion Llywodraethu o bwys** | **Camau a nodwyd i roi sylw i wendidau** |
|---|---|
| **Rheoli Gwybodaeth** - Adroddwyd yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2014/15 fod 'peth cynnwys ar lywodraethu gwybodaeth yn ystod yr 20 mis diwethaf'. Yn adroddiad dilynol Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a dderbyniwyd yn Ionawr 2015 cofnodwyd lefel sicrwydd Gyfyngedig. Derbyniodd y Cyngor Hysbysiad Gorfodi o Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth dyddiedig 1 Hydref 2015, gan fod gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth hyder cyfyngedig yn ymrwymiad y Cyngor i weithredu'r camau gofynnol ar sail barhaus.<br>Ni wnaeth Archwiliad Mewnol a gynhaliwyd yn ystod 2015/16 ystyriaeth i **Hysbysiad Gorfodi Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth** a wnaed yn 2015/16 gan fod cwmpas yr archwiliad wedi ei gyfyngu i sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â pholisïau ac arferion Llywodraethu Gwybodaeth y Cyngor ac arweiniodd at lefel sicrwydd Resymol. | Nododd adroddiad Archwilio Mewnol fod gwelliannau yn nhrefniadau Llywodraethu Gwybodaeth y Cyngor; mae'n gywir gwahaniaethu rhyngddo a Hysbysiad Gorfodi Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, a oedd yn cyfeirio at faterion hanesyddol gwahanol. Mae'r Hysbysiad Gorfodi'n cael sylw drwy gynllun gwaith, wedi ei fonitro gan Fwrdd Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol y Cyngor. Mae deilliannau sylweddol, hyd yma, yn cynnwys caffael system rheoli a derbyn polisi, sy'n cael ei weithredu ar hyn o bryd. |

| | |
|---|---|
| **Partneriaethau - Trefniadau Llywodraethu** - Nid oes gan y Cyngor bolisi partneriaeth i ddarparu fframwaith ar gyfer rheoli'n effeithiol drefniadau partneriaeth newydd a phresennol ac ni chedwir cofrestr ganolog i gofnodi'r partneriaethau y mae'r Cyngor yn rhan ohonynt. | Diweddarodd y Brif Weithredwr Cynorthwyol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 15 Mawrth 2016 gyda chwmpas y ffrydiau gwaith Partneriaeth wedi eu hanelu at ffurfioli'r trefniadau ar gyfer monitro, adolygu a llywodraethu partneriaethau presennol a'r rhai a lunnir yn y dyfodol. Cyfeiriwyd at ddatblygu dogfen Polisi Partneriaethau sy'n crynhoi gweledigaeth y Cyngor ar gyfer gweithio mewn partneriaeth. |
| **Sicrhau bod trefn Lywodraethu'n cydymffurfio â Pholisïau'r Cyngor** - Nododd Asesiad Corfforaethol 2014/15 fod angen ymgorffori diwylliant o weithio corfforaethol cyson ymysg staff ar bob lefel a'u dwyn i gyfrif am gydymffurfio â Pholisïau'r Cyngor. Mae materion yn ymwneud â diffyg cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau corfforaethol allweddol wedi eu nodi mewn archwiliadau mewnol a gyflawnwyd yn ystod 2015/16, e.e. Llywodraethu Gwybodaeth - Adolygiad Cydymffurfio Blynyddol, Polisïau ac Arferion AD ar gyfer Rheoli'r Gweithlu a Systemau Adfer TGCh. | Yn dilyn ymarferiad tendro, mae'r Cyngor wedi nodi a phrynu datrysiad rheoli polisi electronig.<br>Cytunwyd ar fformat corfforaethol ar gyfer polisïau. Mae papur rolau a chyfrifoldebau a chynllun gweithredu mewnol yn cael ei baratoi.<br>Cyflwynwyd adroddiad cynnydd i'r UDA ar 3 Mai 2016. Mae gwasanaethau wedi nodi polisïau allweddol y mae angen eu derbyn yn ystod y 12 mis cyntaf a bydd yr UDAr yn eu hystyried a'u blaenoriaethu ar 31 Mai.<br><br>Risg allweddol i weithredu'r system yn effeithiol yw'r angen i gael manylion staff llawn a chyfredol ar Outlook. Mae hyn yn cael sylw ar hyn o bryd, gyda TGCh yn anfon e-byst atgoffa bob wythnos. |
| **Fframwaith Caffael Corfforaethol** Yn sgil cyflwyno'r Rheolau Caffael Contract newydd mae adolygiad o'r trefniadau Caffael wedi ei gynnwys yng Nghynllun Gweithredu Archwilio Mewnol ar gyfer 2016/17 i roi sicrwydd y bydd y newidiadau'n arwain at gynnydd mewn cydymffurfio â rheoliadau, polisi a gweithdrefn caffael. | Tanlinellodd gwaith adolygu perfformiad cenedlaethol Llywodraeth Cymru a wnaed gan KPMG yn 2014 rai materion allweddol i'r Cyngor roi sylw iddynt. Sefydlwyd prosiect ffurfiol o fewn yr Awdurdod; mae'r prosiect wedi mynd i'r afael â'r prif argymhellion yn yr adroddiad a hefyd sicrhawyd £500k o arbedion ariannol.<br><br>Cyflwynwyd a gweithredwyd Rheolau Trefniadaeth Contractau diwygiedig, gan ystyried Rheoliadau 2015 Caffael Cyhoeddus newydd yr UE. Mae'r Tîm Caffael Corfforaethol wedi darparu hyfforddiant i'r holl staff ar y ddeddfwriaeth newydd a'r Rheolau Trefniadaeth Contractau.<br><br>Bydd gwaith adolygu caffael arall yn cael ei gynnal gan ddarparwr allanol ar ran Llywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2016 i sicrhau bod yr argymhellion wedi cael sylw. |

| | |
|---|---|
| **Gweithredu'r Argymhelliad** – Mae mater parhaus ynghylch gweithredu argymhellion Archwilio Mewnol, yn enwedig hefo ysgolion. | Roedd Asesiad Corfforaethol 2014/15 yn cynnwys cais i wella y dylai'r Cyngor ymdrin yn systemataidd â'r argymhellion mewn adroddiadau a baratowyd gan Archwilio Mewnol. Mae Archwilio Mewnol a'r Uned Trawsnewid bellach wedi gweithredu ar hwn ac yn paratoi adroddiadau chwarterol i'r UDA er mwyn monitro cynnydd ar yr argymhellion mewnol ac allannol mewn peth manylder, ac unrhyw faterion o bryder yn cael eu nodi a'u dilyn i fyny. |
| **Adfer Systemau TGCh -** Mae'r materion pwysig a nodwyd yn flaenorol o safbwynt TGCh yn cael sylw, er y bydd angen gwaith parhaus yn 2016/17 i sicrhau bod y rheolau mewnol sy'n cael eu gweithredu gan reolwyr yn cael eu hymgorffori'n briodol ar draws yr Awdurdod. | Mae'r Gwasanaeth TG wedi cysylltu â'r holl wasanaethau i adnabod rhifau ffôn allweddol. Mae gwasanaeth allanol wedi'i gaffael a fyddai'n ail-lwybrwyo galwadau ffôn i'r rhifau hyn mewn achos o ddigwyddiad mawr. (Cwblhawyd)<br>Mae thechnolegau storio a gweinydd data gorau yn eu dosbarth wedi cael eu prynu a fydd yn caniatáu darparu canolfan ddata oddi ar y safle fyddai'n gallu rhedeg gwasanaethau allweddol petai Pencadlys ddim ar gael. Cafwyd cytundeb ar lleoliad y ganolfan data newydd ond mae cynnydd bellach yn dibynnu ar preswylwyr presennol yn gadael yr uned (Rhagfyr 2016).<br>Nid yw anghenion TG BCM gwasanaethau wedi cael eu mynegi eto ganddynt ac nid yw'n glir lle mae gwasanaethau yn bwriadu lleoli eu hunain mewn achos o ddigwyddiad mawr, na pa systemau a data y byddent angen mynediad atynt. Mae'r Gwasanaeth TG wedi defnyddio ateb mynediad o bell Citrix a allai ganiatáu i staff allweddol weithio gartref. Bydd Gwasanaeth TG yn cyfarfod y Penaethiaid Gwasanaeth i nodi eu hanghenion TG BCM a'r costau cysylltiedig i'w gweithredu (Rhagfyr 2016).<br>Mae'r Gwasanaeth TG yn aelod o•r gru p gorchwyl Parhad Busnes corfforaethol ac mae ar gael i roi cyngor ar welliannau parhad busnes TG (yn parhau).<br>Rydym wedi prynu a chomisiynu Cyflenwad Pu er Di-Dor (UPS) o'r radd flaenaf sy'n diogelu seilwaith data y Cyngor rhag difrod o ganlyniad i bu er ansefydlog neu fethiant llwyr. (Cwblhawyd)<br>Mae systemau monitro technolegau wedi cael eu rhoi ar waith sy'n monitro pob gweinydd a chydrannau isadeiledd allweddol, mae hyn yn weladwy i bob aelod o staff TG ar sgrin fawr yn ogystal â chynhyrchu hysbysiadau awtomatig i'r Ddesg Gwasanaethau TGCh pan gyfyd problem. (Cwblhawyd)<br>Bydd synwyryddion tymheredd a lleithder sy'n gallu cynhyrchu hysbysiadau awtomatig yn cael eu caffael a'u gosod yn y ddwy ganolfan data (Rhagfyr 2016). |

Mae nifer o'r meysydd hyn wedi eu nodi'n flaenorol gan Hunan-Asesiad y Cyngor a gwnaed cynnydd da ar nifer o'r camau a nodwyd yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2014/15 fel rhai Sylweddol.

## 7. ARDYSTIO'R DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

| |
|---|
| Rydym wedi ein cynghori ar oblygiadau canlyniad yr adolygiad o effeithlonrwydd y fframwaith llywodraethu gan y Pwyllgor Archwilio a bod y trefniadau yn parhau i gael eu hystyried yn addas i bwrpas yn unol â'r fframwaith llywodraethu. Mae'r meysydd sydd wedi cael sylw a'r rhai sydd i'w trafod yn benodol trwy weithredu o'r newydd wedi eu hamlinellu yn y ddogfen.<br><br>Rydym yn bwriadu cymryd camau priodol i ymdrin â'r gwendidau hyn a'r rhai eraill a nodwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac i wella ymhellach ein trefniadau llywodraethu a sicrwydd yn y flwyddyn sydd i ddod. Fe fyddwn yn monitro cyflawniad a gweithrediad y gwelliannau trwy'r Pwyllgor Archwilio ac fel rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf. |

| …………………………………………….. | ………………………………………………. |
|---|---|
| **Arweinydd y Cyngor** | **Prif Weithredwr** |
| **Dyddiad: 2016** | **Dyddiad: 2016** |

**Ar ran Cyngor Sir Ynys Môn**

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Archwilio'r Datganiadau Ariannol

## Cyngor Sir Ynys Môn

**Blwyddyn archwilio:** 2015-16

**Cyhoeddwyd:** Medi 2016

**Cyfeirnod y ddogfen:** 514A2016

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon gan Deloitte LLP ar ran yr Archwilydd Cyffredinol.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Swyddfa Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales.

Roedd tîm Deloitte a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Ian Howse - Partner Ymgysylltu, Clare Edge - Rheolwr Ymgysylltu a Domantas Vaicekonis - Arweinydd y Tîm.

# Cynnwys

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar eich datganiadau ariannol. Mae rhai materion i'w dwyn i'ch sylw cyn iddynt gael eu cymeradwyo.


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | |
| Cyflwyniad | 4 |
| Statws yr archwiliad | 4 |
| Adroddiad archwilio arfaethedig | 5 |
| Materion arwyddocaol sy'n deillio o'r archwiliad | 9 |
| Annibyniaeth a gwrthrychedd | 9 |
| Atodiadau | |
| Llythyr Sylwadau Drafft | 10 |
| Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol i Gyngor Sir Ynys Môn. | 13 |
| Crynodeb o'r cywiriadau a wnaed i'r datganiadau ariannol drafft y dylid tynnu sylw'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu atynt | 15 |
| Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2015-16 | 19 |
| Argymhellion sy'n ymwneud ag ystadau sy'n deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2015-16 | 26 |

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

**1.** Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am roi barn ynghylch pa un a yw’r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ynys Môn ar 31 Mawrth 2016 a’i incwm a’i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

**2.** Nid ydym yn ceisio cael sicrwydd llwyr bod y datganiadau ariannol wedi’u datgan yn gywir, ond rydym yn mabwysiadu’r cysyniad o berthnasedd. Wrth gynllunio a chynnal yr archwiliad, rydym yn ceisio nodi camddatganiadau perthnasol yn eich datganiadau ariannol, hynny yw, y rhai hynny a allai gamarwain rhywun sy’n darllen y cyfrifon.

**3.** Y symiau meintiol a ddefnyddiwn i farnu bod camddatganiadau o’r fath yn berthnasol i Gyngor Sir Ynys Môn yw £4.4m. Gall materion ansoddol penodol megis gofynion cyfreithiol a rheoliadol a sensitifrwydd gwleidyddol hefyd bennu p’un a fernir bod eitem yn berthnasol ai peidio.

**4.** Mae Safon Archwilio Ryngwladol (ISA) 260 yn ei gwneud yn ofynnol i ni gofnodi rhai materion sy’n deillio o’r archwiliad o’r datganiadau ariannol i’r sawl sy’n gyfrifol am lywodraethu corff mewn da bryd i gymryd camau priodol.

**5.** Mae’r adroddiad hwn yn nodi, i’w hystyried, y materion sy’n deillio o’r archwiliad o ddatganiadau ariannol Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer 2015-16, y mae angen cyflwyno adroddiad arnynt o dan ISA 260

## Statws yr archwiliad

**6.** Gwnaethom dderbyn y datganiadau ariannol drafft ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 ar 30 Mehefin 2016 ac rydym erbyn hyn wedi cwblhau’r gwaith archwilio i raddau helaeth. Ar y dyddiad y cyflwynwyd yr adroddiad hwn, roedd y canlynol heb eu cwblhau:

a. Cwblhau’r gwaith o brofi o ran yr eitemau ar ein rhestr archwilio i’w cymryd;

b. Cwblhau’r broses o adolygu ansawdd Partner ac yn annibynnol, a; a

c. Derbyn llythyr cynrychiolaeth.

**7.** Rydym yn cyflwyno adroddiad i chi ar y materion mwyaf arwyddocaol sy’n deillio o’r archwiliad, y credwn y dylech eu hystyried cyn cymeradwyo’r datganiadau ariannol. Mae tîm yr archwiliad eisoes wedi trafod y materion hyn gyda Swyddog S.151 a Dirprwy Swyddog S.151.

# Adroddiad archwilio arfaethedig

**8.** Ar yr amod bod y gwaith sydd heb ei gwblhau'n cael ei gwblhau'n foddhaol, bwriad yr Archwilydd Cyffredinol yw cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol unwaith y byddwch wedi darparu Llythyr Sylwadau i ni yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn Atodiad 1.

**9.** Nodir yr adroddiad archwilio arfaethedig yn Atodiad 2.

# Materion arwyddocaol sy'n deillio o'r archwiliad

## Camddatganiadau nas cywirwyd

Ni nodwyd unrhyw gamddatganiadau yn y datganiadau ariannol, sy'n parhau heb eu cywiro.

## Camddatganiadau a gywirwyd

**10.** Mae yna gamddatganiadau a gywirwyd gan y rheolwyr, ond yr ystyriwn y dylid tynnu eich sylw atynt gan eu bod yn berthnasol i'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol. Nodir y rhain, ynghyd ag esboniadau, yn Atodiad 3.

## Risgiau Sylweddol

**11.** Yn ein Cynllun Archwilio Ariannol, nodwyd gwybodaeth am y risgiau archwilio sylweddol a ddynodwyd yn ystod ein proses gynllunio. Mae'r tabl isod yn nodi canlyniad ein gweithdrefnau archwilio gyda golwg ar y risgiau hynny. Rydym wedi cynnal ein harchwiliad yn unol â'r Cynllun Archwilio Ariannol.

| Risg | Ymateb arfaethedig i'r archwiliad |
|---|---|
| **Rheolwyr yn gwrth-wneud rheolaethau**<br>Mae'r risg bod rheolwyr yn gwrth-wneud rheolaethau'n bresennol ym mhob endid. Oherwydd y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrth-wneud o'r fath ddigwydd, mae'n cael ei weld yn risg sylweddol [ISA 240.31-33]. | Rydym yn parhau i brofi cofnodion y dyddlyfr. Serch hynny, dyma'r gweithdrefnau y bydd y tîm archwilio'n eu cyflawni:<br>• profi pa mor briodol yw cofnodion y dyddlyfr ac addasiadau eraill sydd wedi'u gwneud wrth baratoi'r datganiadau ariannol gan ddefnyddio dulliau dadansoddi data manylach i ddadansoddi holl gynnwys y dyddlyfr i weld a oes nodweddion o ddiddordeb archwilio;<br>• profi dyluniad a gweithrediad rheolaethau ar gofnodion y dyddlyfr i'r cyfriflyfr ariannol;<br>• profi pa mor briodol yw amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer tueddiadau; a<br>• gwerthuso'r rhesymwaith dros unrhyw drafodion o sylwedd y tu allan i gwrs arferol y busnes, gan gynnwys y rheini gyda phartïon cysylltiedig.<br>Gweler Atodiad 3 a Atodiad 4 am y darganfyddiadau o'r archwiliad. |
| **Cyflawnder a chydnabod incwm grant**<br>Rydym wedi nodi bod cyflawnder a chydnabod incwm grant yn risg sylweddol oherwydd bod angen defnyddio crebwyll rheolwyr wrth gydnabod incwm grant, gan gynnwys penderfynu a oes amodau ynghlwm wrth grant ac a yw'r rheini wedi'u cyflawni er mwyn gallu ei gydnabod.<br><br>**Mae dau fath o incwm grant sydd yn ein barn ni'n berthnasol i'r risg hon, sef grantiau refeniw penodol a grantiau a chyfraniadau cyfalaf.** | Dyma'r gweithdrefnau a ddilynwyd gan y tîm archwilio:<br>• cynnal profion manwl ar incwm grant i wirio bod cydnabod yr incwm yn adlewyrchu'n gywir reolau'r cynllun grant, bod yr haeddiant yn gyson â'r hawliad drafft neu'r hawliad terfynol, a bod balans cyfrif rheoli'r grant wedi'i gysoni'n briodol;<br>• adolygu a dilysu'r ohebiaeth sy'n berthnasol i grantiau penodol a'i chymharu â thriniaeth gyfrifyddu'r Cygnor;<br>• profi dyluniad a gweithrediad y rheolaethau sy'n berthnasol i gydnabod incwm grant.<br>Boddhaol, |

| Risg | Ymateb arfaethedig i'r archwiliad |
| --- | --- |
| **Rhwymedigaethau pensiwn**<br>Mae gan y Cyngor rwymedigaeth net berthnasol gyda golwg ar ei atebolrwydd am bensiynau ar y fantolen, a seilir y cyfrifo ar gyfer hynny ar gyfres o farnau actwaraidd.<br><br>Gwelwyd gwallau yn nata'r cyfrifiad sy'n sail i'r ffigur a roddir ar gyfer y rhwymedigaeth pensiwn net yng nghyfrifon y Cyngor yn 2012-13, 2013-14 a 2014-15 lle na roddodd y Cyngor ddigon o wybodaeth yn brydlon i Gronfa Bensiwn Gwynedd am symudiadau gweithwyr a newidiadau i rolau.<br><br>**Mae risg nad yw'r data am aelodaeth a roddwyd i'r actwari i'w defnyddio i baratoi'r datgeliadau blynyddol o dan Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol 19 (Buddiannau i Gyflogeion) yn ddigon cadarn. Serch hynny, nodwn na chafwyd adroddiad am yr un broblem o ran y rhwymedigaeth gyffredinol a ddatgelwyd yn natganiad y cyfrifon.** | Dyma'r gweithdrefnau a ddilynwyd gan y tîm archwilio:<br>• cael prisiad IAS19 ar 31 Mawrth 2016, a gofyn i arbenigwyr ein helpu i adolygu a phrofi pa mor briodol oedd sylfeini prisio IAS19, y tybiaethau a'r datgeliadau yn y datganiad ariannol;<br>• deall a chadarnhau'r ymarfer a gwblhawyd gan staff y Cyngor i adolygu cywirdeb y data a ddarparwyd ar gyfer yr actwari, ac ystyried a allwn fod yn sicr eu bod yn gywir ac yn gyflawn.<br>Boddhaol. |

| Risg | Ymateb arfaethedig i'r archwiliad |
| --- | --- |
| **Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai – talu am ymadael**<br>Sefydlwyd system y Cymhorthdal i ddechrau i alluogi Llywodraeth y Deyrnas Unedig i bennu'r symiau sydd eu hangen ar awdurdodai tai lleol ar gyfer eu heiddo tai a gweld a oedd angen iddynt gael cymorth ar ffurf cymhorthdal gan y llywodraeth ganolog.<br><br>Seilir y cymhorthdal blynyddol ar fformwla a phetai'r gwariant yn fwy na'r incwm tybiedig byddai Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn talu cymhorthdal i wneud iawn am y diffyg. Petai'r gwariant yn llai, byddai'r awdurdod tai lleol yn talu'r gweddill i Lywodraeth y Deyrnas Unedig, a elwir yn gymhorthdal negatif. Dros gyfnod, mae'r drefn wedi golygu bod pob un o'r 11 awdurdod tai lleol yng Nghymru'n talu cymhorthdal negatif.<br><br>Cafwyd cytundeb ariannol rhwng Gweinidogion Cymru a Thrysorlys Ei Mawrhydi ym mis Mehefin 2013, a oedd yn golygu bod awdurdodai tai lleol yng Nghymru gallu ymadael â'r Cynllun. Fel rhan o'r cytundeb, roedd yn rhaid i'r un-ar-ddeg awdurdod tai lleol dalu am ymadael â'r system gymhorthdal.<br><br>Cafodd y Cyngor fenthyg tua £21.2m gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ar 2 Ebrill 2015 a'r benthyciad hwnnw i aeddfedu ymhen 30 mlynedd. Defnyddiwyd hwn i dalu i'r llywodraeth a dileu'r cymorthdaliadau negatif. Bu'n rhaid i'r Cyngor baratoi cynllun 30 mlynedd cyn talu i ymadael ac mae gofyn diweddaru hwn bob blwyddyn, | Dyma'r gweithdrefnau a ddilynwyd gan y tîm archwilio:<br>• adolygu'r ddeddfwriaeth alluogi a basiwyd gan Lywodraeth Cymru;<br>• cael prawf bod y Cyngor a'r Weithrediaeth wedi ystyried a chymeradwyo'r tâl ymadael;<br>• gweld cytundeb Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai gwirfoddol a lofnodwyd gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru;<br>• gweld y cytundeb benthyciad â'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus a hwnnw wedi'i lofnodi;<br>• profi pa mor briodol yw'r holl gofnodion cyfrifyddu i sicrhau eu bod yn gyson â chod ymarfer CIPFA ar gyfrifyddu awdurdodau lleol, a bod y datgeliadau cysylltiedig yn y datganiad cyfrifon yn gywir.<br><br>Boddhaol. |

## Materion sylweddol eraill sy'n deillio o'r archwiliad

**12.** Fel rhan o’r archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion ansoddol a meintiol sy’n berthnasol i’r cyfrifon ac yn cyflwyno adroddiad i chi ar unrhyw faterion sylweddol sy’n codi. Roedd rhai materion yn codi yn y meysydd hyn eleni:

- **Nid oes gennym unrhyw bryderon ynglŷn ag agweddau ansoddol ar eich arferion cyfrifyddu a’ch proses o gyflwyno adroddiadau ariannol.** Serch hynny, canfuom y gallai gwella ansawdd ac amseroldeb rhywfaint o’r dystiolaeth archwilio ategol ac rydym wedi cynnwys argymhelliad at y perwyl hwn yn Atodiad 4. Daethom i’r casgliad bod y polisïau a’r amcangyfrifon cyfrifyddu yn briodol a bod datgeliadau’r datganiadau ariannol yn ddiduedd, yn deg ac yn glir.
- **Ni ddaethom ar draws unrhyw anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad.**
- **Ni thrafodwyd ac ni hysbyswyd y rheolwyr am unrhyw faterion sylweddol y mae angen i ni eich hysbysu amdanynt.**
- **Nid oes unrhyw faterion eraill sy’n arwyddocaol i’r gwaith o oruchwylio’r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol y mae angen i ni eich hysbysu chi amdanynt**
- **Ni nodwyd gwendidau perthnasol yn eich rheolaethau mewnol, er inni nodi sawl maes lle y byddai modd gwella'r rheolaeth.** Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn Atodiad 4.
- **Nid oes unrhyw faterion eraill y mae’n ofynnol iddynt, yn ôl safonau archwilio, gael eu cyfleu i’r sawl sy’n gyfrifol am lywodraethu.**

**13.** Mae'r argymhellion sy'n deillio o'n gwaith archwilio ariannol yn Atodiad 4. Mae'r rheolwyr wedi ymateb iddynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol arnynt yn ystod archwiliad y flwyddyn nesaf. Os bydd unrhyw gamau gweithredu yn weddill, byddwn yn parhau i fonitro cynnydd ac yn adrodd arno yn ein hadroddiad y flwyddyn nesaf.

# Annibyniaeth a gwrthrychedd

**14.** Fel rhan o’r broses derfynol, mae’n ofynnol i ni roi sylwadau i chi ynghylch ein hannibyniaeth.

**15.** Rydym wedi cydymffurfio â safonau moesegol ac yn ein barn broffesiynol, rydym yn annibynnol ac ni chaiff ein gwrthrychedd ei beryglu. Nid oes unrhyw gydberthnasau rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a Deloitte a Chyngor Sir Ynys Môn sy’n effeithio ar ein gwrthrychedd a’n hannibyniaeth yn ein barn ni.

# Atodiad 1

## Llythyr Sylwadau Drafft

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

27 Medi 2016

### Sylwadau yn ymwneud â datganiadau ariannol 2015-16

Darperir y llythyr hwn mewn perthynas â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 er mwyn mynegi barn ar ba mor wir a theg ydynt.

Rydym yn cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl cynnal ymchwiliadau a oedd yn ddigonol yn ein barn ni, y gallwn wneud y sylwadau canlynol i chi.

### Sylwadau rheolwyr

#### Cyfrifoldebau

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau o ran y canlynol:

- Paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â'r gofynion deddfwriaethol a Chod Ymarfer CIPFA ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol; yn benodol bod y datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg yn unol â hynny.
- Cynllunio, gweithredu, cynnal ac adolygu trefniadau rheolaeth fewnol er mwyn atal a chanfod twyll a gwallau

#### Gwybodaeth a roddwyd

Rydym wedi rhoi'r canlynol ichi:

- Mynediad llawn i'r canlynol:
  - yr holl wybodaeth rydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r broses o baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
  - gwybodaeth ychwanegol y gwnaethoch ofyn amdani at ddiben yr archwiliad;
  - mynediad anghyfyngedig i staff yr oedd yn angenrheidiol, yn eich barn chi, inni gael tystiolaeth archwilio ganddynt

- Canlyniadau ein hasesiad o'r risg y gall y datganiadau ariannol fod wedi eu camddatgan mewn modd perthnasol o ganlyniad i dwyll.
- Ein gwybodaeth am dwyll neu dwyll a amheuir rydym yn ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Gyngor Sir Ynys Môn ac yn ymwneud â:
  - rheolwyr;
  - cyflogeion sydd â rolau pwysig yng nghyd-destun rheolaeth fewnol; neu
  - eraill lle gallai'r twyll effeithio mewn ffordd berthnasol ar y datganiadau ariannol.
- Ein gwybodaeth am unrhyw honiadau o dwyll, neu dwyll a amheuir, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a roddwyd i ni gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill.
- Ein gwybodaeth am bob achos hysbys neu achos a amheuir o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol.
- Manylion yr holl bartïon cysylltiedig a'r holl gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig rydym yn ymwybodol ohonynt.

## Sylwadau ar y datganiad ariannol

Cofnodwyd pob trafodyn, ased a rhwymedigaeth yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i wneud amcangyfrifon cyfrifyddu, gan gynnwys y rheini a fesurwyd ar werth teg, yn rhesymol.

Cyfrifwyd yn briodol am gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig ac fe'u datgelwyd yn briodol.

Addaswyd ar gyfer pob digwyddiad neu datgelwyd pob digwyddiad a ddigwyddodd ar ôl y dyddiad adrodd y mae angen ei addasu neu ei ddatgelu.

Datgelwyd pob achos gwirioneddol neu bosibl hysbys o ymgyfreitha a hawliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol i'r archwilydd, a chyfrifwyd amdanynt a'u datgelu yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol.

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau ariannol. Mae effeithiau'r camddatganiadau nas cywirwyd a nodwyd yn ystod yr archwiliad yn amherthnasol, yn unigol a chyda'i gilydd, i'r datganiadau ariannol cyfan.

## Sylwadau gan y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu

Cydnabyddwn fod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi eu trafod â ni.

Cydnabyddwn ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Gyngor Sir Ynys Môn ar 27 Medi 2016.

Rydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd yr holl gamau y dylem fod wedi'u cymryd i sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod yr wybodaeth honno wedi'i throsglwyddo i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych yn ymwybodol ohoni.

| | |
|---|---|
| Llofnodwyd gan: | Llofnodwyd gan: |
| Marc Jones<br>Swyddog S.151<br>Cyngor Sir Ynys Môn | Swyddog neu Aelod sy’n llofnodi ar ran a rhai â chyfrifoldeb dros lywodraethiant |
| Dyddiad: | Dyddiad: |

# Atodiad 2

## Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol i Gyngor Sir Ynys Môn

**Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn**

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnwys Datganiad Symudiadau'r Gronfa Wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen a'r Datganiad Llif Arian.

Y fframwaith adrodd ariannol sydd wedi'i roi ar waith wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 20154-16 sydd wedi'u seilio ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRSs).

**Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Fel y'i hesbonnir yn llawnach yn Y Datganiad Cyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon, y swyddog ariannol cyfrifol sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon sy'n rhoi darlun gwir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (y Deyrnas Unedig ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny'n ei gwneud yn ofynnol imi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Cyngor Adrodd Ariannol i Archwilwyr.

**Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu**

Mae archwiliad yn golygu cael digon o dystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig i roi sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn cynnwys camddatganiad perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu: a yw'r polisïau cyfrifyddu'n briodol i amgylchiadau Cyngor Sir Ynys Môn ac wedi'u rhoi ar waith yn gyson a'u datgelu'n ddigonol; pa mor resymol yw'r amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol gan y swyddog ariannol cyfrifol, a'r ffordd y cyflwynir y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn gyffredinol.

At hynny, darllenais yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Naratif i nodi anghysonderau perthnasol â'r datganiadau cyfrifyddu a archwiliwyd a'r nodiadau cysylltiedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangosiadol anghywir o ran perthnasedd neu'n berthnasol o anghyson, ar sail y wybodaeth a gafwyd gennyf yn ystod cyflawni'r archwiliad. Os byddaf yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, byddaf yn ystyried y goblygiadau ar gyfer fy adroddiad.

**Barn am ddatganiadau cyfrifyddu Cyngor Sir Ynys Môn**

Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ynys Môn ar 31 Mawrth 2016 a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a'u bod
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Chod Cyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2015-16.

**Barn am faterion eraill**

Yn fy marn i, mae'r wybodaeth yn yr Adroddiad Naratif yn gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

**Materion y byddaf yn adrodd amdanynt drwy eithriad**

Nid oes gennyf ddim i adrodd amdano wrthych yng nghyswllt y materion a ganlyn, y byddaf yn adrodd amdanynt wrthych, os, yn fy marn i:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw;
- nad yw'r datganiadau cyfrifyddu'n gytûn â'r cofnodion a'r datganiadau cyfrifyddu; neu
- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n ofynnol gennyf ar gyfer fy archwiliad;
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cydymffurfio â'r canllawiau.

**Tystysgrif cwblhau'r archwiliad**

Rwy'n tystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Sir Ynys Môn yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

| | |
|---|---|
| Ar gyfer ac ar ran | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Huw Vaughan Thomas | 24 Heol y Gadeirlan |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | Caerdydd |
| 30 Medi 2016 | CF11 9LJ |

# Atodiad 3

## Crynodeb o’r cywiriadau a wnaed i’r datganiadau ariannol drafft y dylid tynnu sylw'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu atynt

Yn ystod ein harchwiliad, gwelwyd y camddatganiadau a ganlyn a gywirwyd gan y rheolwyr, ond yr ystyriwn y dylid tynnu eich sylw atynt gan eu bod yn berthnasol i’ch cyfrifoldebau mewn perthynas â’r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol

| | Natur y cywiriad | DIGC Dr | DIGC Cr | M Dr | M Cr |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | **Ymrwymiad cyfalaf**<br>Gwelsom fod yr ymrwymiad cyfalaf yn nodyn 16 ar gyfer Ffordd Gyswllt Llangefni wedi'i orddatgan £622,423 gan fod cyfrif am hwn hefyd yn yr asedau a ddelir ar gyfer adeiladu. | amh | amh | amh | amh |
| 2 | **Prisio garejys**<br>Ailbrisiwyd garejys gan ddefnyddio arenillion uwch - gwerth wedi gostwng yn sylweddol, bydd angen newid hwn yn Cyfriflyfr Cyffredinol gan ei ostwng o £11,389 i £3,500.<br>Dr Cronfa Ailbrisio Wrth Gefn £7,889<br>Cr Asedau Sefydlog (garejys) £7,889<br><br>Gweler rhagor o wybodaeth yn Atodiad 5. | | | 7,889 | (7,889) |
| 3 | **Asedau a Ddelir i'w Gwerthu**<br>Yn sgil adolygu'r adroddiad ailbrisio, gwelsom fod ased Caergybi a ddelid i'w werthu wedi'i gyfrif ddwywaith ar ôl ei ailbrisio.<br>Dr Cronfa Ailbrisio Wrth Gefn £550,000<br>Cr L&B £550,000 | | | 550,000 | (558) |

| | Natur y cywiriad | DIGC Dr | DIGC Cr | M Dr | M Cr |
|---|---|---|---|---|---|
| 4 | **Gwarediadau**<br>Yn sgil ein hadolygiad o Addasiadau Nodyn 7 rhwng y sylfaen gyfrifyddu a'r sylfaen gyllido, a Nodyn 15, Asedau Anghyfredol, gwelsom fod £77,000 wedi'i godio'n anghywir i waredu Anheddau, oherwydd bod y dosbarth hwn o warediadau yn Nodyn 15 yn £362,000, ond bod Nodyn 7 yn cofnodi mai swm cario'r gwarediadau yw £285,000.<br>At hynny, gwelsom fod gwerth gwaredu o £362,000 yn cael ei ddatgelu hefyd yn Natganiad Incwm a Gwriant y Cyfrif Refeniw Tai .<br>Dr Gwarediadau Anheddau'r Cyngor £77,000<br>Cr Cyfrif Addasu Cyfalaf £77,000 | | | 77,000 | (77,000) |
| 5 | **Categoreiddio Asedau**<br>Wrth brofi'r ychwanegiadau, gwelwyd, mewn un enghraifft, fod ychwanegiad wedi'i gategoreiddio'n anghywir yn ychwanegiad seilwaith yn hytrach nag yn Asedau sydd Wrthi'n Cael eu Hadeiladu. Gwerth yr ased unigol a samplwyd oedd £40,000, ac ar ôl ymchwilio rhagor i weld a oedd mwy o asedau cysylltiedig â'r prosiect hwn wedi'u categoreiddio'n anghywir a’u priodol i’r Seilwaith yn hytrach nag yn Asedau sydd Wrthi'n Cael eu Hadeiladu, nodwyd bod cyfanswm o £888,425.34 wedi'i gategoreiddio'n Seilwaith yn hytrach nag yn Asedau sydd Wrthi'n Cael eu Hadeiladu.<br>Dr Ychwanegiadau Asedau sydd Wrthi'n Cael eu Hadeiladu £888,000<br>Cr Ychwanegiadau Seilwaith £888,000 | | | 888,000 | (888,000) |

| | Natur y cywiriad | DIGC Dr | DIGC Cr | M Dr | M Cr |
|---|---|---|---|---|---|
| 6 | **Cydnabod Cost Gwasanaethau Cymdeithasol**<br>Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn darparu cymorth ariannol i nifer o bobl mewn cartrefi preswyl.<br>Bydd y cartrefi preswyl yn cytuno ar bris penodedig gyda phob preswylydd sy'n cael gofal ac sy'n talu eu cyfraniadau eu hunain tuag at gostau cartref preswyl, a bydd y Cyngor yn talu'r balans net drwy gyfrwng ei system credydwyr.<br>Bydd y Cyngor yn cael ffurflenni 'Atodlen A' gan y cartrefi preswyl, sy'n rhoi manylion y gost grynswth, cyfraniadau cleientiaid a'r gost net i'r Cyngor. Wedyn bydd y Cyngor yn cytuno ar y ffigurau hyn yn ystod pob cyfnod adrodd, ac yn cofnodi addasiad i gynyddu'r costau net a gydnabyddir ar sail y swm a gyfrennir gan y cleientiaid.<br>Gan nad yw'r Cyngor yn rheoli'r cyfraniadau hyn gan y cleientiaid, nid ydym yn credu bod ganddo'r hawl i'w gydnabod yn incwm a gwariant.<br>Dr Incwm £1,628<br>Cr Gwariant £1,628 | 1,628 | (1,628) | | |
| 7 | **Ailbrisiadau**<br>Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu trothwy £30,000 ar gyfer ailbrisio newidiadau o ran Tir ac Adeiladau. Nodwyd bod cyfanswm cyfunol yr addasiadau asedau na nodwyd yn fwy nag ein trothwy adrodd, gyda chyfanswm net o £306,000 heb eu nodi gan y cleient (Enillion gros £328,000 a Cholledion gros £22,000).<br>Gefn ailbrisio Dr CR asedau sefydlog Cr £306,000<br>Cronfeydd ailbrisio wrth gefn Dr £306,000 | | | 306 | (306) |

| | Natur y cywiriad | DIGC Dr | DIGC Cr | M Dr | M Cr |
|---|---|---|---|---|---|
| 8 | **Grantiau Refeniw - Cefnogi Pobl**<br>Mae gofyn cynhyrchu anfonebau mewnol ar gyfer gwasanaethau/gwaith sy’n gysylltiedig â’r grant Cefnogi Pobl. Serch hynny, nid oedd adrannau'r cyngor a oedd yn gwneud y gwaith yn codi anfonebau yn ôl y gofyn, ac felly, roedd nifer o eitemau o wariant cysylltiedig â'r grant yn cael eu cronni ar eu cyfer. Roedd hyn wedi bod yn digwydd ers nifer o flynyddoedd ac mae wedi dod i'r golwg ers hynny bod y gwaith y cronnwyd ar ei gyfer heb ddigwydd mewn gwirionedd. Cydnabuwyd yr incwm ychwanegol o £238,000 yn sgil hyn ac mae'r incwm wedi dod o'r gronfa gyffredinol.<br>Dr incwm £238,000<br>Cr cronfa wrth gefn £238,000 | 238,000 | | | 238,000 |
| 9 | **Darpariaeth cyflog cyfartal**<br>Mae'r Cyngor yn cynnal darpariaeth mewn perthynas â hawliadau cyflog cyfartal, â chyfanswm o £3,016k ar 31 Mawrth 2016. Rydym wedi cael papurau gwaith ategol yn cadarnhau cyflog cyfartal amcangyfrifedig a chostau Cyllid a Thollau EM o £2.151m ac fe gadarnhawyd bod gweddill y ddarpariaeth yn amcangyfrif darbodus i gwmpasu unrhyw hawliadau ychwanegol. Gan fod rhaid i ddarpariaeth fod yn seiliedig ar amcangyfrif rhesymol, cytunwyd y bydd addasiad yn cael ei wneud er mwyn rhyddhau £865k o’r ddarpariaeth hon.<br>Darpariaeth Dr £865k<br>Cronfa gyffredinol wrth gefn Cr £865k | | | 865 | (865) |

# Atodiad 4

## Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2015-16

Nodwyd yr holl argymhellion sy'n deillio o'n harchwiliad ac ymateb y rheolwyr iddynt. Byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar y rhain y flwyddyn nesaf ac yn cynnwys unrhyw faterion sy'n weddill yn adroddiad archwilio'r flwyddyn nesaf.

| **Mater sy'n codi 1 - Ystadau** | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Fel rhan o'n harchwiliad ariannol, buom yn trafod ag arbenigwr prisio i helpu'r tîm archwilio i brofi pa mor briodol yw'r datgeliad IAS19. Mae'r prisiwr arbenigol wedi codi nifer o feysydd lle y gellid gwella ac rydym wedi nodi'r rhain ar wahân yn Atodiad 5. |
| **Blaenoriaeth** | Canolig |
| **Argymhelliad** | Gweler Atodiad 5. |
| **Buddiannau gweithredu'r argymhelliad** | Gwella ansawdd a chadernid y broses brisio. |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Do |
| **Ymateb y rheolwyr** | Bydd y rheolwyr yn adolygu ei brosesau i weithio drwy'r argymhellion manwl yn Atodiad 5. |
| **Dyddiad gweithredu** | Bydd yr holl welliannau yn cael eu gweithredu erbyn diwedd Mawrth 2017. |

| **Mater yn codi 2 - Rheolaethau TG Cyffredinol - Gwahanu Dyletswyddau** | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Nodwyd bod un o ddefnyddwyr Civica yn weinyddwr systemau a hefyd yn gyfrifol am lanlwytho a chymeradwyo dyddlyfrau. Byddai'n arfer da gwahanu breintiau gweinyddu'r system oddi wrth brosesu'r trafodion, a hefyd i wahanu'r awdurdodi oddi wrth gymeradwyo dyddlyfrau'r cyfriflyfr cyffredinol. Deallwn fod cyfyngiadau ymarferol ar hyn o bryd sy'n rhwystro gwahanu'r dyletswyddau rhagor drwy gyfrwng hawliau mynediad TG. |
| **Blaenoriaeth** | Canolig |
| **Argymhelliad** | Rydym yn argymell y dylid ymchwilio i weld a ellid rhoi gwiriad â llaw ar waith yn y broses fusnes i sicrhau bod y dyletswyddau cofnodi yn y dyddlyfrau cael eu gwahanu |
| **Buddiannau gweithredu'r argymhelliad** | Lleihau'r risg o dwyll yn sgil trefniadau gwael o ran gwahanu dyletswyddau. |

| Mater yn codi 2 - Rheolaethau TG Cyffredinol - Gwahanu Dyletswyddau | |
|---|---|
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Do |
| **Ymateb y rheolwyr** | Bydd ymchwiliad yn cael ei gynnal ac adroddiad yn cael ei gynhyrchu ar y darganfyddiadau. |
| **Dyddiad gweithredu** | Bydd yr adolygiad yn cael ei gynnal erbyn 31 Rhagfyr 2016 a bydd unrhyw newidiadau dilynol yn cael eu gweithredu erbyn 31 Mawrth 2017. |

| Mater yn codi 3 - Rheolaethau TG Cyffredinol - Proses cychwynwyr, symudwyr a gadawyr | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Gwelsom feysydd lle y gellid gwneud y broses cychwynwyr/symudwyr/gadawyr yn fwy effeithlon. Er enghraifft, nid yw'r adroddiad adnoddau dynol misol sy'n cael ei rannu â gweinyddwyr y system hefyd yn cael ei rannu â'r sawl sy'n gyfrifol am weinyddu ceisiadau Sx3 a'r Cyswllt Adnoddau. Nodwyd hefyd nad yw'r adroddiad yn cynnwys cyfeiriad ebost y cyflogai a fyddai'n helpu i gysylltu'r rhwydwaith â chyfrifon Civica er mwyn ei gwneud yn haws diddymu cyfrif Civica. At hynny, nodwyd bod proses y symudwyr yn dibynnu ar reolwyr llinell yn hysbysu ei gilydd am y symudiad. Gallai dod â symudwyr i mewn i'r broses dechreuwyr/gadawyr helpu i sicrhau llif gwybodaeth mwy cynhwysfawr a llyfn. Rydym yn cael ar ddeall y bydd ail-lansio'r Cyswllt Adnoddau'n cynnig ffordd o integreiddio'r llif gwaith a fydd yn help i reoli'r broses cychwynwyr/ symudwyr/gadawyr, er y bydd hyn yn brosiect sylweddol i'r Cyngor. |
| **Blaenoriaeth** | Isel |
| **Argymhelliad** | Rydym yn argymell y dylid rhannu'r adroddiad adnoddau dynol misol yn ehangach gan gynnwys manylion y cyfrif ebost, ac y dylid ystyried cynnwys symudwyr yn y broses cychwynwyr a gadawyr presennol. |
| **Buddiannau gweithredu'r argymhelliad** | Gwella effeithlonrwydd y broses er mwyn caniatáu ar gyfer prosesu cychwynwyr, gadawyr a symudwyr yn fwy prydlon. |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Do |
| **Ymateb y rheolwyr** | Mae'r rheolwyr yn derbyn yr argymhellion ac maent yn adolygu a gweithredu'r newidiadau ar hyn o bryd, er mwyn mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn. |
| **Dyddiad gweithredu** | Bydd yr holl welliannau yn cael eu gweithredu erbyn diwedd Mawrth 2017. |

| Mater yn codi 4 - Rheolaeth TG Cyffredinol - Mynediad at Gyswllt Adnoddau | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | O ran y Cyswllt Adnoddau, gwelsom fod gan holl aelodau tîm y gyflogres fynediad goruchwylydd yn hytrach na bod ganddynt wahanol lefelau o fynediad i adlewyrchu gwahanol rolau'r tîm. Gwelsom hefyd nad yw paramedrau cryf yn cael eu gorfodi ar gyfer cyfrineiriau. Ac ystyried natur sensitif y data a gedwir/ y ceir mynediad iddynt ar y cymhwysiad hwn, ac nad yw diwygio'r mynediad i ddefnyddwyr yn cael ei weld yn ymarferol oherwydd bod gofyn i'r tîm i gyd allu cael mynediad eang ar ddiwrnodau arbennig o'r mis, mae'n bwysig bod y trefniadau rheoli mynediad yn rhai cryf - serch hynny, rydym yn deall bod newid yn cael ei roi ar waith i'r cymhwysiad y mis hwn er mwyn gallu gosod paramedrau cryf ar gyfer cyfrineiriau. |
| **Blaenoriaeth** | Canolig |
| **Argymhelliad** | Rydym yn argymell y dylid gwneud hyn cyn gynted ag sy'n bosibl i leihau'r risg o beryglu cyfrifon sy'n caniatáu mynediad i oruchwylwyr. |
| **Buddiannau gweithredu'r argymhelliad** | Lleihau'r risg o fynediad amhriodol gan aelodau o'r staff at ddata sensitif, a allai gynyddu'r risg o golli data, gwallau neu dwyll. |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Do |
| **Ymateb y rheolwyr** | Mae'r rheolwyr yn derbyn yr argymhelliad ac maent yn adolygu a gweithredu'r newidiadau ar hyn o bryd, er mwyn mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn. |
| **Dyddiad gweithredu** | Bydd yr holl welliannau yn cael eu gweithredu erbyn diwedd Mawrth 2017. |

| Mater yn codi 5 - Rheolaeth TG Cyffredinol - Llwybr Archwilio Mynediad at Gyswllt Adnoddau | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Ar gyfer Cyswllt Adnoddau, gwelsom na chedwid at y drefn ceisiadau a'r cymeradwyaethau ar gyfer mynediad i ddefnyddwyr. Roedd hyn yn golygu nad oeddem yn gallu olrhain pa ddefnyddwyr oedd wedi'u hawdurdodi i gael mynediad. |
| **Blaenoriaeth** | Isel |
| **Argymhelliad** | Rydym yn argymell y dylid cadw'r negeseuon ebost a'r dogfennau cefnogol hyn i gyfeirio atynt yn y dyfodol. |
| **Buddiannau gweithredu'r argymhelliad** | Darparu llwybr archwilio gyda gweithdrefnau wedi'u rhagnodi. |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Do |
| **Ymateb y rheolwyr** | Mae'r rheolwyr yn derbyn yr argymhelliad a byddent yn gwneud trefniadau fel bod y dogfennau ategol yn cael eu cadw. |
| **Dyddiad gweithredu** | Ar unwaith. |

## Materi yn codi 6 - Asedau ar gael i'w Gwerthu

| | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Y bwriad oedd gwerthu Tir yng Nghwarel Ffordd Cambria mewn arwerthiant ym mis Awst 2015, ond, wrth baratoi'r pecyn cyfreithiol, gwelwyd nad oedd y tir wedi'i gofrestru yn enw'r Cyngor.<br>Ers hynny, rydym wedi gweld bod y tir wedi'i gofrestru ar 12 Awst 2016 ac rydym wedi cadarnhau ei fod ar hyn o bryd yn cael ei hysbysebu ar Rightmove. Serch hynny, gan nad oedd modd gwerthu'r tir ar ddiwedd y flwyddyn yn ei gyflwr ar y pryd, roedd yn golygu ei fod wedi'i gategoreiddio'n anghywir o hyd fel Ased ar Gael i'w Werthu. Nid ydym wedi cynnig addasiad yn sgil yr archwiliad yn y cyswllt hwn oherwydd bod y gwall a welwyd yn amlwg o dan ein trothwy dibwys. |
| **Blaenoriaeth** | Isel |
| **Argymhelliad** | Rydym yn argymell y dylid cadarnhau bod yr holl ddogfennau priodol ar gael i hwyluso gwerthiant cyn ei drosglwyddo i Asedau ar gael i'w Gwerthu. |
| **Buddiannau gweithredu'r argymhelliad** | Os bydd yr asedau wedi'u categoreiddio'n gywir, bydd hyn yn osgoi gorfod cofnodi addasiadau yn ystod y cyfnod archwilio a newid y cyfrifon statudol. |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Do |
| **Ymateb y rheolwyr** | Bydd prosesau'n cael eu hadolygu a bydd rhestr wirio o anghenion AHFS yn cael ei chynnwys o fewn y papurau gweithio. |
| **Dyddiad gweithredu** | 31 Mawrth 2017. |

## Mater yn codi 7 - Cysoniadau Banc

| | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Gwelsom nad yw pob cyfrif banc yn cael ei gysoni, a'u bod yn hytrach yn cael eu paratoi ar gyfer y Cyfrif Cyffredinol, y Cyfrifon Taliadau, a Chyfrif Rhif 2 yn unig. Un broses gysoni sydd ar gyfer y tri chyfrif.<br>At hynny, gwelsom fod cysoniad banc ar gyfer mis Mai 2015 ar gyfer cyfrif banc pedwar heb ei wneud tan fis Medi 2015, ac adeg yr archwiliad (Mawrth 2016) nid oedd y rheolwyr wedi'i adolygu.<br>Yn olaf, mae 8 cyfrif HSBC a gedwir ac sydd heb eu cydnabod yn arian parod ar ddiwedd y flwyddyn yn cynnwys cyfanswm o £9k. Er bod y swm yn amlwg yn ddibwys ac nad ydym yn cynnig addasiad, mae hyn yn ddiffyg o ran trefniadau rheoli a dylid cysoni a chofnodi pob cyfrif yn natganiadau ariannol y Cyngor. |
| **Blaenoriaeth** | Canolig |
| **Argymhelliad** | Argymhellir y dylid sefydlu codau ar wahân yn y cyfriflyfr cyffredinol ar gyfer pob cyfrif banc unigol a gedwir gan y Cyngor. Argymhellir hefyd y dylid cyflawni cysoniadau banc ar wahân ar gyfer pob cyfrif banc bob mis. Dylai cysoniadau banc roi manylion am falans y cyfriflyfr cyffredinol ar y cyfrif hwn o'i gymharu â'r balans yn y banc; dylid rhestru addasiadau sy'n ofynnol i gyfatebu'r ddau ffigur hwn yn eitemau ar linellau unigol. |

| Mater yn codi 7 - Cysoniadau Banc | |
|---|---|
| **Buddiannau gweithredu'r argymhelliad** | Os na chaiff cysoniadau banc eu paratoi, mae perygl na sylwir ar anghysonderau rhwng yr arian sydd yn y banc a'r ffigur arian parod ar y cyfriflyfr. Mae perygl hefyd, os paratoir un cysoniad ar gyfer mwy nag un cyfrif, na fydd hi'n glir i ba gyfrif banc y mae'r eitemau cysoni'n berthnasol, gan gynyddu'r siawns o anghywirdeb a chan arwain eto at anghysonderau rhwng yr arian parod yn y banc a ffigur arian parod y cyfriflyfr cyffredinol. |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Do |
| **Ymateb y rheolwyr** | Bydd adolygiad llawn a manwl o broses cysoni'r Banc yn cael ei gynnal. |
| **Dyddiad gweithredu** | 31 Mawrth 2017. |

| Mater yn codi 8 - Cysoniadau'r Cyfriflyfr Cyffredinol | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Gwelsom fod y cysoniadau ar gyfer buddsoddiadau ac ar gyfer benthyciadau'n cael eu cwblhau bob mis rhwng Logotech, y cyfrifon banc a'r cyfriflyfr. Serch hynny, ni nodir pa bryd y cyflawnir y cysoni na chan bwy (taenlen fyw yw'r cysoniad a bydd y misoedd dilynol yn cael eu hychwanegu ati). Felly, ni allwn asesu pa mor brydlon y gwneir y gwaith cysoni ac ar ôl trafod â'r tîm cyllid, ac yn sgil y dystiolaeth a gawsom wedyn, gwelwyd nad yw'r rheolwyr yn adolygu'r cysoniadau'n ffurfiol tan ddiwedd y flwyddyn.<br><br>Gwelsom dystiolaeth hefyd fod y cysoniad ar gyfer Tai Rhent rhwng y cyfriflyfr cyffredinol ac Orchard ar gyfer mis Mehefin 2015 heb gael llofnod y sawl a'i paratôdd na'r adolygydd i'w gadarnhau, Ar ôl trafod â'r cleient cafwyd ar ddeall mai'r rheswm dros hyn oedd nad oeddent yn gallu mantoli'r cysoniad, ac felly nad oeddent am ei anfon i'w adolygu. Gwelwyd mai £19.93 oedd y diffyg yn y fantol ar swm dros £400k, ac fe ellid ystyried hynny'n wahaniaeth dibwys. Petai trothwy'n cael ei fabwysiadu, gellid adolygu'r cysoniadau'n brydlon, gan sicrhau bod system reoli ar gael sy'n gweithio. |
| **Blaenoriaeth** | Canolig |
| **Argymhelliad** | Rydym yn argymell y dylai pob cysoniad ar gyfer buddsoddiadau a benthyciadau gofnodi pa bryd y maent wedi'u cwblhau a'u hadolygu.<br>Argymhellir y dylid cwblhau ac adolygu'r cysoniad Tai Rhent rhwng y cyfriflyfr cyffredinol ac Orchard yn brydlon.<br>Dylid hefyd ddarparu tystiolaeth bod hyn wedi'u gwblhau. Dylai Cyngor Sir Ynys Môn ystyried trothwy goddefgarwch ar gyfer cysoniadau. |
| **Buddiannau gweithredu'r argymhelliad** | Gellid gweld unrhyw wahaniaethau neu broblemau o ran diffyg cysoni'n ddi-oed ac wedyn gellid eu harchwilio a'u cywiro petai cysoniadau'n cael eu paratoi a'u hadolygu'n brydlon. |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Do |
| **Ymateb y rheolwyr** | Mae'r rheolwyr yn derbyn yr argymhelliad a byddent yn sicrhau fod yr holl argymhellion yn cael eu cwblhau. |

| Mater yn codi 8 - Cysoniadau'r Cyfriflyfr Cyffredinol | |
|---|---|
| **Dyddiad gweithredu** | 31 Mawrth 2017. |

| Mater yn codi 9 - Cyfrifon Crog | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Gwelsom fod balans heb ei ddyrannu o £280 yn y cyfrif crog ar 11 Mawrth 2016. Roedd hwn yn cynnwys nifer fach o daliadau, gan gynnwys un am £250 ers dwy flynedd yn ôl. Gan nad oes cyfeiriad ar gyfer y taliadau hyn, nid oes modd eu dyrannu ac nid oes neb wedi dod ymlaen wedyn a honni eu bod wedi talu.<br>At hynny, o ran profi grantiau cyfalaf, gwelsom incwm grant cyfalaf Pier Biwmaris a oedd yn gysylltiedig â rhyddhau arian grant a gedwid mewn cyfrif crog a oedd heb ei ddefnyddio. Roedd y gwariant a oedd yn gysylltiedig â hyn yn fwy na therfyn y gwariant cymwys ar gyfer prosiect Pier Biwmaris. Wedi trafod â Chydlynydd Grantiau grant cyfalaf Pier Biwmaris, cafwyd cadarnhad mai arian a roddwyd o'r neilltu gan Gyngor Ynys Môn tuag at brosiectau cyfalaf oedd hyn mae'n debyg. Serch hynny, ni ellid darparu llwybr archwilio i'n sicrhau ynghylch ffynhonnell yr incwm. |
| **Blaenoriaeth** | Isel |
| **Argymhelliad** | Rydym yn argymell y dylid adolygu pob cyfrif crog a'u clirio'n brydlon. |
| **Buddiannau gweithredu'r argymhelliad** | Gan nad yw'r incwm hwn sy'n cael ei osod yn erbyn gwariant wedi dod o ffynhonnell prosiect penodol, mae risg mai arian sy'n cael ei dderbyn o ffynhonnell trydydd parti sy'n gysylltiedig â phrosiect ar wahân yw hwn ac y gallai fod angen ei ad-dalu. Os bydd yr incwm hwn yn berthnasol i gronfeydd Ynys Môn a roddwyd o'r neilltu ar gyfer prosiectau cyfalaf, ni ddylid ei gydnabod yn refeniw. |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Do |
| **Ymateb y rheolwyr** | Mae'r rheolwyr yn derbyn yr argymhelliad a bydd adolygiad rheolaidd o'r cyfrifon dros dro yn cael ei gynnal. |
| **Dyddiad gweithredu** | 31 Mawrth 2017. |

| Mater yn codi 10 - Adroddiadau am Eithriadau'r Gyflogres | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Pan ofynnwyd am weld adroddiadau eithriadau blaenorol, dywedwyd wrthym nad oedd y rhain wedi'u cadw, ac felly nid oes tystiolaeth ar gael fod hyn wedi cael ei adolygu cyn rhedeg BACs y gyflogres. |
| **Blaenoriaeth** | Isel |
| **Argymhelliad** | Rydym yn argymell bod adroddiadau am eithriadau'n cael eu cadw gan adran y gyflogres, a'u bod yn cael eu llofnodi a'u dyddio i ddangos eu bod wedi'u cymeradwyo cyn rhedeg y Gyflogres. |

| Mater yn codi 10 - Adroddiadau am Eithriadau'r Gyflogres | |
|---|---|
| **Buddiannau gweithredu'r argymhelliad** | Gallu darparu tystiolaeth bod yr adroddiadau am eithriadau'n cael eu rhedeg, eu hadolygu a'u cymeradwyo cyn talu'r BACs. |
| **Ymateb y rheolwyr** | Mae'r rheolwyr yn derbyn yr argymhelliad ac maent yn adolygu a gweithredu'r newidiadau ar hyn o bryd, i fynd i'r afael â'r argymhelliad. |
| **Dyddiad gweithredu** | Bydd yr holl welliannau yn cael eu gweithredu erbyn diwedd Mawrth 2017. |

| Mater yn codi 11 - Atodlenni Ategol ar gyfer y Cyfrifon Statudol | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Gwelwyd mewn sawl enghraifft nad oedd papurau gweithio ar gael, nad oeddent yn gyson neu nad oeddent yn cefnogi'n llawn y nodyn sydd yn y datganiadau ariannol.<br>Er enghraifft, nid oedd cyfrifiadau na dogfennau eraill ar gael yn gefn i'r Ddarpariaeth Gwastraff.<br>Nid oedd y cofrestrau asedau sefydlog yn cynnwys manylion dibrisio costau na chronnus wedi'u dwyn ymlaen, ac roedd yn rhaid cael gafael â'r rhain ar wahan. At hynny, nid oedd y disgrifiadau o nifer o'r asedau ar y gofrestr (asedau seilwaith yn bennaf) yn ddigonol i alluogi staff y Cyngor i'w hadnabod yn effeithiol heb wneud ymdrech ychwanegol sylweddol.<br>Cawsom anawsterau hefyd yn cael gafael ar bapurau gweithio i gwblhau ein profion arian parod a hynny'n bennaf gyda golwg ar gael gafael ar restr gyflawn o gyfrifon banc a datganiadau banc ar gyfer y cyfrifon imprest, gan fod y rhain yn cael eu cadw mewn safleoedd penodol. Nid oedd y cysoniadau a ddarparwyd yn dilyn trefn reddfol ac nid oedd staff y Cyngor yn gallu esbonio'n union beth oedd yn cael ei gysoni h.y. sut oedd codau'r cyfrifon yn clymu â chyfrifon banc gwirioneddol. |
| **Blaenoriaeth** | Isel |
| **Argymhelliad** | Rydym yn argymell y dylid darparu papurau gweithio ategol gyda'r holl gyfrifon sy'n eu cysoni'n llawn, sy'n cysoni â'r cyfriflyfr ac yn cynnal llwybr archwilio cyflawn. |
| **Buddiannau gweithredu'r argymhelliad** | Bydd darparu papurau gweithio sy'n gefn i'r holl datgeliadau'n cryfhau effeithlonrwydd y broses archwilio, |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Do |
| **Ymateb y rheolwyr** | Mae'r rheolwyr yn derbyn yr argymhelliad a byddent yn gweithio tuag at sicrhau gwelliannau. |
| **Dyddiad gweithredu** | 31 Mawrth 2017. |

# Atodiad 5

## Argymhellion sy'n ymwneud ag ystadau sy'n deillio o’n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2015-16

Nodwyd yr holl argymhellion sy'n deillio o'n harchwiliad ac ymateb y rheolwyr iddynt. Byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar y rhain y flwyddyn nesaf ac yn cynnwys unrhyw faterion sy’n weddill yn adroddiad archwilio’r flwyddyn nesaf:

| Teitl / Maes | Canfyddiad ac Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr |
|---|---|---|
| **Prisiwr Cofrestredig RICS** | Gwelsom fod gan briswyr tîm ystadau mewnol y Cyngor, a'r prisiwr penodol Barry Jones (yr uwch swyddog prisio) y cymwysterau priodol ac mae'n ymddangos bod ganddo'r profiad angenrheidiol i wneud y gwaith prisio. Serch hynny, gwelwyd nad yw'r prisiwr yn Brisiwr Cofrestredig RICS. Er ei bod yn ddymunol i’r prisiwr sy'n gwneud y gwaith prisio fod yn Brisiwr Cofrestredig RICS, os bydd y gwaith hwnnw’n cael ei oruchwylio gan Brisiwr sydd ar Gofrestr RICS, yna, fe ddylai hynny fod yn ddigonol, gyhyd â bod llwybr archwiliadau tryloyw sy'n cadarnhau bod y prisiadau wedi'u hadolygu gan Brisiwr Cofrestredig RICS.<br>**Rydym yn argymell bod** y prisiwr yn cofrestru o dan gynllun RICS. | Rydym yn hapus i wneud yr argymhelliad a nodir ac ar gyfer blynyddoedd i ddod byddwn yn gwneud trefniadau fel bod gennym brisiwr sydd wedi'i gofrestru o dan y Cynllun RICS yn fewnol ond tan hynny, byddwn yn gwneud trefniadau i sicrhau cyflenwr trydydd parti i adolygu'r holl brisiadau. |
| **Adroddiad Tystysgrif Brisio** | O fewn Adroddiad Tystysgrif Brisio'r Cyngor, mae'r prisiwr wedi rhoi esboniad byr iawn o'r amrywiol sylfeini prisio neu'r dulliau prisio sydd wedi'u mabwysiadu ar gyfer y rhan fwyaf o'r asedau. Serch hynny, gwelwyd nad oes dim sylwadau am brisiadau’r Cyfrif Refeniw Tai (Aneddiadau Tai Cyngor) sef y rhan fwyaf o'r prisiadau yr adroddwyd yn eu cylch eleni, yn ôl eu gwerth. Nid oes dim gwybodaeth ar gael ychwaith am yr Arwystlon Cyfreithiol na'r prisiadau ar gyfer Asedau Dros Ben.<br>**Rydym yn argymell** ym mlynyddoedd y dyfodol y dylai'r prisiwr sicrhau bod yr adroddiad yn rhoi sylwadau am y broses brisio gyffredinol a'r sylfaen brisio a fabwysiadwyd ar gyfer pob dosbarth o asedau a brisiwyd yn ystod y flwyddyn. | Rydym yn hapus i wneud yr argymhelliad a byddwn yn gweithio gyda’n tîm prisiadau i sicrhau yr ymdrinnir â'r holl argymhellion. |

| Teitl / Maes | Canfyddiad ac Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr |
|---|---|---|
| **Y Broses Brisio** | Ar ôl adolygu Adroddiad y Dystysgrif Brisio ac ar ôl cael eglurhad am faterion penodol gan y prisiwr, rydym yn fodlon bod esboniad llawn wedi'i roi am y dull cyffredinol. Serch hynny, hoffem wneud y sylwadau a'r argymhellion a ganlyn:<br>• Mae'r prisiwr wedi cadarnhau bod archwiliadau 'gyrru heibio' o Tai Cyngor Beacon a garejys wedi'u cynnal eleni, ond nad oedd archwiliadau'n cael eu cynnal yn benodol ar wahân i hynny ar gyfer yr ymarfer prisio asedau. Er bod y prisiwr wedi cadarnhau ei fod yn gyfarwydd iawn â'r eiddo a'i fod yn cynnal archwiliadau drwy gydol y flwyddyn yng nghyswllt y mandad rheoli asedau, **rydym yn argymell y dylid** cynnal rhaglen archwilio ehangach i sicrhau bod yr holl asedau'n cael eu harchwilio yn ystod y rhaglen brisio dreigl bum mlynedd, gan gynnwys archwiliadau mewnol ar sampl o Dai Cyngor Beacon.<br>• **Rydym yn argymell bod yr** Asedau a gategoreiddiwyd yn Asedau Buddsoddi, Asedau Dros Ben ac Asedau a Gedwir i'w Gwerthu yn cael eu prisio ar sail flynyddol i sicrhau bod unrhyw symudiad mewn gwerthoedd yn cael ei gofnodi, ac rydym yn cael ar ddeall bod y gwaith o brisio'r asedau hyn yn flynyddol bellach wedi'i gychwyn.<br>• Nodir bod y prisiwr yn darparu dyraniadau gwerthoedd ar gyfer tir ac adeiladau ar gyfer pob ased at ddibenion dibrisio. Serch hynny, yn achos asedau anarbenigol, mae'r dyraniadau hyn ar gyfer gwerthoedd tir ac adeiladau wedi'u seilio'n bennaf ar ganrannau penodedig. Er bod hyn yn ddull cydnabyddedig, **argymhellir y dylid gwirio** dyraniad gwerth y tir yn erbyn y dystiolaeth am werthiannau tir er mwyn sicrhau bod gwerth/cyfradd y tir fesul erw yn briodol ym mhob achos. | Byddwn yn adolygu ein prosesau er mwyn cwrdd â'r holl argymhellion a nodwyd. |

| Teitl / Maes | Canfyddiad ac Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr |
|---|---|---|
| **Y Broses Brisio** | • Nodir polisi cydranoli'r Cyngor. Serch hynny, nodir hefyd nad oes dim neu fawr ddim asedau wedi'u cydranoli eleni, gan gynnwys Tai Cyngor sy'n amlwg yn cynrychioli cyfran sylweddol o bortffolio eiddo'r Cyngor yn ôl ei werth. At hynny, rydym yn cael ar ddeall, lle bydd cydrannau tebyg yn bodoli mewn nifer fawr o asedau analogaidd, Er na fyddent o reidrwydd yn arwyddocaol fesul un, gyda'i gilydd, gallent gael effaith arwyddocaol ar ddibrisiant, a dylid eu dibrisio ar wahân. Credwn y bydd y sefyllfa hon yn berthnasol i asedau Tai Cyngor ac felly **byddem yn argymell y dylid adolygu polisi cydranoli presennol y Cyngor ar gyfer y Tai Cyngor a hefyd ar gyfer yr asedau** an-nomestig, er mwyn sicrhau bod canran briodol o asedau'n cael eu cydranoli bob blwyddyn a bod cyfrif mwy cywir am eu dibrisiant.<br>• Deallwn na wnaeth y prisiwr ystyried yr oes economaidd ddefnyddiol wrth brisio Tai Cyngor. Tybiwn y bydd darparu'r wybodaeth hon yn ofynnol gan yr Adran Gyllid er mwyn pennu sefyllfa ddibrisiant y Stoc Dai. Felly, **byddem yn argymell y dylai** tîm Cyllid y Cyngor sicrhau eu bod yn pennu oes economaidd ddefnyddiol ar gyfer pob ased berthnasol fel rhan o'r allbwn prisio bob blwyddyn. | |

| Teitl / Maes | Canfyddiad ac Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr |
|---|---|---|
| **Y Broses Brisio** | • Mae'r dull cyffredinol a ddefnyddir gan y prisiwr wrth brisio Stoc Dai'r Cyngor yn unol â chanllawiau'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol – Stock Valuation for Resource Accounting – Guidance for Valuers 2010. Serch hynny, oherwydd bod y canllawiau hyn yn hen, byddem wedi disgwyl i'r prisiwr wneud rhywfaint o ddadansoddi i benderfynu a yw'r ffactor addasu a fabwysiadwyd wrth brisio'n briodol, yn enwedig am ei fod wedi'i seilio ar y stoc dai mewn lleoliad gwahanol. Nodwyd bod y prisiwr wedi ceisio canllawiau ynghylch hyn a'i fod wedi cadarnhau ei fod wedi dewis y ffactor addasu 31% (Swydd Efrog a Glannau Humber) ar ôl bod mewn gwahanol gyfarfodydd a chynnal trafodaethau gydag archwilwyr blaenorol a phriswyr awdurdodau eraill yng Nghymru. Mae'r prisiwr hefyd wedi cadarnhau ei fod wedi casglu bod Swydd Efrog a Glannau Humber yn fwy tebyg yn ddaearyddol o ran gwerthoedd eiddo cymharol nag ardaloedd eraill yn Lloegr. Serch hynny**, byddem yn argymell** yn y dyfodol, y dylai'r prisiwr wneud rhagor o ymchwil a dadansoddi i benderfynu a yw'r ffactor addasu'n briodol. (Mae'r ffactor addasu'n fesur o'r gwahaniaeth rhwng eiddo sy'n cael ei rentu ar y farchnad breifat agored ac eiddo cymdeithasol ar rent yn ardal yr Awdurdod Lleol.<br>Dyma'r disgownt, pan roddir ef ar waith ar gyfanswm cronnus holl werthoedd Beacon yn arwain at Werth Defnydd Presennol -Tai Cymdeithasol ar gyfer y stoc dai. Y ffactor addasu, felly, yw'r berthynas rhwng rhent net wedi'i gyfalafu (gwerth buddsoddi) aneddiadau preifat a'r buddsoddi cyfatebol yn y sector cyhoeddus. Bydd yn cael ei benderfynu drwy gyfeirio at y berthynas rhwng rhenti ac arenillion yn y sector preswyl preifat a'r sector rhentu cyhoeddus / cymdeithasol). | |

| Teitl / Maes | Canfyddiad ac Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr |
| --- | --- | --- |
| **Y Broses Brisio** | • Ar gyfer asedau sy'n cael eu prisio drwy ddefnyddio'r dull Cost Adnewyddu Dadbrisiedig (asedau arbenigol) nodwn fod y prisiwr wedi cadarnhau bod y prisiadau'n cael eu darparu heb gynnwys TAW.<br>Mae'r dull hwn yn tybio bod y Cyngor yn gallu adhawlio'r TAW ar gostau adeiladu. Byddai'n ddefnyddiol petai'r prisiwr yn cadarnhau'r sefyllfa gyda golwg ar TAW bob blwyddyn ac yn darparu sylwadau am y mater hwn yn yr adroddiad prisio h.y. cadarnhau bod modd adennill TAW ar gostau adeiladu o'r newydd ar gyfer pob un o'r asedau a brisiwyd eleni ar sail Cost Adnewyddu Dadbrisiedig.<br>• Mae'r prisiwr wedi cadarnhau nad yw wedi darparu manylion costau gwerthu'r asedau sydd wedi'u categoreiddio'n Asedau a Ddelir i'w Gwerthu am fod y Cyngor yn gweithredu yng ngwerthiant yr asedau hyn. Byddem yn dweud ei bod yn fwy cyffredin bod costau damcaniaethol y gwaredu hefyd yn cael eu datgan ar y cyd â phrisio'r asedau hyn, ni waeth a yw'r Cyngor yn gweithredu yn y gwerthiant neu beidio.<br>• Rydym yn deall mewn blynyddoedd blaenorol, y gallai materion fod wedi codi wrth brisio asedau nad oeddent ym mherchnogaeth y Cyngor bellach. **Byddem yn argymell bod** y prisiwr yn gwneud yr holl wiriadau angenrheidiol i sicrhau bod y rhestr o Asedau Dros Ben ac Asedau a Ddelir i'w Gwerthu yn gywir, a bod hyn yn cael ei ddilysu ar gyfer tîm Cyllid y Cyngor a bod sylwadau am hyn yn yr adroddiad prisio. | |

| Teitl / Maes | Canfyddiad ac Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr |
|---|---|---|
| **Prisio asedau garejys/storfeydd dan glo** | Ar ôl inni adolygu Adroddiad Tystysgrif Brisio'r Prisiwr ac yn sgil ein cwestiynau dilynol, gwelsom fod problem o ran prisio asedau sy'n garejys/ storfeydd dan glo. Rydym wedi crynhoi'r broblem isod ynghyd â'r datrysiad y cytunwyd arno â phrisiwr y Cyngor a'r Tîm Cyllid:<br>• Ar ôl holi, nodwyd bod y prisiwr wedi cadarnhau bod gwall wedi digwydd wrth brisio asedau sy'n garejys a'i fod wedi cadarnhau y dylai cyfanswm y gwerth yr adroddwyd yn ei gylch fod yn £10,175,100 yn hytrach nag yn £11,388,640 fel yr adroddwyd yn wreiddiol. At hynny, roeddem yn poeni am brisio'r garejys gan fod y prisiwr wedi cadarnhau bod y prisiad yn adlewyrchu ystod rhwng £8,000 a £30,000 ac mai'r cyfartaledd yn gyffredinol oedd oddeutu £15,000 y garej. Er bod y ffigurau i bob golwg yn cael eu hategu gan y dystiolaeth gyfyngedig ynghylch gwerthu garejys a ddarparwyd gan y prisiwr, gwelsom garejys yn cael eu marchnata ar hyn o bryd am brisiau sylweddol is. At hynny, mae'r gwerthoedd ar gyfer garejys Ynys Môn yn sylweddol uwch na'r prisiadau ar gyfer unrhyw garejys/storfeydd dan glo mewn unrhyw Awdurdod Lleol arall yr ydym wedi'u hadolygu neu wedi'i brisio ledled y Deyrnas Unedig.<br>• Os yw'r garejys yn cael eu categoreiddio'n Asedau Buddsoddi, yna efallai fod dull sydd wedi'i seilio'n llwyr ar eu Gwerth ar y Farchnad yn briodol (ar sail tystiolaeth am werthiannau a allai adlewyrchu potensial datblygu, h.y. y defnydd uchaf a gorau). Serch hynny, rydym yn cael ar ddeall bod y garejys yn cael eu categoreiddio'n Weithredol, PPE. Ac ystyried y categoreiddio hwn, credwn y dylid prisio'r garejys ar sail eu Gwerth yn ôl eu Defnydd Presennol gan adlewyrchu'r ffaith y byddant yn parhau i gael eu defnyddio fel garejys, ac y dylid seilio'r prisiadau'n bennaf ar yr incwm rhent cymharol gymedrol a dderbynnir (tua £7.41 yr wythnos fesul garej), yn hytrach na seilio'u gwerth ar y posibilrwydd o werthu garejys unigol. | Rydym yn hapus i dderbyn yr argymhellion, a byddwn yn gweithio gyda'n hadran Eiddo i sicrhau bod yr holl argymhellion yn cael eu gweithredu. |

| Teitl / Maes | Canfyddiad ac Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr |
|---|---|---|
| **Prisio asedau garejys/storfeydd dan glo** | • Mae'r arenillion a fabwysiadwyd gan y prisiwr sef 2% (garejys sydd wedi'u gosod) a 3% (garejys gwag) wedi cael eu pennu'n bennaf i gefnogi ei farn am Werthoedd y garejys ar y Farchnad yn hytrach na'u Gwerth ar sail eu Defnydd Presennol. Yn ôl yr hyn a ddeallwn, nid oes modd cyfiawnhau'r arenillion hyn ar sail y dystiolaeth am werthu buddsoddiadau a osodir mewn modd tebyg. Felly, ar y sail bod y garejys hyn yn cael eu categoreiddio'n Weithredol, PPE, yna credwn y dylid mabwysiadu arenillion uwch. Casglwyd gwybodaeth am brisio garejys Awdurdodau Lleol eraill a manylion nifer o garejys sydd ar werth ar Ynys Môn ar hyn o bryd ac fe roddwyd y wybodaeth hon i'r prisiwr. Mae hyn yn ategu eto ein barn ni fod y garejys wedi'u gorbrisio a bydd yn cynnig rhywfaint o gymorth i'r prisiwr adolygu'r dull a ddefnyddir i brisio'r asedau hyn.<br>• Gwaith priswyr y Cyngor yw penderfynu ar werth yr asedau hyn, ond byddai gwerth sy'n cyfateb i ystod ar gyfartaledd rhwng £3,000 a £7,000 fesul garej yn fwy cyson â gwerthoedd garejys/ storfeydd dan glo mewn Awdurdodau Lleol eraill, a'r prisiau y gofynnir amdanynt am storfeydd dan glo ar Ynys Môn yr ydym wedi ymchwilio iddynt. Trafodwyd prisiadau'r garejys hefyd eto mewn cynhadledd ffôn ar y cyd â'r Adran Archwilio, cyswllt Cyllid y Cyngor (Claire Klimaszewski) a'r prisiwr (20 Gorffennaf 2016), ac fe gytunwyd y byddai'r prisiwr yn adolygu ei ddulliau prisio. Mae'r prisiwr wedi cadarnhau wedyn fod gwerth y garejys wedi'i ddiwygio i £3,500,800. Mae hyn yn cyfateb i werth cyfartalog o £4,558 y garej (768 o garejys). Credwn fod hyn yn fwy cyson â lefel y gwerthoedd a bennwyd ar brisiadau garejys/storfeydd dan glo mewn Awdurdodau Lleol eraill, ac felly, gallwn gadarnhau, gan fod yr addasiad hwn wedi'i wneud, nad yw'n destun pryder inni rhagor. | |

| Teitl / Maes | Canfyddiad ac Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr |
|---|---|---|
| **Prisio asedau garejys/storfeydd dan glo** | • Nodwyd hefyd fod y prisiwr yn arfarnu gwerth y garejys ar sail 'clwstwr' a dibynnu ar leoliad y garejys. Mewn nifer fach o achosion, roedd gwerth 'clystyrau' penodol o garejys yn dod o dan drothwy prisiad de-minimus y Cyngor sef £30,000 oherwydd mai nifer fach o glystyrau o garejys sydd mewn lleoliad penodol. Yn wreiddiol, nid adroddwyd am y garejys hyn oherwydd bod cyfanswm eu gwerth o dan y trothwy de-minimus. Ac ystyried natur yr asedau hyn, cytunwyd y dylid adrodd am werth yr holl garejys, hyd yn oed petai clwstwr penodol o asedau'n dod o dan y trothwy. Ar sail prisiad gwreiddiol y prisiwr, cyfanswm gwerth y garejys y pennwyd eu bod yn de-minimus yw oddeutu £110,000. Mae'n amlwg y byddai mabwysiadu'r dull prisio diwygiedig yn golygu y byddai'r ffigur hwn yn sylweddol uwch, felly, cytunodd pob parti y byddai'n briodol adrodd am gyfanswm gwerth y grŵp hwn o asedau, ni waeth a oedd gwerth grŵp penodol o garejys o dan y trothwy de-minimus neu beidio. Credwn fod y dull hwn, a fabwysiadwyd ar gyfer y grŵp penodol hwn o asedau, yn briodol. | |

| Teitl / Maes | Canfyddiad ac Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr |
|---|---|---|
| **Ymarfer Samplo'r Gwaith Prisio** | Yn ystod ymarfer samplo'r gwaith prisio asedau, nodwyd nifer broblemau ansylweddol a byddem yn argymell y dylid codi'r pwyntiau a ganlyn gyda'r prisiwr er mwyn sicrhau bod y dull prisio'n cael ei fireinio yn y dyfodol:<br>• Nodir bod y prisiwr wedi ychwanegu lwfans wrth gefn o 10% at gostau adeiladu Asedau Arbenigol a brisiwyd ar sail Cost Adnewyddu Dibrisiedig (CAD). Er nad yw'r dull a fabwysiadwyd mewn prisiadau CAD yn un rhagnodol, mae'r ychwanegiad wrth gefn o 10% ar ben uchaf yr ystod y byddem yn ei disgwyl. Gan amlaf, defnyddir 5% yn ganran ar gyfer costau adeiladu wrth gefn, ond sylweddolwn hefyd y gellid cyflwyno dadl ddilys na fyddai dim costau wrth gefn yn codi oherwydd fe dybir yn aml na fyddai costau heb eu rhagweld yn codi wrth adeiladu ased adnewyddu damcaniaethol.<br>• Mae'r prisiwr wedi mabwysiadu canrannau penodedig i bennu dyraniadau gwerth ar gyfer adeiladau a thir. Er bod hwn yn ddull cydnabyddedig, byddem yn argymell ym mlynyddoedd y dyfodol y dylid gwirio'r prisiadau tir sy'n deillio o hyn ar sail cyfradd fesul erw er mwyn cadarnhau bod gwerthoedd y tir yn dod o fewn ystod resymol. | Rydym yn hapus i dderbyn yr argymhelliad a byddwn yn addasu ein prosesau er mwyn cynnwys yr ymarferiad hwn. |
| **Tybiaethau ac amodau'r prisiwr** | Mae'r tybiaethau a'r amodau cyffredinol a fabwysiadwyd wrth brisio'r ased fel hyn fel y'u nodir yn adroddiad y prisiwr ar y cyfan yn briodol at ddiben prisio ased ar gyfer adroddiad ariannol. Serch hynny, dylai tîm Cyllid y Cyngor adolygu'r rhain bob blwyddyn i sicrhau bod y prisiadau'n cael eu paratoi'n unol â'r tybiaethau hynny, a bod yr amodau'n briodol ar gyfer eu gofynion. | Rydyn yn hapus i weithredu'r argynhelliad hwn a byddwn yn sicrhau fod yr adolygiad yn cael ei gofnodi. |

| Teitl / Maes | Canfyddiad ac Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr |
|---|---|---|
| **Gwaith cyfrifo unedig wrth brisio** | Ar hyn o bryd, mae cyfrifiadau prisio'n cael eu gwneud ar nifer o bapurau gweithio, ac ni ddefnyddir dim hanes o ailbrisiadau blaenorol. Felly, rhaid gwirio pob symudiad mewn gwerth yn erbyn balans yr ased penodol ar gofrestr asedau sefydlog CIPFA, i gadarnhau a oes gan yr ased falans ailbrisio wrth gefn wedi'i ddwyn ymlaen, ynteu a yw colledion blaenorol wedi'u priodoli i Incwm a Gwariant.<br>**Rydym yn argymell** y dylid dadansoddi pob ailbrisio ar asedau sefydlog ar un daenlen a bod y daenlen honno'n olrhain pob symudiad yn y blynyddoedd blaenorol. Enghraifft o golofnau:<br>• Enw'r ased / cyfeirnod / math<br>• Symudiadau cronnus hyd at 2015/16 (gan roi gronfa ailbrisio wrth gefn neu falans a briodolir i incwm a gwariant wedi'i ddwyn ymlaen, gyda swm y gronfa ailbrisio'n cael ei gysoni â swm y gronfa ailbrisio wrth gefn a ddygir ymlaen)<br>• Gwerth cyn ailbrisio, swm wedi'i ailbrisio, symudiad, symudiad wedi'i gofnodi yn y gronfa ailbrisio (a dibynnu ar falans cronnus), symudiad wedi'i gofnodi yn y DIGC a dibynnu ar y balans cronnus)<br>• Y gronfa ailbrisio wrth gau (sef y gronfa ailbrisio wedi'i ddwyn ymlaen - y symudiad a nodwyd uchod), Incwm a Gwariant wrth Gau (wedi'i ddwyn ymlaen + symudiad). Byddai'r ddwy golofn olaf yn dod yn 'Symudiadau Cronnus hyd at 2016/16' i'w defnyddio yng nghfirifiadau'r flwyddyn nesaf, gan dafoli balans y gronfa ailbrisio wrth gau â'r gronfa wrth gefn wirioneddol fel y'i nodir ar yr MIRS | Rydym yn hapus i wneud yr argymhelliad hwn a byddwn yn gwneud trefniadau i sicrhau bod asedau sefydlog yn cael eu dadansoddi ar daenlen sengl a fydd yn nodi'r holl symudiadau. |
| **Y stoc dai ar y gofrestr asedau sefydlog** | Ar hyn o bryd, mae anheddau a garejys yn cael eu cofnodi'n un cofnod sengl ar gofrestr asedau sefydlog CIPFA.<br>Mae hyn yn arwain at ddyrannu unrhyw symudiadau ailbrisio i garejys neu aneddiadau unigol yn erbyn balans ailbrisio 'cronfa' wrth gefn / Incwm a Gwariant blaenorol.<br>Gan fod y categorïau o asedau'n ffurfio rhan sylweddol o fantolen y Cyngor **rydym yn argymell** y dyled eitemeiddio pob ased o'r fath ar y gofrestr asedau sefydlog er mwyn gallu cofnodi ailbrisiadau penodol. | Rydym yn fodlon â'r argymhelliad hwn a byddwn sicrhau fod yr asedau wedi eu heitemeiddio ar y gofrestr asedau sefydlog. |

| Teitl / Maes | Canfyddiad ac Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr |
|---|---|---|
| **Cysoni'r stoc dai** | Wrth inni adolygu'r datganiadau'r Cyfrif Refeniw Tai, nodwyd nad yw'r niferoedd a ddatganwyd fel stoc ym mherchnogaeth y Cyngor (3,788) yn gyson â'r nifer a nodwyd wrth inni brofi'r asedau sefydlog (3,795). Er ein bod yn casglu nad yw'r gwahaniaeth a nodwyd yn natgeliad y Cyfrif Refeniw Tai'n sylweddol, **rydym yn argymell** y dylai'r cyfrifydd asedau Cyfalaf gysylltu â chyfrifydd y Cyfrif Refeniw Tai'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod cofnodion y Cyngor ar gyfer asedau dan reolaeth yn gywir, a bod unrhyw ailgategoreiddio, dileu neu waredu'n cael ei gyfleu'n effeithiol | Rydym yn hapus i dderbyn yr argymhelliad hwn a byddwn yn gwneud trefniadau fel bod cyfarfodydd rheolaidd yn cael ei sefydlu rhwng y Cyfrifwyr. |
| **Adnabod a gwirio asedau Seilwaith** | Nododd ein gwaith o brofi fod tri o asedau seilwaith gwerth cyfanswm o £5,336k na ellid eu nodi na'u dilysu oherwydd diffyg gwaith papur ategol. Yr asedau hyn yw:<br>• Seilwaith 2 INFRA00085 -£4,098k;<br>• Cynnal a Chadw Priffyrdd wedi'i gyfalafu INFRA00084 -£200k; and<br>• Cynllun Grantiau Ffyrdd Lleol INFRA00194 - £1,038k.<br><br>**Argymhellir** bod y Cyngor yn nodi ac yn cadw cofnodion digonol ar gyfer yr asedau mae yn ei berchen ar / rheoli, yn enwedig o ystyried mai yn 2016-17 bydd gofyniad i gynnal asedau o'r fath ar werth teg. | Rydym yn hapus i dderbyn yr argymhelliad a bydd gwelliannau i bapurau gwaith yn cael eu gwneud mewn pryd ar gyfer Datganiad o Gyfrifon 2016/17. |

| Teitl / Maes | Canfyddiad ac Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr |
|---|---|---|
| **Cysoniad o falansau'r gronfa ailbrisio wrth gefn** | Oherwydd gwallau hanesyddol yn ymwneud â'r modiwl FAR, mewn perthynas â datgydnabod ychwanegiadau Tir ac Adeiladau ac Anheddau Cyngor lle byddai'r rhain yn cael eu nodi yn y FAR fel "Impairment", a fyddai'n rhyddhau unrhyw falans Ailbrisio wrth Gefn (RR) yn erbyn yr ased. Y driniaeth gywir fyddai cymryd yr ychwanegiadau yn uniongyrchol i CIES, heb effeithio ar y cronfeydd wrth gefn.<br>Y rheswm y byddai'r ychwanegiadau hyn yn cael eu dileu fyddai oherwydd nad ydynt yn cael eu gweld fel eu bod yn ychwanegu gwerth at eitemau cyfalaf presennol.<br>Dros amser, roedd hyn wedi arwain at anghysondeb rhwng cofnodion RR ar Cyfriflyfr Cyffredinol (GL) a'r FAR, gyda chydbwysedd RR ar y FAR yn is na'r cydbwysedd GL.<br>Gan fod y cyfrifiadau ailbrisio yn seiliedig ar symiau FAR CIPFA (a allai gynnwys balansau anghywir b/fwd RR), efallai fod y postiadau o fewn y flwyddyn sy'n ymwneud ag ailbrisiadau am i fyny neu i lawr wedi'u cyfrifo yn anghywir.<br>**Argymhellir** bod y Cyngor yn sicrhau fod y GL a'r FAR yn cael eu cysoni. | Rydym yn hapus i dderbyn yr argymhelliad a byddwn yn sicrhau bod yr holl argymhellion yn cael eu gwneud mewn modd amserol. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **Y Cyngor** |
| **DYDDIAD:** | **27 Medi 2016** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **Adroddiad Statudol Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol) 2016** |
| **Swyddog Arweiniol:** | **Dr Caroline Turner, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol** |
| **Aelod Portffolio:** | **Y Cynghorydd Aled Morris Jones** |

**Natur a rheswm am adrodd**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Statudol er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd ynglŷn ag atebolrwydd pherfformiad a chynnydd Gwasanaethau Cymdeithasol ar Ynys Môn.

**Cefndir**

Mae'r adroddiad trosolwg sy'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor yn rhan o'r cylch statudol wrth adrodd ar berfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru. Nod yr Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr yw rhoi trosolwg i'r Cyngor a thrigolion Ynys Môn o ba mor dda ydym o ran cwrdd â'n cyfrifoldebau gofal cymdeithasol.

Mae'r broses yn cynnwys cyflwyno'r adroddiad ynghyd a gwerthusiad o'r holl feysydd gwasanaeth gan ddefnyddio 'gridiau dadansoddi' sy'n nodi'r hyn yr ydym yn ceisio ei wneud a pha mor dda yr ydym yn ei wneud a beth fu'r canlyniad i ddefnyddiwr y gwasanaeth.

Mae'r sylwadau a'r farn a gyflwynir yn y gridiau hyn yn seiliedig ar wybodaeth a gasglwyd o amrediad eang o ffynonellau: peth data ystadegol a gwybodaeth arall gan ddefnyddwyr ein gwasanaeth, gofalwyr a phartneriaid allweddol.

Cynhaliwyd sesiwn herio adeiladol gyda'n partneriaid ar y 25 Mai 2016 wrth i'r gwasanaeth adrodd ar gynlluniau busnes a pherfformiad diwedd y flwyddyn.

Ynys Môn

THE ISLE OF

Anglesey



# Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar Effeithiolrwydd Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol 2015-16

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

cyngormon
ioacc

@cyngormon
@angleseycouncil

## Cyflwyniad y Cyfarwyddwr



**Dr. Caroline Turner, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Prif Weithredwr Cynorthwyol**

**Cyflwyniad**

Rwyf yn falch o gyhoeddi fy adroddiad cyntaf fel Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, yn sgil fy mhenodiad yn Ionawr 2016. Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at waith y Gwasanaethau Cymdeithasol ym Môn dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys y cyfarwyddwr blaenorol, Gwen Carrington, a ymddeolodd yn Rhagfyr 2015. Dechreuais ar fy nghyfrifoldebau ar adeg dyngedfennol wrth i ni baratoi i weithredu darpariaethau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 o Ebrill 2016 ymlaen, yn cydbwyso cynnydd sylweddol mewn galw am ein gwasanaethau ar adeg o gyfyngiadau cyllidebol i ni ac i'n partneriaid ar draws pob sector.

Pwrpas yr adroddiad yw rhannu gwybodaeth am berfformiad ac effeithiolrwydd Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion a Phlant ym Môn yn ystod 2015-16. Mae'r cynnydd a wnaed i'w briodoli i gyfraniad staff yn y ddau wasanaeth yn ogystal â rhai'r gwasanaethau eraill o fewn yr awdurdod lleol, yn enwedig felly yn Addysg a Thai. Mae hefyd i'w briodoli i gefnogaeth gofalwyr, yn ogystal ag i gyfraniad darparwyr gwasanaeth yn y sector gwirfoddol ac yn y sector preifat. Elfen allweddol o'n llwyddiant yw cryfder ein cydweithrediad ers amser maith gyda chydweithwyr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, trefniadau gweithio ar y cyd gyda'r pum awdurdod lleol arall ar draws Gogledd Cymru, a gweithio mewn partneriaeth effeithiol gyda Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Cyfiawnder yr Ifainc, Prifysgol Bangor a phartneriaid eraill.

Yn yr adroddiad hwn amlinellir ein hymateb a'n cynnydd yn erbyn y meysydd y nododd Arolygiaeth Gwasanaethau Gofal a Chymdeithasol Cymru (AGGCC) oedd i'w gwella yn eu Gwerthusiad o Berfformiad Blynyddol ar gyfer 2014-15. Un o'r sylwadau allweddol a wnaed gan yr AGGCC oedd "Mae'r cyngor yn ymwybodol o'r risgiau o fewn y gwasanaethau plant lle mae gwelliant yn fregus". Mae'r sylwadau hyn yn adlewyrchu beirniadaeth o'r un elfennau o ymarfer yn y Gwasanaethau Plant gan y Farnwriaeth a CAFCASS yn ystod hydref 2015. Mae'r dangosyddion perfformiad ar gyfer y gwasanaeth hefyd wedi nodi meysydd y mae angen eu gwella. Collodd y gwasanaeth staff profiadol yn ystod y flwyddyn ac mae'r methiant i recriwtio Gweithwyr Cymdeithasol wedi ychwanegu at y pwysau sydd ar y gwasanaeth. Mae'r cynnydd yn y galw, wedi'i gyfuno ag anawsterau cadw a recriwtio staff, wedi cael effaith ar ein Dangosyddion Perfformiad yn ystod ail hanner 2015-16. O'r herwydd, rwyf wedi blaenoriaethu'r maes hwn yn y misoedd diwethaf, gan ganolbwyntio ar ddeall y materion, codi ymwybyddiaeth Tîm yr Uwch-reolwyr a'r Pwyllgor Gwaith, sicrhau adnoddau ychwanegol a goruchwylio gwaith datblygu Cynllun Gwella i'r Gwasanaethau Plant. Yn ddiweddar, rydym wedi sefydlu Panel o Uwch-aelodau Etholedig ar draws y pleidiau i fonitro gwaith rhoi'r Cynllun Gwella'r Gwasanaethau Plant ar waith. Heb os, mae'r Awdurdod Lleol wedi cyflawni gwelliannau dros y blynyddoedd ac rydym yn hyderus o'i allu i ychwanegu at y llwyddiant hwn. Gwelodd y gwasanaeth gynnydd amlwg mewn galw yn ystod y flwyddyn ac mae'r Awdurdod Lleol wedi buddsoddi adnoddau ychwanegol yn y Gwasanaethau Plant. Ymatebodd y gwasanaeth yn gadarnhaol i'r gwersi o'i swyddogaeth Sicrhau Ansawdd ac adolygiadau allanol o ymarfer gan gynnwys yr Adolygiadau Ymarfer Plant Estynedig

o ddigwyddiadau a gafwyd yn 2013. Ymdrechodd y gwasanaeth yn sylweddol i wella ei drefniadau dan yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn ystod y flwyddyn.

Er gwaethaf heriau cynyddol mewn galw a recriwtio a chadw staff, mae'r Gwasanaethau Plant wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ystod y flwyddyn o ran gwella eu prosesau a'u harfer. Mae'r Cynllun Gwella eisoes yn cael effaith ar ein gwaith o gydymffurfio â'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus. Rwyf yn disgwyl gweld y gweithredoedd a amlinellir yn y Cynllun Gwella'n gwneud gwahaniaeth go iawn ar draws ein gwaith i gefnogi plant y mae angen cynllun cefnogi a gofal wedi'i reoli arnynt ac i blant mewn gofal o 2016-17 ymlaen. Yn ystod Ionawr 2016, cafodd y Tîm Maethu a Mabwysiadu eu harolygu gan yr AGGCC, ac roedd yn galonogol gweld eu bod wedi dod i'r casgliad fod y gwasanaeth yn rhoi ansawdd bywyd da i'r plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth, ac mae hyn i'w briodoli i'r gwelliannau a wnaed yn y maes hwn dros y ddwy flynedd diwethaf. Roeddem yn arbennig o falch o gynnal *Gwobrau SÊR Môn* yn ystod y flwyddyn er mwyn dathlu llwyddiannau Plant Môn sydd mewn Gofal. Yn ystod y Cyfarfod Her ym mis Mai, roedd yn galonogol clywed ein partneriaid yn canmol gwelliant yn y Pontio gydag Anabledd Dysgu yn ogystal ag yn y wybodaeth a roddir i blant a phobl ifanc a'u rhieni a'u gofalwyr. Rhoddwyd canmoliaeth hefyd i'r gwasanaeth a roddir gan Ganolfan Addysg Y Bont.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi perfformiad yn erbyn y blaenoriaethau hynny y bu i ni eu nodi yn Nogfen Cyflawni Cyngor Sir Ynys Môn (y Cynllun Gwella), sy'n tynnu sylw at Drawsnewid Gofal Cymdeithasol Oedolion Hŷn fel un o saith blaenoriaeth ar gyfer y cyfnod 2013-2017. Yn unol â pholisi cenedlaethol, rydym yn rhoi llawer mwy o bwyslais ar alluogi pobl hŷn i aros yn annibynnol am lawer hirach, eu galluogi i gael cefnogaeth gan gymunedau cryf a chael cymorth i fyw gartref lle bynnag y bo'n bosib. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda darparwyr tai i ymestyn y ddarpariaeth Gofal ychwanegol yn sylweddol ar draws yr ynys dros y blynyddoedd nesaf. Rydym hefyd yn newid ein darpariaeth ar gyfer y rhai hynny lle nad yw byw gartref bellach yn opsiwn, gweithio gyda darparwyr y sector preifat a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr er mwyn cynyddu'r capasiti ar gyfer darpariaeth Nyrsio'r Henoed Dryslyd. Canmolodd y rhai a gymerodd ran yn y Cyfarfod Her Blynyddol wasanaeth effeithiol y tîm Iechyd Meddwl sydd yn yr un lle, yr ymgysylltiad a gafwyd yn ardal Seiriol mewn perthynas â chryfhau cefnogaeth Gymunedol i bobl hŷn, y gwasanaeth a ddarperir gan y gwasanaeth Gofal a Thrwsio, gwasanaeth newydd y *Nightowls* yng Nghaergybi ac effeithiolrwydd gwasanaeth Pwynt Mynediad Sengl y Trydydd Sector sydd wedi'i gefnogi gan y Gwasanaethau Oedolion.

Fel awdurdod lleol bychan, ac ar adeg o gyfyngiadau cyllidebol parhaus, mae'n hanfodol ein bod yn cyfuno adnoddau ac yn rhannu arbenigedd. Yn ystod 2015-16, bu i ni sefydlu nifer o drefniadau gweithio ar y cyd ar draws gwasanaethau Oedolion a Phlant ym Môn. Un enghraifft o hyn yw'r Uned Ddiogelu newydd sy'n cydlynu ein gwaith ar Sicrhau Ansawdd. Dros y flwyddyn nesaf byddwn yn gwella capasiti'r Uned i gynghori ar wella ein polisïau a'n prosesau. Rydym yn gweithio ar y cyd gyda Chyngor Gwynedd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddarparu tîm Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd (GICD), sy'n hynod fedrus ac yn amlasiantaethol, i ymyrryd â theuluoedd y mae lefel eu hangen a'r risg iddynt yn uchel o herwydd rhieni /gofalwyr yn camddefnyddio alcohol a sylweddau. Mae'r tîm hwn yn cyflawni gwelliannau parhaol i'r teuluoedd y mae'n eu cynorthwyo, gan ei gwneud yn bosib i blant aros yn ddiogel gyda'u teuluoedd yn y rhan fwyaf o achosion. Rydym hefyd yn gweithio gydag ystod o bartneriaid i ddarparu Gwasanaeth Cyfiawnder yr Ifainc sy'n darparu ystod o ymyraethau a gwasanaethau i bobl ifanc sydd wedi troseddu a'r rhai mewn perygl o droseddu. Gall y tîm, hefyd, ddangos ei effeithiolrwydd, gyda gostyngiad sylweddol yn nifer y bobl ifanc sydd wedi troseddu ac aildroseddu yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r timau arbenigol hyn yn ychwanegol at dimau amlddisgybledig sydd wedi hen ennill eu plwyf ac a ariennir ar y cyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyngor Sir Ynys Môn, gan hefyd rannu'r un staff, a hynny yn y meysydd Iechyd Meddwl,

Anableddau Dysgu a chyda Gweithwyr Cymdeithasol sy'n gweithio o Feddygfeydd Meddygon Teulu fel rhan o Fodel Môn.

Rydym yn cymryd rhan yng ngwaith paratoi Asesiad o Anghenion y Boblogaeth ar gyfer Gogledd Cymru, y dylid ei gwblhau erbyn diwedd 2016 a dylai'r data a'r dadansoddi fod yn fodd i ni gynllunio'n fwy effeithiol ar gyfer anghenion ein preswylwyr a'n cymunedau mewn blynyddoedd i ddod. I'r Gwasanaethau Plant, y flaenoriaeth ar gyfer 2016-17 yw rhoi'r cynllun Gwella ar waith wrth hefyd gynllunio i weithredu Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth gwell, datblygu ein gwasanaeth ataliol, cryfhau ein capasiti i weithio'n ddyfal gyda theuluoedd, a sicrhau y caiff ein rhaglenni i gefnogi teuluoedd a chymunedau bregus eu cydlynu'n well. Ar gyfer Gwasanaethau Oedolion, rydym yn gweithio ar Strategaeth newydd ar gyfer Pobl Hŷn, byddwn yn parhau i gynllunio a chyflwyno cyfleusterau Gofal Ychwanegol, gweithio gyda Betsi Cadwaladr i weithredu newidiadau i'r ddarpariaeth nyrsio'r Henoed Dryslyd a hefyd aildendro ein contractau gofal cartref. Byddwn hefyd yn dechrau gwaith sgopio ar foderneiddio gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu.

Mae recriwtio a chadw mwy o staff yn her ac yn flaenoriaeth i'r gwasanaethau Oedolion a'r gwasanaethau Plant, a hynny yn ein gwasanaethau ac i rai o ddarparwyr ein gwasanaethau. Rydym, felly'n gweithio ar Strategaeth Gweithlu fydd yn cynnwys gwell recriwtio. hyfforddi a chadw staff yn yr awdurdod lleol. Bydd hyn yn arbennig o bwysig gan fod nifer o ddatblygwyr y sector preifat yn cynllunio datblygiadau ynni a hamdden ar raddfa fawr ym Môn, fydd yn arwain at gynnydd sydyn yn y boblogaeth a allai roi galw sylweddol ar ein gwasanaethau dros y degawd nesaf a gallai, yn ddigon hawdd, gystadlu i ddenu pobl sy'n gweithio yn y sector gofal cymdeithasol ar hyn o bryd. Mae gwaith eisoes wedi dechrau i sefydlu llinellau sylfaenol, gweithio allan yr effeithiau tebygol a'r camau lliniaru y mae angen i ni eu rhoi yn eu lle. Mae'n hanfodol ein bod ni a'n partneriaid yn cynllunio nawr i ostwng peryglon i wasanaethau a'n gweithlu mewn blynyddoedd i ddod. Byddwn yn parhau gyda'r gwaith o wneud y gweithlu gofal cymdeithasol yn broffesiynol ym Môn a darparu llwybrau gyrfa a llwybrau datblygu cliriach i'r rhai hynny sy'n gweithio ar draws pob sector.

Dros y flwyddyn a ddaw, byddwn yn cryfhau ein hymrwymiad corfforaethol i ddiogelu, gan ddisgwyl y bydd pob Pennaeth Gwasanaeth yn rhoi sylw i'r gofyn hwn fel rhan o'u hamcanion personol ar gyfer 2016-17. Mae aelodaeth ein Bwrdd Diogelu Corfforaethol eisoes wedi'i hymestyn i gynnwys uwch-swyddogion o'r Adran Dai a Hamdden. Rydym hefyd yn sicrhau fod pob Pennaeth Gwasanaeth a'r holl Aelodau Etholedig yn deall darpariaethau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gyda briffiau rheolaidd ar ddarpariaethau'r Ddeddf a beth y mae hyn yn ei olygu i'n staff a'n partneriaid o ran newid arfer a gweithdrefnau. Dylai hyn gryfhau capasiti'r awdurdod i sgriwtineiddio'r gwasanaethau cymdeithasol yn effeithiol wrth i ni baratoi ar gyfer newidiadau mewn trefniadau arolygu a ddaw o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.



# Gwasanaethau Oedolion



**Alwyn Rhys Jones, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion**

**1. Cyflwyniad**

Mae Gofal Cymdeithasol Oedolion ym Môn wedi ymrwymo i gefnogi oedolion o bob oed i gynnal bywyd annibynnol a gwneud cyfraniad gwerthfawr i gymdeithas. Wrth wneud hyn, rydym hefyd yn canolbwyntio ar ddiogelu buddiannau oedolion y mae gofyn ein cefnogaeth arnynt rhag bob ffurf o gamdriniaeth.

Mae gan y rhan fwyaf o oedolion doreth o gefnogaeth yn eu cymunedau, yn y berthynas bersonol sydd ganddynt ac yn eu teuluoedd a gallant gynnal eu rôl mewn cymdeithas yn y cyd-destun hwn. Dim ond pan fo'r rhwydweithiau hyn o gefnogaeth yn annigonol a phan nad yw cryfder unigol person yn ddigon i gynnal ei annibyniaeth a'i urddas y gall Gofal Cymdeithasol Oedolion gefnogi oedolyn ac y dylai wneud hynny.

Mae Gwasanaethau Oedolion yn cefnogi oedolion sydd ag ystod eang o anghenion. Yn eu plith:-

- Unigolion y mae gofyn cyngor arnynt a gofyn cael eu cyfeirio at gymorth yn eu cymuned leol neu yn y trydydd sector, a hynny un ai trwy grwpiau cymunedol dydd i ddydd neu drwy gymorth ataliol mewn cymunedau
- Unigolion y mae gofyn cymorth tymor byr arnynt yn sgil newid yn eu hamgylchiadau.
- Unigolion ag anableddau neu gyflyrau iechyd tymor hir sy'n arwain at anghenion cymhleth, p'run a yw hynny'n gysylltiedig ag anableddau corfforol a/neu synhwyrol gydol oes, anabledd / cyflwr iechyd sy'n gysylltiedig ag oed, anabledd dysgu neu gyflwr iechyd meddwl.
- Gofalwyr am eraill, y mae gofyn un ai gymorth neu gyngor neu gymorth achlysurol neu barhaol arnynt i gynnal eu rôl fel gofalwyr.

O'r herwydd, dylid darllen fy adroddiad yng nghyd-destun darparu ystod benodol o gefnogaeth i oedolion o fewn continwwm llesiant. Gallai'r gefnogaeth a roddir gynnwys:-

1. Cymorth a chyngor i gael at wasanaethau a chefnogaeth. Yn ddieithriad, darperir hwn trwy Bwynt Mynediad Sengl yr Adran.
2. Asesiadau Therapi Galwedigaethol neu Waith Cymdeithasol Proffesiynol
3. Cefnogaeth tymor byr ac achlysurol ar ffurf ailalluogi, gofal ysbaid ar ffurf gofal dydd neu ofal preswyl, neu addasiadau i eiddo i gynorthwyo byw'n annibynnol.
4. Cefnogaeth yn y tymor canolig ar ffurf cefnogaeth Adfer Iechyd Meddwl.

5. Cefnogaeth yn y tymor hir ar ffurf gofal cartref, tai gofal ychwanegol, gofal preswyl/nyrsio a thai â chymorth.

Darperir gwasanaethau a restrir yn 1 a 2 gan staff a gyflogir gan yr awdurdod lleol ac sy'n gweithio o swyddfeydd y Cyngor yn Llangefni. Y gwasanaethau a nodir yn 3,4  a 5 yw'r rhai y mae'r Cyngor yn eu darparu trwy ei wasanaethau a reolir ond hefyd yn eu comisiynu (prynu) trwy ystod eang o ddarparwyr y sector annibynnol a gwirfoddol. Ymhlith gwasanaethau'r Cyngor ei hun, mae:-

- Chwe chartref gofal preswyl
- Tair Canolfan Adnoddau Anabledd Dysgu
- Un Ganolfan Ddydd Pobl Hŷn
- Dau gynllun cyfle gwaith i unigolion ag anabledd
- Un cynllun cyfle gwaith i unigolion â salwch iechyd meddwl
- Gofal cartref yn y gymuned, yn cynnwys darparu gwasanaethau cefnogi ailalluogi a gyfyngir gan amser
- Gofal a chefnogaeth i dri thŷ byw â chymorth yn y gymuned
- Tîm o weithwyr cefnogi iechyd meddwl yn y gymuned
- Teleofal
- Un tŷ byw â chymorth i unigolion â chyflyrau iechyd meddwl
- Gweithwyr cefnogi sy'n cynorthwyo pobl sydd â Dementia.

Dylai unigolyn sy'n dod i gysylltiad â Gwasanaethau Oedolion:-

- Deimlo'n well o ran llesiant corfforol, iechyd meddwl ac iechyd emosiynol
- Cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth neu esgeulustra neu rhag dioddef niwed sylweddol
- Bod â mynediad at addysg, hyfforddiant ac adloniant
- Bod â pherthynas ddomestig, deuluol a phersonol well
- Gallu cyfrannu i gymdeithas
- Sicrhau eu hawliau personol
- Teimlo'n well yn gymdeithasol ac yn economaidd
- Byw mewn llety addas.

Mae Adroddiad 2014/15 y Rheoleiddwyr ar Werthuso Perfformiad yn cydnabod y datblygiadau cadarnhaol yn y Gwasanaeth Oedolion, gan dynnu sylw penodol at y meysydd a ganlyn:-

- Ymgysylltu â chymunedau
- Trawsnewid gwasanaethau
- Nifer y gofalwyr a gefnogir



At hyn, mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith bod angen i'r Awdurdod Lleol wella yn y meysydd a ganlyn:-

- Gwerthuso effaith moderneiddio'r gwasanaeth
- Moderneiddio gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu
- Comisiynu a monitro gwasanaethau
- Cydweithio ag Iechyd Meddwl a chyfuno cyllidebau

**2. Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 - Llesiant i Oedolion Gofal Cymdeithasol Cynaliadwy i'r Dyfodol**

Dechreuais yr adroddiad hwn trwy ddiffinio rôl y Gwasanaethau Oedolion a'r rôl y gallwn ni ei chwarae wrth gefnogi pobl yn eu cymunedau. Fel y nodwyd gan y Pennaeth Gwasanaethau Plant, mae hwn yn gyfnod o newid mawr a dylid rhoi ystyriaeth i'r gwaith yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd i gynnal a gwella gwasanaethau yng nghyd-destun y newidiadau y mae'n rhaid i ni eu gweithredu gyda dyfodiad Deddf Gwasanaethau Cymdeithaso a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae Gwasanaethau Oedolion Cyngor Sir Ynys Môn yn cydnabod fwy nac erioed bod angen darparu model o ofal cymdeithasol i'r dyfodol sy'n cwrdd ag anghenion y boblogaeth, yn ymateb i'r ddeddf ac yn rhoi pobl wrth galon penderfyniadau sy'n cael effaith ar eu dyfodol.

Yn hyn o beth, mae hi hefyd yn bwysig deall y newidiadau yn ein poblogaeth leol a fydd yn cael effaith ar yr angen am wasanaethau. Ymhlith y newidiadau hyn:

- Bydd cyfanswm nifer y bobl dros 65 mlwydd oed yn cynyddu 39% erbyn 2030. (Ffynhonnell: Sylfaen Wybodaeth Môn; Asesiad o Anghenion Pobl Hŷn 2013-2033 Adroddiad ar Lety a Chefnogaeth Berthynol a gyhoeddwyd gan y Bartneriaeth Tai a Chefnogaeth yn 2013)
- Bydd cyfanswm nifer y bobl dros 75 mlwydd oed sydd â salwch tymor hir yn cynyddu 75% erbyn 2030. (Ffynhonnell: Gwefan Daffodil Cymru)

Golyga'r newidiadau cadarnhaol yn ein demograffi bod mwy ohonom yn byw i fod yn hŷn â chyflyrau cronig a bod unigolion ag anableddau dysgu'n byw bywydau iach a llawn. Yn yr un modd, mae yna gynnydd graddol yn y rhai hynny â chyflyrau iechyd meddwl y mae gofyn cefnogaeth arnynt mewn cymunedau. Golyga hyn bod y newidiadau a wnawn nawr yn hanfodol yng nghyd-destun cyflawni dyfodol cynaliadwy ar gyfer gofal cymdeithasol.

Isod ceir nifer o newidiadau allweddol y bydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn eu cyflwyno a'r camau cynnar yr ydym wedi'u cymryd ym Môn i ymateb.

| Newidiadau sy'n ofynnol | Ymateb Môn |
|---|---|
| Bydd mwy o wybodaeth a chyngor ar gael | Rydym wedi datblygu Pwynt Mynediad Sengl er 2013. Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth yn bwynt cyfeirio i'r holl wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y gymuned. Dros y deuddeng mis diwethaf, mae'r gwasanaeth wedi newid yn raddol i gynnig ystod fwy o gyngor a gwybodaeth i unigolion, gan allu'n aml gyfeirio pobl at gefnogaeth a gwasanaethau yn y Trydydd Sector neu yn eu cymunedau eu hunain. Efallai mai cael eu |

| | |
|---|---|
| | cyfeirio at eu canolfan gymunedol leol neu at wasanaeth cyfeillio lleol yn unig y mae nhw neu at ystod o gyfleusterau eraill.<br><br>Yn ogystal â'r Pwynt Mynediad Sengl, mae'r Cyngor wedi gweithio gyda'n Partner yn y Sector Gwirfoddol, Medrwn Môn, i ddatblygu Linc Cymunedol Môn. Pwynt Cyswllt o fewn Medrwn Môn yw hwn sy'n gallu cyfeirio pobl at gefnogi gwasanaethau yn y Trydydd Sector neu yn eu cymunedau eu hunain. Efallai mai cael eu cyfeirio at eu canolfan gymunedol leol yn unig y byddant, at wasanaeth cyfeillio neu at ystod o gyfleusterau eraill.<br><br>Mae Môn hefyd wedi bod yn bartner allweddol yn natblygiad y wefan DEWIS. Datblygiad cenedlaethol yw hwn yr arbrofir arno yng Ngogledd Cymru ond y mae disgwyl iddo nawr gael ei gyflwyno'n genedlaethol. Mae'n caniatáu i grwpiau a gwasanaethau cymunedol a gyflawnir yn lleol uwchlwytho'u gwybodaeth i'r wefan hon. Mae'n caniatáu i bobl gael mynediad at wybodaeth syml a chyfredol am y gwasanaethau sydd ar gael yn lleol. |
| Bydd gan bobl fwy o reolaeth dros y gefnogaeth y mae ei hangen arnynt ac yn bartneriaid cydradd mewn gofal | Bydd asesiadau'r dyfodol yn cael eu seilio ar fath wahanol o sgwrs, gyda'r cwestiwn, "Beth sy'n bwysig iddyn nhw" yn cael ei ofyn i unigolion. Yn lleol, rydym wedi gweithio gyda'n partneriaid Awdurdod Lleol ac Iechyd i ddatblygu fframwaith asesu newydd y gweithredir arno o Ebrill 2016.<br><br>Bydd yr asesiad newydd hwn yn canolbwyntio ar y cryfderau sydd gan unigolyn, y canlyniad y mae'n dymuno ei gael, y peryglon wrth eu cael a sut mae modd cael ateb cydgynhyrchiol. |
| Bydd Gwasanaethau Ataliol ar gael i atal anghenion unigol rhag gwaethygu | Mae atal wedi bod wrth galon ein model ym Môn ers cryn amser. Mae gwasanaethau ailalluogi wedi'u cyflwyno er 2008 yn cynnig gofal cartref a chefnogaeth therapi tymor byr fel bod modd i bobl adfer. Yn 2015/16 cafodd dros 400 o bobl gymorth gan ein gwasanaeth ailalluogi. O'r rhai hynny, nid oedd angen cymorth parhaus ar bron i hanner ohonynt ar ôl ailalluogi a chawsant eu cyfeirio at wasanaethau cymunedol unwaith y daeth y cymorth i ben.<br><br>At hyn, mae ystod o wasanaethau ataliol eraill mewn bodolaeth. Yn eu plith, mae Heneiddio'n Dda Hwyliog Môn, |

| | |
|---|---|
| | Gwasanaethau Gofal Canolraddol, Parabl, Hafal, Homeshare a Theleofal.<br><br>Wrth gydnabod na fydd cynllun gofal a chefnogaeth a reolir wastad yr ateb iawn ar gyfer pobl, mae Cyngor Sir Ynys Môn hefyd wedi ymrwymo amser ac adnoddau sylweddol i ddatblygu cymunedau lleol. Yn Ardal Seiriol Môn, mae model o Gydlynu Ardal Leol wedi bod yn ei le er 2014. Mae’r Cydlyniant hwn wedi ymyrryd yn uniongyrchol â 65 o bobl, gan ddarparu atebion cymunedol trwy fabwysiadu dull o weithredu asedau cymunedol. At hyn, ceir y gwerth ychwanegol o hyrwyddo dulliau gweithredu ataliol gyda grwpiau cymunedol, cefnogi pobl sy’n mynd i hybiau cymunedol ynghyd â gweithio mewn partneriaeth â phractisys meddygon teulu i hyrwyddo model sy’n gymdeithasol benodol. Mae cynnydd amlwg mewn oriau dinasyddion yn y ward, cyfanswm ar gyfartaledd o 508 awr ar ffurf cymryd rhan yn y gymuned a gwirfoddoli, gyda 44 awr o wirfoddoli a sesiynau arwain yr wythnos yn ein hybiau cymunedol yn yr ardal.<br>Mae’r Cyngor hefyd wedi dangos ei ymrwymiad trwy gefnogi gwaith datblygu ac ymestyn hybiau mewn cymunedau sy’n cynnig digwyddiadau i wella llesiant. Mae’r canolfannau Heneiddio’n Dda Hwyliog Môn yn Amlwch a Llangefni, a datblygiadau pellach yn Seiriol a Llanfairpwll, yn dangos cryfder cymunedau lleol. |

Fel awdurdod, rydym yn cydnabod y bydd y Ddeddf a’r heriau a’r cyfleoedd y mae’n eu cynnig i ni, nawr ac yn y dyfodol, yn hanfodol wrth roi’r canlyniadau llesiant cywir i’r bobl hynny y mae angen ein cymorth arnynt. Ni ddylid bychanu lefel y newid diwylliannol sy’n ofynnol.

## 3. Gwasanaethau Oedolion – Edrych yn ôl ar 2015/16

Mae Gwasanaethau Oedolion, trwy’r staff yr ydym yn eu cyflogi’n uniongyrchol a’r rhai hynny a gyflogir trwy ein gwasanaethau a gomisiynir, wastad yn anelu at sicrhau ein bod yn cefnogi pobl i gynnal eu hannibyniaeth. Wrth wneud hyn, rhaid i ni wastad sicrhau ein bod yn cynnal cefnogaeth a gwasanaethau i’r bobl hynny sydd yn draddodiadol wedi derbyn ein gwasanaethau tra, yr un pryd, yn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar wella’r ffordd yr ydym yn gweithio a chynnal gwasanaethau sy’n gynaliadwy i’r dyfodol.



### 3.1 Nifer y bobl yr ydym yn eu cefnogi a'r bobl newydd hynny a gafodd fynediad at ein gwasanaethau yn 2015/16

| | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 |
|---|---|---|---|
| Nifer yr oedolion sy'n derbyn gwasanaeth ar 31 Mawrth | 1,795 | 1,707 | 1,588 |
| Asesiadau gofalwyr newydd a gynhaliwyd | 403 | 521 | 512 |
| Oriau'r gofal cartref a gomisiynwyd | 247,005 | 247,073 | 279,331 |
| Pobl a gafodd ofal preswyl/cartref nyrsio | 690 | 659 | 651 |
| Adolygiadau a gynhaliwyd | 941 | 971 | 939 |
| Pobl y rhoddwyd gwasanaeth ailalluogi iddynt | 438 | 500 | 429 |
| Taliadau uniongyrchol | 42 | 55 | 68 |

Mae ein gwaith o ganolbwyntio ar gefnogi unigolion gyda gwasanaethau ataliol tymor byr a chyfeirio unigolion at gefnogaeth yn eu cymunedau i'w weld yn y tueddiadau a nodir yn y siart hon. Nodir gostyngiad graddol yn nifer y bobl y darperir gwasanaethau parhaus ar eu cyfer gan y Cyngor; ond, ar yr un pryd ag y mae nifer y bobl sy'n derbyn gofal mewn lleoliad preswyl a nyrsio yn syrthio, mae lefel y gofal cartref a ddarperir i gynorthwyo pobl i aros gartref yn cynyddu'n sylweddol.

Rydym yn falch fod nifer yr asesiadau gofalwyr a gynhaliwyd wedi codi, gan bwysleisio ein hymrwymiad i gefnogi gofalwyr i gynnal eu rôl. Yn ogystal, mae nifer y bobl sy'n dewis rheoli eu gofal trwy daliad uniongyrchol yn codi, fel y gwelir yn y tabl isod. Ein gobaith yw cefnogi rhagor o gynnydd yn y meysydd hyn yn 2016/17.

**Nifer y cleientiaid sy'n dewis rheoli eu gofal trwy daliadau uniongyrchol:**

| Blwyddyn | Nifer y Cleientiaid |
|---|---|
| 2012/13 | 33 |
| 2013/14 | 42 |
| 2014/15 | 55 |
| 2015/16 | 68 |

### 3.2 Beth a ddywedoch chi wrthym am ein gwasanaethau

Casglwn farn y cyhoedd ar ein gwasanaethau mewn nifer o ffyrdd. Un dull o wneud hyn, yw cofnodi nifer yr achosion o ganmol a chwynion yr ydym yn eu derbyn ynghylch y gefnogaeth a'r gwasanaethau yr ydym yn eu cynnig Derbyniwyd cyfanswm o 151 achos o ganmoliaeth i'r Gwasanaethau Oedolion yn 2015/16; mae hyn yn uwch na chyfanswm y llynedd o 110. O'r 151 o sylwadau cadarnhaol a dderbyniodd y Gwasanaethau Oedolion, roedd pedwar gan swyddogion proffesiynol eraill a 147 gan ddefnyddwyr y gwasanaeth neu aelodau o'u teulu. Roedd y sylwadau cadarnhaol wedi'u catagoreiddio fel a ganlyn:

| Gwasnaethau Oedolion | |
|---|---|
| Gofal Preswyl | 110 |
| Gofal Cartref | 20 |
| Tîm Oedolion y Gogledd | 4 |
| Tîm Oedolion y De | 4 |
| Tîm Anableddau Corfforol a Synhwyrol | 7 |
| Tîm Anableddau Dysgu | 1 |
| Tîm Cyllid Cleientiaid | 1 |
| Uwch-reolwyr | 1 |
| Tîm Contractau | 2 |
| Sylwadau cadarnhaol am fwy nag un tîm | 1 |
| **Cyfanswm** | **151** |

Dyma enghreifftiau o sylwadau cadarnhaol a dderbyniwyd:

*"Mae nhw fel angylion yn dod draw pob dydd ac yn rhoi gwasanaeth ardderchog, mae nhw o hyd yn gwenu ac yn hapus ac mae nhw'n sirioli'r lle .”* – **Gofal Môn**

*"Mae eich help wedi ei gwneud yn bosib i mi gario 'mlaen i fyw gartref. Diolch i chi."* – **Anableddau Corfforol**

*"Mae'r staff yn broffesiynol, gofalgar, ymrwymiedig ac yn gwneud mwy nag sydd rhaid i sicrhau fod pawb yn iawn."* – **Gofal Preswyl**

*"Diolch am eich holl gymorth proffesiynol – prosesu'r doreth o ddogfennau a gwaith gweinyddol… hwyluso cartref gofal – dylech gael eich canmol gan eich proffesiwn"* – **Tîm Oedolion y De**

*"Bob tro'n sensitif o ddeinameg y teulu, wedi cefnogi ein hanghenion a gweithio'n hynod galed ar ein rhan"* **– Tîm Oedolion y Gogledd**

Derbyniodd y Swyddog Cwynion gyfanswm o ddeuddeg o sylwadau / pryderon negyddol yn ystod y flwyddyn ynghylch y Gwasanaethau Oedolion. Roedd y deuddeg sylw negyddol wedi'u catagoreiddio fel a ganlyn:

| **Gwasnaethau Oedolion** | |
|---|---|
| Anableddau Corfforol | 1 |
| Anableddau Dysgu | 0 |
| Gofal Preswyl | 4 |
| Tîm Oedolion y Gogledd | 4 |
| Tîm Oedolion y De | 2 |
| Cyllid Cleientiaid | 0 |
| Dyletswydd | 0 |
| Gofal Cartref | 1 |
| Iechyd Meddwl | 0 |
| **Cyfanswm** | **12** |

Credwn fod adborth defnyddwyr y gwasanaeth yn bwysig iawn a'n nod yw dysgu a chryfhau arfer a chyflawniad gwasanaeth yn ei sgil.

### 3.3 Ffyrdd eraill o Gyfathrebu

Yn ystod 2015/16 mae nifer o ymgynghoriadau wedi'n cynorthwyo i gasglu barn ar bynciau allweddol, megis:-

- Gwelfor - Cynorthwyodd ymgynghoriad a gynhaliwyd yn lleol i ni lunio syniadau a chefnogi gwaith datblygu'r hyb cymunedol yng Nghanolfan Gymunedol Gwelfor. Rhannwyd syniadau hefyd ar y ffordd orau i ddefnyddio arian Gofal Canolraddol sydd ar gael i ddatblygu'r gwasanaeth er mwyn cwrdd â chanlyniadau llesiant y gymuned.

- Haulfre- Cynhaliwyd ymgynghoriad ar ddyfodol Cartref Preswyl Haulfre. Roedd hwn yn llwyfan cadarn i'r Pwyllgor Gwaith wneud penderfyniadau. Yn sgil yr ymgynghoriad, gwnaed penderfyniad i gynnal y cartref yn y tymor byr, gyda'r Cyngor yn ymrwymo i wario cyfalaf er mwyn gwella'r cartref wrth ymrwymo i ganfod lleoliad ar gyfer Gofal Ychwanegol yn yr ardal. Rydym o'r farn y bu hwn yn ymgynghoriad llwyddiannus ar fater arbennig o sensitif.

- Taliadau Uniongyrchol - Ymgysylltwyd ag unigolion sy'n defnyddio taliadau uniongyrchol ac ag eraill er mwyn ystyried sut y dylid cryfhau'r gwasanaeth yn y dyfodol. Mae'r broses hon wedi bod yn fodd i ni yn ein huchelgais o ail-lansio a chryfhau cefnogaeth Taliadau Uniongyrchol yn ystod 2016/17.

Mae amryfal ymgynghoriadau dros y deuddeg mis diwethaf wedi'n cynorthwyo i gasglu barn ar bynciau allweddol, megis trafnidiaeth, cyfryngau a thechnoleg, gwybodaeth leol, anghenion tai a materion iechyd.

Credwn ein bod yn ffodus gan mai nod prosiect Lleisiau Lleol Medrwn Môn yw gwella a chryfhau cysylltiadau rhwng cymunedau a darparwyr gwasanaeth, a chynyddu capasiti unigolion i gymryd rhan mewn cyflawni a llunio gwasanaeth er mwyn cefnogi gwasanaethau gwell ym Môn. Mae'r prosiect Lleisiau Lleol wedi bod yn ganolog i nifer o'r ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal ac, yn ein barn ni, wedi cryfhau ein gallu i ymgysylltu yn 2015/16.

### 3.4 Perfformiad gwasanaethau yn erbyn dangosyddion cenedlaethol


Mae ein perfformiad yn erbyn dangosyddion cenedlaethol craidd i'w gweld ar dudalen 37.

Yn gyffredinol, rydym yn falch o gael dweud fod nifer o'r dangosyddion wedi codi, sef dangosyddion sy'n cynnwys unigolion y mae eu cynlluniau gofal wedi'u diweddaru, gofalwyr y cynigiwyd iddynt asesiad a chanran yr unigolion sy'n destun y broses ddiogelu lle mae risgiau wedi'u rheoli.

Rydym wedi gweld cwymp sylweddol yn ein perfformiad yn erbyn Oedi wrth Drosglwyddo Gofal a chydnabyddwn fod angen rhoi sylw i hyn yn 2016/17.

Isod dangosir dangosyddion perfformiad a thueddiadau:

**SCA/002a (DSC): Cyfradd y bobl hŷn (65 oed neu drosodd) a gefnogir yn y gymuned allan o bob 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth**
**Targed Pi - Rhif isel**





| | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 54.41 | 49.52 | 43.51 |
| Cyfartaledd Cymru | 74.48 | 67.3 | |
| Targed Môn | 55 | 55 | 50 |

<u>Yr hanes y tu ôl i'r perfformiad:</u>

Mae cyfradd y bobl hŷn yr ydym yn eu cefnogi yn y gymuned wedi disgyn yn erbyn poblogaeth gynyddol hŷn. Mae'r cyfeiriad yr ydym yn mynd iddo'n lleol yn adlewyrchu polisi a chyfeiriad cenedlaethol, gyda phwyslais cryfach yn cael ei roi ar wasanaethau ataliol tymor byr a chanolbwyntio ar gefnogaeth o fewn cymunedau.

Mae rhoi gwybodaeth, cyfeirio ac ymrymuso yn ein pwyntiau mynediad yn cael effaith uniongyrchol ar niferoedd yr oedolion sy'n derbyn gwasanaeth gennym.

**SCA/007: Canran y cleientiaid sydd â chynllun gofal ar 31 Mawrth, y dylai eu cynllun gofal fod wedi cael ei adolygu, ac a gafodd eu hadolygu yn ystod y flwyddyn**
**Targed Pi - Rhif uchel**





| | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 87.86 | 92.17 | 93.62 |
| Cyfartaledd Cymru | 81.1 | 80 | |
| Targed Môn | 84 | 85 | 85 |

<u>Yr hanes y tu ôl i'r perfformiad:</u>

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf cwblhawyd 939 allan o 1003 o adolygiadau yr oedd eu disgwyl (93.62%). Mae hyn yn welliant ar berfformiad y ddwy flynedd ddiwethaf a bydd yn ein rhoi mewn sefyllfa gref yn genedlaethol.

**SCA/018a: Canran y gofalwyr oedolion y cynigwyd aesiad neu adolygiad o'u hanghenion iddynt yn ystod y flwyddyn Targed Pi - Rhif uchel**





| | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 91.3 | 92.9 | 95.3 |
| Cyfartaledd Cymru | 85.8 | 88.3 | |
| Targed Môn | 85 | 92 | 93 |

Yr hanes y tu ôl i'r perfformiad:

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf cynigiwyd asesiad neu adolygiad o'u hanghenion yn eu hawl eu hunain i 95.3% o ofalwyr anffurfiol. Mae hyn uwchlaw ein perfformiad yn 14/15 o 92.93% a chyfartaledd Cymru yn 14/15 o 88.3%.

**SCA/001 (DSC): Cyfradd yr oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol,**
**allan o bob 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu drosodd...**



| | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 0.55 | 1.77 | 6.63 |
| Cyfartaledd Cymru | 4.7 | 4.83 | |
| Targed Môn | 1.75 | 1.5 | 1.5 |

Yr hanes y tu ôl i'r perfformiad:

Rydym yn darparu asesiad a chapasiti gwaith cymdeithasol yn yr ysbytai gofal llym a chymunedol i oedolion wrth iddynt baratoi i adael, trwy bartneriaeth gyda Chyngor Gwynedd.

Rhwng Ebrill 2015 a diwedd Mawrth 2016 bu 50 o achosion lle bu oedi wrth drosglwyddo oherwydd rhesymau gofal cymdeithasol. Mae hyn yn arwain at y dangosydd perfformiad yn sgorio 6.63 sydd yn llawer uwch na'n targed ni o 1.50.

Rydym wedi profi heriau sylweddol yn yr ardal hon eleni ac rydym yn canolbwyntio ar wella gallu darparwyr i roi gofal yn 2016/17 a 2017/18.

## 4. Meysydd Datblygu a Gwella yn 2015/16 a maint ein cynnydd

Fel rhan o'n proses gynllunio ar gyfer 2015/16 rydym yn datblygu Cynllun Cyflawni Gwasanaeth blynyddol sy'n gosod allan ein rhaglen waith am y flwyddyn. Yn yr adran hon, nodir yn fyr y cynnydd yr ydym wedi'i wneud mewn rhai o'r meysydd craidd hynny.

### 4.1 Tai Gofal Ychwanegol

Mae datblygu Tai Gofal Ychwanegol mewn lleoliadau allweddol ar draws Môn yn flaenoriaeth gorfforaethol yn ogystal â bod yn rhan allweddol o Drosglwyddo Gwasanaethau Oedolion. Ein dymuniad yn Ebrill 2015 oedd cytuno ar bartner i ddatblygu tai gofal ychwanegol yn Llangefni ac Amlwch, yn ogystal â chytuno ar safle tir priodol yn ne'r ynys ar gyfer datblygiad o'r fath.

Erbyn diwedd Mawrth 2016 cytunwyd ar bartner i ddatblygu tai gofal ychwanegol yn Llangefni ac rydym ar y trywydd iawn i ddarparu datblygiad gofal ychwanegol newydd yn yr ardal erbyn Mai 2018. Nid oeddem yn gallu cytuno ar bartner ar gyfer Amlwch ac mae datblygiad yn yr ardal hon yn parhau i fod yn rhan o'n cynlluniau.

Cyn belled â bo modd cytuno ar safle yn ardal Seiriol, dyma fydd y safle ar gyfer datblygiad gofal ychwanegol newydd yn ne'r ynys. Cafwyd datblygiadau sylweddol wrth asesu safleoedd lleol.

### 4.2 Newidiadau i'r Cartref / Gofal Cartref

Nododd ein Cynllun Cyflawni Gwasanaeth ychydig o dargedau uchelgeisiol o fwrw ymlaen ymhellach i allanoli gwasanaethau gofal cartref. Fel Cyngor, rydym wedi ymrwymo i economi cymysg o ddarpariaeth, gyda darparwyr y sector annibynnol a gwirfoddol yn darparu 70% o ofal cartref mewn ardaloedd a'r darparwr mewnol yn darparu 30%. Eleni cyflawnwyd y rhaniad hwn.

Yn ystod y flwyddyn, roeddem hefyd yn bwriadu altro natur y ddarpariaeth fewnol, gan ganolbwyntio mwy ar feysydd arbenigol, yn cynnwys ailalluogi a gofal i bobl â dementia. Er bod y gwasanaeth ailalluogi wedi datblygu, yn sgil pwysau parhaol ar ofal cartref tymor hir, ni fu'n bosib newid y gwasanaeth i ddarparu mwy o gefnogaeth arbenigol ar gyfer dementia eleni.

### 4.3 Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu

Yn 2015/16, ein nod oedd ymestyn sgôp ein gwaith o drawsnewid gwasanaethau i gynnwys y gefnogaeth a gynigiwn i unigolion ag Anabledd Dysgu ac i'r rhai â chyflyrau Iechyd Meddwl.

Eleni rydym wedi gwneud cynnydd wrth ymgysylltu â defnyddwyr y gwasanaeth mewn perthynas â datblygu Taliadau Uniongyrchol yn ogystal â gwneud paratoadau i allanoli ein darpariaeth fewnol o Fyw â Chymorth. Mae'r gwaith a wnaed yn 2015/16 yn ein rhoi mewn sefyllfa gadarnhaol i fwrw ymlaen gyda'r gwaith hwn yn 2016/17.

## 5. Llwyddiannau Allweddol Eraill

### 5.1 Systemau Gwybodaeth Newydd

Yn ystod y flwyddyn mae Môn wedi ymgysylltu'n llwyr â'r broses gaffael i gynorthwyo gyda'r gwaith o gael System Wybodaeth newydd, yn lle'r system bresennol, Raise. Mae'r system hon yn cefnogi'n holl waith gyda'r cyhoedd ac yn sicrhau fod gennym wybodaeth gywir a defnyddiol.

Rydym yn falch o gadarnhau fod Môn bellach wedi cytuno ar system arall, sef System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (SGGCC). System genedlaethol yw SGGCC fydd yn cael ei chyflwyno i'r holl Awdurdodau Lleol ac i'r gwasanaethau cymunedol yn y GIG dros y blynyddoedd nesaf.

## 6 Ein blaenoriaethau ar gyfer 2016/17

Ar gyfer 2016/17 byddwn yn parhau i anelu at gynorthwyo unigolion i aros yn annibynnol. Fel blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn, ein nod yw cefnogi cymunedau i gryfhau'r cymorth sydd ar gael yn lleol, yn ogystal â sicrhau fod y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu a'u comisiynu hefyd yn cefnogi'r nod hwn.

### 6.1 Cymunedau

Fel rhan o'n strategaeth i gefnogi pobl hŷn, rydym wedi gosod nodau uchelgeisiol, sef ymestyn dylanwad cymunedau ar ofal a chefnogaeth. Yn ystod 2016/17, ein nod yw ymestyn Cydlyniant Ardal Leol i ddwy ardal arall ym Môn. Hyd yn hyn, mae'r gweithiwr yn Seiriol wedi rhoi cefnogaeth fawr i unigolion yn byw'n lleol heb fod angen parhaus am wasanaethau. Ein gobaith hefyd yw annog gwaith datblygu dau hyb cymunedol arall. Mae hybiau cymunedol yn rhoi sylfaen a strwythur i ddigwyddiadau lleol, sy'n rhoi gweithgareddau lleol i bobl. Credwn yn gryf fod cael mynediad at y cyfleusterau hyn yn hyrwyddo llesiant unigolion.

### 6.2 Gofal Cartref

Mae'r problemau yr ydym wedi'u cael yn 2015/16, gyda mynediad at ofal cartref ddim mor gadarn ag y byddem yn ei obeithio, wedi tanlinellu ein hangen i gryfhau'r ddarpariaeth hon. Yn ystod 2016/17, byddwn yn aildendro gwasanaethau yn ôl bröydd. Ein nod yw cytuno ar 3 ardal ddaearyddol ar Ynys Môn, a fudd yn cynnwys ardaloedd trefol a gwledig. Yn dilyn ymarfer tendro byddwn yn cytuno ar ddarparwr ar gyfer pob ardal.  Bydd hyn yn cryfhau ein partneriaeth gyda

darparwyr a sicrhau fod pobl ym mhob ardal yn cael gofal amserol. Mae'n debygol y rhoddir y model ar waith yn 2017/18, yn sgil neilltuo contractau newydd yn 2016/17.

### 6.3 Anableddau Dysgu

Yn 2016/17, ein nod yw cryfhau gallu unigolion i fwrw ymlaen i fwy o annibyniaeth. Ymhlith ein nodau ar gyfer eleni mae aildendro ein prosiectau byw â chymorth a weithredir ac a gomisiynir ar hyn o bryd gan ein hawdurdod lleol, gan sicrhau ein bod yn ymgysylltu â darparwyr byw â chymorth a'u tenantiaid i sicrhau canlyniadau da o'r broses.

Yn sgil adolygu ein prosiectau gofal dydd a chyflogaeth â chymorth, rydym hefyd yn bwriadu aildendro'r prosiectau hynny, gan sicrhau eu bod yn rhoi'r cyfle gorau i unigolion wella a chryfhau eu sgiliau byw o ddydd i ddydd.

Gan gynnal y gwaith hwn ac annog yr holl unigolion i reoli eu canlyniadau a phennu sut y cânt eu bodloni, byddwn yn ail-lansio ein cynlluniau Taliadau Uniongyrchol gyda mwy o gefnogaeth ar gael fel bod modd i unigolion reoli eu cefnogaeth eu hunain.

### 6.4 Iechyd Meddwl

Darperir ein gwasanaethau Iechyd Meddwl mewn partneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaldr. Yn ystod y deuddeg mis nesaf, ein bwriad yw cryfhau trefniadau'r bartneriaeth sy'n rheoli'r trefniant hwn.

Yn ddiweddar, rydym wedi cytuno ar Gynllun Gweithredu i gryfhau'r gefnogaeth i unigolion yn byw â Dementia; ac yn ystod y flwyddyn ein bwriad yw gweithredu hyn gan sicrhau fod cefnogaeth ar gael i unigolion a'u gofalwyr aros yn rhan o'u cymuned wrth i'r cyflwr ddatblygu.

### 6.5 Meysydd Eraill

Mae nifer o feysydd eraill yr ydym yn gobeithio eu cryfhau yn 2016/17. Yn eu plith:-

- Byddwn yn parhau i hyfforddi a chefnogi staff i weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a roddwyd ar waith ar y 6ed o Ebrill 2016.
- Byddwn yn sicrhau y byddwn yn adrodd yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, gan sicrhau mwy o ganolbwyntio ar ganlyniadau i unigolion.
- Byddwn yn sicrhau y byddwn yn rhoi strwythur cadarn o fonitro a rheoli contractau yn ei le.
- Byddwn yn ailfodelu ein contract gyda'r sector wirfoddol er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu ein dyheadau ar gyfer y dyfodol.

- Byddwn yn bwrw ymlaen gyda'n gwaith paratoi i gyflwyno'r System Dechnoleg Gwybodaeth Cymru Gyfan newydd, gan weithio'n agos gyda sefydliadau sy'n bartneriaid, a hynny'n rhanbarthol ac yn genedlaethol.

- Byddwn yn anelu at gael arbedion a dargedir.

## 7.0 Crynodeb

Mae 2015/16 wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus i'r Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi parhau i roi cefnogaeth i niferoedd sylweddol o oedolion dros y Sir ac mae'r adborth yr ydym yn ei gael yn parhau i fod yn gadarnhaol.

Rydym wedi wynebu heriau o ran prinder gweithwyr gofal cartref ac ymgynghoriad mawr ar ddyfodol Cartref Preswyl Haulfre. Er gwaethaf yr heriau hyn, credwn fod ymgysylltiad parhaol â'r cyhoedd wedi caniatáu i ni gael y canlyniadau gorau posib i unigolion.

Mae 2016/17 yn debygol o fod yn flwyddyn heriol ond credwn ein bod mewn lle da i gynnal gwelliant parhaus.

# Gwasanaethau Plant



**Anwen Huws, Pennaeth Gwasanaethau Plant**

## 1. Cyflwyniad

Mae dyletswydd ar Gyngor Sir Ynys Môn i amddiffyn plant rhag niwed a chyflawni ystod o swyddogaethau statudol mewn perthynas â llesiant plant a phobl ifanc. Mae'r rhan fwyaf o blant yn cael eu magu gyda'u hanghenion yn cael eu bodloni o fewn eu teuluoedd a'u cymunedau eu hunain, gan gael rhai gwasanaethau y tu allan i'w teulu uniongyrchol trwy ystod o wasanaethau cyffredinol, gwasanaethau cefnogi'n gynnar a gwasanaethau ataliol. Nid yw Gwasanaethau Plant yr Awdurdod Lleol yn gyfrifol am y gwasanaethau hyn; rydym yn cynllunio a chyflawni gwasanaethau i gefnogi plant a theuluoedd sy'n wynebu problemau cymhleth a dwys; plant a phobl ifanc:-



- Ag anghenion cymhleth ac y mae angen ein cefnogaeth arnynt
- Y mae angen eu hamddiffyn rhag camdriniaeth
- Sy'n derbyn gofal yr awdurdod lleol
- Sy'n gadael gofal yr awdurdod lleol
- Ag anableddau
- Sy'n troseddu neu sydd mewn perygl o droseddu
- Sy'n ofalwyr i eraill.

Rydym yn credu mewn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau plant yr ydym yn darparu gwasanaeth iddynt. Yn hyn o beth, credwn y cawn ein barnu, nid yn unig yn ôl yr hyn yr ydym yn ei wneud ond hefyd yn ôl yr effaith yr ydym yn ei chael ar y canlyniadau i blant. Yn sgil ein hymyraethau, bydd disgwyl y bydd plant a phobl ifanc yn: -

- Ddiogel - bydd plant yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustra
- Iach – bydd plant yn cyflawni eu datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol.
- Cael sefydlogrwydd yn eu bywydau – bydd gan blant ymdeimlad o berthyn a byddant yn cael, ac yn cyfrannu at, berthynas ddiogel a gydol oes o fewn teuluoedd a chymunedau cefnogol.


- Cyflawni eu potensial - Bydd plant yn cael cefnogaeth i gyflawni'n addysgol, i gael cyfleoedd ôl-ysgol a chael yr hyder a'r sgiliau i wneud pethau sy'n bwysig iddyn nhw.
- Gwrando a chymryd rhan – bydd plant yn cael cefnogaeth i gymryd rhan mewn penderfyniadau allweddol ynghylch eu bywyd ac i fod yn aelod gwerthfawr o'u cymuned.

Cydnabu Adroddiad Gwerthuso Perfformiad y Rheoleiddwyr ar gyfer 2014/15 welliannau yn y Gwasanaethau Plant a nododd feysydd ar gyfer eu gwella:-

- Ansawdd gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd
- Datblygu'r gweithlu
- Datblygu'r wefan a defnyddio gwybodaeth, cyngor a chymorth yn unol â'r Ddeddf
- Capasiti a chyflenwi wrth gomisiynu
- Darparu ystod o leoliadau i blant sydd mewn gofal


## 2. Gwasanaethau Plant – Edrych yn ôl ar 2015/16

Mae awydd gwirioneddol ym Môn i wneud y gorau y gallwn i blant a theuluoedd. Rydym yn gweithio mewn amgylchedd heriol, cymhleth a newidiol gyda phwysau ariannol, newidiadau demograffig a disgwyliadau uwch: a'r cyfan mewn cyd-destun o gyflawni gwasanaethau statudol. Yn ystod 2015/16, mae'r gwasanaeth wedi gweld cynnydd sylweddol mewn galw ar draws y bwrdd. Gwelsom gynnydd o 15% mewn cyfeiriadau a arweiniodd at gyfarfodydd strategol, o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a chynnydd o 33% yn nifer y cyfeiriadau a arweiniodd at ymchwiliad Adran 47 yn ystod yr un cyfnod. Mae hyn i'w weld yn gliriach yn y cynnydd mewn plant mewn gofal ac yn y rhai hynny dan gynllun amddiffyn plant. Ddiwedd Mawrth 2016, roedd 124 o blant dan gynllun amddiffyn plant, cynnydd o 106% mewn deuddeg mis.



Yr hanes y tu ôl i'r perfformiad:

Ddiwedd Mawrth 2016, roedd 112 o blant dan ofal yr Awdurdod, cynnydd o 22% yn y deuddeng mis diwethaf a 43% yn y ddwy flynedd ddiwethaf.




Yr hanes y tu ôl i'r perfformiad:

Ddiwedd Mawrth 2016 roedd 124 o blant dan gynllun amddiffyn plant, cynnydd o 106% mewn deuddeg mis.

Heb os, mae hyn yn rhoi pwysau ar ymarferwyr a pherfformiad. Ymatebodd yr Awdurdod Lleol yn gyflym ac yn ystod 2014/15 buddsoddodd £476k ychwanegol yn ei gyllideb Gwasanaethau Plant er mwyn cwrdd â chostau plant mewn gofal. Mae £500k ychwanegol wedi'i ymrwymo ar gyfer 2016/17.

### 3. Rheoli Perfformiad yn erbyn disgwyliadau 2015/16

Rydym wedi datblygu diwylliant cryf o reoli perfformiad lle mae gan "bawb ei ran i'w chwarae". Credaf bod ein hagwedd at reoli perfformiad yn un o'n cryfderau. Er gwaethaf y cynnydd amlwg mewn galw yn ystod y flwyddyn, bu i ni ganolbwyntio'n agos ar ddeall y galwadau a'r perfformiad i gefnogi penderfyniadau rheoli, gosod blaenoriaethau a sicrhau adnoddau ychwanegol. Rwyf yn hyderus y bydd hyn yn cynnal ein dull gweithredu yn ystod 2016/17 wrth i ni gyflawni ein gwelliannau perfformiad sydd wedi'u hadnabod

Mae'r **Gwasanaeth Maeth** yn perfformio'n dda. Mae'r tîm wedi bod yn sefydlog ac wedi gallu recriwtio a chadw ymarferwyr profiadol. Daeth Adroddiad Arolygu Arolygiaeth Gwasanaethau Gofal a Chymdeithasol Cymru ar Wasanaeth Maethu (Dyddiad Cyhoeddi 15 Ebrill 2016: Dyddiad Arolygu Ionawr 2016) i'r casgliad fod:

- ✓ Gwaith y rheolwyr o oruchwylio a monitro'r gwasanaeth yn gynhwysfawr.
- ✓ Y gwasanaeth yn ceisio adborth a chyfranogiad ac yn gweld gwerth ynddynt.
- ✓ Gofalwyr maeth wedi gweld gwerth yn y gefnogaeth a gawsant.

- ✓ Morâl staff yn y tîm lleoli plant yn dda.
- ✓ Y gwasanaeth wedi cynyddu nifer ei ofalwyr maeth.

Daeth y Rheolydd i'r casgliad y gallai plant a leolir gyda gofalwyr Maeth Ynys Môn fod yn hyderus fod y gwasanaeth maethu'n eu rhoi wrth galon eu gwaith a bod y gwasanaeth yn eirioli ar eu rhan mewn perthynas â'u hanghenion unigol. Nodwyd ganddynt fod gan blant gyfleoedd i ddatblygu teimladau o hunan-barch trwy gael gofal cynnes a chyson gan ofalwyr maeth. Gallwn dystio i ganlyniadau cadarnhaol i'r plant yn ystod eu cyfnod mewn gofal maeth, ychydig o drefniadau cyswllt cadarnhaol yn cael eu sefydlu gyda theulu neu ffrindiau, plant yn symud ymlaen i leoliadau tymor hwy neu'n dychwelyd i ofal eu teulu.

Gwasanaeth integredig rhwng yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd yw **Gwasanaethau Arbenigol Plant (GAP)** sy'n darparu gwasanaethau i blant anabl a'u teuluoedd pan fo gan y plant anghenion cymhleth. Mae'r tîm wedi bod yn sefydlog ac wedi gallu recriwtio a chadw ymarferwyr profiadol. Mae'r gwasanaeth yn perfformio'n dda yn erbyn disgwyliadau. Yn ystod y flwyddyn mae wedi llwyddo i wneud penderfyniadau achos mewn pedair awr ar hugain, cynnal adolygiadau Plant mewn Gofal ac Ymweld â Phlant mewn gofal o fewn amser, a hynny i gyd mewn 100% o achosion. Roedd eu perfformiad o weld plant a gweld plant ar eu pennau eu hunain hefyd yn rhagorol ar 94% a 88%.  Bu iddynt gwblhau 76% o'u hasesiadau cychwynnol o fewn saith niwrnod, a'r gweddill ar gyfartaledd o ddeuddeg diwrnod. Bu iddynt gwblhau 62% o'u hasesiadau craidd o fewn 35 diwrnod, gyda'r tri asesiad oedd yn weddill yn cymryd 41 diwrnod yr un ar gyfartaledd. Mae natur yr asesiadau hyn o'r fath ei bod yn angenrheidiol cael mewnbwn asiantaethau eraill ac, ar brydiau, gallai hyn gael effaith ar yr amser y mae'n ei gymryd i gwblhau'r asesiadau.

Mae Partneriaeth Y Bont bellach wedi'i phriflifio. Rhoes hyn gynllun amlasiantaethol yng Nghanolfan Addysg y Bont i roi gwybodaeth, Cyngor a Chymorth i blant a'u teuluoedd oedd yn nesáu at y cyfnod pontio. Profodd yr arbrawf i fod yn effeithiol ac effeithlon wrth gefnogi nifer fawr o ddisgyblion a'u teuluoedd trwy'r broses Pontio. Bydd y cynllun yn "Arweiniad Ymarfer Da" i ysgolion eraill ac wrth ddefnyddio technoleg bydd modd ystyried sut mae modd i'r plant hynny a'u teuluoedd sy'n nesáu at y cyfnod pontio ac sy'n mynd i ysgolion prif-lif gael mynediad ato. Yn ystod ein sesiwn herio gyda phartneriaid, roedd hwn yn faes ymarfer y nodwyd ei fod yn llwyddiannus ac a werthfawrogwyd gan ein partneriaid.

Mae'r **Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd (GICD)** yn gweithio gyda theuluoedd sy'n dymuno gwneud newidiadau o fewn eu teulu lle mai camddefnyddio alcohol neu sylweddau yw'r prif ffactor risg, a hynny er mwyn cadw eu plant yn ddiogel.  Sefydlwyd y gwasanaeth ddwy flynedd yn ôl. Ers hynny, mae'r gwasanaeth wedi sefydlu ei hun yn llwyddiannus fel rhan o'r gwasanaethau plant a gynigir gan Gynghorau Môn a Gwynedd. Maent yn cael canlyniadau cadarnhaol, yn helpu teuluoedd i wneud newidiadau cynaliadwy yn eu bywydau sydd wedi cadw eu plant yn ddiogel. Dywed teuluoedd eu bod yn gweld yr ymyrraeth yn ddefnyddiol ac yn ymrymusol.

"Rwyf wedi bod yn wirioneddol hapus gyda lefel y gefnogaeth a roddwyd I mi gan y gweithiwr GICD. Mae hi wedi fy nghefnogi i wneud newidiadau fel bod modd i mi gael fy merch yn ôl yn fy ngofal. Mae angen mwy o weithwyr fel hyn arnom ni"

"Mae'r gweithiwr GICD wedi fy helpu i sylweddoli bod gennyf gryfderau. Roeddwn yn hoffi defnyddio'r cardiau cryfderau, y cylch o gardiau newid a'r cardyn argyfwng. Rwy'n meddwl fod GICD yn gwneud gwaith gwych. Mae ganddynt yr amser a'r amynedd a'r hyder ynof , sef yr hyn y mae ei angen ar bobl i newid"

Yn y Gwasanaethau Plant, mae llais a phrofiad plant a phobl ifanc yn ganolog i'r hyn yr ydym yn ei wneud. Bu i ni benodi Swyddog Cyfranogi a Chynhadledd Grŵp Teulu yng Ngorffennaf 2015 a bellach mae'r Gwasanaeth Cynhadledd Grŵp Teulu wedi'i sefydlu. Rwyf yn falch o'r gwelliannau yr ydym wedi'u cyflawni yn y maes hwn sy'n ei gwneud yn bosib i ni roi gofyn allweddol yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar waith - sicrhau ein bod yn lleoli'r plant a'u teuluoedd a'u gofalwyr wrth galon yr hyn yr ydym yn ei wneud a'n bod yn dysgu, datblygu a newid ein harfer yn seiliedig ar eu profiadau nhw. Mae'r swyddog hefyd wedi datblygu'r Strategaeth Cyfranogi Defnyddiwr y Gwasanaeth i gefnogi ffordd ragweithiol a chreadigol o ddatblygu ein gweithgarwch o ran cymryd rhan ac ymgynghori, gyda'r nod o roi i blant y cyfle i fynegi eu barn am y gofal y maent yn ei dderbyn.

**Uchafbwynt personol i mi oedd y Seremoni Gwobrau SÊR lwyddiannus i blant mewn gofal a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn a gydnabu ac a dathlodd lwyddiannau'r plant sydd mewn gofal ym Môn. Mae nifer ohonynt wedi cael llaw galed ond dathlodd y gwobrau ei bod yn bosib cyflawni gyda dewrder, penderfyniad a chefnogaeth. Bu i'r gwobrau ddangos balchder yr awdurdod fel Rhiant Corfforaethol, hwyluso teimlad yr oedd plant mewn gofal a gofalwyr yn ei gael o gael eu gwerthfawrogi, rhoi hwb i hunan-barch pobl ifanc a bydd, gyda gobaith, yn eu symbylu i barhau i gyflawni a datblygu yn y dyfodol. Rydym yn ddiolchgar i Sally Holland, y Comisiynydd Plant am gefnogi'r digwyddiad hwn.**

Am y bumed flwyddyn yn olynol cafodd **Gwasanaeth Cyfiawnder Gwynedd a Môn** ganlyniadau cadarnhaol yn y chwe maes Perfformiad Allweddol ar gyfer Cyfiawnder yr Ifainc yng Nghymru. Mae cyfraddau a nifer y rhai sy'n dod i mewn i'r system cyfiawnder am y tro cyntaf yn parhau i ddisgyn. Mae'r defnydd a wneir o'r ddalfa ar ei isaf er 2005 (gan adlewyrchu tuedd genedlaethol). Er bod cyfraddau aildroseddu wedi parhau'n uchel heb symud dim dros y blynyddoedd diwethaf, roedd y Tîm Rheoli a'r Bwrdd yn falch o weld fod cyfraddau ac amlder fymryn yn is o gymharu â gweddill Gogledd Cymru.

Mae'r gwasanaeth hefyd yn mesur effaith y gwasanaeth ar lesiant pobl ifanc ac mae'r prif ddangosyddion llesiant yn parhau i ddangos perfformiad da ac adlewyrchu cefnogaeth wych y

gwasanaethau sy'n bartneriaid i ni, a hynny yn yr awdurdodau lleol ac yn bartneriaeth ehangach. Mae'r Paneli Ailsefydlu ac Ymgynghorol a sefydlwyd yn ddiweddar wedi cynyddu a gwella'r berthynas gyda'r Gwasanaethau Digartrefedd a darparwyr tai'r Trydydd Sector. Bydd y gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau addysg a'r gwasanaethau ieuenctid yn 2016-17 i geisio ffyrdd o ddarparu ymateb mwy cyson i sicrhau y caiff cyraeddiadau pobl ifanc eu hyrwyddo trwy eu cynnwys a'u dwyn i mewn i hyfforddiant ac addysg. Mae'r broses fiwro o fewn y gwasanaeth atal yn parhau i weld gostyngiad cyson yn nifer y bobl ifanc sy'n dod i mewn i'r system cyfiawnder troseddol am y tro cyntaf. Mae gwaith yn mynd rhagddo rhwng Gwasanaeth Cyfiawnder yr Ifanc a'r Gwasanaethau Plant yng Ngwynedd a Môn er mwyn adolygu protocolau ymarfer i sicrhau bod modd rheoli'n effeithiol ddyletswyddau newydd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn benodol felly mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sydd yn y ddalfa, a hynny lle caiff safonau eu bodloni a dyblygu ei osgoi.

Mae **gwaith maes statudol yn y Gwasanaethau Plant** yn faes annatod o risg ac mae'n golygu llwyth gwaith cymhleth. Yn y blynyddoedd diwethaf, dangosodd y gwasanaeth gwaith maes welliannau parhaus mewn perfformiad: ac mewn nifer o feysydd bu i ni allu cynnal a chryfhau ein perfformiad sydd, yng nghyd-destun mwy o alwadau, yn dyst i ymrwymiad a gwaith caled ymarferwyr:

- ✓ Gwnaed penderfyniad o fewn un diwrnod gwaith mewn 100% o'n cyfeiriadau.
- ✓ Gwelwyd 96.08% o blant fel rhan o'r asesiad cychwynnol, o gymharu â 95.89% yn 2014/15: gyda'r plant a welwyd ar eu pennau eu hunain fel rhan o'r asesiad cychwynnol hefyd yn gwella – 74.07% yn 2015/16 o gymharu â 63.93% yn y flwyddyn flaenorol.
- ✓ Cynyddodd nifer y plant oedd â chynllun sefydlogrwydd yn eu hail adolygiad i 87.18%.
- ✓ Perfformiad gwell mewn perthynas â nifer o ddangosyddion o lesiant i blant mewn gofal - gyda gostyngiad yng nghanran y plant a newidiodd ysgol oherwydd eu bod yn mynd i ofal a dangosodd presenoldeb plant mewn gofal yn yr ysgol gynradd ac yn yr ysgol uwchradd welliant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- ✓ Roedd gan 100% o bobl ifanc berthnasol fynediad i wasanaeth yr Ymgynghorydd Personol, ac roedd yr holl bobl hynny mewn llety oedd yn addas i'w hanghenion.
- ✓ Arhosodd y perfformiad o ran cwrdd ag anghenion iechyd plant a phobl ifanc mewn gofal yn sefydlog hefyd.
- ✓ Rhoddwyd i bob gofalwr ifanc a nodwyd gefnogaeth addas i gwrdd â'i anghenion.

Roedd rhai meysydd lle na wnaethom gyrraedd ein hamcanion gwella. Er nad ydym yn tynnu oddi ar y ffaith bod angen datblygu i adfer tir yn y meysydd hyn, dylid ystyried perfformiad y llynedd yng nghyd-destun galwad uwch a heriau i'r gweithlu. Ni wnaethom wella ein perfformiad mewn perthynas ag amseroldeb cwblhau asesiadau cychwynnol a chraidd. 73.38% oedd canran yr asesiadau craidd gofynnol a gwblhawyd o fewn 35 diwrnod gwaith am eleni o gymharu â 77.88% yn y flwyddyn flaenorol. Yn ystod yr un cyfnod, cynyddodd nifer yr asesiadau craidd a gwblhawyd 23%. Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rydym wedi gwella'n barhaus ein perfformiad o gwblhau asesiadau cychwynnol o fewn saith niwrnod. Er y bu i ni fethu cynnal a chryfhau'r gwelliant hwn yn 2015/16 parhaodd ein perfformiad uwchlaw cyfartaledd Cymru 76% (2014/15). Er na fydd hwn yn



faes a gaiff ei fesur yn benodol y flwyddyn nesaf, oherwydd newidiadau yn y Fframwaith Asesu dan y Ddeddf newydd, byddwn yn parhau i ganolbwyntio'n agos ar amseroldeb asesu o fewn y gwasanaeth.

Rhoes y cynnydd yn nifer y plant mewn gofal a nifer y plant dan gynllun amddiffyn plant bwysau sylweddol ar yr Uned Diogelu ac Ansawdd sy'n darparu'r Gwasanaeth Cadeirio Annibynnol. Caiff hyn ei briodoli i amseroldeb cynnal Cynadleddau Amddiffyn Plant ac adolygiadau Plant mewn Gofal. Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf rydym wedi gwella'n barhaus ein perfformiad o ran cynnal Cynadleddau Amddiffyn Plant cychwynnol o fewn amser. Bu i ni fethu cynnal a chryfhau'r gwelliant hwn yn 2015/16. Mae'r Awdurdod Lleol wedi cynyddu capasiti'r Uned ac rwy'n hyderus y bydd hyn yn cynnal capasiti i gynnal y cyfarfodydd hyn yn amserol ac i sicrhau fod cynlluniau cadarn yn eu lle ar gyfer Plant mewn Gofal a/neu Blant sydd dan Gynlluniau Amddiffyn Plant. Rhoes y cynnydd hefyd bwysau ar ddeiliaid yr achos o ran cydymffurfio â'r gwaith o ymweld â phlant yn rheolaidd. Eleni, disgynnodd canran yr ymweliadau â phlant oedd mewn gofal ac a gwblhawyd o fewn amser i 82.79% o 93.53% yn 2014/15. Mae'r Awdurdod Lleol wedi cynyddu ei gapasiti gwaith cymdeithasol ac rwyf yn hyderus y bydd hyn yn sicrhau y byddwn yn adfer tir yn y meysydd hyn.

Rwyf yn hyderus ein bod mewn lle da i gyflawni ein huchelgeisiau gwella, a hynny'n seiliedig ar y gallu yr ydym wedi'i dystio i ymateb i'r hyn y bu'n hanfodol ei wella yn y gorffennol ac ar y buddsoddi ychwanegol a roddwyd.

## 4. Cyflawni yn erbyn yr Agweddau y mae'n Hanfodol eu Gwella

### 4.1 Gweithlu

Mae staff yn parhau i fod ein hadnodd pwysicaf a mwyaf gwerthfawr. I gydnabod hyn, un o flaenoriaethau'r Awdurdod Lleol oedd cwblhau ei broses Statws Sengl, a gwnaeth hynny yn ystod 2015/16. Yn sgil hynny, rydym wedi gweld y cynnig i'n Gweithlu Gofal Cymdeithasol yn gwella, ar draws y bwrdd, ac mae hyn yn rhoi'r Awdurdod Lleol mewn sefyllfa ffafriol o ran recriwtio.

Dros y blynyddoedd diwethaf bu i ni fuddsoddi yn natblygiad ein gweithlu ac am nifer o flynyddoedd gwelsom weithlu sefydlog ar draws y gwasanaeth ac un sydd wrthi'n datblygu. Cafodd ein Cynllun Datblygu'r Gweithlu ei gydnabod gan y Cyngor Gofal yn Acoladau Gofal Cymdeithasol 2015, lle daethom yn ail yn y categori Gweithlu Cynaliadwy sy'n Datblygu. Fodd bynnag, yn ystod 2015, gwelsom gynnydd mewn trosiant staff, yn enwedig felly weithwyr cymdeithasol yn y gwasanaeth gwaith maes. Rydym yn ymwybodol mai mater cenedlaethol yw hwn, nad yw'n benodol i Fôn, gyda gweithwyr cymdeithasol gwaith maes yn penderfynu, ar ôl dwy neu dair blynedd, p'run ai aros yn y maes gwaith hwn ac arbenigo ynddo ynteu symud i faes arall ac arbenigo yn hwnnw. Caiff y patrwm hwn ei gryfhau gan brofiadau meysydd gwasanaeth eraill sy'n sefydlog ac wedi gweld ymarferwyr mewn swydd - y



Gwasanaeth Maethu, ein gweithwyr Mabwysiadu a'r Gwasanaeth Arbenigol Plant. Mae'r Awdurdod Lleol wedi sicrhau fod nifer o rannau o Strategaeth Gweithlu yn eu lle ac rydym, bellach, yn gweithio i dynnu'r rhain ynghyd ac, wedi'u hatodi gan elfennau eraill, byddant yn Strategaeth Gweithlu integredig fydd yn datblygu'n strategol er mwyn adnabod gweithlu ac yn paratoi ar ei gyfer a'i sicrhau, a hwnnw'n weithlu fydd yn cwrdd ag anghenion y dyfodol. Unwaith y bydd wedi'i chwblhau, caiff y Strategaeth ei mabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor gyda'r Cynghorwyr yn monitro'i weithrediad fel bod modd eu bodloni ynghylch effeithlonrwydd y dull gweithredu o ran recriwtio a chynnal staff.

Gan gydnabod bod cydberthynas rhwng galwadau gwaith, llesiant staff, trosiant a morâl, ymatebodd yr Awdurdod Lleol trwy fuddsoddi mewn cynyddu capasiti gwaith cymdeithasol yn y gwasanaeth gwaith maes a sefydlu tair swydd newydd, a hynny er mwyn ymateb i'r galwadau cynyddol a sicrhau y caiff llwythi gwaith eu rheoli fel bod modd i weithwyr dreulio mwy o amser gwerthfawr gyda theuluoedd sy'n gweithio i wneud newidiadau fel bod y teulu'n lle diogel i'w plant. Y sefyllfa orau fyddai medru recriwtio staff cymwys a phrofiadol. Y realiti yw ei fod yn anos denu ymgeiswyr sydd â'r profiadau cywir. Yn y tymor byr, byddwn yn parhau â staff asiantaeth, tra caiff penodiadau parhaol a sylweddol eu gwneud, a darparu cymysgedd o sgiliau yn ein timau sy'n cyfuno profiad ymarferol â brwdfrydedd a chreadigrwydd gweithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso. Dros y deuddeng mis nesaf, ein nod yw penodi i'r swyddi newydd a gostwng nifer y gweithwyr cymdeithasol asiantaeth. Mae hon yn strategaeth y mae'r gwasanaeth wedi'i defnyddio'n llwyddiannus yn y gorffennol, fel gweithred adeiladol a chynlluniedig dros dro, er mwyn cynnal ein dull o ddatblygu capasiti, gwytnwch a thyfu ein gweithlu ein hunain.

Law yn llaw â hyn bu buddsoddi sylweddol mewn datblygu capasiti, profiad, gwybodaeth a sgiliau'r gweithlu i gwrdd â'r disgwyliadau cenedlaethol a lleol a roddir ar yr Awdurdod Lleol a chyflawni gwasanaeth o ansawdd uchel sy'n gwella canlyniadau i blant a theuluoedd ym Môn. Roedd hyn yn cynnwys cyfleoedd i staff ddilyn gweithgareddau datblygu proffesiynol er mwyn datblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau. Mae sesiynau Dysgu Ymarfer Rheolaidd a chynadleddau Staff wedi'u cyflwyno a chânt eu cynnal yn ystod 2016/17. Bydd hyn yn sicrhau y bydd ein staff yn cymryd rhan mewn agweddau hanfodol o'r Gwasanaeth y mae'n rhaid eu gwella, ac yn eu perchenogi.



Mae ystod o hyfforddiant wedi'i gynnal gan staff yn ystod y flwyddyn a byddir yn parhau â hyn fel rhan o'n dull gweithredu i wella'r gwasanaeth, a hynny trwy ddatblygiad personol a phroffesiynol. Mae hyn wedi cynnwys datblygu sgiliau a hyder y **Gweithlu o fewn Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus a Chynnal Asesiadau o fewn Cyd-destun Cyn-geni** (gwell defnydd o declynnau risg a rheoli). Yn 2015/16, canolbwyntiodd cynllun hyfforddi'r Gwasanaethau Plant ar gynyddu gwybodaeth a sgiliau'r gweithlu mewn meysydd megis esgeulustra, effaith iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau ar allu i riantu a gallu rhiant i newid. Yn unol â'r Ddeddf newydd, cynhaliwyd gweithdy cyd-gynhyrchu i reolwyr a gweithwyr cymdeithasol i ddechrau edrych i mewn i sut y gallant weithio mewn partneriaeth gyda theuluoedd. Cafwyd hyfforddiant i ddatblygu hyder

ac arbenigedd proffesiynol i ysgrifennu llythyrau at blant iddynt eu darllen yn hwyrach yn eu bywyd a gwneud gwaith sy'n eu cynorthwyo gyda hanes eu bywyd. At hyn, aeth gweithwyr i sesiwn i edrych i mewn i arwyddocâd perthynas brodyr a chwiorydd, meysydd allweddol o asesu perthynas brodyr a chwiorydd a materion sy'n ymwneud â chyswllt. Adlewyrchwyd pwysigrwydd y mater hwn yn sesiwn '**Byd Plentyn'** oedd yn cynnwys myfyriadau defnyddiwr gwasanaeth a gafodd effaith ar ei daith trwy ofal.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 oedd y flaenoriaeth o ran datblygu'r gweithle a chefnogi'r gweithle cyn gweithredu'r Ddeddf. Canolbwyntiodd rhan gyntaf yr hyfforddiant ar ymwybyddiaeth a deall yr egwyddorion oedd yn cynnal y Ddeddf. Ategwyd y sesiynau hyfforddi a'r gweithdai trwy fodiwl e-ddysgu'r Cyngor Gofal. Cyflwyno'r modiwlau craidd mwy arbenigol, sef: **Cyflwyniad a Swyddogaethau Cyffredinol, Asesu a Chwrdd ag Anghenion Unigolion, Plant mewn Gofal ac mewn Llety a Diogelu** oedd yr ail ran. Mae'r gwaith hwn yn parhau i mewn i 2016-17 gyda rhagor o sesiynau arbenigol i'w trefnu. Crëwyd yr adnodd hyfforddi '**Beth mae'r Ddeddf yn ei Olygu i Mi?'** ar gyfer y Gweithlu Gofal Uniongyrchol a gefnogwyd gan sesiwn a hwyluswyd ar gyfer rheolwyr. Hyb gwybodaeth a dysgu'r Cyngor Gofal yw'r siop un stop o hyd ar gyfer yr holl adnoddau ar y Ddeddf. At hyn, crëwyd banc gwybodaeth ar yriant a rennir y Cyngor er mwyn casglu unrhyw adnoddau penodol i Fôn, gan gynnwys cyflwyniadau, ymatebion i ymgynghoriadau a'r newyddion diweddaraf.

Mae arnom eisiau i'r gwasanaeth fod yn lle da i weithio a datblygu'n broffesiynol; a gwelir hyn yn glir yn y cynnydd a wnaed gan staff ar draws y gwasanaeth wrth iddynt gael eu dyfarniadau ôl-gymhwyso. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae modd dathlu llwyddiannau isod y staff:

- Llwyddodd dau aelod o staff i gwblhau'r Rhaglen Gyfuno
- Llwyddodd tri aelod o staff i gwblhau'r modiwl Rhaglen Ymarferwr Profiadol
- Mae dau uwch-ymarferwr wedi bod yn gweithio tuag at gwblhau'r Rhaglen Uwch-ymarferwr
- Ar hyn o bryd mae dau aelod o staff yn gweithio tuag at y Dyfarniad Ymarfer Dysgu
- Mae tri wedi cwblhau'r modiwl Cyn-Swyddog Proffesiynol Cydnabyddedig mewn Iechyd Meddwl ym Mhrifysgol Caer
- Cwblhaodd dau reolwr y Rhaglen Datblygu Rheolwyr Tîm
- Cynigiodd y gwasanaeth pum lleoliad i Fyfyrwyr Gradd M.A. Gwasanaethau Cymdeithasol i annog gwaith datblygu swyddogion proffesiynol newydd a thalentog.
- Llwyddodd un aelod o staff i gael y swydd Hyfforddai Gweithiwr Cymdeithasol ac mae bellach yn gweithio tuag at Radd Meistr mewn Gwaith Cymdeithasol.

### 4.2 Ansawdd ac Atebolrwydd

Mae gan y gwasanaeth Fframwaith Perfformiad a Sicrhau Ansawdd yn ei le ac mae wedi bod yn gwreiddio hwn i mewn i ymarfer. At hyn, mae Fframwaith Rheoli Perfformiad a Sicrhau Ansawdd wedi'i sefydlu ar gyfer y Gwasanaeth Maethu. O arolygu ein Gwasanaeth Maethu (Ionawr 2016), canfu'r AGGCC fod ansawdd yr adroddiad ar adolygu gofal yn drylwyr ac yn cynnwys dadansoddiad manwl o'r gwasanaeth maethu. Mae'r ddau fframwaith yn hanfodol yn ein dull o weithredu i sicrhau arfer dda a gwneud penderfyniadau diogel ar lefel weithredol. Fel Pennaeth

Gwasanaeth, cadeiriaf Banel Sicrhau Ansawdd y gwasanaeth, sy'n golygu bod gennyf y cyfle i weld drosof fy hun, a thrafod yn uniongyrchol gyda'm rheolwyr, ansawdd yr arfer a'r penderfyniadau a wneir. Rydym wedi datblygu nifer o ffyrdd yr ydym yn gweithio gyda'n hymarferwyr a'n rheolwyr i wreiddio arfer dda. Mae'r negeseuon allweddol o weithgarwch sicrhau ansawdd wedi'u rhannu gyda staff trwy sesiynau goruchwylio unigol, Cynadleddau Staff Gwasanaethau Plant a digwyddiadau dysgu rheolaidd. Fel gwasanaeth, mae gennym ddealltwriaeth dda o'r cryfderau yn ein busnes, a'r meysydd hynny y mae angen i ni ddatblygu ynddynt. Dengys ein cynlluniau sicrhau ansawdd ni ein hunain a rhai y bu i ni eu comisiynu'n allanol y gallwn adrodd ar arfer dda nodedig.

Y llynedd bu i ni benderfynu ar nifer o feysydd allweddol o welliant:

- Gwella ansawdd gyffredinol asesiadau a defnyddio cronolegau fel teclyn allweddol yn y broses asesu.

- Datblygu ein dull o weithredu asesiadau dan Ddeddf Gwasnaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

- Cynyddu sgiliau a chapasiti staff sydd wedi'u hyfforddi i gynnal Asesiadau Rhiantu penodol, o'r enw asesiadau PAMS.

- Gwella'r maes o weithio gyda darpar rieni i asesu a chefnogi eu gallu i ofalu am eu babanod newydd-anedig, lle roeddem ni neu asiantaethau eraill yn gwybod am bryderon. Bu i ni gyflogi Bruce Thornton, Ymgynghorydd a Hyfforddwr amlwg a chydawdur y Model Risg Gwynedd/Thornton, i weithio gyda ni fel ein bod yn gweithredu'n seiliedig ar dystiolaeth.

Mae cyflwyno Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus wedi golygu pwysau sylweddol yng nghyd-destun cynnydd yn nifer y ceisiadau, Yn ystod y flwyddyn daethom yn ymwybodol bod hwn yn faes o ymarfer a gwneud penderfyniadau yr oedd yn rhaid ei wella. Buddsoddodd yr Awdurdod Lleol mewn cefnogi ymarferwyr wrth iddynt ddatblygu fel arbenigwyr yn ymdrin ag achosion yn y llys. Mae gweithdrefnau a phrosesau wedi'u hadolygu i sicrhau y cydymffurfir â disgwyliadau'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus ac amserlenni trwy reoli achosion yn effeithiol.

Er mwyn bod yn barod ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, rydym wedi adolygu gweithdrefnau'r gwasanaeth a chânt eu lansio ym Mai 2016. Maent yn darparu safonau a gofynion ymarfer clir. Bydd staff yn cael eu cefnogi i weithredu'r rhain ac, ynghyd â hyn, byddant wedi bod am hyfforddiant craidd ar Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Bydd hyn yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn deall yr hyn a ddisgwylir ohonynt a'r safonau ymarfer sy'n ofynnol.

Elfen bwysig o sicrhau ansawdd yw profiad plant a phobl ifanc, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Fel mewn unrhyw fudiad, ceir adegau lle mae defnyddwyr gwasanaeth yn anhapus gyda'r gwasanaeth y maent yn eu derbyn gennym ac adegau pan fo pobl yn meddwl ein bod wedi gwneud mwy o ran y gwasanaeth yr ydym wedi'i gyflawni. Rwyf yn falch y cynyddodd nifer yr

achosion o ganmoliaeth a ddaeth i law'r gwasanaeth yn 2015/16 ers y flwyddyn flaenorol a bod y rhan fwyaf o'r rhain gan ddefnyddwyr y gwasanaeth.

*"Diolch yn fawr iawn i chi am bopeth yn ystod y cwrs. Mae'r Blynyddoedd Rhyfeddol wedi newid fy mywyd i a bywydau'r plant er gwell." –* ***Tîm Gwaith Cefnogi Plant***

*"Mae o wastad wedi rhoi buddiannau'r plant yn gyntaf ac wedi bod yn onest ynghylch problemau. Mae'n gredyd i'ch proffesiwn." –* ***Tîm Ymyraethau Teuluol***

*"Beth bynnag yr ydych yn siarad amdano [gyda'r plentyn] mae'n cael effaith hudol ac rydym yn wirioneddol werthfawrogi'ch cymorth a'ch cyngor." –* ***Tîm Plant mewn Gofal***

*"Pleser a braint cael gweithio gyda chi, rydym wedi gwerthfawrogi'ch holl gymorth a chyngor cymaint." –* **Tîm Lleoli Plant**

*"Maent yn wirioneddol gweithio mewn partneriaeth gyda'r lleoliadau er lles y bobl ifanc y maent yn eu cefnogi ac, felly, yn cael gwell canlyniadau" –* ***Tîm Ymyraethau Teuluol / Tîm Plant mewn Gofal***

Rydym yn monitro cwynion er mwyn canfod unrhyw themâu a thueddiadau a ddaw i'r wyneb fel bod modd gwneud gwelliannau. Eleni, cynyddodd nifer y cwynion a gafodd eu datrys yn fuan o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol; o 20 i 29, a gallai hyn fod yn rhannol oherwydd ymdrechion i sicrhau fod defnyddwyr y gwasanaeth a'u teuluoedd yn ymwybodol o'u hawl i wneud cwyn dan y drefn. Roedd nifer y cwynion a drosglwyddwyd i ymchwiliad annibynnol ffurfiol yr isaf yr oedd wedi bod ers chwe blynedd, sy'n awgrymu fod ymdrechion gan reolwyr i ddatrys cwynion yn fuan yn gynyddol lwyddiannus.

Rydym wedi nodi ein cynlluniau i wella ansawdd yr ymarfer. Mae hyn yn cynnwys ei gwneud yn bosib i staff ymarfer yn seiliedig ar fethodoleg gwaith cymdeithasol a nodwyd a fydd yn arwain gwaith ymarfer, rheoli a dylunio sefydliadol. Byddwn yn ychwanegu at y cynnydd a wnaed o ran gwreiddio'r Teclyn Risg Gwynedd/Thornton ac yn adolygu'r defnydd a wneir ohono yn y gwasanaeth ochr yn ochr ag "Arwyddion y Model Diogelu". Nod y model hwn yw cefnogi ymarferwyr i weithio ar y cyd ac mewn partneriaeth gyda phlant, teuluoedd a'u rhwydweithiau ehangach i sicrhau diogelwch a llesiant y plentyn. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r wybodaeth am gyfraith, deddfwriaeth, gweithdrefnau ac achosion perthnasol a sut i'w defnyddio'n ymarferol trwy ddarparu setiau dysgu, dan arweiniad bargyfreithwyr uchel eu parch a chefnogaeth Ymarferwr arweiniol ar Achosion Llys. Bydd rôl newydd yr Ymarferwr Arweiniol ar Achosion Llys yn tracio achosion yn yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus ac yn gweithio gydag ymarferwyr i sicrhau y caiff y gwaith ei gwblhau ar amser ac i safon. Byddant yn darparu rhaglen datblygu sgiliau yn y maes hwn hefyd, wedi'i deilwrio i ymarferwyr unigol ac i grwpiau o ymarferwyr. Byddant yn darparu adroddiadau perfformiad ac ansawdd rheolaidd i'r Tîm Rheoli Gwasanaeth a bod yn gyfrifol am sicrhau perthynas briodol gyda'r llysoedd, CAFCASS a'r Gwasanaeth Cyfreithiol.

## 4.3 Ystod y lleoliadau ar gyfer plant mewn gofal

Cytunwyd ar y Strategaeth Leoli yn ystod y flwyddyn. Mae'r strategaeth hon yn disgrifio ystod yr opsiynau lleoli a ddarperir ar gyfer ein Plant mewn Gofal ac yn canolbwyntio ar sut yr ydym yn gwella trefniadau cyfredol i wella bywydau'r plant yn ein gofal. Fodd bynnag, nid yw'r sgôr wedi'i chyfyngu i wneud lleoliadau o ansawdd dda'n unig, y bwriad yw dod ag ystod y gweithgarwch ynghyd ar draws y Gwasanaethau Plant ym mhob cyfnod o'r daith ofal, yn cynnwys ffocws clir ar gefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd, lle bynnag y mae'n ddiogel i wneud hynny, a lleihau i'r eithaf ar yr angen i blant fynd i ofal. Dull gweithredu 'system gyfan' o gefnogi Plant mewn Gofal a chadw teuluoedd gyda'i gilydd yw hon.

Yn ystod 15/16, datblygodd yr Awdurdod Lleol, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a thrwy weithio gyda gofalwyr a phobl ifanc, wasanaeth newydd o'r enw, "*Pan fydda i'n Barod"*, sy'n weithredol o Ebrill 2008 ymlaen. Mae hyn yn rhoi'r cyfle i Bobl Ifanc aros gyda'u gofalwyr maeth wedi iddynt droi'n 18 oed. Yr amcangyfrif yw y bydd costau ychwanegol o hyd at £133k dros y tair blynedd nesaf - costau y mae'r Awdurdod Lleol wedi'u hariannu.

Yn 2016/17, ein nod yw sefydlu Tîm Ymyl Gofal / Cefnogi Gwytnwch: ac mae cynnig am arian wedi'i gyflwyno i'r Tîm Uwch-arweinyddion.



Mae'r Awdurdod wedi gweld cynnydd yn nifer y plant mewn gofal ac mae hyn wedi bod yn heriol o ran ein gallu i gwrdd â'r galw hwnnw o fewn gofal maethu mewnol. Mae Strategaeth Recriwtio a Chadw'r Gofalwyr Maeth wedi bod yn fuddiol. Er nad ydym wedi gallu cyrraedd ein nod o ostwng y defnydd o leoliadau maeth sy'n cael eu caffael gan yr Asiantau Maethu Annibynnol, rydym wedi gallu cyfyngu'r cynnydd o gymharu â'n gwasanaeth mewnol ein hunain. Cynyddodd nifer y plant a leolwyd gyda'n gwasanaeth mewnol 58% y llynedd o gymharu â chynnydd o 13% yn y rhai hynny a leolwyd ag asiantaethau annibynnol. Cynyddodd nifer y plant oedd yng ngofal teulu estynedig fel gofalwyr maeth teuluol 13% yn ystod y flwyddyn.

Mae'r cynnydd sylweddol yn ein plant sydd mewn gofal wedi cael effaith fawr ar gapasiti'r gwasanaeth Maethu. Mae'r ffaith fod mwy o blant wedi'u lleoli gyda theulu estynedig a ffrindiau'r teulu ac amserlenni llysoedd wedi arwain at fwy o bwysau ar y gweithwyr cymdeithasol maethu i gwblhau asesiadau o fewn amser gynyddol anodd. Mae'r cynnydd mewn asesiadau maethu prif-lif, asesiadau ffrindiau a theuluoedd ac asesiad ymarferoldeb yn cael effaith ar y Strategaeth Recriwtio a Chadw. I hyn lwyddo, bu i ni nodi fod gofyn cael staff ychwanegol er mwyn sicrhau y

caiff asesiadau eu cwblhau'n amserol. O'r herwydd, rydym wedi cynyddu capasiti gwaith cymdeithasol yn y tîm hwn. Gan gydnabod y cryfder mewn cydweithredu, rydym wedi gweithio'n agos gyda'r Awdurdodau Lleol sy'n bartneriaid i ni ar Brosiect Maethu Rhanbarthol Gogledd Cymru, sydd â'r nod o ddatblygu gweithio ar y cyd rhwng gwasanaethau maethu awdurdodau lleol ar draws Gogledd Cymru.

### 4.4 Defnyddio'r wefan a datblygu gwybodaeth, cyngor a chymorth

Gall anghenion plant amrywio a newid, weithiau'n sydyn iawn ac maent yn gwneud hynny hefyd. O'r herwydd efallai y bydd rhaid ymateb yn wahanol gyda gwahanol lefelau o angen neu gymhlethdod yr angen a welir. Yn rhy aml o lawer, dywed teuluoedd wrthym fod y llwybrau rhwng asiantaethau sy'n cefnogi plant a theuluoedd yn parhau'n gymhleth ac yn anodd eu negodi i lawer. Yn aml iawn, mae ffiniau sefydliadol yn cael yn ffordd mynediad cyflym at gefnogaeth ac mae teuluoedd yn symud rhwng y gwahanol ''ddrysau mynediad". O'r herwydd, rwyf yn falch ein bod wedi gwneud cynnydd wrth ychwanegu at y trefnidau cyfredol ar gyfer darparu gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth ym Môn trwy sefydlu'r "HYB". Bydd y prosiect hwn, dan arweiniad y Rheolwr Trawsnewid (Gwasanaethau Plant), yn sicrhau y bydd yr Awdurdod Lleol yn gallu darparu:

- Pwynt cyswllt hawdd cael ato sy'n ymwneud â gofal a chefnogaeth ac a fydd ar gael trwy amrywiaeth o gyfryngau (y we, dros y ffôn, wyneb yn wyneb, allgymorth, rhwydweithiau cymdeithasol a chyhoeddiadau). Bydd y pwynt cyswllt hwn yn rhoi gwybodaeth am sut mae'r system gofal a chefnogi'n gweithredu, y mathau o ofal a chefnogaeth sydd ar gael gan gynnwys gwasanaethau ataliol, sut gall unigolion gael mynediad at wasanaethau o'r fath a sut gall dinasyddion godi pryderon amdanynt eu hunain neu eraill sy'n ymddangos bod ganddynt anghenion gofal a chefnogaeth. Bydd yn hyblyg ac yn ymatebol er mwyn ymdrin ag ymholiadau'n uniongyrchol gan y dinesydd yn ogystal ag ymholiadau/cyfeiriadau gan swyddogion proffesiynol.

- Gwasanaeth rhagweithiol sy'n cefnogi unigolion i gael mynediad at y gofal a'r gefnogaeth sy'n bwysig iddyn nhw. Cyflwyno opsiynau a chyfeirio dinasyddion tuag at ofal a chefnogaeth briodol, gan gynnwys cyngor ar ystod y gwasanaethau ataliol sydd ar gael yn y gymuned. Lle bo'n briodol, bydd y gwasanaeth yn mynd ati i gynorthwyo pobl trwy, er enghraifft, drefnu apwyntiadau neu gomisiynu gwasanaethau ar eu rhan.

- Cynhelir asesiad cymesur o anghenion gofal a chefnogaeth wrth gynnig cyngor a chymorth.

Mae'r HYB yn ymwneud â dod â gwasanaethau a gyflwynir ar hyn o bryd yn y Gwasanaethau Plant a'r Gwasanaeth Gydol Oes ynghyd. Mae diddordeb cychwynnol gan asiantaethau eraill i ymuno â HYB Môn ac rydym yn awyddus i ddatblygu'r berthynas hon. Mae hwn yn ddatblygiad cyffrous fydd yn gam cyntaf mewn dull gweithredu mwy cydgysylltiedig a gwell ar gyfer rhoi

mynediad at gefnogaeth cyn gynted â bo'n bosib, fel bo modd atal problemau rhag codi'n hwyrach ymlaen.

### 4.4 Capasiti a chyflawni ar gomisiynu

Mae'r Awdurdod Lleol wedi penodi nifer o rolau allweddol sydd wedi cynyddu ei gapasiti mewn cynllunio strategol a chontractau/caffael. Mae'r Rheolwr Trawsnewid yn arwain gweithgarwch cynllunio strategol o fewn y gwasanaeth ac mae'n gweithio gyda chydweithwyr yng nghyswllt yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth. Mae'r Gwasanaeth wedi neilltuo amser yn rhaglen waith y Rheolwr Contractau. Mae'r Awdurdod Lleol wedi penodi Swyddog Effaith Gofal Cymdeithasol (Wylfa 2) i ddeall y newidiadau sylweddol y gallai'r datblygiad mawr hwn eu cael ar y galw am Ofal Cymdeithasol, ac ar y gweithlu gofal cymdeithasol, a chynllunio ar eu cyfer.

## 5. Trefniadau'r Sefydliad

Gyda dyfodiad newidiadau sylweddol yn Nhîm Uwch-arweinyddiaeth yr Awdurdod Lleol bu cyfle i ddwyn i mewn uwch-swyddogion ac Aelodau i lunio dull gweithredu cryfach sy'n addas i anghenion yr Awdurdod. Mae ymweliadau Laming wedi'u hailsefydlu a'u cryfhau. Mae trefniadau sgriwtini effeithiol ar lefel Aelodau'n bwysig i sicrhau fod yr Awdurdod yn ymwybodol o berfformiad, cynnydd gyda diogelu gwelliannau, materion anodd a/neu sensitif ac o'r dull gweithredu i ymdrin â nhw.  Mae Panel Aelodau wedi'i sefydlu i oruchwylio a chefnogi cynnydd yr amcanion gwella a'u cyflawni. Mae'r gwasanaeth yn cael cefnogaeth dda'r Deilydd Portffolio. Mae'r gwasanaeth wedi sicrhau ei fod yn chwarae ei ran mewn nifer o flaenoriaethau corfforaethol allweddol - gan gynnwys gwreiddio gofynion Safonau'r Iaith (Mwy na Geiriau), Gwelliannau i Lywodraethiant Gwybodaeth, ail-lansio'r ddarpariaeth Gweithio'n Unigol a'r Siarter Gofal Cwsmer.

## 6. Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 - Continwwm llesiant i blant a'u teuluoedd

Dechreuais yr adroddiad hwn trwy ddiffinio rôl y Gwasanaethau Plant o fewn gwasanaethau i blant a'u teuluoedd. Mae hwn yn gyfnod o newid mawr, gyda dyfodiad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ein gyrru i gyfnod o welliannau a thrawsnewid hanfodol i'r gwasanaeth. Heb allu buddsoddi mewn ymyriaethau wedi'u hanelu at gefnogi gwytnwch ac annibyniaeth teuluoedd, mae yno risg i unigolion, teuluoedd a chymunedau gael eu heithrio fwy o fewn cymunedau bregus - yn enwedig felly ar adeg o gyni ariannol.

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod mwy nag erioed bod angen darparu model cydlynol o lesiant ar draws gwasanaethau i blant a'u teuluoedd. Ni ddylid bychanu pwysigrwydd atal ac ymyrraeth gynnar: ychwanegu at wasanaethau cyffredinol sy'n datblygu i gynnig cefnogaeth ychwanegol i'r rhai hynny y mae arnynt ei angen fwyaf.  Yr hyn y mae'n rhaid ei gael fwyfwy wrth galon ein hagwedd at wasanaethau cyhoeddus yw'r angen i fuddsoddi mewn dibyniaeth ar unigolion ac ar gymuned.  Rhaid i Fôn ffyniannus fod yn seiliedig ar unigolion annibynnol mewn teuluoedd cryf, o fewn cymunedau ffyniannus a bywiog. Mae'n rhaid mynd i'r afael â ffactorau sy'n cael effaith ar

wytnwch. Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i wella gwaith cydlynu amrywiol raglenni strategol sy'n ymwneud â strategaethau gwrthdlodi a chefnogi plant bregus a'u teuluoedd. Y nod yw sicrhau y defnyddir adnoddau prin yn gydlynol ac y cânt eu targedu tuag at y rhai hynny sydd mewn mwyaf o risg o weld eu teuluoedd yn torri i lawr ac o gael eu cam-drin.

## 7. Edrych i'r Dyfodol

Rydym yn deall y sylfeini yr ydym yn creu newidiadau arnynt: ac mae ein dull gweithredu'n cydbwyso newid â chyflymder priodol. Byddwn yn canolbwyntio'n agos ac yn syth ar gryfhau'r sylfeini a chyrraedd gwelliannau allweddol, wrth hefyd, ochr yn ochr â hyn, gysoni'r rhain gyda'n dyhead i newid y model gwaith cymdeithasol ym Môn.

Ochr yn ochr â datblygu sgiliau a gwybodaeth ein gweithlu, ein bwriad yw newid ein hymarfer a'n damcaniaeth gyfredol i gael dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar atebion, gan leihau i'r eithaf yr angen i gymryd rhan – dull gweithredu sy'n gweithio gyda theuluoedd mewn modd agored a gonest, gan ganolbwyntio ar newidiadau y mae eu hangen a rhoi i deuluoedd y cyfle gorau o aros gyda'i gilydd wrth gadw plant yn ddiogel. Mae angen i ni newid y ffordd yr ydym yn gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae hyn yn fwy nag ymateb i Ddeddf newydd. Wrth galon hyn mae ein bwriad i gyflawni dull gweithredu sy'n canolbwyntio llawer mwy ar gefnogi'r dasg Gwaith Cymdeithasol a chyflawni gwasanaeth gwell i blant a'u teuluoedd.

### Egwyddor Strategol Hanfodol 1: Adfer, yna Symud Ymlaen a Gwella Gwasanaethau Gwaith Maes

| 1.1 Ar ba ffurf fyddai hon? |
|---|
| Gweithlu hyderus a medrus gyda digon o gapasiti i roi gwasanaeth cyson ac effeithiol wrth gael cefnogaeth i ddatblygu eu medrusrwydd proffesiynol. |
| **Canlyniadau** |
| ✓ Creu Strategaeth Gweithlu sy'n cwrdd ag anghenion y gwasanaeth o ran cyflawni, safonau proffesiynol ac arweinyddiaeth.<br>✓ Galluogi gweithwyr i dreulio mwy o amser gwerthfawr gyda theuluoedd.<br>✓ Gwelliannau i'r gweithlu - recriwtio, cadw staff, morâl a hyder staff, gostyngiad yn lefel salwch staff a'i gwneud yn bosib recriwtio'r ymgeiswyr o'r safon orau. |
| **Beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer 2016/17?** |
| Datblygu sgiliau a gwybodaeth ein staff, recriwtio a chadw gweithlu ag iddo ddigon o sgiliau, profiad a gwybodaeth. Goruchwyliaeth reolaidd, o ansawdd uchel, proffesiynol a chefnogol sy'n cynnwys dadansoddi a herio achosion yn fanwl: mynediad i ddysgu parhaus. Mwy o weithlu i sicrhau bod modd rheoli'r llwythi gwaith. |

| 1.2 Ar ba ffurf fyddai hon? |
|---|
| Asesiadau amserol ac o ansawdd, ymyraethau a gwneud penderfyniadau er mwyn amddiffyn a chefnogi'r plant a rheoli'r risgiau ar eu cyfer. |
| **Canlyniadau** |
| ✓ Arfer dda a gwneud penderfyniadau diogel<br>✓ Cydymffurfio ag amseroedd yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus trwy reoli achosion yn |

effeithiol
- ✓ Defnydd gwell o declynnau risg a rheoli risg
- ✓ Osgoi achosion o oedi, gwyro a defnyddio adnoddau'n aneffeithiol
- ✓ Mae gan y staff y sgiliau, y wybodaeth a'r gweithdrefnau i wneud eu gwaith
- ✓ Swyddogion proffesiynol hyderus ac effeithiol yn cael cefnogaeth o fewn y fframwaith cyfreithiol
- ✓ % uwch o blant mewn gofal lle nad yw'n bosib eu dychwelyd i'w rhieni ac sydd â threfniadau sefydlogrwydd y tu allan i'r system plant.

**Beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer 2016/17?**

Gwreiddio'r defnydd a wneir o Fframwaith Risg Gwynedd/ Bruce Thornton ar draws y Gwasanaethau Plant ac adolygu'r defnydd a wneir ohono yn y gwasanaeth ochr yn ochr ag "Arwyddion y Model Diogelu"

Cefnogi rheolwyr rheng flaen fel bod penderfyniadau ymarfer yn cael eu sicrhau a'u gweld.

**1.3 Ar ba ffurf fyddai hon?**

Swyddogaeth sicrhau ansawdd sy'n cefnogi'r cyngor i reoli ei gyfrifoldebau tuag at ei blant yn effeithiol

**Canlyniadau**

- ✓ Gwelliant mewn ansawdd a pherfformiad yn erbyn Dangosyddion Perfformiad
- ✓ Safonau a gweithdrefnau clir ar gael i bawb
- ✓ Adroddiadau ansoddol rheolaidd ar gael i'r arweinydd tîm gan gynnwys aelodau

**Beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer 2016/17?**

Rhoi gweithdrefnau'r Gwasanaethau Plant ar waith gyda staff yn cael cefnogaeth i'w rhoi ar waith.

Sicrhau swyddogaeth sicrhau ansawdd systemataidd, yn arwain at welliant parhaus ac ymarfer diogel.

Ennill tir o ran meysydd perfformiad y tu allan i'n targedau.

## Egwyddor Strategol Hanfodol 2: Ailosod Gweledigaeth – Trosglwyddo a Newid

**2.1 Ar ba ffurf fyddai hon?**

Gweithwyr cymdeithasol yn gweithio'n rhagweithiol gyda theuluoedd i reoli risg - treulio llawer mwy o amser yn gweithio ochr yn ochr â theuluoedd yn eu helpu i newid fel bod y teulu'n lle diogel i'w plant.

**Canlyniadau**

- ✓ Caiff teuluoedd gefnogaeth i newid a chanfod strategaethau a'u defnyddio i ddod yn fwy effeithiol wrth reoli eu natur fregus a'u risg
- ✓ Mwy o blant yn aros gartref gyda'u teuluoedd
- ✓ Llai o blant angen cynllun amddiffyn plant amlasiantaethol
- ✓ Llai o blant yn cael eu rhoi mewn llety gan yr awdurdod lleol
- ✓ Llai o wariant ar gostau lleoli Plant mewn Gofal
- ✓ Gwelliannau i'r gweithlu - recriwtio, cadw staff, morâl a hyder staff, gostyngiad yn lefel salwch staff a'i gwneud yn bosib recriwtio'r ymgeiswyr o'r safon orau.
- ✓ Ymyraeth effeithiol o safon uwch â theuluoedd

**Beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer 2016/17?**

Adnabod y fethodoleg a fydd yn arwain ymarfer, rheolaeth effeithiol a dyluniad trefniadaethol.

Staff yn cael eu hyfforddi i gyflawni'r ymyraethau hyn.

Ailstrwythuro i gefnogi arweinyddiaeth broffesiynol i wasanaethau rheng flaen.

| 2.2 Ar ba ffurf fyddai hon? |
|---|
| I deuluoedd lle nad yw hyn yn bosib, byddir yn cymryd camau amserol i dynnu plant drwy brosesau llys a chael hyd i leoliad parhaol mewn teulu arall iddynt. |
| **Canlyniadau** |
| ✓ Cydymffurfio ag amserlenni Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus<br>✓ % uwch o blant mewn gofal lle nad yw'n bosib eu dychwelyd i'w rhieni ac sydd â threfniadau sefydlogrwydd y tu allan i'r system plant.<br>✓ Cynnydd mewn sefydlogrwydd lleoliadau<br>✓ Gwelliannau i'r gweithlu - recriwtio, cadw staff, morâl a hyder staff, gostyngiad yn lefel salwch staff a'i gwneud yn bosib recriwtio'r ymgeiswyr o'r safon orau. |
| **Beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer 2016/17?** |
| Parhau i ddatblygu'r wybodaeth am gyfraith, deddfwriaeth, gweithdrefnau a chyfraith achos perthnasol trwy ddarparu setiau dysgu, dan arweiniad bargyfreithwyr uchel eu parch a chyda chefnogaeth Ymarferwr Arweiniol yr Achos Llys.<br><br>Cynyddu capasiti gwaith cymdeithasol ar draws y gweithlu er mwyn ymateb i'r galw cynyddol sy'n gysylltiedig â'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus a'r achosion.<br><br>Cynyddu ystod y lleoliadau ar gyfer plant mewn gofal. |

| 2.3 Ar ba ffurf fyddai hon? |
|---|
| Gwella gwasanaethau gwella teuluoedd [yn ymarferol ac yn therapiwtig] ac, felly, yn creu cylch rhinweddol o wasanaethau gwell i blant a'u teuluoedd. Yn arbennig, felly byddir yn targedu buddsoddiad sydd â'r nod o gadw'r teulu gyda'i gilydd. |
| **Canlyniadau** |
| ✓ Mwy o blant yn aros gartref gyda'u teuluoedd<br>✓ Caiff eu teuluoedd eu cefnogi i newid a chanfod strategaethau a'u defnyddio i ddod yn fwy effeithiol i reoli eu natur fregus a'u risg<br>✓ Llai o blant angen cynllun amddiffyn plant amlasiantaethol<br>✓ Llai o blant yn cael eu rhoi mewn llety gan yr awdurdod lleol<br>✓ Llai o gostau ar Blant mewn Gofal<br>✓ Newid ym mhroffil ariannol y gwasanaeth yn cynyddu'r % ar ymyraethau cefnogol<br>✓ Ymyraethau effeithiol o ansawdd uwch gyda theuluoedd |
| **Beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer 2016/17?** |
| Sicrhau arian i sefydlu Gwasanaeth Cefnogi Teuluoedd sy'n gweithio o 7am i 10pm ac a fyddai'n cynnwys Arbenigwyr Ymyraethau Teuluol a Gweithwyr Cefnogi: sy'n ei gwneud yn bosib i ni ymateb trwy raglenni ymyraeth sydd wedi'u teilwrio o amgylch y teulu ond a fydd â'r nod clir o ostwng angen a hyrwyddo annibyniaeth a diogelwch |

| 2.4 Ar ba ffurf fyddai hon? |
|---|
| Ailstrwythuro ac ail-lunio systemau fel eu bod yn berthnasol, deallus, hyblyg ac yn ddefnyddiol i |

ymarferwyr.

**Canlyniadau**

- ✓ Llai o brosesau, gweithdrefnau a systemau. Lle maent yn bodoli, iddynt fod yn llai o fwrn a chefnogi ymarfer gwaith cymdeithasol yn hytrach na bod gweithwyr cymdeithasol yn teimlo eu bod yn cael eu caethiwo ganddynt.
- ✓ Bydd gweithwyr cymdeithasol yn gallu treulio llai o amser ar waith gweinyddol sy’n fwrn.
- ✓ Bydd gweithwyr cymdeithasol yn gallu gweithio lle mae angen iddynt wneud hynny.

**Beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer 2016/17?**

Croesawu’r cyfleoedd a roddir gan raglen Gweithio’n Gallach yr Awdurdod Lleol i sicrhau fod ymarferwyr yn gallu gweithio’n hyblyg ac yn gallu troi at y dechnoleg y mae eu hangen arnynt i weithio.



## Dangosyddion Perfformiad

Isod dros yr ychydig dudalennau nesaf, ceir canlyniadau ein dangosydd perfformiad allweddol ar gyfer y flwyddyn, yn amlinellu lle mae perfformiad da bellach wedi'i wreiddio a lle mae bellach gofyn rhagor o ymdrechion. Mae heriau'n parhau o amgylch adnoddau sydd ar gael i gefnogi newid a gwelliant parhau. Fodd bynnag, rydym bellach mewn sefyllfa lle rydym yn glir lle mae angen i ni flaenoriaethu ein hymdrechion.

Bydd 2016/17 yn rhoi i ni heriau newydd ychwanegol yn sgil newidiadau arfaethedig yng ngwaith casglu setiau data. Fodd bynnag, bydd y rhain yn rhoi'r cyfle i ni ganolbwyntio mwy ar ganlyniadau yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Amlinellir yn y tablau isod:

1) Canlyniadau Dangosydd Perfformiad Allweddol y Gwasanaethau Oedolion

2) Canlyniadau Dangosydd Perfformiad Allweddol y Gwasanaethau Plant



Dangosyddion Perfformaid Cenedlaethol - Gwasanaethau Oedolion

| | Cyfeirnod | Dangosydd | Targed y dangosydd | Ynys Môn 2014/15 | Ynys Môn 2015/16 | Targed Ynys Môn 2015/16 | Perfformiad wrth gymharu ag Ynys Môn 2014/15 | Perfformiad wrth gymharu â tharged Ynys Môn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| DSI | SCA/001 (DSC) | Cyfradd y trosglwyddiadau gohiriedig ar gyfer gofal am resymau gofal cymdeithasol, allan o bob 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu drosodd | Rhif isel | 1.77 | 6.63 | 1.50 | ↓ | |
| DSI | SCA/002 (DSC) | Cyfradd y bobl hŷn (65 oed neu drosodd):<br>a) A gefnogir yn y gymuned allan o bob 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth, | Rhif isel (Disgwyliad Cenedlaethol - Rhif uchel) | 49.52 | 43.51 | 50.00 | ↓ | |
| DSI | | b) Y mae'r Awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal allan o bob 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth | Rhif isel | 23.28 | 20.30 | 22.00 | ↑ | |
| DGG | SCA/003 | Canran y cleientiaid, yn y grwpiau oedran canlynol, sy'n cael eu cefnogi yn y gymuned yn ystod y flwyddyn:<br>a) Oed 18 - 64 | Rhif uchel | 89.03% | 91.12% | 89.0% | ↑ | |
| | | b) Oed 65+ | Rhif uchel | 76.00% | 74.26% | 78.0% | ↓ | |
| PAM | SCA/007 | Canran y cleientiaid sydd a chynllun gofal ar 31 Mawrth y dylai eu cynllun gofal fod wedi cael ei adolygu ac a gafodd eu hadolygu yn ystod y flwyddyn | Rhif uchel | 92.17% | 93.62% | 85.0% | ↑ | |
| PAM | SCA/018 | a) Canran y gofalwyr oedolion y cynigwyd aesiad neu adolygiad o'u hanghenion iddynt yn ystod y flwyddyn | Rhif uchel | 92.90% | 95.30% | 93.0% | ↑ | |
| DGG | | b) Canran y gofalwyr oedolion a gafodd asesiad neu adolygiad o'u hanghenion yn ystod y flwyddyn | Rhif uchel | 57.10% | 64.20% | | ↑ | |
| Lleol | | b lleol) Y ganran o ofalwyr oedolion a gofynnodd am asesiad neu adolygiad gafodd asesiad neu adolygiad yn ystod y flwyddyn | Rhif uchel | 92.00% | 90.80% | 93.0% | ↓ | |
| DGG | | c) Canran ygofalwyr oedolion a aseswyd neu a ailaseswyd yn ystod y flwyddyn ac y darparwyd gwasanaeth iddynt | Rhif uchel | 96.00% | 96.30% | 96.0% | ↔ | |
| DSI | SCA/019 (DSC) | Canran o gyfeiriadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd ble mae'r risg wedi'i rheoli | Rhif uchel | 91.92% | 93.18% | 90.0% | ↑ | |
| PAM | SCA/020 | Canran y cleientiaid oedolion sy'n cael eu cefnogi yn y gymuned yn ystod y flwyddyn | Rhif uchel | 79.10% | 78.66% | 82.0% | ↓ | |

| | |
|---|---|
| DSC | Dangosyddion Strategol Cenedlaethol |
| MAC | Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus |
| DGG | Data Gwella Gwasanaeth |

Dangosyddion Perfformaid Cenedlaethol - Gwasanaethau Plant 2015-16

| Cyfeirnod | Dangosydd | Targed y dangosydd | Ynys Môn 2014-15 | Ynys Môn 2015-16 | Targed Ynys Môn 2015-16 | Perfformiad wrth gymharu ag Ynys Môn 2014-15 | Perfformiad wrth gymharu â tharged Ynys Môn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SCC/001 | A) Y canran o leoliadau cyntaf o blant y gofelir amdanynt yn ystod y flwyddyn a ddechreuodd gyda chynllun gofal yn bodoli | Rhif uchel | **93.18** | **88.00** | 100.00 | ↓ | |
| | B) Ar gyfer y plant y gofelir amdanynt yr oedd eu hail adolygiad (a oedd i fod bob 4 mis) i ddigwydd yn ystod y flwyddyn, pa ganran oedd a chynllun ar gyfer cael eu gwneud yn barhaol ar y dyddiad a nodwyd | Rhif uchel | **82.61** | **87.18** | 100.00 | ↑ | |
| SCC/002 (DSC) | Canran y plant y gofelir amdanynt ar ôl 31 Mawrth sydd wedi newid ysgol un neu fwy o weithiau, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o fod mewn cyfnod o ofal amdanynt, oedd ddim o ganlyniad i drefniadau pontio yn y 12 mis hyd at 31 Mawrth | Rhif isel | **18.52** | **17.39** | 15.00 | ↑ | |
| SCC/004 (DSC) | Canran y plant y gofelir amdanynt ar 31 Mawrth a gafodd dri neu fwy o leoliadau yn ystod y flwyddyn | Rhif isel | **3.41** | **9.26** | 8.00 | ↓ | |
| SCC/006 | Y canran o atgyfeiriadau yn ystod y flwyddyn y gwnaethpwyd penderfyniad arnynt o fewn 1 diwrnod gwaith | Rhif uchel | **99.94** | **100.00** | 100.00% | ↑ | |
| SCC/010 | Canran yr atgyfeiriadau sy'n cael eu hailgyfeirio o fewn 12 mis | Rhif uchel | **18.11** | **19.51** | 20.00% | ↓ | |
| SCC/011 | A) Y canran o asesiadau cychwynnol yn ystod y flwyddyn ple mae tystiolaeth bod Gweithiwr Cymdeithasol wedi gweld y plentyn | Rhif uchel | **95.89** | **96.08** | 100.00% | ↑ | |
| SCC/011 (DSC) | B) Y canran o asesiadau cychwynnol yn ystod y flwyddyn ple mae tystiolaeth bod Gweithiwr Cymdeithasol wedi gweld y plentyn ar ei ben ei hun | Rhif uchel | **63.93** | **74.07** | 65.00% | ↑ | |
| SCC/014 | Y canran o gynadleddau cychwynnol amddiffyn plant sydd i ddigwydd yn ystod y flwyddyn ac sy'n cael eu cynnal o fewn 15 diwrnod i'r drafodaeth strategol | Rhif uchel | **98.15** | **84.80** | 100.00% | ↓ | |
| SCC/015 | Y canran o gyfarfodydd grŵp craidd cychwynnol i'w cynnal yn ystod y flwyddyn a gynhaliwyd o fewn 10 diwrnod i'r gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol | Rhif uchel | **94.52** | **93.10** | 100.00% | ↓ | |
| SCC/016 | Y canran o adolygiadau o gynlluniau plant mewn angen a gyflawnwyd yn unol â'r amserlen statudol | Rhif uchel | **90.19** | **83.02** | 90.00% | ↓ | |
| SCC/020 | Y canran o blant y gofelir amdanynt y mae deintydd wedi cael golwg ar eu dannedd yn ystod y flwyddyn | Rhif uchel | **96.77** | **90.41** | 90.00% | ↓ | |
| SCC/021 | Y canran o adolygiadau o gynlluniau plant mewn gofal a gyflawnwyd yn unol â'r amserlen statudol | Rhif uchel | **96.15** | **93.88** | 97.00% | ↓ | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **SCC/022** | A) Canradd presenoldeb disgyblion ysgolion cynradd, y plant hynny y gofelir amdanynt. | Rhif uchel | **97.01** | **97.37** | 95.00% | ↑ | |
| | B) Canradd presenoldeb disgyblion ysgolion uwchradd, y plant hynny y gofleir amdanynt | Rhif uchel | **92.37** | **93.32** | 90.00% | ↑ | |
| **SCC/024** | Canran y plant y gofelir amdanynt yn ystod y flwyddyn, sydd â Chynllun Addysg Personol o fewn 20 niwrnod ysgol i gychwyn bod mewn gofal, neu wedi symud ysgol yn ystod y flwyddyn | Rhif uchel | **94.29** | **88.89** | 100.00% | ↓ | |
| **SCC/025** | Y canran o ymweliadau statudol dyledus â phlant y gofelir amdanynt a ddigwyddodd yn unol â'r rheoliadau | Rhif uchel | **93.53** | **82.79** | 100.00% | ↓ | |
| **SCC/030** | A) Y canran o ofalwyr ifanc sy'n hysbys i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac a aseswyd | Rhif uchel | **84.38** | **75.41** | 85.00% | ↓ | |
| | B) Y canran o ofalwyr ifanc sy'n hysbys i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac y darparwyd gwasanaeth iddynt | Rhif uchel | **100.00** | **100.00** | 98.00% | ↔ | |
| **SCC/033 (DSC)** | D) Y canran o bobl ifanc y gofalwyd amdanynt yn flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy yn 19 oed | Rhif uchel | **50.00** | **57.14** | 100.00% | ↑ | |
| | E) Y canran o bobl ifanc y gofalwyd amdanynt yn flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy, ac y gwyddys eu bod mewn llety addas sydd ddim yn llety argyfwng yn 19 oed | Rhif uchel | **100.00** | **100.00** | 100.00% | ↔ | |
| | F) Y canran o bobl ifanc y gofalwyd amdanynt yn flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy, y gwyddys eu bod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth yn 19 oed | Rhif uchel | **100.00** | **75.00** | 75.00% | ↓ | |
| **SCC/034** | Y canran o adolygiadau amddiffyn plant a gynhaliwyd yn ystod yr amserlenni statudol yn ystod y flwyddyn | Rhif uchel | **96.85** | **93.80** | 100.00% | ↓ | |
| **SCC/035** | Y canran o blant y gofelir amdanynt sy'n gymwys i gael asesiad ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 ac a gyflawnodd y Dangosydd Pwnc Craidd, yn ôl Asesiad Athro | Rhif uchel | **100.00** | **50.00** | 60.00% | ↓ | |
| **SCC/036** | Y canran o blant y gofelir amdanynt sy'n gymwys i gael asesiad ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 ac a gyflawnodd y Dangosydd pwnc craidd yn ôl Asesiad Athro | Rhif uchel | **33.33** | **60.00** | 60.00% | ↑ | |
| **SCC/037 (DSC)** | Cyfartaledd y sgôr pwyntiau cymwysterau allanol i blant y gofelir amdanynt 16 oed, mewn unrhyw sefydliad dysgu a gynhelir gan yr awdurdod lleol | Rhif uchel | **289.00** | **269.00** | 262.00 | ↓ | |
| **SCC/039** | Y canran o asesiadau iechyd dyledus ar gyfer plant y gofelir amdanynt yn ystod y flwyddyn ac a gyflawnwyd | Rhif uchel | **94.44** | **96.08** | 100.00% | ↑ | |
| **SCC/040** | Y canran o leoliadau a gychwynnwyd yn ystod y flwyddyn, lle mae'r plentyn wedi cael ei gofrestru gyda darparwr gwasanaethau meddygol cyffredinol o fewn 10 diwrnod gwaith i ddechrau'r lleoliad | Rhif uchel | **98.25** | **97.62** | 100.00% | ↓ | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **SCC/041** | A) Y canran o blant cymwys sy'n berthnasol ac a oedd yn berthnasol ac sydd wedi cael cynlluniau llwybro fel sydd angen | Rhif uchel | **78.26** | **68.18** | 90.00% | ↓ | |
| | B) Y canran o blant cymwys sy'n berthnasol ac a oedd yn berthnasol ac y dynodwyd cynghorydd personol iddynt | Rhif uchel | **95.65** | **100.00** | 100.00% | ↑ | |
| **SCC/042** | A) Y canran o asesiadau cychwynnol a gyflawnwyd o fewn 7 diwrnod gwaith | Rhif uchel | **94.77** | **78.87** | 85.00% | ↓ | |
| | B) Cyfartaledd yr amser a gymerodd i gwblhau asesiadau cychwynnol a gymerodd fwy na 7 diwrnod gwaith i'w cwblhau | Rhif isel | **14.14** | **14.21** | 12.00 | ↔ | |
| **SCC/043** | A) Y canran o asesiadau craidd gofynnol a gwblhawyd o fewn 35 diwrnod gwaith | Rhif uchel | **77.88** | **73.38** | 85.00% | ↓ | |
| | B) Cyfartaledd yr amser a gymerodd i gwblhau asesiadau craidd a gymerodd fwy na 35 diwrnod gwaith i'w cwblhau | Rhif isel | **50.84** | **60.00** | 45.00 | ↓ | |
| **SCC/044** | A) Canran y plant y gofelir amdanynt a oedd wedi eu hatal yn barhaol o ysgolion yn y flwyddyn 1 Ebrill i 31 Mawrth | Rhif isel | **0.00** | **0.00** | 0.00% | ↔ | |
| | B) Cyfartaledd y nifer o ddyddiau wariwyd allan o'r ysgol ar waharddiad penodol o'r ysgol ar gyfer plant mewn angen yn ystod y flwyddyn 1 Ebrill i 31 Mawrth | Rhif isel | **2.58** | **3.00** | 0.00 | ↑ | |
| **SCC/045** | Y canran o adolygiadau o gynlluniau plant mewn gofal, plant ar y gofrestr amddiffyn plant a phlant mewn angen, a gyflawnwyd yn unol â'r amserlen statudol | Rhif uchel | **94.54** | **91.58** | 95 | ↓ | |

## Gwybodaeth Ariannol

Mae'r Awdurdod Lleol wedi wynebu cyfyngiadau ariannol i'r sector cyhoeddus na welwyd mo'i debyg o'r blaen ac, o'r herwydd, bu'n ofynnol i bob gwasanaeth Cyngor ganfod arbedion yn ei gyllideb. Bu'n ofynnol i bob gwasanaeth lunio cynllun cyflawni gwasanaeth blynyddol, yn seiliedig ar ddadansoddiad o'i berfformiad, ei rôl yn cyfrannu at y Cynllun Corfforaethol a dadansoddiad o unrhyw risg bosib. Mae Gwasanaethau Oedolion a Phlant ill dau'n cydnabod bod rhaid gwneud pethau'n wahanol yng nghyd-destun cyni ariannol a mwy o alwadau/disgwyliadau - rhaid i ni newid y ffordd yr ydym yn gwneud pethau.


Mae'r rhaglen waith uchelgeisiol sydd yn ei lle gennym ar draws y Gwasanaethau Oedolion a Phlant wedi'i llunio i gefnogi gwasanaethau i allu wneud pethau'n wahanol, cyflawni canlyniadau cadarnhaol i unigolion, teuluoedd a gofalwyr wrth hefyd gefnogi gwaith creu arbedion. Wrth wneud hyn, rhaid i Fôn ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol statudol a gweithredu trwy ganolbwyntio ar atebion, gan leihau i'r eithaf yr angen i ddod i mewn. Gydag amser, bydd hyn yn gwneud Gwasanaethau Cymdeithasol ym Môn yn fwy cynaliadwy.

Yn y tabl isod amlinellir Gwariant Gofal cymdeithasol am eleni o'i gymharu â'r ddwy flynedd ddiwethaf:

| Disgrifiad o'r Gwasanaeth | Cyllideb 2015/16 £'000 | Gwirioneddol 2015/16 £'000 | Cyllideb 2014/15 £'000 | Gwirioneddol 2014/15 £'000 | Cyllideb 2013/14 £'000 | Gwirioneddol 2013/14 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau Plant** | 6,877 | 6,656 | 6,508 | 6,240 | 6,781 | 6,566 |
| **Gwasanaethau Oedolion<br>- Pobl Hŷn<br>- Anableddau Corfforol<br>- Anabledd Dysgu<br>- Iechyd Meddwl** | 6,243<br>1,434<br>4,989<br>1,697 | 6,313<br>1,357<br>5,262<br>1,900 | 6,204<br>1,557<br>4,978<br>1,713 | 6,130<br>1,393<br>5,241<br>1,834 | 6,188<br>1,512<br>4,663<br>1,605 | 5,958<br>1,421<br>4,805<br>1,880 |
| **Gwasanaethau Cefnogi** | 691 | 607 | 647 | 630 | 704 | 722 |
| **Uned Ddarparwyr (Gofal Môn / Gwasanaethau Eraill** | 5,652 | 5,433 | 7,418 | 7,200 | 8,609 | 8,086 |
| **Gwasanaethau Eraill (SSR)** | 138 | 146 | 145 | 133 | 144 | 132 |
| **CYFANSWM** | 27,721 | **27,674** | 29,171 | **28,801** | 30,205 | **29,569** |

**£124m Cyllideb Net y Cyngor (fesul Gwasanaeth 2015/16)**

Yn y graff isod dangosir y cyfan o gyllideb y Cyngor am y flwyddyn ac, o hon, neilltuwyd 26% i Wasanaethau Cymunedol.





- Cyllideb o £124m, caiff 23% o'r gyllideb ei wario ar Ofal Cymdeithasol (6% ar Wasanaethau Plant a 17% ar Wasanaethau Oedolion)

- Yn 2015/16, £591,000 oedd yr arbedion ar gyfer Gofal Cymdeithasol, sy'n ostyngiad o 2.19% yn erbyn cyllideb o £26,991,000 y flwyddyn flaenorol (2014/15), arbedion y bu'r gwasanaeth gwrdd â nhw'n llwyr.

- Nodwyd arbedion 2016/17 ar gyfer Gofal Cymdeithasol, sef £478,000, sy'n ostyngiad o 1.72% yn erbyn cyllideb o £27,721,000 y flwyddyn flaenorol (2015/16).

## Gwariant Alldro Refeniw fesul pen y boblogaeth ar y Gwasanaethau Cymdeithasol, 2014-15

Mae'r tabl isod, fel y cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, yn cadarnhau mai gan Gyngor Sir Ynys Môn oedd y gwariant alldro refeniw isaf ond un yn ôl poblogaeth ar y Gwasanaethau Cymdeithasol, ar draws Cymru yn 2014-15.




Ffynhonnell: Perfformiad Gwasanaethau'r Awdurdod Lleol 2014-15, Llywodraeth Leol, Chwefror 2016

## Gwobrwyo Staff 2015 – Enillwyr Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol




**Gyda'r cloc, o'r top chwith:**

- **Gwobr 'Cyflawnwr'** – ***Enillydd*** - Gerddi Haulfre
- **Gwobr 'Ymrwymiad i Bartneriaeth'** - ***Enillydd*** **–** Gwasanaethau Arbenigol Plant
- **Gwobr 'Canolbwyntio ar y Cwsmer, y Dinesydd a'r Gymuned'** - Staff Cefnogi Gors Felen – Gwasanaethau Cymdeithasol (ar y rhestr fer).
- **Gwobr 'Proffesiynol a chael ei Redeg yn Dda'** – Tîm RAISE – Gwasanaethau Cymdeithasol (ar y rhestr fer).
- **Gwobr 'Gwerthfawrogi a Datblygu ein Pobl'** - Dyfrig Williams – Swyddog Perfformiad a Systemau – Gwasanaethau Oedolion (ar y rhestr fer, fe'i cynrychiolwyd gan Geraint Parry).

# Gwybodaeth Gyswllt

## Gwybodaeth Gyswllt

Pe byddech yn dymuno rhagor o wybodaeth am unrhyw agwedd o'r adroddiad hwn, cysylltwch â:

Mrs Emma Edwards

Rheolwr Cefnogi Busnes

Cyngor Sir Ynys Môn,

Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni

Ynys Môn, LL77 7TW.

Rhif Ffôn: 01248 751887

Ebost: emmaedwards@ynysmon.gov.uk

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg, mewn print bras, Braille neu ar fformat arall wrth wneud cais amdani.**



| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith / Cyngor Sir** |
| **Dyddiad:** | **19 Medi, 2016 / 27 Medi, 2016** |
| **Pwnc:** | **Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021 (drafft)** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng Ieuan Williams** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Annwen Morgan**<br>**Prif Weithredwr Cynorthwyol** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Carol Wyn Owen, Rheolwr Polisi a Strategaeth**<br>**01248 752561**<br>**CarolWynOwen@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**Argymhelliad -** Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

Argymell i'r Cyngor Sir y dylid cymeradwyo'r Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021 (drafft) ac awdurdodi'r swyddogion perthnasol, mewn ymgynghoriad â'r Deilydd Portffolio, i gwblhau unrhyw waith golygu pellach i'r strategaeth ddrafft.

**Rhesymau**

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn galluogi gweinidogion i bennu safonau ymddygiad sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Yn yr Hysbysiad Cydymffurfio â'r Safonau Terfynol, pennwyd Safonau 145 a 146 mewn perthynas â chreu Strategaeth Iaith Gymraeg. Er mwyn sicrhau cymymffuriaeth, rhaid i'r Cyngor Sir fabwysiadu Strategaeth Iaith Gymraeg pum mlynedd a'i chyhoeddi ar ei wefan erbyn 30 Medi, 2016.

Mae'r Strategaeth hon yn amlinellu sut y bwriedir mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach o fewn yr ardal ac yn gosod targed ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn diwedd y cyfnod o bum mlynedd o dan sylw. Bum mlynedd ar ôl cyhoeddi'r Strategaeth, bydd angen cyhoeddi fersiwn diwygiedig ohoni yn ogystal ag asesiad o'i chyflawniad.

Mae Fforwm Iaith Strategol Ynys Môn wedi bod yn gweithio'n fwriadus dros y misoedd diwethaf i gynhyrchu'r Strategaeth Iaith Gymraeg bartneriaethol (ddrafft) hon sy'n gosod y weledigaeth a'r cynllun gweithedu ar gyfer y flwyddyn gyntaf. Y bwriad ydi cynhyrchu cynllun gweithredu ar gyfer yr ail flwyddyn cyn diwedd blwyddyn gyntaf y Strategaeth. Cyfrifoldeb y Fforwm Iaith Strategol fydd monitro cynnydd yn erbyn targedau'r Strategaeth.

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Ni ystyriwyd unrhyw opsiynau eraill am y rheswm a nodir isod. |

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae cyhoeddi'r Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021 yn ofyniad statudol a hon yw'r ddogfen allweddol sy'n gosod y cyfeiriad strategol sirol a'r camau gweithredu yn y maes iaith gogyfer y bum mlynedd nesaf. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Polisi Iaith Gymraeg. |

| DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Amherthnasol. |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Fe gylchredwyd yn fewnol y Strategaeth Iaith Gymraeg (drafft) i'r swyddogion perthnasol fu'n cyfrannu at y cynnwys. Yn ogystal, fe'i cylchredwyd i Aelodau'r Grŵp Tasg Iaith (28-7-16), y Penaethiaid (28-7-16), aelodau'r Fforwm Iaith Strategol Sirol (1-8-16) ac fe'i cyflwynwyd i'r UDA yn ei gyfarfod ar 25 Gorffennaf, 2016. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 5 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 6 | **Eiddo** | |
| 7 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 8 | **Sgriwtini** | Cyflwynwyd y Strategaeth (drafft) i gyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf, 2016. Cafwyd trafodaeth adeiladol a chefnogol a gwnaethpwyd nifer o sylwadau ac awgrymiadau (gweler |

| | | |
|---|---|---|
| | | Atodiad 3). Penderfynwyd cymeradwyo'r Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021 (drafft) gan argymell i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Llawn ei chymeradwyo. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Partneriaid y Fforwm Iaith Strategol Sirol |

| **F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **FF - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad 1 – Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021<br>Atodiad 2 – Cynllun Gweithredu Blwyddyn 1<br>Atodiad 3 – Dyfyniad perthnasol o Gofnodion drafft Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 19 Gorffennaf, 2016 |

| **G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| |

# Strategaeth Iaith Gymraeg 2016 - 2021

## DRAFFT

## Fforwm Strategol Iaith Ynys Môn




**Dyddiad Cyhoeddi: Medi 2016**

## Y Fforwm Strategol Iaith

Mae Fforwm Iaith bartneriaethol yn bodoli ar lefel sirol er mwyn rhoi ffocws strategol i'r Iaith Gymraeg ar yr Ynys. Y Fforwm sy'n gyfrifol am adnabod blaenoriaethau a llunio'r Strategaeth hon. Aelodaeth y Fforwm Strategol Iaith:

Derec Llwyd Morgan - Cadeirydd annibynnol

Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr
Consortiwm Addysg ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn
Cymdeithas yr Iaith
Cyngor Sir Ynys Môn
Ffermwyr Ifanc
Grŵp Llandrillo Menai
Heddlu Gogledd Cymru
Medrwn Môn
Menter Iaith Môn
Menter Môn
Môn CF
Mudiad Meithrin
Prifysgol Bangor
Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (Gwynedd a Môn)
Unllais Cymru
Llys Eisteddfod Môn
Llywodraeth Cymru
Y Ganolfan Cymraeg i Oedolion
Yr Urdd

**Manylion cyswllt:**

Carol Wyn Owen
Swyddog Iaith
Gwasanaethau Democrataidd
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfa'r Sir
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

| | | |
|---|---|---|
| Rhif Ffôn | : | 01248 752561 |
| Rhif Ffacs | : | 01248 752132 |
| E-bost | : | CarolWyn@ynysmon.gov.uk |

Rydym yn hapus i ddarparu'r wybodaeth hon mewn fformatau eraill ar gais – defnyddiwch y manylion cyswllt uchod os gwelwch yn dda.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Saesneg / This document is available in English.



DRAFT

## Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| **Rhagarweiniad** ………………………………………………………… | 5 |
| **Deddfwriaeth a Chyd-destun Polisi** …………………………… | 6 |
| Iaith Fyw: Iaith Byw 2012-2017 …………………………………………… | 6 |
| Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg 2010 ………………………………… | 7 |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 …………………… | 7 |
| Datganiad Polisi Cenedlaethol Cyffredinol ar Ynni – EN-1 (2011) ……….. | 8 |
| Datganiad Polisi Cenedlaethol ynglŷn â Chynhyrchu Pŵer Niwclear – EN-6 (2011) ……………………………………………………………… | 8 |
| **Darlun o sefyllfa'r Gymraeg yn Ynys Môn** | 9 |
| Trosolwg o'r ardal leol ………………………………………………………… | 9 |
| Prif ganlyniadau Cyfrifiad 2011 ………………………………………………… | 9 |
| Gwlad geni ……………………………………………………………………….. | 11 |
| Wardiau Etholiadol ……………………………………………………………… | 11 |
| Siaradwyr Cymraeg fesul oedran ……………………………………………… | 14 |
| Mudo ……………………………………………………………………………… | 16 |
| **Ffocws y Strategaeth** ……………………………………………… | 17 |
| **Maes Blaenoriaeth 1 – Plant a Phobl Ifanc / Y Teulu** | |
| Y nod, y canlyniad a ddymunir a'r dangosyddion perthnasol ……………….. | 18 |
| Trosglwyddiad Iaith ……………………………………………………………… | 19 |
| Cynllun Addysg Gymraeg Ynys Môn………………………………………… | 20 |
| Addysg Bellach ……………………………………………………………………… | 21 |
| Defnydd Cymdeithasol Plant a Phobl Ifanc o'r Gymraeg…………………….. | 23 |
| **Maes Blaenoriaeth 2 – Y Gweithle, Gwasanaethau Cymraeg, Y Seilwaith** | |
| Y nod, y canlyniad a ddymunir a'r dangosyddion perthnasol ……………….. | 25 |
| Y Gymraeg yn y gweithle ……………………………………………………….. | 25 |
| Argaeledd gwasanaethau Cymraeg …………………………………………… | 27 |
| **Maes Blaenoriaeth 3 – Y Gymuned** | |
| Y nod, y canlyniad a ddymunir a'r dangosyddion perthnasol ………………. | 28 |
| Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ar lefel gymunedol ……………………. | 29 |
| Y Cynllun Datblygu Lleol ……………………………………………………….. | 29 |
| Tai ……………………………………………………………………………………. | 31 |
| Twristiaeth …..…………………………………………………………………… | 32 |
| Rhaglen Ynys Ynni ………………………………………………………………… | 32 |
| **Atodiad: Cynllun Gweithredu – Blwyddyn 1** | |


DRAFT

## Rhagarweiniad

Cyflwynir y Strategaeth Iaith Sirol ger eich bron.  Croesewir y ffaith ei bod hi’n ofynnol i Gyngor Sir Ynys Môn baratoi strategaeth o'r fath.

Mae'r strategaeth gynhwysol hon yn ffrwyth llafur y Cyngor ynghyd â nifer o'i bartneriaethau sydd wedi cyfarfod yn gyson dan yr enw Fforwm Iaith Ynys Môn.  Ar gyfer y strategaeth gyntaf hon, cytunodd y fforwm i ganolbwyntio ar dair thema sef:

- **Plant, Pobl Ifanc a'r Teulu**
- **Y Gweithlu, Gwasanaethau Cymraeg, Y Seilwaith**
- **Y Gymuned**

Yn ystod y blynyddoedd nesaf, bydd Ynys Môn yn wynebu llawer o heriau, gan gynnwys heriau ieithyddol.  Yn yr un modd, bydd cyfleoedd i gryfhau'r Gymraeg ac mae'n hynod o bwysig ein bod yn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd drwy gydweithio gyda'n gilydd ym Môn.  Rhaid bod yn realistig gan ymdrechu i fod mor rhagweithiol â phosib.

Yn ogystal â'r Strategaeth, paratowyd Cynllun Gweithredu blynyddol sy'n canolbwyntio i gychwyn ar y camau ymarferol pwysicaf a gwneud hynny o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Y Cynllun hwn sy'n rhoi ein Strategaeth ar waith a'r bwriad yn ystod 2016-17 yw monitro cynnydd o ran y camau gweithredu yng nghyfarfodydd y Fforwm Iaith yn ystod 2016-17.

Heb os, gall pob un ohonom sy'n darllen y Strategaeth a'r Cynllun nodi yn ddidrafferth sawl peth arall y mae angen ei wneud i sicrhau fod y Gymraeg yn ffynnu yn Ynys Môn.  Ein nod ydyw canolbwyntio ar lai a sicrhau y gwneir gwahaniaeth.

Ein gweledigaeth ar gyfer Cyfrifiad 2021 yw gweld cynnydd yn y nifer sy'n siarad y Gymraeg a bod y ganran yn codi i o leiaf 60.1% fel ag yr oedd yn 2001.   O gydweithio a chymryd camau ymarferol, y mae hynny’n gyraeddadwy.

DRAFT

## Deddfwriaeth a chyd-destun polisi

Yn ôl yn 1993, pasiwyd Deddf yr Iaith Gymraeg oedd yn gosod yr egwyddor y dylid trin y Gymraeg yn gyfartal â'r Saesneg wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru. Prif ofynion y ddeddf oedd:

- gorfodi cyrff cyhoeddus yng Nghymru i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ac i baratoi cynllun i ddangos sut y maent yn bwriadu defnyddio'r iaith
- rhoi hawl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn llys barn yng Nghymru
- creu Bwrdd yr Iaith i oruchwylio defnydd o'r iaith gan gyrff cyhoeddus ac i gymeradwyo cynlluniau iaith cyrff cyhoeddus.

Ar sail y ddeddf, mabwysiadodd Cyngor Sir Ynys Môn yr egwyddor o drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal ac fe gymeradwywyd pedwerydd argraffiad Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan Adran 14(1) y Ddeddf ar 26 Mawrth, 2012.

Ddeunaw mlynedd yn ddiweddarach, crëwyd fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer y Gymraeg gyda phasio Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'r Mesur yn cynnwys:

- sicrhau statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru
- sefydlu swydd Comisiynydd y Gymraeg
- creu trefn o gyflwyno dyletswyddau ar ffurf safonau iaith
- creu darpariaeth ar gyfer hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg

Nod y Mesur Iaith newydd yw cynnig mwy o eglurder a chysondeb i siaradwyr Cymraeg o ran y gwasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn y Gymraeg. Mae'r Mesur yn seiliedig ar yr egwyddorion a ganlyn:

- ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- dylai pobl yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

**Iaith Fyw: Iaith Byw 2012-2017**

Yn 2003, fe gyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei fframwaith strategol ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg sef 'Iaith Pawb: *Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog'.*

Yn ystod 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad polisi drafft, *'Iaith fyw: iaith byw - Bwrw mlaen'* yn amlinellu'r modd yr oeddynt yn bwriadu canolbwyntio ar weithredu'r strategaeth *'Iaith fyw: Iaith byw'* dros y tair blynedd nesaf. Y nod strategol yw cynyddu nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg ac ehangu'r defnydd cyffredinol a wneir o'r Gymraeg.

Er mwyn cyflawni hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod chwe nod, sef:

- annog a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd
- cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau Cymraeg ar gyfer plant a  phobl ifanc a chynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith
- cryfhau safle'r Gymraeg o fewn y gymuned
- cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle
- cynyddu a gwella gwasanaethau Cymraeg i ddinasyddion
- cryfhau'r seilwaith ar gyfer yr iaith, gan gynnwys technoleg ddigidol.

Er mwyn gwireddu'r nodau hyn yn llwyddiannus, cydnabyddir gan y Llywodraeth bod angen mewnbwn gan nifer o sefydliadau ledled Cymru.  Mae'r egwyddorion gogyfer gwireddu'r weledigaeth yn seiliedig ar ddau faes sef '**caffael yr iaith'** a '**defnyddio'r iaith'.**  Er mwyn annog plant a phobl i gaffael yr iaith, anogir trosglwyddo'r iaith ar yr aelwyd a chynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg.  I gynyddu'r defnydd o'r iaith, rhoddir pwyslais ar gynyddu cyfleoedd i'w defnyddio ar lefel cymdeithasol, yn gymunedol, yn y gweithle a thrwy gyfrwng gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.  Byddai hyn yn ei dro yn cynyddu hyder pobl a'u rhuglder yn yr iaith ac yn cryfhau sefyllfa'r Gymraeg o fewn ein cymunedau.

## Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg 2010

Roedd cyhoeddi'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg ym mis Ebrill 2010 yn garreg filltir bwysig yn hanes datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghymru. Am y tro cyntaf gosododd Llywodraeth Cymru ei gweledigaeth i gael '*system addysg a hyfforddiant sy'n ymateb mewn ffordd wedi'i chynllunio i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg … ac sy'n sicrhau cynnydd yn nifer y bobl o bob oedran a chefndir sy'n rhugl yn y Gymraeg ac sy'n gallu defnyddio'r iaith gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle.'*  Mae'r Strategaeth hefyd yn nodi'r cyfeiriad ar gyfer gwella safonau addysgu a dysgu'r Gymraeg fel iaith, ac yn benodol, Cymraeg fel ail iaith.

Mae'r cyfnod cychwynnol pum mlynedd o weithredu bellach wedi dod i ben ac mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi datganiad polisi, sef '*Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: y camau nesaf*' sy'n amlinellu'r ffordd ymlaen ar gyfer datblygu addysg cyfrwng Cymraeg a'r iaith Gymraeg rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017.

Mae hefyd yn bwysig cofio bod y Strategaeth yn eistedd ochr yn ochr â Strategaeth Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru- *Iaith fyw: iaith byw* (2012).  Mae rhyngddibyniaeth clir rhwng y ddwy strategaeth gan fod gan y sector addysg a sgiliau gyfraniad pwysig i'w wneud i gefnogi'r nod ehangach o weld yr iaith yn ffynnu ac i gynyddu caffaeliad a defnydd o'r Gymraeg.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.  Bydd yn helpu'r cyrff cyhoeddus perthnasol i feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a chyda'i gilydd, ceisio atal problemau a dilyn dull gweithredu cyson.  Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus sicrhau eu bod yn ystyried yr

effaith a gaiff eu penderfyniadau ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol.

Mae ‘Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu’ yn un o’r saith nod llesiant o fewn y Ddeddf y disgwylir i gyrff cyhoeddus eu gwireddu a chyfrannu orau tuag atynt.  Disgrifir y nod yma fel:

*‘Cymdeithas sy’n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a’r Gymraeg ac sy’n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden’.*

**Datganiad Polisi Cenedlaethol Cyffredinol am Ynni: EN-1 (2011)**

Mae'r Datganiad Polisi Cenedlaethol hwn yn rhestru'r meini prawf a ddefnyddir wrth benderfynu ynghylch ceisiadau sy'n ymwneud â phrosiectau seilwaith cenedlaethol eu harwyddocâd. Mae GNN Wylfa yn brosiect o'r fath. Mae'r Datganiad yn argymell yr hyn y dylid canolbwyntio arno yn y Datganiad Amgylcheddol a gyflwynir gyda'r cais. Mae'r Datganiad Polisi Cenedlaethol (ym mhara 5.12.3) yn dweud y dylai Datganiadau Amgylcheddol ystyried pob effaith gymdeithasol-economaidd, a allai gynnwys:

- Creu cyfleoedd am swyddi a hyfforddiant;
- Darparu gwasanaethau lleol ychwanegol a gwella'r seilwaith lleol, gan gynnwys darparu cyfleusterau addysgol a chyfleusterau i ymwelwyr;
- Effeithiau ar dwristiaeth;
- Effaith y nifer amrywiol o weithwyr sy'n llifo i mewn i'r ardal yn ystod gwahanol gamau'r gwaith adeiladu, gweithredu a digomisiynu'r seilwaith ynni. Gallai hyn newid deinameg y boblogaeth leol ac fe allai newid y galw am wasanaethau a chyfleusterau yn yr aneddiadau sydd agosaf at y gwaith adeiladu (gan gynnwys cyfleusterau cymunedol a seilwaith ffisegol megis ynni, dŵr, trafnidiaeth a gwastraff). Fe allai hyn hefyd effeithio ar gydlyniant cymdeithasol a dibynnu ar sut y bydd poblogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir yn newid yn sgil y datblygiad;
- Effeithiau cronnus - petai caniatâd datblygu yn cael ei roi ar gyfer nifer o brosiectau mewn rhanbarth a'r rhain yn cael eu datblygu fwy neu lai o fewn yr un cyfnod, fe allai hynny greu nifer o effeithiau negyddol tymor byr, er enghraifft, diffyg gweithwyr adeiladu o bosibl i ddiwallu anghenion diwydiannau eraill a phrosiectau mawr yn y rhanbarth.
- Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

**Datganiad Polisi Cenedlaethol ynglŷn â Chynhyrchu Pŵer Niwclear: EN-6 (2011)**

Gyda golwg yn benodol ar Orsaf Niwclear Newydd Wylfa, mae Cyfrol II o'r Datganiad Polisi Cenedlaethol yn dweud bod pryder am ddylanwad mewnlif o weithwyr i'r ardal ar yr iaith, ar ddiwylliant ac ar les.

# Darlun o sefyllfa'r Gymraeg yn Ynys Môn

**Trosolwg o'r ardal leol**

Mae Ynys Môn yn cael ei chyfrif yn un o gadarnleoedd y Gymraeg ac mae'r iaith Gymraeg yn elfen naturiol o fywyd pob dydd yr ynys ac mae'n adlewyrchiad o'i thraddodiadau a'i diwylliant. Ynghlwm â hyn, mae hanes a diwylliant Cymreig cyfoethog yn diffinio'r ardal a'i thrigolion. Mae cynaliadwyedd yr iaith Gymraeg yn ddibynnol ar y broses o wella cymunedau Cymraeg trwy ddarparu digon o gyfleoedd addysgol, diwylliannol a chymdeithasol i ddefnyddio'r iaith o ddydd i ddydd. Ceir y cyfleoedd hyn trwy'r dulliau ffurfiol megis y gyfundrefn addysg a dosbarthiadau iaith ar gyfer dysgwyr a thrwy ddulliau anffurfiol megis cymdeithasau, mudiadau a chlybiau.

**Prif ganlyniadau Cyfrifiad 2011**

Y ffynhonnell bwysicaf o ganfod ystadegau am sefyllfa'r Gymraeg yw'r Cyfrifiad a dengys ffigyrau Cyfrifiad 2011 bod gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn Ynys Môn o 38,893 (60.1%) yn 2001 i 38,568 (57.2%) yn 2011. Mae'r gostyngiad hwn o 325 o unigolion yn gyfystyr â gostyngiad o 0.8% yn nifer siaradwyr Cymraeg y Sir. Yn 2011, roedd 45.6% yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg a 10.7% yn deall Cymraeg yn unig[1]. Doedd dim sgiliau gan 30.4%. Serch hynny, mae gan Ynys Môn yr ail gyfradd uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru.

| Nifer y siaradwyr Cymraeg yn Ynys Môn 2011 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Poblogaeth dros dair blwydd oed** | **Siarad Cymraeg ond nid yn ei darllen na'i hysgrifennu** | **Siarad a darllen Cymraeg ond nid yn ei hysgrifennu** | **Siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg** | **Cyfuniad arall o sgiliau** | **Dim gwybodaeth o'r Gymraeg** |
| | | % | % | % | % | % |
| Ynys Môn | 67,403 | 7 | 4.3 | 45.6 | 1.9 | 30.4 |
| Cymru | 2,955,841 | 2.7 | 1.5 | 14.6 | 2.5 | 73.3 |
| Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 | | | | | | |

Dengys yr arolwg ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg, '*Defnydd y Gymraeg yng Nghymru, 2013-15'* isod niferoedd a chanrannau'r bobl sydd yn siarad Cymraeg bob dydd ym Môn o'i gymharu â Chymru gyfan. Gwelwn o'r tabl isod y newid ers Arolygon Defnydd Iaith 2004-06.

[1] Llywodraeth Cymru, Cyflwyniad i Fforwm Strategol Ynys Môn 24/09/13

| Siaradwyr Cymraeg sy'n siarad yr iaith bob dydd | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2004-06 | | 2013-15 | | Gwahaniaeth | |
| | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Pwynt Canrannol |
| Ynys Môn | 31,500 | 87 | 29,500 | 77 | -2000 | -9 |
| Cymru | 342,300 | 63 | 360,900 | 53 | 18,600 | -9 |

Mae'r arolwg *'Defnydd y Gymraeg yng Nghymru, 2013-15'* yn nodi bod cyswllt clir rhwng rhugldder ac amlder defnydd y Gymraeg. Mae mwy o gyfleoedd i siarad yr iaith yn yr ardaloedd lle ceir y crynodiadau uchaf o siaradwyr Cymraeg, megis Ynys Môn ac mae'n hynod bwysig bod y strategaeth hon yn adnabod cyfleoedd pellach i drigolion ddefnyddio'r Gymraeg.

Dengys y tabl isod fod nifer y bobl yn Ynys Môn sydd yn gallu siarad Cymraeg wedi gostwng o 80% yn 1951 i 57% erbyn 2011.

| Newidiadau yn y nifer a'r % o Siaradwyr Cymraeg ers 1951 | | |
|---|---|---|
| **Blwyddyn** | **Ynys Môn** | **Cymru** |
| 1951 | 38,443 (80.0%) | 714,700 (28.9%) |
| 1961 | 37,101 (75.0%) | 656,000 (26.0%) |
| 1971 | 37,135 (66.0%) | 542,400 (20.8%) |
| 1981 | 39,229 (61.0%) | 508,200 (18.9%) |
| 1991 | 41,240 (61.9%) | 500,000 (18.5%) |
| 2001 | 38,893 (60.1%) | 582,368 (20.7%) |
| 2011 | 38,568 (57.2%) | 562,016 (19%) |

Er y bu dirywiad sylweddol yn y canran o siaradwyr Cymraeg, mae'n ddiddorol nodi bod y nifer o siaradwyr Cymraeg yn 2011 (38,568) ychydig yn uwch na'r nifer yn 1951 (38,443). Mae'n debyg bod hyn yn adlewyrchu'r twf cyffredinol yn y boblogaeth yn sgil datblygiadau gweithfeydd mawr yn y 1960au megis Gorsaf Ynni Niwclear Wylfa a gwaith mwyndoddi Alwminiwm Môn.

Mae Arolwg *Defnydd y Gymraeg yng Nghymru 2013-2015* ar y cyd rhwng Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg yn dangos mwy o ostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl yn Ynys Môn yn 2013-15 nag oedd yn 2004-06. Roedd y gostyngiad hwn yn 2,600 ac yn cyd-fynd â'r patrwm cenedlaethol lle gwelwyd y gostyngiadau mwyaf o siaradwyr Cymraeg rhugl mewn ardaloedd awdurdodau lleol gyda'r canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg.

Mae nifer o ffactorau demograffig yn gyfrifol am y gostyngiad hwn megis effaith mewnfudo ar y boblogaeth, lleihad yn y niferoedd o gartrefi pobl hŷn lle siaredir y Gymraeg ac allfudiad pobl ifanc sy'n siarad Cymraeg i ddilyn cyrsiau addysgol ac i ddilyn gyrfaoedd. Yn ogystal, mae'r economi wan a'r orddibyniaeth ar y sector cyhoeddus a darparu a rhai diwydiannau penodol ynghyd â'r farchnad dai ansefydlog yn cyfrannu at yr heriadau sy'n wynebu siaradwyr Cymraeg i aros yn eu cymunedau.

Gall y lleihad mewn trosglwyddiad iaith o fewn y teulu fod yn rheswm arall am y dirywiad ac mae'n allweddol bod yr elfen hon yn derbyn sylw dyledus.  Yn ogystal, mae angen cymryd camau rhagweithiol i gynyddu nifer y disgyblion sy'n derbyn asesiad drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen gan fod hyn yn greiddiol i feithrin hyder i ddefnyddio'r Gymraeg o'r cychwyn cyntaf.  Bydd y strategaeth hon yn ymdrin yn rhagweithiol â'r elfen hon.

**Gwlad geni**

Cynyddodd canran y boblogaeth a anwyd tu allan i Gymru o 32.4% yn 2001 i 33.6% yn 2011.  Yn 2011, o'r rhai a anwyd yng Nghymru, gallai 78.2% siarad Cymraeg o'i gymharu â 80.8% yn 2001. Yn 2011, o'r rhai anwyd y tu allan i Gymru, gallai 17.6% siarad Cymraeg o'i gymharu â 18.7% yn 2001.

**Wardiau Etholiadol**

Mae'r gyfran o siaradwyr Cymraeg yn amrywio ar Ynys Môn fesul ward etholiadol. Gwelir y cyfraddau uchaf o siaradwyr Cymraeg yn yr ardaloedd mwyaf canolog, tra bod y gyfradd yn dueddol o ostwng tua gorllewin yr ynys, yn enwedig o amgylch ardal Caergybi.

Mae'r tablau isod yn dangos y deg ward uchaf a'r deg ward isaf yn ôl cyfran y bobl 3 oed a throsodd oedd yn gallu siarad Cymraeg yn 2001 a 2011:

**Cyfran y bobl (3 oed a throsodd) sy'n gallu siarad Cymraeg, fesul ward, 2001 a 2011 – y deg uchaf:**

| **Enw Ward** | **2001** | | **2011** | | **Newid** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Safle** | **Canran** | **Safle** | **Canran** | |
| Cyngar | 1 | 84.7% | 1 | 80.8% | -3.9% |
| Tudur | 2 | 83.6% | 2 | 80.7% | -2.9% |
| Cefni | 3 | 83.1% | 3 | 80.5% | -2.6% |
| Llanfihangel Ysgeifiog | 4 | 78.3% | 4 | 75.8% | -2.5% |
| Bodffordd | 5 | 77.9% | 5 | 73.3% | -4.6% |
| Braint | 6 | 77.1% | 6 | 73.2% | -3.9% |
| Bryngwran | 7 | 76.1% | 7 | 71.2% | -4.9% |
| Gwyngyll | 8 | 73.9% | 8 | 70.5% | -3.4% |
| Bodorgan | 9 | 72.7% | 10 | 68.3% | -4.4% |
| Llannerch-y-medd | 10 | 72.3% | 9 | 69.9% | -2.4% |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 a Chyfrifiad 2011*

| **Cyfran y bobl (3 oed a throsodd) sy'n gallu siarad Cymraeg, fesul ward, 2001 a 2011 – y deg isaf:** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Enw Ward** | **2001** | | **2011** | | **Newid** |
| | **Safle** | **Canran** | **Safle** | **Canran** | |
| Biwmares | 1 | 39.7% | 4 | 39.5% | -0.2% |
| Rhosneigr | 2 (cydradd) | 42.6% | 1 | 36.0% | -6.6% |
| Trearddur | 2 (cydradd) | 42.6% | 2 | 38.1% | -4.5% |
| Caergybi – ward y Dref | 4 | 43.2% | 3 | 39.1% | -4.1% |
| Maeshyfryd | 5 | 43.7% | 7 | 40.6% | -3.1% |
| Morawelon | 6 | 45.3% | 6 | 40.4% | -4.9% |
| Llanbedrgoch | 7 | 45.5% | 9 | 43.9% | -1.6% |
| Porthyfelin | 8 | 45.7% | 5 | 39.7% | -6.0% |
| Kingsland | 9 | 48.0% | 8 | 42.9% | -5.1% |
| Moelfre | 10 | 51.4% | 10 | 52.3% | 0.9% |
| *Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 a Chyfrifiad 2011* | | | | | |

Yn 2001 roedd 10 o wardiau Ynys Môn gyda dros 70% o'u poblogaeth yn siarad Cymraeg ond, erbyn 2011 roedd y nifer wedi gostwng i 8 ward. Cafodd pwysigrwydd cymunedau sydd â 70% a mwy o'r boblogaeth dros 3 oed yn siarad Cymraeg ei nodi yn *Iaith Pawb,* sef Cynllun Gweithredu Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer creu Cymru Ddwyieithog a gyhoeddwyd yn 2003. Roedd atal y dirywiad yn y cymunedau hynny sy'n cynnal lefel cymharol uchel o hyfywedd ieithyddol yn un o dargedau allweddol y strategaeth. Pwysleisir yn *Iaith Pawb* mai'r nod erbyn 2011 oedd:-

- Bod y lleihad yn nifer y cymunedau lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad gan dros 70% o'r boblogaeth yn cael ei atal

Cyfeiriwyd yn y ddogfen bolisi at y ffaith bod nifer y cymunedau â dros 70% yn siarad Cymraeg wedi gostwng dros y degawdau diwethaf a bod perygl y gallai'r lleihad fygwth dyfodol y Gymraeg fel iaith gymunedol, fyw:-

'Gellid dadlau pe bai'r dirywiad yn parhau, y gallai fygwth bodolaeth yr iaith Gymraeg gan na fyddai ganddi fwyach amgylchedd naturiol lle câi'r iaith ei siarad yn arferol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd cymdeithasol.'

Gan fod sefyllfa'r Gymraeg yn fwy bregus erbyn hyn mae 70% wedi cael ei dderbyn fel 'pwynt tipio'. Fel mae'r term yn ei awgrymu mae arbenigwyr yn y maes cymdeithaseg iaith o'r farn bod y broses o encilio yn cyflymu wrth i ganran y siaradwyr ostwng dan y lefel hon. Mae'r dirywiad wedyn yn sydyn ac yn digwydd am lawer o resymau gwahanol - yn bennaf oherwydd cynnydd mewn priodasau cymysg eu hiaith, lleihad yn amlder y defnydd, diffyg hyder, ymlediad cynyddol y Saesneg i beuoedd cymdeithasol y Gymraeg a chanfyddiad o ddiffyg gwerth yr iaith mewn byd sydd yn raddol ddatblygu'n fwyfwy unffurf ac Eingl-Americanaidd.

DRAFT


Yn 2011, roedd tair ward gyda dros 80% o’r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg a lleolir y tair ward yma yn Llangefni.  Ward Cyngar oedd y ward gyda’r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg (80.8%), ac yna wardiau Tudur (80.7%) a Chefni (80.5%).

Roedd y gyfran isaf o siaradwyr Cymraeg yn 2011 yn ward Rhosneigr, gydag ond 36.0% o’r boblogaeth yn siarad Cymraeg.  Gwelwyd y dirywiad mwyaf yn y gyfran o siaradwyr Cymraeg yn Aberffraw, lle bu gostyngiad o 69.4% yn 2001 i 60.4% yn 2011.

Wrth edrych ar ddosbarthiad holl wardiau’r ynys yn ôl cyfran y bobl 3 oed a throsodd oedd yn gallu siarad Cymraeg, yn 2001 roedd 27 o wardiau lle'r oedd dros hanner y boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg ond mae’r niferoedd yn gostwng wrth i ni edrych ar ardaloedd o gwmpas y glannau a threfi glan y môr.  Mae’r 27 o wardiau (67.5%) lle'r oedd dros hanner y boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg yn Ynys Môn yn 2011 yn is na’r 31 o wardiau (77.5%) yn 2001.

DRAFFT

**Canran y Siaradwyr –Rhanbarthau Etholiadol**
**Proportion of Speakers – Electoral Divisions**




## Siaradwyr Cymraeg fesul oedran

Mae canran y siaradwyr Cymraeg ar Ynys Môn yn amrywio fesul categori oedran ac mae Ffigwr 1 yn dangos cyfran y boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg, yn ôl grwpiau oedran, yn 2001 a 2011. Mae Tabl 1 ar y dudalen nesaf hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y niferoedd o siaradwyr Cymraeg fesul grŵp oedran ar gyfer y ddau gyfnod.

Fel y gwelir yn Ffigwr 1, yn 2011 gallai cyfrannau cymharol uwch o'r boblogaeth yn y grwpiau oedran iau siarad Cymraeg, gyda'r gyfran uchaf yn y grŵp oedran 5-15 oed. Mae cynnydd yng nghyfran y plant 5-15 mlwydd oed sy'n gallu siarad Cymraeg o 77.8% yn 2001 i 80.1% yn 2011, sef cynnydd o 2.3 pwynt canran. Mae'n debyg y

gellir priodoli’r cynnydd bychan yn y grŵp oedran hwn i lwyddiant Polisi Addysg y Sir. Er y cynnydd yma yn y gyfran sy’n gallu siarad Cymraeg, gwelwyd gostyngiad o 924 o unigolion (12.6%) yn nifer y siaradwyr Cymraeg 5-15 mlwydd oed. Dyma’r dirywiad mwyaf o ran nifer y siaradwyr Cymraeg o blith pob grŵp oedran. Mae’n debyg bod y ffaith fod 1,426 yn llai o blant 5-15 oed yn 2011 nag yn 2001 yn cyfrannu’n sylweddol at y sefyllfa.


Gwelwyd cynnydd o 1.3 pwynt canran yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg ymysg y grŵp oedran 25-39, gan newid o 59.0% yn 2001 i 60.3% yn 2011. Unwaith eto, nid yw’r cynnydd yma o ran cyfran y siaradwyr Cymraeg yr un sefyllfa o ran y nifer o siaradwyr Cymraeg. Gwelwyd gostyngiad o 496 o unigolion (7.0%) yn nifer y siaradwyr Cymraeg 25-39 mlwydd oed dros gyfnod o ddeg mlynedd. Mae hyn yn arwyddocaol iawn o safbwynt cynllunio iaith gan mai dyma’r grŵp oedran sydd fwyaf tebygol o fagu teuluoedd dros y blynyddoedd nesaf. Mae allfudo’r ifanc i ddilyn gyrfaoedd ynghyd â cholli sgiliau iaith ar ôl gadael y gyfundrefn addysg yn ffactorau tebygol dros y gostyngiad hwn.

O’r grŵp oedran yma ymlaen, mae’r gyfran sy’n gallu siarad Cymraeg yn gostwng yn barhaus gan gyrraedd isafswm o 46.8% ymysg y boblogaeth 60-64 mlwydd oed. Awgryma hyn bod mewnfudiad o bobl hŷn di-Gymraeg wedi digwydd yn y grŵp oedran hwn. Mae nifer o’r canolfannau arfordirol ar yr ynys yn denu pobl i ymddeol iddynt.

Mae’r gyfran yn cynyddu’n raddol, gan gyrraedd 51.8% ar gyfer y boblogaeth 75 oed a throsodd.

Oni bai am y ddau grŵp oedran 5-15 a 25-39 mlwydd oed, mae pob grŵp oedran arall wedi gweld lleihad yn y gyfran o siaradwyr, fel y gwelir yn Nhabl 1 (colofn ‘Mewn pwynt canran’).

**Ffigwr 1: Cyfran y bobl (3 oed a throsodd) sy’n gallu siarad Cymraeg, yn ôl grŵp oedran, 2001 & 2011**




*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 - Tabl CS146; Cyfrifiad 2011 - Tabl DC2203WA*

**Tabl 1: Nifer a chyfran y bobl (3 oed a throsodd) sy'n gallu siarad Cymraeg, yn ôl grŵp oedran, 2001 & 2011**

| Grŵp Oedran | 2001 | | 2011 | | Newid 2001-2011 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Mewn nifer | Mewn nifer (%) | Mewn Pwynt Canran |
| 3-4 | 797 | 54.5% | 827 | 54.1% | 30 | 3.8% | -0.4% |
| 5-15 | 7,318 | 77.8% | 6,394 | 80.1% | -924 | -12.6% | 2.3% |
| 16-19 | 2,371 | 76.8% | 2,196 | 71.3% | -175 | -7.4% | -5.5% |
| 20-24 | 2,306 | 69.8% | 2,467 | 63.9% | 161 | 7.0% | -5.9% |
| 25- 39 | 7,131 | 59.0% | 6,635 | 60.3% | -496 | -7.0% | 1.3% |
| 40- 49 | 4,854 | 55.6% | 4,992 | 53.2% | 138 | 2.8% | -2.4% |
| 50- 59 | 5,105 | 51.4% | 4,755 | 50.4% | -350 | -6.9% | -1.0% |
| 60- 64 | 2,144 | 52.8% | 2,557 | 46.8% | 413 | 19.3% | -6.0% |
| 65- 74 | 3,693 | 54.6% | 4,080 | 47.6% | 387 | 10.5% | -7.0% |
| 75+ | 3,174 | 54.4% | 3,665 | 51.8% | 491 | 15.5% | -2.6% |
| Pob oedran (3+) | 38,893 | 60.1% | 38,568 | 57.2% | -325 | -0.8% | -2.9% |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 - Tabl CS146; Cyfrifiad 2011 - Tabl DC2203WA*

Mae **Atodiad** 1 ac **Atodiad** 2 yn dangos yn sydyn y prif dueddiadau ar gyfer Ynys Môn a Chymru gyfan.

## Mudo

Bu cynnydd o 2,922 ym mhoblogaeth Ynys Môn yn ystod y cyfnod rhwng 2001 a 2011. Nid oedd y cynnydd yn seiliedig ar dwf naturiol yn unig (h.y. genedigaethau a marwolaethau). Roedd y newid i'w briodoli'n bennaf i effaith mewnfudo. Dros y ddegawd ddiwethaf (canol 2001 i ganol 2011) mae 2,350 o bobl ar gyfartaledd bob blwyddyn wedi mewnfudo i Ynys Môn o weddill y DU. Mae hyn yn cyfateb i boblogaeth Y Fali. Mae pobl wedi bod yn allfudo hefyd, ond gan fod nifer y rhain yn llai bob blwyddyn na'r nifer sy'n mewnfudo, yn gyffredinol bu mudo net positif oddeutu 150 o bobl bob blwyddyn.

Ym Môn, mae'r allfudo ar ei uchaf ymysg y grŵp oedran 15-29 gydag oddeutu 180 mwy o bobl o'r grŵp oedran yma ar gyfartaledd yn symud allan o'r sir nag yn symud i mewn iddi.[2] Ymysg y rhesymau tebygol am hyn yw bod myfyrwyr llawn amser yn symud i astudio a phobl ifanc sydd newydd raddio a phobl ifanc yn symud o Fôn i ddilyn gyrfaoedd.

Mae mewnfudo ar ei uchaf ymysg y grŵp oedran 45-59 gydag 130 yn fwy o bobl o'r grŵp oedran hwn ar gyfartaledd yn symud i'r sir nac yn symud allan. Mae'n debyg mai'r prif reswm am hyn yw bod pobl yn dewis symud i Fôn i ymddeol[3].

[2] Llywodraeth Cymru, Cyflwyniad i Fforwm Iaith Strategol Ynys Môn 24/09/13

[3] Cyngor Gwynedd ar ran Cyngor Sir Ynys Môn (2014), *Darlun o sefyllfa'r Gymraeg yn Ynys Môn* (tudalen 25)

Nod y Cyngor yw ceisio denu'n ôl y siaradwyr Cymraeg sydd wedi allfudo, efallai i astudio neu i ddilyn gyrfaoedd ac i fagu teuluoedd.  Er mwyn llwyddo, rhaid sicrhau cyfleon gwaith cadarnhaol, cyfleoedd cymdeithasol amrywiol a safonau addysg uchel gyda'r Gymraeg yn elfen hanfodol o'r ffordd hon o ddysgu, gweithio a byw.

Mae cynlluniau blaenorol sydd wedi'u cynnal gan y Fenter Iaith a phartneriaid eraill yn dangos effaith bositif cynlluniau sy'n helpu newydd ddyfodiaid a mewnfudwyr i gymhathu yn llawn i'w cymunedau newydd.  Drwy gynlluniau arloesol sy'n cyflwyno cyd-destun a hanes y Gymraeg, traddodiadau a diwylliant lleol a sicrhau cefnogaeth Cymry Cymraeg lleol i arddel eu Cymraeg a'u Cymreictod, gellir dylanwadu a chefnogi ymdrechion newydd ddyfodiaid i ddysgu Cymraeg a bod yn rhan o'r ardal y maent yn ymgartrefu ynddi.

## Ffocws y Strategaeth

Mae meysydd blaenoriaeth y strategaeth hon wedi'u llunio fel eu bod yn cyd-fynd gyda meysydd strategol 'Iaith fyw: iaith byw - Strategaeth y Gymraeg 2012-2017' sef strategaeth Llywodraeth Cymru.  Fe wnaed hyn er mwyn sicrhau bod rhaeadru strategol a chysondeb o'r lefel uchaf i'r lefel lleol.  Mae rhai o feysydd blaenoriaeth strategaeth y Llywodraeth wedi'u cyplysu yn y strategaeth hon, er hwylustod, ac fe adnabyddir tri maes blaenoriaeth:

Maes Blaenoriaeth 1 - **Plant a Phobl Ifanc / Y Teulu**

Maes Blaenoriaeth 2 - **Y Gweithle, Gwasanaethau Cymraeg, Y Seilwaith**

Maes Blaenoriaeth 3 - **Y Gymuned**

## Maes Blaenoriaeth 1 - Plant a Phobl Ifanc / Y Teulu

Mae maes blaenoriaeth cyntaf y Strategaeth Iaith yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc a'r teulu gan fod trosglwyddiad iaith o un genhedlaeth i'r llall, ynghyd ag addysg yn cael eu hystyried yn ddau o'r meysydd pwysicaf o ran cynllunio ieithyddol. Mae ffocws y strategaeth yn ogystal ar sicrhau cyfleon i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.

**Nod:**

**Cynnydd yn nifer y teuluoedd lle defnyddir y Gymraeg fel prif iaith gyda'r plant gyda chynnydd yn y cyfleon a'r gefnogaeth i'w defnyddio'n gymdeithasol a sicrhau cynnydd**

**Sicrhau fod pob plentyn yn cael yr hawl i fod yn gwbl ddwyieithog erbyn cyrraedd 16 oed**

**Cynyddu'r capasiti a'r defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu a dysgu ymysg plant a phobl ifanc mewn addysg a thrwy weithgareddau cymdeithasol**

**Y canlyniad a ddymunir:**

Cynnydd yn nifer y plant a phobl ifanc sy'n defnyddio'r iaith bob dydd yn yr ysgol ac yn gymdeithasol

Cynnydd yn nifer y teuluoedd sy'n defnyddio'r Gymraeg fel prif iaith gyda'u plant

**Dangosyddion**

100% Ysgolion wedi nodi yn eu Cynlluniau Datblygu eu bod yn rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg a'r Siarter Iaith ac yn gwneud cynnydd

% isaf sy'n derbyn asesiad Cymraeg iaith gyntaf ym mis Mai 2017:

| Cyfnod Sylfaen | CA2 | CA3 | CA4 |
|---|---|---|---|
| 76% | 76% | 68% | 66% |

Sicrhau cynnydd o 10% (ar sail cohort y flwyddyn) mewn 3 blynedd o ran y disgyblion sy'n astudio Cymraeg iaith gyntaf, a chynnydd pellach o 5% erbyn 2022

Sicrhau cynnydd o 5% yn nifer y dysgwyr sy'n astudio o leiaf 5 pwnc arall heblaw'r Gymraeg trwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel TGAU erbyn 2020, a chynydd pellach o 5% erbyn 2022

Cynnydd o 5% yn nifer y dysgwyr 16-19 oed sy'n astudio cyrsiau addysg bellach trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog erbyn 2020

Cynnydd yn nifer y plant sy'n cymryd rhan yn y gwersi nofio cyfrwng Cymraeg

Nifer o weithgareddau chwaraeon a hamdden sy'n prif lifo'r Gymraeg

**Gweler y cynllun gweithredu ar gyfer blwyddyn 1. Bydd y cynllun yn cael ei ddiweddaru'n flynyddol.**



DRAFT

## Trosglwyddiad iaith

Mae strategaeth Llywodraeth Cymru Iaith *Fyw: iaith byw 2012-2017* yn nodi pwysigrwydd trosglwyddiad iaith o un genhedlaeth i'r llall fel elfen greiddiol yn y broses o gynnal iaith. Mae cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd yn un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru ar gyfer diogelu dyfodol y Gymraeg. "*Nid yw'r Gymraeg yn debygol o ffynnu fel iaith gymunedol a chymdeithasol os yw'n dibynnu ar y system addysg yn unig fel ffordd o alluogi siaradwyr newydd i ddysgu'r iaith. Mae angen iddi fod yn iaith y cartref i gynifer o blant â phosibl, ac yn ddiamau, mae caffael yr iaith yn y modd hwn yn ffordd naturiol ac effeithiol o ddatblygu'n siaradwr Cymraeg rhugl*"[4]

Nodir yn adroddiad *Cynyddu nifer y cymunedau lle defnyddir y Gymraeg fel prif iaith* (Llywodraeth Cymru, Rhagfyr, 2013) y gall proffil a statws iaith o fewn cymuned fod yn ffactorau pwysig yng nghyd-destun trosglwyddo iaith. Ategir hyn gan adroddiad *Asesiad Effaith: Twf ac Ymlaen (Prifysgol Bangor, 2008)* sy'n awgrymu fod cysylltiad rhwng y ffactorau hyn ac awydd rhieni i drosglwyddo'r iaith i'w plant.

Dengys ffigyrau Cyfrifiad 2011 yn Nhabl 11 isod bod 80.1% o blant 3-4 oed yn Ynys Môn yn siarad Cymraeg pan fo 2 riant yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd. Mae'r canran hwn yn gostwng i 47.5% pan mai dim ond un o'r ddau riant sy'n siarad Cymraeg. Gwelir gostyngiad pellach i 20% mewn cartrefi lle nad oes unrhyw un o'r ddau riant yn siarad Cymraeg.

Mae ffigyrau'r Cyfrifiad yn Nhabl 11 hefyd yn dangos bod gostyniad rhwng 2001 a 2011 o 49.1% i 47.5% o blant 3-4 oed yn siarad Cymraeg ar aelwydydd 2 riant sy'n siarad Cymraeg a gostyngiad o 69.8% i 60.8% ar aelwydydd un rhiant sy'n siarad Cymraeg. I'r gwrthwyneb, ac yn unol â'r duedd genedlaethol, dengys y ffigyrau bod cynnydd o 15.5% i 20.6% yn y nifer o blant 3-5 oed sy'n siarad Cymraeg ar aelwydydd dau riant lle nad yw'r naill riant na'r llall yn siarad Cymraeg.

Dengys y ffigyrau hyn ei bod yn bwysig argyhoeddi rhieni sy'n siarad Cymraeg o werth trosglwyddo'r iaith i'w plant a bod angen cefnogaeth arnynt i'w galluogi i sicrhau bod eu plant yn cael y profiadau angenrheidiol i ddatblygu eu sgiliau iaith o oedran cynnar. Ar nodyn cadarnhaol, gellir dod i gasgliad bod dylanwad y gyfundrefn addysg ym Môn wedi llwyddo i gynyddu sgiliau cyfrwng Cymraeg plant 3-4 oed ar aelwydydd dau riant sydd ddim yn gallu siarad Cymraeg o 5% dros y ddegawd rhwng y ddau Gyfrifiad. Dyma un o feysydd blaenoriaeth gwaith y Fenter Iaith. Drwy weithio gyda darpar rieni, teuluoedd a phlant ifanc, crëir cyswllt â'r gymuned, teuluoedd a phartneriaid yn yr ardal gan gyd-lynu a chynnal gweithgareddau Cymraeg i deuluoedd yn lleol fel rhan o weledigaeth ehangach Menter Iaith Môn. Fel rhan o'r flaenoriaeth hon, ac er mwyn sicrhau dilyniant i brosiect TWF (sydd bellach wedi'i ddiddymu), mae perthynas wedi ei chreu gyda'r Mudiad Meithrin ar yr Ynys gydag ymdrechion i sefydlu darpariaethau fel cylchoedd Ti a Fi newydd.

[4] Llywodraeth Cymru (2012), Iaith fyw: iaith byw – Strategaeth y Gymraeg 2012 -2017 (tudalen 25)



DRAFT

**Tabl 11: Cyfraddau trosglwyddo’r Gymraeg, 2001 & 2011**

| Aelwydydd un teulu â phlant 3-4 oed | Ynys Môn | | Cymru | |
|---|---|---|---|---|
| | 2001 | 2011 | 2001 | 2011 |
| Pâr – Dau oedolyn yn gallu siarad Cymraeg | 79.0% | 80.1% | 82.0% | 82.2% |
| Pâr - Un oedolyn yn gallu siarad Cymraeg | 49.1% | 47.5% | 39.9% | 45.4% |
| Pâr - Dim oedolyn yn gallu siarad Cymraeg | 15.5% | 20.6% | 8.6% | 13.2% |
| Un rhiant – Oedolyn yn gallu siarad Cymraeg | 69.8% | 60.8% | 55.3% | 53.3% |
| Un rhiant - Oedolyn ddim yn gallu siarad | 25.2% | 25.4% | 9.8% | 14.4% |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 –C0156; Cyfrifiad 2011 - Tabl DC2601WA*

DRAFT

## Cynllun Addysg Gymraeg Ynys Môn

Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae 11,861 o blant a phobl ifanc dan 16 oed yn byw yn Ynys Môn sy’n cyfateb i 17% o’r boblogaeth. O’r rhain, mae 54.1% o blant 3-4 oed yn siarad Cymraeg ac 80.1% o blant rhwng 5-15 oed yn siarad Cymraeg. Mae cynnydd o 2.3% yn y grŵp oedran 5-15 oed ers Cyfrifiad 2001 sy’n adlewyrchiad o ddylanwad positif Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y Sir i ddatblygu sgiliau iaith.

Ers mis Medi, 2004 mae pob plentyn 3 oed wedi cael y cynnig o addysg hanner amser am ddim. Gall yr addysg honno gael ei darparu un ai mewn ysgol a gynhelir neu mewn lleoliadau a gyllidir (Jones, 2012, tud 64). Mae’r lleoliadau a gyllidir yn cynnwys oddeutu 50 o gylchoedd Mudiad Ysgolion Meithrin ar yr ynys. Amcan penodol addysg feithrin Cyngor Sir Ynys Môn yw sicrhau y rhoddir i bob plentyn sylfaen gadarn yn y Gymraeg er mwyn ei alluogi i gyrraedd y nod o ddwyieithrwydd llawn maes o law.

Mae Polisi Iaith Addysg y Sir yn gosod y nod uchelgeisiol o “sicrhau bod holl ddisgyblion y Sir yn meddu ar y sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a’r Saesneg i fod yn aelodau cyflawn o’r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni”. Er mwyn sicrhau y gall yr holl ysgolion gyflawni’r nod, byddwn yn adolygu'r polisi yn ystod 2016-2017. Ceir 47 ysgol gynradd, pum ysgol uwchradd ac un ysgol arbennig ym Môn.

Mae’r mwyafrif o blant sy’n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf yn yr ysgol yn cael eu hasesu mewn Cymraeg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1 neu’r Cyfnod Sylfaen ers 2011 (sef diwedd blwyddyn 2). [5]

Dangosir isod nifer disgyblion yng ngharfan CA1 (CS o 2012 a’r nifer a aseswyd yn y Gymraeg fel Iaith Gyntaf:

[5] Cyngor Gwynedd ar ran Cyngor Sir Ynys Môn (2014), Darlun o sefyllfa’r Gymraeg yn Ynys Môn (tudalen 35)

| | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CA1 | 456/650 | 469/682 | 510/678 | 468/671 | 520/721 | 539/755 |
| | **70%** | **69%** | **75.2%** | **69.7%** | **72.1%** | **71.4%** |
| */nifer a asesir/nifer yn y garfan | | | | | | |

Dengys ystadegau 2015 bod 539 o ddisgyblion saith oed Ynys Môn wedi derbyn asesiad Cymraeg. Llwyddodd 89.8% o'r disgyblion hynny gyrraedd Deilliant 5 neu well yn eu hasesiad:

| | | |
|---|---|---|
| Deilliant 5+ | 484 / 539 | 89.8% |

Mae amrywiaeth o ran lefel yr her mewn dalgylchoedd ac mae hyn yn cyfrannu at lwyddiant hybu dwyieithrwydd ymysg disgyblion ac mae data cyfrifiad CYBLD yn dangos faint o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg adref yn rhoi syniad da o'r dasg sy'n wynebu ysgolion.

Mae'r Gwasanaeth Addysg yn adnabod yr angen o fewn y strategaeth hon i gefnogi ysgolion cynradd ble mae'r her yn uchel i gynyddu'r nifer o ddisgyblion sy'n derbyn asesiad Cymraeg megis ardal Caergybi a chynyddu'r canrannau'n sy'n cael eu hadrodd i'r Llywodraeth.

Mae targed wedi'i osod erbyn 2017 i sicrhau bod 76% o blant saith oed yn derbyn asesiad Cymraeg (iaith gyntaf). Wrth gydweithio i newid sefyllfa ysgolion ble mae'r her ieithyddol uchaf, anelir at gynyddu'r nifer o ddysgwyr a adnabyddir fel dysgwyr iaith gyntaf Cymraeg fel a ganlyn:

| | 2017 | 2019 | 2021 |
|---|---|---|---|
| CS | 76% | 84.8% | 89.5% |
| CA2 | 76% | 89.5% | 89.5% |
| CA3 | 68% | 76% | 89.7% |

**Addysg Bellach**

Sefydlwyd Grŵp Llandrillo Menai yn Ebrill 2012 pan unwyd Coleg Llandrillo a Choleg Menai. Mae'r Grŵp yn gweithredu fel darparwr addysg bellach bennaf o fewn pedair sir yn y gogledd, sef Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych a Gwynedd.

Mae'r sefydliad yn wynebu nifer o heriadau mewn perthynas â darpariaeth addysgol cyfrwng Cymraeg megis:

- cryfhau canfyddiadau positif myfyrwyr o'r sefydliad fel darparwr dwyieithog; codi hyder myfyrwyr i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg;
- Grymuso capasiti a sgiliau staff i ddarparu trwy gyfrwng y Gymraeg;
- Pwyso ar fyrddau dyfarnu i gynnig cymwysterau yn y Gymraeg;
- Cynyddu ymwybyddiaeth am fanteision y Gymraeg fel sgil cyflogaeth.



DRAFT

Isod, ceir manylion am nifer a chanran y myfyrwyr llawn amser sy'n astudio a'u hasesu ar gyfer o leiaf un modiwl o'u cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg ar draws y tri choleg sy'n rhan o Grŵp Llandrillo Menai (Coleg Meirion-Dwyfor (CMD), Coleg Menai (CM), Coleg Llandrillo (CLl):

| | 2014-2015 Rh/N | 2014-2015 % |
|---|---|---|
| Nifer o fyfyrwyr llawn-amser yn y coleg | Grŵp 6137 | Grŵp 100% |
| | C Ll 3199 | C Ll 52% |
| | CMD 1207 | CMD 20% |
| | CM 1731 | CM 28% |
| Nifer a chanran o fyfyrwyr llawn-amser sy'n astudio o leiaf un modiwl o'u cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg | Grŵp 2503 | Grŵp 41% |
| | C Ll 15 | C Ll 0.5% |
| | CMD 1154 | CMD 95.6% |
| | CM 1334 | CM 77.07% |

| | 2014-2015 Rh/N | 2014-2015 % |
|---|---|---|
| Nifer a chanran o fyfyrwyr sy'n cael eu hasesu mewn o leiaf un modiwl o'u cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog | Grŵp 26 | Grŵp 0.42% |
| | C Ll 1 | C Ll 0.03% |
| | CMD 814 | CMD 67.4% |
| | CM 206 | CM 11.9% |

Mae Grŵp Llandrillo Menai wedi sefydlu trefn mesur a thracio dysgwyr yn y cyfnod ôl-16 sy'n parhau i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog er mwyn cynyddu a chynnal defnydd o'r Gymraeg ymysg dysgwyr ôl-16 yn y sector Addysg Bellach. Mae'r drefn yma'n golygu mai ar lefel Coleg a maes rhaglen mae'r tracio'n digwydd sy'n golygu nad oes modd rhannu data ar fyfyrwyr sy'n byw yn Ynys Môn yn unig. Fodd bynnag, mae'n berthnasol edrych ar ddata'r tri choleg ac yn enwedig Coleg Menai gan mai dyma ble mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr sy'n byw ar yr ynys yn astudio'u cyrsiau Addysg Bellach.

Bwriedir gosod targedau ar gyfer cynnydd yn y ddarpariaeth ddwyieithog ar lefel pob maes rhaglen erbyn Medi 2016 gyda hynny'n arwain at gynnydd yn y ddarpariaeth ddwyieithog.

**Defnydd cymdeithasol plant a phobl ifanc o'r Gymraeg**

Er llwyddiant Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y Sir i ddatblygu sgiliau iaith ymhlith plant a phobl ifanc, cydnabyddir ei bod yn anodd bob amser i fesur defnydd o'r Gymraeg y tu allan i awyrgylch ystafell ddosbarth ac mewn sefyllfaoedd cymdeithasol.

Mae'r Siarter Iaith, sydd wedi'i mabwysiadu yn ysgolion Môn, yn darparu strwythur i arwain at gynnydd yn nefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg. Mae'r Siarter yn gofyn am gyfranogiad gan bob aelod o gymuned yr ysgol sef y cyngor ysgol, y disgyblion, y gweithlu, rhieni, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach er mwyn sicrhau perchenogaeth lawn ohoni. Mae'r ysgolion yn gweithio tuag at wobrau efydd, arian ac aur gan anelu am y wobr aur dros gyfnod o dair blynedd. Ar gychwyn y broses, sefydlir gwaelodlin gyda thystiolaeth bendant o'r sefyllfa ieithyddol yng nghymuned yr ysgol dan sylw fel bod modd datblygu gweledigaeth unigol ar gyfer yr ysgol honno maes o law. Mae gosod targedau a mesur cynnydd yn angenrheidiol wrth weithredu'r Siarter Iaith a bydd pob ysgol yn gallu llunio camau gweithredu sy'n addas ar eu cyfer nhw. Ceir 5 cam tua'r 'copa' sef y nod y mae'r ysgol yn ei hadnabod o fewn ei gweledigaeth bersonol. Yn ddibynnol ar gefndir ieithyddol y disgyblion, gall y targedau amrywio o sefydlu'r arfer o siarad Cymraeg, newid agweddau, codi hyder ieithyddol i ddylanwadu ar niferoedd siaradwyr Cymraeg tu hwnt i furiau'r ysgol a'r buarth i loywi a sicrhau cywirdeb ieithyddol. Mae'r Siarter Iaith hefyd yn annog rhieni i ddysgu Cymraeg oherwydd y manteision amlwg a geir, nid yn unig o fedru cynorthwyo eu plant a gwerthfawrogi eu cynnydd, ond hefyd er mwyn cymhathu'n gymunedol, gwella cyfleoedd gyrfaol ac o ran agweddau hunaniaeth. Yn hynny o beth, bydd yn cydweithio'n agos gyda Chonsortiwm Dysgu Cymraeg y gogledd-orllewin er mwyn cynllunio a chynnig hyfforddiant pwrpasol i rieni.

Mae nifer o fudiadau yn darparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar yr ynys a nod y strategaeth iaith yw cynllunio'n fwriadus i normaleiddio a phrif lifo'r Gymraeg i weithgareddau cymdeithasol sy'n digwydd eisoes ac i rai o'r newydd. Mae'r Cyngor Sir yn gyfrifol am gynnal 26 Clwb Ieuenctid, pum Canolfan Wobr Agored yn nalgylch pob ysgol uwchradd a Chlwb Achredu Amser Cinio yn Ysgol Uwchradd Caergybi.

Mae gan yr Urdd 58 o ganghennau ar yr ynys gyda 11 adran gymunedol yn darparu ystod o gyfleoedd cymdeithasol i blant a phobl ifanc yr ynys. Nodir yn Adroddiad Blynyddol Urdd Gobaith Cymru ar gyfer Ynys Môn am 2015-2016 bod 4801 o unigolion wedi cofrestru ar gyfer cystadlaethau eisteddfodol a 1477 o unigolion wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon dros y cyfnod adrodd dan sylw. Mae'n nod gan y mudiad yn lleol i gynyddu ei gyrhaeddiad trwy'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol.

Ceir chwe chlwb Ffermwyr Ifanc mewn mannau daearyddol amrywiol ar yr ynys sef, Bodedern, Dwyran, Llangefni, Llangoed, Penmynydd a Rhosybol.

Mae'r Ffermwyr Ifanc yn fudiad ieuenctid gwledig i bobl Ifanc 10-26 oed sy'n gweithredu ledled y wlad, er mwyn diwallu anghenion pobl ifanc cefn gwlad. Mae'r Ffermwyr Ifanc yn cynnig amrywiaeth o raglenni addysgol, hyfforddiant a chymdeithasol, sy'n annog datblygiad personol, gweithgarwch cymunedol, pryder am yr amgylchedd a rhyngweithiadau cymdeithasol. Prif bwrpas y mudiad yw creu cyfleoedd i alluogi'r aelodau i ddisgleirio.

Ceir staff ieuenctid arbenigol o fewn Menter Iaith Ynys Môn sy'n gweithio mewn gwahanol feysydd i ddatblygu gweithgareddau, cynnal gweithdai a sesiynau a darparu cyfleoedd cymdeithasol amrywiol. Mae'r rhain yn cynnwys gweithdai wythnosol o dan arweiniad tiwtoriaid drama proffesiynol o fewn Theatr Ieuenctid Môn, prosiect creu cerddoriaeth *'Bocsŵn'*, y '*Rhwydwaith Perfformwyr Ifanc'* sy'n cynnig cyfle i bobl ifanc drefnu gigs eu hunain a'r '*Prosiect Radio'* sydd wedi lleoli offer radio ymhob un o'r pum ysgol uwchradd ar yr ynys ar gyfer darlledu rhaglenni. Ceir hefyd y prosiect *'Cyfle:Creu=Cofio'* sy'n brosiect digidol lle gall pobl ifanc greu eitemau ffilm a radio eu hunain yn olrhain ac egluro elfennau o dreftadaeth y Gymraeg ar yr ynys. Mae'r Fenter Iaith hefyd yn darparu cyflwyniadau ymwybyddiaeth iaith i annog pobl ifanc i fynegi eu barn am y Gymraeg ynghyd â dysgu am fanteision cymdeithasol ac economaidd yr iaith.

DRAFT

## Maes Blaenoriaeth 2 – Y Gweithle, Gwasanaethau Cymraeg, Y Seilwaith

Mae ail faes blaenoriaeth y Strategaeth Iaith yn canolbwyntio ar y gweithle, gwasanaethau Cymraeg a'r seilwaith.  Yr amcan yma yw adnabod cyfleoedd i gynllunio'n fwriadus i brif-lifo'r Gymraeg yn naturiol i'r meysydd blaenoriaeth hyn.

**Nod**

**Hybu a chynyddu argaeledd gwasanaethau Cymraeg, cynyddu cyfleoedd/disgwyliadau i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle a chydweithio i adnabod cyfleoedd i brif-lifo'r iaith i ddatblygiadau a gweithgareddau.**

**Y canlyniad a ddymunir:**

Cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg fel iaith weinyddol y Cyngor Sir.

Cynnydd ym mhroffil y Gymraeg fel sbardun ar gyfer newid gan Gyngor Sir Ynys Môn a Chynghorau Tref a Chymuned.

**Dangosydd**

Cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg yng ngweinyddiaeth y Cyngor Sir fel iaith lafar a/neu ysgrifenedig

100% o asesiadau o'r effaith ar yr iaith yn cael eu cynnal ar gyfer unrhyw ddatblygiadau tai, economaidd/busnes

Nifer y polisïau iaith gan ddatblygwyr ac effaith gweithredu'r polisi mewn * mis

% cynnydd yn nifer y rhai sy'n dilyn cyrsiau dysgu Cymraeg

Nifer y rhai sy'n dilyn cyrsiau dysgu Cymraeg

Cynnydd yn y gwaith i bobl leol yn y datblygiadau mawr

**Gweler y cynllun gweithredu ar gyfer blwyddyn 1.  Bydd y cynllun yn cael ei ddiweddaru'n flynyddol.**

DRAFT

### Y Gymraeg yn y gweithle

Y gweithle yw un o'r meysydd allweddol sy'n pennu pa iaith y mae pobl yn ei defnyddio.  Bu i nifer sylweddol o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad gan Llywodraeth Leol ar *Iaith Fyw: Iaith Byw – Strategaeth y Gymraeg 2012-17* gytuno "bod gan y gweithle rôl allweddol o ran ennyn hyder ymhlith siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith mewn agweddau eraill yn eu bywydau … a bod datblygu statws yr iaith yn y gweithle yn bwysig o safbwynt pwysleisio gwerth addysg cyfrwng Cymraeg" (Llywodraeth Cymru, 2012, tud 37).[6]

[6] Cyngor Gwynedd ar ran Cyngor Sir Ynys Môn (2014), Darlun o sefyllfa'r Gymraeg yn Ynys Môn (tudalen 39)

Yn 2013, cynhaliwyd arolwg ymhlith dros 4,000 o gyflogwyr yng Nghymru a weithredai mewn wyth sector i ddarparu gwybodaeth fanwl gywir a dibynadwy am anghenion cyflogwyr o ran sgiliau Cymraeg. Yn ôl yr arolwg, roedd 81% o siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg gyda chydweithwyr o leiaf o bryd i'w gilydd weithiau lle mae'r cyflogwr yn gefnogol i'r defnydd o'r Gymraeg yn y rhan fwyaf o agweddau ar waith y busnes. Roedd y ganran ychydig yn is ymhlith gweithwyr nad oedd eu cyflogwyr yn gefnogol i'r defnydd o'r Gymraeg mewn amgylchiadau anffurfiol, tra'r oedd 51% yn dweud eu bod yn siarad Cymraeg â'u cydweithwyr ond nad yw'r cyflogwr yn gefnogol i'r iaith.

Yng Ngwynedd ac Ynys Môn, dywedodd naw o bob 10 siaradwr Cymraeg sydd mewn gwaith eu bod yn siarad Cymraeg gyda chydweithwyr o leiaf weithiau.

Mae'n ymddangos hefyd bod yr unigolion hynny sydd yn gweithio i gyflogwyr sydd yn gefnogol i'r defnydd o'r Gymraeg yn y rhan fwyaf o agweddau'r busnes lawer yn fwy tebygol o ysgrifennu rhywbeth yn y Gymraeg. Roedd 64% yn ysgrifennu rhywbeth yn Gymraeg yn y gwaith o leiaf weithiau. Er hyn, roedd bron i draean yn dweud eu bod yn ysgrifennu rhywbeth yn y Gymraeg yn eu gwaith o leiaf weithiau, er nad oeddent o'r farn bod eu cyflogwr yn gefnogol i'r iaith. Roedd bron i dri chwarter y gweithwyr yn y sector cyhoeddus o'r farn bod eu cyflogwr yn gefnogol i ddefnydd ffurfiol ac anffurfiol o'r Gymraeg o fewn y busnes o'i gymharu â 41% yn y sector preifat.

Os am gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, mae codi ymwybyddiaeth am y gwasanaethau Gymraeg sydd ar gael a'u hamlygrwydd yn rhan ganolog o'r defnydd a wneir ohonynt. Yn ôl yr arolwg o gyflogwyr yng Nghymru a gynhaliwyd yn 2013, roedd gweithwyr a oedd yn siarad Cymraeg yn y sector cyhoeddus bron i dair gwaith yn fwy tebygol na gweithwyr yn y sector preifat o gael cynnig rhywbeth gan eu cyflogwyr i ddangos eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Mae canlyniadau Adroddiad Ymchwil ar Wasanaethau Cymraeg Awdurdodau Lleol (Beaufort Research Cyf 2015), yn cefnogi'r angen i godi ymwybyddiaeth, hy bod 80% o'r siaradwyr Cymraeg rhugl yng Ngogledd Cymru yn cytuno â'r datganiad *"Os ydw i'n gwybod y gallaf ymwneud ag adran berthnasol yn yr awdurdod lleol yn Gymraeg, byddaf yn gwneud hynny bob amser".*

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn ymrwymedig i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn ei weinyddiaeth fewnol, yn llafar ac yn ysgrifenedig, a phenderfynodd y Cyngor Sir yn ei gyfarfod ar 12 Mai, 2016 i fonitro cynnydd yn flynyddol trwy gyhoeddi adroddiad i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini ar yr un pryd â'r adroddiad blynyddol ar weithrediad y Polisi Iaith Gymraeg. Bydd y broses yn cychwyn trwy sefydlu gwaelodlin o'r nifer sy'n gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg o fewn y sefydliad. Mae'n fwriad hefyd i adolygu Polisi Iaith y Cyngor erbyn Mai, 2018.

Fel rhan o’r broses cynllunio ieithyddol, bydd y Cyngor yn dynodi pa sgiliau ieithyddol llafar ac ysgrifenedig sydd eu hangen ar gyfer pob swydd ac fe asesir sgiliau iaith y gweithlu er mwyn monitro nifer y siaradwyr Cymraeg. Darperir yn ogystal, cyrsiau addas, ar bob lefel, yn ystod oriau gwaith i gyflogeion y Cyngor rymuso eu sgiliau Cymraeg.

**Argaeledd gwasanaethau Cymraeg**

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 wedi creu newid sylfaenol tuag at ddarparu dewis iaith ac angen iaith gan symud y cyfrifoldeb am sicrhau gwasanaethau addas oddi ar ysgwyddau’r defnyddiwr i’r darparwr. Mae’r Safonau Iaith ddaeth yn sgîl y Mesur yn arwain at greu hawliau fel y gall siaradwyr Cymraeg dderbyn gwasanaethau yn Gymraeg. Yn ogystal, cyhoeddwyd ‘*Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol - Mwy na Geiriau’* yng nghyd-destun gofynion cyfreithiol y Mesur. Mae’r Safonau Iaith a Mwy na Geiriau ynghlwm i’r egwyddor o ddarparu’r ‘cynnig rhagweithiol’ o ddewis iaith i’r defnyddiwr.

Mae’r Cyngor Sir bellach yn ddarostyngedig i’r Safonau Iaith a bydd nifer o gyrff partneriaethol yn derbyn hysbysiadau cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg maes o law. Bydd y strategaeth hon yn nodi’r camau gweithredu gogyfer gweithredu egwyddorion *Mwy na Geiriau*.

DRAFT

## Maes Blaenoriaeth  3 – Y Gymuned

Mae trydydd maes blaenoriaeth y Strategaeth Iaith yn canolbwyntio ar hyrwyddo'r Gymraeg ar lefel cymunedol.

Mae *Strategaeth Llywodraeth Cymru Iaith Fyw:Iaith Byw 2012-2017* yn nodi fod heriau penodol yn amrywio o ardal i ardal ond maent yn debygol o gynnwys rhai materion cyffredin.  Mae'r farchnad dai yn ansefydlog ar yr ynys gyda phrinder tai fforddiadwy ar gyfer y boblogaeth leol. Yn ogystal, mae diffyg swyddi sefydlog sy'n talu'n dda a gorddibyniaeth ar y sector gyhoeddus/darparu ynghyd â rhai diwydiannau penodol megis twristiaeth ac amaeth. Mae'r rhain yn heriau gwirioneddol o ran cadw pobl ifanc a theuluoedd ar yr ynys.

Mae cyfraddau trosglwyddiad iaith hefyd yn her o fewn y gymuned gyda nifer isel o rieni/gofalwyr yn trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant, statws isel yr iaith o fewn y gymuned, diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar lefel cymunedol ac effaith lefelau mewnfudo ac allfudo ar ddemograffeg yr ynys.  Er mwyn i gymunedau ffynnu, mae'n bwysig hefyd bod cyfleoedd i drigolion yr ynys a mewnfudwyr ddefnyddio'r Gymraeg a'i defnyddio'n gymdeithasol.

Cydnabyddir bod yn rhaid i'r gwaith adnewyddu ieithyddol fynd law yn llaw â'r gwaith o wella'r seilwaith cymdeithasol ac economaidd.

**Nod**

**Hyrwyddo a marchnata gwerth a phwysigrwydd y Gymraeg**

**Hyrwyddo ac adnabod cyfleoedd i gryfhau'r  Gymraeg o fewn y cymunedau ac adnabod bylchau mewn darpariaeth.**

**Y canlyniad a ddymunir**
Cynnal y wardiau  lle mae 70% o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg a chynyddu canrannau gweddill y  wardiau eraill.

**Dangosydd**
Cynnydd yn y wardiau sydd â dros 70% yn siarad Cymraeg
Cynnydd yn y wardiau sydd â dros 50% yn siarad Cymraeg
Nifer y gweithgareddau a gynhelir i gymhathu dysgwyr y Gymraeg
Nifer y dosbarthiadau Cymraeg yn y gymuned neu Gymraeg i'r teulu
Cynnydd yn y nifer sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddoli cyfrwng Cymraeg
Cynnydd yn y defnydd o'r ap cyfieithu
Cynnydd yn nifer y cyfarfodydd o fewn y Cyngor Sir a gynhelir trwy gyfrwng y Gymraeg
Nifer yr ymweliadau i'r safle we sy'n hysbysebu gweithgareddau cyfrwng Cymraeg
Nifer datblygiadau sy'n cyd-fynd gyda pholisiau'r Cynllun Datblygu Lleol
Nifer o dai gwag ar yr ynys sy'n dod yn ôl i ddefnydd fel tai parhaol
Nifer pecynnau croeso a ddosbarthwyd i fewnfudwyr/a lawrlwythwyd

**Gweler y cynllun gweithredu ar gyfer blwyddyn 1.  Bydd yn cael ei ddiweddaru'n flynyddol.**

DRAFT

## Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ar lefel gymunedol

Mae Menter Iaith Môn yn weithredol ar hyd a lled yr ynys gan sicrhau bod dewis amrywiol o weithgareddau a digwyddiadau cyfrwng Cymraeg cadarnhaol yn cael eu cynnig i bob oedran fel bod cydnabyddiaeth o werth cymdeithasol ac economaidd i'r Gymraeg. Mae'r Fenter Iaith yn gweithio yn yr ardaloedd hynny sydd â niferoedd uchel o siaradwyr Cymraeg er mwyn sicrhau bod yr ardaloedd hyn sydd o bwys strategol i'r Gymraeg yn cael eu cynnal ac yn ffynnu.

Mae'r Fenter Iaith hefyd yn cydnabod er mwyn i'r Gymraeg barhau i ffynnu, bod hefyd angen adnabod cyfleoedd i godi hyder trigolion i ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus yn yr ardaloedd sydd â niferoedd is o siaradwyr Cymraeg. Yn ôl canlyniadau Cyfrifiad 2011, mae bron i 20% o drigolion Caergybi yn nodi eu bod nhw'n deall Cymraeg llafar yn unig a 60% o bobl yn nodi eu bod yn deall Cymraeg ond yn peidio â'i defnyddio. I ymateb i'r her hon, mae'r Fenter wedi cychwyn gweithio'n ddwys yn ardal Caergybi gan leoli swyddog yn y dref er mwyn cydweithio gyda theuluoedd, plant a phobl ifanc a'r gymuned i adnabod cyfleoedd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar lefel cymdeithasol.

Er mwyn cynllunio'n fwriadus i'r dyfodol, adnabyddir yr angen i greu proffiliau ieithyddol o holl ardaloedd Ynys Môn. Byddai proffiliau o'r fath yn adnabod y bylchau mewn darpariaeth, yr awydd ymysg cymunedau i geisio sicrhau gwasanaethau Cymraeg yn lleol a chryfhau'r ddarpariaeth yn gymdeithasol i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r iaith. Byddai'r ymarferiad hefyd yn gyfle i hyrwyddo'r Gymraeg gyda'r sector fusnes a phwysigrwydd trosglwyddiad iaith o fewn y teulu. O gydweithio i adnabod cyfleoedd i godi hyder trigolion i siarad Cymraeg, ac adnabod a dylanwadu ar gyfleoedd er mwyn creu bwrlwm cymdeithasol Cymraeg a Chymreig, gallwn weithio tuag at yr amcan fod y Gymraeg yn cael ei harddel fel rhan o wead ac isadeiledd y gymuned gan greu cymunedau byw, a chreu cyswllt pwerus rhwng iaith-tai-gwaith.


Mae ymweliad yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2017 yn cynnig cyfle euraidd i hyrwyddo gweithgareddau Cymraeg sy'n codi arian tuag at ei chynnal, a thrwy gyfnod y strategaeth hon, byddwn am sicrhau bod effaith a gwaddol yr Eisteddfod yn bellgyrhaeddol.

## Y Cynllun Datblygu Lleol

Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol ar gyfer Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (Medi 2007) yn amlinellu bod sefydlogrwydd neu dwf cymedrol y boblogaeth, wedi'i gyfuno ag ansawdd bywyd da, economi gref, seilwaith o safon uchel a bywyd cymdeithasol a diwylliannol byrlymus, i gyd yn greiddiol i gynaladwyedd a chydlyniant y gymuned. Lle mae'r iaith Gymraeg yn rhan o wead cymdeithas yn y gymuned, mae ei thynged a'i lles yn anochel yn annatod wrth ffyniant ehangach y gymuned honno. Os yw datblygiad yn debygol o fod yn andwyol i unrhyw un o'r agweddau hyn, gall gael effaith niweidiol ar yr iaith Gymraeg hefyd. Fodd bynnag, os yw'n sensitif i'r cyd-destun lleol, e.e. yn cynnal yr economi leol, yna mae'r effaith yn llawer mwy tebygol o fod yn gadarnhaol. Mae adeiladu a gweithredu prosiectau a datblygiadau mawr yn waith sylweddol a allai sicrhau buddsoddi a buddion ehangach i'r ynys a'i chymunedau.

Fel yr amlinellir yng Nghynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn (sydd yn y cyfnod Adneuo), i sicrhau bod cymunedau'n datblygu mewn ffordd gynaliadwy, mae'n hanfodol, wrth ystyried unrhyw newidiadau, i ystyried yr holl ffactorau sy'n dylanwadu ar y sefyllfa a bod y datblygiad newydd sy'n cael ei gynllunio yn briodol a pherthnasol.

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cydweithio efo Cyngor Gwynedd i lunio Cynllun Datblygu Lleol (CDLl). Mae'r CDLl yn canolbwyntio ar faterion ac amcanion lleol, gan wneud hynny yn unol â strategaethau lleol a sylfaen o dystiolaeth. Mae'n ofynnol o dan Adran 61 Deddf Cynllunio Pryniant Gorfodol bod Awdurdodau Cynllunio Lleol yn cadw tystiolaeth ar y lefel gyfredol o'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ardal. Casglwyd a dadansoddwyd gwybodaeth o sawl ffynhonnell, gan gynnwys Cyfrifiad 2011. Mae'r diagram canlynol yn rhoi trosolwg o'r prif negeseuon:




Ar sail dadansoddiad o'r dystiolaeth, un o'r pynciau a ystyrir wrth baratoi'r CDLl yw sut y bydd y strategaeth a'r polisïau'n debygol o effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg a chynaliadwyedd cymunedau. Bydd dyfodol yr iaith yn dibynnu ar nifer fawr o ffactorau, yn enwedig addysg, newid demograffig, gweithgareddau cymunedol a sylfaen economaidd gadarn i gynnal cymunedau ffyniannus, cynaliadwy. Heb anghofio nad all y CDLl wahaniaethau ar sail gallu ieithyddol unigolion, gall y system cynllunio defnydd tir gyfrannu at les y Gymraeg yn y dyfodol trwy greu'r amodau fyddai'n caniatáu i gymunedau cynaliadwy ffynnu. Felly, mae'n bwysig bod y CDLl yn atgyfnerthu strategaethau fel y Strategaeth Iaith i hyrwyddo'r isadeiledd (tai, llefydd gwaith a chyfleusterau allweddol) i gynnal cymunedau'r Sir.

Mae Adran 70 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn ei gwneud yn glir y gellid ystyried effeithiau ar ddefnyddio'r Gymraeg, lle bo'n berthnasol i gais cynllunio, wrth benderfynu ar gais am ganiatâd cynllunio. Nid yw'r ddarpariaeth hon yn rhoi mwy o bwys ar yr iaith Gymraeg nag ar unrhyw ystyriaeth berthnasol arall ar adeg cyflwyno'r cais cynllunio. Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol yn rhoi arweiniad i sicrhau datblygiad sy'n ddigon da i'w caniatáu, gan gynnwys defnyddio mesurau lliniaru effeithiau andwyol a mesurau i hyrwyddo effeithiau cadarnhaol. Gellir defnyddio amodau cynllunio a chytundebau Adran 106, lle mae'n briodol ar gyfer darparu seilwaith sy'n cefnogi'r iaith Gymraeg.

**Tai**

Un o'r prif heriau ym Môn yw sicrhau cyflenwad digonol o dai fforddiadwy ar gyfer ein trigolion, tai o ansawdd a fydd yn gosod sylfaen gadarn iddynt i'w galluogi i weithio yma ym Môn a chynnal y defnydd o'r iaith Gymraeg.

Yn 2011, roedd poblogaeth Ynys Môn yn 69,751 gyda'r boblogaeth hon yn cael eu cartrefu mewn 34,183 o anheddau. Y prif ffactor sy'n diffinio fforddiadwyaeth cartref yw incwm.  Yn ystod 2015, yr incwm canolrifol i drigolion Môn oedd mewn swyddi llawn amser oedd £24,721 sydd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o £29,016 yn ôl y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol.

Mae pris canolrifol eiddo yma ym Môn yn £186,229 sydd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o £162,904.  Mae prisiau tai wedi cynyddu 21.7% yn ystod y cyfnod rhwng 2011 - 2015 o'i gymharu ag ychydig dan 10% fel cyfartaledd cenedlaethol. Golyga hyn bod prisiau tai ar y farchnad agored yma ym Môn 7.5 gwaith yr incwm canolrifol o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 5.6 gwaith yr incwm.

Wrth edrych ar yr ystadegau uchod gwelir yn glir iawn bod rhaid cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy yma ar yr ynys er mwyn sicrhau bod ein pobl ifanc sy'n cychwyn eu gyrfaoedd a bywyd gweithio yn gallu fforddio i gael cartref fforddiadwy o fewn eu cynefin ar yr ynys fel bod cyflogwyr yn gallu cyflogi siaradwyr Cymraeg o fewn eu gweithlu a bod hyn yn cynyddu'r defnydd o Gymraeg o fewn busnes a masnach. Dengys y rhagolygon demograffig  ar gyfer y cyfnod 2015 - 2026 y bydd angen 2420 o dai ychwanegol sy'n cyfateb i 220 y flwyddyn.

Fel rhan o'r datrysiad ar gyfer cyflenwi'r angen ychwanegol am dai, byddwn yn cymryd camau pellach i sicrhau ein bod yn dychwelyd cymaint ag y gallwn o dai gwag yn ôl i ddefnydd yn ogystal ag adeiladu tai newydd a rheoli tai a rhent sy'n eiddo i berchnogion preifat.

Wrth adeiladu tai newydd y tu allan i ardaloedd mwyaf trefol y sir, byddwn yn cynnal arolwg o anghenion tai fforddiadwy yn ardaloedd mwyaf gwledig y sir ac yn rhoi ystyriaeth i ddefnyddio tir eithriedig ar gyfer datblygu tai fforddiadwy  a fyddai ar gael gyda nifer o wahanol ddeiliadaethau  i fodloni'r galw, fel tai rhent cymdeithasol, rhent canolraddol yn ogystal â darpariaeth o dai fforddiadwy i bobl a fyddai'n dymuno bod yn berchen ar eu tai eu hunain.

I’r pwrpas o sicrhau bod trigolion Môn yn ymwybodol o’r ardaloedd lle bydd tai fforddiadwy ar gael, byddwn yn defnyddio gwefan Tai Teg i’w marchnata.

**Twristiaeth**

Mae twristiaeth yn sector sy’n gallu ac sydd wedi cyfrannu at ffyniant lleol ac ansawdd bywyd ym Môn. Yn dilyn Strategaeth Croeso Cymru, ‘*Partneriaeth ar gyfer TWF 2013-2020’*, bydd llwyddiant yn dibynnu ar weithio mewn ffordd sy’n arwain at greu partneriaethau cryf a chynhyrchiol. Bydd Croeso Cymru yn gweithio gyda’r diwydiant er mwyn cynorthwyo i ddatblygu a chyflwyno cynnyrch yn unol ag anghenion y farchnad a chreu llwyfannau i fusnesau hyrwyddo eu hunain.

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi cymeradwyo Cynllun Rheoli Cyrchfan 2016-2020, sydd yn ddatganiad o fwriad ar y cyd i reoli cyrchfan dros gyfnod penodol o amser gan ddiffinio rolau’r gwahanol randdeiliaid a nodi’r camau gweithredu. Bydd y cynllun, mewn rhannau yn canolbwyntio ar hyrwyddo’r iaith, diwylliant a hanes.

Trwy gydweithio, gellir datblygu diwydiant twristiaeth llwyddiannus a chynaliadwy sy’n creu cyfoeth i’r ynys ac sy’n defnyddio ac yn cynnal ei hamgylchedd a’r diwylliant arbennig.

Mae twristiaeth yn cyfrannu £260.45 miliwn (blwyddyn 2014) tuag at yr economi, arian y mae angen dybryd amdano, ac yn cefnogi dros 4,000 o swyddi ar yr Ynys. Yn ogystal, mae’r sector dwristiaeth yn:

- denu 330,000 o gerddwyr ar y Llwybr Arfordirol gan gynhyrchu £14 miliwn
- denu 1.58 miliwn o ymwelwyr yn flynyddol
- yn cofrestru 2.0 miliwn o ymwelwyr sy’n teithio drwy borthladd Caergybi yn flynyddol
- cefnogi gwasanaethau ac isadeiledd sy’n rhedeg ar draws ffiniau ac o fudd i bobl leol e.e. cysylltiadau cludiant, yr amrediad o siopau a gwasanaethau a chyfleusterau diwylliannol
- helpu i hyrwyddo delwedd gadarnhaol o’r Ynys i’r byd ehangach sydd, yn ei dro, yn gallu denu buddsoddiad a gwneud i bobl deimlo’n well am y lle y maent yn byw ynddo
- disgwyl targed twf cronnus o 10% erbyn 2020

**Rhaglen Ynys Ynni**

Dros y 10-15 mlynedd nesaf mae Ynys Môn yn mynd i elwa’n fawr o fuddsoddiadau posibl a fydd yn werth hyd at £12 biliwn, drwy fuddsoddiadau megis:

- Adeiladu Gorsaf Niwclear Newydd yn Wylfa a fydd yn creu 9,200 o swyddi yn ystod y cyfnod adeiladu a nifer o gyfleoedd o ran y gadwyn gyflenwi leol;
- Seilwaith newydd cysylltiad Grid Cenedlaethol i gysylltu'r datblygiadau carbon isel a gynigir ar Ynys Môn i rwydwaith tir mawr;
- Datblygu Pentref Twristiaeth a Chyfleusterau Hamdden gan Land and Lakes.

DRAFT

Er mwyn manteisio ar y cyfleoedd na welwyd mo'u tebyg o'r blaen ac sy'n gysylltiedig â'r datblygiadau posibl, sefydlodd Cyngor Sir Ynys Môn Raglen Ynys Ynni yn 2010. Mae'r Rhaglen Ynys Ynni yn bartneriaeth rhwng sefydliadau cyhoeddus a'r sector breifat, gan gynnwys DECC, Llywodraeth Cymru a datblygwyr mawr, gyda'r bwriad o roi Ynys Môn ar flaen y gad o ran ymchwil a datblygu ynni, cynhyrchu a gwasanaethu, gan ddod â manteision economaidd a allai fod yn enfawr.

Nod Rhaglen Ynys Ynni yw:

- Rhoi cymorth i leihau risgiau buddsoddiadau sylweddol yn y sector breifat;
- Gwneud pobl yn fwy cystadleuol o ran addysg a sgiliau i sicrhau cyfleoedd swyddi;
- Datblygu busnesau cystadleuol i allu cystadlu am gytundebau cadwyni cyflenwi;
- Datblygu isadeiledd cystadleuol (safleoedd, adeiladau, cyfleusterau, cludiant ac ati);
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol i hysbysu a diweddaru, sicrhau adborth ac ymateb i faterion a chyfleoedd.

Cydnabyddir bod angen cefnogi cymunedau Cymraeg i ffynnu. Yn sgil hyn, dylid hyrwyddo datblygiadau economaidd priodol a darparu cyfleoedd economaidd, gan gynnwys ardaloedd gwledig, i sicrhau eu bod yn ddeniadol i'r boblogaeth bresennol a'r rhai a fyddai'n dymuno dychwelyd i'r ardal.

Wrth ystyried sefyllfa'r iaith i'r dyfodol, mae ffactorau economaidd, addysgol a diwylliannol a phenderfyniadau cynllunio ar ddefnydd tir i gyd yn chwarae rhan allweddol. Er mwyn gwella'r sefyllfa mae angen manteisio ar y cyfleoedd gwaith i wrth-droi allfudo, ac felly cryfhau'r defnydd o'r iaith. Gall pobl o holl gefndiroedd ieithyddol gyfrannu at ateb yr her economaidd hon.

Mae angen agwedd gadarnhaol at alluogi datblygu economaidd cynaliadwy mewn cymunedau ar draws yr Ynys. Y nod yw sicrhau cydbwysedd rhwng ffyniant economaidd cynaliadwy a chryfhau'r nifer o siaradwyr Cymraeg ymysg y cenedlaethau i ddod.

Trwy'r Rhaglen Ynys Ynni, mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymrwymo i:

- Sicrhau fod gan bobl leol y sgiliau a'r cyfleoedd angenrheidiol i gymryd mantais o'r cyfleoedd gwaith a ragwelir (yn ystod y gwaith adeiladu a gweithredu)
- Darparu addysg, hyfforddiant a sgiliau gwell er mwyn sicrhau y gall pobl leol gymryd mantais o'r holl gyfleoedd i'r dyfodol
- Denu pobl yn ôl i Ynys Môn sydd wedi gadael yr ynys i chwilio am addysg a/neu gyflogaeth
- Sicrhau nad yw lleoliad a math o lety'r adeiladwyr, a nifer y gweithwyr, yn cael effaith andwyol ar yr Iaith Gymraeg
- Sicrhau fod gan gwmnïau lleol y dystysgrif/ cymwysterau angenrheidiol fel bod modd iddynt gystadlu am gyfleoedd cadwyni cyflenwi a chymryd mantais ohonynt
- Sicrhau fod gan Ynys Môn safleoedd ac eiddo digonol (yn y lleoliadau mwyaf priodol) i ddenu buddsoddiad mewnol a chaniatáu i gwmnïau lleol dyfu.

# Datblygiadau Arfaethedig Cysylltiedig â Ynys Ynni

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

YNYS YNNI MÔN ANGLESEY ENERGY ISLAND





**Stena Line**

Porthladd Caergybi – Porth Rhyngwladol Strategol

**LAND & LAKES** Environments for life

1100 Uned Arfaethedig ar gyfer defnydd cymysg Pentref Twristieth Preswyl a Cyfleusterau Hamdden. Cam 1 – Llety Gweithwyr Wylfa

**morlais** | **Minesto**

DATBLYGIADAU AR Y MÔR - Parth Arddangos Cerrynt Llanw Gogledd Môn 38km2 o wely'r môr

**orthios**

Parc Biomas / Eco Arfaethedig 299 MW yn darparu ynni a stêm ar gyfer Hydroponic a mentrau dyframaethu

**Magnox**

Gorsaf Pwer Bresenol Wylfa – 460 MW o Ynni Carbon Isel Diwedd cynhyrchu 2015

**PŴER NIWCLEAR HORIZON NUCLEAR POWER**

Gorsaf Ynni Niwclear Newydd Arfaethedig gyda'r gallu i gynhyrchu oddeutu 2.7 GW o Ynni Carbon Isel

**SP ENERGY NETWORKS**

Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu Trydan yng Ngogledd Cymru - Cysylltu Cynhyrchwyr Trydan Llai

**M-SParc** | **SPARC**

Parc Gyddoniaeth Arfaethedig yn dennu ymchwilwyr academaidd ac arbenigwyr masnachol at eu gilydd 7.8 Hectar

**Coleg Menai**

hangu y campws i gynnwys styniad y Ganolfan Ynni

**nationalgrid**

Cysylltu Ynni Carbon Isel newydd Arfaethedig ar Ynys Môn

Mae’r Gymraeg yn rhan annatod o hunaniaeth a threftadaeth ddiwylliannol yr ynys ac uchelgais clir Cyngor Sir Ynys Môn yw annog a chefnogi mwy o gymunedau a thrigolion yr ynys i ddefnyddio’r iaith yn rhan o’u bywyd beunyddiol.

Rhydd y prosiectau mawr arfaethedig gyfle unigryw na welwyd mo’i debyg o’r blaen i gyfrannu’n gadarnhaol i drawsffurfiad economaidd-gymdeithasol yr ynys (a rhanbarth ehangach Gogledd Cymru). Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gweld gwaith datblygu, gweithredu'r prosiectau mawr hyn a’u gwaddol (a’u datblygiadau cysylltiedig) yn allweddol i drawsnewid cynaliadwyedd, llesiant ac ‘ymdeimlad o le’ tymor hir yr ynys a’i chymunedau.

Mae’r cyfleoedd a’r manteision economaidd-gymdeithasol a ddangosir yn sgil y prosiectau mawr arfaethedig o bwys tyngedfennol i adfywiad, bywiogrwydd ac amrywiaeth Ynys Môn, ei thrigolion, ei heconomi a’i diwylliant. Mae’n hanfodol fod y prosiectau’n cael eu datblygu, eu hadeiladu a’u gweithredu’n gydlynol, yn integredig ac yn gytbwys er mwyn dylanwadu orau ar ddyfodol tymor hir Ynys Môn, a’i lunio a’i gefnogi. Cred y Cyngor Sir yn gryf fod cyflawni ‘gwaddol’ cadarnhaol a holl gynhwysol yn sylfaenol/hanfodol i lwyddiant a derbynioldeb y prosiectau mawr arfaethedig.

Bydd cael ‘gwaddol’ cadarnhaol o’r datblygiadau arfaethedig yn ddibynnol ar:

- Darparu cyfleoedd i bobl ifanc leol aros ar yr ynys i fyw a gweithio
- Nifer, math a graddfa cyfleoedd cadwyni cyflenwi i fusnesau lleol gymryd mantais ohonynt
- Darparu addysg, hyfforddiant a sgiliau gwell o ansawdd uchel i bobl leol gymryd mantais o’r cyfleoedd gwaith
- Denu pobl sydd wedi gadael yr ynys i chwilio am waith yn rhywle arall yn ôl i Ynys Môn
- Denu buddsoddiad fel bod modd i gwmnïau newydd weithio o Ynys Môn/ Gogledd-orllewin Cymru er mwyn darparu cyfleoedd gwaith ychwanegol i bobl leol
- Sicrhau y cymerir mantais o’r holl gyfleoedd i gofleidio, hyrwyddo a chefnogi treftadaeth ddiwylliannol gyfoethog a’r iaith Gymraeg ar yr ynys.

DRAFT

**Strategaeth Iaith Ynys Môn –** Amcanion i'w cyflawni erbyn diwedd Blwyddyn 1

| | Blwyddyn 1 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Blaenoriaeth** | **Nod Cyffredinol** | **Amcan i'w gyflawni erbyn diwedd blwyddyn 1** | **Cyfrifoldeb** | **Ffynhonnell Gyllidol** | **Dangosydd Perfformiad** | **Statws RAG** |
| | Plant a Phobl Ifanc/Y Teulu<br>(e.e. Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar, cyfnod statudol addysg, cymdeithasol) | | | | | |
| Siarter Iaith | Codi statws y Siarter Iaith ar draws gwasanaethau Cyngor Sir Ynys Môn nid yn unig o fewn yr Ysgolion ond ymysg rhieni a'r gymuned ehangach | Codi ymwybyddiaeth yr holl aelodau etholedig a darparu gwybodaeth i'r gwasanaethau perthnasol | - Swyddog Siarter Iaith, Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>- (Uwch Reolwr Safonau Ysgol a Chynhwysiad) Cyngor Sir Ynys Môn | - Dysgu Gydol Oes Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>- Grant y Gymraeg mewn Addysg<br>-Grant uniongyrchol LlC 2016-17- hyrwyddo'r Siarter Iaith | 100% o aelodau etholedig yn derbyn gwybodaeth ysgrifenedig neu ar lafar o'r gofynion<br><br>90% ysgolion yn derbyn achrediad gwobr efydd erbyn Medi, 2016 | |
| | Sicrhau bod pob ysgol yn cynnwys blaenoriaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg a'r Siarter Iaith yn eu Cynllun Gwella Ysgol | Polisi Iaith pob ysgol yn datgan 'Cymraeg yw iaith gymdeithasol yr ysgol hon'<br><br>Ysgolion wedi gwneud arfarniad trylwyr o berfformiad yn erbyn y We Iaith ac wedi gweithredu arno | - Swyddog Siarter Iaith, Cyngor Sir Ynys Môn<br>- (Uwch Reolwr Safonau Ysgol a Chynhwysiad) Cyngor Sir Ynys Môn<br>- Penaethiaid ysgolion<br>- Gwasanaeth GwE<br>- Cydlynwyr Iaith dalgylchoedd<br>- Fforwm Iaith Strategol<br><br>- Fforwm Iaith Addysg | - Cyllidebau ysgolion | - GwE yn monitro Cynlluniau Gwella Ysgolion<br><br>- 100% Ysgolion wedi adnabod blaenoriaethau ac yn gwneud cynnydd erbyn Mai, 2017<br><br>-90% o ysgolion yn symud ymlaen i'r wobr arian yn 2016/17<br><br>-Fframwaith arolygu Estyn yn cynnwys y defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg | |

Tudalen 301

**Strategaeth Iaith Ynys Môn –** Amcanion i'w cyflawni erbyn diwedd Blwyddyn 1

| | Blwyddyn 1 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Blaenoriaeth** | **Nod Cyffredinol** | **Amcan i'w gyflawni erbyn diwedd blwyddyn 1** | **Cyfrifoldeb** | **Ffynhonnell Gyllidol** | **Dangosydd Perfformiad** | **Statws RAG** |
| | Sicrhau cefnogaeth i'r ysgolion fel y gallant ddatblygu sgiliau Cymraeg cymorthyddion a staff ategol | Hyfforddiant uwchsgilio, 18 diwrnod, i grŵp o 15 o gymorthyddion yn nhymor y Pasg 2017.<br>Cyrsiau iaith, mewn dalgylchoedd ysgolion, i gymorthyddion | -Cyngor Sir Ynys Môn/Fforwm Iaith Strategol Ynys Môn/Canolfan Bedwyr/Prifysgol Bangor | Cyllid Llywodraeth Cymru trwy grant i Ganolfan Bedwyr. Cyllid grant ar gyfer hyrwyddo'r Siarter Iaith, Llywodraeth Cymru | 15 cymhorthydd wedi derbyn hyfforddiant dwys (Ionawr, 2017). Sesiynau gwyll ar gael i gymhorthyddion eraill | |
| | Sicrhau bod y ffordd yn cael ei pharatoi ar gyfer y Gymraeg yn Ysgol Cybi | Ysgolion y dalgylch yn cydweithio ar flaenoriaethu'r Gymraeg a blaenoriaethu'r Siarter Iaith yn y Cynllun Gwella Ysgol | - Swyddog Siarter Iaith, Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>- (Uwch Reolwr Safonau Ysgol a Chynhwysiad) Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>- Gwasanaeth GwE<br><br>- Yr holl bartneriaid allweddol<br><br>- Pennaeth Ysgol Cybi | - Cyllidebau ysgolion<br><br>- Grant Y Gymraeg mewn Addysg | - 76% o ddisgyblion Cyfnod Sylfaen yn derbyn asesiad Cymraeg ym mis Mai 2017 | |
| | Sicrhau cyfleoedd i rieni ddysgu Cymraeg er mwyn cefnogi eu plant ond hefyd er mwyn hwyluso cymhathu cymdeithasol a chyfleoedd gyrfaol | Rhaglen hyfforddiant ar gael a fydd yn cael ei hyrwyddo'n glir ac effeithiol ymysg rhieni | -Consortiwm Dysgu Cymraeg y Gogledd-Orllewin | Consortiwm Dysgu Cymraeg y Gogledd-Orllewin a'r rhieni eu hunain | Dangosyddion cydnabyddedig y Consortiwm a fydd yn cynnwys agweddau meintiol ac ansoddol | |

Tudalen 302

**Strategaeth Iaith Ynys Môn –** Amcanion i'w cyflawni erbyn diwedd Blwyddyn 1

| | Blwyddyn 1 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Blaenoriaeth** | **Nod Cyffredinol** | **Amcan i'w gyflawni erbyn diwedd blwyddyn 1** | **Cyfrifoldeb** | **Ffynhonnell Gyllidol** | **Dangosydd Perfformiad** | **Statws RAG** |
| Trosglwyddo iaith o fewn y teulu | Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith teuluoedd cymysg eu hiaith a rhai di-Gymraeg | Cynyddu nifer y rhieni sy'n siarad Cymraeg efo'u plant, ac a ddaw o gartrefi ble mae un rhiant yn medru siarad Cymraeg | - Menter Iaith Môn<br><br>- Mudiad Meithrin | - Llywodraeth Cymru | 250 o rieni yn nodi eu bod yn gweithio ar newid eu harferion iaith yn y cartref (dewis un ardal i ganolbwyntio arni yn y flwyddyn gyntaf) | |
| | Gwella gwybodaeth i deuluoedd am fanteision y Gymraeg gan brif ffrydio'r negeseuon drwy wasanaethau statudol a phreifat (gan gynnwys meithrinfeydd) | Sicrhau bod swyddogion maes, Gofalwyr plant ac ymwelwyr iechyd yn hyrwyddo pwysigrwydd trosglwyddiad iaith o fewn y teulu. Adnabod anghenion hyfforddiant priodol | - Llywodraeth Cymru<br><br>- Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr<br><br>- Mudiad Meithrin<br><br>- Dechrau'n Deg<br><br>- Cyngor Sir Ynys Môn | | Sicrhau targedu 500 o deuluoedd | |
| | Codi ymwybyddiaeth rhieni/gofalwyr am fanteision y Gymraeg | Dosbarthu taflen i bob darpar riant/gofalwr erbyn Mawrth, 2017 | -Menter Iaith Môn<br><br>- Mudiad Meithrin | | Cynnydd yn nifer y mynychwyr ysgolion meithrin | |
| | Sicrhau bod arweinydd pob cylch yn ddwyieithog | Rhesymoli cylchoedd ardal Caergybi erbyn Medi, 2017 | - Mudiad Meithrin | | 100% o arweinyddion cylchoedd y Cymdeithas yr Ysgolion Meithrin yn ddwyieithog | |

Tudalen 303

**Strategaeth Iaith Ynys Môn –** Amcanion i'w cyflawni erbyn diwedd Blwyddyn 1

| | Blwyddyn 1 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Blaenoriaeth** | **Nod Cyffredinol** | **Amcan i'w gyflawni erbyn diwedd blwyddyn 1** | **Cyfrifoldeb** | **Ffynhonnell Gyllidol** | **Dangosydd Perfformiad** | **Statws RAG** |
| | Cydweithio gyda phartneriaid sy'n denu unigolion yn ôl i Fôn i weithio | Adnewyddu gwefan Ynys Ynni a chynnwys gwybodaeth yn rheolaidd am gyfleon gwaith yn sgîl datblygiadau mawr | -Swyddogion Rhaglen Ynys Ynni | | Sefydlu gwaelodlin am y nifer o bobl sy'n gweithio y tu allan i Fôn | |
| Addysg | Adolygu'r Polisi Iaith Gymraeg mewn Ysgolion, Cyngor Sir Ynys Môn | Polisi cadarn y Cyngor Sir yn gosod disgwyliadau pendant ar yr holl Ysgolion a'u cyrff llywodraethol ac yn sicrhau cysondeb gweithredu rhwng Ysgolion. | - Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>- Aelodau Etholedig<br><br>- Dysgu Gydol Oes Cyngor Sir Ynys Môn | Cyllid i hyrwyddo/ lansio | - Cyrff Llywodraethu'r holl Ysgolion yn gweithredu'r Polisi Iaith<br>- 100% o rieni'n derbyn yr un neges am statws yr Iaith Gymraeg yn yr ysgol, a hynny ym mob ysgol | |
| | Sicrhau bod pob agwedd ar y Gymraeg yn cael ei phrif lifo yn y Cyfnod Sylfaen ac ar ganran gyfartal neu uwch yng Nghyfnod Allweddol 2 ym mhob ysgol | Cynnydd yn y nifer o ddisgyblion sy'n dilyn trac Cymraeg iaith gyntaf drwy eu cyfnod yn ysgolion uwchradd y Sir | - Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>- Dysgu Gydol Oes Cyngor Sir Ynys Môn | - Grant y Gymraeg mewn Addysg | - 76% o ddisgyblion Cyfnod Sylfaen yn cael eu hadnabod fel disgyblion Cymraeg yn y Cyfrifiad CYBLD yn Ionawr, 2017<br><br>-76% o ddisgyblion pob ysgol yn derbyn asesiad Cymraeg ym Mai, 2017 | |
| | Cryfhau'r gefnogaeth i'r ysgolion gyflwyno addysg Gymraeg i ddisgyblion yn yr ardaloedd ble mae'r her i'r iaith yn uchel | Gwneud achos i sefydlu tîm o Athrawon Cefnogi Iaith , CS, CA2 a CA3, dan oruchwyliaeth y | - Dysgu Gydol Oes Cyngor Sir Ynys Môn | - Grant y Gymraeg mewn Addysg<br><br>- Wedi cyflwyno cais i Horizon i | -Ymateb cadarnhaol gan Gwmni Horizon | |

Tudalen 304

**Strategaeth Iaith Ynys Môn –** Amcanion i'w cyflawni erbyn diwedd Blwyddyn 1

| | Blwyddyn 1 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Blaenoriaeth** | **Nod Cyffredinol** | **Amcan i'w gyflawni erbyn diwedd blwyddyn 1** | **Cyfrifoldeb** | **Ffynhonnell Gyllidol** | **Dangosydd Perfformiad** | **Statws RAG** |
| | | Canolfannau Iaith, i gefnogi disgyblion 3 – 14 oed ac i hyfforddi athrawon a chymorthyddion mewn dulliau trochi iaith | | gyflogi cyfwerth â 6 athro llawn amser | | |
| | Cynyddu a chynnal y defnydd o'r Gymraeg ymysg dysgwyr ôl 16 yn y sector Addysg Bellach | Sefydlu trefn ar gyfer mesur a thracio dysgwyr ôl-16 yn y sector addysg bellach sy'n parhau i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog<br><br>Rhannu gwaelodlin darpariaeth ddwyieithog Coleg Menai gyda'r Fforwm Iaith<br><br>Cynnydd o 4% mewn darpariaeth ddwyieithog yng Ngholeg Menai | -Cyfarwyddwr Dwyieithrwydd a Chydraddoldeb - Grŵp Llandrillo Menai | | Trefn wedi'i sefydlu<br><br>Gwaelodlin wedi'i rhannu erbyn Rhagfyr, 2016<br><br>Cynnydd o 4% yn y ddarpariaeth ddwyieithog yng Ngholeg Menai yn ystod y flwyddyn gyntaf (erbyn Gorffennaf, 2017) | |
| | Cysoni a ffurfioli categorïau ieithyddol holl ysgolion Ynys Môn â diffiniadau cenedlaethol | Adolygu a chytuno ar ddiffiniadau darpariaeth ieithyddol ysgolion Môn | - Dysgu Gydol Oes Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>- GwE | | - Y Cyngor ac Ysgolion yn arddel diffiniadau cyson a chywir ynghylch y ddarpariaeth ieithyddol, yn unol â thudalennau 12-14 dogfen *Diffinio ysgolion yn ôl y* | |

Tudalen 305

**Strategaeth Iaith Ynys Môn –** Amcanion i'w cyflawni erbyn diwedd Blwyddyn 1

| | Blwyddyn 1 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Blaenoriaeth** | **Nod Cyffredinol** | **Amcan i'w gyflawni erbyn diwedd blwyddyn 1** | **Cyfrifoldeb** | **Ffynhonnell Gyllidol** | **Dangosydd Perfformiad** | **Statws RAG** |
| | | Diweddaru 'Llawlyfr Mynediad Ysgolion' y Cyngor, o safbwynt cyfrwng iaith ysgolion | | | *ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg (Llywodraeth Cymru, 2007)*<br><br>- Llawlyfr Mynediad Ysgolion Cyngor Sir Ynys Môn a diffiniadau'r ysgolion eu hunain yn cydymffurfio | |
| | Cefnogi ysgolion i symud ar hyd y continwwm ieithyddol, gan adeiladau ar Ddeilliannau, *Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2014-17 CSYM* | Cytuno ar amserlen 5 mlynedd i gryfhau pob un o ysgolion Môn, ar sail blaenoriaeth gan gychwyn gyda dalgylch Caergybi<br><br>Adolygu Deilliannau *Cynllun Strategol y Gymraeg Addysg 2014-17* i gael darlun o'r sefyllfa bresennol, e.e. Faint o ddisgyblion sy'n sefyll arholiadau TGAU trwy gyfrwng y Gymraeg | - Dysgu Gydol Oes Cyngor Sir Ynys Môn | | - 98% o ysgolion cynradd Môn yn rhai dynodedig cyfrwng Cymraeg (mewn 5 mlynedd drwy symud y rhai TR yn gyfrwng Cymraeg a symud 1 ysgol o EW)<br><br>- Cynnal trafodaeth gychwynnol gydag 1 ysgol uwchradd Môn I symud tuag at fod yn ddynodedig ddwyieithog (gan fod y 4 arall eisoes yn gyfrwng dwyieithog)<br><br>- 2 ysgol newydd y Cyngor 2016-2017 yn rhai 'cyfrwng Cymraeg'/asesu'r Gymraeg fel iaith gyntaf | |

Tudalen 306

**Strategaeth Iaith Ynys Môn –** Amcanion i'w cyflawni erbyn diwedd Blwyddyn 1

| | Blwyddyn 1 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Blaenoriaeth** | **Nod Cyffredinol** | **Amcan i'w gyflawni erbyn diwedd blwyddyn 1** | **Cyfrifoldeb** | **Ffynhonnell Gyllidol** | **Dangosydd Perfformiad** | **Statws RAG** |
| Y Gymraeg yn gymdeithasol | Cynyddu'r defnydd a phrif lifo'r Gymraeg mewn gweithgareddau chwaraeon | - Darparu mwy o wersi nofio yn y Gymraeg. 70% ar hyn o bryd.<br><br>- Canolbwyntio mwy ar gefnogi a chynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yng Nghanolfan Hamdden Caergybi<br><br>- Ymchwilio i'r posibiliadau o ddarparu cyrsiau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg e.e. ffitrwydd<br><br>- Sicrhau bod yr holl hysbysiadau cyhoeddus a llenyddiaeth o fewn y canolfannau hamdden yn ddwyieithog | -Rheolwr Masnachol Hamdden, Cyngor Sir Ynys Môn | | - Lleihad o 50% yn nifer y cwynion<br><br>-Sefydlu gwaelodlin ar gyfer y flwyddyn gyntaf | |
| | Cynyddu'r defnydd a phrif lifo'r Gymraeg yng ngweithgareddau Clybiau Ieuenctid | Datblygu sgiliau'r staff i ddefnyddio'r Gymraeg trwy ddarparu sesiynau penodol yn y Clybiau Ieuenctid | - Prif Swyddog Ieuenctid (Cyngor Sir Ynys Môn) | Grant Strategaeth Gwaith Ieuenctid | Cynyddu nifer y staff sy'n defnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu gweithgareddau | |

**Strategaeth Iaith Ynys Môn –** Amcanion i'w cyflawni erbyn diwedd Blwyddyn 1

| | Blwyddyn 1 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Blaenoriaeth** | **Nod Cyffredinol** | **Amcan i'w gyflawni erbyn diwedd blwyddyn 1** | **Cyfrifoldeb** | **Ffynhonnell Gyllidol** | **Dangosydd Perfformiad** | **Statws RAG** |
| | Cynyddu cwmpas y cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth am weithgareddau'r Urdd yn lleol | Cynyddu ymwybyddiaeth am ddigwyddiadau'n lleol | -Swyddogion yr Urdd | Cyllideb yr Urdd | Nifer o 'hoffwyr' a dilynwyr | |
| | Sefydlu clwb i ddysgwyr yn Ysgol Uwchradd Caergybi | Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith disgyblion uwchradd yn nalgylch Caergybi | -Urdd/Menter Iaith Môn/Gwasanaeth Ieuenctid/Ffermwyr Ifanc | Cyllideb Clybiau Ieuenctid | Nifer y mynychwyr | |
| | Y Gweithle<br>Gwasanaethau Cymraeg<br>Y Seilwaith (e.e. datblygiadau mawr, Cymraeg mewn busnesau, twristiaeth, technoleg) | | | | | |
| Codi hyder staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle/codi ymwybyddiaeth am botensial technoleg | Sicrhau cyfleoedd i staff ddysgu Cymraeg er mwyn hwyluso eu gallu i weithio'n ddwyieithog, ond hefyd er mwyn hwyluso cymhathiad cymdeithasol a chefnogaeth i deuluoedd | Rhaglen hyfforddiant ar gael a fydd yn cael ei hyrwyddo'n glir ac yn effeithiol yn y gweithleoedd ynghyd â gwasanaeth ymgynghorol a fydd ar gael yn rhad ac am ddim i weithleoedd er mwyn cynllunio hyfforddiant effeithiol yn y gweithle | -Consortiwm Dysgu Cymraeg y Gogledd-Orllewin | Consortiwm Dysgu Cymraeg y Gogledd-Orllewin a'r rhieni eu hunain | Dangosyddion cydnabyddedig y Consortiwm a fydd yn cynnwys agweddau meintiol ac ansoddol | |

Tudalen 308

**Strategaeth Iaith Ynys Môn –** Amcanion i'w cyflawni erbyn diwedd Blwyddyn 1

| | Blwyddyn 1 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Blaenoriaeth** | **Nod Cyffredinol** | **Amcan i'w gyflawni erbyn diwedd blwyddyn 1** | **Cyfrifoldeb** | **Ffynhonnell Gyllidol** | **Dangosydd Perfformiad** | **Statws RAG** |
| Sicrhau bod y Gymraeg yn cael proffil uchel a'i bod yn yrrwr gan gyflogwyr a busnesau | Sicrhau bod y Gymraeg yn cael sylw priodol mewn unrhyw:<br>(a) ddatblygiad mawr ble mae mesurau lliniaru drwy brosesau cynllunio a chydsynio<br>(b) unrhyw ddatblygiadau llai yn y gymuned | Cynnal ymwybyddiaeth o faterion iaith wrth weithredu polisïau cynllunio lleol a chenedlaethol e.e. hyfforddiant ar y Bil Cynllunio newydd | -Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu'r Economi, Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>-Cynrychiolwyr lleol e.e. Aelodau Etholedig, cynrychiolwyr Cynghorau Tref a Chymuned | | Bydd pob cais cynllunio am ddatblygiadau manwerthu, diwydiannol neu fasnachol lle mae adroddiad i'r Pwyllgor Cynllunio yn rhoi sylw llawn i effaith y datblygiad ar les yr iaith Gymraeg | |
| | Ymroddiad datblygwyr mawr tuag at Bolisïau Iaith | Sicrhau bod datblygwyr yn mabwysiadu polisïau a chynllluniau iaith er mwyn sicrhau statws gyfartal rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yn y gweithle | -Datblygwyr mawr<br><br>-Cyngor Sir Ynys Môn | | Nifer y polisïau iaith gan ddatblygwyr ac effaith gweithredu'r polisi mewn *o fisoedd | |
| | Cynyddu cyfleon gwaith i bobl leol | Pwyso ar ddatblygwyr mawr i roi sicrwydd y bydd canran o weithwyr Wylfa Newydd yn bobl leol (lleihau allfudo a sicrhau plant ar gyfer yr ysgolion lleol) | -Horizon<br><br>-Cyngor Sir Ynys Môn | | -ymateb Cwmni Horizon yn eu cais DCO, Mai, 2017 | |

Tudalen 309

**Strategaeth Iaith Ynys Môn –** Amcanion i'w cyflawni erbyn diwedd Blwyddyn 1

| | Blwyddyn 1 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Blaenoriaeth** | **Nod Cyffredinol** | **Amcan i'w gyflawni erbyn diwedd blwyddyn 1** | **Cyfrifoldeb** | **Ffynhonnell Gyllidol** | **Dangosydd Perfformiad** | **Statws RAG** |
| | Datblygu 'pecyn manteision y Gymraeg mewn busnes' i gwmnïau sydd yn buddsoddi ar yr Ynys (i gynnwys deunydd marchnata manteision dwyieithrwydd yn y sector preifat ac yn adeiladu ar waith Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg), gan gynnwys cwmnïau twristiaeth | Dosbarthu pecynnau i bob busnes sy'n cysylltu â'r Cyngor (busnesau sy'n rhentu unedau busnes) | - Llywodraeth Cymru<br><br>- Busnes Cymru<br><br>- Uned Datblygu Economaidd Cyngor Sir Ynys Môn | | Nifer y pecynnau sy'n cael eu dosbarthu yn y flwyddyn gyntaf | |
| | Gweithredu Polisi Iaith y Cyngor Sir (Mai, 2016) a'i adolygu yn 2018 | Gweithio tuag at sicrhau mai Cymraeg fydd prif iaith weinyddol y Cyngor trwy, yn y lle cyntaf, sefydlu gwaelodlin o'r nifer sy'n gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg, yn llafar/neu yn ysgrifenedig trwy ddatblygu holiadur ar gyfer ei gylchredeg<br><br>Sefydlu diffiniad o 'weinyddu mewnol' | -Cyngor Sir Ynys Môn | | Gwybodaeth gyfredol o anghenion hyfforddi staff y Cyngor er mwyn targedu<br><br>Nifer o ddogfennau sy'n cael eu drafftio trwy gyfrwng y Gymraeg<br><br>Nifer o benodiadau 'Cymraeg hanfodol' | |

Tudalen 310

**Strategaeth Iaith Ynys Môn –** Amcanion i'w cyflawni erbyn diwedd Blwyddyn 1

| | Blwyddyn 1 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Blaenoriaeth** | **Nod Cyffredinol** | **Amcan i'w gyflawni erbyn diwedd blwyddyn 1** | **Cyfrifoldeb** | **Ffynhonnell Gyllidol** | **Dangosydd Perfformiad** | **Statws RAG** |
| | | Cytuno ar raglen dreigl 5 mlynedd gan dargedu lle mae angen cefnogaeth a chanolbwyntio ar gefnogaeth ddwys i un gwasanaeth<br><br>Parhau i gynnal pecyn hyfforddiant cynhwysfawr ar gyfer staff i wella ac ymestyn eu sgiliau yn y Gymraeg (boed hynny ar lafar neu'n ysgrifenedig)<br><br>Gwneud cais i Lywodraeth Cymru am adnoddau ychwanegol i gefnogi'r nod | | | | |
| | Hyrwyddo egwyddorion 'Mwy na Geiriau' | Darparu hyfforddiant ar y 'Cynnig Rhagweithiol' i staff Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ynys Môn | - Cyngor Sir Ynys Môn | Cyllideb y gwasanaeth | 50% o staff y Gwasanaethau Cymdeithasol yn derbyn hyfforddiant ar y 'Cynnig Rhagweithiol' | |

Tudalen 311

**Strategaeth Iaith Ynys Môn –** Amcanion i'w cyflawni erbyn diwedd Blwyddyn 1

| | Blwyddyn 1 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Blaenoriaeth** | **Nod Cyffredinol** | **Amcan i'w gyflawni erbyn diwedd blwyddyn 1** | **Cyfrifoldeb** | **Ffynhonnell Gyllidol** | **Dangosydd Perfformiad** | **Statws RAG** |
| Hyrwyddo'r Gymraeg yn weledol yn gymunedol | Cynhyrchu gwefan a phecynnau croeso ar gyfer mewnfudwyr am hanes a diwylliant/addysg ddwyieithog/manteision y Gymraeg/cyfleon i'w dysgu ac i'w defnyddio<br><br>Addasu gwefan y Cyngor Sir i gyfleu'r weledigaeth am y Gymraeg i fewnfudwyr | Sicrhau bod gwybodaeth ar gael i gynorthwyo mewnfudwyr mewn ffordd bositif | - Llywodraeth Cymru<br><br>- Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>-Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd. Cyngor Sir Ynys Môn | | Nifer sy'n ymweld â'r wefan yn y flwyddyn gyntaf<br><br>Y weledigaeth ar wefan y Cyngor erbyn mis Hydref, 2016 | |
| | Adnabod pencampwyr iaith mewn Cynghorau Tref a Chymuned | Sefydlu'r egwyddor | -Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned | | Sefydlu gwaelodin yn y flwyddyn gyntaf | |
| | Cynnal ymgyrch farchnata ar y cyd gyda'r Eisteddfod Genedlaethol a sicrhau gwaddol cymunedol | Cynnal deialog rhwng y Fforwm Iaith Strategol a Phwyllgor Gwaith Eisteddfod 2017 er mwyn adnabod blaenoriaethau ar gyfer cynllun gweithredu | -Asiantaethau perthnasol | | I'w llunio ar sail blaenoriaethau sy'n datblygu a chynllun gweithredu | |

Tudalen 312

**Strategaeth Iaith Ynys Môn –** Amcanion i'w cyflawni erbyn diwedd Blwyddyn 1

| | Blwyddyn 1 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Blaenoriaeth** | **Nod Cyffredinol** | **Amcan i'w gyflawni erbyn diwedd blwyddyn 1** | **Cyfrifoldeb** | **Ffynhonnell Gyllidol** | **Dangosydd Perfformiad** | **Statws RAG** |
| | Y Gymuned<br>(e.e. tai, broses cynllunio, diwylliant) | | | | | |
| Hyrwyddo a hwyluso dysgu Cymraeg ymysg oedolion | Sicrhau bod cyfleoedd i ddysgu Cymraeg ar gael yn eang ar draws y Sir | Rhaglen o gyrsiau cymunedol a fydd yn cael ei hyrwyddo'n eang ledled y sir | -Consortiwm Dysgu Cymraeg y Gogledd-Orllewin | Consortiwm Dysgu Cymraeg y Gogledd-Orllewin a'r dysgwyr eu hunain | Dangosyddion cydnabyddedig y Consortiwm a fydd yn cynnwys agweddau meintiol ac ansoddol | |
| Pecyn codi ymwybyddiaeth am y cyfleon gwirfoddoli trwy gyfrwng y Gymraeg | Creu pecyn gwybodaeth am gyfleon i wirfoddoli trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer siaradwyr Cymraeg a dysgwyr | Cwblhau'r pecyn yn ystod blwyddyn 1 | -Medrwn Môn | | Cynnydd yn nifer y pecynnau a'r defnydd ohonynt | |
| Hwyluso'r defnydd o offer cyfieithu ar gyfer mudiadau gwirfoddol a chynghorau tref a chymuned | Codi ymwybyddiaeth am yr ap ffôn i gyfieithu ar y pryd | Hyrwyddo a pharhau i dreialu'r ap cyfieithu, "O Glust i Glust ", gyda'r nod y bydd yn cael ei fabwysiadu'n ehangach ymysg sefydliadau, grwpiau ac unigolion | -Cyfarwyddwr Busnes - Menter Môn | | Sefydlu gwaelodlin yn y flwyddyn gyntaf | |
| | Codi ymwybyddiaeth o'r posibiliadau/dulliau amrywiol i gwrdd â'r galw am wasanaeth gyfieithu ar y pryd mewn Cynghorau Tref a Chymuned | Adnabod iaith Cynghorau Tref a Chymuned/cyrff llywodraethu ysgolion a sefydlu gwaelodlin o'r angen | -Unllais Cymru<br><br>Dysgu Gydol Oes Cyngor Sir Ynys Môn | | Nifer y sefydliadau sy'n ei ddefnyddio | |

Tudalen 313

**Strategaeth Iaith Ynys Môn –** Amcanion i'w cyflawni erbyn diwedd Blwyddyn 1

| | Blwyddyn 1 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Blaenoriaeth** | **Nod Cyffredinol** | **Amcan i'w gyflawni erbyn diwedd blwyddyn 1** | **Cyfrifoldeb** | **Ffynhonnell Gyllidol** | **Dangosydd Perfformiad** | **Statws RAG** |
| Hyrwyddo Technoleg i normaleiddio'r Gymraeg yn gymunedol | Codi ymwybyddiaeth am waith a gweithgareddau Cymraeg ymysg trigolion Môn drwy sefydlu cyfrif trydar a Facebook, a defnyddio gwefan y Fenter Iaith | Partneriaid allweddol i adnabod pwynt cyswllt ym mhob sefydliad.<br><br>Creu cyswllt gyda darparwyr cymunedol | -Menter Iaith Môn i gydlynu â'r holl bartneriaid eraill i fwydo gwybodaeth | | - Nifer o bobl yn ymweld â'r wefan<br><br>- Nifer o bobl yn defnyddio cyfrif trydar<br><br>- Nifer o bobl yn defnyddio cyfrif Facebook | |
| Sicrhau bod y Gymraeg yn ystyriaeth mewn materion cynllunio a defnydd tir perthnasol | Mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol sy'n parhau i gynnal polisïau er lles yr iaith Gymraeg, gan gynnwys asesu'r effaith a gaiff cynigion datblygu ar yr iaith ar adeg cyflwyno ceisiadau cynllunio | Cynllun Datblygu Lleol wedi cael ei fabwysiadu | - Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu'r Economi, Cyngor Sir Ynys Môn | | Cynllun Datblygu Lleol wedi cael ei fabwysiadu gan y Cyngor 2016/2017 | |
| | Hyrwyddo datblygiadau sydd o fudd i ddyfodol cymunedau a rhwydweithiau<br><br>• Y farchnad dai leol<br>• Tai fforddiadwy<br>• Cyfleoedd gwaith | - Mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol ar gyfer Cynnal Cymunedau Cynaliadwy<br><br>- Cynnal ymwybyddiaeth o faterion iaith wrth weithredu polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol | -Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu'r Economi, Cyngor Sir Ynys Môn | | Canllaw Cynllunio Atodol ar gyfer Cynnal Cymunedau Cynaliadwy wedi cael ei fabwysiadu gan y Cyngor | |

**Strategaeth Iaith Ynys Môn –** Amcanion i'w cyflawni erbyn diwedd Blwyddyn 1

| | Blwyddyn 1 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Blaenoriaeth** | **Nod Cyffredinol** | **Amcan i'w gyflawni erbyn diwedd blwyddyn 1** | **Cyfrifoldeb** | **Ffynhonnell Gyllidol** | **Dangosydd Perfformiad** | **Statws RAG** |
| Cyfleusterau Cymunedol | Creu proffiliau ieithyddol o holl ardaloedd Ynys Môn i adnabod y bylchau mewn darpariaeth o'r cyfleon yn y cymunedau | Creu proffil ieithyddol o'r ynys | -Menter Iaith Môn/swyddogion ymgysylltu cymunedol | Horizon yn cyllido'r swyddogion ymgysylltu cymunedol | Trosolwg cyffredinol yn ei le | |
| | Sicrhau cyflenwad digonol o dai fforddiadwy i drigolion yr Ynys<br><br>Cymryd camau pellach i fynd i'r afael â'r nifer o dai gwag ar yr ynys er mwyn eu dychwelyd i ddefnydd lleol | Sicrhau bod yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yn datgan beth yw'r angen am dai fforddiadwy ac ym mha ardaloedd o'r Ynys<br><br>Sicrhau bod y data ar nifer y tai gwag ar yr ynys yn gywir | -Rheolwr Strategol Tai - Cyngor Sir Ynys Môn | Dyletswydd Statudol yn cael ei ariannu drwy Gronfa Cyffredinol y Cyngor | Cyflawni targedau'r Cytundeb Canlyniadau | |
| | Sicrhau cyflenwad ychwanegol o dai cyngor ar yr ynys | 30 o dai dros 3 blynedd | -Gwasanaeth Tai | Cyllid y Gwasanaeth Tai | Lleoliad 10 tŷ wedi'i adnabod yn y flwyddyn gyntaf | |
| | Marchnata tai fforddiadwy ar yr ynys i drigolion lleol drwy ddefnyddio gwefan Tai Teg | Ein bod yn marchnata 10 o dai fforddiadwy ar safle Tai Teg | -Swyddog Datblygu Strategol Tai,<br>Cyngor Sir Ynys Môn | Dim angen cyllidol, y system eisoes wedi ei sefydlu | Mesur yn erbyn y targed sydd wedi ei bennu fel yr amcan (adnabod ffigwr penodol) | |

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

Dyfyniad ar gyfer eitem 6–Cofnodion Drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf 2016

6 **STRATEGAETH IAITH GYMRAEG 2016 - 2021 (DRAFFT)**

Cyflwynwyd - adroddiad y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau) mewn perthynas â'r uchod.

Amlinellodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau) y cefndir i'r Mesur Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 mewn perthynas â'r Strategaeth Iaith Gymraeg. Dywedwyd bod y Strategaeth yn amlinellu'r dull y bwriedir ei ddefnyddio i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a hwyluso defnydd ehangach o'r iaith o fewn yr ardal a chynnal / cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn diwedd 2021. Mae Fforwm Iaith Strategol Ynys Môn- y crybwyllir ei haelodaeth o fewn yr adroddiad- wedi cael ei sefydlu i nodi blaenoriaethau a llunio Strategaeth Iaith Gymraeg. Bwriedir creu cynllun gweithredu ar gyfer yr ail flwyddyn cyn diwedd blwyddyn gyntaf y Strategaeth. Cyfrifoldeb y Fforwm Iaith Strategol fydd monitro cynnydd yn erbyn targedau a osodwyd. Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol fod Cyfrifiad 2011 yn dangos y bu gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg ar yr Ynys a gweledigaeth y Cyngor yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i o leiaf 60.1% erbyn Cyfrifiad 2021.

Dywedwyd ymhellach fod yna gynnig i gynnig 'pecynnau croeso' i newydd-ddyfodiaid i'r Ynys i esbonio iaith a diwylliant Cymru. 'Roedd y Cadeirydd yn dymuno cofnodi llwyddiant tîm pêl-droed Cymru yn ystod Pencampwriaeth Ewrop yn ddiweddar a sut mae Cymru wedi cael proffil uwch oherwydd ei diwylliant a'i iaith.

Adroddodd y Rheolwr Polisi a Strategaeth fod Fforwm Iaith Ynys Môn wedi cytuno i ganolbwyntio ar dair thema: -

- **Plant, Pobl Ifanc a'r Teulu**

**Nod:**

- Cynnydd yn nifer y teuluoedd lle defnyddir y Gymraeg fel prif iaith gyda phlant, gyda chynnydd yn y cyfleoedd a'r cymorth i'r iaith gael defnyddio'n gymdeithasol;
- Sicrhau bod gan bob plentyn yr hawl i fod yn gwbl ddwyieithog erbyn iddynt gyrraedd 16 oed;
- Cynyddu capasiti a'r defnydd o'r iaith Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu a dysgu ymhlith plant a phobl ifanc mewn gweithgareddau addysg a chymdeithasol.

- **Y Gweithlu, Gwasanaethau Iaith Gymraeg, y Seilwaith**

**Nod:**

- Hyrwyddo a chynyddu argaeledd gwasanaethau iaith Gymraeg, cynyddu'r cyfleoedd / disgwyliadau i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle a gweithio gyda'n gilydd i nodi cyfleoedd i brif ffrydio'r iaith o fewn datblygiadau a gweithgareddau.

Er bod yr Awdurdod yn anelu at gynyddu datblygiad yr iaith Gymraeg yn y gweithle, dywedodd y Swyddog y gobeithir codi proffil yr iaith Gymraeg yn y Cynghorau Tref / Cymuned ar Ynys Môn. Mae'r Cynllun Strategol wedi nodi bod angen Hyrwyddwr yr Iaith Gymraeg o fewn y Cynghorau Tref / Cymuned.

- **Y Gymuned**

**Nod:**

- Hyrwyddo a marchnata gwerth a phwysigrwydd y Gymraeg;
- Hyrwyddo a nodi cyfleoedd i gryfhau'r iaith Gymraeg o fewn y cymunedau a nodi bylchau yn y ddarpariaeth.

Adroddodd y Swyddog ei bod yn bwysig bod y Cynllun Strategol yn cydymffurfio â'r polisïau yn y Cynllun Datblygu Lleol i gael nifer ddigonol o dai ar gyfer trigolion lleol er mwyn gwella ffyniant ieithyddol yr Ynys. Nodwyd hefyd bod angen i gartrefi gwag a thai fforddiadwy fod ar gael.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a chodwyd y prif faterion a ganlyn: -

- Yr angen i gryfhau cyfleoedd o fewn y cymunedau lleol i alluogi pobl sy'n dymuno dysgu'r iaith Gymraeg;
- Dylid rhoi rhagor o adnoddau i Gynghorau Tref / Cymuned i ganiatáu ar gyfer defnyddio Cyfieithydd, os oes angen, yn eu cyfarfodydd. Dylai adnoddau fod ar gael hefyd i alluogi rhaglenni a chofnodion dwyieithog ar gyfer cyfarfodydd. Er yn cytuno â'r sylwadau a wnaed, ymatebodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau ) nad oes unrhyw adnoddau pellach ar gael ar hyn o bryd. Nododd efallai y bydd rhaid i Gynghorau Tref / Cymuned ystyried codi’r praesept yn y Dreth Gyngor i fynd i'r afael â'r mater a godwyd. Dywedodd hefyd fod Unllais Cymru wedi nodi eu bod yn barod i roi cyflwyniad i Gynghorau Cymuned / Tref ynglŷn â sut i gynnal eu cyfarfodydd a gweinyddu’n ddwyieithog;
- Bydd y mewnlifiad o weithwyr Wylfa Newydd posib a fydd yn byw ar yr Ynys yn effeithio ar yr ystadegau o ran yr iaith Gymraeg. Ymatebodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau) y cynhaliwyd trafodaeth gyda pherchnogion Wylfa Newydd i sefydlu sut maent yn bwriadu amddiffyn yr iaith Gymraeg ar yr Ynys pan fydd y gweithwyr yn cyrraedd i adeiladu'r orsaf bŵer yn y dyfodol. Dywedodd hefyd yr awgrymwyd iddynt eu bod yn ystyried ariannu 5 Swyddog pwrpasol o fewn dalgylchoedd yr Ynys i hyrwyddo diwylliant, chwaraeon a'r iaith Gymraeg;
- Mynegwyd pryderon mewn perthynas â rhai plant yn dewis peidio â siarad Cymraeg pan fyddant yn gadael yr ysgol gynradd i fynd i’r ysgol uwchradd. Ymatebodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau) fod yr Adran Addysg wedi bod yn gweithio gyda Phennaeth newydd Ysgol Cybi yng Nghaergybi a bod Penaethiaid y tair ysgol a fydd yn cyfuno i greu'r ysgol newydd wedi cytuno ar flaenoriaethau o fewn eu cynllun gwella sy'n cynnwys gwella llythrennedd y plant sy'n mynychu'r ysgol. Mae Ysgol Uwchradd Caergybi hefyd wedi bod yn rhan o'r cynllun gwella o ran y gwaith y mae angen ei wneud i wella'r Gymraeg o fewn yr ysgol.

Dywedodd hefyd y dylid annog Llywodraethwyr Ysgol i flaenoriaethau'r defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn eu hysgolion;

- Bod pobl ifanc yn ysgolion uwchradd yr Awdurdod yn gallu cael eu tywys i'r cyfleoedd a ddaw yn sgil prosiectau mawr dan y Rhaglen Ynys Ynni mewn perthynas â swyddi gweinyddol a chyfleon peirianneg.   Ymatebodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau) fod yr Awdurdod wedi datgan y byddai'n hoffi gweld 90% o'r prentisiaid a fydd yn cael cyfleoedd o fewn y prosiectau Ynys Ynni yn ddwyieithog;
- Tra'n croesawu bwriadau'r Cyngor Sir i wella'r defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith o redeg yr awdurdod o ddydd i ddydd, awgrymwyd bod angen mynd gam ymhellach o ran cynnal cyfarfodydd o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Penaethiaid ac Uwch Reolwyr drwy gyfrwng y Gymraeg. Dylid targedu adrannau penodol i wneud mwy o ddefnydd o'r iaith Gymraeg. Ymatebodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau) fod y rhan fwyaf o gyfarfodydd yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg ond roedd yn cytuno bod angen i rai adrannau wneud mwy o ddefnydd o'r iaith Gymraeg.  Dywedodd fod y Rheolwr Polisi a Strategaeth wedi bod yn allweddol o ran cynorthwyo staff i allu mynychu cyrsiau a gweithgareddau i ddysgu a gwella sgiliau iaith Gymraeg;
- Byddai gwneud mwy o ddefnydd o'r iaith Gymraeg yng ngweinyddiaeth yr Awdurdod yn goleuo pobl ifanc yr Ynys i werthfawrogi bod cyfleoedd o fewn yr awdurdod lleol i ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac yn eu cadw ar yr Ynys;
- Yr angen i wella cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gweithgareddau Cymunedol ar yr Ynys.  Dylai sefydliadau o fewn cymunedau ystyried gwneud ceisiadau i Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn i gynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn ystod gweithgareddau y maent yn gyfrifol amdanynt.

Yn dilyn trafodaethau pellach, **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Strategaeth Iaith Gymraeg am 2016-2021 (Drafft) i'w chymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith ac wedi hynny gan y Cyngor llawn.**

**GWEITHREDU: Fel y nodir uchod.**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **PWYLLGOR GWAITH / CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD** | **19 Medi / 27 Medi 2016** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **Adrodd ar Adolygiad o Ddogfen Polisi Gamblo yr Awdurdod Lleol** |
| **ADRODDIAD GAN** | **Pennaeth Gwasanaeth – Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **Gofyn am gael cymeradwyo'r Terfynol o'r Polisi Gamblo yn dilyn ymgynghoriad** |
| **GWEITHREDU** | **Mabwysiadu a chymeradwyo'r Polisi Gamblo** |

## 1 RHAGARWEINIAD

1.1 Yn unol â Deddf Gamblo 2005, mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol baratoi a chyhoeddi datganiad ar ei bolisi gamblo bob tair blynedd.

1.2 Mae'r polisi presennol wedi gwasanaethu'r Awdurdod yn dda dros y tair blynedd diwethaf ac ni ragwelir y bydd unrhyw faterion yn codi petaem yn penderfynu parhau i ddefnyddio'r polisi hwnnw yn y tymor byr. Nid oes unrhyw bryderon am ymddygiad unrhyw sefydliadau gamblo masnachol ar yr Ynys ar hyn o bryd ac ni chafwyd unrhyw broblemau sylweddol ers gweithrediad y Ddeddf.

## 2. CEFNDIR

2.1 Mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol, yn unol ag Adran 5 Deddf Gamblo 2005, adolygu eu Polisi Gamblo bob tair blynedd. Mae'n rhaid penderfynu ar y Polisi diwygiedig cyn 1 Hydref, 2016.

2.2 Mae copi cyflawn o'r Polisi Trwyddedu llawn ar gael i'w archwilio isod.

2.3 Mae Atodiad D, o fewn y Polisi, yn cynnwys cofrestr o'r rheini yr ymgynghorwyd â nhw trwy e-bost i osgoi costau ychwanegol yn wyneb yr hinsawdd economaidd gyfredol

2.4 Mae'r Polisi diwygiedig yn atgyfnerthu pwysigrwydd gwaith partneriaeth er mwyn lleddfu'r risgiau; er mwyn adlewyrchu'r newid i gyfrifoldebau cymdeithasol o fewn Amodau Trwydded a Chodau Ymarfer y Comisiwn ac i ddarparu arweiniad i weithredwyr allu cynnal Asesiad Risg lleol o'r ardal gyfagos.

Mae 5$^{ed}$ rhifyn o Ganllawiau'r Comisiwn hefyd wedi eu hystyried.

## 3. Argymhellion

Bod y Cyngor Sir yn cymeradwyo'r adroddiad uchod ac yn mabwysiadu'r Polisi Gamblo diwygiedig.

Paratowyd yr Adroddiad gan D.M.JONES, Prif Swyddog Trwyddedu, ar ran yr Adran Safonau Masnach.

Cyngor Sir Ynys Mon

# Datganiad o Bolisi Gamblo

# Cyngor Sir Ynys Môn
# Datganiad o Bolisi Gamblo

## Cefndir


**1. Cyflwyniad:**

1.1 Amcanion Trwyddedu
1.2 Proffil
1.3 Awdurdodau Cyfrifol
1.4 Parti â diddordeb
1.5 Mathau o drwydded
1.6 Eiddo trwyddedadwy a thrwyddedau
1.7 Hawliau Sylfaenol
1.8 Ymgynghorwyd â
1.9 Cyfnewid Gwybodaeth
1.10 Strategaethau Integredig ac osgoi dyblygu
1.11 Strategaeth Gymunedol Datblygiad Cynaliadwy

**2. Deddfwriaeth, Polisi a Strategaethau**

2.1 Deddfwriaeth
2.2 Perthynas gyda Pholisïau Cynllunio
2.3 Strategaethau Cenedlaethol
2.4 Strategaethau a Pholisïau Lleol
2.5 Amgylchedd Trwyddedu Priodol

**3. Gwneud Penderfyniadau**

3. Gweinyddu, Ymarfer a Dirprwyo Swyddogethau
3.2 Gweithdrefn Apeliadau
3.3 Cwynion yn erbyn Eiddo Trwyddedig
3.4 Adolygiadau Trwyddedig
3.5 Amodau Trwyddedu a Chodau Ymarfer (LCCP)

**4. Safonau Lleol**

4.1 Ceisiadau
4.2 Amodau
4.3 Gorfodaeth
4.4Casinos
4.5 Trwyddedau peiriannau Hapchwarae mewn Canolfan Adloniant Teuluol Ddidrwydded
4.6 Canllawiau Ychwanegol
4.7 Loterïau Bychan
4.8 Eiddo wedi'i rannu

5. Amodau Trwyddedu a Chodau Ymarfer

6. Asesiad Risg – Eiddo Betio

7. Gwybodaeth bellach

**Atodiad A - Map o'r Ardal**

**Atodiad B – Dirprwyo Dyletswyddau**

**Atodiad C – Manylion Cyswllt yr Awdurdodau Perthnasol**

**Atodiad D – Y Rhai yr Ymgynghorwyd â Hwy**

**Atodiad E – Geirfa**

**Atodiad F – Crynodeb Peiriannau Hapchwarae**

## Cefndir

Mae Deddf Gamblo 2005 yn gweithredu cynigion y Llywodraeth i ddiwygio'r gyfraith ar gamblo. Mae'r Ddeddf yn sefydlu system reolaethol newydd i reoli pob darpariaeth gamblo yng Ngwledydd Prydain ar wahân i'r Loteri Genedlaethol a betio ar led. Cafodd Gydsyniad Brenhinol ar 7 Ebrill 2005

Mae'r Ddeddf Gamblo'n diddymu Deddf Betio, Hapchwarae a Loterïau 1963, Deddf Gamblo 1968 a Deddf Loterïau a Difyrion 1976. Mewn gwirionedd, bydd gamblo'n anghyfreithlon yng Ngwledydd Prydain oni bai ei fod yn cael ei ganiatáu o dan y mesurau yn y Ddeddf.

Mae'r Ddeddf yn caniatáu tri chategori o drwyddedau
Trwyddedau gweithredu     Trwyddedau personol     Trwyddedau eiddo

Bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn gyfrifol am gyflwyno trwyddedau eiddo a bydd y Comisiwn Gamblo, sy'n disodli'r Bwrdd Hapchwarae, yn gyfrifol am gyflwyno'r trwyddedau gweithredu a phersonol.

Bydd y Comisiwn Gamblo yn rheoleiddio gamblo er budd y cyhoedd drwy gadw gamblo'n rhydd o droseddu, sicrhau fod gamblo'n cael ei gynnal yn deg ac yn agored a gwarchod plant a'r bregus. Bydd y Comisiwn yn dal i gyflwyno canllawiau i Awdurdodau Lleol ynghylch y modd y dylent reoli gamblo a darparu ar ei gyfer a gallai hynny hefyd gynnwys darpariaethau ar gyfer hysbysebu darpariaethau gamblo.

Gellir cysylltu â'r Comisiwn Gamblo ar www.gamblingcommission.gov.uk

Diffinnir **Gamblo** yn y Ddeddf fel hapchwarae, betio neu gymryd rhan mewn loteri.

Golyga **hapchwarae** chwarae gêm o siawns am wobr.

Golyga **betio** roi neu dderbyn bet ar ganlyniad ras, cystadleuaeth neu unrhyw ddigwyddiad arall, y tebygolrwydd y bydd rhywbeth yn digwydd neu ddim yn digwydd ac a yw rhywbeth yn wir ai peidio.

**Loteri** yw pan fo raid i rywun dalu er mwyn cymryd rhan mewn trefniant lle mae un neu fwy o wobrau'n cael eu dyrannu drwy broses sy'n dibynnu'n gyfan gwbl ar hap.

# 1. CYFLWYNIAD:

## 1.1Amcanion Trwyddedu

Mae'r Ddeddf Gamblo 2005 yn rhoi'r cyfrifoldeb ar y Cyngor i gynnal ei wahanol waith trwyddedu er mwyn hyrwyddo'r tri phrif amcan trwyddedu:

- rhwystro gamblo rhag bod yn ffynhonnell trosedd neu anhrefn, bod yn gysylltiedig â throsedd neu anhrefn neu o gael ei ddefnyddio i gefnogi trosedd.
- sicrhau fod gamblo'n cael ei gynnal mewn modd teg ac agored ac
- amddiffyn plant a phobl fregus eraill rhag cael eu niweidio neu eu camddefnyddio gan amblo.

Dylid nodi fod y Comisiwn Gamblo wedi dweud: "Y gofyniad mewn perthynas â phlant yn benodol yw eu gwarchod rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio drwy gamblo".

Mae'r Cyngor, fel yr Awdurdod Trwyddedu, yn ymwybodol mai'r nod, fel ar gyfer Adran 153, wrth wneud penderfyniadau am Drwyddedau Eiddo a rhybuddion defnydd dros dro yw y dylid caniatáu'r defnydd o eiddo ar gyfer gamblo cyn belled a'i fod yn ystyried ei fod:

- yn unol ag unrhyw god ymarferol perthnasol a roddir gan y Comisiwn Gamblo
- yn unol ag unrhyw arweiniad perthnasol a roddir gan y Comisiwn Gamblo
- yn rhesymol gyson â'r amcanion trwyddedu ac;
- yn unol â datganiad yr awdurdod ar bolisi trwyddedu

Daw'r Cyngor felly yn awdurdod trwyddedu o dan Ddeddf Gamblo 2005. Golyga hyn y bydd y Cyngor yn gyfrifol am ganiatáu trwyddedau eiddo yn Ynys Môn ar gyfer:

- adeiladau casino
- bingo mewn neuaddau ac mewn eiddo wedi'i drwyddedu ar gyfer gwerthu alcohol
- eiddo betio gan gynnwys traciau
- canolfannau hapchwarae i oedolion
- canolfannau adloniant teuluol
- a pheiriannau hapchwarae mewn tafarndai a chlybiau

## 1.2 Proffil

Mae'r Cyngor yn gwasanaethu'r ardal ddaearyddol a adwaenir fel Ynys Môn – cyfeirir ati'n aml fel Môn Mam Cymru ac mae dwy bont wych, sef pont enwog Telford, 'Pont Borth' a Phont Britannia sy'n fwy diweddar, yn ei chysylltu gyda thir mawr Gogledd-orllewin Cymru. Oherwydd ei bod mor agos i Iwerddon, mae'n "borth" rhyngwladol strategol i Weriniaeth Iwerddon gyda phorthladd y

fferi yng Nghaergybi yn cludo 2.5 miliwn o bobl bob blwyddyn dros y môr i ac o'r Ynys Werdd.

Gan Ynys Môn y mae'r boblogaeth leiaf yng Nghymru – 68,368 yng nghanol 2003. Serch hynny, gydag arfordir o 125 milltir yn cwmpasu ardal sy'n 720 cilometr sgwâr, Ynys Môn ydyw'r fwyaf o ynysoedd Cymru. Gweler map o'r ardal yn Atodiad A. Erys yn gadarnle i'r iaith a'r diwylliant Cymreig ac mae'n cynnwys 22,000 hectar o Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, 60 safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig sy'n ategu at 4 o Warchodfeydd Natur Cenedlaethol, 3 Ardal Diogelwch Arbennig ac 8 ardal sy'n ymgeisio am statws Ardaloedd Cadwraeth Arbennig.

Ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor 7 Eiddo Betio trwyddedig, 3 Canolfan Adloniant Teuluol, 107 Eiddo Trwyddedig gyda Hysbysiadau Peiriannau Gemau, nifer cyfyngedig o Drwyddedau Peiriannau Gemau mewn Clybiau ac ychydig dros 200 o loterïau bach.

Yn ôl Deddf 2005, rhaid i'r Cyngor gyhoeddi 'Datganiad o Bolisi Trwyddedu' sy'n gosod allan y polisïau y bydd y Cyngor fel rheol yn eu defnyddio i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu wrth benderfynu ar geisiadau ac adolygiadau o dan y Ddeddf.

Cafodd y Polisi hwn ei baratoi gan gadw mewn cof ddarpariaethau'r Ddeddf Gamblo, y Canllawiau a dderbyniwyd oddi wrth y Comisiwn Gamblo a'r ymatebion a gafwyd yn ystod y broses o ymgynghori. Bwriedir iddi fod yn ddogfen addysgiadol ac yn ddogfen drafod a fydd yn arwain y Cyngor at fabwysiadu Datganiad o Bolisi Trwyddedu ffurfiol.

Daw'r polisi i rym ar y dyddiad y bydd yn cael ei fabwysiadu gan y Cyngor ac fe'i adolygir yn ôl y gofyn ac o leiaf bob tair blynedd o ddyddiad ei fabwysiadu.

### 1.3 Awdurdod Cyfrifol

Mae angen i'r Awdurdod Trwyddedu, drwy reoliadau, nodi'r egwyddorion y bydd yn eu gweithredu wrth ymarfer ei bwerau o dan Adran 157(h) o'r Ddeddf er mwyn dynodi, yn ysgrifenedig, corff sydd â'r gallu i gynghori'r awdurdod am sut i amddiffyn plant rhag niwed. Yr egwyddorion yw:

Yr angen i'r corff fod yn gyfrifol am ardal sy'n cynnwys holl ardal yr Awdurdod Trwyddedu; a'r angen i'r corff fod yn atebol i unigolion sydd wedi'u hethol mewn modd democrataidd, yn hytrach nag unrhyw grŵp sydd â diddordeb personol.

Yn unol â'r awgrymiad yng Nghanllawiau'r Comisiwn Gamblo ar gyfer Awdurdodau Trwyddedu, mae'r awdurdod hwn yn dynodi'r Bwrdd Diogelu Plant lleol i'r diben hwn; ond gallai fod yn ddoeth i'r Cyngor gynnwys sefydliadau eraill os yw'n credu ei fod yn ddoeth i wneud hynny er mwyn atal niwed corfforol, moesol neu seicolegol, yn enwedig lle bydd yn derbyn sylwadau i'r perwyl hwnnw

Mae manylion cyswllt yr holl Awdurdodau Cyfrifol sydd wedi'u nodi o dan Deddf Gamblo 2005, wedi eu cynnwys yn Atodiad B.

**1.4 Parti â Diddordeb:**

At ddibenion Deddf Gamblo 2005, mae unigolyn yn barti â diddordeb, mewn perthynas â thrwydded eiddo os, ym marn yr Awdurdod Trwyddedu sy'n rhoi'r drwydded neu y gwneir y cais iddynt, fod yr unigolyn:

- Yn byw yn ddigon agos i'r eiddo fel eu bod yn debygol o gael eu heffeithio gan y gweithgareddau a awdurdodir;
- Sydd â buddiannau busnes a allai gael eu heffeithio gan y gweithgareddau awdurdodedig; gallai hyn gynnwys, er enghraifft, cymdeithasau masnach, elusennau, grwpiau ffydd a chanolfannau meddygol.
- Yn cynrychioli unigolion sy'n bodloni unrhyw un o'r uchod; Cymdeithasau Trigolion a Thenantiaid er enghraifft.

  Wrth ystyried a yw unigolyn yn barti â diddordeb, bydd pob achos yn cael ei ystyried yn unigol gan ystyried yr amgylchiadau perthnasol, gan gynnwys y rhai hynny sy'n cael eu cynnwys yng Nghanllawiau'r Comisiwn Gamblo ar gyfer Awdurdodau Lleol.

**1.5 Mathau o Drwydded**

Mae'r ddogfen yn gosod allan y polisïau y bydd y Cyngor yn eu defnyddio wrth benderfynu ar geisiadau ar gyfer:

1. Trwydded Eiddo
2. Hysbysiadau Defnydd Dros Dro
3. Hysbysiadau Defnydd Achlysurol
4. Hawlenni sydd raid eu cael o dan y Ddeddf, a
5. Cofrestriadau sydd raid eu cael o dan y Ddeddf

**1.6 Eiddo trwyddedadwy a thrwyddedau**

Mae'r polisi hwn yn ymwneud â'r holl eiddo trwyddedadwy, rhybuddion, caniatadau a chofrestriadau sydd wedi eu cynnwys yn narpariaethau'r Ddeddf, sef:-

- adeiladau casino
- adeiladau bingo
- canolfannau betio, gan gynnwys traciau
- canolfannau gemau i oedolion
- canolfannau adloniant i deuluoedd

Ac eithrio yn achos traciau (lle mae'n bosib nad y sawl sy'n rhedeg y trac ac sydd â'r Drwydded yw'r person sy'n cynnig y gweithgaredd gamblo) ni fedrir ond rhyddhau trwydded i bobl a chanddynt drwydded weithredu berthnasol. Er enghraifft, i gael trwydded ar gyfer adeilad bingo, rhaid i'r ymgeisydd hefyd fod â thrwydded weithredu ar gyfer bingo. Gellir trosglwyddo trwyddedau adeiladu i rywun arall sydd â thrwydded weithredu ddilys.

Yn unol â'r Ddeddf , gall awdurdodau trwyddedau roddi amodau ynghlwm wrth drwyddedau adeiladu. Mae Rhan 9 y Canllawiau hyn yn awgrymu'r amodau y gellir eu hystyried mewn perthynas â phob math o drwydded.

Yn ychwanegol at drwyddedau, mae yna fathau eraill o awdurdodiadau y gall awdurdod trwyddedu eu caniatáu, er enghraifft, awdurdodiadau ar gyfer defnydd dros dro o eiddo, rhybuddion defnydd achlysurol a 5 o wahanol fathau o ganiatâd ar gyfer canolfannau adloniant i'r teulu nad oes trwydded ar eu cyfer, gemau gyda gwobrau, peiriannau gemau mewn adeiladau â thrwydded alcohol a chaniatadau ar gyfer gemau clwb a pheiriannau mewn clybiau.

## 1.7 Hawliau Sylfaenol

Yn unol ag amodau'r Ddeddf gall unrhyw unigolyn/cwmni wneud cais am amrywiaeth o fathau o ganiatâd a chael eu ceisiadau wedi eu hystyried ar sail unigol. Yn ogystal, mae gan unrhyw Barti sydd â Diddordeb neu Awdurdod Cyfrifol yr hawl i wneud sylwadau perthnasol ar gais neu i ofyn am adolygiad o drwydded neu dystysgrif lle mae darpariaeth iddynt wneud hynny wedi'i nodi yn y Ddeddf.

Mae gan ymgeiswyr a'r rhai hynny sy'n gwneud sylwadau perthnasol o ran ceisiadau i'r Awdurdod Trwyddedu yr hawl i apelio i'r Llys Ynadon yn erbyn penderfyniadau'r Awdurdod Trwyddedu.

Bydd y Cyngor, wrth ymgymryd â'i waith trwyddedu, yn talu sylw dyladwy i'r angen i wahardd gwahaniaethu anghyfreithlon ac i hyrwyddo cydraddoldeb a pherthynas dda rhwng pobl o wahanol hil.

## 1.8 Y rhai yr ymgynghorwyd â nhw

Ymgynghorir yn ffurfiol ynghylch y Datganiad o Bolisi Trwyddedu hwn gyda:

1. Heddlu Gogledd Cymru.
2. Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.
3. Cynrychiolwyr o ddeiliaid gwahanol drwyddedau eiddo yn yr ardal a fydd yn cael eu heffeithio gan y polisi hwn.
4. Pobl a busnesau a fyddai'n debygol o gael eu heffeithio gan y gamblo a awdurdodir yn yr Ardal

*Ni fwriedir i'r rhestr uchod fod yn gyflawn, yn wir disgwylir yr ymgynghorir yn hynod o eang, gweler Atodiad D am restr gyflawn.*

Bydd y Cyngor, gan dalu sylw llawn i Ganllawiau'r Comisiwn, yn rhoi'r pwys dyladwy ar farn y rhai yr ymgynghorwyd â nhw. Wrth benderfynu ar faint o bwys a ddylid ei roi i sylw penodol, bydd y Cyngor yn cadw mewn cof:

i. pwy sy'n cyflwyno'r sylw (beth yw ei arbenigedd neu ei ddiddordeb)

ii. beth allai fod eu cymhelliad

iii. faint o bobl eraill sydd wedi mynegi barn debyg

iv. y graddau y mae'r sylwadau'n berthnasol i faterion y dylai'r Cyngor fod yn eu cynnwys yn y ddogfen bolisi.

## 1.9 Cyfnewid Gwybodaeth

Mae angen i awdurdodau trwyddedu gynnwys yn eu datganiadau yr egwyddorion sydd i'w gweithredu gan yr awdurdod wrth ymarfer eu swyddogaethau o dan adrannau 29 a 30 o'r Ddeddf mewn perthynas â chyfnewid gwybodaeth gyda'r Comisiwn Gamblo a'r swyddogaethau o dan adran 350 o'r Ddeddf mewn perthynas â chyfnewid gwybodaeth rhyngddo a'r unigolion eraill a restrir yn Atodlen 6 o'r Ddeddf.

Yr egwyddor y mae'r Awdurdod Trwyddedu hwn yn ei weithredu yw y bydd yn gweithredu yn unol â darpariaeth Deddf Gamblo 2005 wrth gyfnewid gwybodaeth sy'n cynnwys y ddarpariaeth na fydd Deddf Diogelu Data 1998 yn cael ei thorri. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hefyd yn rhoi ystyriaeth i unrhyw Ganllawiau a roddir gan y Comisiwn Gamblo ar y mater hwn, yn ogystal ag unrhyw bwerau perthnasol a roddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan y pwerau a ddarperir yn Neddf Gamblo 2005.

Petai unrhyw brotocolau yn cael eu sefydlu o ran cyfnewid gwybodaeth â chyrff eraill yna byddant ar gael.

Gall y Cyngor o bryd i'w gilydd ymarfer ei bwerau o dan adran 115 o Ddeddf Trosedd ac Anrhefn 1998 er mwyn cyfnewid data a gwybodaeth gyda'r heddlu a phartneriaid eraill er mwyn cyflawni ei amcan statudol o leihau trosedd yn yr ardal.

Byddai'r awdurdod yn dymuno gwneud ei broses gwneud penderfyniadau mor dryloyw â phosibl a bydd yr holl sylwadau a wneir yn cael eu rhannu â'r holl bartïon ar gais. Bydd raid cydymffurfio gyda'r ddeddfwriaeth rhyddid gwybodaeth.

## 1.10 Integreiddio Strategaethau ac osgoi dyblygu

Drwy ymgynghori'n eang cyn cyhoeddi'r Datganiad Polisi hwn, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn rhoddi ystyriaeth lawn i'r polisïau lleol sy'n cynnwys atal trosedd, diwylliant, cludiant, cynllunio a thwristiaeth fel rhan o strategaeth integredig ar gyfer yr Awdurdod Trwyddedu, yr Heddlu ac asiantaethau eraill. Efallai na fydd rhai o'r strategaethau hyn yn ymwneud yn uniongyrchol â hyrwyddiad y tri amcan trwyddedu, ond efallai y byddant yn effeithio'n anuniongyrchol arnynt.

Wrth ystyried unrhyw gais, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn osgoi dyblygu gwaith gydag unrhyw gyfundrefnau rheoleiddiol eraill i'r graddau y mae hynny'n bosibl. Felly, ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn rhoi amodau ar drwydded oni bai yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol, yn rhesymol ac yn gyfatebol i'r defnydd o'r eiddo ar gyfer gamblo ac yn gyson â'r amcan trwyddedu.

**1.11 Strategaeth Gymunedol Datblygiad Cynaliadwy**

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn nodi bod angen i'r holl awdurdodau lleol gynhyrchu strategaeth gymunedol o fewn fframwaith Strategaeth Datblygiad Cynaliadwy'r DU - "Gwell ansawdd bywyd" a strategaethau rhanbarthol perthnasol.

Mae strategaethau cymunedol yn darparu canolbwynt ar gyfer adnabod materion lleol a dyheadau o ran cynhwysiant cymdeithasol, gwarchod yr amgylchedd, cyflogaeth a datblygiad economaidd.

Mae partneriaethau strategol lleol, sydd fel arfer yn cynnwys yr heddlu, awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a chynrychiolwyr o fyd addysg, busnes a'r sefydliadau sector gwirfoddol, yn gyfrifol am gyflawni amcanion y cytunir arnynt yn lleol.

Yn unol â Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998 mae'n rhaid i awdurdodau lleol roi ystyriaeth i effaith tebygol gweithrediad eu swyddogaethau ar drosedd ac anhrefn yn yr ardal a gwneud popeth o fewn eu gallu er mwyn atal trosedd ac anrhefn yn yr ardal. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn rhoi ystyriaeth benodol i'r effaith tebygol y bydd trwyddedu yn ei gael ar drosedd ac anrhefn yn y Sir, yn enwedig wrth ystyried y lleoliad, effaith, gweithrediad a rheolaeth yr holl geisiadau trwydded, adnewyddiadau ac amrywiadau amodau.

## 2. DEDDFWRIAETH, POLISI A STRATEGAETHAU

Ni fydd dim yn y Datganiad o Bolisi hwn yn:

1. Tanseilio hawliau unrhyw berson i gyflwyno cais o dan y Ddeddf am sawl math o ganiatâd ac i gael y cais wedi'i ystyried yn ôl ei deilyngdod ei hun NEU'n
2. Goresgyn hawl unrhyw berson i gyflwyno sylwadau ar unrhyw gais neu ofyn am adolygiad o drwydded neu hawlen lle mae'r Ddeddf yn caniatáu hynny.

Y man cychwyn ar gyfer penderfynu ar geisiadau fydd rhagdybio y dylid caniatáu'r cais, heb amodau. Dim ond pan fydd eu hangen i gyfarfod ag anghenion yr amcanion trwyddedu yr ystyrir amodau ac ni fydd unrhyw amod a osodir yn or lawdrwm ond bydd yn gymesur â'r cais ac â'r 'risgiau' a ragwelir. Fel rheol, ystyrir na fydd angen amodau os oes deddfwriaeth arall sy'n cyflawni'r un amcan.

Gwerthfawrogir, fel y nodir yng Nghanllawiau'r Comisiwn Gamblo ar gyfer awdurdodau lleol nad yw "gwrthwynebiad moesol tuag at gamblo yn rheswm dilys ar gyfer gwrthod ceisiadau am Drwyddedau Eiddo" ac nid yw galw sydd heb ei fodloni yn faen prawf ar gyfer awdurdod trwyddedu.

Mae'r Amodau Trwydded a Chod Ymarfer (LCCP) a gyhoeddir gan y Comisiwn Gamblo yn rhoi cyfrifoldeb pellach ar ddeiliaid yr eiddo i gwblhau asesiad risg yn seiliedig ar God 8 sef y cod cyfrifoldeb cymdeithasol. Bydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth i'r cod hwn wrth ystyried ceisiadau. Mae hyn wedi'i gynnwys yn Adran 6 o'r Polisi.

Wrth benderfynu ar gais am drwydded eiddo neu adnewyddu trwydded eiddo, telir sylw i ba mor agos yw'r eiddo at ysgolion, canolfannau oedolion bregus neu at ardaloedd trigiannol gyda nifer fawr o deuluoedd â phlant. Ystyrir hefyd pa mor fawr yw'r eiddo gamblo a sut y bydd yn gweithio. Fodd bynnag, penderfynir ar bob achos yn ôl ei deilyngdod. Felly, os gall ymgeisydd ddangos mewn gwirionedd sut y gallai oresgyn bryderon ynghylch amcan trwyddedu, bydd hyn yn cael ei ystyried.

Mae trwyddedu'n golygu rheoli eiddo trwyddedig, Hysbysiadau Defnydd Dros Dro a Hysbysiadau Defnydd Achlysurol o dan delerau'r Ddeddf. Gellir gosod amodau ar drwyddedau ar gyfer ymdrin â materion sydd o dan reolaeth trwyddedeion unigol.

Wrth ystyried a ddylid gosod amodau ar drwyddedau, dylai'r Cyngor ganolbwyntio'n bennaf ar beth fyddai effaith uniongyrchol y gweithgareddau sy'n digwydd mewn eiddo trwyddedig ar y cyhoedd sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardal honno. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol, drwy reoliad, ddarparu ar gyfer gosod amod benodol ar Drwydded Eiddo fel amod 'fandadol neu 'ddiofyn'. Wrth benderfynu ar gais, ni ddylai'r Awdurdod Trwyddedu dalu sylw i'r gofyn am yr hyn sy'n cael ei ddarparu.

Mae'r Cyngor yn cydnabod fod sawl ffordd arall ar gael ar wahân i drwyddedu o dalu sylw i achosion o ymddygiad afreolus a allai ddigwydd y tu allan i eiddo trwyddedig, gan gynnwys:

1. Rheoli cynllunio

2. Gwaith i greu amgylchedd diogel a glân yn yr ardaloedd hynny mewn partneriaeth â busnesau lleol, cwmnïau cludiant ac Adrannau eraill o'r Cyngor.
3. Cysylltiad rheolaidd gyda'r Heddlu ynghylch problemau gorfodi'r gyfraith pan geir anrhefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol
4. Hawliau'r Heddlu, awdurdodau cyfrifol eraill neu drigolion neu fusnes lleol i ofyn am adolygiad o'r drwydded

Bydd gofyn i wrthwynebwyr ddweud i ba un neu ragor o'r Amcanion Trwyddedu y mae eu gwrthwynebiad yn berthnasol iddynt, fel y nodir yn adran 1.1 uchod cyn y bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n gallu ei ystyried.

Pan fo person, sydd naill ai'n cael ei effeithio'n uniongyrchol gan y cais neu sy'n byw gerllaw eiddo yr ystyrir ei drwyddedu, yn cyflwyno'i hun fel cynrychiolydd trigolion y cyffiniau, bydd yr Awdurdod Trwyddedu fel arfer yn gofyn am brawf ei fod yn eu cynrychioli mewn gwirionedd

Bydd y Cyngor, wrth ymgymryd â'i swyddogaeth drwyddedu, yn rhoi sylw dyledus i'r angen i wneud i ffwrdd â gwahaniaethu anghyfreithlon ac i hyrwyddo cydraddoldeb a pherthnasau da rhwng pobl o wahanol grwpiau hîl.

## 2.1 Deddfwriaeth

Wrth gyflawni ei swyddogaethau trwyddedu dan Ddeddf Gamblo 2005 bydd raid i'r Cyngor ystyried deddfwriaethau eraill, gan gynnwys:

1. Adran 17 Deddf Trosedd ac Anrhefn 1988
2. Deddf Hawliau Dynol 1998
3. Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ayb 1974;
4. Deddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990;
5. Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003;
6. Deddf Cysylltiadau Hiliol (a ddiwygiwyd) 1976
7. Deddf Trwyddedu 2003
8. Gorchymyn Datganiadau Rheolaethol (Diogelwch Tân) 2005

Fodd bynnag, ni fwriedir i'r polisi ddyblygu'r ddeddfwriaeth bresennol na'r trefniadau rheolaethol sydd eisoes yn ymrwymo cyflogwyr a gweithredwyr.

## 2.2 Perthynas gyda Pholisïau Cynllunio

Wrth benderfynu ar gais ni fedrir, yn unol â thelerau'r Ddeddf, gymryd i ystyriaeth ganiatâd cynllunio neu reoliadau adeiladu ac/neu gyfyngiadau cynllunio.

Nid yw galw heb ei ddiwallu yn ystyriaeth y telir sylw iddo wrth benderfynu ar gais am drwydded eiddo o dan Ddeddf Gamblo 2005.

Mae'r broses o gyflwyno Caniatâd dros Dro am drwydded eiddo yn broses wahanol ac ar wahân i ryddhau Caniatâd Cynllunio. Rhaid gwneud cais a derbyn caniatâd Cynllunio a Rheoliadau Adeiladu cyn y gellir cychwyn ar unrhyw ddatblygu.

### 2.3 Strategaethau Cenedlaethol

Bydd y Cyngor hefyd yn ceisio cyflawni ei gyfrifoldebau fel y cânt eu nodi yn Strategaethau eraill y Llywodraeth, i'r graddau y maent yn effeithio ar ei waith trwyddedu.

### 2.4 Strategaethau a Pholisïau Lleol

Bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau gan gadw mewn cof y polisïau lleol eraill a fabwysiadwyd, gan gynnwys Gweledigaeth, Amcanion Strategol a Blaenoriaethau'r Cyngor.

### 2.5 **Amgylchedd Trwyddedu Priodol**

Mae'r Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol a'r Amodau Trwyddedu a Chodau Ymarfer (LCCP) sy'n dechrau ym Mai 2015, yn nodi materion ychwanegol y dylai'r Awdurdod Trwyddedu roi ystyriaeth iddynt wrth ystyried ceisiadau trwyddedu ar gyfer Eiddo Trwyddedig.

Mae Canllaw 19, amod LCCP 16 a chod 9 yn nodi cyfyngiadau ar weithgareddau gamblo mewn eiddo, y cyfeiriwyd atynt yn flaenorol fel prif weithgaredd gamblo. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried unrhyw gais yn seiliedig ar y darpariaethau yn y codau a'r arweiniad hwn.

Lle darperir cyfleusterau gamblo mewn eiddo fel gweithgaredd sy'n ychwanegol at brif ddiben yr eiddo; e.e. ardaloedd cyfleusterau priffyrdd a chanolfannau siopa, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn disgwyl i'r ardal gamblo gael ei diffinio'n glir er mwyn sicrhau bod cwsmeriaid yn gwbl ymwybodol eu bod yn dewis mynd i mewn i ardal gamblo a bod yr ardal yn cael ei goruchwylio'n briodol bob amser.

Bydd y Cyngor yn ystyried y pethau hyn a ffactorau perthnasol eraill wrth iddo wneud ei benderfyniad, yn ddibynnol ar holl amgylchiadau'r achos.

Mae darpariaethau mynediad perthnasol y Comisiwn Gamblo ar gyfer pob math o eiddo sydd wedi eu hatgynhyrchu isod:

#### Casinos
Mae'n rhaid i'r brif fynedfa i'r eiddo fod oddi ar stryd (fel y diffinnir yn 7.24 y Canllawiau). Ni ddylid cael unrhyw fynediad i gasino o eiddo a ddefnyddir yn llawn neu gan amlaf gan blant a/neu bobl ifanc.

Ni ddylai unrhyw gwsmer allu mynd i mewn i gasino yn uniongyrchol o eiddo arall sydd â Thrwydded Eiddo gamblo.

#### Canolfan Hapchwarae Oedolion
Ni ddylai unrhyw gwsmer allu cael mynediad i'r eiddo yn uniongyrchol o unrhyw eiddo gamblo trwyddedig arall.

#### Siopau Betio
Rhaid i'r fynedfa fod o'r stryd (fel y diffinnir ym mharagraff 7.23 o Ganllawiau Awdurdodau Trwyddedu) neu o eiddo arall sydd â Thrwydded Eiddo betio.

Dim mynediad uniongyrchol o siop fetio i eiddo arall a ddefnyddir ar gyfer gwerthu eiddo neu wasanaethau. Mewn gwirionedd, ni ellir cael mynedfa i siop fetio o unrhyw fath o siop ac ni allech gael siop fetio yng nghefn caffi – byddai'n rhaid i'r holl ardal fod wedi'i thrwyddedu.

**Traciau**
· Ni ddylai unrhyw gwsmer allu cael mynediad i'r eiddo yn uniongyrchol o:
- gasino
- canolfan hapchwarae oedolion

**Eiddo Bingo**
·Ni ddylai unrhyw gwsmer allu cael mynediad i'r eiddo yn uniongyrchol o:
- gasino
- canolfan hapchwarae oedolion
- eiddo betio, heblaw am drac

**Canolfan Adloniant Deuluol**
·Ni ddylai unrhyw gwsmer allu cael mynediad i'r eiddo yn uniongyrchol o:
- gasino
- canolfan hapchwarae oedolion
- eiddo betio, heblaw am drac

Mae Rhan 7 o Ganllawiau'r Comisiwn Gamblo i Awdurdodau Trwyddedu yn cynnwys arweiniad pellach ar y mater, y bydd yr awdurdod hwn hefyd yn ei ystyried wrth wneud penderfyniadau.

## 3. GWNEUD PENDERFYNIADAU

### 3.1 Gweinyddu, Ymarfer a Dirprwyo Swyddogaethau

Gall pwerau a dyletswyddau'r Awdurdod Trwyddedu gael eu cyflawni gan y Pwyllgor Trwyddedu, gan Is-Bwyllgor neu gan un neu fwy o swyddogion sy'n gweithredu yn unol â'r awdurdod dirprwyedig.

Ystyrir y bydd nifer o'r swyddogaethau yn rhai gweinyddol eu natur ac ni ragwelir unrhyw feysydd dadleuol. O ran effeithlonrwydd a bod yn gost effeithiol fe gyflawnir y pethau hyn, gan amlaf, gan Swyddogion.

Mae'r amserlen ganlynol yn nodi'r ddirprwyaeth o swyddogaethau a argymhellir a phenderfyniadau yn ôl arweiniad. Fodd bynnag, gall yr Awdurdod Trwyddedu gyfeirio unrhyw fater i'r Pwyllgor Trwyddedu neu Is-Bwyllgor.

Mae'r amserlen ar gyfer dirprwyo swyddogaethau trwyddedu wedi'i hatodi fel Atodiad B.

### 3.2 Gweithdrefn Apeliadau

Mae hawliau trydydd parti i apelio os ydynt yn teimlo wedi'u tramgwyddo gan yr Awdurdod Trwyddedu wedi eu nodi yn Adrannau 206 i 209 o Ddeddf 2005. Rhaid cyfeirio apeliadau at Lys Ynadon yr ardal lle mae'r Awdurdod Trwyddedu, sydd wedi ystyried y cais, wedi'i leoli.
Rhaid dechrau apêl drwy roi rhybudd o'r apêl gan y sawl sy'n apelio, i Lys Ynadon Caernarfon o fewn cyfnod o 21 diwrnod, yn dechrau gyda'r diwrnod yr

hysbyswyd yr unigolyn gan yr Awdurdod Trwyddedu o’r penderfyniad y mae wnelo’r apêl ag ef.

Wrth benderfynu ar yr apêl, gall y Llys:
Ddiystyru’r apêl;
Disodli’r penderfyniad yr apeliwyd yn ei erbyn gyda phenderfyniad arall y gallai’r Awdurdod Trwyddedu fod wedi’i wneud:

Dychwelyd yr achos i’r Awdurdod Trwyddedu er mwyn gwaredu’r apêl yn unol â chyfeiriad y Llys.

Gwneud gorchymyn am gostau

## 3.3 CWYNION YN ERBYN EIDDO TRWYDDEDIG

Bydd y Cyngor yn ymchwilio i gwynion yn erbyn eiddo trwyddedig o ran materion sy’n berthnasol i’r amcanion trwyddedu y mae ganddo gyfrifoldeb amdanynt. Anogir pawb i gwyno’n gyntaf wrth y trwyddedai neu’r busnes a cheisio datrys y mater eu hunain.

Pan fo parti â diddordeb yn cyflwyno sylwadau dilys ynghylch eiddo trwyddedig, neu’n cyflwyno cais dilys am adolygu trwydded, gall y Cyngor yn gyntaf argymell cyfarfod cymodi i geisio egluro a datrys y broblem.

Ni fydd y broses yn amharu ar hawl unrhyw barti â diddordeb i ofyn i’r pwyllgor trwyddedu ystyried gwrthwynebiadau dilys a bydd gan ddeilydd trwydded hawl i wrthod cymryd rhan mewn cyfarfod cymodi.

**Rhoddir yr ystyriaeth briodol i bob sylw perthnasol oni bai yr ystyrir eu bod yn amherthnasol, yn ddisylwedd neu’n flinderus neu os na fydd yn achosi’r Cyngor i addasu/diddymu/gwahardd y drwydded**

### 3.4 Adolygiadau Trwyddedu

Bydd y Cyngor yn cynnal adolygiad o’r drwydded eiddo pan fydd yn derbyn cais ffurfiol yn unol â’r Ddeddf i’w hadolygu mewn perthynas ag un neu ragor o’r Amcanion Trwyddedu. Gallai sylwadau fod ynghylch yr hyn sy’n digwydd yn yr eiddo, gan gynnwys y canlynol:

- Defnydd o eiddo trwyddedig i werthu a dosbarthu cyffuriau Dosbarth A a golchi cynnyrch troseddau cyffuriau.
- Defnyddio eiddo trwyddedig ar gyfer gwerthu a dosbarthu drylliau anghyfreithlon
- Defnyddio eiddo trwyddedig ar gyfer puteinio neu werthu pornograffi anghyfreithlon
- Defnyddio eiddo trwyddedig fel canolfan gweithgaredd troseddol wedi’i drefnu.
- Defnyddio eiddo trwyddedig i drefnu ymosodiadau hiliol, homoffobig neu drais rhywiol.
- Defnyddio eiddo trwyddedig ar gyfer gwerthu tybaco neu nwyddau wedi’u smyglo

- Defnyddio eiddo trwyddedig ar gyfer gwerthu nwyddau wedi'u lladrata
- Bod plant neu bobl fregus yn cael eu peryglu

Rhoddir yr ystyriaeth briodol i bob sylw perthnasol ond anwybyddir sylwadau sy'n disgyn i'r categorïau canlynol:

a) ar sail nad oes sylwedd iddo

b) ar sail ei fod yn flinderus

c) ar sail ei fod yn amherthnasol

d) ar sail na fyddai'r sylw yn achosi'r Cyngor i ddiddymu neu atal trwydded neu dynnu neu osod amodau ar Drwydded yr Eiddo

e) ar sail ei fod yn sylweddol yr un fath â sylw a gyflwynwyd mewn cais blaenorol ynghylch yr un eiddo; neu

f) ar sail ei fod yn sylweddol yr un fath a sylw a wnaed pan oedd y cais am Drwydded Eiddo'n cael ei ystyried.

Gall y Cyngor ei hunan hefyd benderfynu y dylid adolygu Trwydded Eiddo.

Unwaith mae adolygiad wedi'i gwblhau mae'n rhaid i'r Cyngor, cyn gynted ag y bydd hynny'n bosibl, hysbysu deilydd y drwydded, yr ymgeisydd, y comisiwn ac unrhyw un a wnaeth gynrychioliadau, Prif Gwnstabl yr Heddlu a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

## 4. Gweinyddu

### 4.1 Ceisiadau

Dim ond person sydd un ai wedi derbyn NEU wedi ymgeisio am Drwydded Gweithredu sy'n ei awdurdodi i gynnal y gweithgaredd all ymgeisio am Drwydded Eiddo ar gyfer y gweithgaredd hwnnw.

Rhaid cyflwyno asesiad o sut y bydd yr ymgeisydd yn hyrwyddo pob Amcan Trwyddedu ar ffurf Atodlen Gweithredu ysgrifenedig gyda phob cais am gael, trosglwyddo neu amrywio trwydded eiddo. Gall Ymgeisydd ofyn am gyngor gan y Cyngor ynghylch faint o wybodaeth a ddylid ei gyflwyno. Gweler hefyd Asesiadau Risg.

Bydd y cyngor yn cynghori faint o fanylion y dylid eu cyflwyno a bydd hynny yn gymesur â natur y cais a gyflwynir.

### 4.2 Amodau

Rhoddir amodau sy'n gymesur ac yn addas ar gyfer y busnes, y sefydliad neu'r unigolyn ar drwyddedau. Bydd y Cyngor yn dibynnu'n bennaf ar gyngor a geir gan y Comisiwn Gamblo ac yn gosod amodau yn unol ag amgylchiadau pob cais unigol.

Bydd amodau a osodir ar drwyddedau eiddo yn adlewyrchu strategaethau atal trosedd lleol, i'r graddau y mae hynny'n bosibl. Er enghraifft, byddai'n addas gofyn am deledu cylch cyfyng mewn rhai eiddo.

### 4.3 Gorfodaeth

Bydd y Cyngor yn cael ei arwain gan Ganllawiau'r Comisiwn Gamblo ar gyfer Awdurdodau Lleol, y Cod Rheolyddion a Pholisi Gorfodaeth y Cyngor. Bydd y Cyngor yn ymdrechu i fod yn

- ❖ Gymesur: dim ond pan fo angen gwneud hynny y bydd rheoleiddwyr yn ymyrryd; bydd yr hyn a gynigir yn addas ar gyfer y risg a welir ac yn costio cyn lleied â phosibl.
- ❖ Atebol: Bydd rheoleiddwyr yn gallu cyfiawnhau penderfyniadau a bydd pob gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd.
- ❖ Cyson: bydd rheolau a safonau yn gyson ac yn cael eu gweithredu'n deg.
- ❖ Tryloyw: bydd rheoleiddwyr yn agored ac yn ymdrechu i gadw'r rheoliadau'n syml ac yn hawdd eu deall.
- ❖ Wedi'u targedu: bydd rheoli'n canolbwyntio ar y broblem ac yn achosi'r lleiaf posibl o sgîl-effeithiau.

Bydd y Cyngor yn ceisio osgoi dyblygu gyda threfniadau rheolaethol eraill cyn belled a bo modd.

Sefydlir cynllun o archwilio eiddo'n rheolaidd a phenderfynir pa mor aml y gwneir hynny yn ôl yn risg sy'n codi o'r eiddo h.y. bydd eiddo lle'r ystyrir fod mwy o risg yn cael ei archwilio'n amlach nag eiddo sydd â llai o risg.

Wrth benderfynu ar risg, ystyrir y canlynol:

natur y gamblo sy'n digwydd yn yr eiddo
leoliad yr eiddo mewn perthynas ag ysgolion ayb.
y gweithdrefnau sydd gan y rheolwyr ar gyfer cwrdd â'r amcanion trwyddedu.

Gellir archwilio ar hap hefyd, yn ôl disgresiwn y tîm trwyddedu, pan ystyrir fod hynny'n angenrheidiol i gyfarfod ag amcan trwyddedu neu pan dderbynnir cwyn. Bydd yr Ardal yn cael ei monitro am eiddo didrwydded.

Bydd y Cyngor yn cydweithio'n agos gyda'r heddlu i orfodi deddfwriaeth trwyddedu. Bydd yn annog yr heddlu i rannu gwybodaeth ynghylch trwyddedeion ac eiddo trwyddedig o dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998.

Y Comisiwn Gamblo yw'r corff gorfodaeth ar gyfer y trwyddedau gweithredu a phersonol. Mae hefyd yn werth nodi nad yr Awdurdod Trwyddedu sy'n delio gyda phryderon am weithgynhyrchu, cyflenwi neu atgyweirio peiriannau hapchwarae, dylid hysbysu'r Comisiwn Gamblo am faterion o'r fath.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried canllawiau'r Comisiwn Gamblo a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2015 (neu unrhyw ddiwygiadau dilynol) 'Ymdrin â Phrofion Prynu' wrth ystyried cynnal profion prynu mewn eiddo gamblo. Bydd y Cyngor hefyd yn dilyn ei bolisïau a'i weithdrefnau ei hun o ran y defnydd o bobl dan oed ar gyfer profion prynu.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hefyd yn cadw i fynyd â'r datblygiadau o ran gwaith y Gweithredwr Rheoliadau Gwell wrth ystyried swyddogaethau rheoli yr awdurdodau lleol.

### 4.4 Casinos

Does dim penderfyniad i wahardd casinos yn y Sir ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i adolygu hyn ac efallai y bydd, rywbryd, yn penderfynu peidio â chaniatáu casinos. Does dim casinos yn y Sir ar hyn o bryd.

Pe byddai'r Cyngor yn cymryd penderfyniad o'r fath, byddai'n cael ei wneud gan y Cyngor Llawn ar ôl trafodaeth drwyadl a byddai'r rhesymau paham y penderfynwyd felly'n cael eu cofnodi. Ni fyddai hawl i apelio yn erbyn penderfyniad o'r fath.

### 4.5 Canolfannau Adloniant Teuluol Ddidrwydded

Pan nad oes gan eiddo Drwydded Eiddo ond dymunir cael peiriannau hapchwarae gellir cyflwyno cais i'r awdurdod trwyddedu am y caniatâd hwn.

Dim ond os yw'r awdurdod trwyddedu'n fodlon y defnyddir yr eiddo fel Canolfan Adloniant Teuluol didrwydded, ac os ymgynghorwyd gyda phrif swyddog yr heddlu, y rhoddir caniatâd. Yr hyn a ystyrir yn berthnasol wrth benderfynu ar y cais fydd addasrwydd yr ymgeisydd, megis a oes ganddo unrhyw record droseddol a fyddai'n ei wneud yn anaddas i redeg canolfan adloniant teuluol, ac addasrwydd yr eiddo o ran lleoliad ac a oes yno hanes o anhrefn.

Byddai'r Awdurdod yn disgwyl i'r ymgeisydd ddangos y byddai yna bolisïau a gweithdrefnau yn eu lle er mwyn amddiffyn plant rhag niwed. Yn y cyswllt hwn, ni fyddai niwed wedi'i gyfyngu i niwed o ganlyniad i gamblo ond byddai'n cynnwys ystyriaethau amddiffyn plant ehangach megis hyfforddiant staff am driwantiaeth posibl, sut i ddelio â phlant nad ydynt yn cael eu goruchwylio, plant ifanc iawn neu blant sy'n achosi problemau yn yr eiddo neu yn y cyffiniau.

### 4.6 Canllawiau Ychwanegol

Mae'r Cyngor yn nodi fod y term 'Peiriant Hapchwarae' erbyn hyn yn golygu pob peiriant gamblo ac mae'r term yn cael ei ddefnyddio yn y Ddeddf gan ei fod yn un hawdd i'w ddeall. Mae'r diffiniad o 'beiriannau hapchwarae' yn ehangach yn Neddf Gamblo 2005 nag mewn deddfwriaeth gamblo o'r blaen ac mae'n berthnasol i bob math o weithgareddau gamblo y gellir eu cynnal ar beiriant, gan gynnwys betio ar ddigwyddiadau rhithiol.

Dylid nodi, fodd bynnag, fod gwahaniaeth o hyd rhwng peiriannau sy'n profi sgil a pheiriannau hapchwarae a bod dal eithriadau pwysig ynghylch pam nad yw peiriant yn cael ei ystyried yn beiriant hapchwarae hyd yn oed pan mae'n cael ei ddefnyddio ar gyfer gamblo, er enghraifft, cyfrifiadur personol yn y cartref.

Mae Deddf Gamblo 2005 yn rhoi'r hawl i'r Ysgrifennydd Gwladol baratoi rheoliadau i ddiffinio pedwar dosbarth o beiriannau hapchwarae. Dangosir y manylion sydd ar gael gan y Comisiwn Gamblo ar hyn o bryd yn Atodiad E ynghyd â thabl yn crynhoi'r darpariaethau. Nid yw'r Comisiwn Gamblo wedi gorffen ymgynghori ynghylch hyn eto.

### 4.7 Loterïau Bychan

Bydd y Cyngor yn dal i drwyddedu loterïau bychan ond gyda gweithdrefnau ychydig yn wahanol. Cyhoeddir y manylion fis Medi 2006 gan y Comisiwn Gamblo. Gellir cael manylion pellach ar wefan y Comisiwn Gamblo o dan 'Guidance to Licensing Authourities – Small Society Lotteries.

Bydd yr Awdurdod yn mabwysiadu agwedd sy'n seiliedig ar risg tuag at ei gyfrifoldebau gorfodi ar gyfer loterïau cymdeithasau bach. Mae'r awdurdod yn ystyried y gallai'r rhestr ganlynol o bethau, er nad yw'n rhestr gyfyngedig, effeithio ar statws risg y gweithredwr:

- cyflwyno dychweliadau hwyr (rhaid cyflwyno dychweliadau ddim hwyrach na thri mis ar ôl y dyddiad y cynhaliwyd y loteri).
- byddai cyflwyno dychweliadau anghyflawn neu anghywir yn torri'r cyfyngiadau ar gyfer loterïau cymdeithasau bach

### 4.8 Eiddo wedi'i rannu

Bydd y Cyngor yn talu sylw penodol os bydd unrhyw faterion yn ymwneud ag is-rannau o un adeilad neu blot a byddant yn sicrhau y glynir wrth amodau gorfodol yn ymwneud â mynediad.

Yn y cyswllt hwn bydd y Cyngor yn ystyried:
Os oes gan yr eiddo gofrestriad ar wahân ar gyfer trethi busnes.
Os yw'r eiddo cyfagos yn berchen i unigolyn gwahanol.
Os gellir cael mynediad i'r eiddo cyfagos o'r stryd neu'r dramwyfa gyhoeddus.
Os gellir ond cael mynediad gan eiddo gamblo trwyddedig eraill.

## 5. Amodau Trwyddedu a Chodau Ymarfer 2015 (LCCP)

Fe wnaeth y Comisiwn Gamblo ryddhau LCCP ym mis Chwefror 2015 gyda dyddiad dechrau o Mai 2015. Fe wnaeth y cod gryfhau anghenion y cod cyfrifoldeb cymdeithasol (SR). Gellir cael mynediad i fanylion y codau LCCP ac SR drwy wefan y Comisiwn Gamblo drwy fynd i www.gamblingcommission.gov.uk

Mae'r cod yn nodi bod angen i weithredwyr:

- Goruchwylio cwsmeriaid yn effeithiol ar eiddo gamblo ac adnabod cwsmeriaid a allai fod yn agored i risg cysylltiedig â gamblo.
- O Ebrill 2016 ymlaen, bod â chynllun mewn lle er mwyn galluogi cwsmeriaid i hunan-eithrio eu hunain o'r holl weithredwyr o fath tebyg yn yr ardal lle maent yn byw ac yn gweithio.
- Meddu ar amrywiaeth o fesurau cysylltiedig â marchnata er mwyn sicrhau cyfrifoldeb cymdeithasol sy'n dryloyw ac nad yw'n gamarweiniol.
- O Ebrill 2016 ymlaen, cynhyrchu asesiad risg ar eiddo unigol, a
- Cael polisïau, gweithdrefnau a mesurau rheoli yn eu lle er mwyn lliniaru risgiau lleol i'r amcanion trwyddedu.

## 6 Asesiadau Risg – Eiddo Betio

6.1
Mae angen asesiadau risg o'r fath gan ymgeiswyr newydd a gan ddalwyr trwydded presennol sydd am amrywio trwydded. Mae'r cod yn nodi bod angen i holl weithredwyr: Casinos, AGC, Eiddo Bingo, FEC, siopau betio a chyfryngwyr betio o bell i asesu risgiau lleol i'r amcan trwyddedu ac i gael polisïau, gweithdrefnau a mesurau rheoli yn eu lle er mwyn ceisio lliniaru'r risgiau hynny.

6.2 Yn unol â'r cod AR mae angen i weithredwyr sicrhau bod yr asesiad risg ar gael ar gyfer awdurdodau trwyddedu pan gyflwynir cais un ai am drwydded Eiddo Newydd neu ar gyfer amrywio Trwydded Eiddo, neu fel arall ar gais a bydd hyn yn ffurfio rhan o broses Arolygu'r Awdurdod Lleol a gellir gwneud cais i'w weld pan fydd swyddogion yn ymchwilio i gwynion.

6.3 Mae'r cod yn nodi bod yn rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu nodi'r materion maent yn disgwyl i'r gweithredwr eu hystyried yn yr asesiad risg yn ei ddatganiad polisi a byddai'r Awdurdod Trwyddedu hwn yn argymell y dylai gweithredwyr ystyried y materion canlynol wrth wneud eu hasesiad risg:

- Gwybodaeth sydd gan ddeilydd y drwydded am hunan waharddiadau ac achosion o gamblo dan oed,
- Tueddiadau hapchwarae a allai adlewyrchu taliadau budd-daliadau
- Trefniadau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth yn lleol mewn perthynas â hunan waharddiadau a thueddiadau hapchwarae.
- Lleoliad dinesig megis pellter o ysgolion, masnach amgylcheddol, ffactorau'n effeithio ar sŵn troed
- Yr amrywiaeth o gyfleusterau ger yr eiddo trwyddedig megis mannau gamblo eraill, banciau, swyddfeydd post, cyfleusterau lluniaeth ac adloniant
- Problemau hysbys yn yr ardal megis problemau sy'n codi o ganlyniad i bobl yn yfed ar y stryd, pobl ifanc yn ymddwyn mewn modd gwrthgymdeithasol, delio cyffuriau ac ati.

6.4
Byddai'r Awdurdod Trwyddedu yn argymell y dylai gweithredwyr ystyried y materion canlynol wrth gyflawni eu hasesiad risg.

Materion yn ymwneud â phlant a phobl ifanc, gan gynnwys:

- Sefydliadau, mannau neu ardaloedd lle disgwylir presenoldeb pobl ifanc megis ysgolion, clybiau ieuenctid, parciau a lleoliadau adloniant megis canolfannau bowlio, sinemas ac ati.
- Unrhyw le lle bydd plant yn dod at ei gilydd megis safleoedd bws, caffis, siopau ac unrhyw le arall sy'n denu plant.
- Ardaloedd sy'n lle mae pobl ifanc yn tueddu i gymryd rhan mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gynnwys gweithgareddau megis graffiti, yfed o dan oed ac ati.
- Achosion o geisio gamblo o dan oed sydd wedi'u cofnodi.

Materion yn ymwneud ag oedolion bregus, yn cynnwys:

- Gwybodaeth sydd gan ddeilydd y drwydded am hunan eithriadau ac achosion o gamblo o dan oed.
- Tueddiadau hapchwarae a allai adlewyrchu patrymau o ran taliadau budd-daliadau megis diwrnod talu
- Trefniadau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth yn lleol mewn perthynas â hunan waharddiadau a thueddiadau hapchwarae.
- Lleoliad dinesig megis pellter o ysgolion, masnach amgylcheddol, ffactorau'n effeithio ar sŵn troed
- Agosrwydd at eiddo y gall pobl fregus fod yn eu mynychu megis ysbytai, cartrefi gofal preswyl, cyfleusterau meddygol, meddygfeydd, swyddfeydd tai cynghorau, clinigau dibyniaeth neu ganolfannau cymorth, llefydd lle gall pobl sy'n gaeth i alcohol a chyffuriau ymgynnull ac ati.

Gallai materion eraill y gellid eu hystyried gynnwys:

- Materion ffydd, yn cynnwys yr holl enwadau ffydd neu grefydd gan gynnwys pellter o eglwysi, mosgiau, temlau neu fannau addoli eraill.

Nid yw hon yn restr hollgynhwysfawr ac mae'n rhaid ystyried ffactorau eraill nad ydynt ar y rhestr hon.

### 6.5 Mesurau Rheoli

Gallai mesurau rheoli y gellir eu hadnabod yn hawdd ar gyfer osgoi risgiau a ystyrir cynnwys cyfuniad o systemau, dyluniadau a mesurau corfforol. Er enghraifft er mwyn delio â'r risgiau sy'n gysylltiedig â phlant yn cael mynediad i eiddo gamblo â chyfyngiad oedran 18 oed, gallai'r gweithredwr adnabod y mesurau canlynol:

**Systemau:** Cerdyn PASS neu bolisïau gwirio oedran, cynllun her 21 a hyfforddiant staff

**Dyluniad**: Cynllun allanol na fydd yn denu plant i mewn i'r eiddo, bydd cynllun y fynedfa yn galluogi staff i fonitro'r bobl sy'n mynd i mewn ac allan o'r adeilad a phan fo'n briodol, eu herio ar sail eu hoedran.

**Corfforol**: TCC a synwyryddion electronig

## 9. Gwybodaeth bellach

Gellir cael gwybodaeth bellach ynghylch Deddf Gamblo 2005, y Datganiad hwn o Bolisi Trwyddedu a'r broses ymgeisio, gan gynnwys ffurflenni cais a chanllawiau gan

Y Swyddog Trwyddedu
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

Rhif Ffôn 01248 752840
Ffacs 01248 752884
E-bost www.dmjpp@anglesey.gov.uk

Gellir cael gwybodaeth hefyd oddi wrth

Gambling Commission
Victoria Square House
Birmingham
B2 4BP

Ffôn: 0121 230 6666

Gwefan: www.gamblingcommission.gov.uk

Atodiad A



## TABL O DDIRPRWYIADAU GWAITH TRWYDDEDU

Atodiad B

| Y MATER I'W DRAFOD | Y CYNGOR LLAWN | IS BWYLLGOR NEU BANEL | SWYDDOGION |
|---|---|---|---|
| Polisi trwyddedu tair blynedd | X | | |
| Polisi i beidio â chaniatáu casinos | X | | |
| Gosod Ffioedd – pan yn addas | | Pwyllgor Gwaith | |
| Cais am drwydded eiddo | | Pan dderbynnir sylwadau sydd heb eu tynnu'n ôl | Pan na dderbynnir sylwadau neu eu bod wedi'u tynnu'n ôl |
| Cais am amrywio trwydded | | Pan dderbynnir sylwadau sydd heb eu tynnu'n ôl | Pan na dderbynnir sylwadau neu eu bod wedi'u tynnu'n ôl |
| Cais am drosglwyddo trwydded | | Pan dderbynnir sylwadau oddi wrth y Comisiwn | Pan na dderbynnir sylwadau oddi wrth y Comisiwn |
| Cais am drwydded dros dro | | Pan dderbynnir sylwadau sydd heb eu tynnu'n ôl | Pan na dderbynnir sylwadau neu eu bod wedi'u tynnu'n ôl |
| Adolygu trwydded eiddo | | X | |
| Cais am hawlenni peiriannau / clwb hapchwarae | | Pan dderbynnir sylwadau sydd heb eu tynnu'n ôl | Pan na dderbynnir sylwadau neu eu bod wedi'u tynnu'n ôl |
| Diddymi hawlenni peiriannau / clwb hapchwarae | | X | |
| Ceisiadau am hawlenni eraill | | | X |
| Diddymu hawlenni peiriant hapchwarae eiddo trwyddedig | | | X |
| Ystyried hysbysiadau defnydd dros dro | | | X |
| Penderfyniad i gyflwyno gwrth hysbysiad i hysbysiad defnydd dros dro | | X | |
| Penderfynu a yw person yn Barti â Diddordeb | | | X |
| Penderfynu a yw sylwadau'n berthnasol | | | X |
| Penderfynu a yw sylwadau'n amherthnasol, yn ddisylwedd, yn flinderus neu'n ailadroddus | | | X |

## Atodiad C

**Manylion Cyswllt yr Awdurdodau Perthnasol**

| | |
|---|---|
| **Cyngor Sir Ynys Môn** | **Trwyddedu, Adain Safonau Masnach<br>Adran Gwasanaethau Amgylchedd a Thechnegol<br>Cyngor Sir Ynys Môn<br>Swyddfeydd y Cyngor<br>Llangefni<br>Ynys Môn<br>LL77 7TW<br>Dmjpp@ynysmon.gov.uk** |
| **Y Comisiwn Gamblo** | **Gambling Commission<br>Victoria Square House<br>Birmingham<br>B2 4BP<br>Rhif ffôn: 0121 230 6666<br>info@gamblingcommission.gov.uk** |
| **Heddlu Gogledd Cymru.** | **Adain Trwyddedu<br>Heddlu Gogledd Cymru<br>Yr Ala<br>Pwllheli<br>Gwynedd<br>LL53 5BU<br>Ian.williams4@nthwales.pnn.police.uk** |
| **Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru** | **Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru<br>Pencadlys<br>Ffordd Llanberis<br>Caernarfon<br>Gwynedd<br>LL55 2DF<br>Fs.wd.supv1@nwales-fireservice.org.uk** |
| **Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol** | **Swyddfeydd y Cyngor<br>Llangefni<br>Ynys Môn<br>LL77 7TW<br>Dwjssynysmon.gov.uk** |
| **Tollau a Chyllid EM** | **HM Revenue & Customs<br>National Registration Unit<br>Portcullis House<br>21 India Street<br>Glasgow<br>G2 4PZ** |

**Y Rhai yr Ymgynghorwyd â hwy**

Swyddogion Etholedig, Cyngor Sir Ynys Môn
Cynghorau Tref a Chymuned ar Ynys Môn
Y Comisiwn Gamblo
Gwasanaeth Heddlu Gogledd Cymru.
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.
Pennaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Sir Ynys Môn
Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ynys Môn
Pennaeth Addysg a Hamdden, Cyngor Sir Ynys Mon
Pennaeth Cynllunio Cyngor Sir Ynys Môn
Cymdeithas Bingo
Poppelston Allen
William Hill
Ladbrooks
Coral
Corbetts
Carefree Racing
Empire Bingo
Crown Leisure Links
Leisure Link
Sceptre Leisure Solutions Ltd
City Vending UK Ltd
Gamestec Leisure Ltd
Grŵp yn cynrychioli Eiddo Trwyddedig yn gwerthu alcohol
Perchnogion Safleoedd Carafannau
Grwpiau Crefyddol / Ffydd
Canolfannau Cynghori
Gam Care (Gamblwyr Anhysbys)
Byddin yr Iachawdwriaeth
Asiantaethau Rheoli Dyled
Urdd Gobaith Cymru
Undebau Llafur
Sefydliadau Gwirfoddol / Cymunedol yn gweithio gydag phlant / oedolion bregus

Cynrychiolwyr o ddeiliaid gwahanol drwyddedau yn yr Ardal a fydd yn cael eu heffeithio gan y polisi hwn.

Aelodau o'r cyhoedd a fydd yn cael eu heffeithio gan y polisi hwn.

Noder: Nid yw'r rhestr o angenrheidrwydd yn gyflawn. Bydd croeso i unrhyw un sy'n cael ei effeithio gan y polisi hwn gyflwyno sylwadau.

# Atodiad E

## Geirfa

Yn y Datganiad o Bolisi hwn, diffinnir y geiriau a'r termau canlynol fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **Amcanion Trwyddedu** | Fel y diffinnir yn adran 1.1 uchod. |
| **Y Cyngor** | Cyngor Sir Ynys Mon |
| **Ardal** | Ardal Ynys Mon sy'n cael ei gweinyddu gan y Cyngor |
| **Trwyddedau** | Fel y diffinnir yn adran 1.4 isod. |
| **Ceisiadau** | Am Drwyddedau neu Hawlenni fel y diffinnir yn adran 1.4 isod. |
| **Hysbysiadau** | Hysbysiadau Defnydd Dros Dro a Hysbysiadau Defnydd Achlysurol |
| **Y Ddeddf** | Deddf Gamblo 2005 |
| **Rheoliadau** | Rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf Gamblo 2005 |
| **Eiddo** | Unrhyw le sy'n cynnwys cerbyd, llestr neu strwythur symudol |
| **Côd Ymarfer** | Codau cysylltiedig o dan adran 24 Deddf Gamblo 2005 |
| **Mandadol** | Amod benodol y darperir ar ei chyfer yn y rheoliadau |
| **Amod** | Ynghlwm wrth y drwydded |
| **Awdurdod Cyfrifol** | Mae Deddf Gamblo 2005 yn diffinio'r canlynol fel awdurdodau cyfrifol ynghylch eiddo |

Yr Awdurdod Trwyddedu (Cyngor Sir Ynys Mon)

Y Comisiwn Gamblo

Heddlu Gogledd Cymru

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Adain Cynllunio Cyngor Sir Ynys Mon

Iechyd yr Amgylchedd, Cyngor Sir Ynys Mon

Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Sir Ynys Mon

Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi

## Atodiad F

## Tabl A

Isod, gwelir y cynigion diweddaraf gan y Comisiwn Gamblo ynglŷn â’r gwahanol gategorïau gyda’r betiau a’r gwobrau uchaf a all fod yn berthnasol.

| Machine category | Maximum stake (from January 2014) | Maximum prize (from January 2014) | Allowed premises |
|---|---|---|---|
| A | Unlimited | Unlimited | Regional Casino |
| B1 | £5 | £10,000 (with the option of a maximum £20,000 linked progressive jackpot on a premises basis only) | Large Casino, Small Casino, Pre-2005 Act casino and Regional Casinos |
| B2 | £100 | £500 | Betting premises and tracks occupied by pool betting and all of the above |
| B3 | £2 | £500 | Bingo premises, Adult gaming centre and all of the above |
| B3A | £2 | £500 | Members’ club or Miners’ welfare institute only |
| B4 | £2 | £400 | Members' club or Miners’ welfare club, commercial club and all of the above. |
| C | £1 | £100 | Family entertainment centre (with Commission operating licence), Qualifying alcohol licensed premises (without |

| Machine category | Maximum stake (from January 2014) | Maximum prize (from January 2014) | Allowed premises |
|---|---|---|---|
| [redacted] | | | additional gaming machine permit), Qualifying alcohol licensed premises (with additional LA gaming machine permit) and all of the above. |
| [redacted] | 10p | £5 | Travelling fairs, unlicensed (permit) Family entertainment centre and all of the above |
| [redacted] | 30p | £8 | All of the above. |
| [redacted] | £1 | £50 | All of the above. |
| [redacted] | 10p | £8 (of which no more than £5 may be a money prize) | All of the above. |
| [redacted] | 20p | £20 (of which no more than £10 may be a money prize) | All of the above. |

Table B expands on the above provisions coupling the premise type applicable to each machine category and numbers allowed per premises.

<table>
<tr><th></th><th colspan="7">Machine category</th></tr>
<tr><th>Premises type</th><th>A</th><th>B1</th><th>B2</th><th>B3</th><th>B4</th><th>C</th><th>D</th></tr>
<tr><td>Large casino<br>(machine/table ratio of 5-1 up to maximum)</td><td></td><td colspan="6">Maximum of 150 machines<br>Any combination of machines in categories B to D (except B3A machines), within the total limit of 150 (subject to machine/table ratio)</td></tr>
<tr><td>Small casino<br>(machine/table ratio of 2-1 up to maximum)</td><td></td><td colspan="6">Maximum of 80 machines<br>Any combination of machines in categories B to D (except B3A machines), within the total limit of 80 (subject to machine/table ratio)</td></tr>
<tr><td>Pre-2005 Act casino<br>(no machine/table ratio)</td><td></td><td colspan="6">Maximum of 20 machines categories B to D (except B3A machines), or any number of C or D machines instead</td></tr>
<tr><td>Betting premises and tracks occupied by pool betting</td><td></td><td></td><td colspan="5">Maximum of 4 machines categories B2 to D (except B3A machines)</td></tr>
<tr><td>Bingo premises[1]</td><td></td><td></td><td></td><td colspan="2">Maximum of 20% of the total number of gaming machines which are available for use on the premises categories B3 or B4</td><td colspan="2">No limit on category C or D machines</td></tr>
<tr><td>Adult gaming centre[2]</td><td></td><td></td><td></td><td colspan="2">Maximum of 20% of the total number of gaming machines which are available for use on the premises categories B3 or B4</td><td colspan="2">No limit on category C or D machines</td></tr>
<tr><td>Licensed family entertainment centre[3]</td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td colspan="2">No limit on category C or D machines</td></tr>
<tr><td>Family entertainment centre (with permit)[3]</td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td>No limit on category D machines</td></tr>
<tr><td>Clubs or miners' welfare institute (with permits)[4]</td><td></td><td></td><td></td><td></td><td colspan="3">Maximum of 3 machines in categories B3A or B4 to D</td></tr>
<tr><td>Qualifying alcohol-licensed premises</td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td colspan="2">1 or 2 machines of category C or D automatic upon notification</td></tr>
<tr><td>Qualifying alcohol-licensed premises (with licensed premises gaming machine permit)</td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td colspan="2">Number of category C-D machines as specified on permit</td></tr>
<tr><td>Travelling fair</td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td>No limit on category D machines</td></tr>
</table>

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Cyngor Sir** |
| **Dyddiad:** | **27 Medi 2016** |
| **Pwnc:** | **Strwythur Staffio – Uwch Swyddogion** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cynghorydd Alwyn Rowlands** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Scott Rowley** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Carys Edwards**<br>**01248 752502**<br>**Carys Edwards@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

1.0. Cefndir

Yn Ebrill 2013, cyflwynwyd adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr ar ailstrwythuro'r lefel Penaethiaid Gwasanaeth gyda'r nod o ostwng y nifer o 16 i 10.

Roedd y rhesymau dros ostwng y nifer yn canolbwyntio ar yr isod:

- Y ffaith mai ailstrwythuro'r penaethiad gwasanaeth oedd y cam nesaf yn dilyn ailstrwythuro'r Uwch Dîm
- O ganlyniad uniongyrchol i ailstrwythuro'r Uwch Dîm, y gydnabyddiaeth fod angen i swyddi'r penaethiaid gwasanaeth fod yn llawer mwy strategol eu ffocws
- Yr angen am strwythur penaethiaid gwasanaeth a oedd yn "addas i'r pwrpas" yng nghyd-destun targedau arbedion y Cyngor yn seiliedig ar faint yr Awdurdod.

Yn dilyn cyfnod o ymgynghori, daeth y strwythur newydd yn weithredol yn ystod haf 2013 (gweler y papur sydd ynghlwm).

Yn 2015, fe adolygwyd strwythur yr Uwch Dim Arweinyddiaeth unwaith eto yn wyneb penderfyniad y Prif Weithredwr ar y pryd i ymddeol. Roedd y rhesymau am yr ailstrwythuro hwnnw yn debyg iawn i'r hyn a nodir uchod, ac yn ystod haf 2015, cwblhawyd y penodiadau i'r strwythur newydd.

Yn ystod yr un cyfnod, fel rhan o gynllun arbedion y Cyngor, rhoddwyd gwahoddiad i

holl staff y Cyngor  ymgeisio am ddiswyddiad gwirfoddol.  Cafwyd un cais gan Bennaeth Gwasanaeth gyda hynny'n rhoi cyfle i ni ailystyried ymarferoldeb cadw'r strwythur presennol o 10 o benaethiaid gwasanaeth.

2.0. Camau Nesaf

Yn unol â chyfansoddiad y Cyngor, cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad llafar i'r Pwyllgor Penodiadau yn argymell y dylid derbyn y cais am ddiswyddiad gorfodol ac achub ar y cyfle i gyfuno dyletswyddau'r swydd wag gyda swydd pennaeth arall. Cefnogwyd yr argymhelliad hwn ac aethpwyd ati i wahodd mynegiadau o ddiddordeb o blith y Penaethiaid Gwasanaeth cyfredol.  Derbyniwyd dau gais ac fe benodwyd i'r swydd.

Ar 14 Mai 2015, cymeradwyodd y Cyngor Sir gynnig i ymestyn awdurdod y Prif Weithredwr i wneud newidiadau i deitlau'r swyddi a chynnwys rhai swyddi. (Adlewyrchir y penderfyniad hwnnw ym mharagraff 3.5.2.1 o'r cyfansoddiad.)

Nid oedd y pŵer hwn fodd bynnag, yn ymestyn i ddileu swyddi fel y maent yn ymddangos yn Rhan 7 or cyfansoddiad.  Swyddogaeth i'r Cyngor llawn yn unig yw hon. O'r herwydd, mae angen awdurdod y Cyngor i alluogi swyddogion i ddileu'r cyfeiriadau yn y Cyfansoddiad at swydd y Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd).

3.0. Argymhelliad

Bod y Cyngor yn derbyn y strwythur Penaethiaid diwygiedig a amlinellir uchod ac sydd wedi ei gynnwys ynghlwm, sy'n gostwng nifer gyfredol y swyddi Penaethiaid Gwasanaeth  i 9 a bod y Cyngor yn caniatáu i swyddogion ddileu unrhyw gyfeiriadau yn y Cyfansoddiad at swydd y Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd).

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Ddim yn berthnasol.

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Ddim yn berthnasol.

| **CH – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ddim yn berthnasol. |

| **D – A yw’r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ddim yn berthnasol. |


| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? Beth oedd eu sylwadau?** | | |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Sylwadau wedi eu derbyn. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Sylwadau wedi derbyn ac wedi cynnwys. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Sylwadau wedi eu derbyn ac wedi cynnwys, |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Awdur yr adroddiad. |
| 5 | **Eiddo** | Ddim yn berthnasol. |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | Ddim yn berthnasol. |
| 7 | **Sgriwtini** | Ddim yn berthnasol. |
| 8 | **Aelodau Lleol** | Ddim yn berthnasol. |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Ddim yn berthnasol. |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | Ddim yn berthnasol. |
| 2 | **Gwrthdlodi** | Ddim yn berthnasol. |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | Ddim yn berthnasol. |
| 4 | **Amgylcheddol** | Ddim yn berthnasol. |

| | | |
|---|---|---|
| **5** | **Cydraddoldebau** | Ddim yn berthnasol. |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | Ddim yn berthnasol. |
| **7** | **Arall** | Ddim yn berthnasol. |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| |




CC-14562-LB/193934